

**Bangor University**

## **DOETHUR MEWN ATHRONIAETH**

Ymrestru o dan y Faner: Dadansoddiad o'r modd yr atgynhyrchwyd cenedlaetholdeb gan sefydliadau a gweisg Cymraeg Cymru yn y 19eg ganrif

Jones, Ifan Morgan

*Award date:*  
2018

*Awarding institution:*  
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

### **General rights**

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

### **Take down policy**

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

**Prifysgol Bangor**

Ysgol y Gymraeg

**Ymrestru o dan y Faner:**

Dadansoddiad o'r modd yr atgynhyrchwyd  
cenedlaetholdeb gan sefydliadau a gweisg Cymraeg  
Cymru yn y 19eg ganrif

Ifan Morgan Jones

PhD

2018

# Crynodeb

Cydnabyddir bod y 19eg ganrif yn gyfnod ffurfiannol yn hanes ymffurfiad cenedl-wladwriaethau modern yn Ewrop. Addefir yn ogystal fod Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw yn meddu ar nifer o'r nodweddion a ddylai fod wedi esgor ar fudiad cenedlaethol amlwg, megis ei hiaith ei hun a gwasg genedlaethol lewyrchus. Mae'r cwestiwn 'Pam na ddigwyddodd hyn?' yn un sydd wedi codi'n aml yn y blynyddoedd diweddar yn sgil y cyferbyniad rhwng y datganoli cymharol araf a welir yng Nghymru a'r newidiadau gwleidyddol pellgyrhaeddol ar draws gweddill y Deyrnas Unedig.

Prif amcan y traethawd hwn fydd cynnig dadansoddiad amgen o'r hyn a fu'n gyfrifol am ddatblygiad cenedlaetholdeb Cymreig yng Nghymru yn y 19eg ganrif, gan roi'r pwyslais ar ddamcaniaethau 'offerynyddol' sy'n blaenoriaethu pwysigrwydd sefydliadau cenedlaethol, a hefyd y wasg argraffu. Prif gyfraniad y traethawd fydd dangos bod modd ieuo'r damcaniaethau hyn fel modd o esbonio datblygiad mudiadau cenedlaethol ymysg grwpiau sy'n meddu ar ieithoedd lleiafrifol ond sy'n rhan o genedl-wladwriaethau mwy sydd eisoes wedi moderneiddio. Wrth wneud hyn, byddaf hefyd yn herio damcaniaethau blaenllaw sydd wedi rhoi'r pwyslais yn hytrach ar ideoleg y Cymry wrth esbonio pam na fu mudiad cenedlaethol amlwg yn ystod y cyfnod hwn.

# Datganiad a Chaniatâd

## Manylion y Gwaith

Rwyf trwy hyn yn cytuno i osod yr eitem ganlynol yn y gadwrfa ddigidol a gynhelir gan Brifysgol Bangor ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall yr awdurdodir ei defnyddio gan Brifysgol Bangor.

**Enw'r Awdur:** .....Ifan Morgan Jones.....

**Teitl:** Ymrestru o dan y Faner: Dadansoddiad o'r modd yr atgynhyrchwyd cenedlaetholdeb gan sefydliadau a gweisg Cymraeg Cymru yn y 19eg ganrif

**Goruchwyliwr/Adran:** ..... Yr Athro Peredur Lynch / Adran y Gymraeg.....

**Corff cyllido (os oes):** .....

**Cymhwyster/gradd a enillwyd:** .....Doethuriaeth.....

Mae'r eitem hon yn ffrwyth fy ymdrechion ymchwil fy hun ac mae'n dod o dan y cytundeb isod lle cyfeirir at yr eitem fel "y Gwaith". Mae'n union yr un fath o ran cynnwys â'r eitem a osodwyd yn y Llyfrgell, yn amodol ar bwynt 4 isod.

## Hawliau Anghyfyngol

Mae'r hawliau a roddir i'r gadwrfa ddigidol trwy'r cytundeb hwn yn gwbl anghyfyngol. Rydw i'n rhydd i gyhoeddi'r Gwaith yn ei fersiwn presennol neu mewn fersiynau i ddod mewn man arall.

Cytunaf y gall Prifysgol Bangor gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Prifysgol Bangor o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

## Cadwrfa Ddigidol Prifysgol Bangor

Deallaf y bydd y gwaith a osodir yn y gadwrfa ddigidol ar gael i amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, yn cynnwys asiantau a pheiriannau chwilio awtomataidd trwy'r We Fyd Eang.

Deallaf unwaith y gosodir y Gwaith, y gellir ymgorffori'r eitem a'i metadata yn y catalogau neu'r gwasanaethau mynediad cyhoeddus, cronfeydd data cenedlaethol theses a thraethodau hir electronig megis EthOS y Llyfrgell Brydeinig neu unrhyw wasanaeth a ddarperir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Deallaf y bydd y Gwaith ar gael trwy Wasanaeth Theses Electronig Ar-Lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan y telerau a'r amodau defnydd a ddatganwyd (<http://www.llgc.org.uk/index.php?id=4676>). Cytunaf fel rhan o'r gwasanaeth hwn y gall Llyfrgell Genedlaethol Cymru gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

**Datganiad 1:**

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd onid fel y cytunwyd gan y Brifysgol ar gyfer cymwysterau deuol cymeradwy.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....17/4/18.....

**Datganiad 2:**

Canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r thesis hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle defnyddiwyd gwasanaethau cywiro, mae maint a natur y cywiriad wedi'i nodi'n glir mewn troednodyn/troednodiadau.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadau yn rhoi cyfeiriadau eglur. Mae llyfryddiaeth ynghlwm.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....17/4/18.....

**Datganiad 3:**

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar gyfer llungopiö, ar gyfer benthyciad rhynglyfrgellol ac i'w gadw'n electronig (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau fel y nodir yn natganiad 4), ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....17/4/18.....

**ON:** Dylai ymgeiswyr y mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo gwaharddiad ar fynediad ar eu rhan, ddefnyddio'r fersiwn canlynol o **Ddatganiad 3:**

**Datganiad 3 (gwaharddiad):**

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar gyfer llungopiö ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol ac i'w gadw'n electronig (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau fel y nodir yn natganiad 4), ar ôl i waharddiad ar fynediad ato ddod i ben.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....17/4/18.....

#### **Datganiad 4:**

DEWISWCH **un** o blith y dewisiadau isod

a) Cytunaf i osod copi electronig o'm thesis (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, a lle bo angen wedi cael y caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio deunydd trydydd parti.	X
a) Cytunaf i osod copi electronig o'm thesis (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, pan fydd y <b>gwaharddiad ar fynediad</b> cymeradwy wedi ei godi.	
c) Cytunaf i gyflwyno fy thesis (y Gwaith) yn electronig trwy gyfrwng system e-gyflwyno Prifysgol Bangor ond rydw i'n <b>dewis peidio</b> â chyflwyno copi electronig i Gadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig ac/neu unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, oherwydd na chafwyd caniatâd i ddefnyddio deunydd trydydd parti.	

*Dylid defnyddio Dewis B dim ond os yw'r Brifysgol wedi cymeradwyo gwaharddiad ar fynediad.*

#### **Yn ogystal â'r uchod rydw i hefyd yn cytuno â'r canlynol:**

1. Mai myfi yw'r awdur neu wedi cael awdurdod yr awdur(on) i ddod i'r cytundeb hwn a fy mod i felly'n rhoi'r hawl i Brifysgol Bangor i sicrhau bod y Gwaith ar gael yn y ffordd a ddisgrifiwyd uchod.
2. Bod y copi electronig o'r Gwaith a gadwyd yn y gadwrfa ddigidol ac sydd o dan y cytundeb hwn, yn union yr un fath o ran ei gynnwys â'r copi papur o'r Gwaith a osodwyd yn Llyfrgell Prifysgol Bangor, yn amodol ar bwynt 4 isod.
3. Fy mod i wedi cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y Gwaith yn wreiddiol a, hyd eithaf fy ngwybodaeth, nad yw'n torri unrhyw gyfreithiau – yn cynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â difenwi, enllib a hawlfraint.
4. Fy mod i mewn achosion lle mae eiddo deallusol awduron eraill neu ddeiliaid hawlfraint wedi ei gynnwys yn y Gwaith, a lle bo'n briodol, wedi cael caniatâd eglur i gynnwys y deunydd hwnnw yn y Gwaith, ac yn ffurf electronig y Gwaith fel y ceir mynediad ato trwy'r gadwrfa ddigidol mynediad agored, *neu* fy mod i wedi canfod ac wedi dileu'r deunydd hwn na roddwyd caniatâd digonol a phriodol ar ei gyfer ac na fydd modd mynd ato trwy'r gadwrfa ddigidol.
5. Nad oes unrhyw ymrwymiad gan Brifysgol Bangor i gymryd camau cyfreithiol ar ran y sawl sy'n cyflwyno'r gwaith, neu ddeiliaid hawliau eraill, os digwydd bod hawliau eiddo deallusol yn cael eu torri, neu unrhyw hawl arall yn y deunydd a gedwir.
6. Y byddaf yn indennio ac yn cadw wedi ei indennio Prifysgol Bangor a Llyfrgell Genedlaethol Cymru rhag ac yn erbyn unrhyw golled, atebolrwydd, hawl neu ddifrod, gan gynnwys yn ddigyfyngiad unrhyw ffioedd cyfreithiol a chostau llys cysylltiedig (ar sail indenniad llawn), sy'n gysylltiedig ar unrhyw achos lle'r ydw i wedi torri unrhyw amod yn y cytundeb hwn.

Llofnod: ..... Dyddiad : .....17/04/18.....

## **Diolchiadau**

Diolchiadau gwresog i'm goruchwyliwr, yr Athro Peredur Lynch, am y diddordeb a ddangosodd yn fy ymchwil dros y pum mlynedd diwethaf. Bûm yn ffodus iawn o allu ymelwa ar ei wybodaeth eang a'i gyfarwyddyd doeth. Dymunaf ddiolch hefyd i holl staff Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, am eu cymorth a'u caredigrwydd yn ystod cyfnod fy astudiaethau.

Yr wyf hefyd yn ddyledus iawn i holl staff Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau Prifysgol Bangor, am eu cefnogaeth a'u cyngor, yn enwedig Dr Eben Muse, Dr Stephanie Marriott, yr Athro Vian Bakir, yr Athro Nathan Abrams a Geraint Ellis.

Diolchaf hefyd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am noddi fy ymchwil yn ystod blwyddyn gyntaf y ddoethuriaeth.

Diolch o galon i fy mam am ei chymorth wrth sicrhau bod testun y ddoethuriaeth yn gwbl eglur, am ei hawgrymiadau wrth fathu termau, ac am fynd drwy'r proflenni â chrib fân wrth chwilio am wallau ieithyddol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i fy mhartner, Llinos, am ei chefnogaeth ryfeddol a'i chariad dros y pum mlynedd diwethaf. Diolch hefyd i'n plant, Mari Glwys, Magw Jên a Jano Rael, am eu cariad a'u cefnogaeth, ac yn fwy na dim eu hamynedd gyda thad sydd wedi rhoi'r flaenoriaeth i'w waith yn llawer rhy aml.

## **Cynnwys**

<b>Crynodeb</b>	2
<b>Diolchiadau</b>	6
<b>Rhagymadrodd</b>	8
<b>1 Agor y Maes</b>	22
<b>2 Cenedlaetholdeb a Chymru'r 19eg Ganrif</b>	62
<b>3 Rhyddfrydiaeth a Chenedlaetholdeb</b>	115
<b>4 Cenedlaetholdeb Ethnograffyddol a'r Iaith Gymraeg</b>	146
<b>5 Cymru'r Genedl Segmentedig</b>	200
<b>6 Cymru'r Gymuned Ddychmygedig</b>	277
<b>7 Y Wasg Gymraeg a Chenedlaetholdeb 'Banal'</b>	369
<b>Casgliad</b>	429
<b>Llyfryddiaeth</b>	442



## Rhagymadrodd

Ai ideoleg ryddfrydol y Cymry yn y 19eg ganrif a oedd yn gyfrifol am y ffaith na thorrodd y Cymry'n rhydd o'r Deyrnas Unedig a sefydlu eu cenedl-wladwriaeth eu hunain, gan orseddu'r Gymraeg yn iaith swyddogol y mwyafrif oddi mewn iddi? Fe fydd y traethawd hwn yn dadlau i'r gwrthwyneb, gan awgrymu'n hytrach mai'r diffyg sefydliadau Cymreig oddi ar y Ddeddf Uno a fu'n gyfrifol am ddiffyg datblygiad cenedlaetholdeb Cymreig yn ystod y ganrif honno. Heb eu sefydliadau eu hunain, a dim i'w hatal rhag mwynhau holl freintiau sefydliadau'r wladwriaeth ganolog, nid oedd cymhelliad digonol i'r Cymry, fel rhai o wledydd anhanesiol eraill Ewrop, fynnu ymreolaeth. Hyd yn oed wrth i'r wasg Gymraeg fwynhau 'oes aur' yn y 19eg ganrif, ni lwyddodd yr afrif gyfnodolion hyn i gynhyrchu ymdeimlad o 'gymuned ddychmygedig' Gymreig yn absenoldeb sefydliadau a fyddai wedi eu defnyddio yn gyfrwng er mwyn hybu disgwrs cenedlaetholdeb. Dyna gnewyllyn y ddadl y bydd y traethawd hwn yn treulio'r saith pennod nesaf yn ehangu arni.

Yn wir, byddaf yn dadlau bod yr egin genedlaetholdeb modern a ddatblygodd yn ystod y cyfnod hwn yn ganlyniad i'r ychydig sefydliadau hynny a fodolai yng Nghymru – yn benodol, eglwysi'r Ymneilltuwyr. Mae'r ddadl hon yn mynd ar drywydd gwahanol iawn i ddamcaniaeth wrthwynebol sydd wedi cyrraedd penllanw yn ddiweddar; damcaniaeth sy'n awgrymu bod yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol wedi llesteirio datblygiad cenedlaetholdeb a fyddai fel arall wedi esgor ar genedl-wladwriaeth gyda'i hiaith unigryw ei hun fel y gwelwyd ymysg rhai o genhedloedd anhanesiol Ewrop. Gwelir y ddadl hon ar ei mwyaf amlwg yng nghyfrol Simon Brooks, *Pam na fu Cymru?* (2015). Pwnc y gyfrol yw methiant cenedlaetholdeb Cymreig yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r cyd-destun Ewropeaidd cymharol. Drwy gyfosod

ymdrechion y Cymry yn anffafriol â'u cymdogion ar dir mawr Ewrop, heria Brooks farn rhai academyddion eraill na ellid beio'r Cymry eu hunain am eu ffawd. Anghytuna'n llwyr â'r academyddion hynny sy'n mabwysiadu agwedd sy'n gyfarwydd i ni o gân Dafydd Iwan, 'Yma o Hyd', h.y. goroesiad y Gymraeg a'r ymwybod cenedlaethol yn nannedd pob gwrthwynebiad. Yn eu mysg, yn ôl Brooks, y mae Geraint H. Jenkins, a ddywed yn rhagymadrodd *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*:

Ni fyddai neb ond yr hanesydd llymaf yn beirniadu Cymry Cymraeg blaengar oes Victoria am sylweddoli bod angen i'w cyd-wladwyr ddysgu siarad Saesneg yn rhugl... mewn cyfnod pan oedd economi Cymru yn newid y tu hwnt i bob adnabyddiaeth, byddai wedi bod yn amhosibl cynnal unieithrwydd Cymraeg ar raddfa eang. (Jenkins, 1999, p. 10)

Yn ôl Brooks mae'r dadansoddiad hwn "yn rhy esgusodol o lawer" (Brooks, 2015, p. 4). Gellid mae'n siŵr ychwanegu sawl academydd arall sy'n priodoli methiant Cymry i ffactorau economaidd, gan gynnwys Richard Wyn Jones, at garfan yr 'esgusodwyr'. Tra bod Richard Wyn Jones yn gweld y Cymry fel pobl a gafodd eu llusgo ymaith gan lif moderniaeth o du'r Saeson (2007, p. 49), dywed Brooks na "ellir defnyddio Prydain yn esgus dros y methiant Cymreig" (2010, p. 9).

Felly, tra bod nifer o academyddion yn mabwysiadu'r un safbwynt ag Ieuan Gwynedd Jones, drwy holi "How did it happen that the Welsh language survived when so many social forces appeared over the generations to be antipathetic to it?" (1992, pp. 54-55), mae Brooks yn troi'r ddadl ar ei phen, gan ofyn: "Pam nad yw Cymru heddiw'n wlad Gymraeg ei hiaith? Pam nad yw Cymru heddiw'n wlad annibynnol?", gan gymryd yn ganiataol mai dyma fuasai tynged

naturiol y genedl a gofyn beth a'i harweiniodd ar gyfeiliorn. Fel y dywed Dafydd Glyn Jones yn ei adolygiad o'r gyfrol ar ei flog Glyn Adda: "Nid oes neb cyn hyn, hyd y gallaf gofio, wedi gosod y ddau gwestiwn mor blwmp a phlaen" (2015). Ideoleg rhyddfrydiaeth yw cocyn hitio Brooks yma – ac mae'n ei ergydio'n ddirugaredd drwy gydol y gyfrol, gan wffio unrhyw ddadansoddiad amgen: "[yr] hyn a laddodd y Gymraeg," meddai, wrth grynhoi'r ddadl, "oedd Rhyddfrydiaeth... Cynigia Cymru brawf diymwad o ddrwgeffaith Rhyddfrydiaeth ar gymdeithas leiafrifol" (2015, p. 138).

Ond er ei fod yn mynd i'r afael â'r pwnc mewn modd mwy uniongyrchol na nifer o'i ragflaenwyr yn y maes, nid yw cnewyllyn dadl Brooks yn gyfan gwbl ddirugaredd. Mae fersiwn talfyredig o'r un ddadl i'w gweld yn ei chryswth yn *Hanes Cymru* John Davies:

Os cymherir sefyllfa grwpiau ethnig megis y Slofaciaid neu'r Slofeniaid â sefyllfa'r Cymry, gwelir bod gan y Cymry, yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, seiliau cadarnach i'w cenedligrwydd nag a feddai trwch cenedloedd anhanesiol Ewrop.

Aiff yn ei flaen, ychydig dudalennau yn ddiweddarach, i ystyried y prif wahaniaethau rhyngddynt:

Dichon mai ym maes ideoleg y gwelir y gwahaniaeth pennaf... benthycasant [yr Ymneilltuwyr] eu gwerthoedd deallusol gan Anghydfurfwyr dosbarth-canol trefi mawrion Lloegr, dosbarth a bwysleisiai hawliau unigolion, ond a oedd yn brin ei ddirnadaeth o hawliau naturiol cymunedau. (Davies, 2007a, pp. 380-5)

Cyflwynwyd yr un ddadl gan Robin Okey (1991, pp. 201-21), ac mae elfennau gwasgaredig i'w gweld yn ysgrifau Kenneth O. Morgan (1995, p. 206), Alun Davies (1964, pp. 18-9), Hywel Teifi Edwards (1989, p. 144), R. Tudur Jones (1966, p. 269; 1999, p. 250), D. Tecwyn Lloyd (1989, pp. 132-133), Deian Hopkin (1991, p. 175), ac Ieuan Gwynedd Jones (1992, p. 78).<sup>1</sup> Serch hynny, mae dadl Brooks yn un soffistigedig, ac yn anad dim wedi ail-gynnau fflam diddordeb y cyhoedd ac ambell ysgolhaig mewn pwnc sy'n fwy perthnasol byth yn sgil y referenda ar yr Undeb Ewropeaidd, annibyniaeth i'r Alban, a rhagor o rymoedd i'r Cynulliad.

Ceir dau osodiad canolog yn nadl Brooks, Davies ac Okey; y cyntaf yw bod gan y Cymry, yn hanner cyntaf y 19eg ganrif, gystal cyfle â'r un o genhedloedd anhanesiol Ewrop i sefydlu gwlad annibynnol a'r Gymraeg yn goron arni. Yr ail yw mai'r ideoleg ryddfrydol y meddai'r Ymneilltuwyr arni oedd un o'r prif ffactorau neu'r prif ffactor a lesteiriodd yr ymdrech honno. Fe fydd y traethawd hwn yn herio'r ddau osodiad hynny yn eu tro. Gan gyfeirio at waith rhai o'r damcaniaethwyr mwyaf blaenllaw yn rhyngwladol am genedlaetholdeb, a gwaith amryw o haneswyr Cymru, byddaf yn awgrymu nad yw'r ddadl 'ddiymwad' yn erbyn rhyddfrydiaeth yn argyhoeddi, nad oes tystiolaeth y byddai'r dewis amgen, ceidwadol, wedi esgor ar fudiad cenedlaethol Cymreig, ac yn hytrach fod ideoleg rhyddfrydiaeth yn ganolog i'r broses o greu cenedl wladwriaethau. Ond yn ogystal â chodi amheuan ynglŷn â'r esboniad uchod, rwyf hefyd yn awyddus i gynnig dadansoddiad amgen o ddatblygiad cenedlaetholdeb modern yng Nghymru yn y 19eg ganrif, a hynny gan gyfeirio yn bennaf at ddamcaniaethau Philip Roeder (2007), Benedict Anderson (1991), a Michael Billig (1995), ond gan gyfeirio yn ogystal at waith Partha Chatterjee (1996; 1993) a Mike Cormack (2000a) yn y maes.

---

<sup>1</sup> Y prif wahaniaeth a welir yng nghyfrol Brooks, felly, yw iddo weld bai ar y Cymry eu hunain, yn hytrach na gweld cenedl a oedd wedi ei rheoli gan rymoedd y tu hwnt i'w rheolaeth. Efallai fod rhywfaint o eironi yn y ffaith bod Brooks, drwy briodoli methiant y Cymry i'w diffygion eu hunain, (roeddynt yn "ddall ac yn ddi-hid" ac heb "wrhydi" rhai o genhedloedd eraill Ewrop, meddai, ac yn parhau felly hyd heddiw) yn mabwysiadu safbwynt sy'n debyg i'r union feddylwyr Ymneilltuol-Ryddfrydol y mae'n eu colbio, pobl megis J.R. ac S.R. Llanbryn-mair a gredai fod tlodi yn deillio o wendidau yng nghymeriad yr unigolyn (Brooks, 2015, pp. 78, 139).

Ni fydd y ddadl newydd hon yn perthyn i'r ddwy naratif ynglyn â chenedlaetholdeb Cymreig a ystyrir uchod; yr 'esgusodwyr' ar y naill law a'r rheini sy'n gweld 'methiant' ar y llall. Yn hytrach na gofyn pam na lwyddodd neu pam y methodd cenedlaetholdeb Cymreig yn ystod y cyfnod hwn, byddaf yn gofyn pam roedd cenedlaetholdeb Cymreig modern yn bodoli o gwbl? Nid dychwelyd at naratif cenedlaetholdeb Cymreig 'Yma o Hyd' yw hynny, oherwydd y mae'r naratif hwnnw yn rhagdybio bod y fath beth â chenedl a chenedlaetholdeb Gymreig modern eisoes yn anochel ac mai wedi eu trechu neu eu llesteirio y maent. Er bod Brooks yn ei eithrio ei hun o'r naratif hwnnw (2010, p. 5), mae yn yr un modd yn tybio bod y fath beth â chenedlaetholdeb modern Cymreig (a hwnnw'n un ieithyddol) bron yn anochel ar ddechrau'r 19eg a'i fod wedi ei drechu, gan ddiffyg gwrhydri'r Cymry yn hytrach nag ymdrechion y gelyn. Mae'r ddau naratif yn perthyn i'r un dilyniant sy'n rhagdybio bodolaeth chenedlaetholdeb Cymreig ieithyddol, ar sail 'gynddelwaidd' (bod cenedl y Cymry a cenedlaetholdeb ieithyddol yn rhywbeth oesol sydd i'w gymryd yn ganiataol) ar y naill law ac ar sail bodolaeth mudiadau cenedlaethol ieithyddol eraill yn Ewrop ar y llall. Awgryma'r traethawd hwn yn hytrach nad oedd datblygiad cenedlaetholdeb modern Cymreig, heb sôn am un ieithyddol, yn rhywbeth i'w gymryd yn ganiataol ar ddechrau'r 19eg ganrif, ac yn wir mai'r unig reswm y mae'n bodoli o gwbl yw bod yr union bobl hynny sydd bellach wedi eu cyhuddo o'i llesteirio wedi dod ag ef i fodolaeth.

### *Pennod 1*

Bwriad y bennod gyntaf fydd cynnig trosolwg o'r llenyddiaeth ym maes datblygiad cenedlaetholdeb. Byddaf yn cyfosod damcaniaethau'r 'modernwyr' a'r 'haufodolwyr',<sup>2</sup> cyn dadlau nad yw'r termau hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth ymchwilio i genedlaetholdeb

---

<sup>2</sup> 'Modernists' a 'primordialists' yn y Saesneg wreiddiol.

Cymreig. Awgrymaf yn hytrach y dylid mabwysiadu y term ‘adeiladaeth’<sup>3</sup> a awgrymwyd gan Umüt Özkirimli (2000, pp. 183-4, 216-7) am ei fod yn caniatáu ystyried bod cenedlaetholdeb yn ffenomen sy’n newid yn gyson (h.y. nad oes ryw naws mewn cenedl sy’n gyson drwy ei hanes), ond eto bod modd olrhain ei fodolaeth i gyfnod cyn y chwyldro diwydiannol yn y 19eg ganrif. Bydd y bennod hon hefyd yn cynnig trosolwg o rai o’r prif ddamcaniaethwyr yn y maes y bydd eu gwaith yn allweddol wrth gynnig fy nadansoddiad innau o’r hyn a oedd wrth wraidd cenedlaetholdeb Cymreig y 19eg ganrif. Byddaf yn nodi pwysigrwydd y wasg argraffu i ddamcaniaethau ar genedlaetholdeb, gan drafod gwaith Benedict Anderson, Michael Billig ac eraill, yn ogystal â chyflwyno gwaith yr Offerynwyr<sup>4</sup> gan gynnwys Philip Roeder. Yng ngoleuni’r damcaniaethau hyn, dadleuaf fod y newid sefydliadol a thechnolegol a welir yn y 19eg ganrif wedi newid hynt cenedlaetholdeb yn llwyr, ond bod modd olrhain rhai agweddau ar genedlaetholdeb y Cymry i gyfnodau cynharach yn ogystal.

Rhennir gweddill y traethawd yn ddwy ran. Fe fydd y rhan gyntaf – pennodau 2, 3 a 4 - yn bwrw golwg ar y damcaniaethau blaenllaw yn y maes sydd wedi ceisio esbonio hynt cenedlaetholdeb Cymreig yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn benodol felly, ceir damcaniaethau sy’n dadlau mai rhyddfrydiaeth *laissez-faire* y Cymry sydd yn gwahaniaethu rhyngddynt a mudiadau cenedlaethol ‘llwyddiannus’ ymysg cenhedloedd anhanesiol canol a dwyrain Ewrop (Davies, 2007a; Brooks, 2015; Okey, 1991; Brooks, 2010), a rhai eraill sy’n honni mai’r modd y cafodd Cymru ei diwydiannu yn helaeth ac yn gyflym sy’n gyfrifol (Hechter, 1975; Nairn,

---

<sup>3</sup> Constructivist yn y Saesneg wreiddiol.

<sup>4</sup> Bathiad Cymraeg yw hon ar gyfer y gair Saesneg ‘instrumentalist’. Mae damcaniaethau offerynyddol ynglŷn â chenedlaetholdeb yn ystyried hunaniaeth genedlaethol ac ethnig yn rhywbeth sy’n datblygu o ganlyniad i weithredoedd grwpiau sy’n gweithredu er eu budd eu hunain, er mwyn ennill mantais economaidd neu rym. Mae gweithiau sy’n trafod damcaniaeth offerynyddol yn tueddu i ganolbwyntio ar y modd y mae unigolion neu grwpiau yn cyflawni eu nod gwleidyddol drwy fynd ati’n fwriadol i newid hunaniaeth genedlaethol neu ethnig. Datblygodd y llinyn hwn o fewn damcaniaethau ar genedlaetholdeb o ganlyniad i bwyslais Marcsaidd ar dueddiad y Bourgeois i ddefnyddio gwrthdaro ethnig er mwyn cwrdd â’u dibenion eu hunain. Bydd trafodaeth bellach ar ddamcaniaethau offerynyddol yn y bennod gyntaf.

2003; Hroch, 2000; Jones, 2007). Wedi tafoli cryfderau a gwendidau y damcaniaethau hyn yn y rhan gyntaf, byddaf yn ail ran y traethawd yn cyflwyno fy namcaniaeth wreiddiol fy hun ynghylch pam y datblygodd cenedlaetholdeb Cymreig fel ag y gwnaeth, gan roi'r pwyslais ar ddamcaniaethau sy'n pwysleisio pwysigrwydd sefydliadau gwleidyddol wrth atgynhyrchu disgwrs cenedlaetholdeb, ac hefyd ddamcaniaethau sy'n rhoi lle blaenllaw i'r wasg argraffu (Anderson, 1991; Billig, 1995; Roeder, 2007). Dadleuaf fod hynt cenedlaetholdeb yng Nghymru yn y 19eg ganrif yn dangos bod modd ieuo'r ddwy gangen hyn gyda'i gilydd, mewn modd a allai fod o ddefnydd wrth drafod cenhedloedd lleiafrifol eraill sy'n wynebu amgylchiadau tebyg.

## *Pennod 2*

Fe fydd yr ail bennod yn dadlau bod dealltwriaeth Brooks o'r hyn sy'n symbylu cenedlaetholdeb, sef ei fod yn reddf geidwadol sy'n deillio o ddymuniad i warchod nodweddion ethnig cenedl, yn wahanol i'r modd y ystyrir ef gan fwyafrif y damcaniaethwyr blaenllaw eraill yn y maes. Tra bod y rhelyw o ddamcaniaethwyr yn cytuno nad yw'r chwyldro diwydiannol a mewnfudo ynddynt eu hunain yn cynnig esboniad digonol ar drywydd cenedlaetholdeb Cymreig, dengys eu gwaith nad oedd sail i rwyg diwylliannol ar sail llafur rhwng y Cymry a'r Saeson am eu bod eisoes mewn perthynas economaidd symbiotig â'i gilydd yng Nghymru. Er bod rhai o feirniadaethau Brooks o ddamcaniaethau Hroch, Hechter a Nairn yn ddilys, nid yw'n mynd i'r afael â'r pwynt craidd sydd ymhlyg yn eu dadleuon, sef nad oedd cymhelliad digonol i Gymry a oedd wedi eu hintegreiddio yn economaidd o fewn Lloegr, ac yn elwa o fuddsoddiad masnachwyr o Loegr, chwenychu annibyniaeth. Lle'r oedd rhwyg diwylliannol ar sail llafur yn amlwg, e.e. ymysg chwarelwyr gogledd Cymru, gwelir ymdrechion i hybu ymdeimlad o genedlaetholdeb Cymreig o'r herwydd. Dadleuaf na ddylai cymhariaethau â gwledydd anhanesïol eraill yng nghanol Ewrop ein harwain i'r casgliad mai

diffyg ‘gwrhydri’ oedd ar fai am ymddygiad y Cymry hyn, oherwydd bod eu dosbarth canol hwynt yn meddu ar gymhellion i feithrin eu hunaniaeth cenedlaethol arwahanol ymysg eu pobl. Meddant ar economïau integredig nad oedd yn ddibynnol ar eu cymdogion yn yr un modd ag ydoedd economi Cymru ar Loegr. Awgrymaf yn ogystal fod damcaniaeth Alexander Gerchenkron ynglŷn â’r modd y gall diwydiannu cyflym esgor ar ideolegau ffyrnig sy’n ffafrio newid a moderneiddio yn dangos nad oes modd ysgaru ideoleg ryddfrydol y Cymru oddi wrth y diwydiannu cyflym a welwyd yn ystod y cyfnod hwnnw beth bynnag, a bod y ddeubeth i raddau helaeth wedi atgyfnerthu ei gilydd.

### *Pennod 3*

Soniwyd eisoes fod y cyhuddiad yn erbyn rhyddfrydiaeth yn un deublyg – ar y naill law, ei bod yn gyfrifol am atal mudiad cenedlaethol amlwg yng Nghymru, a hefyd ei bod yn gyfrifol am agweddau’r Cymry at yr iaith Gymraeg. Aiff y drydedd bennod i’r afael â’r cyntaf o’r cyhuddiadau hyn. Dadleuaf yn y bennod honno nad yw ideoleg rhyddfrydiaeth yn esbonio tranc cenedlaetholdeb Cymreig, oherwydd bod yr ideoleg honno mewn gwirionedd yn annatod glwm wrth dwf cenedlaetholdeb. Diben dechreuol cenedlaetholdeb modern oedd darparu’r glud a fyddai’n dwyn tynged y dosbarth canol a’r dosbarth gweithiol ynghyd, a hynny yn erbyn yr hen drefn ffiwdal, megis yr uchelwyr a’r eglwys wladol. Roedd ideoleg rhyddfrydiaeth yn darparu dau gysyniad a wnâi gread y genedl-wladwriaeth fodern, ac felly cenedlaetholdeb modern, yn bosib; y cyntaf oedd y dylid trosglwyddo grym i ddwylo’r bobl, ac yn ail y dylid gwahaniaethu rhwng y ‘cynhyrchiol’ a’r segur – h.y. y dosbarthiadau gweithiol a chanol a’r grymoedd ffiwdal (yn achos Cymru, y tiffeddianwyr a’r eglwys wladol) yr oeddynt am eu diorseddu. Heb ryddfrydiaeth, felly, nid oedd sail i raniad diwylliannol ar sail llafur rhwng y Cymry a gweddill y Deyrnas Unedig. Awgrymaf yn ogystal mai anacronism yw trafod ceidwadaeth radical yng nghyd-destun y 19eg ganrif, fel y gwna Brooks, ac mai nodwedd



ceidwadaeth yn ystod y cyfnod dan sylw oedd cynnal sefydliadau ffiwdal a ataliai ddatblygiad cenedloedd modern. Ni allai mudiad cenedlaethol fod wedi tarddu o blith yr Anglicaniaid yng Nghymru, am mai holl ddiben disgwrs cenedlaetholdeb oedd ennill cefnogaeth *dorfol* i amcanion hyrwyddwyr y mudiad, nid cynnal sefydliadau ffiwdal a oedd yn seiliedig ar hawl Ddwyfol yr uchelwyr a'r Eglwys Sefydledig i lywodraethu dros y bobl. Dadleuir yn ogystal nad oedd agwedd *laissez-faire* yr Ymneilltuwyr at eu rhyddid crefyddol eu hunain yn eu hatal rhag bod yn bur geidwadol wrth ymosod ar ryddid grwpiau eraill nad oeddynt yn gweld lygad yn llygad â hwy, ac felly ni ellir dadlau bod eu hagwedd at amddiffyn iaith a diwylliant y Cymry yn deillio'n uniongyrchol o'u rhyddfrydiaeth. Gan ddychwelyd at y gymhariaeth â mudiadau cenedlaethol canol Ewrop, dadlauaf mai anghywir yw'r awgrym eu bod yn sylfaenol geidwadol yn hytrach na rhyddfrydol; y gwahaniaeth pennaf rhyngddynt yn hytrach oedd bod Cymru eisoes yn rhan o genedl-wladwriaeth fodern, tra oedd gwledydd canol Ewrop yn perthyn i deyrnasoedd llinachyddol o arglwyddiaethau unigol nad oedd y cysylltiadau rhyngddynt mor wydn.

#### *Pennod 4*

Yn y bedwaredd bennod byddaf yn mynd i'r afael ag ail elfen y cyhuddiad; sef bod agwedd led-negyddol, neu ddi-hid o leiaf, nifer o'r Cymry Ymneilltuol-Ryddfrydol tuag at y Gymraeg yn deillio o'u rhyddfrydiaeth. Dadleuaf yn hytrach fod yr agwedd hon at y Gymraeg yn deillio o genedlaetholdeb ethnogrefyddol a oedd yn llawer hŷn, ond a ddaeth i amlygrwydd torfol yn y 19eg ganrif. Cyfeiriaf at ddamcaniaeth tri cham Miroslav Hroch er mwyn dadlau bod y gwaith o lunio naratif ynglŷn â nodweddion unigryw ieithyddol, hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol Cymru wedi dechrau ymysg Dyneiddwyr Cymreig yr 16eg ganrif. Parhad yn hytrach na newid o'r cyfnod hwnnw oedd agwedd yr Ymneilltuwyr a'r Anglicaniaid fel ei gilydd at yr iaith - cyfrwng ydoedd i achub eneidiau, ac roedd ei phwysigrwydd yn eilradd i

grefydd ym mhob ystyr. Er y defnyddir dadleuon rhyddfrydol ar y ddwy ochr i'r ddadl hon, o blaid cadw a chefnu ar y Gymraeg, y prif gymhelliad oedd pryderon ar y naill law y byddai ei thranc yn arwain at wanhau'r dylanwad Ymneilltuol yng Nghymru, a'r teimlad ar y llall fod angen pregethu fwyfwy yn Saesneg oherwydd newid ieithyddol yn y gymdeithas yn ehangach. Dadleuaf mai rhyddfrydiaeth a achubodd y Gymraeg o'r sefyllfa hon yn y pen draw, wrth iddi arwain at seciwlareiddio cynyddol a blaenoriaethu cenedlaetholdeb ieithyddol gan Emrys ap Iwan ac eraill a gefnai ar draddodiad ethnogrefyddol y gorffennol. Awgrymaf y gall damcaniaeth Partha Chatterjee ynglyn â'r modd y datblygodd cenedlaetholdeb mewn gwledydd trefedigaethol fod o fudd i ni ddeall sut y gallai cadw'r Gymraeg o fewn 'cocŵn' ysbrydol yr Ymneilltuwyr fod wedi ei diogelu at y dyfodol nes 'deor' cenedlaetholdeb ieithyddol ar ddechrau'r 20fed ganrif.

#### *Pennod 5*

Wedi rhestru'r holl amgylchiadau a oedd yn milwrio yn erbyn datblygiad cenedlaetholdeb ieithyddol Gymreig yn y 19eg ganrif yn hanner cyntaf y traethawd, byddaf yn yr ail hanner yn cynnig fy thesis innau ynglŷn â pham y datblygodd cenedlaetholdeb ieithyddol Cymreig o gwbl. Awgrymaf fod angen cefnu ar y ddelwedd ramantus o fudiad cenedlaethol yn ymgyrchu am ryddid, ac yn hytrach gofleidio darlun Scott (2004, pp. 7, 8) o gyfres o droeon trwstan sy'n arwain at annibyniaeth drwy ddamwain. Mae damcaniaeth 'cenedloedd-segmentedig' Roeder yn awgrymu mai cryfder sefydliadau o fewn cenedloedd segmentedig yw'r rhagfynegiad gorau o debygrwydd cenedl o ennill annibyniaeth, ac mai myth cenedlaetholdeb yw bod annibyniaeth yn deilio'n wreiddiol o gefnogaeth torfol y bobl. Ar sail y ddamcaniaeth hon, awgrymaf fod gwendid cenedlaetholdeb yng Nghymru nid yn unig yn deillio o absenoldeb sefydliadau amlwg o'r fath, ond hefyd o'r ffaith na osodwyd unrhyw rwystr i'r Cymry rhag myned yn rhan o sefydliadau Lloegr ar yr amod eu bod yn fodlon gosod eu hiaith o'r neilltu.

Dadleuaf fod yr amgylchiadau yn bur wahanol yng Nghymru o'i chymharu â chenedloedd anhanesiol eraill yn Ewrop lle'r oedd yr elit brodorol yn wynebu cael eu cau allan wrth i'r broses o ganoli grym fynd rhagddo. Creffir ar genedlaetholdeb Cymreig y 19eg ganrif, gan ddod i'r casgliad mai gwedd ar 'gyfranogaeth' ydoedd, gyda'r pwyslais ar yr hyn a oedd gan y Cymry i'w gynnig i'r Deyrnas Unedig ehangach. Dadleuaf fod yr agweddau hyn yn gwbwl ddisgwyliadwy o fewn fframwaith damcaniaethau Roeder, a damcaniaeth Benedict Anderson ynglŷn â datblygiad mudiadau cenedlaethol mewn cenedloedd gwladwriaethol yn ogystal.

Yn hytrach na bod yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol wedi llesteirio datblygiad mudiad cenedlaethol yng Nghymru, awgryma'r damcaniaethau uchod fod cenedlaetholdeb ieithyddol yr 20eg ganrif yn deillio o ymdrechion Ymneilltuwyr y 19eg ganrif. Dadleuaf nad oes sail i'r honiad nad oedd ymgyrch yr Ymneilltuwyr yn cynrychioli mudiad cenedlaethol am nad oeddynt yn cael cefnogaeth y cyhoedd drwyddo draw, gan y dengys damcaniaeth Roeder mai lleiafrif o fudiadau cenedlaethol sydd yn denu cefnogaeth dorfol unedig mewn gwirionedd. Ymhellach, roedd y ffaith fod yr Ymneilltuwyr wedi canolbwyntio ar ddatgysylltiad yr Eglwys Wladol yn hytrach nag ymreolaeth yn adlewyrchiad o'r ffaith nad oeddynt yn wynebu dewis rhwng annibyniaeth neu gaethiwed dan reolaeth cenedl-wladwriaeth estron yn yr un modd â nifer o wledydd eraill a enillodd annibyniaeth yn yr 20fed ganrif. Dadleuir, yn absenoldeb sefydliadau cenedlaethol eraill o bwys, fod yr eglwysi Ymneilltuol wedi tyfu mewn grym a dylanwad gan gynnig math o system lywodraethol ar gyfer cymunedau yng Nghymru. Yn eu tro fe esgorodd y sefydliadau hyn ar rai eraill o'r math y cydnabydda Roeder eu pwysigrwydd wrth hybu cenedlaetholdeb, megis prifysgolion, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd. Tanlinellwyd eu pwysigrwydd gan fethiant y Cymry i ddal gafael ar 'ethne' seciwlar yn flaenorol – collwyd y rhan fwyaf o waddol diwylliannol y canol oesoedd. Dadleuaf nad yw cenedlaetholdeb ieithyddol Emrys ap Iwan a Michael D. Jones yn gwrthbrofi dadl Roeder, am eu bod ill dau

wedi datblygu eu syniadaeth o ganlyniad i ymweliadau â chenhedloedd segmentedig eraill, ac wedi methu â dylanwadu ar eu cyfoeswyr yn absenoldeb cefnogaeth sefydliadau i'w hamcanion. Rhaid nodi'n ogystal fod y ddau wedi awgrymu creu sefydliadau gwleidyddol fel modd o gynnig cymhelliad i'r Cymry i gadw eu hiaith. Awgrymaf yn hytrach mai Thomas Gee oedd fwyaf cynrychioliadol o'r cyfeiriad y byddai cenedlaetholdeb Cymreig yn symud iddo yn yr 20fed ganrif, gan fod mantais amlwg iddo hybu cenedlaetholdeb ieithyddol er budd ei wasg Gymraeg ei hun.

Yn ogystal â sefydliadau, nodir yn y bennod gyntaf y lle blaenllaw a gaiff y wasg argraffu o fewn damcaniaethau am genedlaetholdeb. Fe fydd y ddwy bennod olaf yn canolbwyntio'n benodol ar ddylanwad y wasg argraffu ar genedlaetholdeb yng Nghymru, yn enwedig felly yn ystod 'oes aur' y wasg Gymraeg rhwng yr 1850au a diwedd y ganrif. Mae anallu'r bwrlwm cyhoeddi hwn i hybu mudiad cenedlaethol wedi peri dryswch i academyddion, ac fel pe bai'n gwrth-ddweud y pwysigrwydd a roddir i'r wasg argraffu gan ddamcaniaethau blaenllaw am genedlaetholdeb. Byddaf yn dadlau yn hytrach fod y wasg Gymraeg yn cadarnhau damcaniaethau Anderson a Billig a byddaf yn archwilio'r gyntaf ohonynt ym mhennod chwech, gan drafod grym *gweledol* a *symbolaidd* y wasg Gymraeg, a'r ail ym mhennod saith, gan drafod y *disgwrs* a ddefnyddir gan y wasg.

### *Pennod 6*

Ym mhennod chwech, byddaf yn dadlau nad oedd 'oes aur' y wasg Gymraeg mor llewyrchus ag y mae rhai o ystadegau'r cyhoeddwyr eu hunain yn awgrymu, ac ymhellach y dylid edrych y tu hwnt i gofnodion meintioliol yn unig, ac ystyried yn hytrach allu y wasg Gymraeg i greu ymdeimlad o 'gymuned ddychmygedig' Gymreig. Byddaf yn dadlau na lwyddodd y wasg Gymraeg i gwrdd â meini prawf Anderson o ran y ffactorau a fyddai'n hybu ymdeimlad o

‘gymuned ddychmygedig’ Gymreig. Nid oedd yn wasg ddyddiol, nid oedd yn wasg weladwy, ac nid oedd chwaith yn genedlaethol ei chyrhaeddiad. O ganlyniad, ni allai atgynhyrchu’r ddefod ddyddiol honno o ddarllen ar y cyd a oedd yn ôl Anderson yn hollbwysig wrth greu’r ymdeimlad o ‘gymuned ddychmygedig’. Am nad oedd y wasg Gymraeg yn fasnachol hyfyw, roedd yn dibynnu i raddau helaeth ar ymdrechion gwirfoddol carfan o gyhoeddwyr Ymneilltuol a oedd yn anelu at achub eneidiau yn hytrach na gwneud elw. O ganlyniad, nid oedd y wasg Gymraeg yn un boblogaidd yn yr un modd â’r wasg Saesneg, ac ni lwyddodd i ennyn diddordeb cymdeithas a oedd yn prysur seciwlareiddio. Yn ogystal, awgrymir bod pob un o’r ffactorau a fu’n gyfrifol am hybu ‘oes aur’ y wasg Gymraeg – gostwng y trethi ar bapur a hysbysebion, datblygiadau i’r grefft o argraffu, a’r rheilffordd – hefyd wedi hybu gwasg fasnachol Saesneg a oedd erbyn diwedd y ganrif wedi ymledu trwy Gymru, ac a oedd yn hybu ymdeimlad o berthyn i ‘gymuned ddychmygedig’ ehangach Brydeinig. Serch hynny, byddaf hefyd yn nodi bod yr anghenrhaid ar y wasg Gymraeg i gyrraedd cynulleidfa dros ardal ddaearyddol ehangach na’r wasg Saesneg, drefol, a hynny am resymau masnachol, wedi arwain at feithrin cenedlaetholdeb Cymreig.

### *Pennod 7*

Bwriad y seithfed bennod fydd ymchwilio i’r modd y lluniwyd cenedlaetholdeb o fewn disgwrs adroddiadau papur newydd Cymraeg yn ‘oes aur’ y wasg Gymraeg. Fe fydd yr astudiaeth yn defnyddio methodoleg dadansoddi disgwrs ansoddol er mwyn dadlau bod disgwrs cenedlaetholdeb i’w weld yn amlwg ym mhapur newydd *Baner ac Amserau Cymru* rhwng 1857 ac 1900, ond ei fod yn saerño cenedlaetholdeb Prydeinig ‘banal’ yn hytrach nag un Cymreig ‘poeth’. Awgrymir bod y gogwydd hwn yn sgil-ffaith i’r modd yr oedd y papur yn ddibynnol ar newyddion o sefydliadau Prydeinig, ac yn aml iawn ar gyfieithu adroddiadau’n uniongyrchol o bapurau Seisnig a Saesneg, am ei arlwy. Ar y llaw arall, nid oedd y newyddion

crefyddol neu gelfyddydol a gynhyrchwyd gan sefydliadau Cymreig yn hybu'r un ymdeimlad o berthyn i 'gymuned ddychmygedig' ag oedd arlwy y sefydliadau Prydeinig. Roedd y cenedlaetholdeb hwn yn fwy cynnil o lawer, ac oherwydd ei natur 'banal' mae'n berffaith bosib nad oedd y newyddiadurwyr a'r golygyddion eu hunain yn ymwybodol eu bod yn ei atgynhyrchu yn ddyddiol. Dadleuir yma fod modd ieuo damcaniaeth Roeder ynglŷn â grym sefydliadau gyda dadleuon Anderson a Billig am bwysigrwydd yr argraffwasg wrth atgynhyrchu disgwrs cenedlaetholdeb. Dangosir nad oes unrhyw wrth-ddweud rhyngddynt: y wasg oedd cyfrwng disgwrs cenedlaetholdeb, ond yr ychydig sefydliadau gwledidyddol a chenedlaethol a feddai'r Cymry arnynt oedd yr awduron.

## Pennod 1

### Agor y Maes

Cyn dechrau unrhyw drafodaeth ystyrlon am genedlaetholdeb rhaid mynd i'r afael â nifer o ragdybiaethau ynglŷn â'r ffenomen neu'r ideoleg ryfeddol hon. Gall hyd yn oed academyddion gael eu baglu gan ddaliadau 'synnwyr cyffredin' ynglŷn â natur cenedloedd – yn enwedig felly eu cenedl eu hunain. Priodol efallai mai'r symbol mwyaf blaenllaw o genedlaetholdeb y Cymry yw'r ddraig, sydd er gwaethaf ei maint a'i hynodrwydd dan draed trigolion chwedl Dinas Emrys, yn bresenoldeb anweledig yn eu bywydau nes iddi greu cythrwfl sylweddol o gael ei phrocio'n effro. Fel y gwelwn, un o wrthddywediadau cenedlaetholdeb yw ei fod yn rhan mor annatod o'r byd modern fel na fydd sawl un yn cydnabod ei fodolaeth o gwbl nes iddo ddod i'r amlwg ar wedd ffyrnig mewn adegau o wrthdaro milwrol, gwleidyddol, neu ar faes chwaraeon. Doeth felly fyddai dechrau gydag adolygiad llenyddiaeth sy'n cynnig trosolwg eang o'r tirlun damcaniaethol sy'n ymwneud â chenedlaetholdeb. Wedi crynhoi yn fyr rai o'r damcaniaethau hyn, yn benodol gwaith Anderson, Billig a Roeder, byddaf yn symud ymlaen i ystyried gweithiau eraill sydd wedi craffu'n benodol ar genedlaetholdeb Cymreig, gan nodi i ba raddau y maent yn cadarnhau neu'n gwrth-ddweud y damcaniaethau mwy cyffredinol a drafodwyd eisoes. Haws yw cyflwyno eu safbwyntiau yn eu crynswth yma, ac yna eu hailgloriannu yng ngoleuni y dystiolaeth gynradd ac eilradd a gyflwynir er mwyn cefnogi thesis canolog y traethawd yn y penodau nesaf. Yna, yn y bennod nesaf, fe af i'r afael â rhai o'r damcaniaethau mwyaf blaenllaw sydd yn ymwneud yn *benodol* â datblygiad cenedlaetholdeb modern Cymreig yn y 19eg ganrif; megis gwaith Jones, Brooks, Hechter, Hroch a Nairn, gan gydnabod eu pwysigrwydd i thesis y traethawd hwn.

### *Damcaniaethau ynglŷn â chenedlaetholdeb*

Er gwaetha'r sicrwydd sy'n tueddu i nodweddu balchder cenedlaetholwyr, pwnc digon llithrig fu cenedlaetholdeb mewn llenyddiaeth academiaidd erioed, gydag anghytuno brwd ynglŷn â'i natur a'i ddylanwad. Dywed Walter Bagehot yn ei lyfr *Physics and Politics* a gyhoeddwyd ddiwedd y 19eg ganrif: "We know what it is when you do not ask us, be we cannot very quickly explain or define it" (Bageshot, 1887, pp. 20-21). Yn ôl R. Tudur Jones (1974, p. 1) mae cenedlaetholdeb yn rhan mor gynhenid o berson ag yw lliw ei wallt neu ei lygaid, a dywed Ernest Gellner y byddai pobl yn gochel rhag person sydd heb genedl: "A man without a nation defies the recognized categories and provokes revulsion" (Gellner, 1983, p. 6). Ond er ei fod yn rhan mor naturiol a digwestiwn o'r byd modern, dadleua Eric Hobsbawm nad oes neb yn gallu pennu gyda sicrwydd beth yw cenedl, am ei bod yn gysyniad newydd mewn hanes, yn newid o genhedlaeth i genhedlaeth, a bod eithriad mewn gwirionedd i bob rheol ynghylch ei hystyr: "... the criteria used for this purpose – language, ethnicity or whatever – are themselves fuzzy, shifting and ambiguous..." (Hobsbawm, 1990, p. 6). Dim ond yn negawdau olaf yr 20fed ganrif yr agorwyd y llifddorau o ddifrif ac y gwelwyd bwrlwm o ysgrifennu academiaidd ar y pwnc, gan geisio diffinio beth yn union a olygir wrth ei drafod (Smith, 2003, p. 5). Er gwaetha'r ymdrechion hyn, digon amwys yw'r cysyniad o hyd. Dywed Benedict Anderson, yn ei lyfr dylanwadol *Imagined Communities*, sydd wedi sbarduno llawer o'r trafod ar y pwnc ers ei gyhoeddi: "In contrast to the immense influence that nationalism has exerted on the modern world, plausible theory about it is conspicuously meagre" (Anderson, 1991, p. 3).

Ymddengys diffiniad fel y canlynol gan Timothy Baycroft, ar yr olwg gyntaf, fel un digon annadleuol:



A nation is a group of people identified as sharing any number of real or perceived characteristics – such as common ancestry, language, religion, culture, historical traditions and shared territory – the members of which can identify themselves and others as belonging to the group, and who have the will or desire to remain as a group... (Baycroft, 1998, p. 3)

Ond mae'r dyfyniad hwn yn taro ar nifer o'r gwahanol elfennau sydd wrth graidd yr ymryson academaidd ynglŷn â chenedlaetholdeb, yn enwedig y pwyslais ar *ddilysrwydd* ffydd y grŵp yn y nodweddion sy'n eu clymu at ei gilydd. Mae'r cymal olaf hefyd yn ddadleuol am fod yr awdur yn datgan bod angen rhyw fath o *ymdrech ymwybodol* ar ran y bobl i gynnal cenedl. Fel y gwelwn, nid yw pob un o'r academyddion sydd wedi ymdrin â'r pwnc hwn yn cytuno â'r dybiaeth honno. Yn nhyb rhai, fel Billig a'i bwyslais ar genedlaetholdeb 'banal', nid yw'r bobl yn ymwybodol o'r dylanwadau dyddiol sy'n ysgogi ynddynt eu balchder cenedlaetholgar (Billig, 1995, p. 6). Nid yw pawb chwaith yn credu bod cenedlaetholdeb yn codi o awydd naturiol pobl i greu cenedl iddynt eu hunain, ond yn hytrach fod cenhedloedd yn bethau sydd wedi eu creu yn fwriadol gan genedlaetholwyr er eu budd hwy (Hobsbawm, 1990). Mae Ernest Gellner yn taro ar ddiffiniad cwbl wahanol i Baycroft, gan ddweud mai cenedlaetholdeb yw'r dyhead y dylai'r wladwriaeth a'r uned genedlaethol – y bobl sy'n aelodau o'r genedl – fod yn gyfath: "Nationalist *sentiment* is the feeling of anger aroused by the violation of the principle, or the feeling of satisfaction aroused by its fulfilment" (Gellner, 1983, p. 1). Ond mae problemau sylweddol yma hefyd, e.e. union ystyr 'uned genedlaethol'. Nid yw'r diffiniad hwn chwaith yn ymdrin â'r hyn y gellir ei alw yn 'genedlaetholdeb iwtalitariaidd'; h.y. y gred bod modd cyfiawnhau ymgyrchu dros annibyniaeth neu ganoli grym am resymau cwbl ymarferol sydd heb ddim oll i'w wneud â hawl hanesyddol pobl i'w rheoli eu hunain (MacCormick, 1970,

p. 54). Rhywbeth anodd iawn ei ddiffinio yw cenedlaetholdeb ar y gorau, felly<sup>5</sup> – ac fel y gwelwn, drwy gydol y traethawd, nid yw pennu natur a tharddiad cenedlaetholdeb Cymreig ddim haws.

Ni fyddaf yn ceisio gwneud cyfiawnder â chymhlethodau damcaniaethau pob un o'r awduron sydd wedi ysgrifennu ar bwnc cenedlaetholdeb o fewn cyfyngiadau'r trosolwg hwn. Serch hynny mae damcaniaethau ar genedlaetholdeb yn tueddu i gael eu rhannu yn dri chategori: Y cyntefigwyr (*primordialists*), y modernwyr (*modernists*), a'r ethno-symbolwyr (*ethno-symbolists*). Nid pawb sy'n cytuno â'r categorïau hyn, gan nad ydynt yn gwneud cyfiawnder â'r ystod eang o safbwyntiau gwahanol oddi mewn iddynt, a byddaf yn awgrymu'n ddiweddarach bod y categorïau a awgrymwyd gan Umut Özkirihm (2000, pp. 213-4) yn fwy defnyddiol wrth ystyried datblygiad cenedlaetholdeb yng Nghymru. Serch hynny, cyntefigwyr, modernwyr ac ethno-symbolwyr yw'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio'n fynych yn y maes. Prin yw'r academyddion bellach sy'n eu hystyried eu hunain yn gyntefigwyr – mae'r term hwn yn hytrach yn fodd o gategoreiddio'r dyb gyffredinol ymysg cenedlaetholwyr fod cenhedloedd modern yn barhad o gymunedau sydd yn ymestyn yn ôl hyd at yr oesoedd canol neu'r tu hwnt, “their origins... conveniently lost in the mists of time” (Miller, 2000, p. 28). Yn nhyb y cenedlaetholwr, medd Anderson, mae'r genedl yn beth oesol a'i bodolaeth yn pontio'r canrifoedd: “[They] always loom out of an immemorial past, and, still more important, glide into a limitless future” (Anderson, 1991, pp. 11-2). Yn ôl y dybiaeth hon, hyd yn oed pan oedd cenedl yn ‘gaeafgyssgu’ – yn ddi-sôn amdani mewn hanes – roedd yn barod i gael ei dihuno er mwyn ail-greu'r genedl a gollwyd. Mae Smith yn galw'r garfan yma yn ‘*cultural primordialists*’, am eu bod yn credu bod y diwylliannau sydd ynghlwm wrth genhedloedd

---

<sup>5</sup> Un o'r cynharaf i fynegi hyn oedd Eugen Weber yn ei lyfr *Peasants into Frenchmen*, a gyhoeddwyd yn 1977: “The more abstractly the concept of France-as-nation is presented, the less one notes discrepancies between theory and practice. When one gets down to facts, things become awkward” (Weber, 1977, p. 112).

modern yn dyddio o ddechrau amser (Smith, 2000, pp. 21, 27). Fe fyddai cenedlaetholwyr o Gymru, er enghraifft, yn cyfiawnhau eu hymlyniad at y gorffennol drwy gyfeirio at y nodweddion diwylliannol, ieithyddol, ethnig, a chrefyddol sydd yn dangos bod eu cenedlaetholdeb yn barhad naturiol o'r un reddf lwythol ag a oedd yn symbylu Hywel Dda, Owain Glyndŵr, a Llywelyn ein Llyw Olaf. Yn fwy na hynny, byddent yn ystyried yr aberth a wnaeth y bobl hynny dros y genedl yn esiampl iddynt hwy: "Because our forebears have toiled and spilt their blood to build and defend the nation, we who are born into it inherit an obligation to continue their work, which we discharge... towards our descendants" (Miller, 2000, p. 29). Y dyb yma bod cenedloedd yn bethau oesol, yn ôl Anthony Smith, oedd y consensws ymysg ysgolheigion hyd ddechrau'r 20fed ganrif, ac yn wir dyma farn gyffredin y cyhoedd hyd heddiw (Smith, 2003, p. 39). Un gred sy'n greiddiol i'r dybiaeth hon am genedlaetholdeb, medd Miller, yw bod gan y bobl rywbeth yn gyffredin, boed yn iaith neu'n ddiwylliant neu'n fydolwg, sy'n eu huno ac yn eu gwneud yn wahanol i'r 'arall' y tu hwnt i ffiniau'r genedl. Hynny yw, mae'r modd y mae eu cenedl hwy wedi dod at ei gilydd yn un cwbl naturiol, ar sail nodweddion cyffredin (Miller, 2000, p. 30).

Ar y pegwn arall ceir y 'modernwyr', academyddion megis Timothy Baycroft, y cyfeiriwyd ato uchod, Eric Hobsbawm (1990), Elie Kedourie (1993), Kenneth Minogue (1967), a David Miller (2000) sy'n dadlau mai ffenomen led-ddiweddar, a rhesymegol ddi-sail, yw cenedlaetholdeb. Dywed Kedourie: "Nationalism is a doctrine invented in Europe at the beginning of the nineteenth century" (1993, p. 1). Ychwanega Hobsbawm: "I do not regard the 'nation' as a primary nor as an unchanging social entity. It belongs exclusively to a particular, and historically recent, period" (1990, p. 9). Yn ogystal â honni nad oes sail hanesyddol i'r genedl, mae'r modernwyr hyn hefyd yn wfftio'r dyb bod cenedloedd wedi eu gwreiddio mewn iaith neu ddiwylliant a oedd yn uno'r bobl cyn creu'r genedl, gan awgrymu bod ieithoedd

a diwylliannau ‘cenedlaethol’ wedi eu datblygu er mwyn uno trigolion y cenedloedd newydd.<sup>6</sup> Dywed Miller nad yw iaith na hil yn gwneud cenedl, ond o gredu eu bod yn perthyn i genedl ar y cyd tueddai pobl i gredu eu bod yn perthyn i’r un hil ac felly’n mabwysiadu yr un iaith (Miller, 2000, p. 28). Prawf o hyn, medd Hobsbawm, yw bod egin cenedlaetholdeb i’w weld yn syniadaeth y Chwyldro Ffrengig, pan feddiannodd pobl y wlad honno rym y wladwriaeth ar ddiwedd yr 18fed ganrif. Nid oedd gwahaniaethau ethnig nac ieithyddol y bobl o bwys ar ddechrau’r broses - dim ond y gred y dylid dymchwel y wladwriaeth ffiwdal a gosod un ddemocrataidd yn ei lle. Datblygwyd eu syniadaeth chwyldroadol yn y ganrif a ddilynodd gan John Stuart Mill ac fe ddylanwadodd yn ei dro ar ffurfiad cenedloedd eraill (Mill, 1910, pp. 359-66). Dywed Hobsbawm fod parodrwydd trigolion yr Unol Daleithiau i ddatgan annibyniaeth oddi wrth wlad oedd yn gyffredin o ran diwylliant ac iaith, a pharodrwydd y Ffrancwyr i ethol Saeson i’w Cynulliad Cenedlaethol, yn brawf nad iaith a diwylliant oedd deunydd crai y cenedloedd hyn. Rhywbeth *ad-hoc* a luniwyd er mwyn ffitio mowld y genedl-wladwriaeth newydd ydoedd eu diwylliant ethnig: “We cannot therefore read into the revolutionary ‘nation’ anything like the later rationalist programme of establishing nation-states for bodies defined in terms of... ethnicity, common language, religion, territory and common historical memories”<sup>7</sup> (Hobsbawm, 1990, p. 20). Gwelir felly fod y modernwyr yn pwysleisio cysyniadau dinesig modern a ddaeth i fodolaeth yn ystod y canrifoedd diweddar, gan gynnwys tiriogaethau penodol, deddfwriaethau a dinasyddiaeth, dros unrhyw ystyriaethau

---

<sup>6</sup> Mae Miller yn tybio bod pobl yn tueddu i fod eisiau creu ffug hanes cenedlaethol iddynt eu hunain oherwydd nad ydynt yn gyfforddus â’r realiti eu bod nhw wedi eu gorfodi at ei gilydd yn bennaf oll drwy hap a damwain: “Hence various stories have been concocted about the primeval tribe from which the modern nation sprang” (Miller, 2000, p. 31). Aiff Minogue ymhellach gan ddweud bod cenedlaetholwyr yn twyllo ei gilydd er mwyn cyfiawnhau bydolwg sy’n fwy ffafriol iddynyt hwy eu hunain, e.e. gallu un genedl i dra-arglwyddiaethu ar un arall, neu hanes ôl-drefedigaethol: “Nationalism theories may thus be understood as distortions of reality which allow men to cope with situations which they might otherwise find unbearable” (Minogue, 1967, p. 33).

<sup>7</sup> Mae Kedourie yntau yn gweld gwreiddiau cenedlaetholdeb yn athroniaeth yr Oleuedigaeth a oedd mewn bri yn Ewrop ar droad y 18fed ganrif, oedd yn dadlau bod trefn ddelfrydol i natur, ac bod hawl gan ddynion i ddymchwel gwladwriaethau er mwyn eu hail-drefnu yn ôl y drefn ddelfrydol honno: “The revolutionaries, then, were claiming the pacific exercise of an obvious natural right, and in the process, offering to the world a new international law which, they stated, would necessarily lead to peace” (Kedourie, 1993, pp. 9-10).

ethnig, ieithyddol neu ddiwylliannol blaenorol. Wedi creu cenedl, penderfynwyd er hwylustod y dylai gael iaith neu ddiwylliant cyffredin, a gwnaethpwyd defnydd o un neu fwy o dafodieithoedd a diwylliannau a oedd yn bodoli o fewn ffiniau mympwyol y wladwriaeth newydd at y diben hwnnw. Wrth ystyried y dystiolaeth hon, dywed Hobsbawm ei bod yn amlwg i unrhyw un sydd wedi astudio hanes gwlad nad oes unrhyw sail hanesyddol i'r nodweddion honedig<sup>8</sup> sy'n atgyfnerthu cenedlaetholdeb y wlad honno – dyfeisiadau ydynt gan ddsbarth canol<sup>9</sup> er mwyn cyfiawnhau eu rheolaeth dros diriogaeth wladwriaethol a ffurfiwyd drwy hap a damwain, ac er mwyn cynnal ymdeimlad o undod traws-ddosbarthiadol ymysg y proletariat: “Nations do not make states and nationalisms but the other way around... no serious historian of nations and nationalism can be a committed political nationalist... [it] requires too much belief in what is patently not so”<sup>10</sup> (Hobsbawm, 1990, pp. 10, 12). Serch hynny, nid yw gwrthwynebiad y modernwyr i wreiddiau honedig hynafol cenhedloedd o reidrwydd yn golygu eu bod hwy i gyd yn ystyried cenedlaetholdeb yn beth negyddol. Er enghraifft, mae David Miller yn feirniadol o duedd globaleiddio, gan agwrymu bod cenedlaetholdeb yn fodd o hybu cyd-ddibyniaeth ymysg pobl a'u hannog i ymddwyn mewn modd llai hunanol (Miller, 2000, p. 32).

### *Offerynyddoliaeth*

---

<sup>8</sup> Yn wir, weithiau does dim cysylltiad rhwng profiad bywyd trigolion cenedl-wladwriaeth a'r nodweddion y maent yn cysylltu â'r genedl-wladwriaeth, e.e. plant o'r ddinas yn cysylltu Lloegr â'r frenhiniaeth a 'green and pleasant land' cefn gwlad (Williams, 2003, p.192).

<sup>9</sup> Beth sydd gan waith yr academyddion yma yn gyffredin felly yw eu bod yn gweld rhywbeth ffug yn y nodweddion hynafol tybiedig y mae cenedlaetholwyr yn eu dyrchafu, a dadleuant mai nod oedd rheoli pobl mewn oes lle'r oedd hen sicrwydd rheolaeth ffiwdal a bywyd amaethyddol wedi chwalu yn sgil trefoli a diwydiannu (Smith, 2000, p. 54). Dywed Minogue hefyd fod cenhedloedd yn cael eu creu gan genedlaetholwyr, a luniodd 'straeon tylwyth teg' am y gorffennol er mwyn cyfiawnhau anwybyddu realiti gwleidyddol y presennol: "... each nation needs a legend, and these legends all have a fairy-tale character about them... it is a pure-minded rejection of the compromises of adult authority" (Minogue, 1967, p. 8).

<sup>10</sup> Cyfeiria'n benodol at Gymru, nad yw'n ddim mwy na "mountainous agricultural annexe" a chanddi ddiwylliant sy'n seiliedig yn bennaf ar "invented national rituals of pseudo Druidism" (Hobsbawm, 1968, pp. 294-300).

Nodwyd eisoes y bydd damcaniaeth Philip Roeder yn rhan greiddiol o'r traethawd hon. Mae gwaith Roeder yn adeiladu'n bennaf ar y sylfaen fodernaidd a osodwyd gan un o'i ragflaenwyr yn y maes, John Breuilly, a ddadleuodd bod cenedlaetholdeb, yn y pen draw, yn ymwneud â grym gwleidyddol. Rhaid ystyried cenedlaetholdeb, meddai Breuilly, yng nghyd-destun "the objectives of obtaining and using state power." Mae unrhyw beth arall, gan gynnwys dosbarth, budd economaidd, neu ddiwylliant, yn eilradd i hynny (Breuilly, 1993a, p. 1). Dywed Breuilly fod cenedlaetholdeb lleiafrifol o fewn cenedl-wladwriaeth yn deillio o ymdrech gan grŵp ymylol i gipio grym oddi ar y genedl-wladwriaeth ganolog a'i feithrin o fewn eu parth daearyddol eu hunain. Mae cenedlaetholdeb lleiafrifol yn cyflawni tair swyddogaeth:

- i) Mae'n caniatáu i'r elît o fewn cymdeithas gydlyn eu hymdrechion drwy ddatblygu tir cyffredin wrth wrthwynebu y genedl-wladwriaeth ganolog.
- ii) Mae'n caniatáu iddynt hybu cefnogaeth ymysg grwpiau eraill nad ydynt yn rhan o'r broses wleidyddol.
- iii) Mae'n fodd o gyfreithloni eu mudiad gwleidyddol yn wyneb gwrthwynebiad gan y genedl-wladwriaeth bresennol ac eraill (Breuilly, 1996, pp. 166-7).

Mae Paul R. Brass yn cynnig enw ar gyfer y modd hwn o ystyried cenedlaetholdeb, sef offerynyddoliaeth. Mae ef, fel Breuilly, yn ystyried cenedlaetholdeb yn arf yn nwylo grwpiau elît sy'n cystadlu am gefnogaeth dorfol er mwyn ennill grym gwleidyddol ac economaidd. Yn ogystal â phwysleisio gwahaniaethau ethnig, gallant hefyd ddewis rhoi llai o bwyslais arnynt er mwyn cyfiawnhau cydweithio gyda grwpiau eraill. Mae'n darlunio ei ddadl drwy gyfeirio at y modd y rhannodd India a Phacistan yn ddwy genedl-wladwriaeth ar wahân. Tybir yn gyffredin mai gwahaniaethau ethnig oedd yn gyfrifol am y rhwyg rhyngddynt, meddai, ond mae'n dadlau mai dylanwad grwpiau elît o fewn cymdeithas oedd yn gyfrifol mewn gwirionedd, a bod India a Phacistan yn parhau yn gymdeithasau aml-ethnig hyd heddiw (Brass, 1991, pp. 13-6; Brass, 1979, pp. 40-1).

Mae Roeder yn parhau yn y traddodiad hwn, gan wfftio pwysigrwydd cryfder yr ‘ethne’ fel yr elfen allweddol sy’n penderfynu a fydd cenedl yn blaguro’n genedl-wladwriaeth ai peidio. Craidd ei ddadl yw’r hyn a elwir yn thesis sefydliadau segmentedig (*segmented institutions thesis*). Yn ei dyb ef, ychydig iawn o ddylanwad sydd gan fudiadau torfol ar annibyniaeth; mae cenedl-wladwriaethau llwyddiannus yn codi bron yn gyfan gwbl o’r hyn y mae’n ei alw yn genhedloedd segmentedig (‘segment states’) a oedd yn bodoli ynghynt. Mae gan yr holl genedl-wladwriaethau segmentedig hyn sefydliadau sydd yn meddu ar rywfaint o rym a fyddai fel arall yn nwylo’r wladwriaeth ganolog. Cynhwysir Cymru ymysg y ‘cenedloedd segmentedig’ hyn – ond dim ond ers datganoli yn 1999. Cyn hynny roedd Cymru, yn nhyb Roeder, yn rhan o’r ‘craidd metropolitanaidd’ Prydeinig. Sail dadl Roeder yw dadansoddiad meintiol o bob cenedl-wladwriaeth a ddaeth i fod yn yr 20fed ganrif. Daw i’r casgliad bod 153 o’r 177 o’r cenedl-wladwriaethau newydd a grëwyd wedi meddu ar sefydliadau gweinyddol segmentedig cyn annibyniaeth: “Indeed, for the past century it would have been safe to bet a considerable sum with the rule of thumb, ‘no segment-state, no nation state’.” Mewn cymhariaeth, dyrchafwyd llai na dwsin o grwpiau ethnig nad oeddent yn meddu ar eu sefydliadau segmentedig eu hunain yn genedl-wladwriaethau yn ystod yr 20fed ganrif. Dadleua Roeder felly fod llwyddiant mudiadau cenedlaethol yn dibynnu i raddau helaeth ar weithredoedd y llywodraeth ganolog – os nad ydynt yn caniatáu datganoli grym i ddarpar-wladwriaethau segmentedig maent llawer llai tebygol o’u gweld yn ymwahanu yn y pen draw.<sup>11</sup> Cyflwynir Affrica ac Ewrop yn enghreifftiau o hyn. Er bod Affrica yn meddu ar

---

<sup>11</sup> Un feirmiadaeth ar waith Roeder yw ei fod yn awgrymu y dylai cenedl-wladwriaethau ochel rhag caniatáu datblygiad cenedloedd segmentedig ar sail ethnigrwydd gan eu bod yn aml yn arwain at chwalu’r genedl-wladwriaeth ganolog. Dywed Liam Anderson fod cenedloedd segmentedig yn aml yn cael eu creu ac yn aml yn chwalu oherwydd bod y cenedl-wladwriaethau canolog *eisoes* yn fregus. Er enghraifft, meddai, roedd ymdrechion yr Alban i adael y Deyrnas Unedig yn un esiampl o “ethnofederations that had also previously failed as unitary systems” (Anderson, 2014, pp. 165-204). Serch hynny, gellid dadlau bod Roeder eisoes yn pwysleisio bod camweinyddiaeth y genedl-wladwriaeth ganolog yn hollbwysig wrth hybu mudiadau cenedlaethol yn y cenedloedd segmentedig.

genhedloedd ethnig rif y gwllith, anaml iawn y gwelwyd unrhyw wladwriaeth yn hollti yno, a hynny oherwydd amharodrwydd cenedl-wladwriaethau canolog i ddatganoli grym; mae'r darlun yn wahanol iawn yn Ewrop lle bodolai 67 o genhedloedd segmentedig yn yr 20fed ganrif, ac felly nid oedd yn syndod bod y cyfandir hwnnw wedi gweld cryn fwrlwm o ran creu a darnio cenedl-wladwriaethau. Dywed Roeder mai'r 'segmented-states' cyntaf oedd trefedigaethau'r Ymerodraeth Brydeinig. Noda fod tuedd cenedloedd segmentedig i uwchraddio yn genedl-wladwriaeth yn ddibynnol ar sawl ffactor. (1) Bod gwleidyddiaeth arweinyddion y genedl segmentedig yn mynd ar drywydd sylweddol wahanol i arweinyddion y wladwriaeth ganolog. (2) Faint o ymreolaeth ariannol a diwylliannol sydd gan arweinyddion y genedl segmentedig. (3) I ba raddau y mae gwleidyddiaeth y wladwriaeth ganolog yn cau allan gyhoedd y genedl segmentedig. (4) Gwendid neu ymraniad o fewn arweinyddiaeth y wladwriaeth ganolog (Roeder, 2007, pp. 9-13, 357). Eilbeth pendant yw ethnigrwydd yn nhyb Roeder; yn wir, fel Breuilly, tybia fod sefydliadau gwleidyddol o fewn y genedl segmentedig yn tueddu i ddewis a dethol y nodweddion cenedlaethol sydd fwyaf tebygol o lwyddo wrth ennyn cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer creu neu gynyddu eu grym eu hunain. Mewn cyferbyniad, lleiafrif bychan iawn o genhedloedd a ddaeth i fod drwy rym cefnogaeth dorfol: "In only a minority of successful nation-state projects was nationalism a strong popular force prior to statehood and independence" (Roeder, 2007, pp. 24-5). Gwelir felly fod y ddamcaniaeth hon yn tynnu'n groes i'r rheini sy'n rhoi'r pwyslais ar barodrwydd mudiadau cenedlaethol torfol i ymfyddino o blaid annibyniaeth, megis Hroch (2000) a Brooks (2015). Fe fyddwn yn dychwelyd i drafod damcaniaeth Roeder, a bydd ei ddamcaniaeth yn greiddiol i'r drafodaeth ynghylch sut y datblygodd cenedlaetholdeb yng Nghymru yn y 19eg ganrif ym mhennod chwech.



Mae damcaniaeth Ernest Gellner hefyd yn berthnasol i Gymru'r 19eg ganrif, gan iddi ysbrydoli damcaniaethau rhai academyddion sy'n trafod Cymru'r chwyldro diwydiannol yn benodol yn eu gwaith, megis Tom Nairn a Michael Hechter (Nairn, 2003; Hechter, 1975). Nodweddid dadl Gellner gan y gred fod creu y genedl-wladwriaeth yn gam hanfodol er mwyn rhoi trefn ar gymdeithasau ethnig gwahanol a oedd yn prysur ymddiwydiannu. O ganlyniad i'r straen logistaidd yr oedd y broses o ddiwydiannu yn ei roi ar gymunedau, roedd angen i'r wladwriaeth ymyrryd â bywydau y bobl ar raddfa lawer mwy nag yn y gorffennol, er mwyn eu haddysgu, eu heddlua, a'u trefnu yn unol â gofynion y gymdeithas ddiwydiannol. Nid oedd angen y math yma o ficro-reolaeth ar gymunedau amaethyddol, ond heb wladwriaeth i'w threfnu fe fyddai gwlad ddiwydiannol ddinesig yn syrthio i anhrefn llwyr (Gellner, 1983, p. 5). Mae Gellner yn holi ymhellach pam mae cenedloedd modern yn tueddu i fod yn llai na gwareiddiadau megis Gwledydd Cred neu Islam ac ymerodraethau hynafol a oedd yn bodoli cynt. Ei ateb yw bod twf cenedlaetholdeb modern yn ganlyniad uniongyrchol i ddiwydiannu, a chan fod diwydiannu wedi digwydd ar adegau gwahanol mewn gwahanol barthau daearyddol, gallai un genedl-wladwriaeth fodern ymsefydlu tra byddai parthau cysylltiedig yn parhau yn rhai amaethyddol a ffiwdal. Arweiniodd hyn at ddarnio'r cymunedau uwch-genedlaethol a oedd yn bodoli cynt. Hefyd, yn ogystal â'r gallu i greu diwylliannau a rhoi parhad iddynt, mae Gellner yn cydnabod bod gan genedlaetholdeb y gallu i wneud y gwrthwyneb, sef dinistrio diwylliannau a oedd yn bodoli cyn i'r genedl gael ei chreu (Gellner, 1983, pp. 48-9). Canlyniad uniongyrchol ac anochel i'r chwyldro diwydiannol oedd cenedlaetholdeb yn nhyb Gellner, felly. Mae'r angen i osod diwylliant unffurf ar drigolion y genedl-wladwriaeth yn anorfod. Dan y system ffiwdal nid oedd rheidrwydd i'r uwch-ddosbarth a'r werin rannu iaith a diwylliant, ond ni all y genedl ddiwydiannol gymhleth weithredu os na all bawb gyfathrebu â'i gilydd a byw eu bywydau yn ôl yr un cyfreithiau a rheolau moesol. Dywed Gellner fod pob gwladwriaeth yn cynnal "one kind of culture, one style of communication, which prevails within its borders and is dependent

for its perpetuation on a centralized educational system supervised by and often actually run by the state in question, which monopolizes legitimate culture...” (Gellner, 1983, p. 140). Mae arwyddocâd y ddamcaniaeth hon i Gymru, lle’r oedd bwlech amlwg rhwng parthau diwydiannol a gwledig y wlad, yn amlwg. Serch hynny, fel y gwelwn yn y bennod nesaf, mae’r dadansoddiad hwn yn destun dadlau brwd ymysg academyddion yn y maes, gan fod cenedlaetholdeb Cymreig fel petai wedi datblygu yn y parthau gwledig yn hytrach na’r rhai diwydiannol.

### *Technolegau cyfathrebu*

Fel Gellner, mae modernwyr (fel yr awgryma’r enw) yn credu nad ymddangosodd cenedlaetholdeb tan ddiwedd yr 18fed ganrif, a hynny’n bennaf am ei fod yn ddibynnol ar ymddangosiad technolegau a oedd yn caniatáu cyfathrebu ar raddfa fawr. Un o nodweddion pennaf y safbwynt modernaidd yw bod cenedlaetholdeb yn ffenomen dorfol –“hunan-dwyll dorfol ar raddfa epig” yng ngeiriau Richard Wyn Jones (2007, p. 11) - ac o ganlyniad, na allai fod wedi datblygu cyn y llythrennedd torfol a ddaeth yn sgil y chwyldro print ac addysg i bawb (Hobsbawm, 1990, p. 10). O ganlyniad, mae’r modernwyr yn wfftio unrhyw honiadau bod modd gweld arwyddion o genedlaetholdeb ym malchder dosbarth llywodraethol y canol oesoedd a’r cyfnod modern cynnar yn eu hawliau cyfreithiol neu ddiwylliannol eu hunain. Roedd yr elít gwleidyddol yn rhan o deuloedd oedd yn meddu ar deyrnasoedd oedd yn pontio sawl cenedl fodern, tra nad oedd y gwerinwr yn ymwybodol o ryw lawer y tu hwnt i’r ardal yr oedd wedi byw ynddi drwy ei oes: “In premodern societies, elites and masses remained distinct entities, the former supranational, the latter sub-national” (Kumar, 2003, p. 58). Ac felly, cyn bod ganddynt fynediad at ddeunydd printiedig a’r gallu i ddarllen a fyddai’n dod â hwy i gysylltiad â phobl a chanddynt iaith a diwylliant tebyg a gwahanol iddynt, ac ehangu eu gorwelion daeryddol y tu hwnt i’r iet ym mhen draw’r cwm, mae’n anodd synio bod y

boblogaeth yn ei chrynswth yn ymwybodol o unrhyw hunaniaeth dorfol y tu hwnt i'r bobl y gallent ryngweithio â hwy wyneb yn wyneb. Dywed Walker Connor: "... national consciousness is a mass not an élite phenomenon, and the masses, until quite recently, semi- or totally illiterate, were quite mute with regard to their sense of group identity(ies)" (Connor, 1990, p. 92). Mae'r haerriad hwn yn fagl i unrhyw un sydd am ddadlau o blaid tystiolaeth o genedlaetholdeb cyn y cyfnod modern, gan mai'r unig dystiolaeth a fyddai'n bodoli o'r canol oesoedd yw tystiolaeth ysgrifenedig. Haerir y byddai awdur unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig o'r cyfnod hwnnw sy'n cyfleu cenedlaetholdeb yn rhan o'r élit llythrennog, neu'n ei wasanaethu, ac felly y dylid diystyru unrhyw dystiolaeth o'r fath. Maen tramgwydd arall a fyddai wedi atal datblygiad cenedl cyn dyfodiad y wasg brint, yn ôl y modernwyr, oedd bod cymaint o amrywiaeth o fewn tafodieithoedd y bobl, a fyddai wedi llesteirio unrhyw ymdrech ganddynt i gyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol (Anderson, 1991, p. 44; Eisenstein, 1983, p. 32). O ganlyniad, awgryma'r modernwyr ymhellach na allasai cenedlaetholdeb ieithyddol fodoli cyn i'r argraffwasg ganiatáu cyfathrebu torfol yn y cyfnod modern, a hynny oherwydd mai'r argraffwasg a sefydlogodd yr amryw dafodieithoedd hyn yn ieithoedd safonol yn y man cyntaf. Dywed Hobsawm nad oedd modd datblygu ieithoedd safonol heb yn gyntaf ddatblygu'r cenedloedd modern, diwydiannol a oedd â'r gallu i'w safoni ac i drwytho eu poblogaethau ynddynt drwy system addysg: "Most students today will agree that standard national languages, spoken or written, cannot emerge as such before printing, mass literacy, and hence, mass schooling" (Hobsbawm, 1990, p. 11). O ganlyniad, daeth twf y wasg argraffu a llythrennedd yn y 19eg ganrif yn sgil diwydiannu i gael ei ystyried yn un o'r symbyliadau mwyaf i dwf cenedlaetholdeb.

*Benedict Anderson*

Un o'r academyddion mwyaf dylanwadol i draethu ar bwnc dylanwad y wasg argraffu ar dwf cenedlaetholdeb yw Benedict Anderson, a gyhoeddodd ei lyfr *Imagined Communities* yn 1983. Mae Anderson, fel y modernwyr eraill, yn gweld cenedlaetholdeb fel creadigaeth diwedd yr 18fed ganrif a dechrau'r 19eg, yn sgil chwalu'r system ffiwdal a fodolai ynghynt a throsglwyddo grym i ddwylo'r bobl.<sup>12</sup> Ond yn wahanol i rai modernwyr eraill mae Anderson yn gweld y genedl i raddau helaeth yn barhad o'r hyn a ddaeth o'i blaen, am ei bod yn cynnig i bobl yr elfen honno o dynged, ac o gysylltiad rhwng y gorffennol a'r dyfodol, oedd wedi mynd ar drai yn sgil dirywiad crefydd: "... in Western Europe the eighteenth century marks not only the dawn of the age of nationalism but the dusk of religious modes of thought.... What then was required was a secular transformation of fatality into continuity, contingency into meaning... few things were (are) better suited to this end than an idea of a nation" (Anderson, 1991, p. 11). Mae Benedict Anderson yn dadlau felly fod gan genedlaetholdeb fwy yn gyffredin â chrefydd nag sydd ganddo ag ideolegau grymus eraill gan gynnwys Marcisiaeth, Sosialaeth neu Ryddfrydiaeth. Yn wahanol i'r ideolegau hynny, nid yw cenedlaetholdeb yn cynnig unrhyw atebion ymarferol i broblemau'r dydd, meddai, a hynny er bod pobl yn fodlon marw dros eu gwlad, yn yr un modd ag y maent yn fodlon marw dros eu ffydd. Ystyrir hefyd fod elfen o anfarwoldeb yn perthyn i unrhyw gyfraniad a wna unigolyn tuag at ei wlad, gan y bydd y genedl, sydd wedi parhau ers dechrau hanes, yn parhau am byth eto: "... neither Marxism or Liberalism are much concerned with death and immortality. If the nationalist imagining is so concerned, this suggests a strong affinity with religious imaginings" (Anderson, 1991, p. 10). Yn nhyb Anderson, roedd dirywiad crefydd a thwf cenedlaetholdeb ei hun yn sgil-effaith

---

<sup>12</sup> Nodweddion pennaf y genedl-wladwriaeth, sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth yr hyn a ddaeth o'u blaenau, yw eu bod yn 'gyfyngedig' ac yn 'sofran' – yn gyfyngedig am fod iddynt ffiniau penodol nad oes modd eu croesi heb adael y genedl, ac yn sofran oherwydd bod y grym yn eiddo i'r bobl yn hytrach na brenhinoedd neu arweinwyr ffiwdal. Roedd y cenedloedd newydd hyn mewn cyferbyniad â grwpiau cymdeithasol hierarchaidd a mewngyrchol y gorffennol, gyda'u ffiniau aneglur oedd yn ymdoddi i'w gilydd: "...the concept was born in an age in which Enlightenment and Revolution were destroying the legitimacy of the divinely-ordained, hierarchical dynastic realm" (Anderson, 1991, pp. 6-7).

rhannu gwybodaeth drwy'r argraffwasg. Ni allai dehongliad yr Oesoedd Canol o'r byd wedi ei rannu rhwng cymuned Gristnogol – 'y Gred' – a barbariaid anghristnogol o roesi'r sylweddoliad bod myrdd o grefyddau, ieithoedd a diwylliannau eraill hefyd yn bodoli, ac yn wir nad oedd cysondeb o ran eu dehongliad o air Duw hyd yn oed o fewn gwledydd Cred (Anderson, 1991, p. 7). O ganlyniad, yn ôl Anderson, drylliwyd cymuned ieithyddol Lladin gwledydd y Cred yn nifer o ddarpar-genhedloedd ieithyddol llai, wrth i bobl sylweddoli ei bod yn un ymysg nifer o ieithoedd sanctaidd honedig.

Yn ogystal â rhannu gwybodaeth, cafodd lledaeniad y wasg argraffu sgil-effaith bwysig arall wrth feithrin twf y genedl-wladwriaeth, yn nhyb Anderson. Cyfraniad mwyaf Anderson i faes cenedlaetholdeb oedd cyflwyno'r syniad o genedl, nid fel rhywbeth dyfeisiedig a ffug, ond yn hytrach fel 'cymuned ddychmygedig' o bobl nad ydynt yn adnabod ei gilydd ond sydd serch hynny yn teimlo fod ganddynt rywbeth yn gyffredin: "It is imagined because the members of even the smallest nation will never know most of their fellow-members, meet them, or even hear of them, yet in the minds of each lives the image of their communion" (Anderson, 1991, p. 6). Roedd dyfeisio'r papur newydd yn y 18fed ganrif yn hanfodol er mwyn rhoi'r modd i bobl amgyffred y 'gymuned ddychmygedig' hon, oherwydd iddo bwysleisio ffiniau'r genedl, a hefyd dreigl amser. Dywed Anderson nad oedd gan y meddwl Cristnogol ymwybyddiaeth o hanes fel cadwyn hir o ddigwyddiadau, ac ni welai unrhyw wahaniaeth rhwng y presennol a'r gorffennol, ond fe newidiodd hynny yn sgil y cyhoeddiad dyddiol: "The idea of a sociological organism moving calendrically through homogenous, empty time is a precise analogue of the idea of the nation, which also is conceived as a solid community moving steadily up (or down) history" (Anderson, 1991, p. 26). Oherwydd bod cynnwys y papur newydd yn ymwneud yn benodol â materion oedd o bwys i'r 'gymuned ddychmygedig' yr oedd yn rhan ohoni, ac oherwydd bod y papur newydd wedi ei glymu mor benodol wrth amser y cyhoeddi, roedd y

broses o'i brynu a'i ddarllen yn troi'n ddefod ddyddiol oedd yn cysylltu miloedd o bobl oedd yn credu bod ganddynt statws cyffredin fel dinasyddion cenedl benodol:

... each communicant is well aware that the ceremony he performs is being replicated simultaneously by thousands (or millions) of others of whose existence he is confident, yet of whose identity he has not the slightest notion... At the same time, the newspaper reader, observing exact replicas of his own paper being consumed by his subway, barbershop, or residential neighbours, is continually reassured that the imagined world is visibly rooted in everyday life. (Anderson, 1991, pp. 35-36)

Sgil-ffaith hynny yw bod gan iaith ran ganolog wrth ffurfio ymwybyddiaeth o genedl, yn ôl damcaniaeth Anderson. Os y math yma o gyd-ddarllen yr un cyhoeddiadau oedd yn arwain at ffurfio hunaniaeth cenedlaethol, yna roedd angen i'r cyhoeddiadau hynny fod mewn iaith gyffredin. Fel y trafodwyd eisoes roedd y wasg brint wedi chwarae rhan hollbwysig mewn sefydlogi a safoni tafodieithoedd a'u troi'n ieithoedd printiedig. Dywed Anderson fod sylweddoliad pobl ynghylch cymunedau o bobl a oedd yn rhannu iaith safonol gyffredin â hwy - ac yn bwysicach, o bosib, pobl nad oeddent yn siarad yr un iaith â nhw - yn gam pwysig tuag at greu'r ymwybyddiaeth o genedl: "they gradually became aware of the hundreds of thousands, even millions, of people in the same particular language-field, and at the same time that only those hundreds of thousands, or millions, so belonged" (Anderson, 1991, p. 44). Roedd unffurfiaeth ieithyddol yn un o ragofynion y cenedloedd cyntaf, meddai. Dim ond erbyn yr 20ed ganrif, pan oedd cenedl-wladwriaethau yn bethau cyffredin, y daeth yn bosib creu cymunedau dychmygedig, fel y Swistir, lle nad oedd pawb yn siarad yr un iaith (Anderson, 1991, p. 139). Mae gan ddamcaniaeth Anderson oblygiadau amlwg wrth ystyried sut y bu i'r

wasg argraffu ddylanwadu ar hynt cenedlaetholdeb yng Nghymru yn y 19eg ganrif. Bydd y seithfed a'r wythfed bennod yn y traethawd hwn yn gwneud defnydd helaeth o ddamcaniaeth Anderson wrth drafod i ba raddau y llwyddodd y wasg argraffu yng Nghymru i feithrin ymdeimlad o 'gymuned ddychmygedig' yno.

### *Beirniadaethau ar ddamcaniaeth Anderson*

Gan mai damcaniaeth Anderson yw un o brif gonglfeini y traethawd hwn teg fyddai ystyried yn fanylach rai o'r beirniadaethau penodol ar ei waith. Bydd y rhain yn cael eu hystyried yn fanylach yng nghyd-destun genedlaetholdeb Cymreig wrth i'r traethawd fynd rhagddo. Y feirniadaeth fwyaf perthnasol i'r traethawd hwn yw ei fod yn rhoi gormod o bwyslais ar ddylanwad y wasg brint wrth hybu cenedlaetholdeb. Er enghraifft, dywed Hastings: "Anderson offers no explanation as to why the growth in books did not have in the sixteenth century the effect he postulates for the late eighteenth" (Hastings, 1997, p. 11). Gellid awgrymu bod Anderson yn cynnig ateb i hyn drwy roi'r pwyslais ar dwf y nofel a'r papur newydd dyddiol fel cyfryngau a greodd yr ymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol, ac na ddaeth y rheini i amlygrwydd torfol tan ddiwedd yr 18fed ganrif a dechrau'r 19eg. Serch hynny, mae Balakrishnan yn dadlau nad yw'r ymdeimlad o 'gymuned ddychmygedig' a greir drwy brint yn ddigonol i esbonio pam roedd pobl yn fodlon aberthu eu bywydau yn enw cenedlaetholdeb. Yn achos crefydd, meddai, gellid deall y tueddiad tuag at hunan-aberth gan fod addewid o fywyd tragwyddol i ddilyn. Mae Balakrishnan yn rhoi y pwyslais yn hytrach ar ryfeloedd a'r modd y maent wedi datblygu hunan-ymwybyddiaeth cenhedloedd (Balakrishnan, 1996, pp. 208-11). Beirniadaeth arall ar waith Anderson yw ei fod yn rhoi gormod o bwyslais ar genedlaetholdeb diwylliannol, gan anwybyddu'r ffaith bod sawl cenedl-wladwriaeth wedi datblygu yn Ewrop nad oedd yn ddiwylliannol unffurf. Defnyddia John Breuilly esiampl yr Almaen wrth ddadlau nad oedd cyfathiant rhwng sawl cenedl-wladwriaeth wleidyddol a

ddatblygodd yn Ewrop a'u gwead diwylliannol. Er bod Anderson yn pwysleisio y strwythur wleidyddol a grëwyd gan y grymoedd trefedigaethol wrth esbonio datblygiad cenedlaetholdeb yn America, meddai, mae'n troi cefn ar hynny wrth ystyried Ewrop, gan roi'r pwyslais yn gyfan gwbl ar ffactorau diwylliannol (Breuilly, 1985, pp. 71-2). Mae yna feirniadaethau pellach ar y modd y mae Anderson yn gorbwysleisio datblygiad cenedlaetholdeb yn America fel model ar gyfer gweddill y byd<sup>13</sup>, ond gan nad yw'n drafodaeth hynod o berthnasol yn achos Cymru ni fyddaf yn ymdrin â hi yma.

### *Michael Billig*

Mae Michael Billig hefyd o'r farn nad yw'r ddefod o ddarllen ar y cyd, ac iaith gyffredin, yn ddigon i greu ymdeimlad o 'gymuned ddychmygedig' – mae angen i gynnwys y papur newydd atgyfnerthu nodweddion cwmpasog y genedl drwy gyfrwng y disgwrs a ddefnyddir. Yn ei lyfr *Banal Nationalism* mae'n dadlau nad yw'r darlennydd yn gwbl ymwybodol o'r broses hon, a na'r ysgrifennwr a'r golygydd hyd yn oed. Er gwaetha'r ffaith bod cenedlaetholdeb yn cael ei ystyried gan wleidyddion y tir canol yn rhywbeth i eithafwyr ar y cyrion, meddai, mewn gwirionedd mae'n rhan hollbresennol o fywydau pob un o ddinasyddion pob cenedl-wladwriaeth.<sup>14</sup> Mae'n wfftio awgrym Gellner a Hobsbawm mai ffenomen dros dro yw cenedlaetholdeb sy'n edwino unwaith y mae'r genedl wedi ei sefydlu: "In so many little ways, the citizenry are daily reminded of their national place in a world of nations. However, this reminding is so familiar, so continual, that it is not consciously registered as reminding. The metonymic image of banal nationalism is not a flag which is being consciously waved with

---

<sup>13</sup> Awgryma Chatterjee fod ymdrechion i awgrymu nad yn Ewrop y dechreuodd cenedlaetholdeb yn adlewyrchu'r ffaith bod Ewropeaid bellach yn teimlo rhywfaint o chwithdod yn ei gylch yn sgil cyflafanau rhyfeloedd byd yr 20fed ganrif (Chatterjee, 1993, p. 4).

<sup>14</sup> Mae Raymond Williams yn ategu'r ddadl hon, gan ddweud nad yw trigolion cenedloedd sydd eisoes wedi ymffurfio yn cydnabod eu bod yn genedlaetholwyr o gwbl: "Its own distinctive bonding is perceived as natural and obvious", a hynny mewn gwrthgyferbyniad â chenedlaetholdeb sy'n herio'r drefn fel ag y mae (Williams, 2003, p.193-4).



fervent passion; it is the flag hanging unnoticed on the public building” (Billig, 1995, p. 8). Yn ogystal â baneri mae symbolau gweledol eraill megis pen y Frenhines ar arian parod hefyd yn nodyn atgoffa ‘banal’ cyson o fodolaeth y genedl a safle’r unigolyn oddi mewn iddi. Nid yw pob math o genedlaetholdeb yn ‘banal’, medd Billig – mae yna hefyd genedlaetholdeb sy’n gwrthsefyll hegenomeneiddio o du’r wladwriaeth ac sy’n mynd ati i dynnu sylw ato ei hun. Gelwir y math yma gan Billig yn genedlaetholdeb ‘poeth’. Cyfeirir at y defnydd o’r ‘trilliw’ Gwyddelig yng ngogledd Iwerddon fel esiampl o hyn: “These are not mindless symbols, for each side is consciously displaying its position and distancing itself from its neighbour. The tricolors, in this respect, differ from those hanging on public buildings south of the border”<sup>15</sup> (Billig, 1995, p. 41). Fel sawl modernydd arall, mae Billig yn awgrymu na thyfodd cenedloedd yn naturiol o ieithoedd cyffredin, ond yn hytrach yr angen am genhedloedd â ffiniau penodol sydd wedi creu ieithoedd fel yr ydym ni’n synio amdanynt heddiw.<sup>16</sup> Yn hynny o beth mae’n pwysleisio natur ddistrywiol rôl canolog y wladwriaeth wrth weithredu’r broses o greu hegemoni cenedlaethol drwy ddyrchafu rhai tafodieithoedd dros eraill, a rhai ieithoedd dros

---

<sup>15</sup> Gall yr un symbol feddu ar nifer o wahanol ystyron yn dibynnu ar ei gyd-destun, e.e. baner y ddraig goch y tu allan i Senedd Cymru, wedi ei chwifio gan gefnogwr rygbi yn Twickenham, neu mewn protest yn erbyn toriadau i S4C. Wrth i wladwriaeth ymsefydlu dros amser gwelir “a movement from symbolic mindfulness to mindlessness,” yn y modd y mae’r faner yn cael ei defnyddio (Billig, 1995, p. 41). Yn ôl Richard Wyn Jones prif ddiben mudiadau cenedlaethol megis Plaid Cymru yw ceisio deffro pobl i’r dewis amgen i’r naratif cenedlaethol ‘banal’ sydd wedi dod yn rhan annatod o’u bywydau (Jones, 2007, p. 39).

<sup>16</sup> Yn y canol oesoedd, meddai, ni fyddai yna ffin pan oedd iaith y gymuned yn newid i iaith cymuned arall – po bellaf y byddai person yn crwydro o adref, y mwyaf anghyfarwydd y byddai’r iaith yn mynd, a hynny’n raddol: (roedd hyn yn dal yn wir yn y 19g ac yn wir i ryw raddau heddiw, er bod gweinyddiaeth ganolog a’r cyfryngau torfol wedi hyrwyddo ieithoedd safonol mae’r dialect continuum yn dal i fodoli. Meddylia am y merched yn y ffreutur yn Newcastle!) “The concept of ‘a language’ – at least in the sense which appears so banally obvious to ‘us’ – may itself be an invented permanency, developed during the age of the nation-state. If this is the case, then language does not create nationalism, so much as nationalism creates language; or rather nationalism creates ‘our’ common-sense, unquestioned view that there are, ‘naturally’ and unproblematically, things called different ‘languages’, which we speak” (Billig, 1995, p. 30). Mae gan ieithoedd bellach ffiniau penodol, yn union fel gwledydd, meddai. (Ond serch ei safbwynt ar ieithoedd, mae Billig fel Anthony D. Smith yn credu bod yr *ethne* yn rhywbeth sydd i’w ddarganfod yn hanesyddol mewn sawl oes: “If nationhood provided the outward political form for states, then this form often took root within, and adapted, older senses of peoplehood” (Billig, 1995, p. 27). Ond un o sgil effeithiau y cwlwm agos rhwng ieithoedd a chenedlaetholdeb, medd Billig, yw’r ddealltwriaeth ei bod yn beth cwbl naturiol bod siaradwyr ieithoedd gwahanol eisiau eu gwladwriaethau arbennig eu hunain – er bod nifer yn anghytuno â’u deisyfiad, nid yw papurau newydd yn teimlo’r angen i esbonio *pam* bod siaradwyr Cymraeg, Basg, neu Ffrangeg yng Nghnada eisiau annibyniaeth. Maent yn cymryd yn ganiataol bod y darlennydd eisoes yn deall yr hyn sydd wrth wraidd y galw. Heb ymryson ieithyddol o’r fath fe fyddai cenedlaetholdeb yn fater yr un mor ‘banal’ i drigolion y gwledydd hyn ag ydyw i genedlaetholwyr mewn gwledydd sy’n ieithyddol unffurf (Billig, 1995, p. 13).

eraill: “The new states were to be centralized polities, which flattened traditional regional, cultural, linguistic and ethnic differences.... Unity within the bordered territory was the state’s goal. Official languages were imposed upon a mosaic of speech patterns...” (Billig, 1995, p. 130) Yn wir i gefnogi ei ddadl mae Billig yn cyfeirio at y modd yr oedd y gwladwriaethau Prydeinig ac Archentaidd wedi trin y Gymraeg yng Nghymru a Patagonia yn ystod y 19eg ganrif (Billig, 1995, p. 27). Serch hynny bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar bwyslais Billig ar gynnwys testunol papurau newydd a ffurfiau eraill o gyfathrebu. Yn ôl Billig mae’r dewis o eiriau yn y wasg yn atgyfnerthu’n gyson y neges bod y darlennydd, a phawb arall sy’n darllen, yn rhan o’r un gymuned ddychmygedig: “... the deixis of homeland is embedded in the very fabric of the newspapers. Beyond conscious awareness, like the hum of distant traffic, this deixis of little words makes the world of nations familiar, even homely” (Billig, 1995, p. 94). Dywed Billig mai’r ‘geiriau bychain’ sy’n cael eu cyflwyno heb gyd-destun yw’r mwyaf arwyddocaol, e.e. cyfeiriadau at ‘y Prif Weinidog’, ‘y Frenhines’, ‘y Tywydd’ sy’n cymryd yn ganiataol mai at Brif Weinidog, Brenhines, a thywydd y Deyrnas Unedig y cyfeirir, ac ar yr un pryd maent yn atgyfnerthu ymdeimlad y darlennydd o berthyn i’r lluniad hegemoniaidd hwnnw. Trafodir y ddamcaniaeth hon yn fanylach yn y seithfed a’r wythfed bennod, wrth i ni drafod y disgwrs a ddefnyddir yng ngwasg Gymraeg y 19eg ganrif.

### *Beirniadaeth ar foderniaeth*

Cyn symud ymlaen at ddamcaniaethau ethno-symbolaidd, nodir yma un o’r prif feirniadaethau o’r safbwynt modernaidd, sef ei fod yn tueddu i ddeillio o’r chwith sosialaidd, oherwydd bod dadlau mai ffenomen fodern yw cenedloedd yn hwyluso’r ddadl mai ar sail dosbarth y dylid uno pobl yn hytrach na chenedl (Brooks, 2010, p. 16). Mae Richard Wyn Jones hefyd yn gweld tueddiad i Lafurwyr ddefnyddio’r ddadl mai ffugiad yw cenedlaetholdeb er mwyn bychanu syniadaeth cenedlaetholwyr: “Yng Nghymru, yn arbennig, mae’r prif draddodiad gwleidyddol

cyfoes, sef y traddodiad Llafuraidd, wedi tueddu i gondemnio cenedlaetholdeb yn enw ‘rhyngwladoldeb’, gan ddadlau bod y cyntaf yn fynegiant o gulni, plwyfoldeb neu waeth.”<sup>17</sup> (Jones, 2007, p. xi) Mae Smith yn nodi yn ogystal mai Marcswyr oedd rhai o’r modernwyr cyntaf (Smith, 2000, pp. 28, 52). Fel y nodwyd eisoes, ystyrai Hobsawm genedlaetholdeb yn gynllwyn bwriadol er mwyn darnio’r proletariat. Ys dywed John Davies yn ei lyfr *Hanes Cymru*, “haerwyd nad oes y fath beth yn yr ugeinfed ganrif â phrofiad cyffredinol Cymreig, ac mai ymarferiad mewn metaffiseg yw ceisio ysgrifennu hanes diweddar Cymru...” (Davies, 2007a, p. 456). Serch hynny, mae dadlau bod Marcsiaeth a chenedlaetholdeb yn naturiol benben â’i gilydd yn gorsymleiddio. Yn y *Maniffesto Comiwnyddol*, dywed Marx ac Engels “y mae brwydr y proletariat yn erbyn y bwrgeiswyr, ar y dechrau, yn frwydr genedlaethol. Rhaid i broletarwyr pob gwlad, yn naturiol, wneud i ffwrdd â’u bwrgeisiaid eu hunain yn gyntaf” (Marx & Engels, 1977). Roedd Marx hefyd yn gweld cenedlaetholdeb fel modd o ryddhau gwledydd o orthrymder imperialaidd cyfalafol, e.e. yn India (Alderson, 2004, p. 121), ac yn ôl gwaith Vladimir Lenin roedd y frwydr am ymreolaeth a sosialaeth yn cyd-fynd â’i gilydd (Lenin, 2004). Yn fwy diweddar, mae Terry Martin wedi dadlau mai’r Undeb Sofietaidd oedd un o’r gwladwriaethau aml-ethnig cyntaf yn Ewrop i gydnabod cenedlaetholdeb a darparu ar gyfer eu dinasyddion drwy sicrhau rhywfaint o ymreolaeth iddynt, gan ddilyn yn ôl traed Ymerodraeth Awstria-Hwngari (Martin, 2001, p. 1). Awgryma Smith yn hytrach mai’r hyn a symbylodd ddatblygiad damcaniaethau modernaid ynglŷn â’r genedl oedd bod y byd wedi

---

<sup>17</sup> Mae Richard Wyn Jones yn dadlau bod cenedlaetholdeb yn ffenomen gymhleth a mwy cadarnhaol nag y mae “nawddogaeth unlygeidiog” Hobsawm ac eraill yn fodlon ei gyfaddef. Dywed Jones fod rhai o feddylwyr mwyaf y Gorllewin yn genedlaetholwyr, a’i fod yn hanfodol i wead cymdeithasol y byd modern. Mewn cyd-destun Cymreig, mae’n cyferbynnu “sglerosis syniadaethol” y Blaid Ryddfrydol Gymreig a’r Blaid Lafur Gymreig yn ystod eu cyfnodau hir mewn grym yng Nghymru gyda “gorbwyslais” Plaid Cymru ar “rym a dylanwad syniadaethol”. Ond mae’n dadlau bod safbwynt modernaid y Blaid Lafur, sef mai culni yw cenedlaetholdeb, a chred Plaid Cymru bod eu cenedlaetholdeb yn “fynegiant naturiol o gymundod cenedligol oesol”, ill dau yn anghywir - a’r cyntaf yn cuddio cenedlaetholdeb Prydeinig (R.W. Jones, 2007, pp. viii-ix, xi, 33-4). Yn wir, fel Billig mai Richard Wyn Jones yn pwysleisio natur genedlaetholgar yr iaith a ddefnyddir gan y wladwriaeth Brydeinig: “... anaml iawn y cyfeirir at arweinwyr megis Tony Blair, Gordon Brown a Margaret Thatcher fel cenedlaetholwyr Prydeinig, a hynny er gwaetha’r ffaith fod rhethreg ‘y genedl’ yn hydreiddio eu hareithiau a’u cyfraniadau cyhoeddus” (R.W. Jones, 2007, p. 24).

dechrau troi cefn ar genedlaetholdeb, gan gofleidio cysylltiadau â marchnadoedd byd eang: “The destruction of the nation foreshadows the demise of the theory of nationalism” (Smith, 1998, p. 3). Beth bynnag oedd y tu cefn iddo, symbylwyd llawer o’r drafodaeth newydd am genedlaetholdeb ar ddiwedd yr 20fed ganrif gan y safbwynt ‘modern’ newydd hwn arno.

Daw beirniadaeth o foderniaeth yn ogystal gan nifer o academyddion sy’n arbenigo yn y cyfnod modern cynnar, ac sydd wedi herio’r dybiaeth bod cenedlaetholdeb yn ffenomen a ddaw yn sgil diwydiannu.<sup>18</sup> Mae Adrian Hastings yn ei lyfr *The Construction of Nationhood* yn amharod i dderbyn bod yn rhaid disgwyl hyd ddyfodiad yr argraffwasg cyn i’r syniad o genedl ymledu. Dywed fod ethnigrwydd yn datblygu’n naturiol yn genhedloedd pan fydd yr iaith frodorol yn symud ymlaen o fod yn iaith lafar i fod yn un ysgrifenedig, ac yn cael ei defnyddio’n aml er mwyn creu llenyddiaeth – yn enwedig, meddai, cyfieithiadau o’r Beibl: “Once an ethnicity’s vernacular becomes a language with an extensive living literature of its own, the Rubicon on the road to nationhood appears to have been crossed”<sup>19</sup> (Hastings, 1997, p. 12). Po fwyaf y mae iaith yn cael ei hysgrifennu, po fwyaf y mae’n cael ei safoni, mwyaf i gyd y mae pobl yn gallu deall ei gilydd – o ganlyniad, gellir ffurfio ‘proto-genhedloedd’ ar sail ieithoedd ysgrifenedig, hyd yn oed heb wladwriaeth i’w cefnogi. Nid y ddefod o ddarllen papur newydd sy’n bwysig wrth greu cenedl, yn ei dyb ef, “rather a growth in realisation of, and preoccupation with, certain important shared characteristics” (Hastings, 1997, p. 22). Mae’n dadlau bod modd

---

<sup>18</sup> Gweler e.e. Smith, sy’n dadlau bod Beda wedi dychmygu Lloegr fel ‘cenedl’ yng ngolwg Duw ar batrwm Israel yn yr 8ed ganrif (Smith, 2003, p. 116), a nodi James Lyon yn ogystal fod ymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol wedi datblygu o ganlyniad i’r gwrthdaro rhwng y Saeson a’u cymdogion Celtaidd, a bod arwyddion o hunaniaeth genedlaethol i’w gweld yn Iwerddon a Lloegr erbyn yr 13eg ganrif. Yn achos y Saeson, “This community developed a sense of its own identity in many ways, not least in its attitude of superiority to the Irish, who were regarded at official level as beyond redemption” (Lyndon, 1995, p. 107). Mae Tom Nairn yn awgrymu mai chwalu’r system ffiwdal absoliwt o ganlyniad i chwyldro gwrth-Frenhinol yr 17eg ganrif, a datblygiad cymdeithas bourgeois yn eu sgil, a greodd “the first state-form of an industrialized nation...” Awgrymir ganddo nad oes diben cymharu’r broses o ffurfio cenedl-wladwriaeth Prydain gydag unrhyw genedl arall, am mai sgil-effaith i’r datblygiad damweiniol hwnnw oeddynt (Nairn, 2003, p. 4).

<sup>19</sup> Rwy’n credu bod Hastings yn gor-ddweud yma – awgrymaf yn y seithfed bennod bod angen cymharu cryfder y llenyddiaeth honno gydag unrhyw gystadleuwyr sy’n gorgyffwrdd â’r un tiriogaeth.

gweld datblygiad cyfalafol mewn masnach llyfrau cyn dyfodiad print, ac hefyd nad oedd anllythrennedd yn rhwystr i bobl ddatblygu ymdeimlad o genedlaetholdeb, gan bod modd i'r bobl a allai ddarllen drosglwyddo'r wybodaeth a geid mewn llyfrau iddynt ar lafar. Yn ei dyb ef Lloegr oedd y 'prototeip' y mae pob cenedl arall wedi ei seilio arni, a bod arwyddion o hyn i'w gweld mor bell yn ôl â'r 10fed ganrif - yn wir, erbyn y 19eg ganrif roedd Lloegr bellach yn arloesi ym maes ymerodraethau ôl-genedlaethol. Dywed fod effaith ymdrechion Lloegr i oresgyn Cymru, Iwerddon a'r Alban dros gyfnod o ganrifoedd wedi chwarae rhan bwysig wrth ffurfio hunaniaeth genedlaethol y gwledydd hynny: "Indeed, without the impact of English nationalism, the history of England's neighbours seems virtually unintelligible" (Hastings, 1997, pp. 5, 71). Dywed Kathy Lavezzo yn yr un modd fod Lloegr yn yr oesoedd canol yn meddu ar nifer o'r un nodweddion â'r genedl fodern: "A deeper historical gaze... reveals pre-Enlightenment structures of communal thinking that strikingly correlate with the forms of modern nationhood" (Lavezzo, 2004, p. vii). Mae'n gweld datganoli grym o Rufain i Goron Lloegr, ymledu biwrocratiaeth y wladwriaeth i bob rhan o'r wlad, twf dosbarth canol oedd yn ysgrifennu yn yr iaith frodorol, a defnydd cynyddol o'r Saesneg yn y llys, yr ystafell ddosbarth, a'r Senedd, yn arwydd o hynny (Lavezzo, 2004, p. xvii). Mae Leah Greenfield hefyd o'r farn mai yn Lloegr y ganwyd cenedlaetholdeb – yn benodol, yn ystod teyrnasiad Harri VIII yn yr 16ed ganrif. Mae'n dadlau bod sawl ffactor wedi dod at ei gilydd er mwyn creu egin genedlaetholdeb ynghynt nag yn unrhyw ran arall o'r byd; yn benodol, y diwygiad Protestannaidd, chwalu'r hen system ffiwdal, a chynnydd yng ngrym y senedd ac o ganlyniad yng ngrym y bobl. Yn ysgrifau'r Tuduriaid y gwelir am y tro cyntaf, meddai, y 'genedl' a'r 'bobl' yn cael eu hafalu â'i gilydd (Greenfeld, 1992a, pp. 45-47, 51-66). Fel y gwelwn, mae'r dybiaeth bod cenedlaetholdeb yn ffenomen sy'n dyddio o'r cyfnod cyn diwydiannu hefyd yn gyffredin ymysg academyddion sydd wedi ysgrifennu am ddatblygiad cenedlaetholdeb yng

Nghymru. Serch hynny, nid yw'r academyddion a drafodir uchod yn anghytuno yn sylfaenol a'r modernwyr, ond eu bod yn gweld egino cenedlaetholdeb ynghynt.

### *Ethno-symbolwyr*

Hyd yma trafodwyd dau begwn y ddadl – yr oesol a'r modern – ond cawn hefyd academyddion sy'n torri cwys drwy'r canol, gan gyfuno elfennau o'r ddwy ddadl. Mae'r ethno-symbolwyr yn dadlau mai cysyniad modern yw cenedlaetholdeb, ond ei fod wedi ei lunio i raddau o ddeunydd crai nodweddion ethnig cyffredin grwpiau sy'n ymestyn yn ôl y tu hwnt i ddechrau'r cyfnod diwydiannol.<sup>20</sup> Anthony D. Smith yw'r ethno-symbolwr mwyaf blaenllaw a chynhyrchiol yn y maes. Tybia fod y modernwyr wedi gorbwysleisio i ba raddau y dyfeisiwyd y cysyniad o 'genedl' yn y cyfnod modern, a heb dalu digon o sylw i'r ffaith bod nifer o'r un clymau sy'n nodweddu cenedlaetholdeb modern eisoes yn bodoli yn yr osoedd canol ar ffurf grwpiau ethnig oedd â iaith a diwylliant yn gyffredin: "... we cannot understand nations and nationalism simply as an ideology or form of politics but must treat them as a cultural phenomenon as well" (Smith, 1991, p. vii). Dywed ei bod yn anoddach nag y mae'r modernwyr yn ei dybio i wahaniaethau rhwng y ffurf ddinesig ar genedlaetholdeb a bwysleisir ganddynt, a'r ffurf ethnig y maent yn ei hwfftio, gan ddadlau yr ystyridd ethnigrwydd erioed yn un o'r meini prawf i gael eich cyfrif yn genedl<sup>21</sup> (Smith, 2000, pp. 19, 25). Ar y llaw arall mae hefyd yn feirniadol o bobl

---

<sup>20</sup> Gwelir esiampl o hyn yng ngwaith Miroslav Hroch, sy'n dweud bod ffurfiant cenhedloedd yn broses sydd â'i gwreiddiau yn yr Oesoedd Canol, ond ei bod wedi cyflymu a dwysau ym merw diwydiannol y 19eg ganrif. Pwysleisa hefyd fod angen i genedlaetholdeb mysg lleiafrifoedd fod wedi blaguro cyn dechrau diwydiannu er mwyn iddo ffynnu yn hwyrach yn nhir diffaith y tiroedd diwydiannol (Hroch, 2000, pp. xiii, 26). Dywed Paul James fod y genedl yn gymuned haniaethol sy'n ddibynol ar dechnolegau cyfathrebu er mwyn creu ymdeimlad o berthyn i rywbeth ehangach, ond serch hynny rhaid iddi fod wedi ei hangori ei hun yn niwylliannau a ffyrdd o fyw 'concridd' y gorffennol: "This makes it the best and worst kind of human associations, beset by contradictions, open to self-conscious cultural management, yet embedded deeply within our taken-for-granted histories" (James, 1996, pp. 2, 33). Mae Ernest Gellner yn yr un modd â'r modernwyr yn dadlau mai cysyniad diweddar yw cenedlaetholdeb, ond fel Hroch a James mae'n cydnabod bod cenhedloedd wedi eu hadeiladu i raddau ar seiliau diwylliannol ac ieithyddol a oedd yno o'u blaenau: "Nationalism is not the awakening of nations to self-consciousness - it invents nations where they do not exist - but it does need some pre-existing differentiating marks to work on..." (Gellner, 1965, p. 168)

<sup>21</sup> Er enghraifft, wrth fynd i'r afael â dadl Hobsawm am y chwyldro Ffrengig, er enghraifft, haera Smith fod unrhyw leiafrifoedd yn Ffrainc yn dilyn y Chwyldro Ffrengig wedi gorfod aberthu eu hiaith a'u diwylliant eu hunain er mwyn ennill dinasyddiaeth Ffrengig. Ni chafodd pobl croenddu hawliau sylfaenol yn yr Unol Daleithiau

fel John Armstrong (Armstrong, 1982), sy'n tybio bod modd olrhain rhai cenedloedd, fel yr Iddewon, y Groegwyr a'r Arminiaid, yn ôl am filoedd o flynyddoedd, er eu bod wedi cael cyfnod o fodoli heb genedl-wladwriaethau penodol yn gartref iddynt. Dywed fod tuedd yma i ddrysu rhwng ethnigrwydd a chenedlaetholdeb, a bod awgrymu bod cenedloedd a'r diwylliannau a ddiflannodd yr un fath â chenedloedd a diwylliannau a ailymddangosodd filoedd o flynyddoedd yn ddiweddarach yn dibynnu ar ddadansoddiad metaffisegol yn hytrach na hanesyddol. Bathodd Anthony Smith y term '*ethnosymbolic*' i ddisgrifio ei safbwynt ei hun ar genedlaetholdeb; gan bwysleisio'r *ethnie*, sef y chwedlau, y traddodiadau, y diwylliant, yr hanes, y symbolau a'r famwlad sy'n uno grŵp o bobl, ac sy'n cysylltu eu gorffennol â'r presennol: "These modern nations are not created *ex nihilo*: they have premodern antecedents that require investigation in order to establish the basis on which they were formed." Does dim rhaid i *ethnie* fod yn genedl ddinesig, na chwaith bod â mamwlad yn eiddo iddi. Ar y llaw arall, gall cenedl gynnwys sawl *ethnie* - neu dameidiau o sawl *ethnie* gwahanol. Yn hynny o beth mae'n dadlau bod y modernwyr yn gywir i honni mai ffenomen ddiweddar yw ideoleg cenedlaetholdeb, tra y gall y rheini sy'n dadlau bod gwreiddiau hŷn i genhedloedd fodloni ar ddweud bod grwpiau a chanddynt hunaniaeth ddiwylliannol yn bodoli ynghynt a oedd yn cydweddu'n fras â chenedloedd modern (Smith, 2000, pp. 49-50, 63-5).

### *Casgliadau am genedlaetholdeb*

Er bod ambell un o'r damcaniaethwyr a ystyriwyd yn crybwyll Cymru, mae eu damcaniaethau yn rhai cyffredinol sydd yn ceisio gwneud synnwyr o genedlaetholdeb fel ffenomen fyd-eang (er eu bod, fel y nodir gan Smith, yn tueddu i ganolbwyntio ar y gorllewin). Cyn symud ymlaen

---

hyd y 1960au neu'r tu hwnt, meddai – er eu bod yn trigo yno ers cyn sefydlu'r wladwriaeth - ac maent yn wynebu hiliaeth yn y Deyrnas Unedig a Ffrainc hyd heddiw. Disgwylir i unrhyw fewnfudwyr integreiddio i ddiwylliant dominyddol y wlad, gan brofi pwysigrwydd clymau diwylliant hefyd. Yn wir, meddai, mae'r modernwyr yn dangos eu gogwydd ethnig eu hunain drwy roi gormod o bwyslais ar ddatblygiad cenedlaetholdeb yn y Gorllewin a dim digon ar rannau eraill o'r byd (Smith, 2000, pp. 19, 25).

at ystyried damcaniaethau sy'n ymdrin yn benodol â Chymru, mae'n werth oedi ychydig er mwyn ystyried y safbwynt y dylid ei fabwysiadu wrth ymdrin â chenedlaetholdeb Cymreig. Daw'n amlwg yn gyntaf nad yw'r un o'r damcaniaethwyr hyn yn gyntefigwyr, ac felly y maent yn cytuno mai ideoleg fodern yw cenedlaetholdeb. Er bod Anthony Smith yn dadlau bod cenedlaetholdeb yn seiliedig ar 'ethne' a fodolai ynghynt, mae'n glir ei farn nad cenedlaetholdeb fel yr adnabyddir ef heddiw mohono. Daw'n amlwg felly mai'r gwahaniaeth canolog fan hyn yw hwnnw rhwng y rheini sy'n credu bod cenedlaetholdeb modern wedi ei ddyfeisio bron yn llwyr a'r rheini sy'n tybio ei fod yn lled-seiliedig ar waddol y gorffennol. Mae Umut Özkirimli yn nodi mai dryswch terminogol sy'n gyfrifol am lawer o'r dadlau rhwng modernwyr ac ethno-symbolwyr mewn gwirionedd. Defnyddir y term 'cenedl' gan ethno-symbolwyr i gyfeirio at grwpiau ethnig, tra bo modernwyr yn tueddu i'w neilltuo ar gyfer cenedl-wladwriaethau. Mae Özkirimli yn cynnig modd amgen o wahanu'r pegynnau hyn, drwy eu trafod yn nhermau 'hanfodol' ('essentialist') ac 'adeileddol' ('constructivist'). Fel y mae'r termau hyn yn ei awgrymu, mae'r 'hanfodwyr', megis Armstrong a Smith, yn haeru bod yna rywbeth yn hanfod y diwylliannau hyn, yn ddwfn yn isymwybod y bobl efallai, sy'n eu huno ar draws y canrifoedd: "[That] there is a ethnic/national 'essence' (a 'myth-symbol complex') underlying many, if not all, contemporary nationalisms." Mae'r 'adeileddwyr' ar y llaw arall yn synio am hunaniaeth fel rhywbeth sy'n newid yn gyson wrth gwrdd â gofynion y cyfnod, i'r graddau na ellid honni bod unrhyw barhad gwirioneddol o gwbl. Yn sgil dyfodiad y wasg argraffu a chwalu'r system ffiwdal gwelwyd newidiadau anferth yn y modd yr oedd pobl yn synio amdanynt eu hunain a'u lleoliad amserol a daearyddol yn y byd, a bod y newid hwnnw mor sylfaenol fel mai prin y gellir ei briodoli i unrhyw barhad ar 'ethne' y gorffennol (Özkirimli, 2000, pp. 183-4, 216-7). Mantais arall wrth fabwysiadu'r dosbarthiadau 'adeileddol' a 'hanfodol', yn nhyb Özkirimli, yw nad oes modd cynnwys o fewn y term 'modernwyr' rai academyddion, megis Leah Greenfeld (1992a), sy'n dadlau bod y newidiadau



sylyfaenol a arweiniodd at greu cenedlaetholdeb wedi dechrau cyn y cyfnod modern. Ar sail y dystiolaeth a ystyriwyd uchod, fe fydd y traethawd hwn yn gogwyddo tuag at y safbwynt ‘adeileddol’. Fel y dengys dadansoddiad meintiol Roeder (2007), ychydig o ddylanwad a gaiff yr ‘ethne’ blaenorol ar fodolaeth neu diriogaeth cenedl-wladwriaethau mewn gwirionedd. Yr hyn sy’n digwydd yw bod y genedl-wladwriaeth yn ffafrio ac yn ail-ddyfeisio dadansoddiad penodol o’r ‘ethne’ er mwyn datblygu math o genedlaetholdeb a fydd yn sicrhau cefnogaeth dorfol ar y naill law ac a fydd o fudd iddi hi ar y llall. Y cwestiwn sylfaenol, felly, yn ôl Özkirimli, yw “to what extent a ‘reconstructed’ and ‘reinterpreted’ culture is the same culture?” (Özkirimli, 2000, p. 221). Pwnc athronyddol, a mater oddrychol, yw hwnnw yn y pen draw, fel Llong Theseus, h.y. gofyn a yw brwsh sydd wedi newid ei goes ac yna’i ben yr un brwsh.

### *Amrywiaeth Cenedlaetholdeb*

Wrth droi at ystyried cenedlaetholdeb Cymreig yn benodol, dylid nodi bod y damcaniaethau hyn am genedlaetholdeb yn ddefnyddiol iawn wrth fynd i’r afael â chenedlaetholdebau unigol. Serch hynny, fel yr awgrymir gan y modernwyr, mae pob ffurf ar genedlaetholdeb yn wahanol. Awgryma Breuilly nad oes modd cynnig dadl gyffredinol ynghylch datblygiad cenedlaetholdeb, a bod angen ystyried ymddangosiad pob cenedlaetholdeb o fewn ei gyddestun hanesyddol unigryw<sup>22</sup> (Breuilly, 1993a, pp. 1-2). Serch hynny, mae’r union gydnabyddiaeth hwnnw o natur *amrywiol* cenedlaetholdeb yn rhybudd yn erbyn cymryd y cenedlaetholdeb ethnig ieithyddol sydd bellach yn gyfarwydd i ni yng Nghymru fel yr unig ffurf anochel ar genedlaetholdeb yn y wlad hon. Dengys ymchwil Andrew Thompson a Graham Day, a gynhaliodd gyfres o gyfweiliadau ym Mangor yng ngogledd Cymru ar droad y

---

<sup>22</sup> Cyfaddefa Gellner, yn yr un modd, fod modd dod o hyd i wrth-esiampl i ddad-brofi pob honiad am genedlaetholdeb (Gellner, 1983, p. 139). Dywed Hroch fod unrhyw ddamcaniaeth sy’n cwmpasu pob ffurf ar genedlaetholdeb yn rhy gyffredinol a bod angen ystyried hynt mudiadau cenedlaethol penodol mewn rhagor o ddyfnder: “Polemically, one might say that at the moment we have an over-production of theories and a stagnation of comparative research on the topic” (Hroch, 1993, p. 3).

mileniwm, fod yna lawer o amwysedd a gwahaniaeth barn ymysg y Cymry eu hunain ynglŷn â'u cenedlaetholdeb.<sup>23</sup> Beth sy'n cadw'r genedl 'ynghyd' yw dymuniad pobl i bwysleisio pa mor wahanol ydynt i bobl mewn gwledydd eraill (e.e. Saeson) tra'n anwybyddu'r gwahaniaethau rhyngddynt â'u cyd-wladwyr (e.e. Cymry Cymraeg a di-Gymraeg): "Differentiation and ambiguity is denied within the boundaries, while distinctions across borders are magnified" (Day & Thompson, 1999, p. 45). Fel y nodir gan McClintock, nid yn unig mae yna sawl math o genedlaetholdeb, ond mae aelodau gwahanol o'r un genedl yn aml yn hyrwyddo ffurfiau ar genedlaetholdeb sy'n cystadlu â'i gilydd (McClintock, 1996, p. 264). Awgryma Özkirimli mai dim ond un peth sy'n gyffredin i bob math o genedlaetholdeb mewn gwirionedd, sef disgwrs cenedlaetholdeb – disgwrs a nodweddir gan ei dueddiad i weithredu ymraniadau deuaidd rhwng y 'ni' a 'nhw', ac sydd hefyd yn honni bod budd y genedl yn trechu pob ystyriaeth arall (Özkirimli, 2000, p. 221). O fewn y disgwrs hwnnw, mae pob amrywiaeth ar genedlaetholdeb ethnig/dinesig yn gallu bodoli. Yr unig fodd o ddeall cenedlaetholdeb, neu genedlaetholdebau cenedl benodol, felly, yw astudio'r disgwrs hwnnw'n fanylach a gweld sut y caiff yr ymraniadau hyn eu llunio, olrhain pwy sydd yn gyfrifol am greu'r disgwrs hwnnw, pam eu bod yn y safle breintiedig o allu gwneud hynny, a holi beth sy'n eu cymell.

### *Cenedlaetholdebau Cymru*

Fe fydd y traethawd hwn yn awr yn trafod yr hyn sydd gan academyddion ym maes cenedlaetholdeb i'w ddweud am Gymru yn benodol. Ystyrir damcaniaethau sy'n ymdrin yn fwy penodol â datblygiad cenedlaetholdeb modern yng Nghymru yn y bennod nesaf. Nodwyd eisoes mai pwnc digon llithrig yw cenedlaetholdeb, ac mae hynny yn amlwg wrth ystyried y

---

<sup>23</sup> Roedd ymdeimlad ymysg y di-Gymraeg mai rywbeth wedi ei lunio gan y Cymry Cymraeg dosbarth canol er eu budd eu hunain oedd y wedd ar genedlaetholdeb sy'n pwysleisio'r gallu i siarad Cymraeg. Dywed yr awduron: "Welsh identity is not pre-given, but is largely constructed and produced by people as they develop and express their understanding of situations, events, and other people as they arise." Er gwaetha'r ffaith fod pobl yn tueddu i ystyried mai rheolau penodedig sy'n pennu beth sy'n uno cenhedloedd, roedd barn y Cymry yn arwydd fod hunaniaeth genedlaethol yn rhywbeth llawer mwy drylliedig ac amwys, meddent (Day & Thompson, 1999, p. 45).

modd y mae haneswyr o Gymru wedi synio am eu cenedl eu hunain. Mae R. Merfyn Jones, er enghraifft, yn nodi bod yr amwyster hwn i'w weld yn nheithlau cyfrolau hanesyddol am y wlad, megis *When Was Wales?* a *Wales! Wales?*<sup>24</sup> Awgryma: "'Wales,' as a category, has satisfied few analytical models" (Jones, 1992, pp. 332-3). Dechreuwn gyda'r haneswyr hynny y mae'n weddol rwydd eu gosod yn y garfan 'adeileddol'. Mae'r ffaith bod gan Prys Morgan bennod sy'n ymdangos mewn cyfrol o'r enw *The Invention of Tradition*, dan olygyddiaeth Hobsbawm, yn rhoi rhyw syniad beth fydd gogwydd yr erthygl cyn dechrau pori drwyddi. Dadleua fod y Cymry wedi mynd ati i orliwio eu hanes eu hunain i wneud yn iawn am eu diffyg dylanwad rhyngwladol: "... in Wales they provided the constricted, pathetically small nation, which had little to commend it in its present state, with an unimaginably grandiose past, by way of consolation." Mae'n canolbwyntio ar ymdrechion Iolo Morganwg ac William Owen (Pughe) i ddyfeisio traddodiadau gan gynnwys Gorsedd y Beirdd yn ogystal â cheisio ailsafoni'r iaith Gymraeg ei hun. Serch hynny nid yw safbwynt Morgan yn llwyr unochrog, gan iddo gydnabod bod sail hanesyddol i nifer o'r traddodiadau a grybwyllwyd, ac mai llenwi bylchau yn DNA diwylliannol y wlad yr oedd gwladgarwyr rhamantaidd y cyfnod<sup>25</sup> (Morgan, 1983, pp. 47, 99). Ceir golwg 'adeileddol' arall ar hanes Cymru yn llyfr Gwyn A. Williams, *When Was Wales?* Dywed Williams "Wales is impossible. A country called Wales only exists because the Welsh invented it. The Welsh exist only because they invented themselves" (Williams, 1985, p. 2). Er ei fod yn awgrymu bod hunaniaeth genedlaethol y wlad yn rhywbeth a luniwyd i ddechrau gan dywysogion Cymru oherwydd bygythiad o du'r Saeson yn yr oesoedd canol, mae ei bwyslais ar ailddyfeisio parhaus er mwyn wynebu heriau'r presennol, ac mae'n cymharu Cymru â'r gweddnewidiwr hudolus Gwydion o'r Mabinogi: "They have made themselves over repeatedly because they have had to make themselves against the odds. From birth, they lived with the

---

<sup>24</sup> Mae teitl cyfrol M. Wynn Thomas, *The Nations of Wales*, yn awgrymu yn ur un modd nad yw union hunaniaeth genedlaethol y Cymry yn hawdd rhoi bys arno (Thomas, 2016).

<sup>25</sup> Dychwelir at y dadansoddiad hwn ym mhennod chwech.

threat of extinction” (Williams, 1985, p. 5). Yn nhyb Morgan a Williams, felly, roedd hunaniaeth y Cymry yn rhywbeth a ailgrëwyd o ganlyniad i bwysau allanol. Serch hynny, gellid dadlau bod elfen ‘hanfodol’ i ddadl Williams hefyd – yn y bôn, mae’n dadlau bod ryw ‘hanfod’ o fewn y Cymry sydd wedi eu cymell i’w hailddyfeisio eu hunain yn allanol er mwyn goroesi. Gellid cynnwys Gareth Miles yn ogystal ymysg yr ‘adeileddwyr’. Er ei fod yn cytuno â Hobsawm “mai dim ond gyda’r Chwyldro Ffrengig y daeth i fodolaeth y cenedlaetholdeb cyflawn a fu’n rym ideolegol mor bwerus fyth oddi ar hynny” mae’n caniatáu bod rhyw wedd ar genedlaetholdeb wedi bodoli ers yr oesoedd canol. Ond, fel y Marcswyr eraill, tybia mai hunan-les yr uwch-ddosbarth neu’r dosbarth canol sydd wedi bod yn greiddiol i genedlaetholdeb erioed, o wrthryfel Owain Glyndŵr hyd at sefydlu Plaid Cymru yn yr 1920au. O ganlyniad, proses o ailddyfeisio cyson ydyw, wrth i’r dosbarthiadau hynny geisio cefnogaeth dorfol i’w dyheadau eu hunain (Miles, 1998, p. 68).

Mae Raymond Williams hefyd yn ystyried cenedlaetholdeb drwy gyfrwng damcaniaethau Marcsaidd, gan bwysleisio'r datgysylltiad rhwng cyfnodau a phobloedd oddi fewn i hanes Cymru (Williams, 2003, p.68), a hefyd y modd y caiff cenedlaetholdeb ei atgynhyrchu gan y dosbarth llywodraethol er mwyn llesteirio brwydr ar sail dosbarth y dosbarth gweithiol: “The building of states, at whatever level, is intrinsically a ruling-class operation” (Williams, 2003, p. 192). Ar y naill law y mae’r dosbarth llywodraethol hwn yn globaleiddio’r farchnad rydd, tra ar y llaw arall mae’n defnyddio cenedlaetholdeb arwynebol fel modd o ysgogi’r ‘bobl’ am resymau milwrol, casglu trethi, ayyb, er mwyn amddiffyn eu budd eu hunain. Mae Williams yn pwysleisio’r paradocs fod cenedlaetholdeb yn aml yn cael ei ddefnyddio er mwyn a) sicrhau bod y cyhoedd yn cefnogi polisiau a fyddai yn eu gwneud yn ysglyfaeth i gyfalafiaeth ryngwladol, a b) yn portreadu gwladoliad a fyddai yn dod â diwydiant dan reolaeth y bobl fel gweithred anwlatgar (Williams, 2003, p.196-7). Yn ôl Williams datblygiad i’w briodoli i ail-

ddyfodiad rhyddfrydiaeth *laissez-faire* tua diwedd yr 20fed ganrif yw hon, ond fel y gwelwn yn ddiweddarach, wrth drafod damcaniaeth Immanuel Wallerstein am genedlaetholdeb yn y drydedd bennod, gellir dadlau mai dyma oedd wrth wraidd cenedlaetholdeb modern. Roedd Raymond Williams serch hynny yn ganmoliaethus o rai agweddau ar genedlaetholdeb Cymreig. Cefnogai sefydlu gweithdrefn sosialaidd wedi ei seilio ar gymdeithasau a fyddai yn eu rheoli eu hunain yn hytrach na sosialaeth a fyddai'n canoli grym yn y wladwriaeth Brydeinig (Williams, 2003, p.203). Wrth adolygu llyfr Ned Thomas, *The Welsh Extremist*, mae'n clodfori'r "radical emphasis on identity and community" sydd yn dynodi bod y mudiad cenedlaethol yng Nghymru yn rhan o'r symudiad 'Chwith Newydd' hwnnw (Williams, 2003, p. 4).

Er gwaetha'r ysgrifau yma gan y modernwyr, afraid dweud bod nifer o'r damcaniaethau eraill am genedlaetholdeb y Cymry yn tynnu ar yr union oesoedd yr oedd Hobsawm a'i griw mor ddirmygus ohono. Dywed R. Tudur Jones: "In Wales, on the contrary, the Welsh nation emerges from the mist of antiquity and for love of it and out of concern about it, its sons and daughters embrace Nationalism. There is then a story of development. Those manifold elements that contribute towards the being of the nation can be traced as they grow and gather strength. The complexity of nationhood unfolds as the generations pass by" (Jones, 1974, p. 69). Mae'n gweld parodrwydd y genedl i ddilyn Owain Glyndŵr mewn 'rhyfel er rhyddid cenedlaethol', a phoblogrwydd gwaith Sieffre o Fynwy, yn arwydd clar o hynny. Mae hefyd yn dadlau bod ffin weddol sefydlog wedi bodoli rhwng Cymru a Lloegr yn y canol oesoedd. Roedd R. Tudur Jones yn ysgrifennu wrth gwrs mewn cyfnod cyn bod damcaniaethau'r modernwyr mewn bri. Dywed J.R. Jones yn yr un modd: "Cymundod yw cenedl a luniwyd allan o ryw gymysgwch cyntefig, hiliol neu lwythol." Mae hefyd yn pwysleisio'r "dimensiwn oesol" sy'n gwneud 'pobl yn 'genedl' (Jones, 1961, pp. 3, 6). Yn ei ysgrif ddylanwadol *Prydeindod*

pwysleisia dair elfen sydd yn llunio cenedl, a'r gyntaf ohonynt yw tiriogaeth ddiffiniedig a phriod iaith. Pwysleisia fod y genedl yn deillio o "gydymdreiddiad tir ac iaith" dros gyfnod hirfaith (Jones, 1966 [2013], pp. 9-10). Soniwyd eisoes nad oes llawer o sail i'r gred hon ym mhwsigrwydd priod iaith i gread cenedl. Serch hynny, o edrych yn fanylach ar waith J.R. Jones gwelir bod ei syniadau yn llawer mwy soffistigedig nag y mae'r oesoedd hwn yn ei awgrymu, a'i fod wedi rhagflaenu gwaith Anderson, Billig a Roeder mewn llawer ystyr. Er enghraifft, mae'n pellhau ei ddadl ef oddi wrth y pwyslais ffasgaid ar glymau ethnig biolegol drwy bwysleisio mai ym meddyliau trigolion cenedl yn unig y mae'r cwlwm rhyngddynt yn bodoli, yn hytrach nag yn y gwythiennau: "Tafell o groen naturiol y ddaear sy'n gorwedd rhwng Lloegr a Môr Iwerddon. Ynom y mae hi'n 'Gymru'." (Jones, 1966 [2013], pp. 13-14) Mae ei ddadl yn fynegiant cynnar o ddadl Anderson ynglŷn â'r 'gymuned ddychmygedig' – yn wir, mae'r modd y pwysleisir ganddo bwysigrwydd ymwybyddiaeth y bobl eu bod yn rhan o "[g]ymuniad mewn Amser", h.y. eu bod yn rhan o grŵp â gorffennol a dyfodol iddo ac sydd yn symud i fyny ac i lawr hanes â'i gilydd ar "trac" (Jones, 1961, pp. 6, 10) yn ddrych i syniadau Anderson ynglŷn ag "a solid community moving steadily up (or down) history" (Anderson, 1991, p. 26). Y mae ei bwyslais ar "*symbolau* cenedlaethol, ac yn enwedig, *sefydliadau gwladol a diwylliannol symbolig*" fel modd o atgoffa pobl yn ddyddiol o'r genedl y maent yn perthyn iddi hefyd yn galw i gof waith Billig a Roeder: "I fedru tapio'r cof oesol, mi ddywedwn i, y mae'n rhaid i chwi naill ai fod, yn ôl eich graddau, yn hyddysg ynddo, neu y mae'n rhaid i chwi ei ganfod yn feunyddiol symboledig mewn cyfryngau gwrthrychol a fydd yn gefndir cyson i'ch bywyd." Yn wir, mae'n enwi rhai o'r union symbolau hynny sydd ymysg 'geiriau bychain' Billig – "Y Frenhiniaeth... Y Senedd-dai, Big Ben..." ac o ganlyniad iddynt teimla'r Cymro ei fod yn "sefyll yn Nhrac oesol y genedl Seisnig" yn hytrach na'r un Gymreig (Jones, 1961, p. 10). Gwelwn felly fod J.R. Jones o flaen ei amser wrth fynegi nifer o'r cysyniadau a fyddai'n ddylanwadol iawn ym maes cenedlaetholdeb o'u mynegi yn Saesneg. Y gwahaniaeth

sylfaenol rhwng J.R. Jones a'r awduron hyn yw mai *cynnal* bodolaeth y genedl a ddaeth i fod o ganlyniad i gydymdreiddiad iaith a thir y mae'r cyfryngau, y symbolau a'r sefydliadau hyn yn ei farn ef, yn hytrach na'u bod yn chwarae rhan ffurfiannol wrth *greu'r* genedl yn y lle cyntaf. Mae'n gwahaniaethu rhwng yr hyn a elwir ganddo yn "[g]enedligrwydd normal, rhagdybiedig" a "[c]enedligrwydd meithriniedig" sydd yn cael ei orfodi ar bobl o'r tu allan, lle byddai damcaniaethwyr diweddarach yn dadlau nad oes y fath beth â chenedl ragdybiedig a'u bod *oll* yn feithriniedig (Jones, 1961, p. 11). Yn hynny o beth mae gwaith J.R Jones yn cynrychioli arhosfan rhwng yr oesol a'r modern, ac o ganlyniad mae yna densiynau yn ei waith. Nid yw'n cydnabod bod hyd yn oed twf y cenedloedd 'rhagdybiedig' yn broses ddinistriol. Dywed am y broses cydymdreiddiad iaith a thir dros ganrifoedd sy'n esgor ar y cenedloedd hyn: "elo'r naill... i mewn i'r llall, eto heb ddiflannu yn ei gilydd, ond creu perthynas dufewnol nas ceir pan na chysylltir sylweddau ond yn unig drwy gyplysiad o'r tu allan" (Jones, 1966 [2013], pp. 13-14). Ond mewn gwirionedd wrth gwrs nid yw ieithoedd yn ymddangos o wagle; mae hyd yn oed safoni a sefydlogi iaith frodorol ar gyfer ei defnyddio yn yr oes fodern yn broses ddinistriol, gan gyfyngu ar dafodieithoedd ac amrywiadau ieithoedd. Byddaf yn dychwelyd at waith J.R. Jones yn y chweched bennod.

Gwelir y tueddiad tuag at oesoledde hefyd yn ymdriniaeth J.E. Caerwyn Williams o bwnc cenedlaetholdeb yn un o gyfrolau *Cof Cenedl* yn 1993. Er ei fod yn cydnabod barn y modernwyr, mae hefyd yn dadlau bod egin genedl i'w gweld yng Nghymru erbyn y bymthegfed ganrif: "Bydd teitl y bennod hon yn anathema i lawer. Iddynt hwy, ffenomen ddiweddar yw cenedlaetholdeb... I mi, sentiment yw cenedlaetholdeb sy'n uno grŵp o bobl, sef cenedl, ar y sail wirioneddol neu ddychmygol eu bod wedi cyfranogi o'r un hanes cyffredin yn y gorffennol ac ar y sail eu bod yn dymuno byw fel grŵp ar wahân yn y dyfodol" (Williams, 1993, pp. 3,5). Mae'n wfftio'r ddadl bod angen gwladwriaeth ar bobl i fod yn genedl, ar y sail

nad oes gan Cymru ei gwladwriaeth ei hun ond ei bod yn ystyried ei hun yn genedl.<sup>26</sup> Dadl debyg a geir gan J. Beverley Smith yn ei ysgrif ‘Llywelyn ap Gruffudd a Chenedligrwydd Cymru’, sy’n awgrymu bod modd gweld ymdeimlad o genedligrwydd yn ymateb Tywysog Cymru i orchmynion Edward I iddo ildio iddo yn 1282.<sup>27</sup> Dywed Smith fod y Cymry erbyn hynny nid yn unig bellach yn cyfeirio’n ôl at gyfnod y Brytaniaid er mwyn creu hunanddelwedd, ond hefyd eu cyfnod dan warchae gan y Saeson: “Ceir digonedd o gyffyrddiadau â’r ymwybod o Brydain yn y traddodiad llenyddol, ond mwy ystyrlon yng Nghymru na’r myth o wreiddyn cyffredin... oedd realaeth profiad y Cymry eu hunain” (Smith, 1989, p. 13). Caiff y cyferbyniad rhwng y Cymry a’r Saeson, a’r ymwybyddiaeth eu bod hwy’n bobloedd a chanddynt ieithoedd a diwylliannau gwahanol, eu pwysleisio gan Kenneth O Morgan yn ogystal. Yn ei dyb ef roedd yr elfen hon yn amlwg hyd yn oed yn ysgrifau Beda yn y flwyddyn 597, ac yn ymestyn ymlaen drwy hanes yn ysgrifau Gerallt Gymro ac Owain Glyndŵr: “A sense of nationality is as old as the Welsh themselves... It provided a constant theme for Welsh poetry and prose throughout the middle ages” (Morgan, 1995, p. 198). Awgryma Anthony Smith fod egin hunaniaeth genedlaethol wedi datblygu ymysg y Cymry o ganlyniad i dwf poblogaeth, datblygiad economi fewnol, ac arwyddion o wladweinyddiaeth erbyn yr 13ain

---

<sup>26</sup> Er mwyn cefnogi ei ddadl mae’n cyfeirio at ymdrechion tywysogion Cymru dros y canrifoedd i uno’r genedl, cyfraith Hywel Dda, ac ymdrechion Gerallt Gymro i sicrhau Eglwys yng Nghymru a fyddai’n annibynnol ar Loegr. Mae hefyd yn ystyried penderfyniad Edward I i roi teitl ‘Tywysog Cymru’ i’w fab a anwyd yng Nghaernarfon yn 1301 fel ymdrech i leddfu teimladau cenedlaetholgar y bobl. Dadleua yn wir fod Cymru yn fwy o genedl nag ydoedd y Saeson dan y Normaniaid, oherwydd bod y Cymry’n cael eu llywodraethu gan arweinwyr “o’r un gwaed a hwythau” yn hytrach na choncwerwyr estron eu hiaith a’u diwylliant. Arwyddocaol hefyd oedd y ffaith eu bod yn “cynhyrchu llenyddiaeth a oedd yn adlewyrchu eu gwlad a’u bywyd o Fôn i Fynwy”. Meddai wrth gloi: “Ni all neb ystyried y ffeithiau hyn heb gael ei argyhoeddi bod y Cymry wedi dod i ymwybod eu bod yn genedl yn gynnar iawn yn eu hanes a bod cenedlaetholdeb wedi dod yn rhan o’r ymwybod hwnnw gryn amser cyn diwedd yr Oesoedd Canol” (Williams, 1993, p. 34).

<sup>27</sup> Mae ei lythyr yn ymateb i gais Archesgob Caergaint, John Peecham, yn dangos nad oedd am dderbyn ystad yn Lloegr lle y byddai’r iaith a’r diwylliant yn ddieithr iddo, ac nad oedd am ildio tiroedd a fu ym meddiant ei ragflaenwyr ers cyfnod Camber mab Brutus. Mae J. Beverley Smith yn nodi bod modd gweled yn y llythyr yma ac eraill o’i eiddo yn yr un cyfnod, “sawl thema sy’n bwysig yn meddwl gwleidyddol y cyfnod, sef ymwybod â gwreiddiau’r genedl a’i phrofiad hanesyddol dros y canrifoedd hyd y presennol, ac ymwybod â safle cyfraith Cymru...” (Smith, 1989, pp. 3-5).



ganrif. Fe'i chwalwyd bron yn llwyr gan goncwest Edward I yn 1282, cyn adfywio am gyfnod adeg gwrthryfel Owain Glyndŵr ar ddechrau'r 15fed ganrif<sup>28</sup> (Smith, 2003, p. 128).

Fel y nodwyd eisoes, mae'n debygol mai ymateb parod y modernwyr i farn J.E. Caerwyn Williams, J. Beverley Smith ac eraill fyddai dweud mai ffenomen dorfol yw cenedlaetholdeb – ac felly nid oes modd cymharu unrhyw ddyheadau honedig genedlaetholgar ar ran dosbarth llywodraethol llythrennog yr Oesoedd Canol â'r cenedlaetholdeb modern a ddaeth i'r amlwg yn y 19eg ganrif. Heb brawf bod y werin datws yn ymwybodol o 'gymuned ddychmygedig', ni allai cenedlaetholdeb fel yr ydym yn synio amdano heddiw fodoli. Ceir awgrym i'r perwyl hwnnw gan Geraint H. Jenkins yn ei lyfr *A Concise History of Wales*. Byddai'n gamgymeriad, meddai, ystyried mai undod cenedlaethol oedd nod y tywysogion sydd bellach wedi eu dyrchafu yn arwyr cenedlaethol: "Nineteenth- and twentieth-century nationalist historians often depicted pre-Norman Wales as having already embarked on a pre-ordained march towards a Welsh nation state and viewed several of the aforementioned rulers as proto-nationalist figures. This interpretation is difficult to sustain... although the likes of Rhodri Mawr, Hywel Dda and Gruffudd ap Llywelyn strove to bind the Welsh together, Welsh rulers identified first and foremost with their regional base and the prospects of extending it" (Jenkins, 2007, p. 44). Serch hynny, mae Peredur Lynch yn herio'r dyb nad oes tystiolaeth o ymwybod cenedlaethol torfol yn bodoli cyn yr oes fodern, gan ddadlau bod modd gweld egin cenedlaetholdeb ymysg y Cymry yn y canu darogan Cymraeg yn niwedd yr oesoedd canol a'r cyfnod modern cynnar. Dywed y "gallasai ymwybod cenedlaethol (neu'r syniad o genedl) yng Nghymru'r Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar fod yn gysyniad ystyrllon i gylch

---

<sup>28</sup> Cawn hefyd ddadl argyhoeddiadol gan Jerry Hunter yn ei gyfrol *Soffestri'r Saeson*, astudiaeth o ysgrifau'r croniclwr a'r milwr yn y fyddin Seisnig, Elis Gruffydd, fod ymdeimlad o genedligrwydd Cymreig, Seisnig a Phrydeinig eisoes yn bodoli yn yr unfed ganrif ar bymtheg (Hunter, 2000). Serch hynny, gwna Hunter ddefnydd o ddamcaniaeth Anderson wrth ddadlau mai cread dychmygol beirdd ac ysgrifenydd oedd Cymru cyn 1997, ryw fath o "dream-nation, the Wales-in-the-head... they are continuing the tradition of writing an imagined Wales into literary existence..." (Hunter, 1998/1999, pp. 79, 113).

cymdeithasol llawer ehangach na'r *elite* llythrennog a grybwyllir mor aml yn ysgrifeniadau'r modernwyr ym maes astudio cenedlaetholdeb" (Lynch, 2007, p. 41). Yn wahanol i ddeunydd ysgrifenedig, meddai, gellid dadlau bod y canu yn cael ei drosglwyddo ar lafar yn bennaf, ac yn cylch-droi ymysg y boblogaeth yn gyffredinol. Roedd y farddoniaeth, a gâi ei throsglwyddo ar gof a chadw felly, yn fodd o 'argraffu' a chylchredeg gwybodaeth ymysg cymuned ieithyddol ar hyd a lled Cymru. Ceir tystiolaeth yn y canu proffwydol hwnnw, meddai, fod Cymry'r Oesoedd Canol yn ymwybodol o'r enw oedd ganddynt yn gyffredin, ac yn ymwybodol hefyd eu bod nhw'n rhannu iaith a diwylliant, yn ogystal â mythau cyffredin am eu cychwyniadau. Dywed Lynch: "[Roedd] bodolaeth y Cymry fel pobl yn fater cwbl ddigwestiwn a gymerir yn gwbl ganiatol yn y corff hwn o ganu a hynny o ddechreuadau'r traddodiad yn y 10g hyd at ei ddiwedd. Y mae'n ganu trwyadl genedlaethol yn yr ystyr mai un o'i brif bynciau yw'r Cymry fel pobl a'u tynged fel pobl" (Lynch, 2007, p. 26). Mae dadl Peredur Lynch yn herio'r dybiaeth fod datblygiad cymdeithas lythrennog a gwasg brint yn rhagofyniad i dwf hunaniaeth genedlaethol. Aiff hefyd ymhellach nag Anthony Smith, sy'n dadlau mai'r 'uned ethnig' sy'n ymddangos gyntaf cyn datblygu'n genedl yn y byd modern, drwy honni bod y fath beth â chenedl wedi bodoli yng Nghymru ganrifoedd ynghynt (Lynch, 2007, p. 42). O gofio pwyslais Umut Özkirimli ar ddisgwrs cenedlaetholdeb fel yr unig nodwedd sydd yn uno pob ffurf ar genedlaetholdeb (Özkirimli, 2000, p. 230), mae'n ddiddorol nodi bod y canu y cyfeirir ato gan Lynch yma (2007, p. 26) yn atgynhyrchu'r union ddeuoliaeth hwnnw rhwng y 'ni' a 'nhw' - y 'Cymry/Brythoniaid' a'r 'Saeson', yn yr achos hwn - a'r pwyslais ar fudd y genedl yn anad dim arall, a drafodir ganddo. Serch hynny, mae Lynch hefyd yn eglur bod modd gwahaniaethu rhwng yr ymdeimlad o berthyn i genedl a fodolai cyn ac y chwyldro'r diwydiannol, a'r ymdeimlad y dylai'r Cymry feddu ar ei gwladwriaeth ei hun a ddaeth i'r amlwg wedi'r chwyldro diwydiannol (Lynch, 2007, p. 41). Dyma a wna

*Gwyddoniadur Cymru*, sydd dan ei gyd-olygyddiaeth ef, drwy alw'r cyntaf yn genedligrwydd a'r olaf yn genedlaetholdeb (Davies, et al., 2008, pp. 155-6).

Fel yn achos damcaniaethau Hastings, Levazzo a Greenfeld, mae'r ffaith i Loegr foderneiddio yn gynharach na gwledydd eraill hefyd yn ganolog i ddamcaniaeth Richard Wyn Jones ynghylch cenedlaetholdeb a'r iaith Gymraeg. Yn ei astudiaeth o syniadaeth Plaid Cymru, *Rhoi Cymru'n Gyntaf*, dywed fod y ffaith i Loegr foderneiddio'n raddol ers y cyfnod modern cynnar yn golygu nad oedd y broses yn un mor derfysglyd â phan ffurfiwyd cenedloedd eraill Ewrop yn ddiweddarach. Dyna pam mae rhan helaeth o strwythur 'afresymegol' y wlad o'r cyfnod modern cynnar wedi parhau'n gyflawn. Un o sgil effeithiau hyn, meddai, oedd nad aethpwyd ati erioed i unffurfio a chymhathu trigolion Cymru â'r gwledydd eraill yn y deyrnas fel y gwnaethpwyd yn sgil creu cenedloedd eraill. Parhaodd y Deyrnas Unedig yn wlad ranedig yn cynnwys sawl system gyfreithiol ac eglwys wahanol oedd yn dyddio o'r canol oesoedd. Hyd yn oed yng nghyfnod yr Ymerodraeth Brydeinig, roedd y cysyniad o Brydeindod yn ddigon eang fel bod modd i drigolion Iwerddon, Cymru, Lloegr a'r Alban feddu ar eu dadansoddiad eu hunain o'r hyn yr oedd hynny yn ei olygu. Mae Richard Wyn Jones yn cyferbynnu hyn â sefyllfa rhanbarthau Ffrainc, a frwydrodd yn ofer i ennill unrhyw hunanlywodraeth yn dilyn ymdrechion y wladwriaeth i greu Ffrainc unffurf o'r newydd. Dadleua mai oherwydd nad ymgeisiodd y wladwriaeth Seisnig i sicrhau unffurfiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol y mae'r diwylliant a'r iaith Gymraeg yn parhau hyd heddiw (Jones, 2007, pp. 47, 50). Fel y gwelwn ym mhennod pump, nid wyf yn llawn gytuno â'r safbwynt hwn. Gellid dadlau bod y broses o argyhoeddi'r boblogaeth ynglŷn â'r angen i newid diwylliant ac iaith wedi dechrau adeg y Deddfau Uno ond na chyrhaeddodd y sefydliadau addysgiadol a fyddai yn caniatáu i drwch y boblogaeth wneud hynny nes diwedd y 19eg ganrif.

Cyn symud ymlaen i drafod cenedlaetholdeb yng Nghymru'r 19eg ganrif yn benodol, dylid holi pa arwyddocâd fydd gan y damcaniaethau am genedlaetholdeb, a hefyd yr dadansoddiadau hanesyddol sy'n ymdrin â Chymru, i fethodoleg y traethawd hwn. Awgrymaf dri phrif gasgliad. Y cyntaf yw bod y cyfraniadau hyn yn awgrymu nad yw'r termau 'modernydd' neu 'ethno-symbolydd' yn arbennig o ddefnyddiol wrth fynd i'r afael â datblygiad cenedlaetholdeb yng Nghymru. Credaf fod y termau a fathwyd gan Özkiriml, 'adeileddol' a 'hanfodol', yn llawer mwy hwylus, ac yn enwedig felly'r cyntaf, am ei fod yn galluogi'r academydd i a) olrhain datblygiad cenedlaetholdeb o'r cyfnod cyn-fodern ac awgrymu dylanwad hynny ar genedlaetholdeb modern, a b) yn dangos bod cenedlaetholdeb hefyd yn rhywbeth sydd mewn cyflwr o newid parhaus. Ar bwynt a) fel yr awgryma astudiaethau Lynch, Hastings, Greenfeld ac eraill, roedd nifer o'r cynhwysion a ganiatâi ddatblygiad cenedlaetholdeb yn bodoli cyn y cyfnod modern. O dderbyn dadl Roeder ac eraill bod cenedlaetholdeb yn rhywbeth sydd yn newid yn gyson er mwyn cyd-fynd â chymhellion sefydliadau, nid oes unrhyw reswm dros feddwl na allai sefydliadau canoloesol fod wedi cynhyrchu disgwrs cenedlaetholdeb yn yr un modd pan oedd hynny o fudd iddynt (e.e. gallai llys tywysog Cymreig a oedd am ennill teyrngarwch o fewn tiroedd newydd, neu alw ei bobl i'r gad yn erbyn ymosodiad o Loegr, gyfarwyddo ei feirdd i ledaenu neges o'r fath ar lafar). Ond, ar bwynt b) nid oes sail yn fy marn i dros ddadlau bod rhyw 'hanfod' yn perthyn i genedl sydd yn ddolen rhwng y dyfodol a'r gorffennol. Tra bo pob ffurf ar genedlaetholdeb wedi ailffurfio tirlun gwleidyddol ac economaidd Cymru mewn ffyrdd a oedd yn rhwym o ddylanwadu ar ddatblygiad cenedlaetholdebau y dyfodol, gallai dealltwriaeth Cymry'r 15fed a'r 20fed ganrif o'r hyn a olygai i fod yn Gymro fod mor wahanol ag ydyw rhwng dwy genedl wahanol. Ys dywed Day a Suggett:

the question we ought to address is not that of the real 'nation' or national identity which lies behind concepts employed in political life, but that of the formation, articulation, and propagation of the concepts themselves... This means that we need to treat 'Wales' as it has figured in successive, and rival, discourses, and consider the question 'How many Wales?' or 'How many ways of being Welsh?' (Day & Suggett, 1985, p. 96)

Er enghraifft, gwelir bod yr holl ddamcaniaethau a ystyriwyd yn unfryd eu barn ar y newid byd a ddaeth yn sgil chwalu'r system ffiwdal a'r chwyldro argraffu. Ys dywed Lynch byddai chwilio am genedlaetholdeb modern yn yr oesoedd canol "mor ofer â chwilio am drenau neu longau stêm yn yr un cyfnod" (Lynch, 2007, p. 41). Mae'n amlwg bod y datblygiadau trawsnewidiol hyn wedi dwysau'r ymdeimlad ymysg y bobl o berthyn i gymuned ddychmygedig, oherwydd bod datblygiadau trafndiaeth wedi cwtogi ar amser teithio fel bod modd i bobl gymysgu y tu hwnt i'w cymunedau lleol hwy eu hunain, am ei fod yn haws atgynhyrchu cenedlaetholdeb yn ddyddiol drwy'r wasg argraffu, ond hefyd oherwydd bod natur ddemocrataidd y genedl-wladwriaeth fodern yn golygu bod ennill cefnogaeth 'y bobl' gymaint â hynny'n bwysicach. Ond yn fwy nag hynny, arweiniodd y chwyldroadau hyn at newid sylfaenol yng nghanolbwynt grym o fewn y wladwriaeth, o ddwylo arweinwyr milwrol a chrefyddol oedd yn honni i'w grym ddod gan Dduw, i ddsbarth canol masnachol oedd yn ddibynol ar fympwy'r bobl. Golygai hyn flaenoriaethu, neu ddyfeisio, dadansoddiad gwahanol o 'ethne' y gorffennol. Mae'r ystyriaethau hyn yn codi dau gwestiwn. I ba raddau y dylanwadodd gwaddol diwylliannol y Cymry ar hynt cenedlaetholdeb yn y 19eg ganrif - a oedd elfen o barhad yma, neu a oedd bedydd tân y chwyldro diwydiannol a throsglwyddo grym i sefydliadau modern yn cynrychioli rhwyg llwyr â'r gorffennol? Gwneir ymdrech i ateb y cwestiynau hynny ym mhenodau pump a chwech. Yn ogystal, sut yr effeithiodd dyfodiad yr

argraffwasg, ac yn benodol felly ‘oes aur’ y wasg Gymraeg, ar genedlaetholdeb Cymreig yn y 19eg ganrif? Fe aiff y traethawd hwn i’r afael â’r cwestiwn hwnnw ym mhennodau saith ac wyth.

Oherwydd y pwyslais a roddir ar y wasg argraffu gan ymron y cwbl o’r damcaniaethwyr hyn, a lle blaenllaw damcaniaethau Benedict Anderson a Michael Billig yn ein dealltwriaeth o’r modd y dylanwadodd y wasg argraffu ar genedlaetholdeb, fe fydd eu gwaith yn cael sylw arbennig wrth drafod effaith ‘oes aur’ y wasg argraffu yng Nghymru ar ddatblygiad cenedlaetholdeb yma. Wrth ystyried y dylanwadau gwleidyddol ar ddatblygiad cenedlaetholdeb yng Nghymru, credaf hefyd y bydd yn fuddiol iawn cymhwyso damcaniaeth Roeder ynglŷn â’r ‘genedl segmentedig’ at Gymru’r 19eg ganrif, gan ei fod yn cynnig esboniad arwyddocaol a gwreiddiol wrth ystyried pam na welwyd mudiad cenedlaethol amlwg yn ymwreiddio yng Nghymru yn y cyfnod hwnnw. Ond cyn gosod fy namcaniaeth innau gerbron, byddaf yn y bennod nesaf yn ystyried mewn dyfnder waith academwyr sydd eisoes wedi mynd i’r afael â dylanwadau economaidd a gwleidyddol ar ddatblygiad cenedlaetholdeb yng Nghymru yn y 19eg ganrif yn benodol, gan drafod arwyddocâd, gwendidau a chryfderau eu damcaniaethau hwy.

## Pennod 2

### Cenedlaetholdeb a Chymru'r 19eg Ganrif

Diben y bennod hon a'r nesaf fydd trafod rhai o'r damcaniaethau sydd eisoes wedi eu rhoi gerbron i esbonio diffyg datblygiad cenedlaetholdeb modern yng Nghymru yn y 19eg ganrif, gan bwysu a mesur eu cryfderau a'u gwendidau a gweld lle maent yn cytuno ac yn anghytuno â'i gilydd. Awgrymaf fod yna ddwy brif ffrwd i'r dadleuon hyn, sef esboniadau sy'n rhoi'r pwyslais ar ideoleg y Cymry (h.y. roedd eu rhyddfrydiaeth yn eu hatal rhag datblygu mudiad cenedlaethol), ac eraill sy'n awgrymu ffactorau economaidd-gymdeithasol. Awgrymaf yn y bennod hon fod dealltwriaeth Simon Brooks, un o brif hyrwyddwyr y ddadl mai ideoleg rhyddfrydiaeth oedd ar fai am ddiffyg datblygiad mudiad cenedlaethol yng Nghymru, yn sylfaenol wahanol i ddamcaniaethwyr megis Hroch, Nairn a Hechter. Mae'r cyntaf yn dadlau bod cenedlaetholdeb yn tyfu o reddf geidwadol gwbl naturiol i amddiffyn iaith a diwylliant, tra yn nhyb yr olaf mae'n ganlyniad i ymdrechion dosbarth canol a gweithiol 'cynhyrchiol' i ddymchwel rheolaeth rheolwyr 'segur' sydd yn elwa'n annheg ar eu llafur. Dadleuaf yma fod y dystiolaeth yn cefnogi yr ail ddehongliad, ac mai'r berthynas economaidd symbiotig rhwng y Cymry a'u meistri Seisnig yn yr ardaloedd diwydiannol a threfol sy'n esbonio pam na welwyd pwysleisio nodweddion ethnig er mwyn cyfiawnhau dymchwel eu rheolaeth. Dadleuaf yn ogystal nad yw cymhariaeth Brooks rhwng economïau Cymru a gwledydd eraill anhanesiol canol Ewrop fel pe bai'n argyhoeddi; roeddynt yn meddu ar economïau integredig nad oedd â'r un berthynas symbiotig a'r craidd. Yn olaf, awgrymaf nad oes sail dros drin ystyriaethau ideolegol ac economaidd ar wahân; gall damcaniaeth Alexander Gerschenkron ynglŷn â'r modd y gall ddiwydiannu cyflym esgor ar ideolegau ffyrnig sy'n ffafrio newid a moderneiddio

fod yn fodd o ieuo'r damcaniaethau ideolegol ac economaidd â'i gilydd, gan ddangos y gall y wedd 'ffyrnig' ar Ymneilltuaeth Ryddfrydol a welwyd yng Nghymru fod yn ganlyniad uniongyrchol i'r diwydiannu cyflym a welwyd yno.

Wrth i genedlaetholdeb dyfu'n faes academiaidd a chanddo lenyddiaeth doreithiog, daeth datblygiad cenedlaetholdeb yng Nghymru yn y 19eg ganrif yn faes trafod brwd yn ogystal. Serch hynny, tan yn gymharol ddiweddar, rhyw fath o ategyn i ddamcaniaethau cyffredinol am genedlaetholdeb oedd esiampl Cymru (Hroch, 2000; Hechter, 1975; Nairn, 2003). Y tu hwnt i lyfr David L. Adamson, *Class, Ideology & the Nation* (1991, p. 75), a chrynodeb craff John Davies (2007a, pp. 380-5), prin yr aethpwyd i'r afael yn *uniongyrchol* â'r cwestiwn gan academyddion o Gymru, er bod Robin Okey wedi awgrymu mor bell yn ôl ag 1989 ei fod yn un canolog i hanes Cymru (Okey, 1989, p. 35). Mae Richard Wyn Jones yn nodi'n ogystal mai "dyma'r unig gwestiwn hanesyddiaethol o bwys cyffredinol a godir gan y profiad Cymreig" (Jones, 2007, p. 3). Awgryma Simon Brooks mai'r rheswm na thrafodwyd datblygiad cenedlaetholdeb modern mewn mwy o ddyfnder yw na fyddai'r atebion a geir wrth ymchwilio i'r hanes yn rhy fanwl wrth fodd haneswyr y mudiad llafur, y chwith cenedlaetholgar cyfoes, na chwaith genedlaetholwyr ethnig sydd am ddychmygu mai rhywbeth i ymfalchïo ynddo oedd goroesi canrifoedd o ormes gan rym imperialaidd<sup>29</sup> (Brooks, 2015, p. 3). Dichon bod llawer o wirionedd yn hynny; dywed Özkirimli ei bod yn amhosib ysgrifennu am genedlaetholdeb, hyd yn oed mewn cyd-destun academiaidd, heb fod dan ddylanwad ei ddisgwrs, a chan ddylanwadu ar y modd y mae cenedlaetholdeb yn cael ei atgynhyrchu yn ogystal (2000, p. 203).

---

<sup>29</sup> O ystyried cenedlaetholdeb yng nghyd-destun damcaniaethau 'offerynyddol' e.e. Roeder a Brass, byddai'r amharodrwydd hwn yn gwneud synnwyr. Wedi'r cwbl, os mai arf i sefydliadau gynyddu eu grym gwleidyddol ac economaidd eu hunain ydyw cenedlaetholdeb, yna nid yw'n talu iddynt hwy archwilio natur y ffenomenon yn rhy fanwl.



Efallai fod yr anhawster hwnnw yn esbonio nifer o'r tensiynau sydd wrth graidd *Pam na fu Cymru* (Brooks, 2015). Mae'r gyfrol hon yn unigryw am ei bod, ar y naill law, yn gyfrol academaidd ac, ar y llall, yn alwad genedlaetholgar am weithredu cyfoes. Mae hyn yn golygu, ar y naill law, gydnabod y llenyddiaeth academaidd a ddengys mai newidiadau economaidd-gymdeithasol y 19eg ganrif oedd yn gyfrifol am greu'r cenedlaetholdeb modern sy'n gyfarwydd i ni heddiw. Ar y llaw arall, mae'n awyddus i ddefnyddio 'methiant' Cymry'r 19eg ganrif i sefydlu eu mudiad cenedlaethol ieithyddol eu hunain fel rhybudd yn erbyn trywydd gwleidyddol cenedlaetholdeb yn yr oes bresennol. Dadansoddiad ethno-symbolaidd, neu 'hanfodol', o ddatblygiad cenedlaetholdeb Cymreig yn y 19eg ganrif sydd yma felly, ond mae un gwahaniaeth sylfaenol rhyngddo a gwaith ethno-symbolwyr eraill - yn hytrach nag dadlau bod cenedlaetholdeb y Cymry yn seiliedig ar 'ethne' y gorffennol, y ddadl yma yw bod yr 'ethne' anghenrheidiol eisoes yno ond na ddatblygodd mudiad cenedlaethol ohono. Gwneir hyn drwy gymharu Cymru yn anffafriol ag ymdrechion rhai o genhedloedd eraill Ewrop a oedd mewn sefyllfa debyg ond a lwyddodd i gyrraedd y nod.

Mae tair ystyriaeth bwysig yma: 1.) Er mwyn cyfiawnhau cymharu Cymru â gwledydd canol Ewrop, rhaid blaenoriaethu ystyriaethau economaidd-gymdeithasol: niferoedd siaradwyr, safle daearyddol, bodolaeth dosbarth canol, lledaeniad diwydiant – ystyriaethau meintiol sy'n hwyluso cymhariaethau o'r fath. Anwybyddir i raddau helaeth yr hyn a ddigwyddodd cyn dechrau 'oes cenedlaetholdeb'. Byddai'r fethodoleg hon yn gwneud synnwyr pe bai'r thesis yn un modernaidd i'r carn, ac yn dadlau y gwelwyd y fath newid byd yn ystod y cyfnod hwn fel nad oedd hanes blaenorol y pobloedd hyn o bwys.

2.) Ond sail y safbwynt 'hanfodol' yw bod yr 'ethne' yma o bwys ac wedi dylanwadu ar y modd y lluniodd y pobloedd hyn eu cenedlaetholdebau modern. Drwy honni bod y Cymry wedi

‘methu’ yn eu tasg o lunio cenedlaetholdeb modern, mae’r thesis yn y bôn yn un ‘hanfodol’ i’r carn; cymerir yn ganiataol bod dolen bendant rhwng ‘y Cymry’ ar ddechrau’r broses o greu cenedlaetholdeb modern a’r ‘Cymry’ ar ei diwedd. Hynny yw, yn nhyb y gyfrol hon, ni chreuwyd cenedlaetholdeb ieithyddol Cymreig *ex nihilo* yn y 19eg ganrif. Er mwyn ‘methu’ â ffurfio mudiad cenedlaethol ieithyddol, rhaid bod y Cymry eisoes yn ymwybod ar ryw lefel â’r cwlwm diwylliannol oedd yn eu clymu at ei gilydd, ond eu bod wedi penderfynu gollwng gafael ar yr etifeddiaeth honno. Wedi’r cwbl, o fabwysiadu agwedd ‘adeileddol’, dim ond un wedd ar amryw o genedlaetholdebau modern posibl oedd cenedlaetholdeb Cymreig, a dim ond un wedd ar amryw o genedlaetholdebau Cymreig posib oedd un ieithyddol. Ond mae’r gyfrol yn dadlau i’r gwrthwyneb, sef bod cenedlaetholdeb ethnig ieithyddol eisoes yn hanfod y bobl a’u bod wedi cefnu arno.

3.) Ond o dderbyn y safbwynt ‘hanfodol’ hwn, nid oes modd wedyn ddadlau bod y Cymry ‘yr un fath’ â chenedloedd eraill Ewrop ar ddechrau’r 19eg ganrif – yn ddim ond poblogaeth gyfnewidiol o werinwyr gyda’u hiaith eu hunain. Os oeddynt yr un fath a’r Slofaciaid, neu drigolion y tiroedd Tsiec, ni allent fod yn Gymry. Os oeddynt yn Gymry, rhaid derbyn eu bod yn unigryw, bod rhyw ‘ethne’ yno yn barod, a’i fod wedi dylanwadu ar y modd y lluniodd y Cymry genedlaetholdeb modern y 19eg ganrif, ac felly nad oes modd cymharu eu hamgylchiadau unigryw ag eraill. E.e. cyfeiria Brooks yn fras at sgil-effaith cyfieithu’r Beibl yn 1588, ond wfftio mewn troednodyn y mae ddamcaniaeth Dafydd Glyn Jones ynglŷn a dylanwad mytholeg Sieffre o Fynwy ac eraill ar feddylwyr y 19eg ganrif (Brooks, 2015, pp. 1, 17-8, 36). Dyma ystyriaethau a fyddai yn ganolog i astudiaeth ‘hanfodol’ o ddatblygiad cenedlaetholdeb y Cymry, e.e. fel honno a geir gan Smith yn *Chosen Peoples* (2003). Mae’r gyfrol felly yn cydnabod bod y Cymry yn ‘Gymry’ cyn oes cenedlaetholdeb, ond nid yw dylanwad y Cymry hynny ar eu disgynyddion diwylliannol yn y 19eg ganrif o fawr bwys –

dechreuir gyda llechen lân. Byddai'r tensiynau hyn yn cael eu datrys o fabwysiadu safbwynt 'adeileddol' o'r dechrau, fel y gwnaf yn y traethawd hon, gan dderbyn nad oedd cenedlaetholdeb ieithyddol yn anochel ar ddechrau'r 19eg ganrif, ac mai camarweiniol yw trafod 'methiant' yn y cyd-destun hwn. Ond o wneud hynny byddai ergyd sylfaenol genedlaetholgar y gwaith yn cael ei golli.

Yr hyn sy'n esbonio'r cymhlethdodau hyn yw bod dadansoddiad Brooks o genedlaetholdeb yn sylfaenol wahanol i nifer o'r damcaniaethwyr eraill a drafodwyd yn y bennod ddiwethaf. Ei nod wrth ysgrifennu'r gyfrol, meddai, oedd atgoffa ei ddarllenwyr y "gall cenedloedd ac ieithoedd farw, ac amhosib yw eu hatgyfodi wedyn. Priod waith cenedlaetholdeb Cymreig yw [...] gofalu am y genedl, gwneud yn siŵr na fydd yn marw. Mae materion cymdeithasol yn bwysig hefyd, ond Cymru a'r Gymraeg yw'r flaenoriaeth" (Brooks, 2015). Fel y soniwyd eisoes, mae'r gyfrol yn un genedlaetholgar yn ogystal ag un sy'n trafod cenedlaetholdeb – h.y. mae'n ymestyniad o'r union broses o atgynhyrchu ac ailddyfeisio cenedlaetholdeb Cymru a welwyd drwy gydol hanes, ac mae'r sylwadau hyn yn mynd i'r un trywydd. Serch hynny, ni ellir amau didwylledd academiaidd ei ddadansoddiad. Honna Brooks, felly, fod cenedlaetholdeb yn deillio o reddf geidwadol gwbl naturiol cenedl i amddiffyn ei hiaith a'i diwylliant ei hun rhag cymhathiad gan genedlaetholdebau sy'n pwysleisio nodweddion diwylliannol sy'n estron iddynt. O ganlyniad, yn ôl dadansoddiad Brooks, nid rhywbeth *ad hoc* yw troi 'ethne' yn genedlaetholdeb modern – dylai'r trosglwyddiad fod yn un cwbl naturiol, bron â bod yn anochel (a'i fethiant yn 'annisgwyl', chwedl Brooks), ar yr amod bod trigolion y genedl yn cyflawni'r dyletswydd cenedlaetholgar a ddylai fod yn gwbl reddfod iddynt. Dyma lle mae fy nadansoddiad i o genedlaetholdeb, a rhai damcaniaethwyr blaenllaw yn y maes, yn ymwahanu oddi wrth ddadansoddiad Brooks. Iddynt hwy, fel finnau, mae cenedlaetholdeb modern yn gynnrych anfodlonrwydd y dosbarth canol bourgeois newydd a ddaeth i'r amlwg

yn sgil diwydiannu â rheolaeth elît ‘anghynhyrchiol’ y system ffiwdal flaenorol. Er mwyn cipio grym a hawlio eu lle priodol yn feistri ar y gymuned ddiwydiannol newydd, bu iddynt ennill y werin o’u plaid ac yn erbyn y bonedd; a’r modd y gwnaethpwyd hynny oedd drwy atgynhyrchu disgwrs cenedlaetholdeb a rhoi’r pwyslais ar y ‘ni’ – y dosbarth canol a’r gweithwyr – yn eu herbyn ‘nhw’, yr elît ffiwdal segur. *Un* nodwedd ymysg nifer y gellir ei dyrchafu at y diben hwnnw yw iaith, ac mae’n werth cofio bod amryw genhedloedd ôl-drefedigaethol, e.e. yr Unol Daleithiau ac India, yn meddu ar genedlaetholdeb hynod o danbaid er eu bod yn rhannu’r un iaith swyddogol â’r meistri y cefnwyd arnynt. Mae dadl Brooks yn ymylu ar y modd y mae J.R. Jones yn gwahaniaethu rhwng “cenedligrwydd normal, rhagdybiedig” wedi ei ysbrydoli gan gymdymdreiddiad iaith a thir a “[ch]enedligrwydd meithriniedig” (Jones, 1961, p. 11) dan ddylanwad llechwraidd cyfryngau eraill. Ond er bod dadl Brooks yn ei chyfanrwydd yn un soffistigedig iawn, mae’r dystiolaeth a gyflwynir gan Roeder ynglŷn â’r diffyg cysylltiad amlwg rhwng grwpiau ethnig a chenedl-wladwriaethau yn ein gogwyddo tuag at ddehongliad sy’n pwysleisio natur wneuthuriedig pob ffurf ar genedlaetholdeb modern (2007, pp. 10-1). Dengys sawl academydd fod pobl yn ymdeimlo’n gryf â’u hiaith ac yn digalonni o gredu ei bod yn edwino.<sup>30</sup> Ond er bod modd dyrchafu iaith yn arwydd o hunaniaeth ar y cyd, nid yw ei bodolaeth ynddi ei hun yn gymhelliad digonol i gynnal hunaniaeth ar y cyd (Cormack, 2000b, pp. 5-6), yn enwedig felly, gellid tybio, os yw cymhellion eraill yn tynnu i’r cyfeiriad arall. Er

---

<sup>30</sup> Cynigir sawl rheswm gan academyddion pam yr ystyrir colli iaith yn beth gwael. Gellir eu rhannu’n ddau grŵp: yn gyntaf rhai sy’n datgan manteision amlieithrwydd fel ystorfa gwybodaeth neu i hybu creadigrwydd. Dywed y ieithydd Kenneth Hale fod colli iaith yn debyg i ollwng ffrwydron ar y Louvre (Harrison, 2007, p. 7). Mae eraill yn cymharu colli iaith â cholli rhywogaeth anifail. Dywed Geoff Pogson: “Language diversity, like a gene pool, is essential for our species to thrive...” (Pogson, 1998, p. 4). Mae Simon Brooks yn crybwyll esboniad arall a oedd yn boblogaidd gan Dan Isaac Davies o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ar ddiwedd y 19eg ganrif, ac sydd wedi gweld dadeni yn ddiweddar, sef bod gan ddwyieithrwydd fanteision gwybyddol (Brooks, 2015, p. 106). Mae Joshua Fishman yn cynnig dau esboniad, sef un personol ac un diwylliannol. Yn ôl yr esboniad cyntaf, nid yw pobl yn hoff o weld eu hiaith gyntaf yn diflannu am nad ydynt mor hyddysg yn yr ail – mae eu hanallu i gyfleu eu hunain heb faglu dros gystrawen ac idiomau eu hail iaith yn peri gofid iddynt. Ond yn ôl yr ail esboniad, mae colli iaith hefyd yn arwain at gollu’r diwylliant oedd ynghlwm â hi: “When you are talking about the language, most of what you are talking about is the culture. That is, you are losing all those things that essentially are the way of life, the way of thought, the way of valuing, and the human reality that you are talking about” (Fishman, 2007, p. 72). Dywed David Crystal fod ieithoedd yn fodd o fynegi hunaniaeth, ac o golli ieithoedd rydym yn colli cysylltiad â hanes y genedl yn ogystal â’r gallu i ymchwilio i’w gorffennol: “The desire to know about our ancestry is a universal inclination – but it takes a language to satisfy it” (Crystal, 2000, pp. 36-41).

bod Anderson, Eisenstein ac eraill yn pwysleisio pwysigrwydd safoni a sefydlogi iaith drwy'r wasg argraffu i'r modd y daeth pobl yn ymwybodol o'u cenedligrwydd, fel y gwelwn yn y seithfed a'r wythfed bennod, roedd llwyddiant y wasg wrth hybu rhai amrywiadau iaith ar draul eraill hefyd yn dibynnu ar ffactorau economaidd a chymhellion sefydliadau. Nid oes unrhyw dystiolaeth amlwg felly i awgrymu y dylid cymryd y trawsnewidiad o gymuned iaith i genedl-wladwriaeth fodern yn ganiataol fel y gwna Brooks a J.R. Jones.

Er nad yw academyddion eraill sydd wedi ysgrifennu am Gymru yn gwneud hynny o safbwynt mor hunanymwybodol genedlaetholgar â Brooks, mae yna berygl fod rhai rhagdybiaethau am genedlaetholdeb yn dod i'r amlwg yn eu gwaith. Tueddir i gymryd yn ganiataol fod y ffurf gyfoes ar genedlaetholdeb yn anochel, ac mai at honno y bu'r genedl yn anelu gyhyd. Ystyrir taith y genedl yng nghyd-destun naratif ramantaidd, h.y. mae mudiad cenedlaethol yn gweithio tuag at un amcan ac mae modd iddo lwyddo neu fethu yn yr ymdrech honno. Nodwyd eisoes y defnydd o'r gair 'methiant' gan Brooks. Mae Richard Wyn Jones yntau'n defnyddio'r gair, er ei fod yn pwysleisio nad yw'n "gyfystyr â beio arweinwyr ac aelodau'r mudiad cenedlaethol hwy i gyrraedd y lan... y gwir amdani yw bod llawer iawn yn dibynnu ar yr amgylchiadau a wynebant"<sup>31</sup> (Jones, 2007, p. 30). Yr hyn sydd gan eu gwaith yn gyffredin yw bod damcaniaeth tri cham Miroslav Hroch, sy'n ystyried datblygiad mudiad cenedlaethol yn daith o 'A' i 'C', o ethne i genedlaetholdeb torfol, yn chwarae rhan flaenllaw ynddo (Hroch, 2007, pp. 97-98). Er bod rhinweddau i ddamcaniaeth Hroch, y byddaf yn eu hystyried yn ddiweddarach, rwy'n amheus o'r dull hwn o ymdrin â chenedlaetholdeb fel gorymdaith bwrpasol tuag at nod penodol – h.y. gorchwyl y mae modd 'llwyddo' neu 'fethu' ei gyflawni. Fel y nodir gan Roeder, dim ond dau o'r mudiadau cenedlaethol a astudwyd gan Hroch a oedd yn 'llwyddiannau' diamwys

---

<sup>31</sup> Mae Hroch yntau hefyd yn gwneud pwynt tebyg, gan ddweud nad methiant oedd teithio rhwng cam B a cham C am mai hap a damwain ydoedd i raddau os oedd negeseuon y deallusion yn cydio yn nychymyg y dorf ai peidio: "The transition... was neither a mechanical certainty nor the result of subjective decisions taken by a small group of leaders" (Hroch, 2007, p. 258).

– roedd y gweddill naill ai wedi methu â chyflawni annibyniaeth, wedi cyflawni annibyniaeth ar y cyd (e.e. yn achos Tsiecoslofacia), neu wedi cyrraedd y nod yn y pen draw o ganlyniad i rwygiadau o fewn gwledydd Ewropeaidd mwy a oedd yn ymwneud â ffactorau tu hwnt i reolaeth mudiadau cenedlaethol penodol (Roeder, 2007, p. 23). Mae Brooks yn ogystal yn amwys ynghylch ystyr llwyddiant a methiant, gan awgrymu weithiau mai annibyniaeth yw'r nod a dro arall y byddai mudiad cenedlaethol ieithyddol torfol yn fuddugoliaeth hyd yn oed pe na bai'n arwain at ymwahaniad. Er enghraifft, wrth gloi ei gyfrol, dywed:

O blith cymunedau ieithyddol anhanesiol, bychain Ewrop dim ond y Tseciaid oedd â rhagolygon mwy ffafriol na'r Cymry yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg am orosiad hirdymor... Ond erbyn gwawr yr unfed ganrif ar hugain, llwyddasai'r cenedloedd hynny [...] i ymsefydlu'n wladwriaethau o'r newydd. Nid unwaith y bu iddynt ennill eu hannibyniaeth ond dwywaith neu dair. (Brooks, 2015, p. 138)

Gwelir yma fod cysylltiad uniongyrchol, ym meddwl Brooks, rhwng cenedlaetholdeb ieithyddol, 'ennill' annibyniaeth, a 'llwyddiant'. Ond fel y gwelir, meddai'r Cymry ar fudiad cenedlaethol ethnogrefyddol yn y 19eg ganrif a oedd yn 'llwyddiannus' – erbyn yr 1920au yr oeddynt wedi cael bron y cwbl o'r hyn yr oeddynt ei eisiau. Serch hynny, ystyrir llwyddiant deallusion yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol yn ystod y 19eg ganrif yn *fethiant* gan Brooks, am eu bod wedi llwyddo i argyhoeddi'r sefydliadau Prydeinig hyn i roi iddynt yr hyn yr oeddynt yn ei ddeisyfu. Mae hyn yn arwain at ddau gwestiwn arall, sy'n amlygu dwy broblem arall. Petai'r mudiad cenedlaethol ethnogrefyddol hwn yng Nghymru wedi methu â dod i gyfaddawd â'r wladwriaeth, a bod hynny yn y pen draw wedi arwain at ymbellhau oddi wrthi, a fyddent wedi 'ennill'? Yn ogystal, petai mudiad cenedlaethol ieithyddol wedi dod i gyfaddawd ac aros o

fewn y Deyrnas Unedig, a fyddent wedi ‘methu’?<sup>32</sup> Y broblem gyntaf a amlygir yma yw ein bod, drwy benodi annibyniaeth yn fesur o *lwyddiant* mudiad cenedlaethol, yn anwybyddu’r ffaith ei fod yn deillio o *fethiant* grŵp ethnig a’r genedl-wladwriaeth y maent yn rhan ohoni i ddod i gytundeb boddhaol. Yn wir, awgrymodd Hroch mai un o’r rhesymau pam y ‘llwyddodd’ mudiadau cenedlaethol canol Ewrop oedd eu ‘methiant’ i fynegi eu dyheadau mewn modd a fyddai wedi caniatáu cyfaddawd â’r wladwriaeth (Hroch, 1993, p. 12). Yr ail broblem yw ein bod, wrth awgrymu mai mudiad cenedlaethol ieithyddol yw ffon fesur llwyddiant, yn anwybyddu’r ffaith nad disgwrs cenedletholdeb a rhoi’r pwyslais ar iaith sy’n sbarduno mudiad cenedlaethol pob cenedl, a daw cymhathiad ieithyddol yn aml ar ôl ffurfio cenedl-wladwriaeth. Ni ellir trafod *methiant* y Cymry i warchod eu hiaith pan *nad* oedd yn amcan canolog iddynt, nac yn rhan arbennig o bwysig, yn eu tyb hwynt, o’u hunaniaeth genedlaethol. Y perygl yw ein bod yn mabwysiadu agwedd y cyntefigwyr, ac yn credu mai cenedlaetholdeb ieithyddol yw priod genedlaetholdeb y Cymry drwy gydol eu hanes am mai dyna’r wedd ar genedlaetholdeb sydd yn gyfarwydd i ni heddiw. Byddai Cymro o’r 19eg ganrif, yn yr un modd, yn siŵr o fod yn llym ei feirniadaeth o *fethiant* Cymry’r 21ain ganrif i arddel cenedlaetholdeb ethnogrefyddol – gan ystyried ysgrifau Brooks, Jobbins ac eraill yn wrth-genedlaetholgar yn yr un modd ag y maent hwythau bellach yn ystyried ysgrifau S.R. Llanbryn-mair a J.R. Kilsby Jones.<sup>33</sup> Rhaid cofio bod dadansoddiadau ethnogrefyddol o genedlaetholdeb Cymreig yn parhau mewn bri hyd yn lled-ddiweddar (R. T. Jones, 1979, p. 76), a’i fod yn parhau i gael ei arddel ymysg rhai hyd heddiw (Llwyd, 2011). Ys dywed Clifford Geertz, “man is an animal suspended in webs of significance he himself has spun” (Geertz, 1973, p. 5). Mae yna demtasiwn o safbwynt cenedlaetholgar, Cymreig, felly, i ystyried digwyddiadau’r 19eg ganrif yn broses unffordd –

---

<sup>32</sup> Mae’n werth gofyn yn y cyd-destun hwn a oedd ymgyrch Gwynfor Evans i sefydu sianel deledu Gymraeg yn fethiant, am ei fod wedi llwyddo?

<sup>33</sup> Nid Davies, Okey a Brooks yn unig sy’n gweld bai ar bwyslais yr Ymneilltuwyr ar grefydd yn hytrach nag iaith, ond amryw o haneswyr o anian sosialaidd hefyd, e.e. Ieuan Gwynedd Jones (1980, p. 335), a Prys Morgan a ddywed bod y “secterian malice” a welwyd rhwng Ymneilltuwyr a’r Eglwys Sefydledig wedi “divide[ ] and defuse[ ] the national energies” (Morgan, 1981).

Cymry oedd yn arddel cenedlaetholdeb ieithyddol yn cael eu *trawsnewid* yn Saeson, neu'n Brydeinwyr, a'u hunaniaeth genedlaethol wedi ei dileu, yn hytrach na derbyn agwedd 'adeileddol', h.y. bod cenedlaetholdeb yn hylifol ac er y gall enw cenedl oroesi bod modd i'r hyn sydd yn sbarduno ei chenedlaetholdeb newid yn sylweddol o ganrif i ganrif. Y perygl cyson o safbwynt yr academydd yw drysu 'ethne' a 'chenedlaetholdeb', a hynny'n troi safbwynt ethno-symbolaidd yn un sydd yn ymylu ar oesoled. Gellid olrhain 'ethne' cenedl yn ôl drwy gydol hanes, ond nid yw hynny'n golygu nad all ei syniad o genedligrwydd ail-ffurfio'n gyson wrth i'r sefydliadau sydd yn ei hamgylchynu atgynhyrchu cenedlaetholdebau newydd wrth ymdrin â heriau economaidd a gwleidyddol yr oes.

Yn ei lyfr *Conscripts of Modernity* mae David Scott yn herio defnydd ysgolheictod ôl-drefedigaethol o naratif y rhamant wrth fframio taith cenedloedd sydd wedi eu gwladychu tuag at ryddid: "They have largely depended upon a certain (utopian) horizon toward which the emancipationist history is imagined to be moving." Yn hytrach, meddai, dylid mabwysiadu naratif y trasiedi, gan ystyried eu hanes nid fel taith ddi-dor tuag at fuddugoliaeth, ond yn hytrach cyfres o droeon trwstan cymhleth sy'n eu gyrru am yn ôl yn ogystal ag am ymlaen, ac sydd heb ddiwedd glo boddhaol hyd yn oed ar ôl cyrraedd yr hyn yr oeddynt yn ei ddeisyfu (Scott, 2004, pp. 7, 8). Fel y dywed Prys Morgan, "various historical chances" oedd yn gyfrifol am oroesiad y cysyniad o'r Cymry fel pobl, a "precarious and threadbare" oedd eu hunanymwybyddiaeth (Morgan, 1973, p. 15). Mae Halliday yn nodi mai lleiafrif o'r cenedloedd a allai fod wedi bodoli sydd wedi goroesi mewn gwirionedd, a bod y gweddill wedi diflannu o olwg hanes, a hynny ar hap a damwain yn fwy na dim (Halliday, 1997, pp. 26-42). Nid taith unionsyth A, B, C Hroch a geir yma felly, ac nid yw'n ddigon i awgrymu, fel y gwna Brooks a Richard Wyn Jones, fod modd atal ar gam B neu syrthio'n ôl i gam A. Yn hytrach, mae union natur y camau hynny yn annelwig ac yn destun ailddehongliad cyson. Bydd 'C' un genhedlaeth,



e.e. annibynniaeth crefyddol drwy ddatgysylltu'r Eglwys, yn gwbl ddi-nod yng ngolwg yr nesaf, a fydd yn datblygu ei 'C' ei hun, e.e. Cymru uniaith Gymraeg. Yr eironi efallai yw bod Brooks yn awgrymu nad eir i'r afael â'r cwestiwn o fethiant cenedlaetholdeb Cymreig oherwydd ei fod yn gwrth-ddweud y naratif fod yr iaith wedi goroesi yn groes i'r disgwyl; serch hynny, drwy awgrymu mai cenedlaetholdeb ieithyddol yw priod genedlaetholdeb y Cymry, ac nad yw unrhyw wrydiad o'r trywydd hwnnw yn haeddu cael ei alw'n fudiad cenedlaethol, mae'n dangos anallu i ddianc o'r union naratif rhamantus hwnnw. Y cyfan a wneir mewn gwirionedd yw disodli un dihiryn, y wladwriaeth Brydeinig, a gosod yn ei le un arall, y dosbarth canol Ymneilltuol-Ryddfrydol, sy'n atal y Cymry rhag cyrraedd eu 'nod' o genedl-wladwriaeth Gymraeg ei hiaith. Fel yr awgryma Özkirimli (2000, p. 203), felly, mae pob ymdriniaeth â chenedlaetholdeb (gan gynnwys y thesis hwn, mae'n siŵr), yn rhan o'r union broses hwnnw o atgynhyrchu cenedlaetholdeb ar gyfer cenedlaeth newydd. Ailddehongli'r gorffennol ac ailgalibradu cenedlaetholdeb er mwyn cwrdd â heriau cyfoes yw'r nod. Beth sy'n gyffredin rhyngddynt yw awydd y dosbarth canol deallusol newydd i wfftio ymdrechion y drefn flaenorol, gan awgrymu eu bod wedi darostwng 'gwir' nodwedd Genedlaethol oedd yn rhan gynhenid a chyntefig o gymeriad cenedlaethol y bobl, er mwyn esbonio pam na wireddwyd y cam 'anochel' hwnnw. Yn yr un modd ag y trôdd dyneiddwyr yr 16eg ganrif Eglwys Rufain yn elyn, ac fel y creodd yr Ymneilltuwyr yn eu tro elynion o'r Eglwys Sefydledig, crëir yn awr elynion o'r Ymneilltuwyr. Noda Ernest Renan fod methiannau'n bwysicach na llwyddiannau wrth ffurfio cenedlaetholdeb: "... sorrows have a greater value than victories; for they impose duties and demand common effort" (Renan, 1882). Drwy bwysleisio bod Cymru wedi 'methu' yn y 19eg ganrif, mae Brooks yn ailddehongli'r gorffennol at ddibenion y presennol, a threulir pennod olaf ei lyfr yn trafod pa wersi sydd i'w dysgu o'r methiant hwnnw i'w rhoi ar waith yn y presennol.

Serch nad yw'r traethawd hwn yn gweld lygad yn llygad â Brooks yn y modd y mae'n canfod datblygiad mudiad cenedlaethol yng Nghymru'r 19eg ganrif, mae ei ddamcaniaeth ef ynglŷn â'r grymoedd a ffurfiodd genedlaetholdeb yng Nghymru yn y ganrif honno yn haeddu rhagor o sylw. Mae Brooks yn dewis cyferbynnu esboniad ideolegol am ddiffyg datblygiad mudiad cenedlaethol ieithyddol yng Nghymru â damcaniaethau sy'n rhoi'r pwyslais ar esboniadau economaidd-gymdeithasol megis rhai Hroch a Hechter. Fel y nodwyd eisoes, mae mabwysiadu agwedd fodernaidd wrth gyfiawnhau'r pwyslais ar y 19eg ganrif yn gwneud hyn yn anos. Golyga fod yn rhaid iddo, ar y naill law, bwysleisio ffactorau economaidd-gymdeithasol wrth esbonio pam ei fod yn canolbwyntio ar ddatblygiad cenedlaetholdeb yn y 19eg ganrif, ond ar y llall fynnu nad oeddynt yn arbennig o arwyddocaol wrth esbonio'r ffurf ar genedlaetholdeb a ddatblygodd yng Nghymru. Yn ei dyb ef, y 19eg ganrif oedd "Oes Cenedlaetholdeb gwledydd bychain", ac mae'n derbyn mai ffactorau economaidd-gymdeithasol y cyfnod oedd y sbarc a ganiataodd i'r 'ethne' esblygu'n genedl o'r potes cyntefig. Bu iddi "gydredeg â thra-arglwyddiaeth cyfalafiaeth a threfolrwydd a oedd yn y broses o ddisodli'r gymdeithas amaethyddol, ffiwdal mewn mannau, a fodolai gynt" (Brooks, 2015, p. 12). Ond er ei fod yn mynnu nad yw "ffactorau economaidd-gymdeithasol cyfyng" yn gwneud y tro wrth esbonio 'methiant' y Cymru i sefydlu mudiad cenedlaethol ieithyddol torfol yn y 19eg ganrif (Brooks, 2010, p. 20), mae'r union esboniad hwnnw weithiau yn brigo i'r wyneb. Er enghraifft, dywed Brooks: "Ni ellir esbonio methiant y mudiad cenedlaethol Cymreig yn nhermau theori datblygiad economaidd anwastad..." Ond ar y dudalen nesaf mae'n synio am apêl ideoleg Ryddfrydiaeth i'r Cymry fel sgil-effaith yr union ddatblygiad economaidd anwastad hwnnw: "Nid oedd gan ymerodraethau canolbarth a dwyrain Ewrop drysorau'r byd i'w cynnig i'w cenhedloedd darostynedig. Roedd y rheini ar gael i'r Cymro ond iddo dderbyn egwyddor Rhyddfrydiaeth gymhathol" (Brooks, 2015, pp. 136-7). Yma mae'n nodi dolen amlwg rhwng penderfyniad y Cymry i droi at Ryddfrydiaeth a'r anghydraddoldeb economaidd a fodolai

rhwng y Gymru wledig, y Gymru ddiwydiannol a Lloegr. Ceir yr argraff fod Brooks yn llwyddo i osgoi trafod ffactorau economaidd-gymdeithasol drwy beidio â manylu ar y rhesymau dros ymlediad Rhyddfrydiaeth a chenedlaetholdeb Prydeinig yng Nghymru. Yn y 1820au a'r 1830au, meddai, bodolai cnewyllyn addawol o wladgarwyr ceidwadol gwledig a oedd dan ddylanwad Herderiaeth, "ond gwthiwyd eu gwaddol deallusol o'r neilltu yn ystod y 1840au gan newidiadau mewn syniadaeth" (Brooks, 2015, pp. 40, 136). Nid yw'n archwilio'n fanwl y grymoedd a oedd y tu cefn i'r newid hwn mewn syniadaeth, e.e. dyfodiad cyfathrebu torfol, yr argraffwasg, a'r injan stêm. Efallai mai mater o bwyslais yw hwn mewn gwirionedd, a gor-frwdfrydedd wrth bwysleisio ei thesis canolog. Ond o ddadlau y gallai cenedlaetholdeb modern ddatblygu o fewn y 19eg ganrif yn unig, a hynny o ganlyniad i newidiadau economaidd-gymdeithasol, mae'n anoddach wedyn gwadu bod i resymau economaidd-gymdeithasol ran allweddol yn y 'methiant' Cymreig. O wadu dylanwad ffactorau economaidd-gymdeithasol a oedd yn unigryw i'r 19eg ganrif, a phwysleisio yn hytrach newidiadau gwleidyddol a meddylfryd y Cymry eu hunain, nid yw'r dewis i ganolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar y 19eg ganrif yn dal dŵr, oblegid yr oedd y ffactorau hyn yn drwm dan ddylanwad y gorffennol. Ond o gydnabod bodolaeth ffactorau o'r fath a oedd yn unigryw i'r Cymry, mae'n anoddach cyfiawnhau wedyn y gymhariaeth â mudiadau cenedlaethol eraill Ewrop.

Fel y nodwyd felly, ymddengys bod y penderfyniad i ganolbwyntio ar y 19eg ganrif yn deillio o'r angen i gymharu ymdrechion y Cymry'n anffafriol â rhai o genhedloedd eraill Ewrop. Mae elfennau o ddamcaniaeth Brooks yn ategu ysgrifau cynharach o waith Robin Okey, sydd yn yr un modd yn cymharu sefyllfa'r Cymry yn ail hanner y 19eg ganrif â chenedloedd eraill diwladwriaeth ar gyfandir Ewrop oedd tua'r un maint, e.e. y Slofeniaid, y canhedloedd Baltig, a'r Albaniaid, a wynebai gael eu llyncu yn y 19eg ganrif gan lywodraethau oedd wedi dechrau

trawsnewid o reolaeth ffiwdal i weinyddiaeth ganolog, fodern. Fel ym Mhrydain, y nod gan nifer o wladwriaethau'r Cyfandir oedd integreiddio pobloedd a oedd yn meddu ar amrywiaeth o ieithoedd a diwylliannau gwahanol a sicrhau eu bod yn deyrngar i'r llywodraeth. Mae Okey, fel Brooks, yn gofyn pam y bu i gynifer o'r cenhedloedd hyn lwyddo i lunio gwladwriaethau annibynnol ar sail eu hieithoedd a'i diwylliannau unigryw eu hunain erbyn dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, tra oedd y Cymry wedi methu â chyflawni hynny. Nodweddir y Gymraeg, medd Okey, ymysg ieithoedd eraill o'r un maint, gan gryfder ei threftadaeth lenyddol. Serch hynny, tra oedd cenhedloedd ieithoedd diwladwriaeth dwyrain Ewrop wedi llwyddo i atal neu wrthdroi y broses o golli tir i'r iaith fwyafrifol o'r 1840au ymlaen, cyflymu a wnaeth y broses yng Nghymru. Erbyn diwedd y ganrif roedd nifer y cyhoeddiadau Cymraeg a'u rhychwant yn culhau, tra oedd ieithoedd lleiafrifol dwyrain Ewrop wedi moderneiddio eu geirfaeod a chynyddu swmp eu cyhoeddiadau yn sylweddol (Okey, 2000, pp. 608-15). Daw Okey, fel Brooks, i'r casgliad mai athrawiaeth Ryddfrydol y Cymry oedd yn rhannol gyfrifol am y gwahaniaeth rhyngddynt a'r cenhedloedd hyn. Serch hynny, ac yn wahanol i Brooks, mae hefyd yn pwysleisio esboniad economaidd-gymdeithasol am amharodrwydd y Cymry i sefydlu eu mudiad cenedlaethol eu hunain. Yn groes i'r Cymry, roedd cymhelliad materol i genhedloedd diwladwriaeth dwyrain Ewrop ddatblygu eu hieithoedd brodorol. Fel arall roedd yn annhebygol y byddant wedi brwydro i sicrhau eu hawliau ieithyddol yn yr un modd: "Lle nad oedd pobl yn teimlo cysylltiad agos rhwng eu hiaith a'u lles materol parhaent yr un mor ddidaro yn ei chylch â llawer Cymro." O ganlyniad, roedd ieithoedd diwladwriaeth y cyfandir wedi mynnu addysg unieithog, a gwneud eu ieithoedd yn "offeryn i fynegi pob profiad a pob math o wybodaeth". Rhoddodd ymgyrchwyr iaith Cymru eu bryd ar addysg ddwyieithog, gan dderbyn bod yna bynciau na ddylai'r iaith Gymraeg ymwneud â hwynt (Okey, 1991, pp. 201-21).

Mae Brooks yn defnyddio esiampl y gwledydd hyn, ond fel y nodwyd eisoes mae'n mynd gam ymhellach, gan honni nad yw'r gwahaniaethau economaidd rhwng Cymru a darparghedloedd Ewropeaidd megis y Tsieciaid a'r Slofeniaid yn ddigonol i gyfiawnhau'r ddadl honno: "Mae'n wir i economi Cymru fod yn llwyr integreiddiedig mewn economi fodern o bwys rhyngwladol, ond roedd hyn yn wir hefyd am y Tsieciaid a'r Slofeniaid oddi mewn i'r Ymerodraeth Awstro-Hwngaraidd" (Brooks, 2010, p. 8). Roedd gan y Tseciaid, yn enwedig, "[le] pwysig yn yr economi ddiwydiannol fyd-eang" ac roedd hynny'n eu gwneud "yn ddrych o'r sefyllfa yng Nghymru" (Brooks, 2015, p. 12). Serch hynny, mae astudiaethau academiaidd eraill yn awgrymu fod yna berygl o orbwysleiso'r tebygrwydd rhyngddynt, a bod y gwahaniaethau economaidd rhwng Cymru a'r tiroedd Tsecic yn amlycach nag yr awgrymwyd yma. Yn fwyaf arwyddocaol o bosib, roedd Cymru yn atodiad ar ymyl gwlad lawer mwy a oedd eisoes wedi moderneiddio a diwydiannu sawl degawd ynghynt, tra oedd y Tiroedd Tsecic yn ynys ddiwydiannol wedi ei hamgylchynu gan ardaloedd gwledig ac Alpaidd llai datblygedig o lawer - ac yn weddol bell o'r unig ardal arall o fewn y Frenhiniaeth Hasbwrgaidd oedd wedi datblygu'n ddiwyddiannol, sef gwaelodion Awstria. Dywed Mikulas Teich a Roy Porter yn eu dadansoddiad o chwyldro diwydiannol y tiroedd Tsecic fod gan y Tseciaid "a fair measure of independence" o reolaeth o Awstria fewn y farchnad Ewropeaidd a'u bod wedi gallu integreiddio'r ardaloedd gwledig o'u hamgylch: "... within the framework of the Habsburg Monarchy these regions [y tiroedd Tsecic] had attained the highest level of industrialisation." Serch hynny, nid oedd y broses o ddiwydiannu mor drwyadl ag y gwelwyd yng Nghymru. Erbyn 1900 roedd amaethyddiaeth yn y 'tiroedd Tsecicaidd' yn parhau i gyfrannu mwy i'r economi, 41%, na diwydiannu, sef 36% (Teich & Porter, 1996, p. 249). Yng Nghymru roedd y darlun yn bur wahanol. 35.3% yn unig o wrywod mewn gwaith a weithiau yn maes amaethyddiaeth neu bysgota erbyn 1851, ac roedd y ffigwr wedi gostwng i 20.6% erbyn 1881 (D. Jones, 1998, p. 165). Noda Robert Owen Jones mai dim ond 6.9% o boblogaeth Cymru a

weithiai yn y diwydiant amaethyddol erbyn diwedd y 19eg ganrif (Jones, 1997, p. 240). Mewn cyferbyniad, pwysleisia Teich a Porter nad oedd y ‘tiroedd Tsiec’ yn meddu ar “the character of a predominantly industrial economy” eto erbyn yr 20fed ganrif (Teich & Porter, 1996, p. 249). Wrth ystyried cymydog imperialaidd y Tseciaid a’r Slofeniaid, Awstria, dywed Lars Magnusson yn ei lyfr *Nation, State and the Industrial Revolution* fod twf diwydiant yn y wlad wedi digwydd mor araf fel nad yw’r term ‘chwyldro diwydiannol’ hyd yn oed yn gymwys i’w ddisgrifio: “Overall, a ‘modern’ industrial sector was limited compared to the agricultural and handicraft sector – and remained so for the best part of the 19th century.” Gwelwyd twf diwydiannol cyflym o’r 1890au ymlaen, ond fe ddaeth i ben o ganlyniad i ddinistr y Rhyfel Byd Cyntaf (Magnusson, 2009, pp. 108-11). O ran cymharu eu heconomïau, felly, nid Cymru oedd y tiroedd Tsiec, ac nid Lloegr oedd Awstria. Yn hytrach mae’r esiamplau hyn fel petaent yn cynnig tystiolaeth i gefnogi tybiaeth Gellner, sef mai sgil-ffaith hirdymor diwydiannu tameidiog mewn ardaloedd oedd yn ddaearyddol bell oddi wrth ei gilydd oedd darnio teyrnasoedd ‘supra-national’ yn genhedloedd llai (Gellner, 1983, p. 5). Roedd Cymru, ar y llaw arall yn ymestyniad amlwg o barth diwydiannol a oedd â’i ganolbwynt yn Lloegr.

Nid yw gwaith Brooks yn rhoi llawer o sylw chwaith i genhedloedd tebyg i Gymru nad ydynt yn cyd-fynd â’r ddadl greiddiol. Mae esiampl Sorbia yn awgrymu nad yw ceidwadaeth, ac agosatrwydd at yr Almaen (ac felly syniadau’r mudiad rhamantaidd Almaenig), o reidrwydd yn golygu y bydd mudiad cenedlaethol yn llwyddo. Roedd datblygiad y wasg Sorbiaidd wedi cyd-fynd â’r Oleuedigaeth yn yr Almaen, ac roedd yr ieithoedd Sorbeg Uchaf a Sorbeg Isaf wedi eu safoni cyn y 19eg ganrif. Roedd papurau newydd, *Tydzenska Nowina* a *Serbski Nowinkar*, ar gael yn y ddwy iaith, ac yn darparu ar gyfer cynulleidfa a oedd yn ideolegol geidwadol. Serch hynny, fe arweiniodd diwydiannu, gan gynnwys mwyngloddio glo brig, at wanhau yn hytrach na chryfhau yr ieithoedd hyn, ac fe edwinodd y mudiad cenedlaethol yn

wyneb gwrthwynebiad chwyrn gan lywodraeth yr Almaen (Barker, 1997, pp. 39-44). Meddai Brooks: “Pe bai Cymru oddi mewn i gylch dylanwad y byd Almaeneg ei iaith, a bodolaeth cymunedau Cymraeg eu hiaith wedi’u cydnabod, diau y byddai hanes y Gymraeg yn wahanol iawn” (Brooks, 2015, pp. 89-90). Mae esiampl Sorbia, a oedd yn meddu ar bob un o’r nodweddion hyn, yn awgrymu bod angen mireinio rhywfaint ar y ddadl honno. Byddaf yn dychwelyd at y gymhariaeth rhwng Cymru a gwledydd eraill Ewrop o safbwynt ideolegol yn y bennod nesaf.

Trown yn awr at drafod amgylchiadau economaidd Cymru yn benodol. O fewn ychydig ddegawdau, fe aeth y wlad o fod yn un dlawd, gyntefig ac amaethyddol i fod yn un a oedd yn arwain y byd mewn datblygiadau diwydiannol a masnachol, a lle’r oedd cyfoeth mawr yn cael ei greu.<sup>34</sup> Nid yw’n syndod bod y newidiadau economaidd, a’r newidiadau demograffig a ddaeth yn eu sgil, yn greiddiol i unrhyw drafodaeth ar fater yr iaith yn ystod y ganrif. Dywed Ieuan Gwynedd Jones mai’r “first and possibly the most fundamental of the forces that we have to consider in its relation to language is that of economics” (Jones, 1992, p. 55). Y tueddiad yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif oedd ystyried bod y diwydiannu hwn, a’r mewnfudo a ddaeth yn ei sgil, wedi atal datblygiad mudiad cenedlaethol ieithyddol yng Nghymru oherwydd y don o fewnfudwyr a lifodd i’r wlad<sup>35</sup> a phwysleisio’r clymau economaidd a diwylliannol a oedd yn

---

<sup>34</sup> Mae Ieuan Gwynedd Jones yn dadlau mai’r blynyddoedd rhwng 1840 ac 1870 fu’r mwyaf trawsnewidiol yn y broses yma (Jones, 1991, p. 51). Nid oedd y diwydiannu wedi ei gyfyngu i byllau glo y de a’r gogledd-ddwyrain, a chwareli yn gogledd-orllewin yn unig; addasodd bywyd gwledig hefyd i ddarparu y cynnyrch yr oedd ei angen ar yr ardaloedd diwydiannol, o ferlod pwll i grysau gwllân (Williams, 1985, p. 184). Cododd cyflogau yng nghefn gwlad yn ogystal wrth i’r meistri tir geisio dal gafael ar eu gweithwyr (I.W. Jones, 1998, p. 78).

<sup>35</sup> Cefnogir rhan o’r dybiaeth hon ynghylch effaith mewnfudo gan nifer o astudiaethau diweddar. Awgryma Neil Evans a Kate Sullivan bod mewnfudo yn ffactor mawr wrth esbonio’r dirywiad hwn yn nifer y siaradwyr Cymraeg, yn benodol ym meysydd glo y de ddiwedd y 19eg ganrif: “... anaml y clywid y Gymraeg yn rhai o’r pyllau newydd o gwmpas Pontypridd o’r 1880au ymlaen a deuai llawer o’r glowyr o swyddi Caerhirfryn ac Efrog, ac o orllewin Lloegr...” gan ychwanegu y “llifai mwy a mwy o bobl nad oeddynt yn Gymry i mewn, gan newid y cydbwysedd ieithyddol o fewn cymunedau anghydryw” (Evans & Sullivan, 1999, pp. 544, 50). Nodir gan W.T.R. Pryce, yn yr un modd y byddai newid cydbwysedd yn y niferoedd a siaradai Cymraeg a Saesneg o fewn y cymunedau hyn yn rhwym o arwain at newid diwylliannol, a bod y newid i ddwyieithrwydd a welwyd yn y parthau hyn yn rhan o “broses unffordd tuag at Seisnigo” (Pryce, 1999, p. 49). Dywed Geraint H Jenkins yntau nad oes dwywaith nad oedd y mewnlifiad o Loegr o’r 1870au ymlaen wedi gwneud niwed i’r iaith (Jenkins, 1999, pp. 3-4).

dal Cymru a Lloegr ynghyd (Morgan, 1971, p. 155). Serch hynny, dros y degawdau diwethaf, gwelir symudiad oddi wrth esboniadau sy'n rhoi'r pwylais ar ffactorau mentiol yn unig, megis symud poblogaeth a mewnfudo, a thuag at allu'r Cymry i gynnal hunaniaeth arwahanol i weddill y Deyrnas Unedig a chymhathu mewnfudwyr – h.y. ystyriaethau sydd o fewn cylch trafod cenedlaetholdeb. I'r perwyl hwnnw, erbyn ail hanner yr 20fed ganrif daeth y gosodiad 'synnwyr cyffredin' bod diwydiannu wedi bod yn ergyd farwol i'r iaith Gymraeg yn destun cryn dipyn o anghytuno ymysg academyddion. Er gwaetha'r cwmp yng nghanran y siaradwyr, wrth i'r boblogaeth gynyddu o 601,767 ym 1801 i 1,776,405 erbyn cyfrifiad 1891, fe gynyddodd nifer y siaradwyr Cymraeg o tua 600,000 i 910,289 yn ystod yr un cyfnod (Jenkins, 1999, p. 16). Mae John Davies yn amcangyfrif bod tua 1,100,000 o bobl yn siarad y Gymraeg, ar draws y byd, erbyn 1911, ac mai dyna benllanw'r iaith hyd heddiw. A thwf diwydiant yng Nghymru oedd yn bennaf gyfrifol am hynny, meddai (Davies, 2007a, pp. 454-5). Dyma ddadl a gyflwynwyd yn wreiddiol gan Brinley Thomas mewn erthygl o'r enw 'Wales and the Atlantic Economy' yn y 1950au. Dywed y bu'r chwyldro diwydiannol yn bair dadeni i'r iaith: "The Welsh language was saved by the redistribution of a growing population brought about by industrialism" (Thomas, 1959, p. 189). Heb y diwydiannu yma, meddai, fe fyddai pobl wedi gadael Cymru er mwyn manteisio ar y chwyldro diwydiannol dros y môr yn yr Unol Daleithiau, neu yn Lloegr, meddai, sef yr union beth a ddigwyddodd yn Iwerddon gan arwain at wanhau'r Wyddeleg yn ddifrifol. Mae'n amcangyfrif y byddai niferoedd siaradwyr Cymraeg tua 300,000 ar ddechrau'r 20fed ganrif, a'r mwyafrif yn oedrannus, yn hytrach na thros filiwn, a'r mwyafrif yn ifanc. Cyn hynny y tueddiad oedd ystyried bod "diwydiannaeth a chyfalafiaeth yn rymoedd Seisnig cryf" a ysgubodd yr iaith o'r neilltu ym mhob man ond y siroedd gwledig yn y gorllewin a'r gogledd. Yn hytrach, gweithredodd y chwyldro diwydiannol fel "pair dadeni economaidd a demograffig" a ailgreodd Cymru ar lun dosbarth gweithiol o siaradwyr Cymraeg Ymneilltuol a oedd wedi symud o gefn gwlad a lluosu yn y cymoedd diwydiannol. Esiampl o



hyn, ebe Thomas, oedd Sir Fynwy, lle'r oedd yr eglwysi Ymneilltuol bron yn gwbl Saesneg, cyn i fewnfudiad anferth o Fethodistiaid Cymraeg newid hynny'n llwyr. Hyd yn oed ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, roedd y Cymry yn "dal i wladychu eu gwlad eu hunain" yn y modd hwn (Thomas, 1999, pp. 79, 83-8, 95-6).

Ni dderbyniodd ei syniadau groeso cynnes ar y pryd,<sup>36</sup> ac mae'r ymateb wedi parhau yn lled-gymysg ers hynny. Mae Ieuan Gwynedd Jones yn cytuno â Brinley Thomas nad yw'n dal dŵr dadlau bod yr erydiad ieithyddol wedi digwydd oherwydd bod y Cymry Cymraeg yn cael eu gorlethu gan fewnfudwyr o'r tu allan. Dywed ef nad oedd y mewnfudo mwyaf o Loegr wedi dechrau tan y 1890au a degawd cyntaf yr 20fed ganrif. Hyd yn oed wedyn, tueddai mewnfudwyr o Loegr i ffafrio trefi glan môr yn hytrach na'r ardaloedd diwydiannol mewndirol, gan olygu bod y cymoedd ac ardaloedd eraill wedi llwyddo i ddiogelu "relatively undiluted the essential Welsh-language basis of the new culture" (Jones, 1992, pp. 20, 57). Dadleua Robert Owen Jones fod y ffaith bod trigolion ardaloedd gwledig yn ymgartrefu yn agos at ei gilydd yn yr ardaloedd diwydiannol wedi bod yn fodd i ddiogelu'r iaith, gan wanhau'r rheidrwydd i ddysgu Saesneg. Bu'r ymfudo o'r ardaloedd gwledig i'r trefi hefyd yn fodd i Gymreigio trefi ardaloedd fel Abertawe, a Sir y Fflint. Mewn gwrthgyferbyniad, "pur denau" oedd llif y boblogaeth allan o Gymru, i Loegr a dros y mor i'r Unol Daleithiau, "[gan] nad oedd yn rhaid i'r Cymro ymfudo dramor gan fod cyfleoedd diwydiannol ar gael o fewn terfynau ei wlad ei hun" (Jones, 1997, pp. 243, 247-8). Yn wir, dadleua Prys Morgan a David Thomas, gan fod mwyafrif gweithwyr yr ardaloedd diwydiannol yn dod o orllewin Cymru, y ceid cyfran uwch o drigolion yn gallu siarad Cymraeg yn yr ardaloedd diwydiannol nag yng nghefn gwlad ar ddiwedd y 19eg ganrif (Morgan & Thomas, 1984, p. 47). Mae tystiolaeth gynradd o'r cyfnod

---

<sup>36</sup> Mynnodd E.G. Millward wrth ymateb i'r ysgrif bod effaith diwydiannu ar yr iaith Gymraeg wedi bod yn drychinebus (Millward, 1960, p. 4).

yn awgrymu bod rhai sylwebwyr hefyd o dan yr argraff mai adfywiol oedd effaith y chwyldro diwydiannol ar y Gymraeg. Dywed un o garedigion pennaf yr iaith, D. Isaac Davies, wrth ysgrifennu yn 1885:

Yn Ystradyfodwg, megys o dan fy sylw fy hunan, y mae poblogaeth o 60,000 wedi neidio i fodolaeth; a thri o bob pedwar ohonynt yn Gymry! Wele fwy o ennill i'r Gymraeg mewn chwarter canrif, o fewn terfynau un plwyf, nag a gafodd o golled yn Sir Faesyfed a Sir Frycheiniog mewn tair canrif! (Davies, 1885, p. 209)

Nid yw John Davies, serch hynny, yn cytuno'n llwyr â damcaniaeth Brinley Thomas ynglŷn â'r 'pair dadeni'. Dywed fod mwy o Gymru wedi mudo dros y môr ac i Loegr nag y tybiai. Mynna yn ogystal nad ffactorau demograffig yn unig oedd ar waith; hynny yw, nid diffyg mewnfudwyr ond yn hytrach gallu'r Cymry i'w cymhathu cyn 90au'r ganrif honno oedd yn gyfrifol am ffyniant yr iaith Gymraeg yn y meysydd glo. Eu methiant i wneud hynny o hynny ymlaen, yn rhannol oherwydd cynnydd mawr yn nifer y mewnfudwyr, ond hefyd oherwydd penderfyniad nifer o'r Cymry Cymraeg i gefnu ar eu hiaith eu hunain, oedd yn gyfrifol am dranc yr iaith yn y trefi diwydiannol (Davies, 2007a, p. 455). Mae tystiolaeth o gymhathu ieithyddol i'w gweld yn ysgrifau'r cyfnod. Dywed Beriah G Evans, wrth roi tystiolaeth o'i brofiad ei hun fel ysgolfeistr gerbron Y Comisiwn Brenhinol ar Addysg, fod teuluoedd o fewnfudwyr di-Gymraeg yn tueddu i newid eu hiaith ar ôl symud i ardaloedd Cymraeg; "In some cases the parents, who were railway employés, &c. would speak nothing but English at home, while their children preferred Welsh. In another generation these families would be purely Welsh"<sup>37</sup> (Evans, 1888, p. 4). Awgryma T. Gwynn Jones yn yr un modd y byddai

---

<sup>37</sup> Credai Dan Isaac Davies hefyd fod y Gymraeg yn ennill tir ymysg mewnfudwyr yn y cyfnod hwnnw: "Chwilier i mewn yn fanwl – gorau i gyd po fanylaf – i gynydd y Gymraeg ym mhlith y dyfodiaid i'n gwlad, a gwelir yn amlwg fod yr hen iaith yn 'ffystio' i ffordd' – fel y dywedwn yn y Deheudir – heb fawr o help llaw neb sydd mewn awdurdod yn ein tir. Pa faint yn fwy fuasai ei chynnydd pe cawsai chwareu teg!" (Davies, 1885, p. 209)

mewnfudwyr i Ddinbych yn yr 1830au yn gorfod troi at y Gymraeg: "... Cymreig hollol oedd y dref bedwar ugain mlynedd yn ôl. Troisai disgynyddion yr hen ddyfodiaid yn Gymry" (Jones, 1913, p. 32). Ond nododd yr Ymchwiliad i Anghydfod Diwydiannol yn 1917 nad oedd y Cymry Cymraeg yn ddiweddar wedi bod mor llwyddiannus wrth gymhathu mewnfudwyr:

Until some 15 to 20 years ago, the native inhabitants had, in many respects, shown a marked capacity for stamping their own impress on all newcomers, and communicating to them a large measure of their own characteristics; of more recent years the process of assimilation has been unable to keep pace with the continuing influx of immigrants. (*Commission of Enquiry into Industrial Unrest*, 1917, p. 15)

Cytunai Ieuan Gwynedd Jones na fu diwylliant brodorion Cymru "fawr o dro" yn llyncu'r ychydig Saeson a ymsefydlai yng Nghymru cyn chwarter olaf y ganrif. Serch hynny, mae'n dadlau na chymhathwyd y Saeson i ffordd o fyw'r Cymry Cymraeg yn llwyr, a'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd oedd bod y naill a'r llall wedi dysgu digon o eirfa ei gilydd er mwyn gallu byw ochr yn ochr<sup>38</sup> (Jones, 1988, p. 121). Efallai mai un rheswm dros y gwahaniaeth barn hwn yw'r ffaith fod y darlun yn amrywio o ardal i ardal ac ar draws y cyfnod dan sylw.<sup>39</sup> Ond y perygl wrth drafod dylanwad mewnfudo mewn modd meintiol yw colli

---

<sup>38</sup> Awgryma Robert Owen Jones, serch hynny, mai sail y Seisnigo ar droad y ganrif oedd y ffaith mai dim ond un garfan a drafferthodd droi'n ddwyieithog, sef y Cymry (Jones, 1997, p. 321).

<sup>39</sup> Awgryma ymchwil Ioan Matthews fod rhywfaint o wirionedd yn namcaniaeth Brinley Thomas yng nghymoedd glo'r de (Matthews, 1998, pp. 125-46), ac mae tystiolaeth ei bod hefyd yn wir yn ardaloedd llechi'r gogledd-orllewin (Jenkins, 1998b, pp. 8-9). Serch hynny, mae W.T.R. Pryce yn dadlau na welwyd cynnydd hirdymor yn nifer y siaradwyr Cymraeg o ganlyniad i ddiwydiannu yng ngogledd-ddwyrain Cymru (Pryce, 1998, pp. 21-61). Mae Geraint H. Jenkins yn crynhoi'r darlun yn Morgannwg, lle'r oedd cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru bellach yn trigo, gan ddweud bod damcaniaeth Brinley Thomas yn dal dŵr tan tua'r 1870au, ond o'r cyfnod hwnnw ymlaen fe gollodd y pair dadeni rywfaint o'i hud: "In the long term, i.e. progressively over the period 1861 to 1911, the industrialization of the county 'did not perform miracles' for the preservation of the Welsh language and culture" (Jenkins, 1998b, pp. 8-9). Er gwaethaf y gwahaniaeth barn ar y pwnc hwn, gellid dadlau yn weddol hyderus nad oedd effaithiau demograffig y chwyldro diwydiannol yn gyfan gwbl negyddol i'r iaith Gymraeg; ond ei fod yn rhywbeth a oedd, i raddau helaeth, y tu hwnt i reolaeth mwyafrif y trigolion. Dywed Ieuan Gwynedd Jones: "... to all intents and purposes, the unpopulated, unexploited parts of the country where mineral wealth had been discovered were being colonized by the Welsh people themselves. This was apparently

golwg ar y darlun ehangach. Mae Ieuan Gwynedd Jones yn feirniadol ar y cyfan o lenyddiaeth academiaidd sy'n rhoi gormod o bwyslais ar olrhain niferoedd y mewnfudwyr a symudai o un rhan o'r wlad i'r llall, yn hytrach na'r grymoedd diwylliannol ac ideolegol oedd ar waith, gan ddweud: "[it] confuses life with commodities" (Jones, 1987, p. 155). Tra y gall symudiad pobl esbonio'r cynnydd yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn ystod y 19eg ganrif, nid yw'n esboniad digonol am y cwmp a welwyd oddi ar hynny. Rhaid yn hytrach ystyried hunaniaeth y bobl hyn a'r modd yr oeddynt, wrth i Gymru ddiwydiannu, wedi eu llyncu gan genedl-wladwriaeth ddiwydiannol a welai fudd wrth eu cymhathu yn ddiwylliannol (Gellner, 1983, p. 5). Yr ystyriaeth bwysig, felly, yw'r modd yr oedd ymdeimlad o genedligrwydd yn cael ei gynhyrchu yn y cymunedau hyn, ac a oedd hynny'n ddigon i bwysu'r glorian o blaid y naill iaith neu'r llall. Gellid awgrymu nad y mewnfudo i'r ardaloedd diwydiannol hyn oedd y ffactor pwysicaf wrth sicrhau dyfodol yr iaith, os oedd y Cymry eu hunain yn cefnu'n raddol arni - cam anochel yn absenoldeb datblygiad cenedlaetholdeb ieithyddol a allai fod wedi herio cenedlaetholdeb Prydeinig a bwysleisiai oruchafiaeth y Saesneg. Pam felly na welodd y diwydiannu hwn mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith dwf cenedlaetholdeb Cymreig amlwg?

Wrth flaenoriaethu dadl sy'n rhoi'r pwyslais ar ideoleg ryddfrydol y Cymru er mwyn esbonio hynt cenedlaetholdeb Cymreig yn y 19eg ganrif, mae Brooks hefyd yn cyflwyno beirniadaeth fanwl ar rai o'r damcaniaethau sydd wedi rhoi'r pwyslais ar ffactorau economaidd-gymdeithasol. Ystyriwn yn awr felly sut y mae'r damcaniaethwyr hynny ac eraill wedi mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn. Mae'r damcaniaethau amlycaf ynglŷn ag effaith diwydiannu ar genedlaetholdeb yng Nghymru yn eiddo i Hroch, Hechter a Nairn, ac mae yna debygrwydd nodedig rhyngddynt. Mae'r tri yn dadlau yn y bôn fod y modd unigryw y digwyddodd y broses

---

so even though the strategy of that colonization, its character and its speed, seemed to be entirely beyond the control of the Welsh people" (Jones, 1992).

o ddiwydiannu yng Nghymru wedi llesteirio cenedlaetholdeb yn yr hir dymor; naill ai oherwydd iddo ddigwydd yn rhy gynnar, neu am iddo ddigwydd mewn rhannau o'r wlad yn unig ac nid mewn rhannau eraill. Oherwydd eu bod yn ymdebygu i'w gilydd i'r fath raddau, bydd y traethawd hwn yn nodi cynnwys a gwahaniaethau y tair damcaniaeth i ddechrau, cyn eu hystyried ar y cyd yng nghyd-destun hanes Cymry'r 19eg ganrif.

*Michael Hechter*

O'r tair, efallai mai damcaniaeth 'gwladychu-mewnol' Hechter yw'r fwyaf dylanwadol.<sup>40</sup> Dywed y gall rhai diwylliannau ac ieithoedd oroesi gwladychu-mewnol o ganlyniad i 'raniad diwylliannol llafur'. Yn ei dyb ef, mae diwydiannu yn effeithio ar rai ardaloedd yn fwy na'i gilydd, a gall trigolion yr ardaloedd gwledig hynny na chawsant eu diwydiannu deimlo dan anfantais o ran cyfoeth a chfyloedd. Os oes gwahaniaethau ieithyddol, crefyddol neu ddiwylliannol rhwng y grŵp sydd dan anfantais economaidd o'i gymharu â'r grŵp sydd wedi ei ddiwydiannu, bydd y grŵp dan anfantais yn hawlio hunaniaeth ethnig ar wahân ac yn ceisio gwrth-droi'r annhegwch drwy wrthod cymhathu yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol a hawlio bod ei ddiwylliant cystal neu'n well na diwylliant y grŵp breintiedig (Hechter, 1975, pp. 38, 166). Dywed Hechter ymhellach fod gwahaniaethau diwylliannol rhwng y grwpiau dominyddol a'r rheini sydd wedi eu gormesu yn gallu arwain at dwf cenedlaetholdeb – ond, ar yr amod eu bod nhw'n cyfaneddu tiriogaethau ar wahân. Os yw'r grŵp sy'n dominyddu a'r grŵp sy'n cael ei ormesu yn rhannu'r un diriogaeth, mae'r rhaniadau yn tueddu i ddigwydd ar sail dosbarth (Hechter, 2000, pp. 105-7). Yn ôl Hechter, fe arweiniodd datblygu rhannau o Gymru fel atodiadau i economi diwydiannol Lloegr at raniad dosbarth o'r fath rhwng y dosbarth gweithiol Cymreig a Chymraeg a'r dosbarth canol Seisnig. Nid oedd yn rhaniad tiriogaethol, oherwydd bod y grwpiau hyn wedi meddiannu'r un gofod, e.e. cymoedd glo'r de-

---

<sup>40</sup> O bosib (ac yn eironig ddigon) am iddo gael ei gyhoeddi yn Saesneg yn wreiddiol, yn wahanol i waith Hroch.

ddwyrain, ac felly ni allai mudiadau cenedlaetholgar ddatblygu yn yr ardaloedd hyn (Hechter, 1975). Awgrymir yma, felly, y gall hunaniaeth ethnig cenedlaethol ddeillio o anffodlonrwydd y rheini sydd wedi eu heithrio o ddiwydiannu a'r cyfoeth a ddaw yn ei sgil. Gellid synio am y ddamcaniaeth hon fel atodiad defnyddiol i ddamcaniaeth Gellner ynglŷn â'r modd y mae diwydiannu yn darnio cymunedau llawer mwy (Gellner, 1983, p. 5), ond mae hefyd yn mynd gam ymhellach wrth esbonio sut y gall diwydiannu hybu cenedlaetholdeb mewn ardaloedd annatblygedig yn ogystal â'r rheini sydd wedi eu diwydiannu.<sup>41</sup>

Mae ail hanner damcaniaeth Hechter yn fwy dadleuol. O ganlyniad i'r "spatially uneven wave of modernisation" creir grŵp ethnig craidd sydd yn mynd ati i geisio monopoleiddio grym drwy greu polisiau sydd wedi eu hanelu at sefydliadeiddio y gwahaniaeth rhyngddynt hwy a'r grwpiau annatblygedig: "This stratification, which may be termed the cultural division of labour, contributes to the development of distinctive ethnic identification in the two groups..." (Hechter, 2000, pp. 22-30). Yn ôl Hechter, dioddefodd Cymru yn sylweddol o ganlyniad i'r union drefniant trefedigaethol hwn. O ganlyniad i'r ffaith mai economi ymylol oedd Cymru, nid oedd ganddi ddylanwad dros benderfyniadau ynglŷn â chyflogau a buddsoddi, sy'n tueddu i gael eu gwneud yn y craidd. Yn ogystal, tuedda economïau ymylol i fod yn ddibynnol ar allforio, ac o ganlyniad ânt drwy gyfnodau o ddirwasgiad economaidd wrth i'r galw am y nwyddau hyn ehangu a chrebachu dros amser (Hechter, 2000, pp. 9-10). Nodir gan John Lovering fod gwledydd megis Cymru mewn sefyllfa wannach na sawl trefedigaeth dramor yn ôl damcaniaeth Hechter, oherwydd bod modd i'r craidd honni nad endid ar wahân mohono o gwbl ond yn hytrach ymestyniad o'r craidd ei hun. O dan amgylchiadau felly gwna'r

---

<sup>41</sup> Mae'r damcaniaethau hyn felly yn awgrymu ateb i un o benblethau Hroch wrth ystyried esiampl Cymru, sef paham y gwelwyd datblygiad cyw-genedlaetholdeb yn yr ardaloedd gwledig yn hytrach nag yr ardaloedd diwydiannol. Mae hefyd yn gwneud synnwyr o fewn fframwaith ei ddamcaniaeth ef, oherwydd y byddai yn llawer haws i'r deallusion awgrymu cenedlaetholdeb fel ateb i anghenion 'bara menyn' y werin yn yr ardaloedd rheini a deimlai eu bod nhw wedi eu hesgeluso yn economaidd gan y wladwriaeth.

craidd benderfyniad bwriadol i atal datblygiad economi intergreiddiedig o fewn yr economi mylol er mwyn hybu'r ddibyniaeth honno (Lovering, 1978, p. 57). Er mwyn cyfiawnhau'r annhegwch hwn, tuedda aelodau'r craidd awgrymu yn ogystal mai gwahaniaethau diwylliannol sy'n gyfrifol am y gwahaniaethau materol rhyngddynt, gan arwain at gamwahaniaethu ar sail iaith, crefydd neu ffurfiau diwylliannol eraill<sup>42</sup> (Hechter, 2000, pp. 33-4). Ymhlith yr academyddion sy'n cytuno â dadl Farcsaidd Hechter ac yn ymhelaethu arni, y mae Glyn Williams a Charles Ragin.<sup>43</sup>

Mae Richard Wyn Jones hefyd yn cymharu Cymru â gwledydd y Trydydd Byd sydd wedi eu hecsbloetio gan wladwriaethau tramor ond sydd heb ddatblygu eu gwladwriaethau eu hunain yn ddigonol er mwyn gallu hawlio a manteisio'n llawn ar eu cyfoeth. Dywed Jones mai'r hyn sy'n gyfrifol am ddiffyg datblygiad mudiad cenedlaethol yng Nghymru oedd nad ei

---

<sup>42</sup> Ychwanega Phil Williams, mewn erthygl yng nghylchgrawn *Planet* sy'n trafod gwaith Hechter, fod hyn yn ymestyn yng Nghymru i wahardd ieithoedd a'u heithrio o'r wasg. Nodir ganddo hefyd fod cyflogwyr mawr y economïau sy'n mylol i'r craidd yn tueddu i ochri gyda'r grym imperialaidd yn hytrach na'r gymuned y maent yn tarddu ohoni (Williams, 1977, p. 61).

<sup>43</sup> Mae Glyn Williams yn ymhelaethu ar ddadl Farcsaidd Hechter, gan geisio awgrymu pam y bu i genedlaetholdeb ffynnu yn ardaloedd gwledig Cymru yn hytrach na'r ardaloedd diwydiannol. Yn hytrach nag ystyried cenedlaetholdeb Cymreig fel rhywbeth sy'n deillio o'r gorffennol, awgryma mai datblygiadau economaidd yng Nghymru a greodd grwpiau gwahanol a chanddynt safbwyntiau gwrthwynebol ar genedlaetholdeb yn seiliedig ar eu budd economaidd eu hunain. Dywed fod y modd y cafodd rhannau o Gymru eu diwydiannu o'r 'tu allan' yn rhan annatod o hyn; fe groedd un grŵp o fewn y pair diwydiannol a oedd yn adeiladu hunaniaeth ar sail dosbarth, a grŵp gwledig ar y cyrion a oedd wedi ffurfio hunaniaeth o amgylch eu hundod diwylliannol. Meddai Williams: "There was little sign or appearance of an integrated Welsh economy." Dadleuir bod chwyldro diwydiannol Cymru yn ddibynnol ar gyfalaf allanol er mwyn datblygu diwydiant trwm a oedd yn echdynnu glo, dur, haearn a thun i'w hallforio yn hytrach na'u defnyddio o fewn y wlad. Er y defnyddiwyd llafur o Gymru yn bennaf, roedd y rheolwyr gan amlaf yn dod o rannau eraill o Brydain - daeth y datblygiad â bourgeoisie newydd i'r ardal, nad oedd yn gweld yr angen i integreiddio oherwydd mai dim ond un gris ar ysgol gyrfa a allai fynd â hwy yn ôl i Loegr neu'r Alban oedd eu safle yng Nghymru. Ar yr un pryd, integreiddiodd y bourgeoisie lleol gyda'r bourgeoisie newydd er mwyn elwa ar yr un cyfleoedd. Cafodd y rhan a ddiwydiannwyd o'r gymdeithas ei hymgorffori gan y bourgeoisie hwn i mewn i system Brydeinig yr oedd ei ganolbwynt y tu allan i'r diriogaeth genedlaethol. Oherwydd y dieithrwyd diwylliannol ac economaidd rhyngddynt a'r meistri, datblygodd y dosbarth gweithiol feddylfryd a oedd yn eu huno ar sail dosbarth, a hynny ar y cyd â thrigolion eraill y Deyrnas Unedig. Yn y cyfamser bodolai yn yr ardaloedd gwledig grŵp mylol, ond gweddol unffurf, Cymraeg eu hiaith, a oedd yn hunan-gynhaliol yn economaidd. Arweiniodd hynny at feddylfryd a ddatblygodd ar sail undod diwylliannol yn hytrach na llinellau dosbarth. Oherwydd natur hunan-gynhaliol eu swyddi, ac absenoldeb cwmnïoedd cyfalafol ymelwol, tueddent i feio'r wladwriaeth Brydeinig am y diffyg cyfleoedd economaidd a ddaeth i'w rhan a cheisio unioni'r cam hwnnw (Williams, 1981, pp. 282-308). Fel y nodir gan Charles C. Ragin yng nghyd-destun trafodaeth am ddamcaniaeth Hechter, roedd trefeddiannwyr, rheolwyr ffermydd a'r gaplaniaeth Anglicanaidd yn cynrychioli diwylliant Seisnigaidd estron i nifer o Gymru Ymneilltuol Cymraeg eu hiaith cefn gwlad: "A cultural division of labour was clearly in evidence in preindustrial, traditional Wales" (Ragin, 1979, p. 623).

diwydiannu ei hun a wnaeth, ond yn hytrach cael ei diwydiannu gan Loegr, a oedd eisiau mynediad at ei hadnoddau. Er gwaetha'r diwydiannu mawr yng nghymoedd y de, dadleua Richard Wyn Jones mai rhan fach iawn o economi y Deyrnas Unedig ydoedd y gweithiau glo a haearn hyn. Roedd economi y Deyrnas Unedig bryd hynny, fel nawr, yn ymwneud yn bennaf â masnach fyd-eang yn hytrach na diwydiant trwm. Doedd gan Gymru ddim rhan yn y masnachu yma heblaw am ddarparu'r deunydd crai. Medd Jones: "... rôl ymylol a dibynol a chwaraeodd Cymru yn y chwyldro diwydiannol, hyd yn oed os cafodd hynt a helynt yr economi ddiwydiannol ddylanwad pellgyrhaeddol ar bob agwedd o fywyd Cymru" (Jones, 2007, p. 48). Fel y mae damcaniaeth Gellner, Hobsbawm ac eraill a ystyriwyd yn y bennod gyntaf yn ei awgrymu, roedd cenedlaetholdeb yn ffenomenon a dyfai ochr yn ochr â moderneiddio, trefoli, a diwydiannu. Ond yn achos Cymru, meddai Jones, rhywbeth a wnaethpwyd iddi oedd y moderneiddio hwn, ac felly roedd y cenedlaetholdeb a ddaeth yn ei sgil yn anochel hefyd yn perthyn i'r craidd. Nid oedd angen datblygu cenedlaetholdeb Cymreig unigryw er mwyn rhoi trefn ar y genedl ddiwydiannol newydd oherwydd mai cenedl arall oedd yn arwain y newid: "Roedd Cymru, felly, yn rhan o'r byd modern. Nid oedd modd i diriogaeth oedd wedi'i chysylltu mor agos yn ddaearyddol ac yn hanesyddol ag arloeswyr moderniaeth osgoi hynny. Ond cael ei chipio gan y llif wnaeth Cymru heb na rhwyf na hwyl" (Jones, 2007, p. 49). Gwelir felly fod gwaith Richard Wyn Jones yn parhau yn yr un traddodiad o roi'r pwyslais yn bennaf ar yr un elfennau economaidd-gymdeithasol ag a welwyd yng ngwaith Hechter.

Ond nid pawb sy'n cytuno â damcaniaeth Hechter. Yn ei gyfrol *Class, Ideology and the Nation* mae David L. Adamson yn dadlau nad oedd economi Cymru yn ymylol i Loegr fel y mae Hechter yn ei awgrymu, ond yn hytrach yn rhan o'r craidd – h.y. roedd economi Cymru a Lloegr yn un. Roedd datblygiad rhwydwaith drafnidiaeth, gan gynnwys porthladdoedd, ar arfordir Cymru yn awgrymu ei bod yn ganolog i economi'r Deyrnas Unedig yn hytrach na bod



y cyfoeth a'r nwyddau yn cael eu hechdynnu i'w gwerthu yn Lloegr (Adamson, 1991, pp. 183-4). Mae Lovering hefyd yn feirniadol o awgrym Hechter fod Cymru'n drefedigaeth i Loegr. Awgryma fod 'coloneiddio' Cymru yn sgil-ffaith anochel i integreiddio'r wlad o fewn economi Lloegr, yn hytrach nag ymgais fwriadol gan y llywodraeth a'r wasg i ecsbloetio'r wlad. Dywed fod damcaniaeth Hechter wedi ennill poblogrwydd yn sgil twf cenedlaetholdeb sosialaidd yng Nghymru yn yr 20fed ganrif, gan ei fod yn cynnig modd hwylus o uno achos cenedlaetholwyr gyda'r undebau llafur: "... it remains potent as a mobilizational ideology, appealing to mystified Welsh people" (Lovering, 1978, pp. 60, 66). Er bod rhywfaint o wirionedd yn nadl Lovering, mae yna un gwendid amlwg, sef ei fod yn defnyddio cyflwr cyfoes economi Cymru, a natur ryngwladol yr economi fyd-eang, er mwyn ymosod ar ddamcaniaeth Hechter, sydd mewn gwirionedd yn ymdrin â chyfnod llawer hirach. Er enghraifft, mae'n wfftio dadl nad oedd y llywodraeth wedi camwahaniaethu yn erbyn y Cymry, ar sail bodolaeth rhai swyddi lle'r oedd y Gymraeg yn ofynnol yn y 70au! Serch hynny, mae dadl Sarah Pitchford yn cefnogi safbwynt Lovering i raddau, gan awgrymu'r posibilrwydd bod tueddiad y Cymry i'w portreadu eu hunain fel rhan o drefedigaeth fewnol yn ymdrech i wrthwynebu cyhuddiadau Seisnig ynglŷn â'u hanallu economaidd, yn hytrach na bod yn seiliedig ar unrhyw realiti gwrthrychol (Pitchford, 2001, pp. 54-55). Serch hynny, er bod Lovering ac Adamson yn dadlau'n argyhoeddiadol mai proses economaidd yn hytrach na chynllwyn bwriadol oedd y broses o 'lyncu' Cymru o fewn economi Lloegr, nid yw'n herio Hechter ynghych sgil-ffaith yr integreiddio hwnnw ar ddatblygiad cenedlaetholdeb y Cymry.

*Tom Nairn*

Mae dadl Tom Nairn, yn ei lyfr *The Breakup of Britain*, yn ymdebygu i un Hechter mewn sawl modd. Mae'n dadlau nad oedd Cymru yn meddu ar yr adnoddau i ddatblygu ei heconomi fewnol ei hun. Yn groes i Brooks, mae'n wfftio'r gymhariaeth ag unrhyw genedl Ewropeaidd

arall, gan ddweud bod y datblygu diwydiannol a welodd Cymru yn hollol unigryw i'r wlad: "[It] was unlike the sort of economic development normally inflicted on backwards provinces in being massive... Nothing remotely similar could be said of any of the other European countries whose nationalisms superficially resemble that of Wales" (Nairn, 2003, p. 197). Fel Hechter, mae dadl Tom Nairn yn ymdebygu i un Gellner yn y modd y mae'n tybio i genedlaetholdeb gael ei achosi gan ddatblygiad diwydiannol anwastad. Dywed fod dau fath o genedlaetholdeb yn Ewrop; gwledydd a oedd wedi eu tanddatblygu yn economaidd, ac yn beio hynny ar y wladwriaeth ganolog, a hefyd gwledydd a oedd wedi eu gorddatblygu ac eisiau symud ynghynt nag oedd y wladwriaeth ganolog yn ei ganiatáu. Yn y gwledydd a oedd wedi eu tanddatblygu, defnyddiodd deallusion y dosbarth canol genedlaetholdeb er mwyn denu'r boblogaeth o'u plaid er mwyn gallu diwydiannu'r wlad o'u pen a'u pastynau eu hunain. Yn y tiroedd a oedd wedi gor-ddatblygu ond a oedd yn ddaearyddol ar wahân i'r wladwriaeth ganolog, defnyddiwyd cenedlaetholdeb fel modd i dorri'r llinyn bogail er mwyn cael symud ymhellach ac ynghynt.<sup>44</sup> Penbleth Cymru wrth ddatblygu cenedlaetholdeb cydlynol, medd Nairn, oedd bod y wlad wedi ei hollti yn ddwy, gydag un hanner wedi ei danddatblygu a'r llall wedi ei orddatblygu. Yn fwy na hynny, roedd y dosbarth canol a ymgartrefai yn y ddwy ran yn gwbl wahanol yn ddiwylliannol. Nid oedd gan Cymru ddosbarth canol diwydiannol cynhenid, gan i ddiwydiannu gael ei orfodi ar y wlad o'r tu allan: "... it was not the work of a native entrepreneurial bourgeoisie accumulating capital for itself... but much more like an invasion from outside. Previously without the main motor of effective separate development, an urban middle class, Wales now acquired an English or at least highly Anglicised bourgeoisie" (Nairn, 2003, p. 197). Yn hynny o beth roedd Cymru yn ymdebygu i Iwerddon, meddai. Pan ddatblygodd mudiad cenedlaethol yn y wlad honno, bu rhwyg rhwng y de annatblygedig a thrigolion y gogledd datblygedig a wrthodai gael eu cymhathu o fewn Iwerddon unedig (Nairn,

---

<sup>44</sup> Fel y nodwyd uchod, byddai y Tiroedd Tsiec yn syrthio i'r categori hwn.

2003, pp. 191-3). Mae Orridge yn ystyried y ddadl hon ychydig yn rhy syml, gan gofyn pam felly na welwyd cenedlaetholdeb yng ngogledd Lloegr neu barthau eraill o'r Deyrnas Unedig a welodd ddatblygiad economaidd anwastad. Dadleua ei bod yn glir fod angen nodweddion eraill megis iaith neu grefydd ar wahân cyn bod anfodlonrwydd â datblygiad anwastad yn amlygu ei hun ar ffurf cenedlaetholdeb (Orridge, 1981, p. 182). Ond o'm safbwynt innau, credaf fod Nairn, os rhywbeth yn gorbwysleisio'r graddau yr oedd twf cenedlaetholdeb yng nghefn gwlad Cymru yn y 19eg ganrif yn seiliedig ar nodweddion ethnig. Dywed Nairn mai'r hyn a sbardunodd ymateb Cymru hanner annatblygiedig y wlad oedd ceisio amddiffyn y wlad oddi wrth ddylanwad Seisnig cyfalafwyr y de:

The movement was in reaction against the Anglicising capitalist invasion of the South – yet also to some extent based upon it. It sought to defend the language and traditional life – yet also to adapt the nation to a more modern existence. (Nairn, 2003, p. 198)

Nid oedd yr ymateb mor ffyrnig ac nid oedd ychwaith yn seiliedig ar iaith i'r graddau y mae Nairn yn ei awgrymu yma. Fel y gwelwn yn y bedwaredd bennod a'r bumed, credaf fod y rhwyg diwylliannol ar sail llafur yng nghefn gwlad wedi cynnig esgus i'r dosbarth canol hybu cenedlaetholdeb, a hynny er mwyn hybu amcanion eraill, ond nid oedd yr iaith a'r diwylliant hwnnw yn *gymhelliad ynddynt eu hunain*. Serch hynny, fe allai damcaniaeth Nairn, fel un Hroch, fod o ddefnydd wrth esbonio pam yr oedd Cymry'r ardaloedd diwydiannol mor amharod i dderbyn arweiniad y Cymry gwledig, e.e. mudiad *Cymru Fydd*.

#### 4.4 - *Miroslav Hroch*

Mae Hroch yn cydnabod bod cenedlaetholdeb yn ffenomenon fwy cymhleth nag y mae damcaniaethau gweddol syml Hechter a Nairn yn ei awgrymu. Yn yr un modd a hwynt mae'n pwysleisio materion economaidd, ond yn ei farn ef sgil effeithiau datblygiad cyfalafiaeth, e.e. twf llythrennedd, datblygiadau i dechnolegau cyfathrebu a symudedd poblogaethau a arweiniodd at ddatblygiad cenedlaetholdeb. Mae Hroch yn rhannu Ewrop ar ddechrau'r 19eg ganrif yn ddau gategori:

- 1.) Y cenedl-wladwriaethau a oedd wedi bod yn araf ddatblygu ers yr oesoedd canol. Roedd y rhain eisoes yn meddu ar elît lywodraeth ag egin-bourgeoisie diwydiannol a oedd yn ddiwylliannol unffurf (Lloegr, Ffrainc, Sbaen, Sweden, Denmarc, Portiwgal, yr Iseldiroedd, Rwsia, ac ychydig yn hwyrach yr Eidal a'r Almaenwyr).
- 2.) Ymerodraethau aml-ethnig nad oedd eto wedi datblygu yn genedl-wladwriaethau modern (e.e. yr Ymerodraeth Hapsbwrgaidd).

O fewn tirwedd y ddau gategori hyn roedd tua 30 o grwpiau ethnig lleiafrifol; rhai nad oedd ganddynt draddodiad llenyddol, ac/neu heb elît llywodraethol, ac a oedd efallai wedi cymryd camau tuag at genedl-wladwriaeth yn yr oesoedd canol ond wedi eu hatal neu eu trechu (Hroch, 2000, pp. 11, 39-40). O ddechrau y 19eg ganrif ymlaen, dechreuodd y grwpiau hyn ddatblygu mudiadau cenedlaethol. Roedd Cymru'n rhan o ail don o fudiadau cenedlaethol a ddaeth i'r amlwg tua canol y ganrif<sup>45</sup> (Hroch, 1996, p. 37). Nid diwylliannol-ieithyddol yn unig oedd galwadau y mudiadau cenedlaethol rhain; roeddynt yn canolbwyntio yn ogystal â r greu eu

---

<sup>45</sup> Dylid pwysleisio bod elfen ethnosymbolaidd yn perthyn i waith Hroch. O ganlyniad i'r pwyslais hwn, awgrymir gan rai nad yw Hroch yn fodernydd o gwbl, a bod ei waith yn agosach at Anthony Smith ac eraill (Hall, 1998, p. 6). Fel y nodir, mae'n awgrymu bod rhai cenedl-wladwriaethau wedi bod yn datblygu ers y canol oesoedd, a bod hanes y grwpiau ethnig lleiafrifol hefyd yn chwarae rhan ffurfiannol yn natblygiad eu mudiadau cenedlaethol yn yr oes fodern (Hroch, 1995, p. 69). Dywed Hroch y gall atgof annibyniaeth flaenorol, ac iaith a oedd eisoes yn un ysgrifenedig, fod yn sbardun pellach i ddatblygiad cenedlaetholdeb modern yn y 19eg ganrif (Hroch, 1993, pp. 8-9). Gellid awgrymu, felly, nad yw'n ddigon ystyried cyd-destun datblygiad economaidd Cymru o fewn y wladwriaeth Brydeinig yn y 19eg ganrif er mwyn gwerthfawrogi dadl Hroch; rhaid ystyried y berthynas hanesyddol yn ogystal.

helît llywodraethol a'u dosbarth canol masnachol eu hunain, yn ogystal â sicrhau iawnderau sifil cyfartal a hunanlywodraeth (Hroch, 1995, pp. 66-7).

Crybyllwyd eisoes fod Miroslav Hroch yn cynnig patrwm 'tri cham' er mwyn esbonio datblygiad mudiadau cenedlaethol ar draws Ewrop. Yng ngham A, mae ysgolheigion, llyfrgellwyr, clerigwyr ac eraill a oedd yn gwasanaethu 'elît' y genedl yn dechrau llunio naratif ynglŷn â nodweddion unigryw ieithyddol, hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol y grŵp. Yn yr ail gam mae deallusion yn adeiladu ar y gwaith hwn gan ledaenu'r efengyl genedlaetholgar ymysg y werin. Yn y cam olaf daw cenedlaetholdeb yn ffenomenon dorfol ac y mae dyfodol y genedl yn saff (Hroch, 2007, pp. 97-98). Mae Hroch yn cyfeirio yn benodol at Gymru fel esiampl o ddarpar-genedl a fethodd â pharhau'r daith rhwng cam B ac C (Hroch, 2000, p. 4). Credai Miroslav Hroch fod Cymru eisoes yn meddu ar yr holl nodweddion angenrheidiol er mwyn bod yn genedl fodern. Serch hynny, un o ragamodau llwyddiant yn ôl model Hroch yw bod y mudiad cenedlaethol wedi bwrw ei wreiddiau cyn dechrau'r cyfnod o ddiwydiannu. Cynigir fel esiampl o hyn hynt y mudiad cenedlaethol yn Fflandrys; oherwydd ei bod eisoes yn wlad a oedd wedi datblygu'n sylweddol o safbwynt economaidd, methodd y mudiad cenedlaethol â chydio am amser hir. Y rheswm a gynigir am hyn oedd bod tyndra cenedlaethol wedi ei ddisodli gan dyndra ar sail dosbarth rhwng y gweithwyr a'r *bourgeoisie* (Hroch, 2000, pp. 4, 26, 114-5, 184). Ymysg y math o dyndra a fyddai'n hybu datblygiad mudiad cenedlaethol, meddai Hroch, fyddai gwrthdaro rhwng graddedigion prifysgolion y grŵp ethnig lleiafrifol ac elît caeedig o'r grŵp ethnig mwyafrifol a oedd yn gwrthod gollwng eu gafael ar awenau grym; y gwerinwyr o'r grŵp ethnig lleiafrifol a'r tîrffeddiawyr o'r grŵp ethnig mwyafrifol; a hefyd crefftwyr o'r grŵp ethnig lleiafrifol a masnachwyr ar raddfa eang o'r grŵp ethnig mwyafrifol (Hroch, 1993, pp. 11-2). Daw yn amlwg, felly, mai budd y grwpiau hyn sydd, yn nhyb Hroch, yn gyrru mudiadau cenedlaethol; lle mae gan ddosbarthiadau a

galwedigaethau gwahanol sydd wedi eu huno gan nodweddion ethnig tebyg asgwrn i'w grafu gydag elít sy'n perthyn i grŵp ethnig ar wahân, gallant ddefnyddio'r gwahaniaethau diwylliannol hynny fel baner i ymfyddino o dani er mwyn ennill cefnogaeth 'genedlaethol' i amcanion sydd mewn gwirionedd yn rhai bara menyn. Yn ogystal, noda mewn erthygl yn 1993 fod y symudiad o gam A i gam B gan y grŵp ethnig lleiafrifol yn ddibynnol yn aml ar broblemau o fewn y genedl-wladwriaeth neu'r ymerodraeth aml-ethnig y mae'n rhan ohoni; argyfwng gwleidyddol neu gymdeithasol o fewn yr hen drefn sy'n esgor ar densiynau newydd, twf anffodlonrwydd ymysg carfan sylweddol o'r boblogaeth, a hefyd cwmpwmp mewn hyder yn nilysrwydd crefyddol a moesol yr hen drefn<sup>46</sup> (Hroch, 1993, p. 10). Yn hyn o beth gallwn weld rhai cymariaethau rhwng gwaith Hroch a Roeder, sydd, er ei fod yn wfftio pwysigrwydd mudiadau cenedlaethol torfol fel modd o sicrhau ymreolaeth, yn dadlau bod dryllio cenedl-wladwriaethau yr un mor ddibynnol ar weithredoedd y wladwriaeth ganolog ag ydyw ar y grwpiau lleiafrifol, ac yn pwysleisio rhan carfan sy'n gweithredu er eu budd eu hunain wrth hybu cenedlaetholdeb.

Ymysg y rheini sydd wedi beirniadu damcaniaeth Hroch y mae Rhys Jones, sy'n herio'r dybiaeth mai'r elít yn unig sydd yn penderfynu ar hynt mudiad cenedlaethol. Dadleua fod angen rhagor o ystyriaeth i'r fframwaith hanesyddol a diwylliannol a fodolai eisoes ymysg eu dilynwyr. Dywed am fodel Hroch ei fod yn ymdebygu i "transmission belt in which nationalist ideas and ideologies are generated by nationalist leaders before being communicated to a docile and receptive population" (Jones, 2008, p. 321). Mae angen ystyried, meddai, dystiolaeth sy'n awgrymu bod cynhyrchu cenedlaetholdeb yn broses sy'n cynnwys deialog rhwng yr arweinwyr a'u dilynwyr. Gallai gweithgaredd gan yr arweinwyr esgor ar wahanol ymatebion mewn

---

<sup>46</sup> Dyfynnir Hroch yn un o ysgrifau Hobsbawm yn nodi bod cymuned ieithyddol a diwylliannol yn tueddu i ymffurfio pan fydd yr hen drefn ar chwâl: "the 'non-dominant ethnic group' would see the community of language and culture as the ultimate certainty, the unambiguously demonstrable value... language acts as a substitute for factors of integration in a disintegrating society" (Hobsbawm, 1996, p. 261).

gwahanol ardaloedd gan ddibynnu ar eu cefndir diwylliannol neu economaidd. Ymhellach, roedd aelodau arferol cymdeithas yn alluog i gynhyrchu eu disgwrs cenedlaetholgar eu hunain.<sup>47</sup> Nid wyf yn credu bod y feirniadaeth hon yn gwbl deg – wedi’r cwbl, mae Hroch yn pwysleisio bod angen i’r arweinwyr lwyddo i argyhoeddi eu dilynwyr o ddilysrwydd eu hamcanion cyn iddynt fod yn llwyddiannus. Mae’n werth nodi bod Hechter a Nairn hefyd yn awgrymu mai dim ond lle gall y dosbarth canol gyfleu dadleuon ar sail budd economaidd a diwylliannol y werin y cânt lwyddiant. Yn ôl y damcaniaethau hyn, er mai’r arweinwyr sydd â’r amser a’r adnoddau i gynhyrchu’r syniadau cenedlaetholgar, hunan-fudd y werin a benderfyna a fydd y mudiad yn blaguro; a gall yr had lanio ar dir diffwrwyth iawn. Dyma, meddai Richard Wyn Jones, sy’n brawf nad ideoleg gul a syml yw cenedlaetholdeb. Os yw mudiadau cenedlaethol am neidio o Gam B i C Hroch, rhaid iddynt apelio at y werin drwy gynnig atebion ymarferol cymhleth i rai o broblemau llywodraethol pennaf y dydd: “[Mae] gallu cenedlaetholdeb i afael yn y lliaws yn dibynnu ar allu ei lladmeryddion i ieuo’r prosiect cenedlaethol at ryw fath o drawsffurfiad economaidd-gymdeithasol a ganfyddir ei fod o fudd i ganran sylweddol o’r boblogaeth” (Jones, 2007, p. 36). Fel y crybwyllwyd ar ddechrau’r bennod, mae Jones a Brooks yn mabwysiadu patrwm ‘tri cham’ Miroslav Hroch wrth esbonio pam na ddatblygodd mudiad cenedlaethol yng Nghymru.<sup>48</sup> Yn nhyb Jones, gwireddwyd Cam A Hroch yng Nghymru yng ngweithgaredd ysgolheigaidd Morrisiaid Môn a Iolo Morgannwg, a Cham B yn ymdrechion y deallusion Emrys ap Iwan a Michael D. Jones i ledaenu’r

---

<sup>47</sup> Defnyddir natur ddigymell protest Pont Trefechan yn 1963, yn ogystal â phrotestiadau gan fyfyrwyr Aberystwyth a sicraodd iddynt neuadd breswyl Gymraeg ei hiaith, sef Pantycelyn yn y 70au, fel esiampl o hyn. Yn yr achos cyntaf fe aeth protestwyr yn groes i dymuniadau’r trefnwyr; yn yr ail, roedd trafodaeth yr elit drwy gyfrwng cylchgronau megis *Barn* yn cael ei yrru i raddau helaeth gan weithgarwch y myfyrwyr. Awgrymir bod angen ystyried lleoliad daearyddol unigolion o fewn mudiadau cenedlaethol wrth ystyried i ba raddau y maent mewn safle i arwain, yn ogystal ag ystyried mudiadau cenedlaethol fel rhai democrataidd, lle mae’r dilynwyr ymhell o fod yn fud a di-rym (R. Jones, 2008, p. 321).

<sup>48</sup> Fel Seimon Brooks (Brooks, 2010, p. 6), nodi Richard Wyn Jones fod gwendid y mudiad cenedlaethol yng Nghymru yn ddirgelwch ar yr olwg gyntaf o ystyried bod cynifer o wledydd yn Ewrop o faint a phoblogaeth debyg wedi llwyddo i ffurfio eu cenhedloedd eu hunain: “... go brin fod llawer o wledydd yn Ewrop yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg lle ceid gwell argoelion ar gyfer mudiad cenedlaethol llwyddiannus nag yng Nghymru. Yn wir, fe lwyddodd llaweroedd o genhedloedd eraill, yn rhai mawr a mân fel ei gilydd, i fynnu ac ennill eu rhyddid ar sail adnoddau llawer iawn mwy llwm nag a feddai’r Cymry.”

ymwybyddiaeth genedlaethol drwy weddill y boblogaeth. Ond dywed na chyrhaeddodd Gymru erioed gam C, sef mudiad cenedlaethol torfol, nes sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol (a gellir dadlau nad yw wedi cyrraedd y cam hwnnw hyd heddiw). Dywed Jones fod dyfarniad Hroch bod Cymru wedi sefyll yn ei hunfan ar gam B yn gywir am y rhan helaeth o'r 19eg a'r 20fed ganrif (Jones, 2007, pp. 3, 29). Mae Seimon Brooks yn anghytuno â Richard Wyn Jones gan ddadlau na ddechreuodd Cymru ar gam A hyd yn oed tan ddechrau'r 20fed ganrif; yn ei dyb ef, ni ddaeth Cam A nes i John Morris-Jones safoni'r iaith Gymraeg, Cam B nes i Saunders Lewis ac eraill sefydlu Plaid Cymru, ac fe ddechreuodd mudiad cenedlaethol torfol ffynnu yn y 1960au, sef ei Gam C (Brooks, 2010, p. 24). Mae Richard Wyn Jones hefyd yn awgrymu y gallai fod yn wir fod y mudiad cenedlaethol yng Nghymru wedi treulio cymaint o amser ar Gam B erbyn canol yr 20fed ganrif nes eu bod nhw rywsut wedi llithro'n ôl i gam A, wrth i genedlaetholdeb Prydeinig ennill tir. Yr hyn sy'n gyffredin rhwng y ddau a Hroch yw nad ydynt yn gweld arwydd o gynnwrf cenedlaetholgar ymysg trwch y boblogaeth yng Nghymru tan ail hanner yr 20fed ganrif fan cynharaf, ac mai methiant ymdrechion yr ysgolheigion a'r deallusion i wneud eu neges genedlaetholgar yn berthnasol i anghenion 'bara menyn' dyddiol y werin sy'n cael y bai am hynny (Jones, 2007, p. 36). Y gwahaniaeth yw bod Jones yn ystyried na allent gynnig dim yn economaidd i'r Cymry nad oedd y wladwriaeth Brydeinig eisoes yn ei addo iddynt; yn nhyb Brooks, ni ffwdanodd yr 'arweinwyr' Cymreig gynnig y ddadl honno o gwbl oherwydd eu hymlyniad hwythau wrth ideoleg *laissez-faire*.

#### *Ymateb Brooks*

Mae Brooks yn beirniadu'r dadleuon economaidd-gymdeithasol a drafodwyd uchod ynglŷn â datblygiad mudiad cenedlaethol yng Nghymru fel a ganlyn:



- 1) Nid oedd rhwyg sosialaidd rhwng y meistri a'r gweithwyr yn bodoli ym maes glo y de nes 1890au'r ganrif. Rhyddfrydol, nid sosialaidd, oedd ideoleg y gweithwyr a'r meistri fel ei gilydd. Yn absenoldeb rhaniad ar sail dosbarth, nid yw damcaniaeth Hechter, Hroch a Nairn yn esbonio pam na fu rhaniad ar sail iaith a diwylliant rhwng y 1870au a'r 1890au.
- 2) Nid yw'r diffyg dosbarth canol yn y meysydd glo yn esbonio pam na ddatblygodd mudiad cenedlaethol yn y trefi porthladd megis Caerdydd, lle'r oedd dosbarth canol Cymraeg ei iaith yn bodoli (Brooks, 2015, pp. 21-2).

Byddaf yn ymdrin â dadl gyntaf Brooks i ddechrau, cyn symud ymlaen at yr ail. Mae'r awgrym mai rhyddfrydol oedd ideoleg y meistri a'r gweithwyr fel ei gilydd yn y cymoedd glo yn negyddu un elfen o ddadl Hroch a amlinellwyd uchod, sef bod tyndra cenedlaethol yn cael ei ddisodli gan dyndra ar sail dosbarth rhwng y gweithwyr a'r bourgeoisie yn y gwledydd hynny oedd eisoes wedi gweld datblygiad economaidd sylweddol (Hroch, 2000, pp. 4, 26, 114-5, 184). Mae'n amlwg na ddigwyddodd hynny yng Nghymru tan diwedd y ganrif, ac felly roedd cyfle amseryddol sylweddol ar gyfer ffurfio mudiad cenedlaethol ethnig. Serch hynny, nid yw fel petai'n gwrth-ddweud dadl Hechter ynglŷn ag ymraniad diwylliannol llafur. Noda mai dim ond mewn ardaloedd lle nad yw grwpiau dominyddol a'r rheini sydd wedi eu gormesu yn cydfyw y gwelir rhaniadau ar sail iaith a diwylliant. O ganlyniad, ni fyddai'r fath raniad yn bosib yn ardaloedd diwydiannol Cymru (Hechter, 2000, pp. 105-7). Mae'n bosib bod rhyddfrydiaeth y gweithwyr yn esbonio pam na welwyd rhaniadau ar sail dosbarth yn ardaloedd diwydiannol Cymru tan y 1890au, felly, ond nid yw'n esboniad teilwng am y diffyg ymraniad ar sail iaith a diwylliant - yn ôl damcaniaeth Hechter, roedd y cyfle am ymraniad o'r fath eisoes wedi ei gollu yn sgil diwydiannu a chyd-fyw gyda'r grŵp dominyddol.

Gwreiddyn yr anghydweld rhwng Brooks a'r damcaniaethwyr hyn yw ei fod yn ystyried bod cenedlaetholdeb yn reddf naturiol, geidwadol, tra bod Hechter yn nodi mai rhwyg rhwng y dosbarth canol a'r gweithwyr 'cynhyrchiol' a'r tîrfeddianwyr 'segur' yw sbardun genedlaetholdeb. Yng nghymoedd diwydiannol Cymru, nid oedd y neges genedlaetholgar a bwysleisir gan yr Ymneilltuwyr yn effeithiol am ei bod yn seiliedig ar hollt diwylliannol ar sail llafur, mewn ardal lle nad oedd yr hollt hwnnw bellach yn bodoli. Gwelir hyn yn eglur yn araith Henry Richards o Dregaron ym Merthyr Tudful cyn iddo gipio'r sedd yn etholiad 1868, wrth iddo alw ar y Cymry i ymfyddino o'i blaid er mwyn dymchwel rheolaeth y Ceidwadwyr. Y Cymry oedd "[g]werin y bwthyn yn hytrach nag uchelwyr y plas, ac ni chawsent eu cynrychioli yn y senedd erioed. Yr awgrym a oedd yn amlwg ymhlyg yn hyn oedd nad oedd y bonedd Seisnigedig yn rhan o'r genedl Gymreig"<sup>49</sup> (Evans & Sullivan, 1999, p. 536). Ond er nad oedd Cymry Merthyr Tudful wedi llawn anghofio eu gwreiddiau,<sup>50</sup> nid oedd yr ymranïad diwylliannol ar sail llafur a awgrymwyd gan Henry Richards er mwyn tanio ymdeimlad y bobl â chenedlaetholdeb yn bwrw hollt rhyngddynt a meistri'r gweithfeydd glo a haearn. Yn eu meddyliau hwy, yr oeddynt oll yn yr ardaloedd ddiwydiannol, yn siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg, ymysg y dosbarth 'cynhyrchiol', a dyma oedd sail y gwahaniaeth rhyngddynt a'r dosbarth anghynhyrchiol a oedd yn elwa ar eu llafur, sef y tîrfeddianwyr. Er nad oeddynt eto yn sosialwyr, felly, roedd y cyfle i danio mudiad cenedlaethol ar sail rhaniad diwylliannol llafur

---

<sup>49</sup> Trafodir union eiriau Henry Richards mewn rhagor o fanylder ym mhennod pump.

<sup>50</sup> Nodir gan Ieuan Gwynedd Jones: "Ystyriwch hefyd nad oedd gan Henry Richard ddim amheuaeth o gwbl nad oedd ei gynulleidfa yn llwyr ddeall ei neges... roedd yn [d]erbyn ei fod ef a hwythau'n gyfrannog o'r un diwylliant" (Jones, 1988, p. 133). Gellid dadlau hefyd bod ymwybyddiaeth y Cymry Cymraeg o'u hunaniaeth wedi ei dwysau wedi iddynt symud i'r trefi. Er nad oeddynt yn dechnegol yn ymfudwyr o un wlad i'r llall, byddai cymoedd diwydiannol y de ddwyrain yr un mor newydd ac anghyfarwydd i'r Cymro gwledig â llecyn o dir ym Mhensylvania. Yn ôl Ezra Park yn ei llyfr *Immigrant Press and its Control*, ymateb ymfudwyr i wledydd anghyfarwydd oedd tueddu i uniaethu'n gryf gyda iaith a diwylliant y rhai yr oeddynt wedi eu gadael ar ôl, a defnyddio sefydliadau cyfarwydd, gan gynnwys y wasg a'r eglwysi, er mwyn cesio synnwyr o'r anghyfarwydd: "National Consciousness is inevitably accentuated by immigration. Loneliness and an unfamiliar environment turn the wanderer's thoughts and affections back upon his native land. The strangeness of the new surroundings emphasizes his kinship with those he has left... The nationalistic tendencies of the immigrants find their natural expression and strongest stimulus in the national societies, the Church, and the foreign-language press – the institutions most closely connected with the preservation of the racial languages. In these the immigrants feels the home ties most strongly..." (Park, 1922, pp. 50-1).

wedi mynd heibio. Yr hyn sydd gan y damcaniaethau ar genedlaetholdeb a drafodwyd uchod yn gyffredin yw pwysigrwydd ieuo'r ddadl ddiwylliannol â'r ddadl economaidd – pan fônt mewn cytgor, mae mudiad cenedlaethol torfol yn bosib. Fel y gwelwn yn y bennod nesaf, rhyddfrydiaeth yw'r ideoleg sy'n gwneud y rhwyg hwnnw ar sail llafur – rhwng y 'cynhyrchiol' a'r 'segur' – yn bosib, ac roedd felly yn rhan anhepgor o unrhyw fudiad cenedlaethol modern.

Ail ddadl Brooks yw nad oedd diffyg dosbarth canol yn y meysydd glo yn esbonio pam na ddatblygodd mudiad cenedlaethol yn y trefi porthladd megis Caerdydd, lle'r oedd dosbarth canol Cymraeg ei iaith yn bodoli. Nid yw'r pwynt hwn, serch hynny, yn mynd i'r afael â dadl Hroch, sef bod angen i'r dosbarth canol hwnnw fod yn annibynnol yn fasnachol ar y grŵp dominyddol cyn iddynt ffurfio mudiad cenedlaethol. Dywed fod angen gwrthdaro rhwng budd economaidd crefftwyr, graddedigion neu werin a dosbarth canol y grŵp ethnig mwyafrifol er mwyn hwyluso twf mudiad cenedlaethol (Hroch, 1993, pp. 11-2). Yr hyn sydd gan y grwpiau hyn yn gyffredin oedd bod cymhelliad ariannol iddynt ddychmwel rheolaeth y grŵp ethnig mwyafrifol. O ganlyniad, yn ôl ei ddamcaniaeth ef, nid oedd sail i wrthdaro o'r fath yn yr ardaloedd diwydiannol lle'r oedd y gweithlu yn ddi-grefft, e.e. y pyllau glo. Ni allai'r glowyr fod wedi cynnal eu gwaith heb fuddsoddiad ariannol y masnachwyr.<sup>51</sup> Er bod dosbarth canol Cymraeg ei iaith y trefi porthladd yn byw ym mhen draw'r rheilffordd a'r gamlas yn hytrach na'u dechrau, roeddynt hwy hefyd yn ddibynnol ar yr un ffynhonnell am eu golud. Yn ôl damcaniaeth Hroch, pe bai Cymru yn meddu ar economi fewnol integreeiddiedig, byddai ganddi hefyd ddosbarth canol masnachol a allai fod wedi amddiffyn eu buddiannau a hynny ar

---

<sup>51</sup> Mae un o lythyrau gohebydd y *Morning Chronicle* a oedd ym ymweld ag ardal Merthyr Tudfyl a Dowlais yn nodi'r parch uchel a oedd gan weithwyr gwaith dur Cyfarthfa i'r cyfalafwyr a oedd yn berchen arno. Dywed eu bod wedi ymbil ar Crawshay Bailey i beidio ag ymddeol, a'i fod wedi newid ei feddwl. Dyfynir un o'r trigolion fel a ganlyn: "... the men can't endure it. A Crawshay came here, and made the works; he did great good hereabouts." Daw'r gohebydd i'r casgliad fod y dynion yn trin eu meistri "with something like veneration" (*Monmouthshire Merlin*, 1850e, p. 4).

ffurf 'mudiad cenedlaethol'. Byddai cael cefnogaeth y bobl y tu cefn iddynt ar sail gwahaniaethau ethnig yn fodd o gael y maen hwnnw i'r wal. Er bod datblygiad diwylliannol yn bwysig i ddadl Hroch, mae'n amlwg mai'r hyn sy'n gyrru'r broses yn y bôn yw gwrthdaro rhwng budd dosbarth canol y grŵp ethnig lleiafrifol a'r grŵp ethnig mwyafrifol: "a social tension that can be mapped onto linguistic (and sometimes also religious) division" (Hroch, 1993, p. 162). Hynny yw, hollt i'w ecsbloetio er mwyn camu o gam B i gam C ac ennill cefnogaeth y dorf i'r mudiad cenedlaethol yw iaith neu grefydd. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod bodolaeth iaith neu grefydd unigryw, ar eu pennau eu hunain, yn ddigon i yrru'r newid. Os oes perthynas economaidd symbiotig rhwng y grŵp ethnig lleiafrifol a'r grŵp ethnig mwyafrifol, fel ag yr oedd yn nhrefi'r porthladdoedd a'r cymoedd glo, does dim rheswm dros dynnu sylw at y gwahaniaeth, ac mae un grŵp yn ymdoddi i'r llall yn ddi-wrthwynebiad. Fel ag yr oedd, roedd y dosbarth canol hwn wedi mudo o gefn gwlad a'i gosod ei hun wrth geg y wythïen euraid a lifai i lawr o'r cymoedd er mwyn manteisio ar y cyfoeth a gynhyrchid ganddi.<sup>52</sup> Gwnaeth Gareth Miles y pwynt hwn yn gelfydd:

---

<sup>52</sup> Mae hyn yn amlygu gwendid yn nabl David L. Adamson yn ogystal. Byddaf yn dychwelyd at ei waith ym mhennod chwech, am ei fod i raddau helaeth yn cydweld â'm dadl innau ynglŷn â'r modd y datblygodd cenedlaetholdeb yng nghefn gwlad. Ond, wrth drafod effaith grymoedd economaidd ar ddatblygiad cenedlaetholdeb Cymreig, mae'n werth nodi yma elfennau o'n dadleuon sydd yn gwrthdaro â'i gilydd. Mae David L. Adamson yn dadlau bod cenedlaetholdeb yn deillio o ddiwydiannu yn y de-ddwyrain, a welodd dwf *bourgeoisie* Cymraeg ei iaith. Er mai cyfalaf Seisnig oedd yn gyfrifol am y datblygiadau cynnar, wrth i'r ganrif fynd rhagddo daeth nifer o'r Cymry Cymraeg yn gyfoethog yn ogystal. Awgryma Adamson eu bod hwy wedi datblygu cenedlaetholdeb Cymreig fel "ideological cement" a fyddai yn sicrhau iddynt hwy eu hunain hegemoni na chafodd ei herio gan ddsbarth gweithiol yr ardaloedd diwydiannol. Dyna, yn ogystal, sydd i gyfri am benderfyniad y dosbarth gweithiol yn yr ardaloedd diwydiannol i droi cefn ar yr iaith Gymraeg. Drwy wneud hynny, roeddynt yn ymwrthod ag ymdrechion y dosbarth canol diwydiannol i gadw trefn arnynt drwy gyfrwng cenedlaetholdeb (Adamson, 1991, p. 117). Dywed Adamson fod methiant mudiad *Cymru Fydd* yn deillio o'r ffaith bod sylfaen y gynghrair rhwng y bourgeoisie dinesig a'r werin wledig. Erbyn 1890 roedd y tensiynau rhwng y tiffeddianwyr a'r ffermwyr wedi lleddfu i raddau helaeth, ond roedd hegemoni'r bourgeoisie diwydiannol yn chwalu yn sgil twf mudiadau llafur ymysg y gweithwyr (Adamson, 1991, pp. 122-3). Ond gwendid y ddadl yma yw nad oedd cymhelliad amlwg i'r dosbarth canol diwydiannol hwn hybu cenedlaetholdeb Cymreig pan oedd yn haws o dan yr amgylchiadau i hybu cenedlaetholdeb Prydeinig fel y 'sment ideolegol' a fyddai'n dal y dosbarth canol a'r gweithiol ynghyd. Fel y dywed Adamson ei hun: "The Nonconformist elite in the south could not support the Home Rule demands of Cymru Fydd, given their total dependence on the economic relations between Wales and England" (Adamson, 1991, p. 123). Mae'n ymddangos yn annhebygol y byddent wedi hybu unrhyw fath o genedlaetholdeb Cymreig a fyddai yn peryglu'r ddibyniaeth economaidd honno.

Anghaffael dybryd i Gymru oedd na chafodd fwrgeisiaeth fasnachol a diwydiannol frodorol rymus a fuasai wedi ymgyrchu'n egniol yn y ganrif ddiwethaf i sefydlu gwladwriaeth a fyddai'n gwarchod ei marchnad genedlaethol. Nid buddsoddwyr, diwydiannwyr a masnachwyr oedd arweinwyr Cymru Oes Victoria... Nid trwy herio Lloegr y gofalai'r dosbarth hyn am ei fuddiannau ond trwy ymseisnigo ac ymbrydeinio fwyfwy... (Miles, 1998, p. 68)

Hyd yn oed yng nghefn gwlad roedd y gyd-ddibyniaeth economaidd rhwng y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg yn golygu bod ymdrechion y dosbarth canol i feithrin rhwyg diwylliannol ar sail llafur rhyngddynt a'r tîrfeddianwyr yn dalcen caled. Wynebai'r ffermwyr ddirwasgiad yn ail hanner y ganrif a achoswyd gan ffactorau allanol, ac a olygai eu bod yn amharod i beryglu eu perthynas gyda'r meistri tir, ac ni ddangoswyd llawer o frwdfrydedd dros achosion a gefnogid yn frwd gan Ymneilltuwyr blaenllaw megis Thomas Gee, gan gynnwys Cynghrair Gwrthwynebu'r Deddfau ŷd a Chynghrair y Tir. O ganlyniad, troesant eu golygon oddi wrth faterion 'ymarferol' o'r fath a chanolbwyntio yn hytrach ar hybu manteision crefyddol yr Ymneilltuwyr drwy ddatgysylltu'r eglwys a seciwlaireiddio addysg. O dan amgylchiadau economaidd felly, "eibeth iddynt hwy [y ffermwyr] oedd gwahaniaethau diwylliannol, crefyddol a gwleidyddol," a hynny er nad oedd ganddynt lawer o gariad at yr Eglwys Wladol na'r meistri tir Anglicanaidd (Moore-Colyer, 1999, p. 128). Methodd ymdrechion yr arweinwyr Ymneilltuol â chwrdd â gofynion cam C Hroch, sef profi i'r werin y byddai mudiad cenedlaethol yn ateb rhai o'i hanghenion bara menyn. Roedd sail lawer amlycach yma ar gyfer hollt diwylliannol llafur yn ôl damcaniaeth Hroch, ond ni lwyddwyd i gael y maen i'r wal

oherwydd y teimlad ymysg y ffermwyr y byddent yn fwy diogel yn economaidd dan yr hen drefn, er gwaethaf ei ffaeleddau.<sup>53</sup>

### *Y chwarelwr*

Mae Hroch yn crybwyll crefftwyr ymysg y grwpiau lle gellid disgwyl rhywfaint o wrthdaro ag elít neu bourgeoisie dosbarth canol o'r grŵp ethnig mwyafrifol, a hynny am eu bod yn weddol annibynnol yn economaidd, hynny yw nid oeddynt yn ddibynnol ar gyfalaf y grŵp ethnig mwyafrifol er mwyn gallu cynhyrchu nwyddau gwerthfawr, yn yr un modd ag yr oedd y labrwr di-sgil. Mae astudiaeth ar chwarelwyr gogledd-orllewin Cymru fel petai'n cefnogi'r ddamcaniaeth honno. Roedd y gwahaniaeth ieithyddol a diwylliannol rhwng y chwarelwyr a'r meistri yn chwarae rhan flaenllaw yn Streic y Penrhyn, 1900-03. Dywed Gwen Angharad Gruffydd fod cenedlaetholdeb yn amlwg yn llenyddiaeth y streic, gan gyferbynnu Seisnigrwydd y meistri â Chymreictod y gweithwyr (Gruffudd, 2009, p. 133). Ond efallai mai'r hyn sy'n fwyaf arwyddocaol yn achos y chwarelwyr yw'r cysylltiad annatod amlwg rhwng y gwerth a roddir i'w diwylliant eu hunain, gan gynnwys yr iaith Gymraeg, a hunan-werth economaidd y gweithwyr hyn, a hynny er gwaethaf (neu hyd yn oed oblegid) eu hideoleg ryddfrydol. Mae astudiaeth H. Paul Manning ar chwarelwyr gogledd-orllewin Cymru yn awgrymu bod y Rhyddfrydwyr Ymneilltuol yn barod i gofleidio'r iaith Gymraeg pan oedd yn ymddangos mewn cyd-destun diwydiannol a chynhyrchiol. Er bod y chwarelwyr yn rhyddfrydol eu hideoleg, llwyddasant drwy'r wasg i addasu'r ideoleg honno at hyrwyddo eu hiaith a'u diwylliant eu hunain a'u cyferbynnu'n ffafriol â'r Saesneg a'i diwylliant hwythau. Gwnaethant hyn drwy orseddu'r Gymraeg, yn hytrach na'r Saesneg, yn iaith cynnydd – yn y Gymraeg yr oedd holl derminoleg eu crefft, tra oedd y Saesneg yn ddi-bwrpas yn hynny o beth:

---

<sup>53</sup> Sylwer hefyd fod dadleuon ynglŷn ag Annibyniaeth i'r Alban yn 2014 a gadael yr Undeb Ewropeaidd yn 2016, er gwaethaf amlygrwydd dadleuon cenedlaetholgar, yn pwysleisio'n bennaf beryglon neu fanteision economaidd gwneud hynny.

“ni all y Sais, oherwydd ei ddiethrwch i’r llech-chwarelau, wneud dim yn y cyfeiriad yma...”<sup>54</sup>  
(Peris, 1895, p. 273) Portreadai’r chwarelwyr eu hunain yn y wasg Gymraeg fel y rhai a oedd yn *creu* gwerth materol, tra oedd y Saeson yn *cyfnewid* gwerth yn unig: “English came to be associated with relatively nonproductive forms of commercial artifice...” Tra oedd y farchnad yn eiddo i’r Saesneg, yn y Gymraeg yr oedd yr wybodaeth ymarferol a’r sgil oedd yn caniatáu iddynt hollti’r graig (Manning, 2004, pp. 526, 531). O ganlyniad, cyflwynid y chwarelwr yn y wasg Ymneulltuol-Ryddfrydol yn ystod y cyfnod hwn fel y Cymro Cymraeg delfrydol; roedd (yn wahanol i’r glowr) yn lân, yn ddiddosbarth, yn grefyddol, yn heddychlon, yn ddiwylliedig, ac yn barchus, ac (yn wahanol i’r werin amaethyddol) yn fodern. Cynhaliwyd y ddelwedd ddychmygol hon o’r chwarelwyr a oedd yn pontio byd diwydiant a diwylliant – yn torri llechi cyn cilio i’r caban am eu cinio i drafod eisteddfodau – yn rhannol o leiaf drwy gyfrwng eu disgwrs eu hunain yn y wasg Gymraeg. Nid oedd y chwarelwyr yn gwerthu llafur di-grefft i’w cyflogwyr, ond yn hytrach yn creu cynnyrch ar gyfer y farchnad ac yn cyd-drafod pris gyda pherchnogion y chwareli. Ond nid yn unig oedd y perchnogion yn ymelwa yn anheg ar eu llafur, ond roedd teimlad ymysg y gweithwyr bod y mynyddoedd eu hunain wedi eu dwyn oddi arnynt gan y Saeson (R.M. Jones, 1981, p. 61). O ganlyniad, gellid portreadu’r modd y cawsant eu trin gan berchnogion ceidwadol y chwareli llechi yng nghyd-desun gormes a oedd yn atal chwarae teg ac felly yn rhwystro cynnydd; yn hynny o beth, cynrychiolai frwydr ganolog rhyddfrydiaeth yr oes. Yr un oedd eu hagwedd at y masnachwyr a werthai eu cynnyrch. Er enghraifft, dywed *Y Chwarelwr*: “Y mae masnachwyr ein gwlad fel gelod, er cymaint o waed y chwarelwyr a sugnid ganddynt” (*Y Chwarelwr*, 1877, p. 4). Roedd yn haws iddynt synio am y frwydr rhwng y chwarelwr anghydfurfiol Cymraeg a’r perchennog Anglicanaidd Ceidwadol Saesneg fel un yn ymwneud â rhyddid, yn wahanol i’r sefyllfa yng nghymoedd y de, lle’r oedd

---

<sup>54</sup> Dadleuai rhai fod gan y Cymry eu hunain ryw ddawn arbennig i drin lechi: “Hona rhai o’r Cymry, ac yn enwedig rai o’r chwarelwyr, fod rhyw gyfaddasrwydd, neu ddawn cynhwynol, yn y Cymry, ragor un genedl arall, at dri llechi, fel y dywedir nad oes neb ond Cymry yn alluog i chwareu y delyn deir-rhes.” (Peris, 1895, p. 273)

eu gallu i greu'r cynnyrch yn ddibynnol ar fuddsoddiad a gwybodaeth dechnegol masnachwyr a chyd-weithwyr a oedd hefyd yn Saeson. Yn wir, dywed Manning mai'r chwareli oedd, o bosibl, yr esiampl orau yng Nghymru o'r "cultural division of Labour" a drafodwyd gan Hechter:

Welsh elites in the 19th century found a 'modern' Welsh-speaking figure who participated in industry, while remaining Welsh, both linguistically and culturally, thereby associating the Welsh language itself with the desirable properties of modernity, particularly industrial productivity, and this allowed it to be imagined as a language at home in modernity. (Manning, 2004, p. 517)

Mae gwaith Manning yn awgrymu nad yw'n deg dadlau, fel y gwna Brooks, fod Rhyddfrydiaeth yr oes yn mynnu "fod Seisnigrwydd a Saesneg yn fynegiant anochel ar gynnydd..." (Brooks, 2010, pp. 59-60). Roedd y Cymry yn fodlon derbyn y Gymraeg yn iaith fodern lle'r oedd tystiolaeth ei bod yn cael ei defnyddio mewn cyd-destun cynhyrchiol a modern. Parhaodd y Gymraeg yn rhan annatod o fyf y chwarelwr hyd yn oed yn dilyn twf y mudiad llafur a sefydlu Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru (Evans & Sullivan, 1999, p. 549). Datganodd erthygl olygyddol yn y *Chwarelwr* yn gwbl glir mai at genedl nid at ddo-sbarth yr oedd eu teyrngarwch pennaf:

Pe meddyliem fod tuedd yn yr Undeb i wneyd ei aelodau yn llai gwladgarol neu yn llacach cenedlgarwyr, buan y ceid ni ymysg gwrthwynebwyr yr Undeb... Yr ydym yn crybwyll hyn er mwyn anog y Chwarelwr i barhau i gylymu eu holwyn wrth gerbyd gwladgarwch, ac mae genym ddigon o brofion bod hawliau y Chwarelwr bron yn iawn yn gyfystyr a hawliau Cymru. (*Y Chwarelwr*, 1876, p. 8)



Cynigir fel prawf o hynny gefnogaeth y Chwarelwyr wrth sefydlu Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth, “y gof-golofn ardderchocaf i wladgarwch,” canys ei fod yn brawf “fod gwladgarwch Cymreig yn seiliedig ar addysg a diwylliant...” (*Y Chwarelwr*, 1876, p. 8). Oherwydd fod y meddwl rhyddfrydol yn hafalu gwerth materol gyda gwerth moesol, gallent gyfiawnhau'r ddadl fod eu diwylliant hwy yn uwchraddol, neu o leiaf yn gymwys i gyd-gystadlu, â'r Saesneg.

Ond ochor arall y geiniog i barodrwydd y Chwarelwyr i ystyried bod cysylltiad dwys rhwng eu hiaith, eu cenedl, a chynnydd rhyddfrydol, oedd nad oedd y labrwr o Gymro di-grefft na'r Cymro amaethyddol ‘anfodern’ yn gyfystyr â hwynt. O ganlyniad nid oeddynt hwy yn meddu ar yr un safon diwylliannol a moesol (Manning, 2004, pp. 525, 533). Er bod modd i'r hanesydd cyfoes werthfawrogi bod trigolion y cymoedd diwydiannol yn grŵp gweddol unffurf yn ieithyddol a gwleidyddol hyd at ddegawdau olaf y 19eg ganrif, ystyrir y ‘Gymru Americanaidd’ y trigai'r glowyr ynddi eisoes yn ormod o bwl tawdd ieithyddol<sup>55</sup> a diwylliannol i'w dyrchafu yn symbol o Gymreictod.<sup>56</sup> O ganlyniad, er na fyddai'r rhaniadau ar sail dosbarth yn dod i'r amlwg tan ddegawdau olaf y ganrif, ni chafwyd y ddeuoliaeth hawdd rhwng Cymry ethnig a Saeson ethnig gormesol a fyddai wedi gwneud mudiad cenedlaethol yn bosib. Dywed Manning: “The political economic transformations that gave rise to ‘American Wales’ produced novel kinds of communities both linguistically and politically, communities that could not be readily assimilated to a dualistic model of a classless Welsh Wales of the

---

<sup>55</sup> Dywed Ieuan Gruffudd Jones bod y Saesneg yn cael ei hystyried gan yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol yn iaith a oedd yn llygru moesau yn ogystal â barn gwleidyddol y Cymry, gan gyflwyno iddynt syniadau yn ymwneud â sosiaeth ac undebau llafur a oedd yn wrthwynebus i ryddfrydiaeth (Jones, 1992, pp. 21, 72).

<sup>56</sup> Trafodir gan Hywel Teifi Edwards yn ei ddarlith Arwr Glew Erwau'r Glo fel yr ymdrechwyd i greu ‘glöwr da’ gan Ieuan Gwynedd, Ceiriog ac eraill a oedd yn ddiwylliannol a moesol ar yr un ddelw Ymneilltuol-ryddfrydol a ‘chwarelwr da’ y gogledd. Serch hynny gobaith ofer ydoedd y darlun hwn o fywyd y glowr ac ni chododd “uwchlaw statws ystrydeb” (Edwards, 1994, p. 35).

common people and an upper-class English Wales” (Manning, 2004, p. 519). Yn hynny o beth gwelwn adlais o ddamcaniaeth Hechter, sef na allai mudiad cenedlaethol ddatblygu pan fydd grwpiau dominyddol a’r rheini a ormesir yn cyd-fyw â’i gilydd (Hechter, 2000, pp. 105-7).

Ni ddylid awgrymu serch hynny na fu unrhyw gynnwrf o naws cenedlaetholgar ymysg gweithwyr y diwydiannau eraill. Er enghraifft, nodir gan Robert Rhys yn ei hunangofiant i Daniel Owen fel yr oedd terfysg yr Wyddgrug yn 1869 wedi deillio o ddrwgdeimlad y Cymry tuag at y “rheolwyr o Saeson drahaus, a dyfodiad mintai o weithwyr o du allan i’r sir” i’r maes glo. Ond unwaith eto yma gwelwn mai ar sail ryddfrydol y dadleuai’r Cymru eu goruchafiaeth i’r Saeson. Cyfansoddwyd cân o’r enw ‘Y Sais a’r Cymro fel coliar’ oedd yn “brolio rhagoriaeth y brodorion fel crefftwyr y wythïen” (Rhys, 2000, pp. 42-3). Dywed Burge (1982, pp. 42-5) fod disodli perchnogion a rheolwyr Cymreig, ac wedi mewnforio glowyr o Loegr a oedd yn derbyn ffafriaeth, gan gynnwys cyflogau uwch: “the miners regarded this as further evidence of their anti-Welsh feeling and it served to alienate even more the North Wales miners from the English absentee owners.” Gellid dadlau bod rhwyg diwylliannol ar sail Llafur wedi datblygu yno a oedd yn ymdebygu i’r hwnnw a welwyd yn y chwareli. Esiampl arall oedd gwrthryfel y Ddraig Goch yn 1874 pan sefydlodd glowyr a gweithwyr haearn Cymraeg eu hiaith yn y de ddwyrain eu hundeb eu hunain. Mae disgwrs cenedlaetholdeb i’w weld yn amlwg yn eu cyfraniadau at bapur newydd y *Fellten*. Y nod oedd “annibyniaeth Cymru... a dyrchafiad Gweithwyr Cymru... fel y gallent lywodraethu eu hunain” (*Y Fellten*, 1874). Ond er y mynegwyd eu hanfodlonrwydd ar sail hunaniaeth cenedlaethol, annhegwch ariannol oedd asgwrn y gynnen mewn gwirionedd, fel yn achos terfysg y Wyddgrug. Teimlai’r gweithwyr bod eu cyfraniadau drud i’r undeb ar adeg o gynni ariannol yn cael eu gwario ar gyflogau uchel a threuliau gan swyddogion yr undeb yn ganolog. Ysgogodd hynny deimlad bod gwrthgyferbyniad rhwng uchafiaeth y Sais a gwaseidd-dra y Cymro o fewn yr undeb llafur.

Hynny yw, gwrthwynebiad rhyddfrydol i'r segur yn ymwela ar draul y gweithgar oedd wrth wraidd y gynnenn. Roedd yr hen undeb yn cynrychioli iddynt "Sais-addoliaeth, gwastraff a thra-arglwyddiaeth" (*Y Gwladgarwr*, 1874). Cafwyd cryn gefnogaeth i'r Ddraig Goch iddynt yn y wasg ryddfrydol megis y *South Wales Daily News*, ond gwrthwynebiad gan y *Western Mail* ceidwadol. Er gwaethaf gwrthwynebiad y papur i undebau llafur roedd twf cenedlaetholdeb Cymreig hyd yn oed yn fwy atgas ganddo (Jones, 1984). Mae gwrthryfeloedd y gweithwyr diwydiannol hyn yn tanseilio'r ddadl na allai cenedlaetholdeb ffynnu o ideoleg ryddfrydol. Esiamplau o rwyg diwyllianol ar sail llafur a geir yma, a hynny ar sail gwrthwynebiad y gweithwyr i eraill yn ymwela ar sail eu gwaith caled a'u crefft. Mae achos gwrthryfel y Ddraig Goch hefyd yn awgrymu bod y modd yr oedd y diwydiant glo yn un a oedd wedi ei ledaenu ar draws y Deyrnas Unedig hefyd yn berthnasol. Nid felly diwydiant y chwarelwyr; roedd gogledd Cymru yn cynhyrchu 93% o lechi Prydain ac felly roedd y diwydiant, i bob pwrpas, yn un gyfan gwbl Gymreig (Jones, 1981). Mae damcaniaeth Hechter yn nodi cyd-fyw rhwng grwpiau diwyllianol fel yn ffactor sy'n atal rhwng diwyllianol ar sail llafur. Efallai y dylid ychwanegu 'cyd-undebu' at hynny.

Y diffyg yn namcaniaeth Brooks, felly, yw ei fod yn beio rhyddfrydiaeth am barodrwydd trigolion Cymru i gefnu ar eu Cymreictod, heb sylweddoli mai rhyddfrydiaeth a fyddai, dan amgylchiadau gwahanol, wedi symbylu pobl i gofleidio eu Cymreictod. Deilliai'r rhwyg diwyllianol ar sail llafur o ideoleg a oedd yn gwahaniaethu rhwng y cynhyrchiol a'r atgynhyrchiol. Nid oedd ceidwadaeth, a oedd am ddiogelu lle'r hen sefydliadau megis y tiffeddianwyr a'r eglwys wladol, yn gwneud hynny. Lle'r oedd y rhwyg diwyllianol hwnnw'n amlwg, e.e. yn achos y chwarelwyr, gwelwyd parodrwydd i bwysleisio goruchafiaeth eu diwylliant dros y Saesneg – ond lle nad oedd rhwyg, a'r Cymry a'u meistri Seisnig fel ei gilydd yn rhan o'r dosbarth 'cynhyrchiol' – ni wnaethpwyd hynny. Dan yr amgylchiadau economaidd

hynny, nid yw'n syndod bod Brooks yn dod o hyd i dystiolaeth bod ideoleg rhyddfrydiaeth wedi llesteirio datblygiad cenedlaetholdeb Cymreig modern yng Nghymru – ond nid yw hynny'n golygu na fyddai'r union ideoleg honno, dan amgylchiadau economaidd gwahanol, wedi bod yn sbardun i fudiad cenedlaethol. Yn wir, gellid dadlau, fel y gwneir yn y bennod nesaf, y buasai'n rhan hanfodol ohono.

*Alexander Gerschenkron*

Ond hyd yn oed pe baem yn mynnu beio ideoleg rhyddfrydiaeth am fethiant cenedlaetholdeb Cymreig a Chymraeg yn ystod y 19eg ganrif, nid oes modd ysgaru twf yr ideoleg honno oddi wrth y diwydiannu chwyldroadol a welwyd yn yr un cyfnod. Dadleuaf fod y broses o ddymchwel y system ffiwdal flaenorol a'r diwydiannu cyflym sy'n esgor ar genedlaetholdeb modern, ac ideolegau sy'n rhoi blaenoriaeth i ystyriaethau materol o'r fath, yn gydgysylltiedig. Er na thrafodwyd ei waith yng nghyd-destun Cymru hyd yma, awgrymaf y gallai damcaniaeth Alexander Gerschenkron ynglŷn ag effaith diwydiannu ar wledydd a oedd 'ar ei hôl hi' ('backward') fod o fudd i ddeall sut y gallai amgylchiadau economaidd Cymru fod wedi esgor ar ideoleg ryddfrydol mor ffyrnig, ac iddi gwedd grefyddol, yn y 19eg ganrif. Mae Gerschenkron yn dadlau bod ideolegau oedd yn ffafrio newid, diwydiannu a moderneiddio yn llawer mwy ffyrnig ('virulent') yn y gwledydd hynny oedd 'ar ei hôl hi' cyn dyfodiad diwydiannu. Yn y gwledydd sydd ar ei hôl hi, nid yw hi o bwys pa ideoleg sy'n cael ei defnyddio, ar yr amod ei bod yn hyrwyddo diwydiannu cyn gynted ag y bo modd, a hynny drwy addo cynnydd materol i'r bobl. Yn Rwsia, un o'r gwledydd mwyaf ar ei hôl hi yn ei dyb ef, Marcisiaeth uniongred oedd yr ideoleg honno, a chwalodd gymdeithas a oedd wedi ystyried gweithgarwch nad oedd a wnelo ag amaethyddiaeth fel rhywbeth pechadurus: "In conditions of Russian 'absolute' backwardness, again, a much more powerful ideology was needed to grease the intellectual and emotional wheels of industrialization than either in France or

Germany” (Gerschenkron, 1962, p. 26). Yn wir, yn y gwledydd hynny oedd yn ddifrifol ar ei hôl hi o gymharu â’u cymdogion, mabwysiadodd yr ideolegau hyn wedd grefyddol, a hynny er mwyn iro rhod cynnydd. Cyfeirir ganddo at y ffaith bod y diwydiannwr a’r damcaniaethwr dylanwadol Henri de Saint-Simon o Ffrainc wedi treulio ei flynyddoedd olaf yn datblygu Cristnogaeth Newydd, a hynny mewn ymateb i’r modd yr oedd y wlad honno ar ei hôl hi wrth ddiwydiannu o’i chymharu â Lloegr, lle nad oedd y fath gynnwrf lled-grefyddol yn angenrheidiol: “... in an advanced country rational arguments in favour of industrialization need not be supplemented by a quasi-religious fervor” (Gerschenkron, 1962, pp. 23-25). Ond yn y gwledydd lle’r oedd cyfosodiad amlwg rhwng eu datblygiad diwydiannol a’u cymdogion, roedd angen iro olwynion cynnydd ag ideoleg eithafol:

To break through the barriers of stagnation in a backwards country, to ignite the imaginations of men, and to place their energies in the service of economic development, a stronger medicine is needed than the promise of better allocation of resources or even the lower price of bread. Under such conditions even the businessman, even the classical daring an innovating entrepreneur, needs a more powerful stimulus than the prospect of high profits. What is needed to remove the mountains of of routine and prejudice is faith – faith... that the golden age lies not behind but ahead of mankind (Gerschenkron, 1962, p. 24).

Y prif rwystr i’w oresgyn ydoedd yr hen drefn ffiwdal. Roedd gan y tirlfeddianwyr a’r eglwys fudd personol ym mharhad yr hen drefn, ac yn debygol o wrthwynebu unrhyw newid a oedd yn bygwth eu cyfoeth a’u statws cymdeithasol. Gwelir hyn yng Nghymru, lle nad oedd y diwydiannu a oedd wrth graidd creu cenedl-wladwriaeth fodern wrth fodd yr hen drefn geidwadol o gwbl. Er enghraifft, gwrthwynebai’r tirlfeddianwyr adeiladu rheilffyrdd ar eu

tiroedd (G.T. Jones, 1913, p. 130). O ystyried amharodrwydd y tirfeddianwyr i fuddsoddi yn natblygiad economaidd Cymru, a'u gwrthwynebiad i newid, dim ond ideoleg ffyrnig o blaid cynnydd a chanddi wedd grefyddol a wnâi'r tro. Yn achos Cymru, gellid dadlau mai Ymneilltuaeth Ryddfrydol oedd yr ideoleg.

Fel y nodwyd eisoes gan Nairn, un o nodweddion amlwg chwyldro diwydiannol Cymru oedd y gwrthgyferbyniad â Lloegr. Roedd Cymru'n wlad annatblygedig a chanddi yn gymydog y wlad fwyaf datblygedig yn y byd. Roedd diwydiannu Cymru "unlike the sort of economic development normally inflicted on backwards provinces in being massive..." (Nairn, 2003, p. 197). Disgrifir Cymru yn 1790 gan Marion Löffler yn yr un modd fel gwlad "economically and socially backward" heb ganolbwynt dinesig, ac elít a oedd yn trigo ym mhrifddinas Lloegr (Löffler, 2012). Yn ôl Gerschenkron, nodweddid chwyldroadau diwydiannol y gwledydd a welodd ddatblygiad ideolegau ffyrnig o blaid diwydiannu gan ddiwydiannu cyflym, a phwyslais arbennig ar ddiwydiannau trwm, wrth i'r wlad wneud defnydd o'r dechnoleg allanol ddiweddaraf er mwyn gwneud yn iawn am ei diffyg datblygiad technolegol ei hun: "Borrowed technology... was one of the primary factors assuring a high speed of development in a backward country entering the stage of industrialization." Roedd union natur 'chwyldroadol' y chwyldro ddiwydiannol yn y gwledydd annatblygedig o ganlyniad i'r ffaith bod pob darn o'r jig-so eisoes yn ei le, e.e. y dechnoleg i agor pwll glo, a hefyd i adeiladu rheilffordd i gario'r cynnyrch i'r porthladd, lle disgwyliai llongau addas i'w gludo ymaith. Yn y cyfamser roedd y gwledydd a oedd eisoes wedi diwydiannu ynghynt yn llawer arafach wrth ddatblygu ymhellach am eu bod yn aml yn defnyddio hen dechnoleg a oedd yn cael ei disodli bob yn dipyn gan y dechnoleg newydd (Gerschenkron, 1962, pp. 8-10). Mae Gerschenkron yn cyfeirio at Brydain Fawr fel un endid nad oedd 'ar ei hôl hi' ac felly lle nad oedd ideoleg wedi chwarae cymaint â hynny o ran. Serch hynny, o ystyried bod Gerschenkron yn mesur faint ar ei hôl hi oedd gwlad

yn ôl pa mor dlawd ac annatblygidig yn dechnolegol oedd hi ac i ba raddau yr oedd hen systemau ffiwdal yn parhau, gallwn weld bod Cymru yn debycach yn ei olwg ef i rai o wledydd dwyrain Ewrop. Mae Gerschenkron yn cyfeirio at ‘wledydd’ yn ei waith ef, ond mae rhai academyddion eraill wedi dadlau y byddai yn decach cyfeirio at ‘ranbarthau economaidd’ (Sylla & Gianni, 2003, p. 14). Nid oes rheswm amlwg felly dros eithrio Cymru, pa’ un a yw’n cael ei hystyried yn wlad neu’n rhanbarth.

O’i symleiddio, felly, disgrifia Gerschenkron ‘densiwn’ sy’n adeiladu pam fydd potensial mawr am ddiwydiannu mewn gwlad sydd wedi ei rhwystro cyhyd gan system ffiwdal yn cwrdd â’r dechnoleg i’w thrawsnewid<sup>57</sup> – bryd hynny caiff y tensiwn hwnnw ei ryddhau, ac fe fydd, megis band rwber, yn sboncio i ffwrdd yn gyflymach o ganlyniad. Gellid dadlau felly fod y cyfosodiad hwnnw rhwng Cymru, a oedd yn wlad ‘ar ei hôl hi’, a Lloegr, a oedd ar y pryd hwnnw y wlad fwyaf datblygedig yn y byd, wedi achosi adlach arbennig o ffyrnig – yn dechnolegol, ac yn ideolegol. Nid oedd yr un ‘tensiwn’ yn bodoli o fewn gwledydd megis Slofenia neu’r Tiroedd Tsiec lle, fel y nodwyd eisoes, nad oedd cymaint o gyferbyniad rhyngddynt a gwledydd cyfagos a oedd wedi diwydiannu. O ystyried amgylchiadau Cymru yng nghyd-destun damcaniaeth Gerschenkron, felly, gellid awgrymu na fyddai dim ond gwedd grefyddol radicalaidd ar ideoleg *laissez-faire* ryddfrydol wedi gwneud y tro er mwyn cyflawni’r newid yr oedd ei angen o fewn y 19eg ganrif. Roedd Cymru yn wlad mor ffyrnig ei rhyddfrydiaeth a’i chrefydd i raddau helaeth *oherwydd* yr anghydbwysedd economaidd rhwng Cymru a Lloegr. Ystyrid segurdd yn falltod; a gwaith caled oedd yn rhoi urddas i ddyn (R.T. Jones, 1981, p. 100), ac fe grëwyd cysylltiad ym meddyliau’r bobl rhwng moesoldeb a

---

<sup>57</sup> Dywed Gerschenkron: “In viewing the economic history of Europe in the nineteenth century, the impression is very strong that only when industrial development could commence on a large enough scale did the tension between preindustrialization conditions and the benefits of expected from industrializaion become sufficiently strong to overcome the existing obstacles and to liberate the forces that made for industrial progress” (Gerschenkron, 1962, p. 11).

chynnydd (R.T. Jones, 1966, p. 270). Amlygwyd y dyhead hwn am droi Cymry wledig yn wlad ddiwydiannol yn ngeiriau Probert Lewis yn y *Geninen*: “Dymunol yw son am ‘Gymru lonydd,’ ond mwy dymunol fyddai clywed swm mwy o felinau o’i mewn” (Probert, 1883, p. 252). Fel y nodwyd gan Hywel Teifi Edwards, mae’r ymdeimlad hwnnw yn adleisio drwy gydol y cyfnod: “Gwirdeb yw datgan mai ffydd mewn cynnydd oedd un o rymusterau cyfeiriol mawr y ganrif ddiwethaf” (Edwards, 1989, p. 156). Mae sawl academydd eisoes wedi nodi y cysylltiad agos rhwng y chwyldro diwydiannol a thwf anghydfurfiaeth. Yn eu mysg y mae E.P. Thompson, sy’n dadlau yn ei lyfr *The Making of the English Working Class* mai dull arall oedd Methodistiaeth o roi trefn ar y bobl fel eu bod yn gweddu i anghenion newydd cyfalafiaeth diwydiannol: “the ‘working paroxysms’ of the artisan or outworker must be methodized until the man is adapted to the discipline of the machine.” Dysgodd Methodistiaeth “disciplinary virtues” i’w dilynwyr drwy eu sicrhau y byddai gwobr iddynt yn y nefoedd ar yr amod eu bod yn ufuddhau i reolau’r gymdeithas ddiwydiannol newydd yr oeddynt yn byw ynddi: “The utility of Methodism as a work-discipline is evident” (Thompson, 1991, pp. 397-8, 411). Wrth ystyried cyflwr yr ardaloedd diwydiannol y trigai’r Cymry ynddynt, daw’r angen am ‘powerful stimulus’ iddynt dderbyn yr angen am gynnydd, ys dywed Gerschenkron, yn amlwg. Disgrifir bywydau trigolion cymoedd diwydiannol y de mewn cyfres o erthyglau yn y *Morning Chronicle* yn 1850. Maent yn disgrifio’n frawychus o fanwl y strydoedd llawn carthion a sbwriel, a’r bobl yn fudr ac yn byw mewn hofelau heb ddŵr glân ac yn cysgu ar wellt.. Dywed y gohebydd di-enw ar ôl ymweld â daearegell lawn plant amddifad yn Merthyr Tydfil: “I thought of the high mortality of infant life in Merthyr, and it seemed to me a mercy, rather than otherwise, that children should be taken away young from such hardship, neglect, and sufferings” (*Monmouthshire Merlin*, 1850a, p. 4). Sylwodd un o feddygon gweithfeydd haearn Merthyr Tydfil fod agwedd stoig y bobl yn angenrheidiol i’w goroesiad:



“They are patient under suffering... and their power of endurance extraordinary....  
If it is necessary I should operate, and I say, ‘My good man, I am sorry to tell you,  
but you must lose your leg,’ or ‘have your arm off,’ as the case may be; he does  
not cry out, as I have usually known patients under the circumstances in the English  
and French hospitals... but submits without an objection – sometimes saying,  
‘Well, doctor, you know best’ – and they bear the knife with heroic fortitude.”

Ychwanega'r gohebydd fod mwy o drigolion Merthyr â choesau pren nag unrhyw dref arall yn y Deyrnas (*Monmouthshire Merlin*, 1850b, p. 2). Dywed Thompson mai'r pwyslais hwn ar stoiciaeth a esboniai paham yr oedd Ymneilltuaeth mor gyffredin ymysg dosbarth gweithiol nad oedd yn elwa ar y drefn fel ag yr oedd: “There is a sense in which any religion which places great emphasis on the after-life is the chiliasm of the defeated and the hopeless” (Thompson, 1991, pp. 419, 440). Awgryma Ieuan Gwynedd Jones yn yr un modd fod cysylltiad agos rhwng trychinebau megis anhwylderau a diwygiadau crefyddol yng nghymoedd diwydiannol y de. Roedd crefydd hefyd yn fodd i'r gweithwyr wneud synnwyr o'r dryswch a'r newid byd a ddaeth wrth symud o gefn gwlad i ardaloedd diwydiannol:

The industrial settlements were without precedent. Their emergence had been sudden, and their future was so problematic that a different language seemed to be required to describe them. Evanescence rather than continuity was what was most characteristic of them, impermanence and instability where men expected to find stable institutions and a continuous tradition. And yet, these were the very places that were laying claim to be the most religious urban area in Britain, and could display the evidence in stone and mortar and facts and figures for all to see (Jones, 1992, pp. 2, 15).

Dywed R. Tudur Jones yn yr un modd fod parodrwydd y Cymry diwydiannol hyn i lynu gyhyd wrth Ymneilltuaeth a'r rhyddfrydiaeth a oedd yn rhan mor gynhenid ohoni yn ymateb i'r modd

y gwnaeth diwydiant “grensian cymdeithas yn ronynnau mân”. Cludwyd pobl o gefn gwlad i drefi diwydiannol lle nad oedd yr un strwythur cymdeithasol yn bod, ac roedd y sefydlogrwydd a’r nerth a gynigid gan y capeli Ymneilltuol yn fodd iddynt ymdopi â hynny (Jones, 1966, p. 268). Gall damcaniaeth Gerschenkron awgrymu, felly, nad oes modd ystyried esboniadau ideolegol ac economaidd ynglŷn â datblygiad diwydiannu a thwf ideoleg rhyddfrydol yng Nghymru yn ffactorau ar wahân, oblegid yr oedd perthynas symbiotig rhyngddynt, y naill yn ysbardun i’r llall. Fel y dywed Gerschenkron, roedd angen yr adlach ideolegol hwn er mwyn disodli hen drefn ffiwdal, geidwadol y bonedd a’r eglwys. Ac fel y dangoswyd yn y bennod gyntaf, mae academyddion yn lled gytun mai’r newid byd hwnnw o system ffiwdal i un gyfalafol a roes fod i dwf cenedlaetholdeb modern. Roedd rhyddfrydiaeth yn darparu cymhelliad tuag at ‘gynnydd’ a oedd yn ddigon i chwalu’r system ffiwdal, ond, fel yr awgryma damcaniaeth Hroch yn benodol, nid oedd yn cynnig cymhelliad i’r Cymry dorri’n rhydd oddi wrth eu ‘meistri’ Seisnig a ffurfio eu mudiad cenedlaethol eu hunain. Gwelwn felly fod y damcaniaethau hyn yn cynnig esboniad lled gynhwysfawr ynglŷn â diffyg datblygiad mudiad cenedlaethol yn ardaloedd diwydiannol Cymru. Serch hynny, mae yna gryn anghytuno ynglŷn â pham y datblygodd mudiad cenedlaethol yn yr ardaloedd gwledig. Fe fydd y pwnc hwnnw yn cael ei drafod yn fanylach ym mhennod chwech. Yn y cyfamser, bydd y bennod nesaf yn craffu’n agosach ar ddylanwad rhyddfrydiaeth ar ddatblygiad mudiad cenedlaethol yng Nghymru.

Trafodwyd yn y bennod hon pam na welwyd datblygiad mudiad cenedlaethol yn ardaloedd diwydiannol Cymru yn y 19eg ganrif, gan ystyried dadl Brooks ynglŷn ag ideoleg ar y naill law, a dadl economaidd Hechter, Nairn a Hroch ar y llall. Daethpwyd i’r casgliad fod dealltwriaeth Brooks o’r hyn sydd yn sbarduno mudiadau cenedlaethol yn sylfaenol wahanol i’r damcaniaethwyr eraill, gan ei fod yn rhoi’r pwyslais ar reddf geidwadol naturiol i ddiogelu

iaith a diwylliant, tra bo ystyriaethau'r damcaniaethwyr eraill yn rhai 'bara menyn'. Yn eu tyb hwy, heb symbyliad i ddymchwel yr hen drefn ffiwdal 'segur' a gosod un 'gynhyrchiol' yn ei lle, nid oes rheswm dros bwysleisio'r rhaniadau diwylliannol sy'n esgor ar fudiadau cenedlaethol ethnig. Wrth ganolbwyntio ar Gymru yn benodol, gwelir felly nad oedd cymhelliad dros fudiad cenedlaethol yn yr ardaloedd diwydiannol ac arfordirol hynny a oedd eisoes wedi eu cymhathu i economi Lloegr. Lle'r oedd gweithwyr Cymraeg eu hiaith a Chymreig eu diwylliant yn hunan-gynhaliol datblygodd rhwyg diwylliannol ar sail llafur, a hynny ar sail y teimlad bod eu gwaith yn cael ei ecsbloetio gan uchelwyr segur. Gellid dadlau felly fod ideoleg rhyddfrydiaeth yn sbarduno twf mudiad cenedlaethol dan yr amgylchiadau economaidd cywir. Mewn gwledydd Ewropeaidd eraill lle gwelwyd mudiadau cenedlaethol, e.e. y Tiroedd Tsiec, roedd y clymau economaidd rhyngddynt a'r craidd yn llawer llai symbiotig, a'r economïau yn fewnol-integredig o fewn yr hyn a ddatblygodd yn genedl-wladwriaethau ar wahân. Ar ddiwedd y bennod, awgrymwyd gan gyfeirio at ddadl Alexander Gerchenkron nad oedd diben ysgaru ideoleg Ymneilltuol-Ryddfrydol cynifer o'r Cymry oddi wrth y diwydiannu cyflym a welwyd yn ystod y cyfnod hwnnw beth bynnag, oherwydd bod datblygiad y ddau yn gyd-ddibynnol.

## Pennod 3

### Rhyddfrydiaeth a Chenedlaetholdeb

Cafwyd awgrym yn y bennod ddiwethaf nad oedd rhyddfrydiaeth o reidrwydd yn elyniaethus i ddatblygiad cenedlaetholdeb Cymreig, ond bod amgylchiadau economaidd Cymru yn golygu na allai cenedlaetholwyr fanteisio ar rwyg diwylliannol ar sail llafur rhwng y Cymry a'r Saeson. Awgrymwyd yn nadleuon Hroch, Hechter a Nairn fod y rwyg hwnnw rhwng y dosbarth canol a gweithiol 'cynhyrchiol' a'r uwch-ddosbarth 'segur' yn un hanfodol i unrhyw fudiad cenedlaethol. Lle'r oedd rwyg diwylliannol ar sail llafur, e.e. yn achos y chwarelwyr hunan-gynhaliol, roeddent o'r farn fod gwerth i iaith a diwylliant y Cymry Cymraeg. Bydd y bennod hon yn rhoi ystyriaeth fanylach i'r cwestiwn hwn, ac yn gofyn i ba raddau y mae rhyddfrydiaeth yn hanfodol i ddatblygiad mudiad cenedlaethol modern. Gwelir yn y bennod ddiwethaf fod cyhuddiad Okey, Brooks a Davies yn un deublyg mewn gwirionedd; nid yn unig bod ideoleg rhyddfrydiaeth wedi atal datblygiad mudiad cenedlaethol yng Nghymru, ond ei bod hefyd wedi atal datblygiad mudiad cenedlaethol *a oedd yn rhoi bri ar yr iaith Gymraeg*. Fel y trafodwyd eisoes, un wedd bosib ar genedlaetholdeb yw cenedlaetholdeb ieithyddol. O ganlyniad, credaf fod angen ystyried y ddau gwestiwn hyn ar wahân. Bydd y bennod hon, felly, yn ymdrin â dylanwad ideoleg rhyddfrydiaeth ar genedlaetholdeb, a'r bennod nesaf yn trafod i ba raddau y dylanwadodd rhyddfrydiaeth ar agweddau Ymneilltuwyr at yr iaith Gymraeg. Byddaf yn dadlau yn y bennod hon na ddylid credu bod ideolegau rhyddfrydol neu geidwadol ohonynt eu hunain yn gymhelliad dros ffurfio mudiadau cenedlaethol neu beidio. Awgrymaf yn hytrach fod elfennau rhyddfrydol a cheidwadol yn rhan annatod o unrhyw fudiad cenedlaethol; y naill er mwyn cyfiawnhau chwalu rheolaeth y grymoedd ffiwdal a fodolai cynt a dyrchafu 'grym y bobl' yn eu lle, a'r llall er mwyn cyfiawnhau'r trefniant newydd hwnnw ac amddiffyn monopoli

grym y garfan o fewn y dosbarth canol a gymerodd yr awenau. Awgrymaf nad yw'r rheini sy'n cyferbynnu Cymru â rhai o wledydd canol a dwyrain Ewrop wedi gwerthfawrogi i ba raddau yr oedd yr Ymneilltuwyr yn geidwadol, na chwaith i ba raddau yr oedd mudiadau cenedlaethol yng ngwledydd canol Ewrop yn rhyddfrydol. Yn hytrach na chyferbynnu ideolegau, awgrymaf y dylid rhoi'r pwyslais yn hytrach ar yr hyn a fu'n gymhelliad i'r grwpiau hyn weithredu, ac a oedd modd iddynt amlygu dolen bendant rhwng yr hyn a oedd o fudd iddynt hwy ac anghenion torfol y werin.

Cyn dechrau, dylid cynnwys nodyn am fethodoleg y penodau nesaf. Yn ogystal â gwaith haneswyr eraill, bydd yr astudiaeth hon, fel sawl un arall, yn ddibynnol ar ddadansoddiad ansoddol o gynnyrch wasg y cyfnod fel ei phrif ganllaw i agweddau a chredoau Cymry'r cyfnod. Serch hynny, mae peryg bod y wasg yn cynnig darlun anghynrychioliadol o safbwyntiau'r Cymry, gan or-bwysleisio dylanwad yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol dros feddwl y Cymry yn ystod y cyfnod dan sylw. Mae rhywfaint o dystiolaeth fel pe bai'n cadarnhau y darlun a greir yn y wasg o Gymru y 'genedl Anghydfurfiol', chwedl Prys Morgan a David Thomas. Erbyn 1851 roedd 34 y cant o'r Cymry yn mynychu capel neu eglwys (o'i gymharu â 24 y cant yn Lloegr), ac roedd 74 y cant o'r rheini yn Ymneilltuwyr o'i gymharu â 20 y cant oedd yn Anglicaniaid<sup>58</sup> (Morgan & Thomas, 1984, p. 160). Ac er mai canran gymharol fach oedd yn aelodau, roedd llawer mwy yn 'wrandawyr' a oedd â chysylltiad anffurfiol â'r capeli (Morgan, 1971, p. 156). Roedd yn sicr yn wir, meddai Ieuan Gwynedd Jones, mai Cymru oedd rhan fwyaf crefyddol y Deyrnas Unedig (Jones, 1992, pp. 16, 60). Ond, fel y dangosir yn seithfed bennod y traethawd hwn, roedd cynnyrch y wasg Gymraeg wedi ei ystumio yn sylweddol gan ddylanwad dosbarth o ddeallusion Ymneilltuol. Nid sffêr cyhoeddus

---

<sup>58</sup> Agorwyd capel Ymneilltuol newydd bob wyth diwrnod ar gyfartaledd yn hanner cyntaf y ganrif (R.O. Jones, 1997, p. 251).

(Habermas, 1989 [1962]) a gynigiai llwyfan agored i farn pob aelod o'r gymdeithas mohono<sup>59</sup> - yn wir, disgrifia R. Tudur Jones y profiad o ddarllen cylchgronau'r Ymneilltuwyr Rhyddfrydol fel gweld bywyd a hanes y genedl drwy 'sbectol liw' (Jones, 1981, p. 68). Awgryma Gwyn Williams fod yna berygl i or-bwysleisio gafael yr Ymneilltuwyr ar bob agwedd o fywydau'r Cymry oherwydd eu bod nhw wedi llwyddo i reoli allbwn y wasg brint i'r fath raddau, "which was most heavily colonized by Dissent"<sup>60</sup> (Williams, 1985, p. 207). Rhaid troedio'n ofalus, felly, wrth or-bwysleisio safbwynt un garfan<sup>61</sup> a oedd wedi ei gorynrychioli ymysg golygyddion y cyfnod a dod i'r casgliad ei fod yn gynrychioliadol o dueddiadau ehangach yn y gymdeithas. Er ei bod yn garfan swnllyd a dylanwadol, anghywir fyddai honni ei bod yn rym hegemonaid gormesol yng Nghymru'r cyfnod.<sup>62</sup> Ond gellir cyfiawnhau'r penderfyniad i ganolbwyntio ar ei chynnyrch oherwydd y ffaith mai hwy sydd i raddau helaeth yn cael y bai am fethiant mudiad cenedlaethol Cymreig yn ystod y cyfnod hwn. Dywed John Davies fod yr Anghydfurfwyr wedi "herwgipio Cymreictod" (Davies, 2007a, p. 457), a phwysleisia Sion Jobbins yn yr un modd eu bod wedi: "fatally hinder [...] the development of the Welsh language and a strident Welsh political identity" (Jobbins, 2011, p. 37). Gwendid y ddadl hon yw nad yw'n amlwg gan *bwy* yr herwgipiwyd cenedlaetholdeb

---

<sup>59</sup> Nid oes prinder astudiaethau academiaidd sy'n awgrymu sut y gall golygyddion ystumio'r byd drwy'r hyn y dewisir ei gyhoeddi mewn cyfnodolion. Un o'r mwyaf dylanwadaol yw damcaniaeth David Manning White ynglyn â swyddogaeth y golygydd fel porthor ('gate-keeper') gwybodaeth. Drwy astudio'r modd y mae'r golygydd yn dewis neu'n gwrthod straeon newyddion, dangosodd fod cynnwys y newyddion yn seiliedig ar brofiadau, agweddau a disgwyliadau'r golygydd (White, 1950, pp. 383-90). Byddai gohebwy'r a chyfranwyr hefyd yn canolbwyntio ar y pynciau hynny a fyddai wrth fodd y golygydd. Gwyddom er enghraifft am arfer Beriah Gwynfe Evans o ysgrifennu sawl fersiwn o stori newyddion at ddant golygyddion gwahanol (A.G. Jones, 1987, p. 19).

<sup>60</sup> Awgryma John Davies yn yr un modd fod tueddiad gan haneswyr i anwybyddu bywydau'r di-grefydd am nad ydynt wedi gadael odid ddim cofnod ysgrifenedig (Davies, 2007a, p. 391). Noda Ieuan Gwynedd Jones yn ogystal fod y dosbarth gweithiol wedi gadael ôl amlwg ar dirlun a phensaerniaeth Cymru, ond mai ychydig iawn sydd wedi goroesi o'u lleisiau (Jones, 1992).

<sup>61</sup> Neu efallai unigolyn a gyfrannai yn frwd dan nifer o ffug-enwau.

<sup>62</sup> Mae David Hempton yn wffio'r pwyslais ar gyfrifiad 1851, gan ddadlau bod ceisio deillio hanfod crefyddol o ystategau fel "[attempting to] extract pollen from flowered wallpaper" (Hempton, 1996, p. 2). Mae'n nodi bod llawer o amrywiaeth mewn ymrwymiad crefyddol, hyd yn oed ymysg y rheini oedd yn bleidiol i'w henwadau (Hempton, 1987, p. 13). Awgryma Geraint H. Jenkins fod lle i amau faint o ddylanwad oedd gan Ymneilltuaeth ar gredoau poblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd, a bod "llawer o had efengylaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi syrthio ar dir caregog" (Jenkins, 1999, p. 16). Serch hynny, mae Glanmor Williams yn amcangyfrif bod tri chwarter y boblogaeth yn gysylltiedig ag enwad anghydfurfïol, boed drwy gapel neu ysgol Sul erbyn dechrau'r 50au (Williams, 1985, pp. 205-6).

Cymreig, na *phwy* a fyddai wedi esgor ar fudiad cenedlaethol yn absenoldeb yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol. Credaf fod peryg, drwy or-bwysleisio eu dylanwad, i ddirfrio eu hymdrechion i danio mudiad cenedlaethol yng Nghymru, am mai yn eu gweithgarwch hwy yn unig y gwelir ymdrech tuag at y nod hwnnw.

Ateb Simon Brooks i'r cwestiwn 'pwy' hwnnw yw'r Anglicaniaid ceidwadol, a oedd yn prysur feithrin cenedlaetholdeb diwylliannol Cymreig cyn i'r Ymneilltuwyr Rhyddfrydol gynyddu eu dylanwad yn y 40au. Gellir yn sicr dadlau mai myth a grëwyd gan yr Ymneilltuwyr eu hunain oedd bod yr Anglicaniaid yn gyfan gwbl wrth-Gymreig. Disgrifir parodrwydd yr Ymneilltuwyr i ladd ar yr Anglicaniaid fel gelynyon i'r iaith gan Prys Morgan fel 'datblygiad paradocsaid' o ystyried mai Anglicaniaid megis yr Arglwyddes Llanofar a chlerigwyr llenyddol megis Gwallter Mechain (Walter Davies) a Thomas Price (Carnhuanawc) oedd wedi arloesi ym maes ymchwil i hanes Cymru a hybu Eisteddfodau lleol (Morgan, 1995, p. 201). Awgryma Gwyn A. Williams yn ogystal fod rhai Anglicaniaid yn gefnogol iawn i hunaniaeth genedlaethol Cymru, yn ogystal â chynorthwyo'r Eisteddfod a'r prifysgolion, ond bod tueddiad gan Ymneilltuwyr i anwybyddu eu cyfraniad (Williams, 1985, p. 204). Bu rhai Eglwyswyr hefyd yn ymosod ar y Llyfrau Gleision (Morgan, 1991, p. 18), ac fe ysgrifennodd Syr Thomas Phillips, maer Casnewydd, lyfr i'r perwyl hwnnw (Williams, 1991, pp. 136-7). Dangosai cylchgronau a sefydlwyd gan Anglicaniaid, megis *Y Gwylidydd* yn 1922, ddiddordeb helaethach yn hanes a llenyddiaeth Cymru nag a wnâi cyfnodolion yr Ymneilltuwyr, a dueddai i fod yn elyniaethus i unrhyw ddeunydd darllen na roddai bwyslais ar y moesol a'r crefyddol (Walters, 1999, p. 332). Dywed Mark Ellis Jones fod rhai clerigwyr wedi dadlau'n frwd dros fabwysiadu'r Gymraeg yn iaith y gyfraith, ond bod eu hymdrechion wedi eu hanwybyddu gan haneswyr am ei bod "yn anodd cysoni'r fath flaengaredd ymysg Anglicaniaid â'r dehongliad Ymneilltuol o'r gorffennol" (Jones, 1999, p. 565). Mae Ieuan Gwynedd Jones hefyd yn addef

bod yr Ymneilltuwyr wedi bychanu cyfraniad Anglicaniaid at yr iaith Gymraeg. Serch hynny, mae hefyd yn pwysleisio nad oes awgrym y byddai'r Anglicaniaid wedi hybu cenedlaetholdeb Cymreig yn absenoldeb twf dylanwad yr Ymneilltuwyr – yn wir, *her* yr Ymneilltuwyr i oruchafiaeth yr Eglwys Wladol a sbardunodd yr ymdrech i weithredu o ddifrif i adfer eu treftadaeth Gymraeg, a hynny o'r 40au ymlaen (Jones, 1992, p. 66). Rhaid gofalu felly, o gydnabod nad oedd yr Eglwys mor wrth-Gymraeg ag oedd yr Ymneilltuwyr yn honni, nad ydym yn mynd i'r pegwn arall a thybio y byddent wedi bod yn sail i fudiad cenedlaethol ieithyddol oni bai am ymyrraeth yr Ymneilltuwyr. Yn gyntaf, nid oes awgrym bod ymdrechion rhai Anglicaniaid yn gynrychioliadol o unrhyw dueddiad ehangach yng Nghymru. Dywed Dafydd Glyn Jones wrth adolygu *Pam na fu Cymru* mai “gwerddonau oeddynt yn anialwch y Gymru Geidwadol ac Eglwysig” (Jones, 2015). Awgryma Prys Morgan yn yr un modd mai'r cyfan oedd Llanofar oedd “Welsh nationalist wing” yr Eglwys Anglicanaidd (Morgan, 1973, p. 23). Roedd nifer o'r tîrfeddianwyr, boed yn Gymry neu'n Saeson, yn ei hystyried yn ddyletswydd noddi'r diwylliant brodorol, drwy danysgrifio i lyfrau a chylchgronau, a chefnogi Eisteddfodau a sefydliadau megis Cymdeithas y Cymmrodorion a Chymdeithas Hen Saethyddwyr Prydain (Moore-Colyer, 1999, p. 119). Ond er bod nifer o dirfeddianwyr yn esgus ymddiddori yn y Gymraeg, nid oedd y mwyafrif yn rhugl ynnddi, a thueddent i'w hystyried yn rhwystr i addysg a llwyddiant economaidd y bobl (Jenkins, 1999, p. 11). Awgryma Robert Smith, fel Ieuan Gwynedd Jones, mai twf cenedlaetholdeb ar ei ffurf Ymneilltuol a rhyddfrydol a'u sbardunodd erbyn degawdau olaf y 19eg ganrif i gynnig rhyw fath o naratif amgen (Smith, 1999, p. 466). Eu hymateb greddfoll drwy gydol gweddill y 19eg ganrif i ymdrechion yr Ymneilltuwyr i feithrin ryw ffurf ar genedlaetholdeb Cymreig oedd amddiffyn hunaniaeth genedlaethol Brydeinig, oedd yn golygu i bob pwrpas hunaniaeth genedlaethol Seisnig (Evans & Sullivan, 1999, p. 537). Mae'n nodedig yn hynny o beth na phenodwyd esgob Cymraeg ei iaith hyd 1870 (Williams, 1985, p. 204). Er bod Eglwys Lloegr yn ddwyieithog er 1567, yr



oedd yn gartref i ragfarnau Seisnig yn erbyn y Gymraeg ac nid oedd lle teilwng i'r iaith yn ei gweinyddiaeth (Jones, 1981, p. 247). Nid oes tystiolaeth amlwg felly fod rhengoedd yr Anglicaniaid na'r Tirfeddianwyr yn gyforiog o bobl 'y pethe' na chwaith eu bod yn awyddus i hyrwyddo hunaniaeth Gymreig.

Tolc arall yn y ddamcaniaeth y byddai'r Anglicaniaid wedi bod yn feithrinfa i fudiad cenedlaethol Cymreig oni bai am yr Ymneilltuwyr, yw nad oes awgrym bod twf Anghydfurfiaeth wedi eu tawelu mewn unrhyw fodd. Parhaent i gredu "fod ganddynt hawl neilltuedig i leisio barn ar ran y genedl..." (O'Leary, 1999, p. 514). Er gwaethaf eu ceidwadaeth a'u dylanwad, ni ddatblygasant unrhyw fudiad cenedlaethol, ac ni symudodd gweithgarwch yr Anglicaniaid o fewn y cyfnod hwnnw y tu hwnt i 'gam A' Hroch, sef ymchwilio i dreftadaeth Cymru. Noda Brooks wrth eu trafod mai i'r math hwn o weithgarwch y perthynai eu cyfraniad<sup>63</sup> (Brooks, 2010, p. 37). Ond fel y dywed Hroch, ni nodweddid gweithgarwch ysgolheigion y cam hwn gan unrhyw ddymuniad i *weithredu* arno am resymau gwleidyddol (Hroch, 2000, p. 23). Eu hunig swyddogaeth yng nghamau Hroch oedd darparu'r deunydd ethnig ar gyfer y dosbarth canol deallusol a fyddai'n gweithredu ar gam B.<sup>64</sup> Yr hyn a nodweddi gam B oedd ei fod yn eiddo i garfan o ddeallusion a oedd am newid y drefn *er eu budd eu hunain*. Rydym yn dychwelyd yma at y gwahaniaeth sylfaenol yn y modd y mae Brooks yn synio am genedlaetholdeb, a'r modd y mae'r rhelyw o ddamcaniaethwyr wedi ei drafod. Fel y dangoswyd yn y bennod ddiwethaf, mae cenedlaetholdeb yn nhyb Brooks yn tyfu o reddf geidwadol naturiol i warchod iaith a diwylliant. Ond fel y nodwyd yn y bennod gyntaf, disgwrs

---

<sup>63</sup> Awgryma hefyd na ddechreuodd cam A tan gyfnod John Morris-Jones, gan danseilio rywfaint ar ei ddadl bod gweithgarwch yr Anglicaniaid hyn yn gyfystyr â chymau cyntaf mudiad cenedlaethol (Brooks, 2010, p. 24).

<sup>64</sup> Gellid awgrymu bod Theophilus Evans, awdur *Drych y Prif Oesoedd*, yn y traddodiad hwn. Gallai fynegi cariad at lenyddiaeth a hanes Cymru, a chryfhau cof y genedl drwy ei gyhoeddiadau, ond ar yr un pryd ni ellir ei alw yn genedlaetholwr Cymreig. Mynnai deyrngarwch i sefydliadau Prydeinig megis y Goron a'r Eglwys Sefydliadol. "Credai'n gryf fod yn rhaid wrth undod, teyrngarwch a ffyddlondeb er mwyn sicrhau na chât drwg ddifa'r da..." a dadleuodd mai oherwydd "cynnen a phechod ac ymrannu" y collodd y Cymry eu gafael ar Loegr (Jenkins, 1993, pp. 27, 33).

yw cenedlaetholdeb er mwyn ennill cefnogaeth *dorfol* i amcanion hyrwyddwyr y mudiad. Yn y cyd-destun hwnnw, y gwendid amlwg wrth awgrymu y byddai'r Anglicaniaid ar flaen y gad wrth hybu mudiad cenedlaethol yw nad oedd ganddynt *unrhyw gymhelliad amlwg* i chwalu system a oedd bryd hynny yn cynnal grym yn eu dwylo hwy. Gallai'r Anglicaniaid ddarparu cam A Hroch, ond nid cam B. Rhaid i hwnnw ddod o gyfeiriad gwahanol, ac roedd angen cymhelliad i ddisodli'r hen drefn. A fyddai wedi dod o du'r Ymneilltuwyr Ceidwadol, cyn iddynt gofleidio rhyddfrydiaeth? Awryma Brooks fod ysgariad Methodistiaeth a Thorïaeth yn y 40au yn arwyddocaol wrth ailddiffinio'r genedl Gymreig ar seiliau anghydfurfiol-ryddfrydol (Brooks, 2015, p. 43), ond nodweddwyd y geidwadaeth honno gan amharodrwydd i weithredu'n wleidyddol mewn unrhyw fodd, a chan deyrngarwch dall i'r drefn fel ag yr oedd (Robert, 2011, p. 362). Dywed Glanmor Williams eu bod yn "hysterig yn erbyn y cyfnewidiadau gwleidyddol lleiaf. Dychrynent rhag y radicaliaid a'u hideoleg chwyldroadol gan ddatgan cefnogaeth lwyr a digymrodedd i ffurflywodraeth y wlad a llywodraeth Dorïaidd y dydd" (Williams, 1984, p. 249). Ymddengys felly nad oedd sail o gwbl i fudiad cenedlaethol dan drefn geidwadol, led-ffiwdal Cymru yn negawdau cyntaf y 19eg ganrif. Nid oedd angen unrhyw fath o gefnogaeth *dorfol* er mwyn parhau a trefn oedd yn seiliedig ar hawl Ddwylfol yr uchelwyr a'r Eglwys Sefydledig i lywodraethu dros y bobl. Holl sail ceidwadaeth yr oes oedd y dylai awdurdod darddu o'r goruchaf yn hytrach na'r bobl. Yn fwy sylfaenol fyth, nid oedd cymhelliad i bobl a oedd yn fodlon ar eu meistri presennol frwydro am annibyniaeth.

Wrth awgrymu y byddai ceidwadaeth wedi esgor ar genedlaetholdeb mae peryg anwybyddu i ba raddau yr oedd gwerthoedd rhyddfrydol yn ganolog i'r broses o chwalu'r systemau hynny a oedd yn atal datblygiad cenedl-wladwriaethau modern. Nodwyd yn y bennod gyntaf fel y gwelai rhai academyddion ddechreuad cenedlaetholdeb modern yn y Chwyldro Ffrengig, gan honni bod ei syniadaeth wedi dylanwadu ar athronwyr rhyddfrydol megis John Stuart Mill

(Mill, 1910, pp. 359-66). Yn nhyb Immanuel Wallerstein, datblygodd rhyddfrydiaeth a'r genedl-wladwriaeth fodern law yn llaw, a'r hyn a'u sbardunodd oedd ymdrechion y cyfalafwr i amddiffyn ei eiddo rhag grymoedd ffiwdal y frenhiniaeth, y bonedd a'r eglwys. O fewn teyrnas linachyddol nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai ysbail y cyfalafwr yn aros yn eiddo iddo ef – gallai'r Goron neu rym ffiwdal arall gipio unrhyw ysbail (fel y gwnaeth Hapsbwrgiaid Sbaen sawl gwaith ar ôl mynd yn fethdalwyr). Nid rhyddhau'r unigolyn o ormes y grymoedd ffiwdal oedd y sbardun i greu'r genedl-wladwriaeth fodern, felly, ond rhyddhau'r cyfalafwr i weithredu mewn amgylchedd a oedd yn fanteisiol iddo ef. Gallai cenedl-wladwriaeth fodern hawlio sofraniaeth o fewn ei thiriogaeth ei hun er mwyn amddiffyn asedau, creu monopoliau a fyddai'n hwyluso'r ffordd i gyfalafwyr gronni arian, yn ogystal â defnyddio eu grym milwrol neu ddiplomyddol i atal cenedl-wladwriaethau eraill rhag creu monopoliau a fyddai'n wrthwynebus iddynt. *Sgil-effaith* y chwyldro hwn oedd datblygiad ideoleg rhyddfrydiaeth; roedd yn fyd-olwg a oedd yn ganolog i'r ymdrech i sicrhau nad oedd y dosbarth gweithiol yn gwrthryfela yn erbyn y drefn newydd. Yn ogystal ag amddiffyn ei ysbail yn erbyn grymoedd ffiwdal, roedd angen i'r cyfalafwr ei amddiffyn yn erbyn y dosbarth gweithiol, a allai ddinistrio ei fonopoli neu ei eiddo. Er mwyn atal hyn, cynigiodd ideoleg rhyddfrydiaeth y bleidlais a'r wladwriaeth les, a datblygwyd cenedlaetholdeb ethnig cymhathol er mwyn sicrhau bod y dosbarth gweithiol o fewn y genedl sofran yn synio am ei gilydd fel rhan o un llwyth bodlon. Ni sicrhawyd y 'liberté, égalité, fraternité' yr oedd y dosbarth gweithiol wedi dyheu amdano, oherwydd byddai gwir degwch wedi atal gallu'r cyfalafwr i gronni arian - ond yn ôl Wallerstein sicrhawyd iddynt "a reasonable standard of living," a oedd yn well na'r hyn a dioddefasant o dan y drefn ffiwdal flaenorol. Defnyddiwyd cyfoeth y lleiafrif a oedd wedi elwa ar y monopoliau yr oedd y genedl-wladwriaeth yn eu darparu ar eu cyfer i argyhoeddi'r mwyafrif tlawd y gallent hwythau hefyd fod yn gyfoethog, ond iddynt feddu ar ddigon o dalent, a bod yn barod i ymdrechu'n ddigonol at y nod. Dywed Wallerstein: "They came to interpret the

ability of the talented to swim to shore as evidence of hope for them. This was understandable psychologically if imprudent analytically” (Wallerstein, 1997, pp. 4-7). Nod ceidwadwyr y cyfnod oedd atal neu arafu trosglwyddiad grym o ddwylo'r bonedd a'r eglwys i ddwylo'r dosbarth canol hyn o fasnachwyr; yn sgil chwyldro Ffrainc, dadleuent fod y wladwriaeth yn fwy diogel yn nwylo'r grymoedd ffiwdal megis y bonedd a'r eglwys yn hytrach na'r 'bobl' (Wallerstein, 1995, pp. 81, 85).

Mae Breuilly, fel Wallerstein, yn dadlau bod cysylltiad annatod rhwng rhyddfrydiaeth a chenedlaetholdeb modern. Cyn dyfodiad y genedl-wladwriaeth fodern, meddai, roedd grwpiau megis urddau, eglwysi, ac arglwyddiaethau yn ymdrin â grymoedd economaidd, diwylliannol a gwleidyddol. Yn y ffurf newydd ryddfrydol ar y wladwriaeth rhannwyd grymoedd cyhoeddus a phreifat, gyda'r grymoedd cyhoeddus yn nwylo sefydliadau gwladwriaethol arbenigol megis senedd-dai, a'r grymoedd preifat yn nwylo sefydliadau anwleidyddol megis cwmnïau preifat ac unigolion. Yn y modd hwn fe wahanwyd anghenion preifat a chyhoeddus am y tro cyntaf. O dan yr amgylchiadau hyn roedd angen ffordd i gymodi a chysoni anghenion y wladwriaeth gyhoeddus ag anghenion hunanol unigolion, yn enwedig felly gan fod rhyddfrydiaeth yn caniatáu anghydraddoldeb sylweddol oddi mewn iddi. Golygai hyn bwysleisio swyddogaeth unigolion fel dinasyddion a'u cyfrifoldeb i gyfrannu at y sefydliadau rhyddfrydol a democrataidd gwladwriaethol. Yn ogystal, golygai gymhathu'r bobl yn ddiwylliannol er mwyn cyfreithloni a sicrhau cefnogaeth i weithredoedd y wladwriaeth (Breuilly, 1993b, pp. 22-4; Breuilly, 1996, pp. 163-7). Mae gwaith Breuilly a Wallerstein yn ategu'r hyn a awgrymir gan ddamcaniaethau Gerchsnkron a Hroch, sef bod dadleuon o blaid materoldeb a chynnydd wrth wraidd y broses o ddiwydiannu a sefydlodd y genedl-wladwriaeth fodern. Byddai unrhyw fudiad cenedlaethol yn rhyddfrydol yn ei hanfod, am mai nod twf y mudiadau cenedlaethol oedd dymchwel hen hierarchaeth grym ffiwdal, a hynny er budd y dosbarth canol cyfalafol.

Mae Brooks yn pwysleisio'r modd y datblygodd cenedlaetholdeb yn gyfochrog â "thra-arglwyddiaeth cyfalafiaeth a threfolrwydd a oedd yn y broses o ddisodli'r gymdeithas amaethyddol, ffiwdal mewn manau, a fodolai gynt" (Brooks, 2015, p. 12). Ond fel yr awgrymwyd gan Wallerstein a Breuilly uchod, ideoleg rhyddfrydiaeth oedd yn gyrru'r newidiadau hyn. Yng Nghymru, rhyddfrydiaeth oedd sylfaen y rhaniad diwyllianol ar sail llafur rhwng yr werin a'r uchelwyr – eu cwyn oedd nad oedd yr uchelwyr yn deilwng o'u heiddo am nad oeddynt wedi gorfod gweithio er mwyn ei gael: "Yr oedd y Rhyddfrydwyr yn bobl a oedd wedi gorfod gweithio i wella'u stad, o'u cymharu â'u gwrthwynebwyr a oedd yn aelodau o'r uchelwriaeth" (Evans & Sullivan, 1999, p. 536). Mynegodd Michael D. Jones yr anfodlonrwydd hyn: "Pe dygai rhywun un ddafad oddiar y mynydd, euogid ef fel lleidr, ac anfonid ef i garchar. Ond pe dygai un y mynydd oddiar y ddafad, byddai'r gŵr a'i gwnelo yn ŵr boneddig ardderchog ar ôl gwneud y gwaith urddasol hwnw, a byddai yn dra sicr o gael ei wneud yn ynad heddwch i gospi mân ladron" (Jones, 1887, p. 1). Roedd y gred mewn bod yn 'gynhyrchiol' yn rhan o resymeg y dosbarth canol dros ddymchwel y tîrfeddianwyr, ar y sail, fel y dadleuai Michael D. Jones ac eraill, eu bod yn elwa ar waith eraill. Yn absenoldeb ideoleg rhyddfrydiaeth, nid oedd y cymhelliad yno i ddymchwel y drefn ffiwdal, i gymryd grym o ddwylo'r tîrfeddianwyr a'i ddychwelyd i'r bobl, ac felly i hybu'r syniad o genedlaetholdeb yn y man cyntaf. Dim ond ar sail ryddfrydol y gallai'r rhwyg diwylliannol ar sail llafur y sonnir amdano gan Hechter, rhwng y 'cynhyrchiol' a'r 'segur', ddigwydd.

Ond golygai'r ffaith mai greddf fasnachol a ysbrydolai cenedlaetholdeb fod rhyw wedd ar economi hunan-gynhaliol yn hollbwysig i statws cenedl yn ogystal ag unigolyn. Wrth drafod trefedigaethau gorllewinol yr Ymerodraeth Brydeinig, gwna John Stuart Mill yn glir nad oedd

yn eu hystyried yn wledydd ynddynt eu hunain, ond yn hytrach yn ymestyniad ‘cyfleus’ o diriogaeth Lloegr:

[They] are hardly to be looked upon as countries, but more properly as outlying agricultural and manufacturing estates belonging to a larger community. [...] All the capital employed is English capital; almost all the industry employed is carried on for English use; [the commodities] are sent to England, not to be exchanged for things exported to the colony and consumed by its inhabitants, but to be sold in England for the benefit of the proprietors there. [It is] hardly to be considered an external trade, but more resembles the traffic between town and country.

Hynny yw, er mwyn cyfiawnhau ystyried y llefydd hyn yn wledydd, ym meddwl Mill, roedd angen iddynt feddu ar ryw fath o “productive capital of their own” (Mill, 1965, p. 693). Yn yr un modd, methiant y glwr a’r werin wledig fel ei gilydd ym meddyliau’r rhyddfrydwyr o Gymry oedd nad oeddynt yn gallu sefyll ar eu traed eu hunain wrth gynhyrchu gwerth – cam mewn proses ehangach oeddynt yn unig, ac roeddynt yn gwbl ddibynol ar fuddsoddiad o’r tu allan.<sup>65</sup> Yn ôl y *Traethodydd* yn 1850, roedd y gallu i fasnachu yn hollbwysig os oedd y Cymry am feddu ar foesoldeb, annibyniaeth a rhyddid meddwl: “Gall y masnachwr ddywedyd, Ni fynaf, pan nad all yr areddwas (serf) ddyweyd ond, Ni feiddiaf” (*Y Traethodydd*, 1850a, p. 415). Roedd annibyniaeth fasnachol ac annibyniaeth meddwl yn gyfystyr â’i gilydd, felly, a hyd nes bod y Cymry'n meddu ar y cyntaf ni allant feddu ar yr olaf.<sup>66</sup> Ys dywed Ieuan Gwynedd

---

<sup>65</sup> Gwnai J.R. Kilsby Jones yn eglur nad ystyriai fod gwerth i’r Cymry nes eu bod yn dod yn fwy na gweision i’w meistri Seisnig: “... maent y tylotaf a mwyaf isel eu hamgylchiadau o bawb, ac o ganlyniad anfanteisiol, ar bob golwg, ydyw fod dyn yn gorfod cyfyngu ei ddylanwad a’i weithrediadau i ryw ddyrnaid dibwys a disylw mewn ystyr farchnataol a bydol – o bobl feirwon diwerth – ond fel gweision i eraill” (Jones, 1897, pp. 206-207).

<sup>66</sup> Testun chwithdod pellach i’r Cymry oedd iddynt hwy fethu ag ymelwa ar y cyfoeth a oedd yn llythrennol o dan eu trwynau. Gresynai ‘Ioan Medi’ yn y *Geninen* yn 1884: “Ymgyfoethogodd y Trefnwr doeth fynyddoedd ein gwlad â mwynau a llechau gwerthfawr; ond yma eto, y mae y meddiant o’r rhai hyn wedi syrthio i ddwyllaw estroniaid – i Sacsoniaid, Normaniaid, ac Ysgotiaid! Gwasanaethau iddynt ac arnynt hwy yw unig fraint mwyafrif Cymry y wlad y dydd hwn” (Medi, 1884, p. 68).

Jones: “Ym meysydd glo’r de ddwyrain, iaith llafur oedd y Gymraeg yn hytrach na chyfalaf, iaith y gwas yn hytrach na’i feistr, iaith ymostwng i orchmynion yn hytrach na’u llunio” (Jones, 1988, p. 135). Nid ideoleg rhyddfrydiaeth ynddi’i hun oedd yr atalfa i fudiad cenedlaethol Cymreig, felly, ond diffyg ymreolaeth economaidd Cymru o fewn y Deyrnas Unedig.

Fel y nodwyd eisoes, un o wendidau posib y ddadl wrth-ryddfrydol yw na all gynnig ymgeisydd dichonadwy arall a allai fod wedi dod i’r fei a hyrwyddo chenedlaetholdeb Cymreig. Nid oedd unrhyw wrth-gynnig amlwg i’r Ymneilltuwyr Rhyddfrydol. Awgrym Brooks yw ‘ceidwadaeth radicalaidd’ a oedd wedi ei hysbrydoli gan syniadau Herderaidd. Serch hynny, nid yw yn diffinio’n union beth yn union a olyga. Ceir trafodaeth gynhwysfawr ar geidwadaeth radicalaidd yn llyfr Goran Dahl, *Radical Conservatism and the Future of Politics*. Ymateb ydyw i dueddiad rhyddfrydiaeth tuag at globaleiddio, gan danseilio undod yr union genedl-wladwriaethau modern a grëwyd ganddi. Dywed Dahl fod ‘ceidwadaeth radicalaidd’ yn deillio o’r gred bod unigolyddiaeth ryddfrydol wedi mynd yn rhy bell, a hynny ar draul undod ethnig y genedl. Yn y bôn mae ceidwadwyr radicalaidd yn sosialwyr wrth-gyfalafol, meddai, gan gredu ym mharhad traddodiad, sefydlogrwydd, crefydd, awdurdod a’r genedl. Ond yn ôl Dahl, ffenomen diweddar yw ceidwadaeth radicalaidd, sy’n dyddio o’r Mudiad Ceidwadol Chwyldroadol yn yr Almaen a ddaeth i’r amlwg yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf (Dahl, 1999, pp. 2-3, 15). O ddilyn amserlen Dahl, felly, gellid awgrymu mai anacroniaeth yw trafod ceidwadaeth radicalaidd yng nghyd-destun y 19eg ganrif, er y gellid ei chymhwyso at athrawiaeth Saunders Lewis. Awgryma Kedourie hefyd nad oedd y ddelfryd ryddfrydol o sicrhau “perpetual peace in the world” a yrrai cenedlaetholdeb yn y 19eg ganrif wedi dod i ben tan yr Ail Ryfel Byd, pan ddaeth yn amlwg “that this ideological obsession could provide no remedy for the ills of alienation and oppression for which it purported to provide a cure” (Kedourie, 1993, p. xvi). Os ydym yn derbyn damcaniaeth Wallerstein (1997, pp. 1-5) ac eraill

mai creadigaeth ryddfrydol oedd cenedlaetholdeb modern, mae'n anodd gweld sut y gallai ceidwadaeth radicalaidd, fel y'i esbonnir gan Dahl, ddod i'r amlwg cyn bod cenedl fodern i'w hamddiffyn. Yn hytrach, yn ôl Wallerstein, yr hyn a nodwedddai ceidwadaeth gynnar yw ei gwrthwynebiad i ddymchwel grym ffiwdal y bonedd a sefydlu cenedl-wladwriaeth fodern yn ei le<sup>67</sup> (Wallerstein, 1995, pp. 81, 85). Nid yw'n amlwg sut y byddai'r math hwn o geidwadaeth wedi bod o ddefnydd amlwg wrth hybu cenedlaetholdeb modern Cymreig. Dywed Hobsawm: "... because the nation itself was historically novel, it was opposed by conservatives and traditionalists, and therefore attracted their opponents" (Hobsawm, 1990, p. 40). Ni fyddai ymwrthod â rhyddfrydiaeth o reidrwydd wedi arwain at fudiad cenedlaethol Cymreig, dim ond ymdrech i sicrhau parhad y *status quo* lled-ffiwdalaidd a fodolai yng Nghymry'r 19eg ganrif. Daw'r geidwadaeth, fel yr awgryma Dahl, yn wedd flaenllaw ar genedlaetholdeb *ar ôl* chwalu'r hen drefn ffiwdal, wrth i'r dosbarth canol newydd geisio amddiffyn eu sefyllfa freintiedig yn erbyn yr erydu i'w monopoli ar rym yn sgil globaleiddio.

Gwelir felly nad dymuniadau am decwch a rhyddid oedd y tu cefn i genedlaetholdeb yn y bôn, ond modd o orseddu cyfalaf ar draul grym ffiwdal. Nid rhyddid y farchnad yr oeddynt yn ei chwennych, chwaith, ond marchnad a oedd yn fwy ffafriol iddynt hwy. Golygai grym y wladwriaeth y gallent amddiffyn eu budd economaidd eu hunain, gyda thollau neu gyfreithiau, neu hyd yn oed rym milwrol pe bai'n rhaid. Daw hyn â ni at yr athrawiaeth *laissez-faire* a oedd mor boblogaidd ymysg yr Ymneilltuwyr. Yn ôl Wallerstein, nid cri'r cyfalafwr a oedd yn elwa ar y drefn fel ag yr oedd oedd *laissez-faire*. Roedd datblygiad yr athrawiaeth honno yn ymateb

---

<sup>67</sup> Mae modd cwestiynu i ba raddau yr oedd Cymru yn geidwadol erbyn hanner cyntaf y 19eg ganrif. Mae Gwyn A. Williams yn nodi nad symudiad o geidwadaeth i ryddfrydiaeth a welwyd, ond yn hytrach symudiad o'r Jacobiniaid rhyddfrydol, democrataidd i'r Chwigiaid rhyddfrydol. Yn ystod y 18ed ganrif, gwelwyd yng Nghymru dir y wlad yn mynd i ddwylo modernwyr Seisnig a Chwigiaid: "... they abandoned the romantic Jacobinism of their forebears and embraced a Whig Great Britain with its 'blue-water' strategy of commercial imperialism." Ymateb y radicaliaid, a oedd wedi dod o dan ddylanwad y chwyldro Americanaidd, oedd troi'n wladgarwyr "in quasi-Jacobin style" (Williams, 1988, p. 120).



gan grwpiau o fewn cenedl-wladwriaethau *nad oeddent* yn elwa o ganlyniad i'r monopolïau a grëwyd gan y cyfalafwyr wrth lunio'r genedl-wladwriaeth fodern:

Adam Smith was the spokesman of these poor, benighted underdogs. To be sure, once the underdogs have undone the monopolies in which they did not participate, they happily proceed to try to create new ones of their own, at which point they tend to cease citing Adam Smith and instead bankroll neoconservative foundations.

(Wallerstein, 1997, pp. 4-5)

Mae sylw Wallerstein yn cynnig cyfle i ni ail-ddadansoddi defnydd yr Ymneilltuwr o'r athrawiaeth *laissez-faire*. Nid oedd hyn yn arwydd eu bod yn bodloni ar drefn y genedl-wladwriaeth fodern fel ag yr oedd, ond yn hytrach eu bod yn teimlo wedi eu heithrio ohoni. Fel y gwelwn yn y chweched bennod, y dieithrwch hwnnw oedd sail y cenedlaetholdeb ethnogrefyddol a feithrinwyd ganddynt yn ystod y cyfnod hwnnw. Yr hyn yr wyf am ei bwysleisio yma yw nad yw rhyddfrydiaeth yn atalfa rhag bod yn bur geidwadol ynglŷn â nodweddion ethnig pan mae hynny o fudd i'r grŵp. Gwelwyd eisoes nad oedd rhyddfrydiaeth yn atal y chwarelwyr rhag dadlau bod eu hiaith a'u diwylliant hwy yn uwchraddol i'r Saesneg, pan oedd o fantais wrth amddiffyn eu swyddi rhag labrwyr a'r rheini a oedd am ecsbloetio eu llafur er eu budd ariannol eu hunain – yn wir, gallent ddod o hyd i sail ryddfrydol dros wneud hynny. Gallai'r Ymneilltuwr amddiffyn eu budd eu hunain yn yr un modd, drwy ddadlau bod eu hunaniaeth Brotestannaidd ethnogrefyddol yn uwchraddol i eraill oherwydd ei phwyslais ar ryddid barn a chwalu ofergoeliaeth. Roedd rhywfaint o sail i'r gred; mae Eisenstein ymysg eraill yn nodi fel ag yr oedd Protestaniaeth yn sgil-ffaith anochel i dwf yr argraffwasg, ac wedi

esgor ar ryddid barn (Eisenstein, 1983, pp. 82, 165).<sup>68</sup> Ond fe ddygwyd y rhesymeg hon gam ymhellach – os oedd eu hunaniaeth hwy a rhyddid yn mynd law yn llaw, roedd modd cyfiawnhau sensro dylanwadau a oedd yn fygythiad i'r rhyddid hwnnw. Nid oedd y crwsâd hwn yn erbyn anwybodaeth yn ymestyn i ganiatáu'r math o wybodaeth nad oeddynt hwy'n ei chymeradwyo, ac felly nid oedd eu cred mewn rhyddid crefyddol yn ymestyn yn llawer pellach na'u rhyddid nhw fel Ymneilltuwyr. Galwai'r *Genedl Gymreig* am ryddid i Ymneilltuwyr ac yn yr un gwynt colbiai Babyddiaeth a'r Eglwys Wladol fel ei gilydd:

Gan ddymuno y rhyddid a'r cydraddoldeb crefyddol helaethaf i bawb, ni a ymunwn yn ganolog â phwy bynnag o feddwl uniawn a ymdrecho yn erbyn ofergoeledd a thra-arglwyddiaeth Pabyddiaeth ym mha gylch bynnag y daw i'r golwg. (*Y Genedl Gymreig*, 1877, p. 4)

---

<sup>68</sup> Daeth yr argraffwasg yn symbol o'r gwerthoedd hynny yr oeddynt yn eu harddel: rhyddid a chynnydd, twf Protestaniaeth, a thranc ofergoeliaeth a Phabyddiaeth: "Y Wasg ydyw Luther y diwygiadau crefyddol. Buasai agos yn amhosibl dwyn y diwygiad oddiwrth Babyddiaeth o amgylch heb ei help; oblegid pe na buasai modd i liosogi y copiau o waith Luther, ond trwy ysgrifen-law, buasai annibenodod ac arafwch y gwaith, a dylanwad llwgrwobrwyath, ynghyd ag awdurdod y pendefigion, yn ddigon i lethu ei ymdrechiadau, ac i osod y diffoddydd ar ben ei ganwyll ar unwaith" (Parry, 1849, p. 38). Ys dywed Eisenstein, gallai Luther fod wedi marw yn ei grud – y wasg *oedd* Luther (Eisenstein, 1983, p. 186). Hebdo, ni fuasai Protestaniaeth yn bosib. Erbyn y 19eg ganrif roedd dyfodiad yr argraffwasg wedi dod yn rhan o'r fytholeg genedlaethol a grewyd gan y Dyneiddwyr. Mae disgrifiad Thomas Rees o ddyfodiad cyfrolau printiedig i Gymru yn ymdebygu i greadigaeth y byd fel y'i disgrifir yn y Beibl: "At the very dawn of the Protestant Reformation, in the sixteenth century, the light of a superior kind of knowledge to that cultivated in the dark ages, began to shine in Wales, and it has ever since continued to scatter its rays with increasing splendour year after year until the whole land is now so filled with the means of useful knowledge..." (Rees, 1867, p. 41) Caiff yr un ddelwedd ei hailadrodd sawl gwaith. Dywed Lewis Probert yn y *Geninen*: "[G]ollyngwyd y meddwl dynol yn rhydd yn y Diwygiad Protestannaidd i farnu drosto ei hun..." (Probert, 1883, p. 249) Dywed y *Traethodydd* yn yr un modd, "ar doriad gwawr y Diwygiad Protestannaidd y gollyngwyd y meddwl yn rhydd.. [c]yfieithwyd y Beibl i iaith y werin..." (1847, p. 239). Gofynnai'r *Traethodydd* yn 1860 "Pa fendithion a feddwn, yn wladol na chrefyddol, nad ydym yn ddyledus, ryw ffordd neu gilydd, i'r wasg am danynt?" Roedd yr argraffwasg, meddai, yn hybu cydweithredu rhwng cenhedloedd, yn ogystal â dwyn ymlaen egwyddorion mawrion rhyddid a chynnydd, "a'r hon, uwchlaw y cyfan, sydd yn estyn ac yn gwasgaru Gair Duw ymhlith holl ddynolryw..." (1860, pp. 194, 206, 214). Yn y gwledydd hynny lle'r oedd Pabyddiaeth, Paganiaeth a Mahometaniaeth yn ffynu, "y mae tywyllwch anwybodaeth ac anfedusrwydd yn aros yn eu grym..." (*Y Traethodydd*, 1847, p. 239). Disgrifiodd R. Parry, Llanymddyfri sut roedd yr argraffwasg wedi chwalu dylanwad ofergoeledd yn y tir. Dywed ef fod y cyfnodolion Cymraeg fel "cynifer o lusernau i oleu yn ddysglær yn nhywyllwch y nos, ac wedi effeithio yn rymus ar ffurfiad meddwl a threfniad moesau yn ein plith... y maent wedi ymlid y bwganod o'r tir, ac wedi gyru yr ysbrydion ar ffo..." (Parry, 1849, p. 39). Sbardunwyd ymdrechion cewri megis Thomas Gee gan y gred bod eu cyhoeddiadau a'r Ysgolion Sul yn chwalu anwybodaeth o'r tir (G.T. Jones, 1913, p. 83).

Yr eironi felly oedd bod modd cyfiawnhau eu hanoddefgarwch at grefyddau eraill ar y sail eu bod yn wrthwynebol i ryddid. Ni allai Pabyddion, *ipso facto*, fod yn rhydd, ac felly ni ddylent gael cyhoeddi. Roedd eu “dysg a’i chyfyngau wedi eu carcharu yn effeithiol, dybygasid, mewn mynachlogydd a chrefydd-dai...”<sup>69</sup> (*Y Traethodydd*, 1860, p. 211) Awgryma O’Leary fod yr wrth-Babyddiaeth a welir yn y wasg Gymraeg yn deillio yn y bôn o anoddefgarwch yn hytrach na gwrthwynebiad athrawiaethol. Roedd sail eu casineb tuag at yr Eglwys Wladol hyd yn oed yn fwy gwamal; credent ei bod yn lloches i bumed golofn o Babyddion, ac mai ymgais ganddynt i danseilio Ymneilltuaeth oedd y Llyfrau Gleision. Portreadwyd Pabyddion “fel yr ‘Arall’ hanfodol” a oedd yn wrthwynebus i ddaliadau “y Protestaniaid ‘rhydd-anedig” (O’Leary, 1999, pp. 508-9). Tueddid i weld cynllwyn Eglwysig y tu ôl i bob camwedd, hyd yn oed pan nad oedd tystiolaeth i gefnogi hynny. Wrth nodi’r rhesymau pam y bu’n rhaid i’r *Amserau* roi’r gorau i gyhoeddi ar Ynys Manaw, dywed Gwilym Hiraethog fod “ei elynion eglwysyddol yng Nghymru yn cynllwynio yn ei erbyn...” (Rees, 1859, p. 1) Awgryma R.J. Derfel fod *Y Llyfrau Gleision* yn gynllwyn ar y cyd rhwng yr Eglwys Wladol, Pabyddion, a’r diafol (Morgan, 1991, p. 16). Nodir gan Ieuan Wyn Jones yr un tueddiadau anoddefgar yng ngohebiaeth Thomas Gee.<sup>70</sup> Deilliai ei agwedd lugoer at y Prif Weinidog Rhyddfrydol, William Gladstone, o’r ffaith ei fod yn Uchel Eglwyswr. Gwrthwynebai ymreolaeth i’r Gwyddelod ar sail eu crefydd, ac roedd yn chwyrn ei farn ar unrhywbeth y gellid ei ystyried yn Babyddol:

... er bod ei wleidyddiaeth yn fwy rhyddfrydol nag eiddo rhai o’i ragflaenwyr  
Methodistaidd, doedd rhyddid crefyddol i eraill ddim yn rhan naturiol o’i raglen.

---

<sup>69</sup> Trafodir y pwnc hwn yn fanwl mewn rhifyn o’r *Traethodydd* yn 1880 dan y teitl ‘Y Babaeth a Rhyddid’: “Y gosb unwaith am ddarllen y Beibl yn Savoy oedd 10 mlynedd o galedwaith yn nghastell Pignerol... Pa reswm fod y Pab Gregory XVI, yn galw rhyddid y wasg yn beth nas gellid ei gondemnio yn ormodol?” (1880, p. 377).

<sup>70</sup> Yn wir, roedd y *Faner* yn ymosod ar “esgobion ac offeiriaid hanner Pabaidd” yr Eglwys Wladol yn ei herthygl olygyddol gyntaf oll (Gee, 1857, p. 1).

Gallai fod yn rhyfeddol o gul a dogmatig mewn rhai pethau. (I.W. Jones, 1998, pp. 42, 152)

Roedd rhai Ymneilltuwyr yn effro i'r rhagrith hwn. Yn 1830 beirniadodd un o gyfranwyr y *Dysgeidydd* y duedd i weiddi am ryddid ar y naill law tra'n galw am ormesu eraill ar yr un pryd: "Tybiais wrth lefeliad ei saethau, fod Mr. Anfonydd yn un o'r rhai a grochlefent yn ddiweddar: 'No popery!' h.y. 'Oppress! – No liberty!' – 'Na wnewch i eraill fel y dymunech i eraill wneuthur i chwi!' 'Na char dy gymmydog fel tydi di hun!'" ('Ewyllysiwr Da', 1830, p. 119)

Fel yr awgryma Wallerstein, felly, dadleuwyd o blaid *laissez-faire* dim ond o fewn y parthau hynny lle'r oeddynt dan anfantais, ac nid oedd yn eu rhwystro o gwbl rhag amddiffyn eu hunaniaeth i'r carn lle'r oedd dan warchae. Er enghraifft, er eu bod yn dathlu rhyddid yr unigolyn i ddarllen y Beibl, roedd rhaid ei ddehongli o fewn fframwaith athrawiaethol pendant. Trwythwyd oedolion a phlant o bob enwad mewn catecismau a oedd yn amod aelodaeth mewn sawl capel (R.T. Jones, 1999, pp. 229-30). Mae Gwyn Williams yn cyfosod cynhesrwydd cymunedol a gweledigaeth ysbrydol y capeli gyda'r "crabbed narrowness" a "deacon-controlled and often mean-spirited tyranny" a oedd hefyd yn nodweddiadol ohonynt (Williams, 1985, p. 206). Gallai'r Ymneilltuwyr fod yn arbennig o lym gyda'r rheini a oedd yn camu oddi ar y llwybr cul a osodwyd ar eu cyfer, gan eu torri allan o'r gymundeb, cosb a oedd â sgil-ffeithiau cymdeithasol difrifol (Davies, 1991, p. 152). Tra oeddent yn condemnio 'sgrïw' y tîrfeddianwyr,<sup>71</sup> meddai'r Ymneilltuwyr ar 'sgrïw'r capel' – y gallu i roi pwysau ar y sawl nad oedd yn gwneud fel y mynnent ac i'w ddiarddel (Evans & Sullivan, 1999, p. 538). Gallai

---

<sup>71</sup> Y bygythiad i droi allan denantiaid oedd yn pleidleisio yn groes i'w dymuniad, h.y. o blaid y Rhyddfrydwyr yn hytrach na'r Ceidwadwyr.

gweinidogion ddefnyddio'r wasg yn ogystal â'r seiat er mwyn ymosod yn ffyrnig ar leisiau nad oeddent yn cydymffurfio â'u gweledigaeth anghydfurfiol. Mae atgofion E. Morgan Humphreys o'i gyfnod yn swyddfa'r *Llenor* yn frith o achylusron lle daeth dan bwysau gan weinidogion i newid trywydd golygyddol y papur.<sup>72</sup> Roedd cyfyngiadau caeth ar yr hyn y caniateid ei drafod, beth bynnag am ragluniaeth a rhyddid y farchnad.<sup>73</sup> Dywed David Rees yn gwbl agored yn y *Diwygiwr* mai'r nod wrth gadw y wasg Gymraeg "wedi ei chydio â'r pwlpudd" oedd er mwyn gallu sicrhau rheolaeth dros bobl gyffredin y wlad. Nid oedd am iddynt gael darllen yr hyn a fynnent, a rhybuddia fod y "gweinidogion a'r eglwysi sydd yn tori ar draws hen arferiadau, ac yn awyddus i ysgaru y wasg a'r pwlpudd, yn myned dan gyfrifoldeb ofnadwy. Wrth hyn y collodd y Seison y werin yn hollol..." (Rees, 1861, pp. 360-1) Ychydig o gwyno a geir ynglŷn â monopoli'r Ymneilltuwyr ar y wasg Gymraeg, y tu hwnt i rwgnach bod un enwad yn cael mwy o sylw na'r llall.<sup>74</sup> Ys dywed Sion Jobbins: "... the Nonconformists were a very conformist lot" (Jobbins, 2011, p. 39). Trafodir effaith dylanwad yr Ymneilltuwyr ar y wasg yng nghyd-destun gallu'r wasg i gynhyrchu cenedlaetholdeb Cymreig mewn mwy o fanylder ym mhennod chwech.

---

<sup>72</sup> Dywed E. Morgan Humphreys iddo ef, ar ôl dod yn olygydd y Genedl, ddod i'r casgliad "y dylesid rhoi'r flaenoriaeth i fesurau cymdeithasol hyd yn oed ar Ddatgysylltiad... y mae gennyf frith gof i mi ddywedyd fod pris y bacwn yn bwysicach i'r rhan fwyaf o bobl na datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru." Roedd y gwahaniaeth rhwng ei safbwynt ef a'r genhedlaeth hŷn yn amlwg yn hynny o beth. Dywed fod ei ddatganiad wedi arwain at ffrae danllyd rhyngddo ac Evan Jones, a oedd yn gyn-argraffydd ar yr *Herald Cymraeg* a'r *Pwnc Cymraeg*. "Cyffyrddodd hynny Evan Jones ar ei fan tyneraf, a thrannoedd byrddiodd fi ar yr heol." Dywed mai'r hyn a oedd gan Evan Jones mewn golwg oedd ysgrifennu dan ffug-enw at y wasg, a defnyddio ei ddylanwad dros gynulleidfa y Sasiwn yn ogystal â â pherchennog y *Genedl* er mwyn cael gwared ag ef fel golygydd y papur. "Dywedais wrtho, os ymosodai ef, yr ymosodwn innau, ac y gallai fod yn bur siwr na chai saethu o'r tu ôl i'r gwrych heb i mi adael i'r wlad wybod mai ef oedd yn gwneud" (Humphreys, 1938, pp. 203-4).

<sup>73</sup> Dywed un cyfrannwr at y *Faner* y dylid, ar y naill law, gyhoeddi unrhyw beth "y gwel Rhagluniaeth yn dda i ganiatáu i ddigwydd" ond yn y frawddeg nesaf y dylid osgoi "disgyn at chwaeth sydd yn ymylu at ffiniau barboreidd-dra" – gan restru chwaraeon ymysg y pynciau na ddylid eu cynnwys ar dudalennau'r papur (*Baner ac Amserau Cymru.*, 1910, p. 9). Nodir yn y *Faner* yn 1908 fel y cynghorid pobl ifanc yn y capeli i beidio a darllen unrhyw beth ond y Beibl, ac efallai gylchgrawn yr enwad. Roedd cynnwys y papurau newydd yn llawer rhy 'ysgafn' iddynt (*Baner ac Amserau Cymru*, 1908, p. 10).

<sup>74</sup> Dywed un cyfrannwr at y *Diwygiwr* yn 1870 fod y monopoli a oedd gan rhai gweisg dros y wasg yn gwrthdaro â'u hegwyddorion: "[...] dylai beth bynnag gael ei dwyn yn mlaen ar yr egwyddor o fasnach rydd, gan ei bod yn dal cysylltiad ag enwad rydd." Mae'n nodedig serch hynny mai cecru enwadol oedd wrth wraidd y gŵyn yma, sef bod ambell i weinidog "am beri i holl ffrydiau yr enwad redeg i un cyfeiriad, sef i droi eu melin eu hunain yn unig." Byddai hyn yn "wenwyn marwol i'n llenyddiaeth grefyddol" gan na allai "un wasg, o dan ofal ychydig bersonau, wasanaethu llenyddiaeth yr enwad" (1870, pp. 370-1).

Sut felly mae esbonio agwedd ddeublyg yr Ymneilltuwyr at ryddid barn a gweithredu? Ceir awgrym o'r ateb yn ysgrifau D. Gwenallt Jones. Y cyfiawnhad o blaid radicaliaeth yr Ymneilltuwyr, meddai, oedd y gred mai Duw oedd yn llywodraethu ar y byd ac felly na ddylai llywodraeth ymyrryd yn ormodol â rhyddid dinasyddion y deyrnas: "Radicaliaeth Gristnogol, Radicaliaeth Feiblaidd, oedd radicaliaeth Cymru, a hwn oedd y gwahaniaeth pwysicaf rhyngddi a radicaliaeth Lloegr, Radicaliaeth Lesyddol Bentham ac eraill." Ond ochr arall y geiniog i'r meddylfryd hwn oedd y gred y dylai Duw – drwy gyfrwng y capeli – ymyrryd fel y mynnai yng ngwledyddiaeth yr oes. Yn y modd hwn y condemniwyd "gor-arallfydrwydd" y Methodistiaid Calфинаidd ceidwadol (Jones, 1956, pp. 7-8). Roedd y meddylfryd hwn, felly, yn rhoddi hawl ddwyfol i'r Ymneilltuwyr ymyrryd er eu budd eu hunain, tra'n caniatáu iddynt fynnu nad oedd gan neb arall yr hawl i ymyrryd mewn unrhyw fodd nad oedd yn fanteisiol iddynt hwy. Fel y noda Wallerstein uchod, cri'r gorthrymedig oedd y *laissez-faire* hwn. Pe bai ganddynt gymhelliad dros roi blaenoriaeth i'w hiaith yn hytrach na'u crefydd, gallant fod wedi dod o hyd i sail dros ddadlau hynny. Gwelir felly fod modd iddynt gyfuno dadleuon ceidwadol a rhyddfrydol – a hyd yn oed defnyddio dadleuon rhyddfrydol er mwyn cyfiawnhau gwrthsefyll cymhathu yn ogystal â'i hybu.

Cyfiawnhad anhepgor dros ymdrechion y dosbarth canol i gipio grym gan rymoedd ffiwdal oedd ideoleg rhyddfrydiaeth. Rhaid gosod twf yr ideoleg yn y cyd-destun hwnnw yn hytrach na thybio ei fod wedi tyfu yn annibynnol ar amgylchiadau socio-economaidd y cyfnod ac yn cynrychioli cymhelliad ynddo ei hunan dros ymddygiad y dosbarth canol. Ond o gipio grym, roedd rhaid ateb y cwestiwn 'pam mai'r elít hwn sydd yn awr yn meddu ar rym?' - cwestiwn yr oedd yn rhaid ei ateb ar sail geidwadol. Mae hyn yn amlygu un o anghysondebau creiddiol

enedlaetholdeb, ac yn esbonio pam mae'n rhaid dyfeisio traddodiad i'w gyfiawnhau. Wedi'r cwbl, os yw Grŵp 2 yn dymchwel grym Grŵp 1, ni ellid cyflwyno hanes y genedl fel ag yr oedd mewn gwirionedd, oherwydd bod hynny'n amlygu rheolaeth Grŵp 1 ac yn tanseilio hawl Grŵp 2 i reoli. Rhaid yn hytrach awgrymu bod rheolaeth Grŵp 1 yn wydroad o hanes y genedl, a bod y gwerthoedd a arddelir gan Grŵp 2 a'r cyfiawnhad dros eu rheolaeth yn rhai a fodolai erioed. O sylweddoli tua chanol y ganrif bod y niferoedd o'u plaid, trôdd yr Ymneilltuwyr at ddadleuon rhyddfrydol er mwyn cyfiawnhau dymchwel grym y Tirfeddianwyr a'r Eglwys Wladol; ond er mwyn cyfiawnhau gosod eu hunain yn gynrychiolwyr y bobl, rhaid oedd dadlau bod eu hawdurdod yn deillio o'r modd yr oeddynt yn *cynnal* traddodiad a oedd yn ymestyn yn ôl ganrifoedd.<sup>75</sup> Ys dywed Ieuan Gwynedd Jones am eu gweithgarwch: “[It] was by definition conservative since it harked back to the purity of the Celtic Church”<sup>76</sup> (Jones, 1992, p. 60). Awgrymai E. Morgan Humphreys nad oedd rhyddfrydiaeth ambell i Ymneilltuwr yn ymestyn llawer pellach na'i ymdeimlad o anghyfiawnder crefyddol. Dywed am y pregethwr, yr argraffydd a'r golygydd dylanwadol, Evan Jones o Gaernarfon: “Clywais ei fod yn dywedyd na buasai waeth ganddo ef weld Toriaid yn cynrychioli pob sedd yng Nghymru, unwaith y sicrheid Datgysylltiad” (Humphreys, 1938, p. 206). Dylid gochel felly rhag ystyried ideoleg rhyddfrydiaeth fel grym a yrrai weithredoedd yr Ymneilltuwyr. Yn hytrach dylid ystyried eu bod wedi mabwysiadu dadleuon rhyddfrydol am eu bod yn cynnig modd iddynt fwrw ymaith system a oedd yn gwahaniaethu'n annheg yn eu herbyn.

O ganlyniad, credaf mai deuoliaeth ffug yw honno rhwng cenedlaetholdeb rhyddfrydol a cheidwadol, oherwydd bod angen dogn go helaeth o'r ddau er mwyn cael y maen i'r wal. Ond

---

<sup>75</sup> Nodai W.J. Gruffydd y deuai atal ar newid unwaith yr oedd arweinwyr y newid hwnnw yn ennill y dydd: “Unwaith yn unig y protestiodd y Protestaniaid, ac unwaith yn unig yr ymneilltuodd yr Ymneilltuwyr.” Dyfynnir ef yn (Chapman, 1993, p. 83).

<sup>76</sup> Cydnabu Michael D. Jones yn yr un modd fod ceidwadaeth yn egwyddor yng nghymeriad yr Ymneilltuwyr, am mai ei nod oedd parchu awdurdod hen sefydliadau (Jones, 1888b, p. 1).

sut felly y mae esbonio'r darpar genhedloedd hynny yn nwyrain Ewrop yn y 19eg ganrif y mae Okey, Brooks a Davies yn eu cyferbynnu â Chymru, a ddatblygodd fudiadau cenedlaethol er eu bod yn wfftio rhyddfrydiaeth? Dywed Brooks yn blaen ac yn ddi-gyfaddawd: "Mewn cyddestun trefedigaethol neu ôl-drefedigaethol, mae'n rhaid i'r neb sydd o blaid amrywiaeth ddiwylliannol ddiffinio ei wleidyddiaeth yn erbyn Rhyddfrydiaeth" (Brooks, 2015, p. 123). Un rheswm am fethiant Cymru i sicrhau mudiad cenedlaethol, awgrymir, oedd nad oedd yn meddu ar y "[G]eidwadaeth gynhenid a fu'n nodwedd ar lawer o wledydd llai Ewrop"<sup>77</sup> (Brooks, 2015, p. 51). Ond yn fy nhyb innau, mae yna le i amau'r modd y cyfosodir yr ideolegau a sbardunodd ddatblygiad cenedlaetholdeb yng ngorllewin a dwyrain Ewrop.<sup>78</sup> Mewn adolygiad yn y *Slavonic and East European Review* mae David J. Smith yn beirniadu'r arfer ymysg academyddion o weld gwahaniaethau sylweddol rhwng gorllewin a dwyrain Ewrop yn hyn o beth:

Until now, it has been common to portray Western Europe as the natural home of an enlightened 'civic' nationalism that is broadly supportive of democratic

---

<sup>77</sup> Bu'n rhaid disgwyl tan yr 1890au a John Morris-Jones, cyn, nes "y cafwyd ceidwadaeth resymolaidd o'r math Ewropeaidd yn y diwylliant Cymraeg" (Brooks, 2010, p. 34). Yn fy nhyb innau, arwydd o newid o genedlaetholdeb ethnogrefyddol i genedlaetholdeb ieithyddol oedd y gweithgaredd hwnnw – nid dyfodiad ceidwadaeth yn lle rhyddfrydiaeth (roedd JMJ hefyd yn rhyddfrydwr wrth gwrs) ond cyfiawnhad ceidwadol amgen i'r un crefyddol a gaed cyn seciwlareiddio.

<sup>78</sup> Gellid dadlau nad yw'r trosolwg o wledydd yng ngorllewin daearyddol Ewrop o lawer o fudd i Brooks chwaith wrth ategu ei ddamcaniaeth. Os nad oes modd clystyru cenedloedd dwyrain Ewrop gyda'i gilydd yn un grŵp taclus, mae'r un peth yn wir am orllewin Ewrop hefyd. Mae Greenfeld yn dadlau bod pob math o genedlaetholdeb yn Ewrop y tu hwnt i Loegr mewn gwirionedd yn 'ddwyreiniol' am eu bod wedi datblygu o ganlyniad i ddiacter tuag at Loegr. Datblygodd yn Ffrainc i ddechrau o ganlyniad i'r gystadleuaeth hanesyddol rhyngddi a Lloegr. Lledaenodd i'r Almaen, a thyfodd Rhamantiaeth Almaenig o ganlyniad i gasineb tuag at y broses o foderneiddio a hybwyd gan Ffrainc a Lloegr. Dywed nad yw arwahanu cenedlaetholdeb gorllewin a dwyrain Ewrop yn gwneud synnwyr, oherwydd "if we assigned individual societies to any of these originally geographical categories on the basis of civilization characteristics, we might have to characterise many Western European societies as 'Eastern Europe,' while most of the 'West' or 'Europe' would paradoxically move to another continent" h.y. yr Unol Daleithiau (Greenfeld, 1992b, pp. 18, 178, 372). Yr hyn a ddaw i'r amlwg wrth iddo olrhain methiant mudiadau cenedlaethol y gwledydd eraill 'gorllewinol', megis Iwerddon, Sbaen, Catalwnia, Gwlad y Basg a Llydaw yw eu bod oll yn unigryw – maent wedi dioddef naill ai o ganlyniad i lanhau ethnig, neu ryfel cartref (Brooks, 2015, pp. 6-11). Y tu hwnt i Ffrainc, lle gwnaethpwyd defnydd o syniadaeth Herderaidd er mwyn cyfiawnhau cymhathu, fel y nodir gan Okey uchod (Okey, 1991, pp. 206-7) nid oes tystiolaeth ategol sy'n dangos dylanwad ideoleg Rhyddfrydiaeth ymysg y gwledydd Ewropeaidd gorllewinol hynny a brofodd ddiwydiannu ar raddfa debyg i Gymru.



development; Eastern Europe, by contrast, is still regarded as being inherently predisposed towards the kind of ‘backwards’ and intolerant ethnocentric nationalism that is inimical to this vision of a stable liberal democratic order. Works challenging this longstanding stereotype are still comparatively few and far between... (Smith, 2006, p. 572)

Mae Stefan Auer, yn ei gyfrol *Liberal Nationalism in Central Europe*, hefyd yn wfftio’r syniad sydd yn boblogaidd ymysg damcaniaethwyr ar genedlaetholdeb nad oedd mudiadau cenedlaethol canol Ewrop yn rhai rhyddfrydol. Enghraifft o hynny, meddai, oedd ‘Tad y Genedl’ Tsiecaidd, František Palacký, a ddefnyddiai ddadleuon rhyddfrydol fel arf o blaid ymreolaeth: “extensive arguments against conservative centralist tendencies in the Hapsburg empire in favour of a federal arrangement, further underline his commitment to basic liberal values.” Noda Auer yn ogystal mai Immanuel Kant oedd y prif ddylanwad ar ei fyd-olwg:

...Palacký’s conception of freedom was strongly influenced by the Kantian notion of freedom as the moral autonomy of individuals. This is the basis on which Palacký opposes any granting of privileges as unlawful and unjust. Hence he objected to the situation in Austria, in which the German-speaking elite benefited from the dominance of the German language in administration and public life (Auer, 2004, p. 104).

Gwelir yma fel yr oedd Palacký yn troi dadleuon rhyddfrydol i’w felin ei hun, yn yr un modd ag y byddai Michael D. Jones, a oedd hefyd yn drwm dan ddylanwad Kant, yn dadlau o blaid rhyddid yr unigolyn yng Nghymru (Tudur, 2006, pp. 60-1, 68). Mewn cyferbyniad, mae Brooks yn ystyried dylanwad Kant ar weinidogion Cymru yn un negyddol yng nghyd-destun cymell

twf mudiad cenedlaethol.<sup>79</sup> “Y syniadau goleuedig a gâi fwyaf o groeso yn y Gymru Gymraeg oedd y rhai a safai am y pen â rhesymoliaeth, ac a oedd yn annhebyg o gymell protest wleidyddol” (Brooks, 2015, p. 33). Fel y nodwyd eisoes, Methodistiaid ceidwadol hanner cyntaf y 19eg ganrif a ochelai rhag protest wleidyddol – nid oedd yr Ymneilltuwyr rhyddfrydol yn ddieithriaid iddi o gwbl, ac felly nid yw’n argyhoeddi yn fy marn i y byddai naill ai Kant neu Herder wedi dylanwadu arnynt i’r fath raddau fel bod mudiad cenedlaethol yn amhosib. Rhaid cofio bod modd dadansoddi Herder<sup>80</sup> yn ogystal mewn ffordd a oedd yn andwyol i obeithion siaradwyr ieithoedd lleiafrifol. Fel y dywed Okey:

Lle nad oedd un genedl yn ben (mewn gwladwriaeth), tuedd Herderiaeth oedd cryfhau hunaniaeth pob cenedl yn y wlad. Lle’r oedd un genedl yn ddigon cryf i fonopoleiddio llywodraeth y wlad... gallai droi’r athrawiaeth Herderiaidd yn erbyn y lleiafrifoedd. Dim ond ei hiaith hi oedd iaith ‘naturiol’ y gymdeithas. Cynrychiolai’r ieithoedd eraill elfennau estron a oedd yn dinistrio undod ysbrydol y genedl. Ni ellid eu goddef. (Okey, 1991, pp. 206-7)

Awgryma’r cyfan fod gwahanol athronwyr ac ideolegau, yn yr un modd ag ‘ethne’ gwlad, i’w dadansoddi yn ôl gofynion y rheini sydd â’r adnoddau a’r cymhelliad i ddadlau’r achos cenedlaethol. Dyna’r argraff a geir wrth archwilio union amgylchiadau datblygiad cenedlaetholdeb yn rhai o wledydd canol Ewrop. Yn hynny o beth, mae Hroch yn amau i ba raddau yr oedd sefyllfa wleidyddol rhai o’r cenhedloedd yng nghanol Ewrop a lwyddodd i

---

<sup>79</sup> Mae’n werth nodi yma fod Dafydd Tudur yn gweld dylanwad Kant ar feddylfryd y cenedlaetholwr Michael D. Jones yn ogystal (Tudur, 2006, pp. 60-1).

<sup>80</sup> Awgryma Stefan Auer bod llwyddiant syniadaeth Herder yng Ngwlad Tsiec i’w briodoli i’r ffaith bod syniadau tebyg eisoes yn cylchredeg yno. Yn wir, roedd syniadau’r offeiriad Protestannaidd Adam Hartman o’r tiroedd Tsiec yn yr 17eg ganrif wedi dylanwadu yn eu tro ar Herder (Auer, 2013, p. 38). Mae’n cyfeirio hefyd at waith Josef Zúmr, sy’n dadlau bod Herder dan ddylanwad nifer o feddylwyr Tsiecaidd o’r 17eg ganrif, gan gynnwys John Amos Comenius, a bod cenedlaetholwyr diwylliannol Tsiecaidd y 19eg ganrif, drwy eu diddordeb yn Herder, yn adfer cyswllt â mudiad Diwygiol Gwlad Tsiec (Zúmr, 1997).

ddatblygu eu mudiadau cenedlaethol eu hunain yn ymdebygu i Gymru. Yn benodol, mae'n gwahaniaethu rhwng cenedloedd modern, a oedd wedi canoli grym ac a oedd yn meddu ar elít llywodraethol ac egin-fwrgais diwydiannol a oedd yn ddiwylliannol unffurf, a'r ymerodraethau aml-ethnig nad oeddent eto wedi datblygu yn genedl-wladwriaethau modern. Mae'r gwledydd y mae Brooks yn cyfeirio atynt er mwyn amlygu methiant cenedlaetholdeb Cymreig yn perthyn i'r ail gategori, sef teyrnasoedd llinachyddol nad ystyrid eu bod yn rhan o wladwriaeth fodern erbyn dechrau'r 19eg ganrif. Roeddent i gyd o fewn yr Ymerodraeth Hapsbwrgaidd, a ddisgrifwyd mewn modd cofiadwy gan R.J.W. Evans fel "a complex and subtly balanced organism, not a 'state' but a mildly centripetal agglutination of bewilderingly heterogeneous elements." Roedd teyrngarwch uchelwyr y gwahanol rannau o'r wlad yn seiliedig ar "calculation, not a sort of disembodied idealism" (Evans, 1979, p. 446). Meddiannwyd llawer o diriogaeth y deyrnas yn sgil y gwagle grym a adawyd gan ddadfeiliad Ymerodraeth yr Otomaniaid. Nid aethpwyd ati i geisio canoli grym tan ddiwedd yr 18fed ganrif, gan sbarduno gwrthryfel ymysg y bonedd rhanbarthol yn yr 1780au. Erbyn canol y 19eg ganrif daeth i'r amlwg i reolwyr yr Ymerodraeth na allent gadw rheolaeth ar y diriogaeth eu hunain - "their rule had become overextended" - ac aethpwyd ati i ddatganoli grym o'r canol. Dywed Solomon Wank fod ymateb yr ymerodraeth i genedlaetholdeb yn gyfyng iawn, ac roeddynt hyd yn oed ar un cyfnod yn hybu cenedlaetholdeb gan obeithio y byddai *yn haws* llywodraethu dros diriogaeth a oedd wedi ei rhannu rhwng sawl cenedl.<sup>81</sup> "... the Emperor and his advisors sought to play one nationality against another... That strategy, also known as divide and rule, was counterproductive..." (Wank, 1997, p. 104) Awgryma Charles W. Ingrao

---

<sup>81</sup> Awgryma William O'Reilly fod ymdrechion yr Ymerodraeth Hapsbwrgaidd i drefedigaethu ei theyrnas ei hun yn ymateb i'r ffaith bod eu phoblogaeth Almaeneg ei hiaith yn cael ei hudo o'i thiriogaeth gan gyfoeth y gorllewin, yn benodol tiroedd yr Ymerodraeth Brydeinig. Ceisiwyd eu hannog i symud i ranbarthau eraill yr ymerodraeth yn lle hynny, ond heb lawer o lwc: "The lure of the American colonies was proving too powerful to be challenged by neighbouring Austrian-administered territories as rival destinations." Byddai'n eironig wrth gwrs, petai'r union rymoedd economaidd a oedd yn gyfrifol am lwyddiant trefedigaethu Lloegr, hefyd yn gyfrifol am y methiant i gyflawni hynny yng nghanolbarth Ewrop (O'Reilly, 2015, p. 119).

fod yr Ymerodraeth Hapsbwrgaidd yn gwbl wahanol i'r Deyrnas Unedig, Ffrainc a gwladwriaethau eraill gorllewin Ewrop, ac mai un o'r nodweddion gwahanol oedd amrywiaeth ac unigoliaeth ei harglwyddiaethau. Un o fethiannau'r Ymerodraeth Hapsbwrgaidd, meddai, oedd nad oedd wedi gorchfygu rhannau helaeth o'i thiriogaeth drwy rym, ond yn hytrach wedi eu llyncu drwy briodas neu gynghreiriad: "the subjects of these unions were sometimes incompatible, or at least unwilling to surrender their individual rights and independence to the dominant partner." O ganlyniad, cyn gallu cynghreirio â hwy, roedd yn rhaid i'r Hapsbwrgiaid addo y byddent yn parchu eu hunaniaeth a'u hannibyniaeth, trefniant a gynorthwyodd i sicrhau parhad "each crownland's sense of independence at the expense of a common identity and loyalty to the monarchy as a whole." Nid yw'n syndod felly, meddai, fod yr ymerodraeth wedi datgymalu'n rhwydd yn yr 20fed ganrif yn sgil dyfodiad cenedlaetholdeb (Ingrao, 2000, p. 10). Yn ei lyfr *Imagining an Austrian Nation* daw Ian Reifowitz i gasgliad gwahanol, sef mai diffyg ymdrech gan y weinyddiaeth ganolog oedd ar fai am chwalu'r ymerodraeth.<sup>82</sup> Meddai:

A multiethnic Austrian nation could have been built on the foundation of the Austrian state, just as a French nation was so created, a British nation was so created, and an American nation was so created. The Emperor and the men who held power chose not to try. Their choice, not its diversity, condemned Austria-Hungary to dissolution. (Reifowitz, 2003, p. 228)

Roedd yr ymerodraeth hon yn sicr felly yn disgyn i gategori 'ymerodraeth aml-ethnig' Hroch, yn hytrach na chenedl-wladwriaeth fodern fel yr un yr oedd Cymru'n rhan ohoni ar ddechrau'r 19eg ganrif. Dioddefai'r ymerodraeth o ddiffyg awdurdod dros ei rhanbarthau pellenig, ac

---

<sup>82</sup> Awgryma Oscar Jászi yntau nad oedd y Hapsbwrgiaid yn "consciously and consequentially Germanizing power... Even those Hapsburg emperors who sometimes fostered a policy of Germanization were not led in their efforts by any nationalistic point of view..." (Jászi, 1929).

roedd anfodlonrwydd eisoes yn bodoli yn eu mysg cyn y 19eg ganrif. Dywed Hroch y gallai atgof o annibyniaeth flaenorol hefyd fod bod yn ysbardun pellach i genedlaetholdeb yn y 19eg ganrif, ac mae'n werth nodi felly fod tiroedd yr ymerodraeth Hapsbwrgaidd yn meddu ar annibyniaeth sylweddol tan ymdrechion *ad-hoc* y wenyddiaeth i ganoli grym ar ddiwedd yr 18fed ganrif. Dywed Anderson fod cenedlaetholdeb y Hwngariaid yn deillio'n wreiddiol o ddiacter pendefigaeth geidwadol Magyar y wlad, a ddefnyddiai'r iaith Lladin, yn wyneb ymdrechion y frenhiniaeth i ganoli grym a gorfodi yr Almaeneg arnynt. Nid oedd unrhyw fwriad ganddynt roi blaenoriaeth i'r iaith frodorol. Dim ond yn sgil twf dosbarth canol o ddeallusion rhyddfrydol yr ysgogwyd mudiad cenedlaethol torfol a ddisodlodd eu meistri Ymerodrol ac a ddaeth â breintiau arbennig y bendefigaeth i ben. Awgrymwyd gan Anderson mai hunan-fudd y deallusion rhyddfrydol hyn oedd yn gyfrifol am eu cenedlaetholdeb yn hytrach nag unrhyw gariad arbennig tuag at amrywiaeth diwylliannol; cyfeiriwyd at leiafrifoedd o fewn eu tiriogaeth fel 'wlserau ar gorff y famwlad' a gwrthododd Kossuth roi iddynt eu cenedl-wladwriaethau eu hunain ar y sail nad oeddynt yn meddu ar eu 'personoliaethau hanesyddol' eu hunain (Anderson, 1991, p. 103). Mae'r cyfan yn awgrymu nad ideoleg rhyddfrydiaeth a wahanai'r Cymry oddi wrth y cenhedloedd hyn ond yn hytrach eu hamgylchiadau – h.y. i ba raddau y gallent wrthsefyll cymhathu ac i ba raddau y gallent gymhathu eraill. O fachu'r cyfle i gipio grym o fewn Hwngari at eu dibenion eu hunain, cafodd deallusion dosbarth canol y wlad honno eu hunain ar frig y 'gadwyn fwyd' a dechreuwyd y broses o gymhathu'n ddiwylliannol y werin o fewn eu tiriogaeth er mwyn sefydlogi eu grym.

O dderbyn bod rhyw wedd ar ideoleg rhyddfrydiaeth yn anhepgor i ddatblygiad mudiad cenedlaethol yng Nghymru, mae modd troi'r gosodiad ar ei ben. A yw'n bosib nad y ffaith bod yr Ymneilltuwyr wedi cofleidio ideoleg rhyddfrydiaeth oedd y broblem, ond eu bod wedi gwneud hynny yn rhy hwyr? Petai'r ideoleg honno wedi gwreiddio cyn i Gymru wynebu

buddsoddiad ariannol anferth o'r tu hwnt i'r ffin a drawsnewidiodd ei heconomi, a allai'r wlad fod wedi ymddiwydiannu o'i phen a'i phastwn ei hunan a datblygu dosbarth canol masnachol a fyddai, er eu budd ariannol eu hunain, wedi rhoi bri ar iaith a diwylliant Cymru fel modd o wrthwynebu cymhathiad allanol? Unwaith eto, nid wyf yn argyhoeddiedig bod ideoleg ynddi ei hun yn gymhelliad dros newid –yn gyntaf rhaid bod yr amgylchiadau'n bodoli er mwyn ei hybu. Gan gadw damcaniaethau Hechter, Nairn, a Hroch a drafodwyd yn y bennod ddiwethaf mewn cof, gellir awgrymu dau senario lle gallai Cymru fod wedi datblygu mudiad cenedlaethol yn y 19eg ganrif. Yn y cyntaf, roedd Cymru yn wlad heb unrhyw ddatblygiad economaidd sylweddol. O dan y fath amgylchiadau gallai deallusion y genedl fod wedi mabwysiadu ideoleg rhyddfrydiaeth er mwyn cymell y bobl i filwrio yn erbyn yr elît Seisnig ar sail rhaniad diwylliannol llafur, gan feio eu segurddod am ddiffyg cyfoeth y wlad, a diwydiannu'r wlad yn araf bach o'u pen a'u pastwn eu hunain. Serch hynny, mae Brinley Thomas yn wfftio'r awgrym hwn, gan awgrymu y byddai'r Cymry mentrus wedi ei chael yn haws mudo i'r Unol Daleithiau fel y Gwyddelod, ac na fyddai'r wlad amaethyddol â phoblogaeth isel a oedd yn weddill wedi meddu ar y sefydliadau diwylliannol i ffurfio cenedlaetholdeb modern, a gwrthsefyll dylanwad diwylliant Seisnig ac Americanaidd: "... mae'n debygol mai cymdeithas wledig oedrannus a fyddai cenedl y Cymry, rhyw casa geriatrica o le..." (Thomas, 1999, p. 96) Yr unig senario dichonadwy arall felly, yw un lle y byddai Cymru wedi datblygu ei heconomi fewnol ffyniannus ei hun cyn ail hanner y 19eg ganrif, ac felly wedi meddu ar ddosbarth canol o fasnachwyr a chrefftwyr a fyddai, ar y naill law, wedi dymchwel y drefn ffiwdal er mwyn amddiffyn eu budd eu hunain, ac ar y llall wedi gwrthsefyll buddsoddiad cyfalafwyr o'r tu hwnt i Glawdd Offa. Byddai meithrin sefydliadau a bwysleisiai'r hyn a oedd ganddynt hwy a'r werin yn gyffredin yn fodd o gyflawni'r ddwy nod. Dan yr amgylchiadau hynny, ni fyddai mabwysiadu ideoleg rhyddfrydiaeth gymhathol yn broblem o gwbl, am mai hwy fyddai'n cymhathu. Y methiant, ymddengys, oedd nad oeddynt yn meddu ar bourgeoisie a oedd ag

unrhyw gymhelliad dros annog gweithgaredd o'r fath, oddi ar y Ddeddf Uno. Byddaf yn dychwelyd at hyn ym mhennod pump.

Dagrau pethau, o safbwynt y cenedlaetholwr Cymreig, oedd yr hyn a gafwyd - gwlad a chanddi un droed yn y chwyldro diwydiannol, wedi ei hintegreiddio yn rhan o economi Lloegr, a'r llall yn y cyfnod modern cynnar 'is-genedlaethol'. Mae Gwyn A. Williams yn nodi'r cyfosodiad a fodolai yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn mewn modd byw:

At one moment in the early nineteenth century, a man in Merthyr could be living within the world of a highly skilled worker in an integrated firm, probably the largest and most advanced of its kind on earth, while another man, tramping after sheep in some cloud-capped and barren valley, could be living in a world whose mores were fixed by the medieval, kindred and 'tribal' laws of Hywel Dda. More disconcerting is the thought that these men might well have been brothers. (Williams, 1980, p. 22)<sup>83</sup>

Anodd yw synio am un neges a allai fod wedi apelio at y naill garfan a'r llall. Nid yw'n syndod felly fod Cymry'r cymoedd wedi cefnu ar weledigaeth yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol ac wedi cofleidio sosialaeth. Nid oedd angen rhyddfrydiaeth ffyrnig a gwedd grefyddol arni, fel yr awgryma Gerschenkron, mewn rhan o'r byd a oedd eisoes wedi ymddiwydiannu hyd yr eithaf. Teimlai'r gweithwyr fod yr hyn y galwai'r Ymneilltuwyr amdano, megis addysg uwch a

---

<sup>83</sup> Roedd cylchgrawn y *Traethodydd*, yn 1852, hefyd yn cyferbynnu'r ardaloedd diwydiannol â chefn gwlad: "[Yn y dref] y mae y cydymdrech mwyaf egniol a llym, yn mhob cangen o wybodaeth, celfyddyd, a masnach... Yno y mae pob cynnydd a gwareiddiad yn myned ymlaen gyda grym a chyflymdra angerddol. Gallwn olygu y trigolion fel peiriannau dynol (os goddefir yr ymadrodd) ar eu llawn waith yn wastadol... [Yn y wlad,] am gynnydd mewn gwybodaeth a diwylliant, drwgdybiant mai balchder a choegni ydyw. Nid oes ganddynt fodd i brynu llyfrau lawer; a gwastraff ar amser, heblaw blinder i'r cnawd, yw darllen llawer... Rhyw hen greadur afrosgo fel elephant yw ef; tra mae y trefwr yn chwimwth fel gwennol" (1852, pp. 233-5).

datgysylltu'r eglwys, naill ai wedi ei gyflawni neu yn llai perthnasol nag y bu mewn gwlad a oedd yn brysur seciwlareiddio (Morgan, 1971, pp. 166-7). Dywed Ieuan Gwynedd Jones fod y glowyr wedi eu dadrithio gyda chrefydd a oedd wedi methu â chamu i'r adwy i'w hamddiffyn, ac a oedd yn treulio ei hamser yn hytrach yn dadlau o blaid pynciau gwleidyddol a oedd bellach yn ddiystyr iddynt. O ganlyniad, troesant at 'grefydd newydd', seciwlar a Saesneg ei hiaith, sef, sosialaeth, a golygai hynny hefyd droi cefn ar yr iaith oedd wedi ei gwreiddio mor ddwfn yn yr hen drefn:

To abandon Welsh became not only a valuational but also a symbolic gesture of rejection and of affirmation – the rejection of the political philosophy and the sham combination of Lib-Labism and their affirmation of new solidarities and new idealisms based upon a secular and anti-religious philosophy (Jones, 1992, pp. 77-8).

Nid wyf wedi fy argyhoeddi gan yr awgrym a geir yma fod trigolion y cymoedd diwydiannol wedi 'troi cefn' ar y Gymraeg. Yn absenoldeb ymgais gwirioneddol i atgynhyrchu disgwrs cenedlaetholdeb ieithyddol yn y cymoedd, nid oedd dim i atal pobl yr oedd eu hunaniaeth yn un 'is-genedlaethol' rhag cael eu cymhathu o fewn cenedlaetholdeb Prydeinig a bwysleisiai'r Saesneg. Mae peryg yma o barhau'r fytholeg Lafuraidd y soniwyd amdani yn y bennod gyntaf, sef bod Llafur yn y Deyrnas Unedig yn fudiad rhyngwladol, ôl-genedlaethol a bod y werin yng Nghymru wedi cefnu ar genedlaetholdeb 'cul' ac wedi eu dyrchafu i bethau gwell. Cael eu cymhathu gan genedlaetholdeb Prydeinig a wnaeth trigolion ardaloedd diwydiannol Cymru, a hynny yn absenoldeb unrhyw gynnig amgen. Serch hynny, tybiaf fod Ieuan Gwynedd Jones yn llygad ei le wrth nodi bod rhyddfrydiaeth yr Ymneilltuwyr wedi colli unrhyw berthnasedd i'r gweithwyr hyn erbyn troad y ganrif. Dywed R. Tudur Jones yn yr un modd fod yr hen



radicaliaeth *laissez-faire* wedi dechrau edwino'n raddol ar ôl y 1870au, ond bod nifer ymysg yr Ymneilltuwyr yn parhau i bwysleisio hawliau personol dros gyfiawnder cymdeithasol am ddegawdau eto (Jones, 1966, p. 273). Hyd yn oed yng nghefn gwlad roedd rhyddfrydiaeth wedi chwythu ei phlwc erbyn yr 80au; nid oedd Rhyfel y Degwm yn arbennig o berthnasol i'r gweithiwr amaethyddol a oedd yn crafu byw, heb sôn am y cannoedd o filoedd a oedd wedi gadael cefn gwlad: "It was as if the entire energy of political Wales was devoted to breaking the hold of 'alien' landlords and bishops over about a half of its land and a quarter of its population" (Williams, 1985, p. 228). Nodwyd eisoes y pwyslais a roddwyd gan ddamcaniaethau am genedlaetholdeb ar argyhoeddi'r werin y byddai derbyn arweiniad carfan benodol o fewn y dosbarth canol o fudd materol iddynt hwy (R.W. Jones, 2007, p. 31). Yn absenoldeb y gallu i gynnig budd materol o'r fath – i'r dosbarth canol na'r werin – doedd dim troedle amlwg i genedlaetholdeb Cymreig yn y 19eg ganrif.

Dadl y bennod hon oedd nad yr ideoleg *laissez-faire* rhyddfrydol ei hun a achosodd nychdod cenedlaetholdeb Cymreig yn ystod y 19eg ganrif – roedd yn rhan angenrheidiol o'r hyn a fyddai, dan amgylchiadau gwahanol, wedi codi Cymru'n genedl fodern drwy greu dosbarth canol Cymraeg llewyrchus, fel y gwnaeth mewn sawl cenedl arall ledled Ewrop. Gallai dosbarth canol Cymreig a welai fudd o wneud hynny fod wedi cyfuno dadleuon rhyddfrydol o blaid dymchwel rheolaeth yr elît, â dadleuon ceidwadol er mwyn cyfiawnhau eu rheolaeth eu hunain a chymhathu'r werin, pe buasai ganddynt gymhelliad i wneud hynny. Ni fyddai dadleuon ceidwadol ohonynt eu hunain, yn arbennig o du'r Anglicaniaid, wedi esgor ar fudiad cenedlaethol, yn absenoldeb cymhelliad i newid y drefn. Ac oherwydd bod Cymru erbyn hynny eisoes wedi ei hintegreiddio yn economaidd o fewn cenedl-wladwriaeth fodern ehangach, nid oedd awydd gwirioneddol ymysg y dosbarth canol na'r werin am fudiad o'r fath chwaith. Dadleuaf yn y chweched bennod mai'r Ymneilltuwyr Rhyddfrydol yn unig a feddai ar

gymhelliad i hybu cenedlaetholdeb, a drwy wneud hynny fe osodwyd y sail ar gyfer twf cenedlaetholdeb ieithyddol yn yr 20fed ganrif. Ond cyn hynny, byddaf yn y bennod nesaf yn ymdrin ag ail elfen y cyhuddiad yn erbyn rhyddfrydiaeth, sef ei bod wedi atal datblygiad mudiad cenedlaethol a oedd yn rhoi'r bri ar yr iaith Gymraeg.

## Pennod 4

### **Cenedlaetholdeb Ethnogrefyddol a'r Iaith Gymraeg**

Dadleuwyd yn y bennod ddiwethaf nad ideoleg rhyddfrydiaeth oedd yn gyfrifol am ddiffyg mudiad cenedlaethol yng Nghymru yn y 19eg ganrif. Yn wir, roedd rhyddfrydiaeth yn anhepgor er mwyn chwalu'r system ffiwdal a fodolai yng Nghymru bryd hynny. Ond mae hynny'n gadael un cwestiwn heb ei ateb, sef o ble y daeth agwedd led-negyddol, neu o leiaf ddi-hid, nifer o'r Cymry Ymneilltuol-Ryddfrydol tuag at y Gymraeg. Fe fydd y bennod hon yn awgrymu bod agweddau at y Gymraeg yng Nghymru yn ffrwyth meddylfryd llawer hŷn na'r 19eg ganrif, a'u bod yn amlwg ymysg ceidwadwyr y cyfnod yn ogystal â'r rhyddfrydwyr. Roedd eu hagweddau'n deillio o'r modd y plannwyd hedyn y cenedlaetholdeb Cymreig ethnogrefyddol a ddaeth i'r amlwg yn y 19eg ganrif mor bell yn ôl â chyfnod y Tuduriaid. Er nad oedd y Cymry eu hunain, oddi ar y Ddeddf Uno, yn meddu ar y sefydliadau a allai atgynhyrchu cenedlaetholdeb, na gwasg argraffu i hwyluso'r broses o sefydlogi a lledaenu eu syniadau eu hunain ynglyn â'r hyn a olygai i fod yn Gymry, roedd y broses honno eisoes yn mynd rhagddi ymysg elît o ddyneiddwyr Cymreig a oedd wrth galon y genedl-wladwriaeth fodern gyntaf a ymffurfiai dros Glawdd Offa. Dyma Gymry a oedd wedi ennill safleoedd grymus yn sgil y Ddeddf Uno, ac a oedd dan ddylanwad syniadau'r Diwygiad Protestannaidd a'r Dadeni, ac a oedd yn awyddus i'w cenedl ddangos ei theyrngarwch i'r drefn newydd. Newidiodd y dyneiddwyr hyn y modd yr oedd y Cymry yn synio am eu hiaith, eu hanes, eu perthynas â chrefydd, a'u perthynas â Lloegr. Gyda'u grym sefydliadol a'u mynediad at weisg argraffu, llwyddasant i ail-ddadansoddi hanes Cymru, gan roi pwyslais newydd ar deyrngarwch i'r Frenhiniaeth a phwysigrwydd Protestaniaeth. Tra bo'r Aeleg a'r Wyddeleg yn edwino erbyn y 19eg ganrif, llwyddodd dyneiddwyr Cymreig yr 16eg ganrif i lapio'r Gymraeg mewn math

o gocŵn crefyddol amddiffynnol, gan ei chynnal am ganrifoedd fel cyfrwng i ledaenu'r efengyl Brotestannaidd. O fewn y cocŵn crefyddol hwn, aeth cenedlaetholdeb Cymreig drwy ryw fath o fetamorffosis, gan ailymddangos ar ddiwedd y 19eg ganrif ar ffurf gwbl newydd. Y pris a dalwyd am hynny oedd bod talp o genedlaetholdeb sifig Prydeinig ynghlwm â'r hunaniaeth newydd a ddyfeisiwyd ar gyfer Cymru er mwyn ei hamddiffyn rhag y wladwriaeth ganolog. Yn hytrach na newid meddylfryd tua'r 1840au wrth iddynt gofleidio rhyddfrydiaeth, awgrymaf yn hytrach mai'r hyn a wnaeth yr Ymneilltuwyr oedd torfoli cenedlaetholdeb Cymreig ethnogrefyddol a oedd â'i wreiddiau yn yr 16eg ganrif.

Hwyluswyd tasg y dyneiddwyr hyn gan y ffaith na feddai'r Cymry ar wasg na sefydliadau cenedlaethol o bwys a allai fod wedi llunio naratif cenedlaetholgar amgen o'r tu mewn. Fel y nodir yn y bennod gyntaf, parthed damcaniaethau Roeder (2007), ac Anderson (1991) a Billig (1995), mae gan sefydliadau a gweisg argraffu ran hollbwysig yn y modd yr atgynhyrchir cenedlaetholdeb. Trafodir goblygiadau'r prinder sefydliadau yn y bennod nesaf, ond cynigir yma amlinelliad bras o'r heriau economaidd a ataliai sefydlu argraffweisg yng Nghymru. Gwlad wledig a thlawd oedd Cymru yn ystod y cyfnod modern cynnar (Williams, 1998, p. 48), a golygai hynny boblogaeth o werin wledig nad oedd ganddynt reswm ymarferol dros ddysgu darllen<sup>84</sup> (Jenkins, 1980, p. 94). Golygai tirwedd fynyddig a gweundirol y wlad<sup>85</sup> fod y rhan fwyaf o'r masnachu'ndigwydd yn y porthladdoedd neu dros y ffin â Lloegr. Tueddid i sefydlu'r gweithdai argraffu cynnar mewn dinasoedd mawr neu ar lwybrau masnachol pwysig, ond roedd tref fwyaf Cymru, Caerfyrddin, yn gartref i 2,000 o bobl yn unig (Williams, 1998, pp. 42, 44). Er bod y mwyafrif yn gallu siarad Cymraeg, roedd y boblogaeth yn isel iawn. Yn y 16eg ganrif

---

<sup>84</sup> Yn Ewrop roedd yr argraffwasg i raddau helaeth yn ymateb i alw am ddeunydd darllen a fodolai eisoes, wrth i ragor o'r boblogaeth leyg ddod yn llythrennog (Williams, 1998, p. 41).

<sup>85</sup> Golygai'r ffiniau anhramwyadwy hyn fod yna hefyd ymdeimlad o arwahanrwydd rhwng gogledd a de'r wlad, a oedd yn atalfa i ddatblygiad economi integredig ac ymwybyddiaeth o gynulleidfa ehangach yn yr iaith (Jenkins, 1990, p. xii).

dim ond tua 250,000 i 400,000 a siaradai'r iaith, heb sôn am ei darllen. Amcangyfrifir mai tua 15% i 20% yn unig o boblogaeth Cymru oedd yn gallu darllen erbyn 1640, dau gan mlynedd ar ôl dyfeisio'r wasg argraffu, ac felly nid oedd gwerthu llyfrau Cymraeg yn hyfyw yn fasnachol tan ddiwedd yr 17eg ganrif (Llwyd, 1998, pp. 93-4). Hyd yn oed pe buasai cymhelliad dros sefydlu argraffwasg yng Nghymru, gwnaethpwyd hynny yn gyfreithiol amhosib yn 1557 gan ddeddf oedd yn cyfyngu argraffu i Lundain, ac yn ddiweddarach i Rydychen a Chaergrawnt (Gruffydd, 1998, p. 60). Roedd yn rhaid i unrhyw un a oedd eisiau argraffu llyfrau Cymraeg heb dramgwyddo'r wladwriaeth na'r eglwys ddod i gytundeb ag argraffwyr yn y brifddinas neu'r trefi prifysgol (Williams, 1998, p. 48; Llwyd, 1998, p. 93). Golygai llewyrch cymharol Lloegr fod llawer o symud dros y ffin, ac roedd tua un o bob chwech o boblogaeth y ddwy wlad wedi treulio rhan o'u bywyd yn Llundain yn ystod yr 17eg ganrif<sup>86</sup> (Jenkins, 1980, pp. 3-4). Roedd hi'n anochel felly fod Cymry'n rhan o'r fasnach lyfrau yn Llundain, ac roedd nifer ohonynt wedi cyhoeddi llyfrau mewn ieithoedd eraill ymhell cyn cyhoeddi'r llyfr Cymraeg cyntaf (Williams, 1998, p. 44). Ond roedd argraffu llyfrau Cymraeg o Lundain yn creu her logistaidd sylweddol.<sup>87</sup> Dan amgylchiadau felly nid yw'n syndod mai 30 o lyfrau Cymraeg yn unig y gwyddys iddynt gael eu hargraffu yn ystod y 16eg ganrif, a 150 yn unig yn yr 17eg ganrif. Dywed Glanmor Williams fod y nifer yn "depressingly small" (Williams, 1998, p. 49), ac ym marn R. Geraint Gruffydd mae'n "risibly small total for a country which can claim one of the finest medieval literatures in Europe"<sup>88</sup> (Gruffydd, 1998,

---

<sup>86</sup> Amcangyfrifir bod 12,000 o Gymry yn byw yn Llundain erbyn diwedd y 18fed ganrif, o'i gymharu â 6,000 yn unig yn nechrau'r 17eg ganrif (Suggett, et al., 1997, p. 60).

<sup>87</sup> Oherwydd pellter Llundain a diffyg isadeiledd trafniadaeth Cymru, nid oedd yn ymarferol dosbarthu llyfrau i gyrion anghysbell Cymru o'r brifddinas (Llwyd, 1998, p. 94), ac er nad oedd llawer o alw am lyfrau Cymraeg, roedd gwobrau ariannol hael i unrhyw un oedd am gyhoeddi llyfrau yn Saesneg (Williams, 1998, p. 46). Roedd argraffu llyfrau Cymraeg yn Llundain hefyd yn waith llafurus, oherwydd bod yn rhaid ymdopi â gwallau cysodwyr nad oeddent yn gyfarwydd â'r iaith (Williams, 1998, p. 48). O ystyried y pellter, y gost ac anhawster teithio rhwng Cymru a Llundain, ychydig o awduron neu olygwyr fyddai'n mentro'r daith, ac felly ni fyddai neb i brawfddarllen (Llwyd, 1998, p. 94). Oherwydd hynny roedd cost argraffu lawer yn uwch na mewn llyfrau Saesneg (Williams, 1998, p. 48), ac roedd rhageiriau llyfrau Cymraeg yn frith o ymddiheuriadau am gamgymeriadau a chambrintiadau (Llwyd, 1998, p. 94; Jenkins, 1978, p. 230).

<sup>88</sup> Serch hynny, mae'n dangos bod y Cymry Cymraeg wedi gwneud defnydd o'r dechnoleg newydd, ac er gwaethaf y nifer fach o lyfrau a gyhoeddwyd, gellid dadlau ei bod yn cynrychioli "a decisive breakthrough into modernity"

p. 62). O ganlyniad i'r heriau hyn, ni sefydlwyd yr argraffwasg gyntaf yng Nghymru tan 1718, a hynny gan Isaac Carter ym mhentref Trefhedyn yn Nyffryn Teifi, nid nepell o brif ganolfan fasnachol de Cymru yng Nghaerfyrddin (Jenkins, 1978, p. 238). Fe gyhoeddwyd dros 2,500 o lyfrau Cymraeg yn ystod y 18fed ganrif, ac erbyn ei diwedd roedd o leiaf un wasg argraffu ym mhob tref o bwys yng Nghymru<sup>89</sup> (Suggett, et al., 1997, pp. 91-2; Rees, 1998, p. 123). Erbyn diwedd y 18ed ganrif roedd modd i argraffwyr wneud bywoliaeth gyfforddus a sefydlu busnesau llewyrchus y gellid eu gadael i'r genhedlaeth nesaf. Er gwaethaf y llwyddiannau hyn, mae'n debyg bod y diwydiant argraffu yng Nghymru yn parhau ryw ugain mlynedd ar ei hôl hi i Loegr, o ran buddsoddi yn yr offer diweddaraf a mabwysiadu'r aferion masnachol mwyaf effeithiol (Rees, 1998, pp. 125, 132).

Mae hanes Thomas Jones yr almanaciwr yn darlunio'r modd y gallai gwasg Gymraeg fasnachol ffyniannus fod wedi adfywio cenedlaetholdeb diwylliannol Cymreig yn ystod y cyfnod modern cynnar, a'r modd y llesteiriwyd yr ymdrechion hynny gan natur annatblygedig economi Cymru. Yn wahanol i Salesbury a'i gyd-ddyneiddwyr, un o'r werin oedd Thomas Jones yr Almanaciwr ac er mwyn y werin y gweithiai. Roedd yn fab i deiliwr<sup>90</sup> a fudodd o Dre'r-ddôl ger Corwen i Lundain yn 1666 ynghanol gwasgfa economaidd, ac a ymsefydlodd fel gwerthwr llyfrau yno (Llwyd, 1998, p. 101). O ganlyniad i hynny, nid newid hunaniaeth y Cymry oedd ei nod fel

---

(Gruffydd, 1998, p. 62) ac "yn ddigon i roi i'r Gymraeg droedle ymhlith yr ieithoedd modern cyflawn" (Gruffydd, 1972, p.5) Yn ôl yr hanesydd Geraint H. Jenkins, dylid cymharu'r chwyldro print yng Nghymru â gwledydd bychain Ewropeaidd eraill yn hytrach na'i chymdogion mwy o faint: "... literate Welshmen were rather more tardy than most in being able to achieve their ambition of seeing Welsh books flowing regularly from the press. Even so, it must be borne in mind that Welsh was of the few small European languages in which serious effort was made to print books" (Jenkins, 1978, p. 230).

<sup>89</sup> Un o'r datblygiadau a wnaeth hyn yn bosib oedd system danysgrifio a olygai fod modd argraffu nifer fwy o gopiau o bob llyfr na chynt, ac roedd llyfrau yn rhatach i'w prynu ac yn cael eu gwerthu'n fwy eang (Jenkins, 1998a, p. 119). Roedd gwerthwyr llyfrau proffesiynol, yn hytrach na phedleriaid, bellach yn rhan hollbwysig o'r rhwydwaith cyhoeddi (Jenkins, 1978, p. 249).

<sup>90</sup> Ganwyd Tomos Jones yn fab i deiliwr yn nhref degwm Tre'r-ddôl ger Corwen ar 1 Mai 1648. <sup>90</sup> (Jenkins, 1990, p. 51) ac yn ôl traddodiad dilynodd yr un alwedigaeth. Tyb Geraint H. Jenkins yw bod teilwriaid yn cyfnod yn tueddu i fod yn bobl mwy diwylliedig na'r ffermwyr neu'r llafurwyr, am nad oedden nhw'n blino'n gorfforol ac felly bod modd iddynt ddarllen a siarad heb i hynny ymyrryd â'u gwaith (Jenkins, 1980, p. 1).

rhai o gyhoeddwyr eraill ei gyfnod ond yn hytrach darparu ar gyfer y chwaeth diwylliannol ac ieithyddol a fodolai eisoes yng Nghymru'r 17eg a'r 18ed ganrif. Fel William Salesbury o'i flaen, gwelai'r heriau a wynebai'r iaith, a ystyriai yn rhodd gan Dduw (Jenkins, 1990, p. 4), ond roedd ei ymateb iddynt yn bur wahanol, gan iddo ymdrechu i ddiogelu llenyddiaeth,<sup>91</sup> hynafiaeth a barddoniaeth Gymraeg<sup>92</sup> (Jenkins, 1980, p. 107). Roedd yn rhaid i Thomas Jones gael sêl bendith y wladwriaeth cyn gallu cyhoeddi, a chyfyngodd hynny ar allu cystadleuwyr iddo i gyhoeddi yn Gymraeg.<sup>93</sup> Serch hynny, yr hyn a wnâi Thomas Jones yn rhagflaenydd i genedlaetholdeb modern oedd bod cymhelliad busnes amlwg iddo gyhoeddi yn Gymraeg, a drwy wneud hynny ymelwa ar farchnad oedd bron heb ei chyffwrdd. Cyhoeddodd dros 40 o'i almanaciau Cymraeg, un bob blwyddyn o 1670 tan ei farwolaeth yn 1713 (Llwyd, 1998, p. 102). Costient ddwy geiniog yn unig rhwng 1680 a 1690, a thair cheiniog o hynny ymlaen, a gwyddai y gallai werthu 3,000 o almanaciau yn flynyddol (Jenkins, 1990, p. 79). Gwyddai mai'r unig fodd o ehangu ei farchnad oedd apelio at chwaeth y werin. Roedd 48 tudalen yr almanaciau yn cynnwys ysgrif barn ar bynciau llog y dydd, calendr, rhagolygon y tywydd, colofn broffwydol yn darogan y dyfodol, yna adran yn cynnwys barddoniaeth a cherddi, adran yn dysgu darllen a rhifo, a hysbysebion amrywiol. Roedd yr almanaciau hyn ar y naill law yn hybu llythrennedd, ac ar y llall yn hybu ymwybyddiaeth darllenwyr a oedd yn byw mewn ardaloedd diarffordd o fodolaeth Cymry eraill (Jenkins, 1990, pp. 54, 56, 74, 79, 81). Er bod almanaciau eisoes yn boblogaidd yn Saesneg, roedd almanac Thomas Jones yn cynnwys rhai

---

<sup>91</sup> Byddai'n gofalu achub hen lawysgrifau prin Cymraeg bob cyfle a gâi. Gwyddai mai "pechod o'r mwyaf" oedd caniatáu i lyfrau bydru a disgyn yn ddarnau heb sicrhau bod y wybodaeth oedd ynddynt yn goroesi (Jenkins, 1980, pp. 86, 108).

<sup>92</sup> Er enghraifft, ei nod wrth gyhoeddi ei eiriadur, *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*, yn 1688, oedd hybu gallu'r werin bobl i ysgrifennu a sillafu yn Gymraeg a Saesneg. (Llwyd, 1998, p. 101) Dengys cyhoeddi'r geiriadur nad elw oedd ei unig gymhelliad. "At bobl gyffredin, tlawd eu byd a sathredig eu hiaith, yr anelai, ac nid at wybodusion a chyfoethogion y genedl.... a dylid ei ystyried fel rhan o'r ymgyrch i sicrhau mai pobl gyffredin Cymru fyddai ceidwaid yr iaith" (Jenkins, 1980, p. 115).

<sup>93</sup> Cymerai falchder mawr yn y ffaith ei fod, yn 1679, wedi sicrhaudd gwarant frenhinol oedd yn ei drwyddedu ef, ac ef yn unig, i ysgrifennu, argraffu a cyhoeddi almanac Cymraeg blynyddol (Jenkins, 1980, p. 9). Cafodd hefyd sêl bendith Cwmni Llyfrwerthwyr Llundain, a addawodd "erlyn, cosbi a threchu'r sawl a feiddiai ymyrryd â'i hawlfraint" (Jenkins, 1990, p. 51). Gellid dadlau bod hyn wedi ystumio'r farchnad llyfrau yng Nghymru i raddau helaeth, gan roi iddo fonopoli oedd yn atal datblygiad almanaciau eraill (Llwyd, 1998, p. 102).

elfennau a fyddai wedi apelio'n arbennig at ei ddarllenwyr yng Nghymru, gan gynnwys pwyslais ar farddoniaeth (Llwyd, 1998, pp. 101-2). Cyfraniad mawr arall Thomas Jones oedd cynnig llwyfan newydd i waith y beirdd yn wyneb diffyg cefnogaeth yr uchelwyr<sup>94</sup> (Jenkins, 1990, p. 73). Creodd hyn ymdeimlad o gymuned ymysg beirdd a oedd wedi gwasgaru ar draws Cymru ac nad oeddent o bosib yn ymwybodol o'i gilydd oherwydd yr anhawster i groesi tirwedd mynyddig a chorsiog Cymru. Byddai gweld gwaith ei gilydd mewn print wedi hybu'r ymdeimlad o gystadleuaeth, yn ogystal â chaniatáu i'r beirdd ifanc ddysgu rhywfaint o grefft y beirdd hŷn. Hefyd hyrwyddodd ei Almanac eisteddfodau a osododd y seiliau ar gyfer eisteddfodau heddiw (Llwyd, 1998, p. 102). Roedd ei ymdrechion yn hwb sylweddol i'r farchnad lyfrau yng Nghymru, mewn cyfnod lle'r oedd nifer y llyfrau Cymraeg a argraffwyd ar drai.<sup>95</sup> Efe oedd y cyntaf i geisio sefydlu papur newydd Cymraeg,<sup>96</sup> ac yn fwyaf arwyddocaol o bosib, llwyddodd i greu rhwydwaith ddsbarthu effeithiol yng Nghymru.<sup>97</sup> Tra oedd ymdrechion yr Ymddiriedolaeth Gymreig i ddsbarthu deunydd crefyddol wedi eu cyfyngu i drefi marchnad de Cymru a'r Gororau yn bennaf, llwyddodd Thomas Jones i ddsbarthu ei lyfrau ym mhob cwr o'r wlad am y tro cyntaf. Yn ôl Geraint H. Jenkins, y prif awdurdod ar fywyd Thomas Jones, ef oedd "tad y fasnach argraffu Gymraeg" (Jenkins, 1980, pp. 14, 93-4).

---

<sup>94</sup> Roedd Thomas Jones hefyd yn barod i feirniadu'r uchelwyr oedd wedi troi cefn ar y Gymraeg a'i diwylliant. Roedd eu diffyg diddordeb yn niwylliant y genedl yn peri gofid mawr iddo, ac fe fu'n barod iawn i "saethu ergydion" tuag atynt o'r herwydd<sup>94</sup> (Jenkins, 1980, pp. 86, 107-8)

<sup>95</sup> Argraffwyd 30 o lyfrau Cymraeg yn ystod yr 16eg ganrif, a 150 yn ystod yr 17eg ganrif (Williams, 1998, p. 49), ond roedd arwyddion gofidus mai lleihau yn hytrach na chynyddu oedd nifer y llyfrau Cymraeg oedd yn dod o'r wasg argraffu o'r 1660au ymlaen (Llwyd, 1998, p. 93).

<sup>96</sup> Methodd, serch hynny, o ganlyniad i dybiaeth y llyfrwerthwyr na fyddai ei ddarpar gwsmeriaid yn gallu fforddio prynu papur bob mis. Mae'n drawiadol hefyd mai ei reddf gyntaf oedd darparu papur newydd Cymraeg a fyddai'n crynhoi holl newyddion Lloegr ar gyfer y Cymry (Jenkins, 1978, p. 234). Serch hynny, fel yr awgrymir yn yr wythfed bennod yng nghyd-destun y 19eg ganrif, os oedd ddsbarthu newyddion o fewn Cymru yn heriol, byddai casglu newyddion yn dalcen caletach o lawer.

<sup>97</sup> Fel y soniwyd eisoes wrth drafod tirwedd a diffyg isadeiledd Cymru, roedd y broses yn araf a'i werthwyr yn annibynadwy. Ond yn 1695 ar ôl diwygio'r Ddeddf Drwyddedu a gyfyngai argraffu i Lundain, Rhydychen a Chaergrawnt, symudodd Thomas Jones o Lundain a sefydlu ei argraffwasg ei hun yn Hill's Lane yn yr Amwythig, a fu'n ganolbwynt i'r byd argraffu Cymraeg drwy gydol y 18fed ganrif (Jenkins, 1978, p. 232). Roedd yn un o drefi masnachol pwysicaf y gororau, ac roedd wedi ei lleoli mewn safle delfrydol i allu ddsbarthu llyfrau i ogledd a de Cymru. Roedd hefyd yn ddigon agos i'r ffin iddo allu teithio i Gymru a delio'n bersonol â llyfrwerthwyr y wlad (Jenkins, 1980, p. 12). Sicraodd fod ganddo gynrychiolwyr a fyddai'n gwerthu ei lyfrau i siopau ac unigolion mewn nifer o drefi marchnad a phentrefi ledled Cymru, yn ogystal â phedleriaid i werthu ei lyfrau mewn ffeiriau ac o ddrws i ddrws. Ar ben hynny dechreuodd werthu llyfrau Cymraeg drwy danysgrifiad, er mwyn sicrhau y byddai cynulleidfa ar gyfer ei lyfrau cyn buddsoddi arian ynddynt (Llwyd, 1998, p. 102).



Er gwaethaf ei ymdrechion, parhau i lusgo byw a wnâi'r farchnad lyfrau yng Nghymru tan ail hanner y 18fed ganrif. Ond mae ei ymdrechion yn rhoi rhyw syniad i ni o'r math o weithgarwch diwylliannol a allai fod wedi bodoli yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn pe bai Cymru wedi meddu ar economi fewnol ffyniannus, a dichon y buasai o ganlyniad fwy o bwyslais ar ddiwylliant ac iaith unigryw y Cymry yn hytrach nag ar yr elfen grefyddol yn unig. Dywed Geraint H. Jenkins: "Gwyddai Thomas Jones yn dda mai iaith a llenyddiaeth Gymraeg oedd maeth bodolaeth y genedl" (Jenkins, 1980, pp. 108, 119, 122). Yng ngoleuni'r hyn a wyddom am rym yr argraffwasg wrth hybu cenedlaetholdeb, nid yw'n ormod awgrymu y gallai cyhoeddi deunydd poblogaidd o'r fath ar gyfer y werin, nad oedd wedi ei gyfyngu i faterion crefyddol yn unig, fod wedi hwyluso creu cenedlaetholdeb ieithyddol torfol. Ond yn absenoldeb marchnad o'r fath, pennwyd hunaniaeth genedlaethol y Cymry gan rymoedd allanol a oedd yn meddu ar y cyfalaf i gyhoeddi yn Gymraeg ac a oedd yn awyddus i sicrhau eu tawelyddiaeth grefyddol a'u teyrngarwch i'r genedl-wladwriaeth ganolog.

Serch hynny, ni ellir dadlau bod William Salesbury a'i gyd-ddyneiddwyr a oedd mor ddylanwadol wrth lunio hunaniaeth ethnogrefyddol y Cymry yn yr 16eg ganrif yn wrthwynebus i'r iaith Gymraeg. Hwylt-hwylt oedd y cyntaf i adnabod pwysigrwydd defnyddio'r wasg brint i ddyfodol yr iaith, a'r cyntaf i fynd ati i gyhoeddi llyfrau Cymraeg printiedig. Nid oeddynt chwaith yn cyd-fynd â'r gred gyffredinol a fodolai yn sgil y Ddeddf Uno nad oedd y Gymraeg yn gyfrwng teilwng ar gyfer astudiaethau deallusol<sup>98</sup> (Suggett, et al., 1997, pp. 90-1). Credent fod gwreiddiau'r Gymraeg yn ymestyn yn ôl i Dŵr Babel, a oedd yn ei gosod cyfuwch â'r Lladin, yr iaith Roeg a'r Hebraeg, ac roedd y Dadeni yn gyfle iddynt

---

<sup>98</sup> Yn eu tyb hwy byddai penderfyniad yr uchelwyr i droi at y Saesneg ac edwino'r traddodiad barddol yn arwain at iaith a fyddai'n "dirywio'n fyrdd o dafodieithoedd gwerinol, heb urddas, na statws, na chywirdeb... Eu ffydd yn yr iaith a'u hysgogodd i neilltuo cymaint o'u hamser a'u hegni i gyhoeddi traethodau gwerthfawr ar ramadeg, orgraff a rhethreg, yn ogystal â geiriaduron, er mwyn ei harddu, ei chyfoethogi a'i safoni, a rhoi bri arni fel iaith wâr" (Suggett, et al., 1997, pp. 90-1).

amlygu hynny. Pryderent yn arw nad oedd eu cydwladwyr wedi llawn werthfawrogi hynafiaeth a gwahanolrwydd eu hiaith a'u hunaniaeth. Canlyniad hyn oedd y pwyslais cynnar ganddynt ar safoni a sefydlogi'r iaith drwy gyhoeddi geiriaduron, llyfrau gramadeg, a thrafodaethau ar ffurfiau llenyddol (Williams, 1967, pp. 46-7, 51). Roeddent hefyd yn ymwybodol o'i phwysigrwydd er mwyn cynnal y syniad bod Cymru yn wlad ar wahân i Loegr. Yn ôl Suggett et al. roedd yr "ysgolheigion Cymreig yn ymwybodol fod yr iaith frodorol yn arwydd sylfaenol o hunanymwybod y Cymro, os nad o'i genedligrwydd". Fel y soniwyd eisoes, roedd y Ddeddf Uno yn dolc i hunan-barch y Cymry Cymraeg. Ond roedd pwyslais y dyneiddwyr ar harddwch a statws y Gymraeg yn donig i hynny, ac yn fodd o godi statws y Gymraeg ymysg eu cyd-Gymry<sup>99</sup> (Suggett, et al., 1997, pp. 90-1). Yn dilyn dirywiad yr ysgolion barddol, gellir dadlau bod y dyneiddwyr, a oedd wedi eu hysbrydoli gan werthoedd y Dadeni, wedi cynnal fflam y syniad o genedl ethnig ieithyddol. Roeddent yn ymfalchïo yn eu swyddogaeth fel 'ceidwaid yr heniaith' (Suggett, et al., 1997, p. 90) ac yn credu bod goroesiad rhyfeddol yr iaith ar ôl wynebu cymaint o heriau dros y canrifoedd blaenorol yn brawf fod gan Dduw gynllun unigryw ar ei chyfer (Williams, 1967, p. 47).

Roedd dyneiddwyr o Gymry oedd yn byw yn Lloegr a'r cyfandir eisoes wedi cyhoeddi llyfrau print mewn amryw ieithoedd brodorol o ddechrau'r 16eg ganrif (Gruffydd, 1998, p. 55), ond cyhoeddwyd y llyfr Cymraeg cyntaf, *Yny Lhyvyr Hwenn*, yn 1546. Yr awdur oedd Syr John Price o Aberhonddu, Ysgrifennydd ar Gyngor y Brenin yng Nghymru a'r Mers.<sup>100</sup> Ond er nad

---

<sup>99</sup> Gellir gweld rhyw fath o broto-Herderiaeth ar waith yma, ac nid yw'n syndod bod Herder yn perthyn i symudiad a elwid yn y 'Ddyneiddiaeth Newydd Almaenig' (Weissman, 1991, p. 58).

<sup>100</sup> Ef oedd y dyneiddwr cyntaf i ymroddi i astudio hanes a llenyddiaeth Cymru. Y gred yw bod y llyfr wedi ei argraffu yn Llundain gan y cyhoeddwr Edward Whitchurch. Mae'r llyfr ei hun yn cynnwys nifer o'r elfennau a welir yn y llyfrau Cymraeg cynnar eraill. Mae'n llyfr dyneiddiol, yn cynnwys sawl testun crefyddol (Catholig yn hytrach na Phrotestannaidd), yn ogystal â'r wyddor a chyfarwyddiadau ar sut i ddarllen yr iaith. Yn y rhagair dywed Syr John Price fod y Brenin yn credu ei fod yn bwysig fod y bobl yn cael budd o'r ffydd Gristnogol, ac felly bod yr awdur yn meddwl ei fod yn briodol cynnwys ambell bwt o'r ysgrythurau yn Gymraeg ar eu cyfer. Mae'r ffaith bod yr awdur yn honni iddo dderbyn sêl bendith y Brenin yn awgrymu i R. Geraint Gruffydd fod Iarll Penfro, William Herbert, wedi dylanwadu ar y Brenin ar ei ran. Er nad yw *Yny Lhyvyr Hwenn* wedi ei gyflwyno iddo, mae llyfr arall gan Syr John Price, *Defensio*, yn cynnwys cyflwyniad iddo ar ôl ei farwolaeth. Y gred yw

William Salesbury oedd y cyntaf i gyhoeddi llyfr printiedig yn Gymraeg mae academyddion yn cydnabod mai ef oedd yr arloeswr yn y maes<sup>101</sup> (Durkacz, 1983, p. 34). Cyfreithiwr o Gymru<sup>102</sup> ydoedd a chafodd ei addysg yn Rhydychen (Gruffydd, 1998, p. 56). Mae'n debyg iddo brofi dwy dröedigaeth yn ystod ei gyfnod yno, i Brotestaniaeth ac hefyd i ddyneiddiaeth, a dysgodd lawer iawn am ieithoedd (Gruffydd, 1998, p. 56). Roedd yr argraffwasg wedi cyrraedd Rhydychen cyn diwedd y 15ed ganrif, ac roedd hefyd yn gartref i sawl ysgolhaig a fu'n dyst i dwf y Dadeni Dysg ar y cyfandir (R.B. Jones, 1994, p. 6). Dywed Gruffydd Aled Williams mai "Rhydychen, mae'n sicr, a wnaeth Salesbury yn ddyneiddiwr: byddai delfrydau a syniadau'r Dadeni megis yn rhan o'r awyr a anadlai yno" (Williams, 1989, p. 41). Yno hefyd y byddai wedi canfod am y tro cyntaf rym a photensial anferth y wasg argraffu, dyfais y byddai'n gwneud mwy o ddefnydd ohoni nag unrhyw un arall o'i gydwladwyr yn ystod y cyfnod<sup>103</sup> (R.B. Jones, 1994, p. 7). Roedd Salesbury ymysg grŵp bychan o ddyneiddwyr oedd ar y naill law yn hyddysg iawn yn eu diwylliant Cymreig eu hunain, ond ar y llaw arall wedi dod i gysylltiad â'r Dadeni a'r Diwygiad ac yn gallu manteisio ar y wasg argraffu. Canlyniad

---

bod nifer o gyhoeddwyr y llyfrau printiedig Cymraeg cyntaf, gan gynnwys William Salesbury, â lle i ddiolch i William Herbert am siarad ar eu rhan yn llys y Brenin. Dywed R. Geraint Gruffydd: "If a connection between Salesbury and Herbert could be demonstrated, it would lend substance to the possibility that, behind the appearance of the first Welsh printed books, there was not only the urge to provide religious instruction in the vernacular, not only the confidence in the language which the humanist vision of the Welsh past had inspired, but also the discreet patronage of a powerful friend at court" (Gruffydd, 1969, pp.105-16). Dyneiddiwr Catholig arall oedd wedi cyhoeddi yn Gymraeg yn ystod y cyfnod oedd Gruffydd Robert. Cyhoeddwyd rhan gyntaf ei lyfr *Dosparth byrr ar y rhann gyntaf i ramadeg Cymraeg yn Milan* yn 1567, ac ymddangosodd pum rhan arall rhwng tua 1584 a 1594. Mae'r llyfr yn cynnwys gramadeg o'r iaith Gymraeg, beirniadaeth lenyddol, a detholiad o gerddi caeth, ond oherwydd ei fod wedi ei gyhoeddi yn Milan ni chafodd ryw lawer o ddylanwad yng Nghymru (Gruffydd, 1998, p. 56).

<sup>101</sup> Mae R. Geraint Gruffydd o'r farn mai ef oedd ffigwr pwysicaf hanes cyhoeddi cynnar yng Nghymru (Gruffydd, 1998, p. 56), a bernir ei gyfraniad tuag at barhad y Gymraeg a'i ddiwylliant yn gwbl dyngedfennol gan Gruffydd Aled Williams (Williams, 1989, pp. 38-9).

<sup>102</sup> Ganwyd yn Llansanan yn Sir Ddinbych, yn ail fab i Annes a Ffwg Salesbury, ond o 1520 ymlaen treuliodd y rhan fwyaf o'i oes ym Mhlas Isa, Llanrwst, tref a oedd wedi dioddef o ganlyniad i wrthryfel: "... the market-place was overgrown and the churchyard frequented by deer" (R.B. Jones, 1994, p. 1).

<sup>103</sup> Byddai Salesbury hefyd wedi trafod llyfrau gwaharddedig diwygwyr blaenllaw, gan gynnwys Martin Luther a William Tyndale (Williams, 1989, p. 22). Byddai ei gyfnod yno wedi herio credoau crefyddol ei blentynod "and planted the seeds of Protestantism in his heart and mind"<sup>103</sup> (R.B. Jones, 1994, p. 7). Roedd Ysbytai'r Gyfraith hefyd yn "nythleoedd cynnar" i Brotestaniaeth. "Hawdd iawn y gallasai cyfnod yn un ohonynt fod wedi cadarnhau tueddiadau Protestannaidd Salesbury" (Williams, 1989, pp. 41-2). Yn ogystal â dylanwad y Dadeni a'r Diwygiad, byddai William Salesbury wedi cymysgu â sawl brodor o wledydd eraill yn Rhydychen, ac wedi gweld sut roeddent yn bwriadu defnyddio'r Dadeni er mwyn rhoi bri a pharch i'w hieithoedd brodorol eu hunain, a sicrhau bod yr ysgrythurau ar gael i'w pobl hwy eu darllen yn eu hieithoedd eu hunain (R.B. Jones, 1994, p. 7).

hynny oedd ei fod yn gweld perygl y byddai'r Cymry yn troi cefn ar y Gymraeg ac yn cofleidio'r Saesneg os nad oedd modd sicrhau bod y Gymraeg yn iaith dysg yn ogystal (Williams, 1998, p. 46). Yr her yn hynny o beth oedd sicrhau bod yr iaith yn un fodern a allai ymdopi â gofynion yr oes newydd (R.B. Jones, 1994, p. 11), a golygai hynny fynd i'r afael â'r wasg argraffu (Williams, 1967, p. 47). Cyhoeddodd y geiriadur Cymraeg/Saesneg cyntaf, *A dictionary in Englyshe and Welshe*, yn 1547 (Durkacz, 1983, p. 34). Yr un flwyddyn â'r geiriadur cyhoeddwyd *Oll Synnwyr pen Kembro Ygyd*, casgliad tenau o ddiharebion Cymraeg oedd ym meddiant y bardd Gruffudd Hiraethog ac a gopiwyd gan Salesbury wrth iddynt deithio gyda'i gilydd i Lundain dair blynedd ynghynt (Gruffydd, 1998, p. 56; Salesbury, 1951). Yn ei ragair i'r llyfr hwnnw mae Salesbury yn galw'n daer am sicrhau bod yr ysgrythurau ar gael yn y Gymraeg.

A yn vynwch ymado yn dalgrwn dec a fydd Christ, a yn vynwch yn lan syth na bo ywch ddim a wneloch ac ef, ac any vynnwch tros gofi ac ebryfygy i ewyllys ef y gyd achlan, mynwch yr yscrythur lan yn ych iaith, mal ac y bu hi y gan ych dedwydd henafieit yr hen Uryttanneit. (Salesbury, 1951, pp. 11-2)

Dadleua Hunter fod defnydd William Salesbury o'r term 'digenhedlu' i ddisgrifio Cymry sydd wedi eu Seisnigo yn *Oll Synnwyr Pen Kembro Ygyd* yn enghraifft gynnar o genedlaetholdeb mewn testunau Cymraeg eu hiaith (Hunter, 1998/1999, p. 91). Mae Salesbury hefyd yn galw ar unrhywun sy'n berchen ar lawysgrifau i sicrhau eu bod nhw ar gael am eu bod nhw'n cynnwys geirfa fydd yn hollbwysig ar gyfer y dyfodol, rhyw fath o "verbal ammunition for the challenges facing the language in the future" (R.B. Jones, 1994, pp. 20, 22). Mae cariad y dyneiddiwr tuag at iaith hefyd yn amlwg wrth iddo gymharu prydfferthwch diarhebion â "sêr yr fyruauen":

Ac atolwc (o chreffwch yn dda) pa peth amgenach yw diarebion mewn iaith, na sylueini, na gwadne, na distie, na resi, na chyple a thrawste, na thuylathe a nenbrenni mewn tuy? ... Ie pa beth yw diarebion a nyd ryw wreichion o anueidrawl ddoethineb Deo, y ar ddangos gwneythyr dyn gynt ar lun y antraethawl ddelw ef? (Salesbury, 1951, p. 13)

Yn 1550 parhaodd gwaith Salesbury i hybu'r iaith pan gyhoeddodd ganllaw i ddarllen y Gymraeg, *A briefe and a playne introduction teaching how to pronounce the letters in the British tong*<sup>104</sup> (Durkacz, 1983, p. 34). Ond ei brif amcan drwy gydol y cyfnod dan sylw oedd sicrhau bod yr ysgrythurau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, sef y cam pwysicaf er mwyn sicrhau fod yr iaith yn goroesi yn oes y Diwygiad a'r Dadeni. Fel arall byddai'r ysgrythur yn anealladwy i bobl Cymry, a'r iaith yn "inadequate to swim with the fast-flowing tides of the Renaissance and the Reformation" (Williams, 1967, p. 47). Roedd Saesneg eisoes wedi dechrau disodli Lladin mewn gwasanaethau o 1547 ymlaen, ac yn 1549 cyhoeddwyd Llyfr Gweddi Gyffredin Thomas Cranmer a olygai fod modd cynnal gwasanaethau cyfan yn yr iaith fain. Golygai hyn fod addolwyr uniaith Gymraeg Cymru hefyd bellach yn derbyn eu gwasanaethau yn Saesneg. Ymateb William Salesbury oedd cyfieithu'r darlleniadau o'r Epistolau a'r Efengylau a geid yn y Llyfr Gweddi Gyffredin i'r Gymraeg a'u cyhoeddi dan y teitl *Kynniver Llith a ban* ym 1551. Cawn yr argraff fan hyn o unigolyn yn ymgymryd â thasg am nad oedd yn teimlo y byddai'n cael ei chyflawni fel arall. Yn ôl Gruffydd Aled Williams

---

<sup>104</sup> Ei obaith, meddai, oedd y byddai o ddefnydd i siaradwyr Saesneg oedd yn bwriadu dysgu'r iaith (Gruffydd, 1998, p. 56). Gan ei fod wedi cyhoeddi saith cyfrol brintiedig ac un llawysgrif rhwng 1547 ac 1552, y gred yw ei fod wedi treulio'r rhan fwyaf o'r blynyddoedd hynny yn Llundain yn goruchwyllo'r gweisg. Ond yn dilyn dyfodiad y Frenhines Gatholig Mari I o Loegr i'r orsedd yn 1553, bu'n rhaid i Salesbury ddychwelyd i Gymru a chadw ei ben i lawr am y tro. Y gred yw ei fod wedi treulio'r blynyddoedd yn ei gartref yn Sir Ddinbych, yn dioddef o "rwystredigaeth ddofn", nes dyrchafu Elisabeth i'r orsedd yn 1558 ac adfer yr hen drefn Brotestanaidd. Roedd llyfrau Salesbury yn y cyfnod cyn 1553 yn "tystio'n huawdl i ehangder diddordebau Salesbury, i'w natur arloesol ac egniol, ac, wrth gwrs, i ffynhonnell ddeublyg ei ysbrydoliaeth, ei ddyneiddiaeth a'i 'Brotestaniaeth'" (Williams, 1989, pp. 43, 45-6).

“difraw a diymadferth” oedd ymateb esgobion Cymru i gyflwyno’r Saesneg i wasanaethau’r wlad. Mae ei ragair i *Kynniver Llith a ban* yn amlygu’r argraff mai “llafurio yn unig a digefnogaeth” yr oedd Salesbury. Ni welai “lygedyn o obaith” y byddai unrhyw un arall yn ymgymryd â’r dasg: “Yr oedd ef wedi ymgymryd a’r gwaith o dosturi at bobl ei wlad a’i genedl ei hun (Williams, 1989, pp. 47-8).

Er mai llafur unigol fu cyfieithu Epistolau ac Efengylau’r Llyfr Gweddi, fe gafodd William Salesbury gymorth Richard Davies, a benodwyd yn esgob Llanelwy yn 1559, wrth fynd i’r afael â’r Beibl ei hun,<sup>105</sup> ac o ganlyniad i’r cydweithio rhwng y ddau gyfaill cyhoeddwyd y Llyfr Gweddi a’r Testament Newydd yn 1567 (Williams, 1989, pp. 43-44, 51). Yn ogystal â chyfieithu’r Beibl i’r Gymraeg, bu’n rhaid darbwylllo cynghorwyr y Frenhines Elisabeth mai trwy gyfrwng y Gymraeg y dylid hyrwyddo Protestaniaeth yng Nghymru (Suggett, et al., 1997, p. 81). Mae fersiwn drafft o ddeiseb gan William Salesbury a gadwyd ymysg papurau’r esgob yn erfyn ar y Cyfrin Gyngor i ganiatáu cyfieithu’r Beibl i’r Gymraeg er mwyn caniatáu i oleuni’r ysgrythur dorri drwy’r tywyllwch annuwiol a oedd yn parhau dros Gymru. Roedd mesur 1563 yn gorchymyn i esgobion Cymru a Henffordd gyfieithu’r Beibl a’r Llyfr Gweddi i’r Gymraeg erbyn Dydd Gŵyl Dewi 1567 a’u defnyddio ym mhob eglwys lle defnyddid y Gymraeg<sup>106</sup> (Williams, 1989, pp. 51-2). Roedd hyn yn newid sylweddol ym mholisi’r Llywodraeth tuag at yr iaith Gymraeg (Williams, 1998, p. 10). Wedi cyhoeddi’r Testament

---

<sup>105</sup> Brodor o Gyffin ger Conwy ydoedd a dreuliodd gyfnod yn Frankfurt yn ystod teyrnasiad Mari (Williams, 1989, pp. 43-44, 51).

<sup>106</sup> Daeth i’r amlwg wedi amser na fyddai’r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn Dydd Gŵyl Dewi 1567, felly bodlonwyd ar gyhoeddi’r Testament Newydd a’r Llyfr Gweddi erbyn hynny. Er iddo gael cymorth Davies, roedd hwnnw’n esgob Tyddewi o 1561 ymlaen a hefyd yn gweithio ar gyfieithu rhannau o Feibl Saesneg yr Esgobion, ac felly credir mai Salesbury a wnaeth y rhan fwyaf o’r gwaith, gan gynnwys tua 85% o’r Testament Newydd. Golygodd y ddwy gyfrol ac ef hefyd fu’n gyfrifol am oruchwylio’r gwaith argraffu, gan dreulio misoedd yn Llundain. Er gwaethaf maint y dasg does dim dwywaith nad oedd yn llafur cariad i Salesbury: “Mae’n sicr mai’r blynyddoedd hyn o frwdfrydedd ac o lafur, o weld breuddwyd oes yn graddol droi’n ffaith, oedd blynyddoedd mawr William Salesbury.” Er gwaethaf hynny roedd y Testament Newydd a’r Llyfr Gweddi, fel fel yn achos *Kynniver Llith a ban*, yn dioddef o’r un orgraff henaidd, y diffyg treiglo a’r duedd i Ladineiddio geiriau (Williams, 1989, pp. 53-4, 56).

Newydd yn 1567 pasiwyd y ffagl ymlaen i William Morgan, a gyhoeddodd ei Feibl Cyssegrlan yn 1588, cyfieithiad newydd o'r Hen Destament a diwygiad o gyfieithiad William Salesbury o'r Testament Newydd (Gruffydd, 1998, p. 58).

Ond er nad oedd unrhyw arwydd o elyniaeth tuag at yr iaith Gymraeg yng ngwaith Salesbury (Durkacz, 1983, p. 34), cyfrannodd at yr hyn a ddisgrifir gan Angharad Price fel y "llyfr mwyaf trefedigaethol yn hanes Cymru" (Price, 2005, p. 82). Roedd yn derbyn yr angen i'r Cymry ddysgu Saesneg er lles eu gwarineb eu hunain ac undod y deyrnas, a dywed yng nghyflwyniad ei *A dictionary in Englyshe and Welshe* mai nod cyhoeddi'r llyfr yw bod y Cymry "therby most spedely obteyne the knolege of the english tōnge throughowt all the countraye..." (Salesbury, 1877, pp. 2-3). Dywed Gruffydd Aled Williams mai'r prif reswm yr oedd yn awyddus i'r Cymry ddysgu Saesneg oedd fel y gallent ddarllen y llyfrau Saesneg Protestanaidd a dyneiddiol oedd yn llifo o'r wasg (Williams, 1989, pp. 45-6). Ond roedd Salesbury hefyd yn gryf o'r farn mai drwy gyflwyno'r ysgrythurau iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg y byddai'r werin bobl yn cael eu hennill i Brotestaniaeth (Durkacz, 1983, p. 34). Dywed R. Brinley Jones fod y gwrthddywediad yma rhwng y Salesbury oedd eisiau i'r Cymry ddysgu Saesneg, a'r Salesbury oedd eisiau cyfieithu llyfrau i'r Gymraeg ar gyfer y Cymry, wedi creu cryn benbleth i ysgolheigion. Awgryma fod y Salesbury ifanc wedi newid ei feddwl ar ôl cyfieithu'r Geiriadur, ac wedi dod i'r casgliad y gellid yn hytrach drosglwyddo gwerthoedd y Dadeni a'r Diwygiad i'r Gymraeg: "...as soon as he perceived how Welsh could meet the demands of that 'culture', he devoted his talent and his energy to writing in Welsh" (Jones, 1994, p. 16). Serch hynny, ceir adlais o eiriau Salesbury mewn llyfrau Cymraeg eraill o'r cyfnod. Yn ei ragair i'r Beibl Cyssegrlan mae William Morgan yntau'n pwysleisio mai peth dymunol yn y pen draw fyddai i'r Cymry ddysgu Saesneg:

Oblegid er bod cael trigolion yr un ynys yn defnyddio'r un iaith a'r un ymadrodd yn beth sydd i'w fawr ddymuno, eto dylid ystyried ar y llaw arall fod maint yr amser a'r drafferth a gymerai i gyrraedd at y nod hwnnw yn golygu ewyllysio, neu o leiaf ganiatáu, fod pobol Dduw yn y cyfamser yn marw o newyn am Ei Air Ef, a byddai hynny'n beth llawer rhy farbaraidd a chreulon. (Morgan, 1980, p. 68)

Awgryma Syr John Prys yn yr un modd yn rhagair *Yn y llyvyr hwnn*: “Am hynny gweddys yw rhoi yngymraec beth or yscrythur lan, o herwydd bod llawer o gymry a vedair darllein kymraeg, heb vedru darllein vn gair o saesnac na lladin...” (Prys, 1951, p. 3). Dywed Peter Roberts mai sail dadlau o blaid cyfieithu'r Ysgrythur i'r Gymraeg oedd “the spiritual needs of Wales were too urgent to wait until they acquired a knowledge of English” (Roberts, 1998, p. 17).

Efallai mai'r crynhoad gorau o safbwynt Salesbury, a'i gyd-ddyneiddwyr o Gymru, oedd eu bod yn fodlon i Gymru gael ei threfedigaethu yn ddiwylliannol, yn grefyddol, ac yn weinyddol, gan gredu y byddai modd osgoi y trefedigaethu milwrol ac ieithyddol fel y digwyddodd yn yr Alban ac Iwerddon. Dywed Roberts fod y dyneiddwyr a'r hynafiaethwyr yng nghyfnod Elizabeth wedi olynu'r beirdd fel ceidwaid fflam cenedlaetholdeb Cymru, ond eu bod wedi rhoi'r pwyslais ar deyrngarwch i'r Frenhiniaeth a themâu imperialaidd. Eu nod ar y naill law oedd cryfhau'r ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig (yn bennaf er mwyn profi eu bod yn gydradd â'r Saeson), tra ar y llall gyfrannu at ffurfiant gwladwriaeth Brydeinig, Duduraidd a Phrotestannaidd. Yn hynny o beth, roedd cynnyrch cynnar yr argraffwasg yn yr iaith Gymraeg yn ymateb gan y dyneiddwyr i'r Diwygiad a'r Deddfau Uno a oedd yn bygwth yr iaith Gymraeg a'r hunaniaeth Gymreig. Dywed bod *Yny Lhyvyr Hwnn* Syr John Price a *Dictionary* William Salesbury yn ymdrech i goleddu “a strong sense of Welsh/British consciousness even as they expressed an unqualified loyalty to the regime and the concept of the unitary state” (Roberts,



1998, pp. 14, 23-5). Yr her fwyaf wrth gyflawni hynny oedd ymlyniad y Cymry wrth Eglwys Rufain. Y datrysiad oedd nid yn unig gyfieithu'r Beibl, ond ei ddefnyddio er mwyn cyflwyno ailddehongliad o hanes y Cymry iddynt eu hunain. Daw'r ailgalibrad hwn o genedlaetholdeb y Cymry i'r amlwg yng nghyflwyniad yr Esgob Richard Davies i'r cyfieithiad o'r Testament Newydd, *Epistol at y Cembra*. Dywed Glanmor Williams fod William Salesbury a'r Esgob Richard Davies wedi mynd ati i ail-ysgrifennu hanes crefydd Ynysoedd Prydain yn sgil y Diwygiad Protestannaidd. Nid oes dim ffynhonell amlwg i'r honiad a geir yn y cyflwyniad gan Davies fod y Cymry wedi gwrthod ymwneud â chrefydd lwgr yr Eingl-Sacsoniaid nes iddynt gael eu bygwth ag arfau. Yr esboniad, meddai Williams, oedd bod y ddau ddyneiddiwr hyn yn arbennig o awyddus i ddarganfod eglwys Geltaidd nad oedd wedi ei llygru gan Babyddiaeth yn sgil dyfodiad Awstin, Archesgob cyntaf Caergaint (Williams, 1967, pp. 212-3). Awgryma Anthony Smith yn yr un modd fod y cyflwyniad hwn yn hollbwysig i ffurfiad cenedlaetholdeb crefyddol Cymru oherwydd ei fod wedi pwysleisio'r syniad nad dyfeisiad Seisnig oedd yr Eglwys Brotestannaidd ond yn hytrach dychweliad i Eglwys Geltaidd wreiddiol y Prydeinwyr (Smith, 2003, p. 129). Mae Richard Davies yn galw ar y Cymry: "Paid ath ddigenhedlu, paid ath ddifrawy, paid ac edrych ir llawr, tremia i vyny tu ar lle ich hanyw..."<sup>107</sup> Dywed Peter Roberts mai byrdwn neges Richard Davies oedd bod y Cymry, wrth gyfieithu'r Beibl, wedi adfer eu crefydd wreiddiol a lygrwyd gan yr Eingl-Sacsoniaid ag amhuredd Rhufain (Roberts, 1998, p. 17). Nod Davies wrth roi "nationalist complexion" i'w neges oedd wfftio'r prif wrthwynebiad i Brotestaniaeth yng Nghymru, sef mai crefydd Seisnig ydoedd:

God in his infinite mercy had vouchsafed them a new opportunity of embracing, not a new-fangled error, but the ancient faith of their nation in its golden age. He seemed to be turning the tables on them completely by showing that Romish

---

<sup>107</sup> Dyfynnwyd yn (Roberts, 1998, p. 20).

religion, far from being in the national tradition of the Welsh, was something degrading imposed upon them by their enemies. (Williams, 1967, p. 213)

Roedd y pwyslais hwn ar genedlaetholdeb crefyddol o fewn fframwaith cenedlaetholdeb dinesig Lloegr yn rhan o ymdrech ehangach i amnewid cenedlaetholdeb diwylliannol y Cymry am un a oedd yn rhoi'r pwyslais ar deyrngarwch i'r Frenhiniaeth a Phrotestaniaeth: "Beth oedd Mab Darogan... i'w gymharu â Meseia...?" (Morgan, 1991, p. 5) Argraffwyd gan Humphrey Llwyd a David Powel *The Historie of Cambria, now called Wales* a wfftiai Owain Glyndwr a gweithgarwch y Cymry ar ôl eu concwest gan Edward I, gan nodi yn hytrach mai Owain Tudur oedd y mab darogan: "The subtext is that the subsequent rise of the Tudors was sufficient recompense for the loss of independence" (Roberts, 1998, pp. 23-5). Dadleuai Charles Edwards, awdur *Y Ffydd Ddiffuant* (1667), "one of the most influential books in the formation of Welsh culture" yn ôl Ieuan Gwynedd Jones, fod uno Cymru a Lloegr yn weithred gan Dduw er mwyn sicrhau y byddai Cymru'n cael y Beibl yn ei hiaith ei hun (Jones, 1992, p. 59). Drwy ailddhongli hanes Cymru, felly, crewyd am y tro cyntaf egin cenedlaetholdeb modern ar gyfer y Cymry, ond gyda'r nod o bontio'r gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr, a chrefydd a'r frenhiniaeth fyddai'r glud a'u daliai ynghyd.

Gellid dadlau bod gweithgarwch y dyneiddwyr wedi achub y Gymraeg rhag yr un dynged a wynebodd rhai o'r ieithoedd Celtaidd eraill, gan godi ei statws mewn un maes o leiaf, a hwnnw'n un pwysig, a drwy wneud hynny ddad-wneud rywfaint o ddfrod y Ddeddf Uno ac ymdrechion eraill i annog y Cymry i fabwysiadu'r Saesneg<sup>108</sup> (Suggett, et al., 1997, p. 81).

---

<sup>108</sup> Roedd y newid agwedd tuag at y Gymraeg yn dipyn o dro pedol o'i gymharu â'r Ddeddf Uno gwta 27 mlynedd ynghynt, a mae hynny mae'n debyg "yn deyrnged nid bychan i rym ewylllys a dyfalbarhad Salesbury a Davies" (Williams, 1989, p. 19). Dywed E. Wyn James nad oes modd gorbwysleisio dylanwad cyfieithu'r Beibl wrth gynnal yr iaith Gymraeg a hunaniaeth Gymreig yn y Gymru fodern (James, 2001, p. 20).

Roedd defnyddio'r Gymraeg yn iaith addoli wedi llacio'r pwysau o du'r llywodraeth am gymhathu Cymru'n ddiwylliannol ac yn weinyddol i mewn i Loegr (Roberts, 1998, p. 17), ac wedi gwneud yn iawn i raddau am ei diffyg statws fel iaith weinyddol (Suggett, et al., 1997, pp. 81-2). Ac o ystyried y pwysigrwydd a roddir gan Eisenstein (1983, pp. 82, 165) wrth drafod safoni a sefydlogi ieithoedd fel cam tuag sicrhau eu goroesiad a ffurfio cenedlaetholdeb ar eu sail, gellid dadlau bod sefydlu'r Gymraeg yn iaith brint hefyd yn gam pwysig tuag at ei pharhad – carreg filltir y bu'r ieithoedd Celtaidd eraill yn arafach yn ei chyrraedd (Williams, 1998, p. 49). Ni chafwyd Beibl Cernyweg o gwbl, doedd dim Beibl Gwyddeleg tan 1685, a dim Beibl yn yr iaith Aeleg tan y 19eg ganrif (Williams, 1989, p. 60). Petai Cymru wedi parhau yn wlad Gatholig, meddai Philip Jenkins, mae'n debygol y byddai'r Gymraeg wedi wynebu'r un stigma â'r ieithoedd Celtaidd eraill hyn, ac y byddai'r Saeson wedi cymryd camau milwrol yn erbyn y Cymry (Jenkins, 1995, p. 117). Dywed Prys Morgan fod y Llywodraeth wedi ystyried “settling Wales with colonies of faithful loyal Englishmen” pe na fyddai Cymru wedi derbyn Protestaniaeth, ond llwyddwyd i'w darbwyllo fel arall yn dilyn cyhoeddi'r Beibl Cymraeg a pharodrwydd y Cymry i gofleidio Protestaniaeth<sup>109</sup> (Morgan, 1988, p. 65). Roedd effaith y Beibl ar y Gymraeg yn ddeublyg, felly. Drwy ei chlymu i'r grefydd Brotestannaidd, sicrhawyd y byddai'n parhau yn berthnasol am ganrifoedd. Ond ar yr un pryd, gwnaethpwyd yr iaith yn rhan o naratif cenedlaethol ethnogrefyddol cenedl-wladwriaeth ehangach, gan sicrhau na fyddai'n arf yn nwylo cenedlaetholwyr Cymreig nes bod ei chysylltiad â chrefydd yn dechrau llacio ar ddiwedd y 19eg ganrif. Dywed Roberts mai disodli imperialaeth filwrol gyda imperialaeth ddiwylliannol Brotestannaidd oedd hyn; ond roedd Salesbury a Morgan, hyd yn

---

<sup>109</sup> Yn ôl Philip Jenkins, nid oedd llawer o frwdfrydedd yng Nghymru dros y Diwygiad yn ei ddyddiau cynnar. Roedd y wlad ar y cyfan wedi parhau'n ffyddlon i Gatholigiaeth, hyd yn oed ymysg y glerigaeth, a'r tu hwnt i rai trefi bychain fe'i hystyrid yn ffenomenon Seisnig a Saesneg. Ond newidiodd hyn yn gyfan gwbl rhwng 1580 ac 1640 wrth i Brotestaniaeth ddod yn rhan ganolog o hunaniaeth genedlaethol y Cymry. Dywed Jenkins: “The Anglican Church had quite literally become something worth dying for...” (Jenkins, 1995, pp. 116-7) Gwelwn adlais yma o eiriau Benedict Anderson, sef mai'r hyn sy'n gwahanu cenedlaetholdeb ac ideolegau: “... neither Marxism or Liberalism are much concerned with death and immortality. If the nationalist imagining is so concerned, this suggests a strong affinity with religious imaginings” (Anderson, 1991, p. 10).

oed wrth iddynt bwysleisio y dylai pawb yng Nghymru a Lloegr siarad Saesneg, wedi achub y Gymraeg “from disintegration and decline”. Adferwyd yr ymdeimlad o genedlaetholdeb ar wahân, tra yr un pryd y clymwyd y Cymry yn agosach fyth at Loegr (Roberts, 1998, pp. 8, 14, 20).

Rhaid gofyn i ba raddau y gellid ystyried yr hunaniaeth Brotestannaidd hon a feithrinid gan y dyneiddwyr yn wedd ar genedlaetholdeb. Dywed Claydon a McBride na ddylid meddwl bod hunaniaeth Brotestannaidd yn ddigon ohoni ei hun i greu ymdeimlad o undod cenedlaethol. Roedd Protestaniaid y canrifoedd yn dilyn y Diwygiad yn parhau i ystyried crefydd yn fater cyfriniol yn hytrach na dynol, ac roedd bodolaeth sawl cymuned Brotestannaidd ledled Ewrop, yn ogystal â dylanwad parhaol Pabyddiaeth o fewn y deyrnas, yn golygu nad oedd yn fater syml o feddwl amdanant eu hunain fel grŵp unedig dan warchae o’r tu allan. Dywed Claydon & McBride fod Protestaniaeth yn “unlikely bedrock for nationality in the early modern period”. Serch hynny, roedd yn amlwg bod Protestaniaeth yn cyfrannu mewn rhai ffyrdd tuag at ymdeimlad y bobl o hunaniaeth genedlaethol: “there is too much evidence that many thought the two were interlinked for the idea of a close connection to be denied” (Claydon & McBride, 1998, p. 15). Ond gellid dadlau bod crefydd eisoes yn greiddiol i hunaniaeth y Cymry, a hynny ers yr Oesoedd Canol. Roedd y mynach Gildas wedi cyfeirio at y Prydeinwyr fel cenedl a gosbwyd gan Dduw yn yr un modd â phobl Israel gan ddyfodiad yr Eingl-Sacsoniaid yn y chweched ganrif (Smith, 2003, p. 116). Addurnwyd y chwedl hon ymhellach gan Sieffre o Fynwy, a nododd yn ei *Historia Regum Britanniae* yn y 12fed ganrif i Gymru golli ei gafael ar Brydain oherwydd ei chamweddau. Er iddo fawrygu’r Prydeinwyr ‘gwreiddiol’, ei nod yn y bôn oedd pwysleisio mai yn rhan o un genedl dan goron Llundain oedd lle’r Cymry. Fel y nododd John Davies yn ei gyfrol *Hanes Cymru*: “hegemoni Llundain a hybwyd ganddo, ac esmwythodd y ffordd i’r Cymry hynny a chwenychai dderbyn eu lle o dan yr hegemoni honno”

(Davies, 2007a, p. 112). Roedd dadansoddiad dychmygol Sieffre o Fynwy o hanes y Cymry yn ddylanwad creiddiol ar y modd y syniai'r Cymry am eu hunaniaeth am ganrifoedd lawer, yn wir tan oes cenedlaetholdeb: "Welsh Protestant historiographers down to the nineteenth century are, to a large degree, heirs to the myths and traditions which abounded in medieval and early modern Wales, and heirs in particular of Geoffrey of Monmouth's twelfth-century *Historia Regum Britanniae*..." (James, 2001, p. 21). Gellid olrhain i'r canol oesoedd gred yr Ymneilltuwyr y dylai'r Cymry ymddwyn mewn modd mwy moesol na'u cymdogion Seisnig (gan ofni y gallent ddiodeff yr un ffawdd â'u cyndadau Brythonaidd), bod hynt ieithoedd ar y cyfan yn fater o ragluniaeth, ac mai dim ond Duw oedd â'r gallu i ddinistrio'r Gymraeg a chenedl y Cymry. Cofnodwyd gan Gerallt Gymro'r ddwy gred olaf yn ystod sgwrs rhwng Brenin Lloegr, Harri II, a milwr oedrannus o Gymro. Dywed fod y genedl wedi ei "gorthrymu, yn wir, ac i raddau helaeth iawn ei distrywio a'i llesgáu" o ganyniad i ymdrechion y Brenin, fel y gwnaethpwyd sawl gwaith o'r blaen. Serch hynny, fe fyddai y Cymry a'u hiaith yn goroesi tan Ddydd y Farn.

Yn llwyr, fodd bynnag, trwy ddigofaint dyn, oni bo hefyd ddigofaint Duw yn cydredeg ag ef, ni wneir ei dileu. Ac nid unrhyw genedl arall, fel y barnaf fi, amgen na hon o'r Cymry, nac unrhyw iaith arall, ar Ddydd y Farn dostlem gerbron y Barnwr Goruchaf, pa bynnag a ddigwyddo i'r gweddill mwyaf ohoni, a fydd yn ateb dros y cornelyn hwn o'r ddaear.<sup>110</sup> (Jones, 1938, pp. 231-2)

---

<sup>110</sup> Mae'r sgwrs yn un ddiddorol o safbwynt damcaniaethau ynghylch cenedlaetholdeb modern. Yn gyntaf, mae'n awgrymu ymwybyddiaeth o hunaniaeth genedlaethol, yn ogystal â bodolaeth cenedlaetholdeb ieithyddol a chrefyddol torfol. Yn ail, mae'n awgrymu bod y cenedlaetholdeb hwnnw, ym marn y dyn hwn o leiaf, yn rhywbeth sy'n deillio o'r bobl ac nid ei meistri – nid model 'o'r top i lawr' modernwyr megis Hroch a geir yma, ond yn hytrach cenedlaetholdeb sy'n ail-flaguro o'r gwaelod i fyny. O 'dorri pen' – yn llythrennol efallai – y genedl Gymreig, byddai'n goroesi. Yn drydydd, fel y soniwyd eisoes, mae'n awgrymu mai un nodwedd gynnar ar genedlaetholdeb Gymreig oedd y gred bod yr iaith yn anorchfygol, ac y byddai'n parhau hyd nes i Dduw benderfynu fel arall.

Yn ystod yr oesoedd canol yn ogystal daw tuedd arall i'r amlwg sydd i'w gweld yn amlwg iawn yn y 19eg ganrif hefyd, sef drwgdybiaeth tuag at Eglwys Loegr ac ymlyniad at Gristnogaeth Brydeinig (Smith, 2003, p. 127). Credai Bernard, Esgob Normanaidd cyntaf Tŷ Ddewi y dylai fod yn annibynnol ar Gaergaint, a brwydrodd Gerallt Gymro yntau dros yr un achos (Walker, 1990, pp. 71-80). Dadleuai E. Wyn James fod Cristnogaeth y Cymry wedi bod yn nodwedd wahaniaethol ers ffurfio'r 'genedl' yn sgil dadfeiliad yr Ymerodraeth Rufeinig a dyfodiad yr Eingl-Sacsoniaid paganaidd<sup>111</sup> (James, 2001, p. 15). Awgryma Anthony Smith yn ogystal fod ymdeimlad o "cultural community, if not of nationhood" wedi datblygu yng Nghymru yn yr oesoedd canol a oedd yn rhannol seiliedig ar ei Christnogaeth (Smith, 2003, p. 127). Er bod dyneiddwyr megis Richard Davies wedi troi'r credoau hyn i'w melin eu hunain, mae'n amlwg bod ganddynt wreiddiau dwfn yn ymdeimlad y Cymry o'u hunaniaeth fel pobl.

Onid oes gwrthddywediad yma, rhwng dadlau bod cenedlaetholdeb modern yn gysyniad sy'n perthyn i'r cyfnod ar ôl diwydiannu yn unig, ond bod modd olrhain meddylfryd cenedlaethol y Cymry yn ôl i gyfnod y Tuduriaid a thu hwnt? Credaf fod modd addasu rhywfaint ar un o'r fframweithiau damcaniaethol a drafodwyd eisoes er mwyn esbonio sut y gall hyn ddigwydd. Fel y soniwyd yn yr ail bennod, mae dau academydd eisoes wedi ceisio dehongli damcaniaeth 'tri cham' Hroch yng nghyd-destun Cymru. Ystyria Richard Wyn Jones mai Cam A oedd Morrisiaid Môn, Iolo Morganwg a rhamantwyr eraill y 18fed ganrif. Cam B oedd Emrys ap Iwan a Michael D. Jones, ac mae'n ansicr a gyflawnwyd Cam C o gwbl nes sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol ar drothwy'r 21ain ganrif (Jones, 2007, p. 29). Awgryma Brooks na ddigwyddodd Cam A hyd nes i John Morris-Jones safoni'r iaith Gymraeg, Cam B nes i Saunders Lewis sefydlu Plaid Cymru, a mae cam C yn dechrau dwyn ffrwyth o'r 1960au

---

<sup>111</sup> Credent fod Beibl Cymraeg wedi bodoli ar un cyfnod, ac mai dyna oedd sail Cristnogaeth y Brythoniaid (Williams, 1998, p. 47). Roedd hefyd yn hysbys fod llawysgrif yn cynnwys y pedair efengyl wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg yn y 13eg ganrif, ond os oedd yn bodoli does dim o'i hól erbyn hyn (Durkacz, 1983, p. 34).

ymlaen (Brooks, 2010, p. 24). Yn *Pam na fu Cymru* mae'n awgrymu deallusion ceidwadol yr 1820au a'r 1830au, megis cylch Llanofar, fel Cam A posib (Brooks, 2015, p. 24). Yng nghydestun damcaniaethau modernaid am egino cenedlaetholdeb, mae yna dueddiad dealladwy felly i'w osod ar drothwy'r 19eg ganrif a'r tu hwnt yn unig. Ond dylid cofio bod Hroch ei hun yn dadlau bod rhai cenedloedd, megis Lloegr wedi bod yn araf ddatblygu'n genedlwadwriaethau modern ers yr Oesoedd Canol, ac eisoes yn meddu ar elît llywodraethol ag egin-bourgeoisie diwydiannol a oedd yn ddiwylliannol unffurf. Dywed hefyd y dylai mudiad cenedlaethol fod wedi dechrau ymffurfio cyn dechrau diwydiannu. Os felly, a'n bod yn derbyn bod cenedlaetholdeb ethnogrefyddol y Cymry wedi datblygu dan ddylanwad ymdrechion y dyneiddwyr yn Lloegr yn yr 16eg ganrif, nid oes rheswm amlwg i gyfyngu ein dadansoddiad i'r 19eg ganrif.

Fel y nodwyd yn y bennod gyntaf, prif gŵyn y modernwyr yn erbyn trafod datblygiad cenedlaetholdeb cyn cyfnod diwydiannu oedd nad oedd gweisg eto'n bod a alluogai gyfathrebu torfol, a bod angen chwalu'r system ffiwdal a fodolai ynghynt. Fel y gwelwyd, ni ellir dadlau bod hyn wedi digwydd yng Nghymru tan y 19eg ganrif. Serch hynny, dim ond cam C ym model Hroch sy'n galw am genedlaetholdeb *torfol*. Y cyfan sydd ei angen er mwyn gwireddu cam A yw bod ysgolheigion, llyfrgellwyr, clerigwyr ac eraill a oedd yn gwasanaethu 'elît' y genedl yn dechrau llunio naratif ynghylch nodweddion unigryw ieithyddol, hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol y grŵp. Rydym yn gweld dylanwad ysgolheigion megis Gildas, Sieffre o Fynwy, a Gerallt Gymro, ar genedlaetholdeb diweddarach. Dengys Lynch fod elfen gref o hanesyddiaeth yn ogystal â phroffwydoliaeth yn perthyn i ganu proffwydol y beirdd proffesiynol a wasanaethai'r 'elît' yng Nghymru yn yr oesoedd canol. Yn fwyaf arwyddocaol, roedd y gred mai'r Cymry oedd gwir berchnogion Ynys Brydain, ac y byddent yn ei hailfeddiannu, eisoes yn elfen ganolog ynddo (Lynch, 2007, p. 28). Dyma'r deunydd crai yr

oedd y dyneiddwyr yn ymdrin ag ef wrth lunio taflwybr newydd ar gyfer cenedlaetholdeb Cymreig. A ellir felly ystyried eu gweithgarwch nhw yng nghyd-destun cam B Hroch? Nodwyd eisoes fod Greenfeld yn dyddio cenedlaetholdeb modern Lloegr o oes y Tuduriaid, gyda'r diwygiad Protestannaidd, chwalu'r hen system ffiwdal, a chynnydd yng ngrym y senedd ac o ganlyniad y bobl (Greenfeld, 1992a, pp. 45-47, 51-66). Ni ddigwyddodd yr un o'r pethau hyn yng Nghymru, ond roedd modd iddynt ddigwydd yn Llundain, Rhydychen a Chaergrawnt. O ganlyniad i ymdrechion y dyneiddwyr, safonwyd a sefydlogwyd yr iaith Gymraeg, a dosbarthwyd Beiblau Cymraeg ar raddfa dorfol i Gymru. Diddorol yw ystyried cyhoeddi'r Beibl yng nghyd-destun damcaniaeth Michael Billing am genedlaetholdeb 'poeth' a 'banal'. O dderbyn bod math o ymwybyddiaeth o genedligrwydd 'poeth' torfol eisoes yn bodoli yng nghanu proffwydol yr Oesoedd Canol – “ffyrnig o wrth-Seisnig” yng ngeiriau Morgan (Morgan, 1991, p. 7) - gellid awgrymu mai'r hyn a gyflawnwyd gan y Beibl Cymraeg oedd ei drawsnewid yn fath o genedlaetholdeb 'banal' a oedd yn clymu Cymru at Loegr. Anogwyd y bobl i dderbyn eu lle o fewn gwladwriaeth Lloegr drwy eu hargyhoeddi *mai eu syniad nhw oedd y drefn newydd Brotestannaidd o'r cychwyn cyntaf*. Atgyfnerthwyd y cenedlaetholdeb anweledig, 'banal', hwn yn gyson gan y Beibl Cymraeg ei hun; arwydd hollbresennol eu bod yn rhydd rhag gorthrwm Rhufain ac yn meddu ar yr un hawliau â phob dyn arall o fewn y genedl-wladwriaeth, ac wrth gwrs fod yr union ryddid hwnnw yn rhodd gan y Frenhiniaeth. O dderbyn dadl Lynch y gall canu'r beirdd esgor ar fath o genedlaetholdeb torfol, ni ellir yn fy marn i amau y gallai Salesbury, Davies a Morgan, gyda grym yr argraffwasg a'r goron y tu cefn iddynt, ailddhongli cenedlaetholdeb ethnig Cymreig er mwyn cwrdd â'u dibenion eu hunain. Dyma wedd ethnogrefyddol ar genedlaetholdeb Cymreig na chyraeddodd ei phenllanw tan ail hanner y 19eg ganrif, cyn edwino a chaniatáu dyfodiad gwedd newydd ieithyddol ar genedlaetholdeb yn yr 20ed ganrif. Fel y nodwyd eisoes, ychydig yn or-syml yw tri cham Hroch, ac mae ailddadansoddi cyson ar union ffurf yr 'A', 'B' ac 'C'. Ond mae'n



gysyniad defnyddiol er mwyn dangos nad oes rheswm digonol dros eithrio'r Dyneiddwyr megis William Salesbury o'r broses o greu'r cenedlaetholdeb ethnogrefyddol a arddelai'r Ymneilltuwyr yn y 19eg ganrif.

Beth bynnag oedd gwir gymhellion Salesbury, Davies a Morgan (ac efallai nad yw eu gwir gymhellion o bwys), parhaodd eu safbwynt i ddylanwadu'n drwm ar eu holynwyr hyd y 19eg ganrif. Yn ei gyfrol *Agoriad yr Oes* mae Dafydd Glyn Jones yn crynhoi'r modd yr oedd Cymry'r 19eg ganrif yn eu hystyried eu hunain fel a ganlyn: y Cymry oedd y Prydeinwyr gwreiddiol, ond eu bod yn bobl bechadurus. O ganlyniad i'w pechodau penderfynodd Duw eu cosbi, ac fel yr Iddewon gynt y gosb honno oedd colli eu tiriogaeth i ymosodwyr estron, h.y. yr Eingl-Sacsoniaid. Gorfodwyd y Cymry i ffoi o diroedd breision y Lloegr gyfoes i'r gorllewin, gan gelu'r tu ôl i amddiffynfeydd naturiol y tiroedd anghysbell hynny a chrafu byw ar dir mynyddog a charegog. Wedi cwta fil o flynyddoedd penderfynodd Duw gymryd trugaredd arnynt, a rhoddodd iddynt y Mab Darogan a addawyd i'w rhyddhau o'u cathiwed. Daeth Harri VII yn Frenin ar Loegr, gan sefydlu'r llinach Duduraidd a ddaeth â'r ffydd Brotestannaidd i Gymru a rhoi iddynt Feibl yn eu hiaith eu hunain. Rhyddhaodd hynny'r Cymry o afael Pabyddiaeth a rhoi'r gallu iddynt i'w haddysgu eu hunain i ddarllen ac ysgrifennu. Serch hynny, cosb gan Dduw oedd colli sofraniaeth y genedl o hyd, yn hytrach na phroblem wleidyddol y gellid ei datrys, a'r gorau y gallai'r Cymry obeithio amdano oedd byw yn gyfôn â'u concwerwyr a chyfrannu fel y gallent at fawredd y Deyrnas (Jones, 2001, p. 57). Mae cyferbyniad amlwg â'r modd yr oedd y Saeson yn synio amdanynt eu hunain yn yr un cyfnod.<sup>112</sup> Ond mae'n dangos i ba raddau yr oedd yr ailddehongliad hwnnw o hanes y Cymry

---

<sup>112</sup> Mae Hywel Teifi Edwards, yn ei gyfrol *Codi'r Hen Wlad yn ei Hôl*, yn ei grynhoi fel a ganlyn. Roedd rhagoriaeth y Saeson yn tarddu o'u tras 'Germanaidd', a hwy oedd y puraf eu tras o holl bobloedd y ddaear. Hwyt-hwy hefyd oedd athrylithwyr pennaf y byd, ac o ganlyniad syrthiai'r baich o reoli'r byd ar eu hysgwyddau hwy. Roedd gwyddoniaeth newydd Ddarwinaidd yr oes yn pennu mai'r Saeson oedd y meistri, a roedd pawb arall, gan gynnwys y Cymry, yn trigo mewn hierarchaeth oddi tanynt. Roedd hyn yn gyfiawnhad parod dros yr Ymerodraeth, ac fe barhaodd tan y Rhyfel Byd Cyntaf pan beidiodd y Saeson – am resymau tra-amlwg – â

a luniwyd gan y dyneiddwyr yn parhau mewn bri. Dywed Williams: “During the seventeenth, eighteenth, and nineteenth centuries, British historians continued to retain the essentials of the theory of an early Protestant church in Britain...” (Williams, 1967, p. 214). Hyd yn oed os yw’n destun dadlau ai ffurf ar genedlaetholdeb oedd hwn, roedd ei ddylanwad ar y cenedlaetholdeb modern a ddaeth i’r amlwg yn y 19eg ganrif yn glir. Dylid nodi wrth gwrs, mai’r unig reswm y mae unrhyw wedd ar genedlaetholdeb yn aros mewn bri yw ei fod yn parhau i fod yn ddefnyddiol i gwrdd ag amcanion gwleidyddol grwpiau penodol o fewn y genedl. I’r perwyl hwnnw, dadleuaf fod y wedd hon ar genedlaetholdeb ethnogrefyddol wedi parhau mewn bri yn y 18fed a’r 19eg ganrif am ei bod wedi cynnig modd i’r Ymneilltuwyr ddadlau bod y Gymru yr oeddynt yn ei chewenychu yn barhad o draddodiad cenedlaethol llawer hŷn, tra ar yr un pryd yn caniatáu iddynt gynnal eu teyrngarwch i’r elfennau hynny o fewn gweidyddiaeth Prydain nad oeddynt yn wrthwynebus iddynt.

Os y dyneiddwyr a gynrychiolai cam ‘B’ y broses hon, gellid dadlau bod un dyn wedi gwneud mwy na neb arall i sicrhau bod y cenedlaetholdeb ethnogrefyddol hwn yn datblygu yn un torfol, sef Griffith Jones Llanddowror.<sup>113</sup> Meddai ar agweddau tuag at yr iaith oedd yn ymdebygu’n fawr i William Salesbury a Richard Davies yn yr 16eg ganrif, sef y dylai’r Gymraeg barhau i gael ei defnyddio tra oedd yn gyfrwng i achub eneidiau nad oedd modd eu cyrraedd drwy ddefnyddio Saesneg. Ei gyfraniad pennaf oedd sefydlu 3,325 o ysgolion ar draws Cymru, gan roi hwb anferth i lythrennedd yn yr iaith ac yn sgil hynny twf yn nifer y llyfrau Cymraeg a gyhoeddwyd ac a ddarllenwyd. Awgrymir gan sawl hanesydd ei fod wedi chwarae rhan

---

phwysleisio eu tras Almaenaidd. Pan oedd yr Ymerodraeth Brydeinig yn ei hanterth yn ail hanner y 19eg ganrif roedd yr hunan-ymwybyddiaeth hon yn cynnig esgus parod am ei hymgyrchoedd byd-eang: “Yr oedd y myth Eingl-Sacsonaidd yn gosod dwylo Lloegr ar lyw y byd” (Edwards, 1989, p. 156).

<sup>113</sup> Ganwyd ef ym mis Ebrill 1684, ym mhlwyf Pen-boyr, sir Gaerfyrddin (Jenkins, 1980, p. 153), cafodd ei ordeinio yn 1708 (Durkacz, 1983, p. 82), a bu’n rheithor Llanddowror rhwng 1716 a 1761 (Jenkins, 1998a, p. 112).

hanfodol wrth sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg.<sup>114</sup> Serch hynny, parhau â'r ymdrech i Brotestaneiddio Cymry, yn hytrach nag achub yr iaith, a wnaeth Jones. Adeiladodd ar ymdrechion dwy elusen a sefydlwyd yn yr 17eg ganrif, sef yr Ymddiriedaeth Gymraeg a'r Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristnogol, er mwyn lledaenu llenyddiaeth ddefosiynol i sicrhau bod y Cymry yn troi calon ac enaid at y grefydd newydd.<sup>115</sup> Y flaenoriaeth oedd sicrhau bod yr ysgrythurau eu hunain yng nghartrefi'r bobl.<sup>116</sup> Nid oedd Cymru eto wedi ennill ei henw am ei chrefyddolder, a hynny yn bennaf oherwydd natur wledig ac anllythrennog trigolion y

---

<sup>114</sup> Yn ôl Geraint H. Jenkins, ni fyddai'r iaith yn cael ei siarad heddiw heb ei ymdrechion ef. "Drwy roi addysg yn eu mamiaith i bobl na chawsent addysg o fath yn y byd erioed o'r blaen, achubbodd Griffith Jones yr iaith Gymraeg" (Jenkins, 1990, p. 170). Dywed Durkacz yn ogystal fod y gred bod ysgolion teithiol Jones wedi achub yr iaith "from further decay does not seem too far fetched" (Durkacz, 1983, p. 86). Dywed Gwyn Davies yn ei gofiant i Griffith Jones ei fod yn "cael ei gydnabod ar bob llaw fel un o gymwynaswyr mwyaf ein cenedl" (Davies, 1984, p. 9).

<sup>115</sup> Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth Gymreig gan y Parch. Stephen Hughes a Thomas Gouge yn 1674, gyda chefnogaeth sawl anghydfurfiwr o Gymru ac ambell i Anglican nodedig. Sefydlodd ysgolion a darparu Beiblau, ond chwalodd y mudiad pan fu farw Thomas Gouge yn 1681. Rhwng 1699 a 1737 fe fu'r Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristnogol, oedd â changhennau mewn rhannau eraill o Ynysoedd Prydain, yn sefydlu ysgolion a dosbarthu Beiblau yng Nghymru (Durkacz, 1983, pp. 35-6) Yn ôl *Welch Piety*, adroddiad blynyddol ar gyflwr yr ysgolion cylchynol a gyhoeddwyd gan Griffith Jones, sefydlwyd ei ysgol gyntaf yn 1737. Mae'n debyg ei fod eisoes wedi sefydlu sawl ysgol nad oedd yn ysgol gylchynol yn ardal Llanddowror o 1731 ymlaen (Cavenagh, 1930, p. 37). Ond roedd ysgolion elusennol eisoes wedi eu sefydlu yn Llanddowror a Thalacharn yn 1707 ac 1708, ac fe fuasai Griffith Jones yn gyfarwydd iawn â hwy (Cavenagh, 1930, p. 36). Nid Griffith Jones chwaith a gafodd y syniad o sefydlu ysgolion cylchynol yng Nghymru – roedd Syr Humphrey Mackworth eisoes wedi awgrymu gwneud hynny yng Nghastell-nedd am nad oedd modd dod o hyd i ysgolfeistr parhaol yn yr ardal. Fel y dywed F.A. Cavenagh: "The Circulating Schools, although they marked a new departure, were the outcome of previous efforts to provide some education for the poor of Wales; but as these originated in England, they had only partial and short-lived effects" (Cavenagh, 1930, pp. 32, 36). Roedd Griffith Jones ei hun, o 1713, yn aelod gweithgar o'r Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristnogol ac wedi cael profiad uniongyrchol o addysg Gymraeg. A hyd yn oed ar ôl sefydlu'r ysgolion, roedd yn ddiabynnol ar roddwyr hael o Loegr er mwyn eu hariannu. Serch hynny, Griffith Jones oedd y cyntaf i wneud llwyddiant o'r fenter (Jenkins, 1990, p. 164). Roedd y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth yn darparu Beiblau a chatecismau Cymraeg ar eu cyfer (Durkacz, 1983, pp. 82, 84).

<sup>116</sup> Yn absenoldeb gwasg fasnachol ffyniannus, golygai y deuai llawer o'r arian i ddosbarthu llyfrau yng Nghymru gan ddyngarwyr cefnog o Lundain, oedd wedi eu geni yng Nghymru ond a oedd bellach yn rhan o ddosbarth canol cefnog y deyrnas ac yn pryderu ynglŷn ag eneidiau eu cyd-Gymry (Jenkins, 1978, pp. 42, 48, 55). Sylweddolent fod yr uchelwyr wedi troi eu cefnau ar Gymru a bod angen i ysgolheigion a gwladgarwyr cefnog fel hwythau gymryd yr awenau er mwyn diwallu anghenion ysbrydol a diwylliannol y Cymry (Suggett, et al., 1997, p. 93) Eu gweithgarwch nhw oedd yn bennaf gyfrifol am y diwygiad crefyddol a diwylliannol a welwyd yng Nghymru erbyn y 18fed ganrif (Jenkins, 1990, p. xiii). Roedd Stephen Hughes, un o sefydlwyr yr Ymddiriedolaeth Gymreig, yn un o'r dosbarth canol hwn. Ef oedd un o'r cyntaf i sylweddoli y byddai angen teilwra allbwn eu llyfrau Protestannaidd at allu'r darllenwr cyffredin yng Nghymru. Credai mai prif nod gweinidog oedd "to present Christian knowledge in forms intelligible to the lowest levels of society". Roedd dysgeidiaeth Stephen Hughes yn amlwg wedi gwneud argraff ar gyhoeddwyr eraill gan fod llyfrau crefyddol Cymraeg y cyfnod yn tueddu i hepgor unrhyw ymdriniaethau diwinyddol cymhleth. Erbyn diwedd y 17eg ganrif roedd llyfrau Cymraeg o'r fath ar werth ym mhob cwr o'r wlad. Er nad ydyn nhw'n gampweithiau llenyddol roedden nhw'n rhan hollbwysig o'r ymgyrch i drwytho'r Cymry mewn Protestaniaeth: "One of the salient features of this period is that the central doctrines of the Reformation were disseminated intensively in print, in intelligible and popular forms, for the first time in Wales" (Jenkins, 1978, pp. 50-2, 54).

wlad a lynai at hen gredoau,<sup>117</sup> a hefyd Seisnigrwydd yr Eglwys wladol.<sup>118</sup> Roedd yr elusennau hyn, drwy eu hagwedd at yr iaith Gymraeg, yn rhan o'r ymdrech i Seisnigo Cymru:<sup>119</sup> “niwsans ydoedd [yr iaith] ar y gorau, ac ar ei gwaethaf crair barbaraid ac esgymun” (Jenkins, 1980, p. 109).<sup>120</sup> Serch hynny, oherwydd bod ysgolion yr elusennau yn mynnu dysgu drwy gyfrwng y Saesneg roeddent yn aneffeithiol ar y cyfan.<sup>121</sup> Cymerai plant flynyddoedd i ddysgu darllen yr ysgrythur yn Saesneg, a dim ond plant o deuluoedd gweddol gefnog oedd yn gallu fforddio mynychu ysgol gyhyd. Dysgodd Griffith Jones wersi o'u methiant (Durkacz, 1983, pp. 82-4), a chredai y byddai pobl yn dysgu llawer mwy petaent yn gallu darllen yr ysgrythur a llyfrau crefyddol eraill drostynt eu hunain (Jenkins, 1998a, p. 113). Canlyniad y newid hwn mewn methodoleg oedd twf anferth yn nifer y bobl a allai ddarllen Cymraeg.

Fel y dyneiddwyr gynt a'r Ymneilltuwyr yn ddiweddarach, achub eneidiau nid achub y Gymraeg oedd nod Griffith Jones. Symbylwyd ef gan weld “plant a phobl yn marw heb

---

<sup>117</sup> Hyd yn oed erbyn 1818 roedd Joseph Harris (Gomer) yn parhau i resynu at ddylanwad ofergoelion paganaid ar ei gyd-Gymry: “[Mae] lleoedd yng Nghymru uchel-freiniog mor ofergoelus ag y bu'r paganiaid tywyllaf erioed... ymysg pwy y rhestrir holl dylwyth y canhwyllau gyrrff, gwraich y rhibyn a'u holl berthnasau ond ymysg yr ofergoelus a'r hudoleddig yn oesoedd tywyllaf y byd?”<sup>117</sup> (Harris, 1839, p. 320)

<sup>118</sup> Er cyfieithu'r Beibl Cymraeg, roedd yr Eglwys Sefydledig yng Nghymru yn parhau'n rym Seisnig gan mwyaf; siaradwyr Saesneg uniaith oedd yn llenwi'r holl brif swyddi o fewn yr Eglwys yng Nghymru, ac ni phenodwyd esgob oedd yn gallu pregethu yn y Gymraeg i'r un esgobaeth yng Nghymru tan 1870 (Durkacz, 1983, p. 8).

<sup>119</sup> Efallai mai cymwynas fwyaf yr Ymddiriedolaeth oedd llwyddo i greu rhwydwaith dosbarthu effeithiol i gyrion diarffordd Cymru, gan osod seiliau ar gyfer y twf carlamus yn y wasg argraffu yng Nghymru yn y 18fed ganrif (Llwyd, 1998, pp. 99-100, 103). O ganlyniad i'w hymdrechion, roedd y galw am lyfrau Cymraeg am y tro cyntaf yn fwy na'r cyflenwad oedd ar gael, datblygiad y gallai llyfrwerthwyr fel Thomas Jones yr Almanaciwr gymryd mantais llawn ohono drwy gynnig nifer di-ben-draw o lyfrau a baledi crefyddol rhad (Rees, 1998, pp. 123-4).

<sup>120</sup> Ond yn sgil parodrwydd Cymru i lyncu Protestaniaeth yn weddol ddiffwdan roedd eu hagwedd tuag at y Gymraeg yn weddol oddefgar o'i gymharu â'u polisi gwrthwynebus at yr ieithoedd brodorol yn Iwerddon ac ucheldiroedd yr Alban. Yn wahanol i'r ieithoedd hynny, nid oedd y Gymraeg wedi ei chysylltu â Catholigiaeth a gwrthryfel ac felly fe gafodd lonydd (Durkacz, 1983, pp. 33, 35-6, 81). Serch hynny, oherwydd eu bod nhw'n gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, roedd ysgolion y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristnogol “wedi methu ennill parch, llai fyth hoffter, y Cymru”. Y prif reswm oedd am nad oedd dysgu disgyblion uniaith Gymraeg drwy gyfrwng iaith estron ddim yn fodd effeithiol o sicrhau eu bod nhw'n cael addysg. Fel y dywed Suggett et al: “Yr oedd y cynnydd mor araf ac anwastad fel na allai unrhyw gyhoeddusrwydd gelu'r ffaith fod disgyblion uniaith Gymraeg, er gwaethaf cyfnodau maith o addysg Saesneg, yn dal i fethu deall darnau cymharol syml o'r Ysgrythur a rhannau o'r catecism” (Suggett, et al., 1997, p. 88).

<sup>121</sup> Ond yn ôl Victor Durkacz mae'n rhaid cydnabod y seiliau a osododd y mudiadau hyn ar gyfer y dyfodol. Roedd yr Ymddiriedolaeth Gymreig wedi cyfrannu “very largely to the development of Welsh as a vehicle of religious instruction”. Ei phrif gamp oedd ariannu argraffiad newydd o 8,000 o gopiau o'r Beibl Gymraeg yn 1678, oedd yn argraffiad mawr iawn yn ystod y cyfnod hwnnw (Durkacz, 1983, p. 35). Hefyd, roedd y llyfrau eraill a gyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn Gymraeg, ac roeddent yn cael eu rhannu am ddim ymysg y tlawd (Llwyd, 1998, p. 100).

adnabyddiaeth o Grist” wedi i’w ardal gael ei tharo gan deiffws rhwng 1727 ac 1731. Os byddai addysg o unrhyw fudd iddynt y tu hwnt i achub eu heneidiau, byddai eu dysgu yn y Gymraeg o leiaf yn ei wneud yn haws iddynt ddysgu Saesneg (Jenkins, 1990, pp. 163-4, 170). Dywed Victor Durkacz yn yr un modd mai dim ond “means to an end” er mwyn lledaenu Cristnogaeth oedd defnyddio’r Gymraeg yn ysgolion Griffith Jones: “He would have been astonished to learn from present-day historians that the credit for rescuing the Welsh language from neglect and decay was his” (Durkacz, 1983, p. 86). Roedd hefyd yn ystyried y Gymraeg yn rhyw fath o darian er mwyn diogelu’r Cymry rhag dylanwadau allanol, gan gynnwys Anffyddiaeth a Phabyddiaeth (Jenkins, 1998a, p. 112). Roedd perygl felly y gallai’r werin o ddysgu Saesneg fod yn agored i’r dylanwadau hyn. Roedd hefyd yn ymwybodol bod cyflogi athrawon i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn llawer llai costus na gorfod cyflogi rhai Saesneg (Durkacz, 1983, p. 87). Mae barn Griffith Jones ar yr iaith Gymraeg i’w gweld yn ei eiriau ei hun yn y *Welch Piety*:

... I am not at present concerned what becomes of the language, abstractedly considered; nor design to say anything merely to aggrandize or advance its repute. The thing to be cleared up is, whether the chief and greatest end of all, viz. the glory of God, the interest of religion, and salvation of the poor Welsh people, is most likely to be promoted by continuing or abolishing it. (Jones, 1938, p. 38)

Roedd Griffith Jones hefyd wedi galw am dranc yr iaith Wyddelig a Gaeleg yr Alban. Serch hynny, dadleuodd yn *Welch Piety* nad oedd unrhywbeth cynhenid farbaraidd yn y Gymraeg, a bod llenyddiaeth a barddoniaeth yr iaith o safon uchel (Durkacz, 1983, p. 86). Does gan F.A. Cavenagh ddim amheuaeth ynglŷn â chariad Griffith Jones at ei iaith, gan ddweud bod y dadleuon sy’n frith drwy gydol *Welch Piety*, “some sound enough, others fantastical,” yn brawf

o hynny: “With so strong an affection for his own language it is fitting that Griffith Jones should have done as much as anyone man for its perpetuation” (Cavenagh, 1930, pp. 57-60). Serch hynny, mae Edward Durkacz yn drwgdybio bod haneswyr yn gor-bwysleisio cariad Griffith Jones at yr iaith er mwyn cyd-fynd â’u hagenda cenedlaetholgar eu hunain: “Of course these views have received scant attention from his biographers who have been anxious to portray Jones as favouring Welsh education for aesthetic and national reasons” (Durkacz, 1983, p. 87). Unwaith eto, pwysleisir nad barn a berthynai i ryddfrydiaeth anghydfurfiol yn ail hanner y 19eg ganrif oedd hon. Roedd Griffith Jones yn bregethwr gyda’r Eglwys ar adeg pan oedd Cymru yn “bastion of church Toryism” (Jenkins, 1995, p. 117). Nid oedd ei farn yn deillio o’i wleidyddiaeth, ond yn hytrach o’i gred bod parhad yr iaith yn eilbeth i grefydd. Roedd yr Eglwys Anglicanaidd yn yr 17eg ganrif yn rhan annatod o’r gyfundrefn genedlaethol, gan ymateb i dueddiadau crefyddol a gwleidyddol Llundain a’r prifysgolion. Ni fyddai yn ei feddwl unrhyw wrthdaro rhwng bod yn Gymro Cymraeg a’i deyrngarwch i Brydeindod (Jenkins, 1995, p. 129). Beth bynnag ei gymhellion personol, roedd y fenter yn llwyddiant ysgubol,<sup>122</sup> gan chwalu’r syniad a oedd yn bodoli ymysg nifer o addysgwyr y cyfnod nad oedd yr iaith Gymraeg yn gyfrwng addas i ddysgu darllen (Durkacz, 1983, p. 83).

Yn sgil ymdrechion Griffith Jones parhaodd y Gymraeg ar yr un llwybr a osodwyd gan y dyneiddwyr, ac y byddai yn parhau i’w deithio tan ail hanner y 19eg ganrif. Fel cyfieithu’r Beibl, roedd gweithgarwch Griffith Jones yn hwb sylweddol i’r Gymraeg, ond ni wnaeth ddim i newid amodau bodolaeth yr iaith, sef ei bod yn llawforwyn i grefydd. Dywed Jenkins fod y twf anferth a welwyd mewn deunydd darllen crefyddol yn y Gymraeg o’r 1730au ymlaen

---

<sup>122</sup> Erbyn 1761 roedd 3,325 o ysgolion wedi eu sefydlu mewn 1,600 o leoliadau gwahanol yng Nghymru (Jenkins, 1998a, p. 112), a 158,237 o ddisgyblion wedi dysgu darllen drwy gyfrwng y Gymraeg, heb gyfri’r holl oedolion fyddai wedi mynychu’r dosbarthiadau gyda’r nos (Durkacz, 1983, p. 83). Derbyniodd Griffith Jones dros ddwy fil o lythrau gan offeiriad yn canmol yr ysgolion dros gyfnod o ugain mlynedd (Jenkins, 1990, p. 165). Roedd y sylfaenydd wrth ei fodd bod myfyrwyr yn gallu dysgu darllen o fewn chwech wythnos, a hyd yn oed pobl anllythrennog yn eu 80au yn gallu dysgu darllen o fewn tri mis (Jenkins, 1998a, p. 113).

ynghlwm wrth ysgolion Griffith Jones (Jenkins, 1998a, pp. 112-3). Ond yn absenoldeb marchnad a fyddai wedi darparu deunydd poblogaidd yn yr iaith, gellid cyfiawnhau cyhoeddi yn y Gymraeg ar raddfa dorfol ar sail grefyddol elusennol a chyda nawdd o'r tu hwnt i Glawdd Offa yn unig.<sup>123</sup> Er ei fod yn Eglwyswr, gosodwyd y patrwm ar gyfer ymdrechion yr Ymneilltuwyr yn y canrifoedd dilynol. Roedd Griffith Jones yn barod i dynnu blewyn o drwyn clerigwyr eraill, a drwgdybid ei gysylltiadau â'r Methodistiaid.<sup>124</sup> Yn ei weithgarwch gellid olrhain llwybr yr hunaniaeth ethnogrefyddol a feithrinwyd gan y dyneiddwyr hyd at gyfnod yr Ymneilltuwyr, yn ogystal ag olrhain dechrau'r hollt a agorodd rhyngddynt a'r Eglwys Wladol yn y 19eg ganrif. Drwy ledaenu cenedlaetholdeb ethnogrefyddol y dyneiddwyr ymysg pobl Cymry, amlygwyd methiant yr Eglwys Wladol i wneud hynny.

Tan yn gymharol ddiweddar, tueddai haneswyr i ystyried dyfodiad yr Anghydfurfwyr a'u hagwedd at y Gymraeg yn drobwynt yn hanes Cymru. Meithrinwyd y dadansoddiad hwn yn bennaf gan yr Anghydfurfwyr eu hunain, a oedd yn awyddus i awgrymu bod Eglwys Lloegr wedi arwain y Cymry i ddifancoll drwy beidio â darparu gwasanaethau Cymraeg ar eu cyfer. Dywed un cyfrannwr at y *Diwygiwr* yn 1848 bod modd priodoli'r newid yn "ansawdd foesol ein gwlad" i ddylanwad yr Ymneilltuwyr: "...oblegid cafodd yr eglwys wladol ddigon o amser i roddi prawf ar ei gallu, ei nerth, a'i dylanwad, i wella y wlad; ond yr oedd y wlad yn

---

<sup>123</sup> Ymwelwch Griffith Jones â Chaerfaddon yn gyson er mwyn ymbil ar ddyngarwyr am arian ychwanegol (Jenkins, 1998a, p. 112). Er mai ei brif orchwyl mewn bywyd oedd darparu addysg ar gyfer y tlawd, roedd yn gyfforddus iawn yng nghwmni'r bonedd hefyd: "Honnai John Evans, Eglwys Gymyn, ei fod yn fêl ac yn fefus i gyd yng ngŵydd gwyr a gwragedd bonheddig". Roedd Griffith Jones yn ddibynnol iawn ar Madam Bridget Bevan, oedd yn gyfaill mawr iddo ac yn rhoddwr hael i'r mudiad ac yn fodd iddo gysylltu â boneddigion eraill<sup>123</sup> (Jenkins, 1990, pp. 165, 167). Roedd hefyd yn parhau yn ddibynnol iawn ar y Gymdeithas Er Taenu Gwybodaeth Gristnogol, a ddarparai filoedd o feiblau, catecismau a gwerslyfrau (Jenkins, 1998a, p. 113). Pan fu farw yn 77 oed ar 8 Ebrill 1761, gadawodd £7,000 er mwyn parhau â'r gwaith.

<sup>124</sup> Mewn ardaloedd lle'r oedd gwrthwynebiad cryf tuag at Fethodistiaeth, gan gynnwys rhannau o ogledd Cymru, cafodd yr athrawon eu herlid yn ddi-drugaredd: "It is difficult to realize the labour that must have been involved, at a time when there were no typewriters or telephones. And when the roads of Wales can have been no more than tracks" (Cavenagh, 1930, pp. 19, 24, 41, 62). Roedd Griffith Jones hefyd yn blaen ei dafod wrth feirniadu pregethau offeiriad eglwysig, gan ddweud eu bod nhw'n rhoi gormod o uwdd ond dim digon o gig i'w plwyfolion. Roedd ef, ar y llaw arall, yn bregethwr 'tân a brwmstan', yn llythrennol, gan fygwth tragwyddoldeb yn y ffwrn danllyd i unrhyw un na fyddai'n troi at Grist: "Yr oedd yn bregethwr grymus a gwir boblogaidd. Diwallai syched y Cymry am bregethu gwefreiddiol a huawdl" (Jenkins, 1990, pp. 154, 160-1).

gwaethygu dan ei llaw bob dydd...” (*Y Diwygiwr*, 1848, pp. 46-7). Cytuna rhai academyddion â’r dadansoddiad hwnnw, e.e. dywed Durkacz mai’r anghydfurfwyr a greodd y ddolen rhwng iaith, crefydd a llythrennedd yn yr 18fed ganrif, tra oedd yr Eglwys Anglicanaidd yn llawn “English placemen who disparaged the Welsh language and actively sought to destroy it” (Durkacz, 1983, pp. 8-9). Serch hynny, er mwyn deall yr hyn a sbardunodd eu cenedlaetholdeb yn ystod y 19eg ganrif, mae’n bwysig nodi mai parhad o’r agweddau a ddaeth o’u blaenau a goledai’r Ymneilltuwyr mewn gwirionedd. Roedd eu hagwedd at iaith a diwylliant y Cymry, a hefyd eu technegau wrth ledaenu’r efengyl yn y Gymraeg, yr un fath â nifer o’u rhagflaenwyr Anglicanaidd. Awgryma Phillip Jenkins fod Durkacz ei hun wedi ei gamarwain gan bropaganda anghydfurfiol, a heb gydnabod i ba raddau yr oedd y Methodistiaid yn dilyn yn ôl traed y diwygwyr efengylaidd a oedd yn aelodau o’r Eglwys Anglicanaidd yn y 18fed ganrif (Jenkins, 1995, p. 125). Awgryma Geraint H. Jenkins hefyd fod edrych ar Gymru cyn y diwygiad drwy sbectol y Methodistiaid wedi gwyrddroi dealltwriaeth haneswyr o’r 18fed ganrif. Mewn gwirionedd, meddai, roedd y diwygiad Methodistaidd wedi ei adeiladu ar sylfeini’r gwaith a wnaethpwyd o fewn yr Eglwys Anglicanaidd cyn hynny (Jenkins, 1978, p. 307). Trafodwyd cyfraniad Griffith Jones Llanddowror eisoes, ac mae’n cael llawer o’r clod am baratoi’r tir ar gyfer y Methodistiaid Cymreig, er mai dim ond “rhyw deyrnged law chwith” a gafodd gan y Methodistiaid eu hunain<sup>125</sup> (Jenkins, 1990, p. 153). Roedd brwdfrydedd crefyddol y cyfnod yn ffenomen rhyngwladol, meddai Geraint Jenkins, ond ni fyddai wedi gwneud y fath argraff yng Nghymru pe na bai Griffith Jones wedi arwain camau mawr ymlaen wrth hybu llythrennedd, addysg a Phrotestaniaeth (Jenkins, 1998a, pp. 113, 116). “[ni] fuasai gan yr efengylwyr ifainc ddim i afael ynddo ac eithrio ei lafur ef” (Jenkins, 1990, p. 117). Cytuna E. Wyn James mai’r Methodistiaid oedd etifedd Griffith Jones Llanddowror. Roedd ganddo

---

<sup>125</sup> Roedd Griffith Jones ei hun wedi ei gyhuddo o fod yn Fethodist, yn bennaf oherwydd ei gyfeillgarwch ag un o arweinwyr y mudiad yng Nghymru, Hywel Harris. Y gwirionedd oedd ei fod yn deyrngar i’r Eglwys yng Nghymru ond yn ddigon parod i dderbyn cymorth unrhyw un oedd yn cefnogi ei achos (Cavenagh, 1930, p. 31).



gysylltiadau agos â nifer o'u harweinwyr. Yn ogystal, ystyrir mai adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan Jones a wnaeth Thomas Charles o'r Bala wrth sefydlu rhwydwaith o Ysgolion Sul (James, 2001, p. 24). Ac er i'w hymdrechion, fel Griffith Jones o'u blaenau, gynnal yr iaith Gymraeg, dywed Eryn M. White nad ymdrech fwriadol oedd hynny: "Nid oedd gan yr arweinwyr na'r aelodau unrhyw ymwybyddiaeth arbennig o'r mudiad fel un cynhenid Gymreig na Chymraeg.... Ymfalchient, yn hytrach, mewn cymhariaethau â'r Eglwys Fore..." (White, 1997, p. 264). Dengys erthyglau'r Ymneilltuwyr nad oedd y fytholeg genedlaethol hon wedi colli dim o'i nerth.<sup>126</sup> Ailadroddwyd y myth am yr eglwys Brotestannaidd cynnar yng Nghymru a grëwyd gan Richard Davies a William Salesbury gan Ymneilltuwyr blaenllaw megis Aelod Seneddol Merthyr Tydfil, Henry Richard, yn yr 1880au (Richard, 1884, pp. 133-5). Dywed Walters nad oes ryfedd bod y Cymry, yn ngoleuni'r credoau hyn, yn ystyried eu hunain yn genedl etholedig gan Dduw a bod y Gymraeg felly yn gyfrwng rhagorach na'r Saesneg i drafod materion crefyddol (Walters, 1999, pp. 334-5). Fel deiliaid gwreiddiol yr Eglwys Geltaidd, credent fod cyfrifoldeb Dwyfol arnynt i gynnal yr iaith Gymraeg, er mwyn cynnal y datguddiad unigryw a gyflwynwyd iddynt gan Dduw (I.G.Jones, 1992, p. 60). Dywed James eu bod wedi cofleidio'r un hanesyddiaeth ag oedd wedi ysbrydoli eu hollynwyr dyneiddiol yn yr 16eg ganrif (James, 2001, p. 21). O ran eu syniadaeth, yn ogystal â'u dulliau, roedd yr Anghydfurfwyr yn olynwyr i'r Eglwys Anglicanaidd a'r dyneiddwyr.

---

<sup>126</sup> Mae rhifyn cyntaf *Seren Gomer* yn drwm dan ddylanwad chwedlau o'r fath, gan ddweud bod yr iaith Gymraeg "yn hanfodi oddi ar oes Gomer, neu, er dim a wyddys i'r gwrthwyneb, iaith felusber yr hen Baradwys yw, yn yr hon yr ymddiddanai Adda ac Efa am anhraethol rym ac anfeidrol ddoethder eu Creuawdwr bendigedig" (1818, p. 1). Hyd yn oed tuag at ddiwedd y 19eg ganrif, gwelwn gred sefydlog yng ngwreiddiau crefyddol y genedl Gymreig. Ailadroddai Edward Roberts y *Geninen* yn 1889 mai disgynyddion Gomer, wŷr Noah, oeddnt (Roberts, 1889, p. 90). Awgryma Ioan Medi mai'r Gymraeg oedd iaith Paradwys, a'i bod wedi gadael ei hól ar enwau ar draws Ewrop ac Asia (Medi, 1884, p. 67). Roedd hyd yn oed J.R. Kilsby Jones, ymysg y mwyaf gwrth-Gymraeg o weinidogion y cyfnod, yn credu y gellid olrhain gwreiddiau'r Cymry i'r dwyrain canol, gan awgrymu bod eu harwyddlun genedlaethol, y genhinen, yn parhau yn uchel ei fri ymhlith yr Hebraeid a'r Eifftiaid (Jones, 1883, p.67).

Ond dylid nodi nad yw cymharu agweddau'r Anglicaniaid yn ffafriol â'r Ymneilltuwyr yn gyfystyr â dweud y gallai'r garfan gyntaf fod wedi bod yn sail i fudiad cenedlaethol yn yr un modd. Cyfeiria Brooks at The Association of Welsh Clergy in the West Riding of Yorkshire fel enghraifft o'r gwladgarwch ieithyddol y dadleua ei fod yn nodweddiadol o'r Anglicaniaid (Brooks, 2015, p. 53): Serch hynny, awgryma eu gohebiaeth yn y *North Wales Chronicle* eu bod yn meddu ar yr un agwedd tuag at y Gymraeg â'r dyneiddwyr a'r Ymneilltuwyr, sef mai unig fudd yr iaith oedd fel modd o achub eneidiau Cymry uniaith. Eu prif gŵyn oedd bod penodi Saeson yn esgobion yng Nghymru yn sbardun i dwf Anghydfurfiaeth. Defnyddir yr un dadansoddiad o hanes a gynigir gan ddyneiddwyr yr Oes Dudaraidd er mwyn cyfiawnhau eu safbwynt:

...the Welsh church, after a severe struggle for a thousand years, in defence of its own independence, witnessed with inexpressible joy the the separation of the English church from the dominion and corruptions of the Church of Rome; and there remained but one obstacle in its way of being fully incorporated within the English church, which was happily removed by Queen Elizabeth...

Cyfeiriant yn *benodol* at gyflwyniad Richard Davies i'r Beibl Cymraeg, a'i effaith "powerful and salutary" ar y Cymry wrth sicrhau eu teyrngarwch parhaol i Goron Lloegr, gan ychwanegu'r gic y byddai Iwerddon mewn llawer gwell cyflwr petai hi wedi ei thrin yn yr un modd (*The North Wales Chronicle*, 1835, p. 3). Parhad o'r un agweddau tuag at y Gymraeg a goleddid gan y dyneiddwyr a'r Ymneilltuwyr a welir yma, felly, gyda'r un dadansoddiad ethnogrefyddol o hanes Cymru yn gefndir i'r cwbl. Yr un agwedd a welir mewn trafodaethau eraill ar yr un pwnc ymysg eglwyswyr. Mae gohebiaeth ymysg eglwyswyr yn y papurau newydd yn awgrymu mai agwedd ddi-hid oedd gan esgobion a chlerigwyr yr Eglwys wladol

at yr iaith yn gyffredinol. Awgryma cyfrannwr at y *Gazette* yn 1836 mai o'r tu allan i Gymry y daw'r prif alwadau am benodi esgobion Cymraeg eu hiaith: "the general feeling of the people, and especially the clergy, is decidedly opposed to the plan of limiting the bishoprics to those persons who only possess a knowledge of the Welsh language." Petai'r esgobion presennol yn teimlo bod angen medru'r Gymraeg, mater bach fyddai iddynt ei dysgu, meddai<sup>127</sup> ('Collough', 1839, p. 2). Mae hyn yn awgrymu nad dyfeisiad o du'r Ymneilltuwyr oedd dihidrwydd y glerigiaeth at y Gymraeg. Serch hynny, dengys mai pryder am eneidiau a sbardunai'r wrthddadl o fewn yr Eglwys hefyd. Nid oes awgrym yma o genedlaetholdeb ieithyddol. Achub eneidiau oedd y nod, a'r Gymraeg oedd y cyfrwng fwyaf hwylus er mwyn cyflawni hynny. O ganlyniad, mae'r ymdrechion i ddod o hyd i genedlaetholwyr ieithyddol ymysg clerigwyr yr Eglwys wladol yn ymdebygu braidd i ymdrechion Lot i ddod o hyd i hyd i ddeg dyn cyfiawn yn Sodom.

Yn y bôn, parhad o'r ffræ rhwng yr Ymneilltuwyr a'r Eglwyswyr ynghylch y dull mwyaf effeithiol o achub eneidiau oedd hyn, yn hytrach na gwahaniaeth barn ynglŷn â gwerth cynhenid yr iaith. Credent y dylid defnyddio'r Gymraeg, tra parai, gan mai dyna'r modd mwyaf effeithiol o achub eneidiau. Credaf fod llythyr gan Osborne Morgan i'r *Times* yn 1871 yn crynhoi eu hagwedd at yr iaith: "The question of whether the extinction of the Welsh language is a probable or desirable event is one which I fear it would be useless to discuss at present, for we must take things as they are, and many years must elapse before any appreciable change can take place in this respect..." (Morgan, 1871a, p. 8). Tra bod Cymry Cymraeg uniaith yn

---

<sup>127</sup> Ymatebodd eglwyswr arall yn y *Monmouthshire Merlin* yn 1836 i honiad Esgob Llanelwy nad oedd angen iddo allu siarad Cymraeg oherwydd bod ei glerigwyr yn arddel y Saesneg ymysg ei gilydd beth bynnag, gan honni mai dyna oedd yn gyfrifol am eu dieithrwch o'r boblogaeth. Honnodd fod yr Esgobion Cymraeg eu hiaith wedi canfod y Cymry yn genedl o Babyddwyr, ac wedi eu troi yn Brotestanwyr, tra bod Esgobion Saesneg eu hiaith wedi eu canfod yn Eglwyswyr, ac wedi eu troi'n Anghydfurfwyr: "The clergy, by habituating themselves to converse solely in English, at length feel a difficulty in, and a dislike towards Welsh conversation... and the clergyman's flock, finds a more congenial spirit in the ministry and society of the Dissenting preacher..." ('Churchman', 1836, p. 4). Condenniai cyfrannwr arall yr Eglwys Wladol am fod yn waeth nag Eglwys Rhufain am beidio â darparu gwasanaethau i'r Cymry yn eu hiaith eu hunain. Pe na bai'r Anghydfurfwyr yn rhoi lle blaenllaw i'r Gymraeg, byddai Cymru wedi suddo yn ôl i Babyddiaeth, meddai (*The Cambrian*, 1834, p. 3).

bodoli, rhaid pregethu yn yr iaith honno. Priodolai'r *Traethodydd* yn 1848 y safbwynt hwn i Thomas Charles o'r Bala, er ei fod, fel y dengys, â'i wreiddiau yng ngwaith Griffith Jones. Ei nod, meddai oedd "agor y meddwl a diwyllio y galon, pa iaith bynag a ddefnyddid i hyny: ond gwyddai hefyd na ellir cyrhaedd y nod yma yn iawn ond trwy gyfrwng iaith fo eisoes yn ddealladwy" (*Y Traethodydd*, 1848, p. 66). Yn hynny o beth nid oedd gwahaniaeth o gwbl rhwng agwedd yr Ymneilltuwyr 'rhyddfrydol' a'r Anglicaniaid 'ceidwadol' ar bwnc iaith – roeddynt yn unfrydol mai dysgu Saesneg oedd y ffordd i'r Cymry gystadlu â'r Saeson (Smith, 1999, p. 453). Mynega Siân Rhiannon Williams hyn yn blaen: "Gwerth y Gymraeg oedd ei chysylltiad ag Anghydfurfiaeth" (Williams, 1991, p. 140). Dyma'r *status quo* oddi ar y Ddeddf Uno a dechrau'r broses o ffurfio cenedl fodern o'r deyrnas linachyddol a fodolai ynghynt; y Saesneg oedd iaith cynnydd ac addysg, tra bo'r angen i achub eneidiau yn gorfodi defnyddio'r Gymraeg ym maes crefydd. Erbyn dechrau'r 19eg ganrif, roedd y gweiniodgion Ymneilltuol eisoes wedi eu trwytho yn yr iaith Saesneg gan eu haddysg yn y colegau, ac roedd eu canolfannau hyfforddiant oll yn Lloegr (R.O. Jones, 1997, pp. 267, 288).<sup>128</sup> Dyma'r arwydd pennaf eu bod yn perthyn i'r dosbarth canol, a manteisient ar bob cyfle i ddefnyddio'r Saesneg yn gyhoeddus ac wrth ysgrifennu at ei gilydd. Hyd yn oed yn yr 18fed ganrif tueddai arweinwyr Anghydfurfiol yng Nghymru i darllen llyfrau Saesneg, a dywedodd y Parchedig John Williams, Brynsiencyn am y Methodistiaid Calфинаidd eu bod yn anwybyddu'r rhai Cymraeg (I.G. Jones, 1992, p. 67). O ddechrau'r ganrif dadleuai rhai fod angen bod yn barod i genhadu ymysg y Saeson yng Nghymru, am mai lledaenu neges yr Efengyl oedd bwysicaf oll (R.O. Jones, 1997, p. 288). Penderfynodd aelodau'r eglwys y pregethai Joseph Harris ('Gomer') ynddi ei anfon at Athrofa'r Bedyddwyr ym Mryste am fod ei wybodaeth o'r iaith Saesneg yn

---

<sup>128</sup> Hyd yn oed pan gododd acadëmiau a hyfforddai gweiniodgion i Gymru roeddent yn rhoi'r prif bwyslais ar y Saesneg. Nid oedd llawer o le i'r Gymraeg hyd yn oed yng Ngholeg y Methodistiaid Calфинаidd yn y Bala. Sail hyn, meddai R. Tudur Jones, oedd y gred hir-hoedlog mai Saesneg oedd iaith addysg uwch – hyd yn oed i fyfyrwyr fyddai'n treulio eu hoes yn gwasanaethu cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith (Jones, 1999, p. 237). Fel y nodai'r *Geiniogwerth* yn 1848: "Y mae rhyw dyb rhyfedd wedi ei mabwysiadu genym fel cenedl yn gyffredinol, mai bod yn Sais yw bod yn ysgolaig" (1848, p. 229).

ddiffygiol (Williams, 1984, p. 239). Dywed ‘Brutus’ fod y gweinidogion yn unfrydol eu barn ar werth y Saesneg mor gynnar â’r 1820au: “... ein prygethwyr a ddywedant, O na byddem yn gwybod Saesneg; i.e., un sain y wlad o Gaergybi hyd Gaerdydd yw, o na byddem yn gwybod Saesneg” (Brutus, 1824, p. 83). Awgryma Brooks fod traethawd S.R. Llanbryn-mair yn 1824 ar ‘Ardderchawgrwydd yr Iaith Gymraeg’ yn dangos newid agwedd at yr iaith a ddaeth i fod o ganlyniad i ddyfodiad ideoleg ryddfrydol. Ond mae’r traethawd mewn gwirionedd yn fwy amwys ei agwedd at yr iaith. Ni ellir disgwyl i S.R. ymosod ar yr iaith, o ystyried pwnc y traethawd, ond mae ei agwedd yn gyson â’i farn ddiweddarach. Dywed ar y dechrau fod rhai ieithoedd yn rhagori ar eraill, mai bodolaeth un iaith cyn dryswch Babel oedd trefn naturiol y cread, a’i fod yn ystyried y Saesneg yn iaith addysg. Dadleua o blaid cadw’r Gymraeg ar sail grefyddol, oblegid y byddai ei cholli yn “rhoddi clwyf angeuol i achos duwioldeb yn ein gwlad” (Roberts, 1856, pp. 590-2, 616). Roedd hyd yn oed yr Ymneilltuwyr mwyaf Rhyddfrydol, megis S.R., a Kilsby Jones a drafodir isod, yn fodlon i’r Cymry gadw eu Cymraeg at ddefnydd crefydd a chelfyddyd, ar yr amod eu bod hefyd yn dysgu’r Saesneg.

Nid wyf felly wedi fy argyhoeddi gan y ddadl y daeth trobwynt yn y modd yr oedd y Cymry yn synio am y Gymraeg yn sgil dyfodiad ideoleg rhyddfrydiaeth. Does dim arwydd o egin fudiad cenedlaethol ieithyddol yma a fethodd a datblygu o ganlyniad i dwf rhyddfrydiaeth. Os bodolai unrhyw fath o genedlaetholdeb Gymreig yn ystod y cyfnod hwn, cenedlaetholdeb ethnogrefyddol a roddai le eilradd i’r iaith ydoedd. Does dim gwadu serch hynny fod rhai Ymneilltuwyr wedi mynegi eu dadleuon yn erbyn y Gymraeg yng nghyd-destun damcaniaethau rhyddfrydol, e.e. Darwiniaeth gymdeithasol,<sup>129</sup> a gellid dadlau bod ysbryd rhyddfrydol yr oes wedi gwneud dadleuon iwtalitariaidd yr Ymneilltuwyr ynghylch y Gymraeg

---

<sup>129</sup> Er bod un o’r datganiadau mwyaf croch ohono yn deillio o gyfnod cyn cyhoeddi damcaniaethau Darwin: “... pa ddyn o dan y nef mor ddwl, mor anwybodus, ac mor gibddall â Chymro uniaith... gwir y bydd agwedd ddynol ar ei gorff, ond ei enaid yn anifeilaidd, ac heb fwy o reswm ynddo na’r Ouran Otan...” (Brutus, 1824, p. 83)

yn fwy derbyniol. Yn ôl y rheini a arddelai Ddarwinaeth gymdeithasol, proses naturiol oedd y cymhathu ieithyddol a âi rhagddi o fewn cenhedloedd modern, gyda'r rhywogaethau cryfaf yn goroesi ar draul y gwannaf (Millward, 1991, p. 163). Y duedd gyffredinol oedd y byddai'r broses hon yn parhau nes bod un gymdeithas unedig ar raddfa fyd-eang:

Mae'r wladwriaeth, sydd wedi dyfod yn raddol a naturiol i arfer un iaith, er unwaith yn gynnwysiedig o bobloedd ac ieithoedd, wedi esgyn yn uwch, ac wedi gwneud gwell gwaith, na'r hon sydd yn aros yn y cyflwr amlieithog. I'r cyflwr uwch a pherffeithiach yma mae Cymru a Lloegr yn dyfod. (Richards, 1886, p. 256)

Yn yr un modd â *supply and demand* Adam Smith, proses naturiol oedd hon, yn rhan o ddeddf y cread, nad oedd modd ei gwrthsefyll (Davies, 2007a, p. 384). Roedd gallu rhai i ormesu eraill yn brawf eu bod yn meddu ar ieithoedd fwy blaengar na nhw (I.G. Jones, 1992, p. 69). Un o arddelwyr mwyaf tanbaid y ddadl 'y cryfaf a orfu' oedd J.R. Kilsby Jones, a gyfrannai'n aml i gylchgronau'r cyfnod ar bwnc ardderchogrwydd y Saesneg fel iaith masnach a dysg, gan fynnu y byddai'n dda pe bai'r Cymry yn ei dysgu rhag blaen<sup>130</sup> (Jones, 1897, p. 207). Rhaid nodi serch hynny mai ar yr un pegwn ag S.R. a J.R. Llanbryn-mair y safai Kilsby o ran ei agwedd at y Gymraeg. Cyhoeddodd lawlyfr ac enillodd wobwr am draethawd yn galw ar ei gyd-Gymry i ddysgu'r Saesneg (Walters, 2002, pp. 111-2). Dywed Derec Llwyd Morgan mai cymeriad digon gwahanol i bregethwyr eraill ydoedd. Roedd yn un o Seisgarwyr a Saesneg-garwyr mwyaf ei oes, ac roedd hynny'n mynd law yn llaw â materoldeb a hoffter am y ddiodyd gadarn a ddillad llachar a oedd yn cyferbynnu â sobrwydd gweinidogion eraill. James Jones oedd ei enw genedigol a chymerodd y 'Kilsby' oddi wrth bentref yn Swydd Northampton lle bu'n weinidog,

---

<sup>130</sup> Honnai Kilsby Jones mai cryfder pennaf y Sais oedd ei barodrwydd i adael ei ynys fechan a "dysgu ieithoedd pob cenedl fasnachgar trwy yr holl fyd" ac ymgyfoethogi o ganlyniad: "Wrth gyfeillachu â phob math o ddynion, a rhwbio yn eu erbyn, y mae y Saeson wedi llwyddo i eangu eu golygiadau, a chael gwared ar y rhagfarn a'r culni ag sydd yn sicr, fwy neu lai, o ddynodi trigolion pob ynys..." (Jones, 1897, p. 207)

a threuliodd ei oes gyfan bron yn Lloegr neu'n gweinidogaethu i Saeson yng Nghymru. Priododd â 'Miss Chilcott' o deulu anrhydeddus o Leominster a oedd "[o] herwydd ei snobri" yn amharod i fynychu'r capel gydag ef (Morgan, 1989, p. 7). Nid oedd o reidrwydd felly yn gynrychioliadol o'r farn gyhoeddus, ac nid oedd pob cyfrannwr wedi ei argyhoeddi gan ei ddadleuon. Ceir llythyr yn y *Geninen* yn dychan J.R. Kilsby Jones a'i gyhuddo o ormodiaith wrth ganu clodydd y Saesneg:

Y mae y Saesneg yn nwyllaw y Cymro, fel lamp Aladin yn y chwedl Ddwyreiniol, yn swyno aur i'w logell a danteithfwyd i'w gylla, yn troi ei fwthyn yn balas a'i orweddle gwellt yn wely manblu. Pa fendithion bynag ereill, o natur fwy ysbrydol, a ddichon hi ychwanegu iddo at y rhai hyn, nid ydynt deilwng i son am danynt, gan gymaint gogoniant tra rhagorach bendithion y cefn a'r bola. (J.F. Jones, 1883, p. 156)

Ond yn hytrach na dadlau bod gan y Gymraeg werth gynhenid y tu hwnt i'r ysbrydol, tueddai'r erthyglau a oedd yn fwy cefnogol i'r Gymraeg amau'r addewid o gyfoeth masnachol, a dysg, a ddeuai yn sgil dysgu'r Saesneg. Mae'n amlwg bod y dadleuon hyn yn cylchredeg erbyn yr 1850au, oherwydd fe gyhoeddodd y *Traethodydd* erthygl yn rhestru rhai o'r dadleuon mwyaf cyson o blaid cefnu ar yr iaith (y cyfan yn addysgol neu fasnachol), cyn ymateb iddynt fel a ganlyn: "Pe dyddymid y Gymraeg heddyw, a phe plenid y Seasoneg yn ei lle cyn nos yfory, ni fyddai hyny ynddo ei hun yn foddion i ychwanegu gymaint a phunt at gyfoeth masnachol Cymru" (*Y Traethodydd*, 1848, p. 67). Ond nid oedd hyd yn oed J.R. Kilsby Jones yn credu y dylid cefnu yn llwyr ar yr iaith. Hyd yn oed wrth ddadlau nad oedd iddi le o gwbl yn y byd masnachol, ystyrir y Gymraeg ganddo yn iaith gwbl addas at ddibenion crefyddol: "Iaith barddoniaeth, emyn, pregeth, a phethau crefyddol a duwinyddol eraill ydyw Cymraeg, ac ni fu

hi erioed, ac ni fydd ychwaith yn iaith, masnach a marchnad” (Jones, 1897, p. 207). Yn wir, nid oedd yn gweld unrhyw reswm pam na allai’r Gymraeg barhau yn iaith y pulpud tra bo’r Saesneg yn teyrnasu ym mhob cwr arall o fywyd beunyddiol: “Pe byddai yn ddichonadwy cadw y Gymraeg yn fyw at wasanaeth crefydd, a’i gwneyd yn fath o iaith sanctaidd, ni flinid mo’n hysbryd pe na chlywid dim ond Saesneg yn ystod yr wythnos.”<sup>131</sup> (Jones, 1883, p. 23) Er gwaethaf eu gormodiaith, felly, parhad o safbwynt ethnogrefyddol y dyneiddwyr a Griffith Jones oedd barn pregethwyr megis S.R. Llanbryn-mair a J.R. Kilsby Jones ar y Gymraeg, ond ei bod, drwy’r wasg, yn cyrraedd cynulleidfa dorfol a gwneud argraff arni am y tro cyntaf.

Dylid pwysleisio yn ogystal nad sylweddoliad a drawodd y Cymry yn hanner cyntaf y 19eg ganrif oedd mai Saesneg oedd iaith y farchnad. Roedd y dybiaeth hon yn seiliedig, nid ar ideoleg, ond ar y dystiolaeth a welai’r bobl â’u llygaid eu hunain. Fel y dengys Suggett et al. roedd y Saesneg eisoes wedi ei chysylltu ym meddyliau’r Cymry â masnach cyn gwawrio’r 19eg ganrif, ac roedd y Gymraeg eisoes wedi dechrau edwino mewn rhai ardaloedd dwyreiniol, a hynny oherwydd twf masnach.<sup>132</sup> Erbyn y 19eg ganrif roedd llawer mwy o dystiolaeth yn

---

<sup>131</sup> Dadleuai rhai gweinidogion y dylid cefnu ar yr iaith am mai dymuniad y Goruchaf oedd cymhathiad ieithyddol. Nodir gan un cyfrannwr i’r *Cronicle* fod y byd wedi bodloni ar un iaith nes i Dduw gosbi anufudd-dod dyn gyda Thŵr Babel (Roberts, 1877, pp. 72-73). Roedd hyn hefyd yn wrthddadl i’r honiad fod gan bob cenedl ei phriod iaith. Os oedd pob iaith wedi ei chymysgu, yna nid oedd diben ymboeni am burdeb ieithyddol. Onid oedd y Saesneg ei hun yn iaith gymysg? (Philus, 1825, p. 53) Dywed Brutus hefyd fod unrhyw ymdrech i gynnal arwahanrwydd ieithyddol, “nid yn unig yn milwrio yn erbyn undeb, brawdgarwch, a chydgoriad, ond yn gwrthwynebu y mesurau hyn ag sydd yn ôl ewyllus y Goruchaf, a bodlonrwydd y nef...” (Brutus, 1824, p. 83) Dywed y *Gwladgarwr* am ddifflaniad tybiedig yr iaith: “Beth bynnag y mae Rhagluniaeth foesol Duw yn ei gyfnewid neu ei ddiddymu yn helyntion tras a chenedl, gellir bod yn sicr ei fod er gwell: canys y mae tuedd a chychwyniad holl Rhagluniaeth Duw er dechreuad amser at berffeithrwydd” (1865, p. 4). Ond nid oedd y safbwynt hon yn un unfrydol ymysg yr Ymneilltuwyr, a gwelir eraill yn defnyddio’r un dadleuon rhyddfrydol er mwyn amddiffyn yr iaith. Er enghraifft, dadleuai Tafolog na ellid dinistrio y Gymraeg er mwyn gwneud lle i’r Saesneg. Gan mai’r Gymraeg oedd yr iaith fwyaf crefyddol oll, byddai yn rhaid cynnwys rhywfaint ohoni yn yr un iaith berffaith a fyddai yn weddill ar ddiwedd amser (1883, p.104). Roedd R.J. Derfel yn ddrwgdybus o unrhyw honiadau ynglŷn â rhagluniaeth, gan awgrymu mai ystryw ydoedd er mwyn cyfiawnhau dihidrwydd ynglŷn â’r iaith Gymraeg: “Gorfodir y plant mewn llawer ysgol i siarad Saesneg, a gwaherddir hwynt rhag siarad Cymaeg hyd yn oed ar yr heol, ac yna cyhoeddir fod tynged yn erbyn yr iaith – ond y dynged honno yw ewyllus dynion bradychus” (1864, p. 4).

<sup>132</sup> Oherwydd prinder sefydliadau Cymreig, tirwedd yr iaith oedd ei phrif wrthglawdd yn erbyn lledaeniad y Saesneg. Hyd yn oed wedyn roedd natur amaethyddol y cymunedau diarffordd hyn yn golygu fod cryn fynd a dod ar draws y ffin er mwyn gwerthu cynnyrch i farchnadoedd, ac roedd nifer yn dysgu geiriau Saesneg ar eu teithiau, a daeth yr “haenau canol” oedd â’r mwyaf o gysylltiad â’r Saeson, “yn fasnachwyr, porthmyn a hosanwyr,” yn rhugl yn yr iaith fain. Roedd yr afonydd a lifai o ddwyrain Cymru i dir Lloegr hefyd yn cynnig llwybrau i’r



wynebu trigolion Cymru mai y Saesneg oedd iaith masnach a chynnydd.<sup>133</sup> Dywed Ieuan Gwynedd Jones ei fod yn hawdd deall paham y byddent wedi dod i'r casgliad hwn, o ystyried y cyfoeth a lifai i Gymru o'r tu hwnt i Glawdd Offa: "they were empirical judgements, certainly so far as business and commerce, government and administration, law and philosophy were concerned". Fel y nodwyd eisoes, ni feddai'r Cymry ar ddsbarth canol o fasnachwyr a chrefftwyr a allai fod wedi argyhoeddi'r boblogaeth fel arall.<sup>134</sup> Y gwahaniaeth dosbarth ymddangosiadol hwn a wnaeth gymaint o argraff ar y Cymry, a'u hargyhoeddi mai dysgu Saesneg oedd yr unig fodd o ddringo'r ysgol gymdeithasol (Jones, 1992, pp. 59, 69). Mae yna berygl felly o orbwysleisio grym ideoleg, yn hytrach nag ystyried bod eu parodrwydd i dderbyn yr ideoleg honno yn seiliedig ar y cynnydd sylweddol mewn amodau byw a welent o'u cwmpas. Sail cred yr Ymerodraeth Brydeinig fod ganddynt yr hawl i gymhathu hiliau, diwylliannau ac ieithoedd eraill oedd eu bod eisoes wedi profi eu gallu i wneud hynny (Edwards, 1999, p. 287). Yn yr un modd, roedd yn haws o lawer argyhoeddi'r cyhoedd bod y Saesneg yn anhepgor os na ellid mynd yn bell iawn hebddi. Rhaid pwysleisio y buasai'n rhaid gwneud defnydd o ddadleuon o'r fath er mwyn cyfiawnhau penodi'r Gymraeg yn briod iaith cenedl-wladwriaeth Gymreig yn ogystal. Mae yna berygl, o bwysleisio ceidwadaeth fel grym i achub y Gymraeg, ein bod yn euog o'r un gred â J.R. Jones (yr athronydd, nid y pregethwr) ynghylch cydymdreiddiad iaith a thir ac o ganlyniad fodolaeth y fath beth â chenedloedd

---

Saesneg dreiddio i mewn. O ganlyniad roedd yr iaith wedi dechrau encilio yn nwyrain Cymru, yn enwedig ar diroedd gwastad y de-ddwyrain, erbyn dechrau'r 19eg ganrif. Roedd trefi masnachol yn y gogledd-ddwyrain hefyd yn agored i ddylanwad y Saesneg, a newidiodd Wrecsam o fod yn dref bron yn gyfan gwbl Gymraeg yn 1620 i dref Saesneg ganrif a hanner yn ddiweddarach. Yn sgil y chwyldro diwydiannol gwelwyd cynnydd mawr mewn mewnfwydwr i ucheldiroedd y de-ddwyrain. Erbyn 1801 Merthyr Tudful oedd y dref fwyaf yng Nghymru, â 7705 o drigolion, a gwelwyd mewnfwyd gweithwyr a rheolwyr Saesneg i weithio yn y ffwrneisi haearn yno: "Ym myd masnach yr oedd y Saesneg yn ddi-os wedi dod yn iaith cynnydd a datblygiad" (Suggett, et al., 1997, pp. 45-6, 48-9, 51-2, 57, 73-5, 77),

<sup>133</sup> Nid y Cymry oedd yr unig rai a ddaeth i'r casgliad hwn. Daethai nifer yn Iwerddon i'r un casgliad yn union, gan gysylltu'r Saesneg â chyfoeth ac addysg (Smith, 1999, p. 455). Dywed R. Tudur Jones fod y newidiadau syfrdanol a welwyd yn ystod y ganrif honno "yn dal i fesmereiddio'r bobl a gofiai Gymru'n wlad amaethyddol hollol... Dilynai dyfeisiadau syfrdanol y naill ar ôl y llall..." (Jones, 1981, pp. 22-3).

<sup>134</sup> Nodai 'Herber' yn y *Geninen* y gwelid Saeson yn meddiannu'r swyddi pwysicaf ac yn cael cyflogau mawr ar y rheilffyrdd ac yng ngweithfeydd mawrion y Deheudir: "Ond os edrychwn pwy sydd yn llenwi y swyddau ailraddol ac israddol, ceir y Cymry yn ymryson am y rhai hyn" (Herber, 1883, p. 175),

“normal, rhagdybiedig” (Jones, 1961, p. 11; Jones, 1966 [2013], pp. 13-4). Byddai Cymru uniaith a chanddi iaith lafar ac ysgrifenedig safonol a sefydlog yn rhywbeth y byddai angen ei *chreu*, nid ei *chynnal* yn unig. Y defnydd o’r meddylfryd rhyddfrydol wrth fynegi dadleuon o blaid y Saesneg oedd yn ddinistriol i’r Gymraeg, nid y meddylfryd ynddo’i hunan. Y methiant o safbwynt y Gymraeg oedd na lwyddwyd i’w chyfiawnhau yn yr un modd, y tu hwnt i’r parth crefyddol, lle roedd ardderchogrwydd y Gymraeg eisoes wedi ei brofi.

Dadleuaf nad yng nghyd-destun ideoleg y dylid ystyried y dadleuon o blaid neu yn erbyn y Gymraeg, ond yn hytrach gyda llygad ar bwy a fyddai’n elwa o’i pharhad. Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, yn ôl Wallerstein, nid cri’r cyfalafwr a oedd yn elwa ar y drefn fel ag yr oedd oedd *laissez-faire*, ond yn hytrach ymateb gan grwpiau, o fewn cenedl-wladwriaethau, a oedd wedi eu heithrio o rym (Wallerstein, 1997, pp. 4-5). Dengys parodrwydd yr Ymneilltuwyr i gynnal y Gymraeg o fewn y parth crefyddol y rhoddent naw wfft i ‘rym y farchnad’ pan oedd hynny yn fanteisiol iddynt, a gellid awgrymu yn bur hyderus y buasai Cymry rhyddfrydol yn fwy uchel eu cloch o blaid y Gymraeg mewn parthau eraill hefyd petaent wedi rhagweld bod mantais iddynt o wneud hynny. Nid yw’n syndod felly mai asgwrn y gynnen rhwng yr Ymneilltuwyr hynny a oedd am weld parhad yr iaith a’r rheini oedd am ei diosg oedd sgil-ffaith hynny ar barhad eu dylanwad crefyddol eu hunain. Defnyddiwyd dadleuon rhyddfrydol, o blaid ‘y cryfaf a orfu’ ar y naill law, a chyfrifoldeb yr unigolyn i wrthsefyll ‘grym rhagluniaeth’ ar y naill, gan ddwy ochr y ddadl. Ond sail yr ymgecru yn y bôn oedd i ba raddau y byddai colli’r Gymraeg yn arwain at golli nodweddion crefyddol y Cymry – h.y. cefnu ar Ymneilltuaeth a chofleidio’r Eglwys Wladol. Ar y naill law ceir dadleuwyr megis John Thomas, Lerpwl, a deimlai fod tranc yr iaith yn anochel ac y dylai’r Ymneilltuwyr flaenoriaethu’r Saesneg er mwyn achub eneidiau’r Cymry a chadw’r wlad yn Ymneilltuol yn wyneb llifeiriant o Saeson o’r tu hwnt i’r ffin (Walters, 2002, p. 125). Ar ochr arall y ddadl yr

oedd Michael D. Jones, yr oedd ei genedlaetholdeb ieithyddol yn deillio yn y bôn o'i gred y byddai moesau a chrefydd y Cymry yn dirywio'n gyflym petaent yn cefnu ar eu hiaith (Tudur, 2006, p. 123). Safai sawl un, gan gynnwys y cyhoeddwr Thomas Gee, rhwng y pegynnau hyn, gan ddadlau'n frwd y dylid parhau ar y naill law i ddefnyddio iaith crefydd tra byddai byw, a mabwysiadu agwedd bragmataidd at yr angen i ddefnyddio mwy o Saesneg er mwyn sicrhau dyfodol ei enwad ar y llall.

Y brif ddadl<sup>135</sup> dros gynnal y Gymraeg, felly, oedd y byddai trigolion y wlad yn troi cefn ar Ymneilltuaeth a moesoldeb pe bai'n marw. Ofnai'r *Traethodydd* yn 1849 "pe dygwyddai i'r iaith Seisonig ffynu yn gyffredin ar hyd Cymru yr äi y bobl yn Eglwyswyr" (*Y Traethodydd*, 1849, p. 120). Credai Gwilym Hiraethog mai rhan o gynllwyn y gelyn oedd dinistrio'r iaith: "... carai yn ddiau weled ein hen iaith yn syrthio i drancedigaeth buan, yn y gobraith y syrthiai ei chrefydd Efengylaidd i drancedigaeth gyda hi..." (Hiraethog, 1872). Dywed R.J. Derfel y dylai blaenoriaid y genedl wyllo "rhag iddynt trwy eu hymdrech i ladd y Gymraeg, wneuthur Cymru grefyddol yn Iwerddon yr ail" (Derfel, 1864, p. 4). Yn ogystal, roedd y gred bod hynt yr iaith ac Ymneilltuaeth ynghlwm â'i gilydd hefyd yn gyfrifol am ffydd ryfeddol ambell un y

---

<sup>135</sup> Roedd yr ail ddadl o blaid cadw'r Gymraeg hefyd yn un hirhoedlog, sef y byddai yn wrthglawdd i bechodau'r oes. Dywed Ieuan Gwynedd yn *The Principality*: "If the Welsh language were to perish, it is our honest belief that one of the greatest bulwarks of our safety and happiness as a nation would be removed" (Gwynedd, 1848), Prif ddiben sefydlu cylchgronau a drafodai pynciau y tu hwnt i'r crefyddol, megis y *Traethodydd*, oedd fel nad oedd yn rhaid i'r Cymry wynebu dylanwadau Seisnig (Walters, 1999, p. 336). Ymfalchiai 'Myfenydd' yn y Diwygiwr nad oedd anffyddiaeth ac anfoesoldeb y *Times* yn cyrraedd siaradwyr Cymraeg (Myfenydd, 1874). Rhoddodd William Rees yr enw '*Yr Amserau*' ar ei bapur ef er mwyn cyfododur purdeb moesol ei bapur ef â llygredd y taranwr o Lundain (A. Jones, 1999, p. 357). Ceir yn y *Monmouthshire Merlin* yn 1840 lythyr yn cwyno am erthygl yn y *Times* y dydd Gwener blaenorol, gan nodi: "... the inhabitants of the Principality have this, at least to console them in their isolation – that familiar only with their native tongue, they are safe from the contamination which the circulation of the journal would otherwise occasion" (Welshman, 1840, p. 3). Roedd yr iaith Gymraeg hefyd yn wrthglawdd yn erbyn syniadau a allai fygwth yr enwadau Ymneilltuol mewn unrhyw fodd. Dywed R. Tudur Jones mai un o nodweddion amlycaf sect "yw diogelu arbenigrwydd ei chred a'i disgyblaeth trwy godi mur cadarn rhyngddi a'r byd gelyniaethus o'i chwmpas" (Jones, 1999, p. 250). Fel y nodwyd yn yr ail bennod, roedd yn amddiffynfa yn erbyn syniadau gwleidyddol estron, megis sosialaeth, yn ogystal. Dywed un cyfrannwr at y Diwygiwr a welai "olygfeydd gwir ofnadwy" ar nos Sadwrn y talu mai Saesneg yr oeddnt yn ei siarad: "Gwell genym i'r hen Gymraeg fod yn y bedd nag yn y fath fudreddi" (Roberts, 1870, p. 220). Dywed Ieuan Gwynedd Jones fod yr agwedd hon wedi esgor ar fath o sgitsoffrenia ymysg yr Ymneilltuwyr, wrth iddynt argymhell dysgu'r Saesneg ar y naill llaw tra'n rhybuddio y gallai arwain at golledigaeth ar y llall. Teimlasant eu bod, trwy gadw'r Cymraeg o fewn eu corlan grefyddol, ac yn ymdrin â materion gwleidyddol y dydd eu hunain, yn amddiffyn y Cymry rhag y byd peryglus tu hwnt (Jones, 1992, pp. 72, 75).

byddai'r iaith yn goroesi, hyd yn oed pe bai'r Saesneg yn tra-arglwyddiaethu ym mhob maes arall.<sup>136</sup> Nodai 'Tafolog' yn y *Geninen* y gall "y ddwy iaith drigo a ffynu... os myn y Saesneg deyrnasu mewn masnach a chyfraith, gadawer iddi..." Byddai'r Gymraeg, meddai, yn cadw ei lle yn y capel "a theyrnased yn ein pwlpudau dros flynyddoedd cenedlaeth a chenedlaeth" (*Tafolog*, 1883, p. 103). Credai Ieuan Gwynedd yn yr un modd na allai'r iaith farw oherwydd ei chysylltiad ag Ymneilltuaeth a'r Ysgolion Sul<sup>137</sup> (Jenkins, 1991, p. 122). Ceir y ddadl hon yn ei llawnder mewn ysgrif dudalen flaen yn y *Faner* yn 1866:

Nid ydym yn dadlau dros gadwraeth y Gymraeg oddi ar fypwy a hunan-dyb, ond oddi ar olygiad ar lesiant ysbrydol y genedl... y mae rhyw gydnawsedd rhyfeddol rhyngddi ag ysbryd yr efengyl.... Ymddibyna y weinidogaeth odidog hon ar barhâd yr iaith. Darfydded yr iaith, dyna hithau yn colli ei holl ragoriaethau, ac yn suddo i gyffredinedd.

Yn wahanol i ieithoedd eraill y mae eu tranc yn anorfod, felly, roedd gan y Gymraeg "arch nefolaidd i'w chadw uwchlaw y dyfroedd diluw". Er iddi gael ei gyrru o'i holl amddiffynfeydd eraill, meddai, byddai crefydd yn amddiffynfa barhaol iddi: "Yr ydym yn credu ei fod yn beth

---

<sup>136</sup> Gellid awgrymu mai un rheswm amgen am y gwahaniaeth barn ynglŷn â hyfywedd y Gymraeg oedd bod yr iaith yn encilio i wahanol raddau ar draws y wlad, ac er bod siaradwyr yr iaith mewn mwyafrif mawr mewn rhai ardaloedd, mewn eraill roedd y Saesneg fel petai wedi ei goresgyn yn llwyr. Mewn colofn olygyddol yn y *Drysorfa* yn 1900, dywed J. Morgan Jones: "Nid oes gan ein brodyr yng Ngwynedd un syniad am y modd y mae yr iaith Saesneg yn dyfod i mewn fel dilyw i Fynwy, gan yru yr hen Gymraeg anwyl i fysg y pethau a fuont" (*Amhysbys*, 1900, p. 88). Awgrymir gan un cyfrannwr yn y *Geninen* fod cryn anwybodaeth ynglŷn â sefyllfa'r iaith Gymraeg. Honnir ganddo yn 1888 fod "Clawdd Offa yn derfyn heddyw rhwng y ddwy iaith: pan af dair milltir... i un cyfeiriad, braidd y caf neb a fedr Saesneg; dair milltir i'r cyfeiriad arall, a phrin y caf neb a fedr Gymraeg" (*Y Geninen.*, 1888, p. 16). Fel y dangos astudiaeth W.T.R. Pryce ar newidiadau demograffig ieithyddol rhwng 1800 ac 1911 roedd gororau Cymry eisoes naill ai'n ddwyieithog neu'n Saesneg eu hiaith yn bennaf yn ystod y cyfnod hwnnw (Pryce, 1999, p. 72). Serch hynny, ymddengys mai'r tyb cyffredinol oedd y gallai'r Gymraeg a'r Saesneg gyd-fyw. Dywed Ieuan Gruffudd Jones na ddeffrodd y Cymry i'r peryg y gallai'r naill iaith ysigo'r llall tan ddechrau'r 20fed ganrif (Jones, 1992, p. 57). Taera 'Geraint' yn y *Geninen* yn 1888 fod yr iaith Gymraeg yn "hoyw yn ei henaint, a'i gafael cyn dyned ag erioed ar galon y genedl; ond rhaid iddi oddef wrth ei hochr, ym mhen – os nad yng nghalon – y Cymry, iaith masnach. Daw y llifeiriant Seisnig i mewn fel afon" (*Geraint*, 1888, p. 290).

<sup>137</sup> Dadleuai y *Traethodydd* ddechrau'r 1850au yn ogystal "nad oes y tebygolrwydd lleiaf fod yr iaith Gymraeg mewn perygl o farw'n fuan..." (1852, p. 94).

eithaf possibl i'r ddwy iaith gyd-hanfodi yn ein mysg, bob un yn ei chylch ei hun. Bydded y Saesneg yn iaith masnach, y Gymraeg yn iaith crefydd" (Gee, 1866, p. 1). Awgryma Dot Jones fod yr agweddau hyn yn awgrymu bod yr Ymneilltuwyr yn credu y byddai cysylltiad y Gymraeg â chrefydd yn ddigon cryf i atal y Saesneg rhag ysgubo'r iaith o'r neilltu yn llwyr (Jones, 1999, p. 137). Awgryma Edwards yn ogystal fod ffydd yn nyfodol yr iaith wedi rhagori ar unrhyw weithred er mwyn ei diogelu rhag dirywio (Edwards, 1989, p. 145). Wrth i ddyfodol yr iaith ymddangos yn fwyfwy ansicr, cynigiai ymfudo Cymry dros y môr ffug-obaith y gallai'r Gymraeg oroesi beth bynnag a ddigwyddai iddi yng Nghymru. Gobeithiai Thomas Gee y byddai cenedl y Cymry yn "ail flodeuo" yn y gorllewin: "fe allai y clywir seiniau melusion y Gymraeg ar lanau yr Ohio fawr, neu yn ymgymmysgu â tharandwrf Niagra, pan na bydd ond ambell i fardd a hynafiaethydd prudd yn crwydro wrth droed yr Wyddfa, ac ar lan y Dyfrdwy, gan sisial yn hiraethus 'Cymru Fu!'" Roedd yn gwbl hyderus y byddai gwir grefydd y Cymry hefyd yn dilyn "Israel Gomer" lle bynnag yr aent dros y môr (Gee, 1866, pp. 1, 2). O ystyried bod rhagweld tranc yr iaith yn gyfystyr â rhagweld tranc crefydd yn eu tyb hwy, gellid deall i raddau sut y bu'r Ymneilltuwyr mor ddall i effaith debygol cyfyngu'r Gymraeg i'r parth crefyddol ar ei hirhoedledd.

Yr hyn a sbardunodd yr Ymneilltuwyr erbyn diwedd y ganrif i ddadlau o blaid cefnu ar yr iaith o fewn y parth crefyddol a mabwysiadu'r Saesneg oedd y sylweddoliad y gallent golli dylanwad o fethu â gwneud hynny. Mae'r agwedd hon i'w gweld yn amlwg yn ysgrifau Thomas Gee, a ysgrifennai yn frwdfrydig o blaid parhad yr iaith yn *Baner ac Amserau Cymru*, ond a oedd hefyd yn cefnogi'r 'Inglis Côt'. Fel yn achos golygydd y *Traethodydd*, Dr. Lewis Edwards, parhad y grefydd Ymneilltuol (ac yn fwy penodol, Methodistiaeth yn eu hachos hwy) oedd y flaenoriaeth: "credai [Lewis Edwards] mae lle cyfyngedig a oedd [i'r iaith] yn Oes Victoria, lle dethol, wrth gwrs, ond lle cyfyngedig yng ngwasanaeth crefydd Cymru... [Ac] yr

oedd Thomas Gee, hefyd, yn barod i rannu'r lle hwnnw, hyd yn oed, â'r Saesneg, rhag i'r Methodistiaid gollu tir parch a dylanwad" (Edwards, 1989, p. 147). Yn 1878 galwodd Gee ar y Cymry, "yn enw Cristnogaeth ei hun, i fod yn ffyddlawn i'w hiaith, ac i'r achosion Cymreig, hyd nes y byddai y dosbarthiadau isaf o'r genedl wedi symmud yn mlaen at yr iaith Saesneg" (*Baner ac Amserau Cymru*, 1878, pp. 4-5). Gwelir barn wahanol gan rai sylwebwyr eraill, a gredai fod angen taflu'r iaith o'r neilltu yn wirfoddol fel na fyddai'n peryglu dyfodol eu henwadau crefyddol. Rhybuddiodd J.R. Llanbryn-mair yn daer fod angen agor drysau'r capeli i'r Saesneg: "os na wahoddir hi gan athrawon ein hathrofâu i bulpudau Ymneilltuaeth, bydd crefydd ein hynafiaid wedi colli tir yn yr ugain mlynedd nesaf..." (Roberts, 1866, p. 176) Dywed David Rees fod angau'r Gymraeg eisoes ar y gorwel, ac mai "trueni fydd i Annibyniaeth ac Ymneillduaeth ddiflannu gyda hi o herwydd ystyfnigrwydd a phenbwleidd-dra ei charedigion" (Rees, 1852, p. 319). Portreadir cefnu ar y Gymraeg yn nhermau "aberthu teimlad personol er mwyn lles y cyffredin..." (Dewi Mon, 1885, p. 27). Os nad oedd modd amddiffyn y Gymraeg, rhaid oedd sicrhau bod y Saeson yn dod yn Ymneilltuwyr yn ogystal. Nid oedd yr ofnau hyn wrth fodd pawb. Cyhuddai 'Siluriad' enwad y Methodistiaid erbyn 1887 o fod "mor brysur yn ceisio gwneud Sais o hono ei hunan" nes ei fod yn annog ei aelodau i anghofio eu Cymraeg cyn iddynt ddysgu'r Saesneg:

Os bydd yr iaith Gymraeg farw, bydd Methodistiaeth farw; os bydd Methodistiaeth farw, bydd Cristnogaeth farw; ergo, rhaid newid yr iaith, rhag na b'o i grefydd bur farw allan o'r byd!! Gwelwch etto, y mae enwadaeth yn fwy na Cristnogaeth; a dylai un fod yn Fethodist Calfinaidd yn gyntaf, a bod yn Gristion wed'yn. (Siluriad, 1887, pp. 48-9)

Awgryma Ieuan Gwynedd Jones nad oedd sail i rai o ofnau'r Ymneilltuwyr; yr oeddynt wedi goramcangyfrif mewnlifiad y Saesneg i drefi Cymraeg eu hiaith, ac wedi tanseilio cymeriad ieithyddol y trefi hynny er mwyn paratoi amdano. Lleisteiriwyd gallu'r eglwysi i ddarparu ar gyfer eu cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith gan eu parodrwydd i fuddsoddi yn y di-Gymraeg (Jones, 1992, pp. 22, 68). Yn benodol, anogwyd y Cymry i gefnu ar achosion Cymraeg er mwyn darparu cnewyllyn cynulleidfa Saesneg (R.T. Jones, 1999, p. 247). Yn ôl Jenkins, camgymeriad strategol oedd penderfyniad yr Ymneilltuwyr y byddai'n rhaid diosg y Gymraeg fel nad oedd yn mynd yn fwrn arnynt, ac erbyn diwedd y ganrif roedd yr Eglwys Sefydledig wedi adennill tir (Jenkins, 1999, p. 18). Y cyfan a gyflawnwyd yn y pen draw, meddai Thomas, oedd Seisnigo'r Cymry yn hytrach na lledaenu'r efengyl Ymneilltuol ymysg y Saeson (Thomas, 1999, p. 93). Er gwaethaf ymdrechion yr Ymneilltuwyr â'u 'Inglis Còs', roedd mwyafrif y mewnfudwyr o Loegr yn llifo i'r eglwys yn hytrach na'r capel, a gwelodd ddiwedd y 19eg ganrif adfywiad yn yr Eglwys Wladol yng Nghymru (Morgan & Thomas, 1984, p. 169). Yn nhyb R. Tudur Jones, dylai'r Ymneilltuwyr fod wedi sylweddoli y byddai tranc yr iaith yn prysuro eu tranc hwythau, a gwneud rhagor i ymgyrchu am ddeddfwriaeth i ddiogelu'r iaith o fewn yr ysgolion dyddiol (Jones, 1999, p. 242). Serch hynny, parhaodd y berthynas glos i'r 20fed ganrif. Nododd R. Tudur Jones yn ei gyfrol *Hanes Annibynwyr Cymru* fod yr Annibynwyr wedi colli tir leiaf mewn ardaloedd lle'r oedd y gymdeithas Gymraeg yn parhau i ffynnu (Jones, 1966, p. 281). Gellid dadlau felly fod y berthynas symbiotig rhwng yr iaith Gymraeg a chrefydd a sefydlwyd yn yr 16eg ganrif wedi parhau drwy gydol y 19eg. Gellid synio amdanynt fel dau deithiwr ar feic tandem, y naill yn cryfhau'r llall pan oeddynt yn pedalu am y gorau; ond pan oedd un yn gwanychu roedd yn dal y llall yn ôl. Awgryma Mark Ellis Jones fod ei chysylltiad â chrefydd wedi niweidio'r Gymraeg wrth i'r wlad fynd yn fwyfwy seciwlar (Jones, 1999, p. 580).

Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod y Gymraeg yn unrhywbeth ond eilbeth i grefydd o fewn yr hunaniaeth ethnogrefyddol a fodolai tan ddiwedd y 19eg ganrif. Drwy gydol y canrifoedd hyn, roedd unrhyw drafodaeth ynghylch rhinweddau'r iaith ymysg y dosbarth canol yn troi o amgylch ei defnyddioldeb fel modd o hybu ac o amddiffyn crefyddoldeb y Cymry. Dyma batrwm a welir gyda sawl iaith leiafrifol yng ngorllewin Ewrop, yn ôl Joan-Lluís Marfany. Aiff ei astudiaeth ef i'r afael â'r dybiaeth bod y cydgysylltiad rhwng ieithoedd lleiafrifol a chrefyddau wedi bod yn ffactor pwysig yn eu goroesiad. Oherwydd bod llawer o'r hyn a gâi ei argraffu mewn ieithoedd lleiafrifol o natur grefyddol, y dybiaeth yw bod crefydd wedi amddiffyn neu hyd yn oed bleidio achos yr iaith, meddai. Serch hynny, mae'n dadlau mai gwir ddiben crefydd yn ei hymwneud ag ieithoedd lleiafrifol, megis y Gatalaneg, y Llydaweg, a'r Gymraeg, oedd cadw'r praid yn uniaith a sensorio dylanwadau allanol – yn wir, “the relationship is entirely negative and far from innocently or neutrally imposed by objective conditions” (Marfany, 2005, p. 154). Serch hynny, nid yw Marfany yn ei gwneud yn glir beth fyddai'r dewis amgen i'r ieithoedd hyn heb gefnogaeth grefyddol – awgrymir yn hytrach y dylid bod wedi caniatáu iddynt farw, a da o beth fuasai hynny. Dadleuaf ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y bennod hon fod lle i ddiolch i grefydd am gynnal y Gymraeg drwy'r cyfnod mwyaf heriol yn ei hanes. Gwnaeth hynny yn yr 16eg ganrif drwy ymdrechion y dyneiddwyr, ac eto yn yr 18fed ganrif drwy waith Griffith Jones Llanddowror ac eraill, ac eto drwy Ymneilltuwyr y 19eg ganrif, oherwydd iddynt greu a chynnal hunaniaeth ethnogrefyddol â lle breintiedig i'r iaith oddi fewn iddi. Ys dywed y *Faner* yn yr 1860au: “Ond os mynir dileu y Gymraeg, y llwybr mwyaf effeithiol i hynny fydd dinystrio pob eilun o'r Beibl y gellir cael gafael arno, a chau i fyny bob pulpud ac Ysgol Sabbathol Gymreig, a dinystrio pob argraphwasg, yn y Dywysogaeth, ac allan o honi, o blegid dyna mewn gwirionedd ydyw dirgelwch parhâd a chadwriaeth yr iaith Gymraeg” (Gee, 1863, p. 1). Bodolaeth amodol oedd gan y Gymraeg drwy gydol y cyfnod hwn; dedfryd ohiriedig ar y sail ei bod yn parhau yn



gyfrwng i gadw Cymry uniaith yn Brotestaniaid. Wrth i'r 19eg ganrif fynd rhagddi ac i Gymru ymddiwydiannu, cymhathwyd y werin yng Nghymru o fewn diwylliant y genedl-wladwriaeth Brydeinig ehangach. Wrth weld y Cymry yn troi at y Saesneg, daeth y Gymraeg i'r Ymneilltuwyr yn rhywbeth y gellid ei hepgor.

Beth a achubodd y Gymraeg o'i ffawd? Syndod pethau yw mai rhan o'r ateb o leiaf yw'r union ryddfrydiaeth a feiwyd am ei thranc. Ryw fath o bryfed kannwyll oedd yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol— yn cael eu denu at yr hyn a fyddai yn eu dinistrio yn y pen draw. Fel yr awgrymwyd yn yr ail bennod yn nghyd-destun damcaniaeth Gerschenkron, tra bo Cymru yn prysur ymddiwydiannu roedd rhinwedd o fath mewn athrawiaeth a ystyriai segurdod yn falltod, a gwaith caled yn fendith, ac a anogai'r gweithwyr a oedd yn llafurio dan amodau creulon i ganolbwyntio ar wobrwyon y byd nesaf. Ond o ganlyniad i'r union weithgarwch hwnnw, roedd amodau gwaith y Cymry wedi gwella'n raddol wrth i ail hanner y ganrif fynd rhagddo, ac roeddynt bellach yn meddu ar amser rhydd i'w dreulio yn chwarae pêl-droed, gamblo, gwylio dramâu, ac amrywiaeth o weithgareddau adloniadol eraill na fyddai'r Hen Ymneilltuwyr wedi cyd-weld â hwy.<sup>138</sup> Nid oedd bellach angen y wedd grefyddol ar ideoleg rhyddfrydiaeth a oedd, yn ôl Gerschenkron, yn hollbwysig i gymell diwydiannu cyflym (Gerschenkron, 1962, pp. 23-25). Noda Morgan a Thomas fod hyd yn oed y capeli eu hunain wedi gwamalu erbyn diwedd y ganrif, gan gefnu ar drafod diwinyddiaeth a throi at faterion mwy seciwlar oedd yn adlewyrchu diddordebau ac anghenion eu cynulleidfaoedd (Morgan & Thomas, 1984, p. 169). Disodlwyd ymboeni am y byd nesaf gan bleserau cynyddol y byd hwn. Yn hynny o beth nid

---

<sup>138</sup> Dywed R. Tudur Jones: “Yr oedd y pwyslais trwm gynt ar werth ac urddas gwaith yn cynganeddu'n hapus ddigon â'r pwyso mawr yng nghyfnod agoriadol y Chwyldro Diwydiannol am fwy a mwy o gynnyrch. Ond at ddiwedd y ganrif yr oedd y Chwyldro hwnnw wedi dechrau lluosogi moddion hamddena newydd, yn ogystal â'r cyfoeth i fanteisio arnynt... roedd pwyslais moesol yn yr eglwys ar gynilo wedi rhoi mwy o arian ym mhocedi'r werin...” (Jones, 1981, pp. 96-100).

oedd Cymru yn wahanol i wledydd eraill a welodd seciwlareiddio yn sgil diwydiannu yn ystod yr un cyfnod (R.T. Jones, 1981, pp. 146, 247-8). Dywed un gweinidog Ymneilltuol yn y *Faner* yn 1910: “Daeth ein hadloniant yn faich ac yn ormes arnom” (*Baner ac Amserau Cymru*, 1910, p. 9). Yn ogystal, drwy fynnu y gallai’r Gymraeg a’r Saesneg gyd-fyw mewn parthau ar wahân, derbyniwyd nad oedd y bywyd masnachol a’r ysbrydol yn gorgyffwrdd, gan danseilio yn sylweddol awdurdod honedig crefydd dros holl rychwant bywyd. Dywed Ieuan Gwynedd Jones fod hynny wedi diraddio pwysigrwydd crefydd o’i chymharu â gweithgareddau eraill, gan brysuro seciwlareiddio diwylliannol (Jones, 1992, p. 70). Er nad oedd rhyddfrydiaeth yn farwol i’r elfen ieithyddol o fewn eu cenedlatholdeb, roedd yn enbydus i’r elfen grefyddol.

Yng ngoleuni gwaith Michael D. Jones ac Emrys ap Iwan gellid dadlau mai edwino’r elfen Gristnogol yn hytrach na’r elfen ryddfrydol yn athrawiaeth yr Ymneilltuwyr a oedd yn gyfrifol am y newid agwedd at y Gymraeg. Ar y naill law, nid oedd syniadau Michael D. Jones y tu allan i gwmpas athrawiaeth grefyddol Ymneilltuaeth. Gallai Jones gyfiawnhau ei genedlaetholdeb ieithyddol ar sail grefyddol, gan ddadlau bod pob cenedl yn atebol i Dduw yn unig ac na ddylai cenhedloedd ymyrryd â’i gilydd (Llwyd, 2011, pp. 49-50). Roedd ei gred mewn Cymru ffederal hefyd yn seiliedig ar dyb y byddai y bywyd Cristnogol yn ffynnu orau mewn cymdeithas gyfamodol a oedd yn cyd-weithio yn hytrach na chystadlu (R.T. Jones, 1966, p. 271). Trafodai golli’r iaith Gymraeg yn yr un cyd-destun moesol ag ers dechrau’r ganrif. Sail ei bryderon ynghylch colli’r iaith oedd bod y Gymraeg yn wrthglawdd yn erbyn anfoesoldeb. Nodir ganddo mai Sir Faesyfed oedd “y sir fwyaf anwybodus o efengyl, ac isel ei moesau yng Nghymru” am mai dyna’r sir lle’r oedd y Gymraeg wedi ei goresgyn gan y Saesneg bron yn llwyr: “Profiad Cymru yw fod ei Seisnigo yn ei Phaganeiddio” (M.D. Jones, 1890, p. 2). Noda Dafydd Tudur, awdur doethuriaeth ar fywyd Michael D. Jones, fod ei genedlaetholdeb wedi deillio yn y man cyntaf o’i sylweddoliad, wrth ymweld â’r Unol Daleithiau, y byddai

cefnu ar yr iaith yn arwain at ddirywiad ym moesoldeb y Cymry (Tudur, 2006, p. 117). Gwnaeth Michael D. Jones y pwynt hwn yn y *Cenhadwr Americanaidd* mor gynnar â 1849: "... nid colled am iaith yn unig a fydd colli ein iaith, ond colled am ein moesau, a'n crefydd i raddau pwysig, fel y tystia ein hanes fel pobl y tu hwnt i'r Iwerydd..." (Jones, 1849, p. 11) Cadarnhaodd ymweliad diweddarach â'r wladfa y bu'n rhan allweddol o'i sefydlu ym Mhatagonia y gallai'r Cymry gadw eu hiaith a'u crefydd eu hunain os oeddynt yn rhydd o orthrwm allanol (Walters, 2002, p. 131). Ond credai y byddai Cymru, o aros yn rhan o genedl-wladwriaeth Brydeinig, ymhen amser yn colli ei chrefydd. Roedd y Saeson "drwy wthio crefydd sefydledig arnom am oresgyn Ymneillduaeth Cymru" (M.D. Jones, 1890, p. 2). I'r diben hwnnw, roedd yn chwyrn yn erbyn y syniad o agor capeli ar gyfer Saeson, yr 'Inglis Côt' ac fe gyhuddodd John Thomas o fod eisiau 'Liverpooleiddio Cymru' (R.T. Jones, 1966, p. 255). Serch hynny, cynrychiolai ei wleidyddiaeth symud graddol i gyfeiriad y math o genedlaetholdeb ieithyddol a fyddai'n dod i'r amlwg yn yr 20fed ganrif, oblegid fe welai nad oedd yr atebion i atal y cymhathiad crefyddol hwnnw yn rhai crefyddol yn *unig*. Yn ei dyb ef, ni fyddai deddfwriaeth megis cau'r tafarndai ar y Sul, er ei bod yn cydnabod am y tro cyntaf bod Cymry yn wlad a chanddi anghenion llywodraethol ar wahân i Loegr, yn gwneud dim i ddatrys y problemau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol oedd wrth wraidd y modd yr oedd y Cymry'n cael eu Seisnigo. O ganlyniad, nodir gan Dafydd Tudur fod "the tendency to secularize religion by making it little more than a justification for activity in other spheres" yn amlwg yng ngwaith Michael D. Jones, ac nid yw'n syndod felly ei fod yn cael ei gofio am ei waith cymdeithasol a gwleidyddol yn hytrach na'i waith fel gweinidog (Tudur, 2006, pp. 74, 381).

Ond gellid dadlau mai Emrys ap Iwan a gymerodd y cam pwysicaf tuag at ddiosg y 'cocŵn' crefyddol y bu cenedlaetholdeb ieithyddol yn llochesu ynddo gyhyd. Ar yr olwg gyntaf, mae

dylanwad Cristnogol yn amlwg yn ei waith. Ei gred ef oedd bod Cymru wedi ei chreu yn genedl gan Dduw, a drwy ddifodi yr iaith Gymraeg byddai'r genedl honno'n peidio â bod. Dengys Rhys Llwyd fod cenedlaetholdeb Emrys ap Iwan yn cyd-fynd yn gryf â'r math o genedlaetholdeb y mae Anthony D. Smith yn manylu arno yn ei astudiaethau ef, sef cenedlaetholdeb o dan ddylanwad traddodiad Iddewig-Gristnogol (Llwyd, 2011, p. 63). Fel Michael D. Jones, tuedda hefyd i ddefnyddio rhethreg Feiblaidd er mwyn cefnogi ei ddadleuon. Defnyddir y syniad o 'Gosb Babel' ganddo er mwyn dadlau fod Duw mewn gwirionedd yn cosbi'r rheini sydd am droi cefn ar eu hiaith: "Gwyddai Duw yn well na neb arall nad oedd dim o fath amrywiaeth mewn iaith er peri amrywiaeth dymunol yn null dynion o feddwl ac o fyw... Y mae Duw yn cospi'r bobl sy'n esceuluso iaith eu gwlad; ac o herwydd hynny y mae Cymry Sir Faesyfed a Sir Frycheiniog o'r gororau gymmaint îs mewn dealltwriaeth, mewn moesau ac mewn crefydd na Chymry y rhannau mwyaf Cymreig o'r Dywysogaeth" (ap Iwan, 1909, p. 155). Serch hynny, er bod ryw fath o "fframwaith Cristnogol" i'w genedlaetholdeb, daw Llwyd i'r casgliad mai defnyddio rhethreg Gristnogol er mwyn mynegi safbwyntiau gwleidyddol seciwlar ydoedd yn bennaf. Dywed am Emrys ap Iwan a Michael D. Jones mai "sylwebwyr cymdeithasol a gwleidyddol oeddent ill dau rhagor na diwinyddion o braffter neilltuol," a bod y gred bod seiliau Cristnogol i syniadaeth Emrys ap Iwan yn "wendid" gan genedlaetholwr ethnogrefyddol diweddarach, sef R. Tudur Jones, gwrthrych ei astudiaeth (Llwyd, 2011, pp. 69, 74). Yn wir, penderfyniad y ddau i ymwrthod â'r hen naratif Cristnogol sef mai cosb gan Dduw oedd yn sail i golli sofraniaeth Cymru sy'n nodweddu eu cenedlaetholdeb, medd Dafydd Glyn Jones: "I Emrys ap Iwan, ac i M.D. Jones yn yr un modd, ac i'r gwir genedlaetholwyr ar eu holau, y methiant gwleidyddol sy'n dod gyntaf; ym mywyd cenedl, gwleidyddol yw'r pechod" (Jones, 2001, p. 59). Dangosodd Emrys ap Iwan yn benodol barodrwydd i bwysleisio cenedlaetholdeb seciwlar fel rhywbeth *ar wahân* i'w Gristnogaeth, a yjrwy wneud hynny osod y sylfaeni ar gyfer cenedlaetholwyr Cymreig seciwlar y dyfodol. Dyfynnwyd gan T. Gwynn

Jones yn ei gofiant yn dweud: “Yr wyf fi yn Gymro yn ogystal ag yn Fethodist, ac ni fynwn addaw dim oll fel Methodist a’r rhwystrai i deimlo a siarad fel Cymro” (Jones, 1912, p. 160). Yn ôl Dafydd Glyn Jones roedd hwn yn gam hollbwysig: “Cymwynas, a cham gwir angenrheidiol, fu rhyddhau’r meddwl am Gymru o gloffrwym yr hen ddehongliad diwinyddol” (Jones, 2001, p. 64).

Gall damcaniaeth Partha Chatterjee ynglŷn â’r modd y datblygodd cenedlaetholdeb mewn gwledydd trefedigaethol fod o fudd i ni ddeall sut y gallai’r Ymneilltuwyr fod yn fangre ar gyfer cenedlaetholdeb Cymreig. Dywed Partha Chatterjee fod cenedlaetholdeb gwrth-drefedigaethol yn creu ei barth ‘ysbrydol’ sofrên ei hun o fewn y gymdeithas drefedigaethol ymhell cyn iddo ddechrau ei frwydr wleidyddol gyda’r grym imperialaidd. Mae’n gwneud hyn drwy rannu’r gymdeithas yn ddwy, rhwng yr ysbrydol a’r materol. Yn y parth materol, mae grym y gorchfygwr eisoes wedi ei brofi, ac nid oes dewis ond cydnabod hynny a cheisio dyblygu ei lwyddiant. Mae’r parth ysbrydol, ar y llaw arall, yn un mewdol lle gellid gwarchod hunaniaeth unigryw’r genedl rhag y grym trefedigaethol. Po fwyaf llwyddiant y genedl wrth efelychu gallu materol y gorchfygwr, pwysicaf oll yw gwarchod y parth ysbrydol. Dywed Chatterjee mai o fewn y parth mewdol hwn y crëir y mudiad cenedlaethol: “... here nationalism launches its most powerful, creative, and historically significant project: to fashion a ‘modern’ national culture... If the nation is an imagined community, then this is where it is brought into being.” O fewn y parth hwn, yn ogystal, fe fydd y genedl yn dechrau ar y gwaith, drwy gyhoeddi deunydd printiedig megis llyfrau a phapurau newydd, o sefydlogi a safoni’r iaith i fod yn addas ar gyfer yr oes fodern. Mae’r broses hwn yn mynd rhagddi yn gyfan gwbl ar wahân i’r wladwriaeth: “The bilingual intelligentsia came to think of its own language as belonging to that inner domain of cultural identity, from which the colonial intruder had to be kept out; language therefore became a zone over which the nation first had to declare its

sovereignty and then had to transform in order to make it adequate for the modern world” (Chatterjee, 1993, pp. 6-7). O fewn y ‘cocŵn’ hwn felly, mae cenedlaetholdeb modern yn ymffurfio, ac yn paratoi i ddeor. Er mai mudiadau gwrth-drefedigaethol Affrica ac Asia y mae Chatterjee yn eu trafod yma, gellid cymhwysu ei ddamcaniaeth at Gymru yn ogystal. Er ei fod yn dyddio o gyfnod cyn damcaniaeth Chatterjee, ceir sylw i berwyl tebyg iawn gan Ieuan Gwynedd Jones yng nghyfrol *Cof Cenedl III*. Nodir yno ganddo fod y parth amddiffynnol ysbrydol a greodd yr Ymneilltuwyr wedi bod yn feithrinfa amddiffynnol i syniadau cenedlaetholgar ddatblygu. Dywed bod Ymneilltuaeth wedi “llenwi bwlch ym mywyd y wlad, drwy weithredu yn yr un modd â’r sefydliadau gwleidyddol hynny mewn gwledydd eraill sy’n crisialu cydwybod cenedl”. Yn wir, roedd crefydd yn cynrychioli mwy na’r bywyd ysbrydol yn unig; roedd hefyd yn “[g]orff o athrawiaethau” ac yn “[f]ath ar hunanlywodraeth” (I.G. Jones, 1988, p. 137). Dywed Adamson yn yr un modd fod y grefydd Ymneilltuol wedi creu “an ideological space enabling the tenantry to step outside their dependance and subservience and to perceive the landlords as exploitative” (Adamson, 1991, p. 106). Credaf fod modd dadlau bod y cenedlaetholdeb ethnogrefyddol a grëwyd gan y dyneiddwyr yng nghyfnod y Tuduriaid, ac a gyrhaeddodd gynulleidfa dorfol yn y 19eg ganrif, wedi ffurfio parth amddiffynnol o’r math a ddisgrifir gan Chatterjee yma. Gwelir eisoes fod cryn amheuaeth ymysg haneswyr a fyddai’r Gymraeg wedi goroesi hebdo. Ond er nad oedd Michael D. Jones nac Emrys ap Iwan yn gynrychioliadol o farn wleidyddol y cyfnod, wrth edrych yn ôl gellir gwerthfawrogi eu bod yn cynrychioli siffrwd cyntaf adenydd y cenedlaetholdeb ieithyddol a oedd yn barod i dorri allan o’r parth ysbrydol a dylanwadu ar bynciau seciwlar yn ogystal (Chatterjee, 1993, pp. 6-7). Mae R. Tudur Jones yn nodi mai Emrys ap Iwan a Michael D. Jones oedd y cyntaf “i herio’r ddeuoliaeth rhwng y cylch sanctaidd Cymraeg a’r cylch seciwlar Saesneg” (Jones, 1999, p. 250). Ni olygai’r newid agwedd hwn gefnu ar eu rhyddfrydiaeth, ond yn eu tyb hwy “amherthnasol a pheryglus” oedd y dadleuon *laissez-faire* a ddefnyddiwyd

i golbio'r Gymraeg yn y gorffennol (Jones, 1987, p. 134).<sup>139</sup> Yn hynny o beth yr oeddynt ar flaen y gad ymysg to newydd o Ryddfrydwyr a oedd yn gwrthod pwyslais yr Hen Ryddfrydwyr megis S.R. a J.R. ar yr unigolyn ac yn ystyried yn hytrach ei le o fewn y gymdeithas ehangach (Hughes, 1995, pp. 60-66)<sup>140</sup>. Mae eu daliadau yn awgrymu nad oes sail mewn gwirionedd i'r ddamcaniaeth bod rhyddfrydiaeth, yn ei hanfod, yn elyniaethus i genedlaetholdeb ieithyddol. Yn wir, gellid dadlau mai ei heffaith hirdymor oedd llacio rywfaint ar gwmpas yr hunaniaeth ethnogrefyddol a olygai fod y Gymraeg yn eilbeth i grefydd ym meddyliau'r Cymry gyhyd. Ond nid yw difodiad un ffurf ar genedlaetholdeb, ynddo ei hunan, yn esbonio pahan y daeth cenedlaetholdeb ieithyddol i gymryd ei le. Yn y bennod nesaf byddaf yn ystyried rhai esboniadau eraill ar sut yr esgorodd yr Ymneilltuwyr ar y cenedlaetholdeb ieithyddol a ddaeth i'r amlwg yn yr 20fed ganrif.

Yn y bennod hon fe euthum i'r afael â'r cyhuddiad mai ideoleg rhyddfrydiaeth oedd gwreiddyn agwedd elyniaethus neu ddi-hid y Cymry tuag at y Gymraeg yn y 19eg ganrif. Awgrymais y gellid gwneud defnydd o ddamcaniaeth tri cham Miroslav Hroch er mwyn dadlau bod y gwaith o lunio'r cenedlaetholdeb ethnogrefyddol a ddaeth i amlygrwydd torfol yn ystod y 19eg ganrif wedi dechrau ymysg dyneiddwyr yr 16eg ganrif. Eilbeth i grefydd - a chyfrwng i achub eneidiau - oedd yr iaith Gymraeg o fewn y cenedlaetholdeb hwn, ac o ganlyniad i wendid sefydliadau a'r wasg argraffu o fewn Cymru ni ddatblygodd cenedlaetholdeb ieithyddol i'w herio. Serch hynny, sgil-ffaith rhyddfrydiaeth oedd proses o seciwlareiddio crefyddol a

---

<sup>139</sup> Pwysleisiai rhyddfrydiaeth Michael D. Jones gyfrifoldeb moesol yr unigolyn, a golygai hynny eu bod yn gwbl gyfrifol am eu gweithredoedd eu hunain ac, o ganlyniad, ar fai petai eu hiaith yn marw. Yn hynny o beth roedd dan ddylanwad damcaniaeth John Locke ynghylch rhyddid, a chredai mai ewyllys y bobl oedd sail democratiaeth – barn a oedd yn groes i'r gred Galffinaidd bod awdurdod y wladwriaeth yn deillio o Dduw (Tudur, 2006, pp. 74, 97-8, 103, 126-7).

<sup>140</sup> Dywed E. Morgan Humphreys fod syniadau *laissez-faire* yr Hen Ymneilltuwyr wedi mynd yn bur henffasiwn ymysg rhyddfrydwyr erbyn iddo ddechrau gweithio ar y *Genedl* ar ddechrau'r 20fed ganrif. Dywed ei fod y amheus a oedd gan Evan Jones o Gaernarfon “fawr o ddylanwad gwleidyddol ar y werin yn y cyfnod yr wyf yn sôn amdano... gwyddwn mor oeraidd oedd ei deimlad at welliannau cymdeithasol... Daliai ef yr hen ofergoel y gallai pob dyn gweithgar gael gwaith, ac ar y tlawd ei hun yr oedd y bai am ei dlodi” (Humphreys, 1938, p. 206).

arweiniodd erbyn diwedd y ganrif at ailasesu'r berthynas glos hon rhwng yr iaith a chrefydd gan Emrys ap Iwan ac eraill. Dadleuais yng ngoleuni damcaniaeth Chatterjee fod cenedlaetholdeb gwrthdrefedigaethol yn creu ei barth 'ysbrydol' sofren ei hun a bod lle i ddiolch i'r Ymneilltuwyr am ddiogelu'r iaith o fewn y parth crefyddol hyd nes i grefydd edwino a chenedlaetholdeb ieithyddol ymddangos wrth i'r ganrif dynnu at ei therfyn.



## Pennod 5

### Cymru'r Genedl Segmentedig

Yn rhan gyntaf y traethawd hwn aethpwyd i'r afael â'r damcaniaethau sydd wedi ceisio egluro pam na fu mudiad cenedlaethol amlwg yng Nghymru yn y 19eg ganrif. Dadleuwyd nad oedd y ddadl bod ideoleg rhyddfrydiaeth wedi llesteirio twf mudiad cenedlaethol yn argyhoeddi, ac mai llawer mwy argyhoeddiadol oedd yr awgrym nad oedd yr amgylchiadau economaidd yng Nghymru yn ffafriol i dwf cenedlaetholdeb. Ond o bwysleisio'r holl elfennau hyn a oedd yn milwrio yn erbyn datblygiad cenedlaetholdeb Cymreig, a chenedlaetholdeb ieithyddol yn benodol, y dirgelwch yw pam y datblygodd cenedlaetholdeb modern Gymreig o gwbl erbyn diwedd y 19eg ganrif, a dyna fydd y bennod hon yn ceisio ei ateb. Awgrymaf y daw'r ateb o du'r Ymneilltuwyr Rhyddfrydol, yr union garfan honno a fu'n fath o fwch dihangol ymysg y rheini sydd am esbonio paham y bradychwyd mudiad cenedlaethol ieithyddol yn y 19eg ganrif. Rydym eisoes yn gyfarwydd ag agweddau'r Ymneilltuwyr at y Gymraeg, felly ofer fyddai dadlau mai *bwriadol* oedd eu hymdrechion i hybu cenedlaetholdeb ieithyddol. Ond fel y nodwyd eisoes wrth gyfeirio at waith Scott (Scott, 2004, pp. 7, 8), dylid ystyried datblygiad cenedlaetholdeb fel cyfres o droeon trwstan, gweithredoedd y rheini a oedd am sicrhau newid yn y presennol ond na wyddent sut y byddai hynny'n dylanwadu ar y dyfodol. Yn fy marn i, dyna'n union a welir yng ngweithredoedd yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol yn y 19eg ganrif. Bydd fy nadl yma yn adeiladu ar ddamcaniaeth cenedloedd segmentedig Roeder, a drafodwyd yn y bennod gyntaf. Dadleuaf fod yr Ymneilltuwyr yn cynrychioli sefydliadau segmentedig o fewn Cymru, a'u bod wedi eu sbarduno i atgynhyrchu cenedlaetholdeb ethnogrefyddol er mwyn ennill cefnogaeth dorfol i'w hymdrechion i ddiosg iau'r Eglwys Sefydledig.

### *Damcaniaeth Roeder*

Fel y soniwyd eisoes, mae Roeder yn adeiladu ar waith modernwyr eraill megis Breuilly a Brass sydd yn ystyried cenedlaetholdeb yn arf yn nwylo elît sy'n cystadlu am gefnogaeth dorfol er mwyn sicrhau grym gwleidyddol ac economaidd iddynt eu hunain; ond tybiaf fod ei waith yn rhagori arnynt hwy am ei fod yn seiliedig ar ddadansoddiad meintiol byd-eang yn hytrach na dadansoddiad ansoddol sy'n seiliedig ar enghreifftiau unigol. Yn hynny o beth, mae'r data yn gyson. Yn nhyb Roeder, bodolaeth sefydliadau sy'n hollbwysig – ac ymgais y sefydliadau hynny i ennill rhagor o rym iddynt eu hunain sydd i raddau helaeth yn gyfrifol am greu cenedl-wladwriaethau newydd. Yn absenoldeb sefydliadau o'r fath i ddadlau o blaid bodolaeth 'grŵp cenedlaethol' sydd ag amcanion yn gyffredin, awgryma, fel y gwna Hechter, y bydd gwrthwynebiad i'r drefn fel ag y mae yn tueddu i hollti ar sail dosbarth (Roeder, 2007, p. 16). Mae'n wfftio felly ddadansoddiad sy'n rhoi'r pwyslais ar dwf mudiad cenedlaethol ar sail greddf geidwadol i warchod arwahanrwydd diwylliannol y wlad – nid yw bodolaeth grwpiau ethnig arwahanol ohoni ei hunan yn unrhyw arwydd o lwyddiant mudiadau cenedlaethol. Symptom yw'r tueddiad i ganolbwyntio ar grwpiau ethnig o dueddiad camarweiniol cenedloedd annibynnol i greu mytholeg genedlaethol iddynt eu hunain yn seiliedig ar nodweddion ethnig penodol. Yn y cyfamser, mae'r holl ddarpar-genhedloedd ethnig y gellid bod wedi eu llunio wedi mynd dros gof; wedi eu llyncu a'u cymhathu gan genedl-wladwriaethau nad ydynt yn gweld unrhyw fudd mewn tynnu sylw at eu bodolaeth. Deillia hyn o'r modd y mae sefydliadau cenedl-wladwriaethau yn pwysleisio hunaniaeth ethnig eu gwlad fel rhywbeth anochel, oedd yn seiliedig ar ddymuniad y bobl o'r cychwyn cyntaf. O ganlyniad, tueddiad amgueddfeydd, llyfrgelloedd a phrifysgolion yw cadw'r wybodaeth sydd fel petai'n cadarnhau bod y genedl-wladwriaeth eisoes yn homogenaidd, ac felly bod ei datblygiad yn anochel, gan anwybyddu unrhyw dystiolaeth amgen. Er enghraifft, yn yr Unol Daleithiau,

Ffrainc, a chenhedloedd yr Ymerodraeth Hapsbwrgaidd, meddai Roeder, roedd sawl grŵp ethnig ar gyfnodau gwahanol yn hawlio ffurfiau amgen o'r wladwriaeth; serch hynny, ystyrir y canlyniad terfynol yn 'llwyddiant' i'r grwpiau ethnig a orfu er bod amryw o grwpiau ethnig dichonadwy eraill wedi eu diystyru'n llwyr. Dywed Roeder bod "the research methods of humanists, even when the scholars are not partisans of a particular nation-state project, privilege the story of successful nation-state projects" (Roeder, 2007, p. 30). Yn fwy na hynny, mae'n wfftio'r syniad bod cam C Hroch, sef ennill cefnogaeth dorfol, yn rhagofyniad i greu cenedl-wladwriaeth o'r newydd. Noda fod y gwledydd hynny a welodd fudiadau cenedlaethol 'llwyddiannus' yn nhyb Hroch, Gwlad Tsiec a Slofacia, wedi 'ennill' annibyniaeth er bod mwyafrif y boblogaeth yn gwrthwynebu hynny. Yr hyn a oedd yn gyfrifol am eu llwyddiant oedd eu bod eisoes yn genhedloedd segmentedig a chanddynt eu sefydliadau gwleidyddol nerthol eu hunain<sup>141</sup> (Roeder, 2007, pp. 23-4).

Er ei fod yn bur feirniadol o rai elfennau o waith Hroch, credaf fod modd cysoni rhannau helaeth o'u dadleuon. Dywed Hroch fod mudiadau cenedlaethol sy'n ffurfio ar ôl diwydiannu yn llawer llai tebygol o lwyddo. Yng ngoleuni damcaniaeth Roeder, gellid priodoli hyn i'r ffaith y bydd nifer o'r sefydliadau sy'n anhepgor i lwyddiant y mudiadau cenedlaethol eisoes *in situ* cyn datblygu cenedlaetholdeb modern, ac felly cyn diwydiannu. Yn ogystal, pwysleisia Hroch yr angen am gefnogaeth graddedigion, crefftwyr a masnachwyr i lwyddiant mudiadau cenedlaethol (Hroch, 1993, pp. 11-2). Dyma wrth gwrs yr union bobl a fyddai'n debygol o fod ynghlwm wrth y sefydliadau o'r math y sonia Roeder amdanynt. Mae Hroch hefyd yn pwysleisio angen yr elîr i brofi i'r werin fod cenedlaetholdeb yn ddichonadwy yn ariannol. Yn ôl Roeder, po fwyaf o sefydliadau cenedlaethol y mae'r wladwriaeth segmentedig eisoes yn

---

<sup>141</sup> Mae'n ddiddorol bod damcaniaeth Roeder, o'i chymhwyso i'n dyddiau ni, yn dengys ffolineb yr Arglwydd Robertson, a fynnodd yn 1995: "Devolution will kill nationalism stone dead" (Watt, 2011). Yn hytrach mae'n ategu awgrym cyn-Ysgrifennydd Cymru, Ron Davies fod datganoli yn broses nid digwyddiad ('Wales' first minister calls for end to devolution tinkering', 2013).

meddu arnynt, hawsaf i gyd yw argyhoeddi'r bobl na fyddai cost ariannol annibyniaeth yn anferthol. Dywed Roeder: "Without segment-states, many potential nationalists are deterred from pressing a nation-state project by the overwhelming costs of creating a state *de novo* and so press alternative demands, such as civil liberties, within the existing state" (Roeder, 2007, p. 16). Y gwahaniaeth mwyaf rhyngddynt, felly, yw bod Hroch yn nhyb Roeder yn goramcangyfrif i ba raddau y mae angen i'r elîf feddu ar gefnogaeth dorfol er mwyn gwireddu eu hamcanion. Serch hynny, mae yna oblygiadau pellgyrhaeddol i hanes datblygiad cenedlaetholdeb yng Nghymru yng nghyd-destun damcaniaeth Roeder; yn enwedig o ystyried y pwyslais hirdymor ar bwysigrwydd mudiadau cenedlaethol torfol wrth sicrhau annibyniaeth.

Mae ymchwil Roeder wedi esgor ar gryn drafodaeth ynglyn â gwrthdaro rhwng y genedl-wladwriaeth ganolog a'r genedl segmentedig. Teg dweud bod y rhan fwyaf o'i ymchwil wedi canolbwyntio ar drafod ffyrdd o ddatrys gwrthdaro o fewn gwladwriaethau cyfoes sydd yn dioddef o ryfel cartref,<sup>142</sup> ond maent hefyd yn cynnwys ambell fewnwelediad a allai fod yn ddefnyddiol wrth drafod Cymru. Mae David Siroky a John Cuffe yn mynd i'r afael â'r honiad bod grwpiau ethnig sydd yn meddu ar sefydliadau ymreolaethol yn fwy tebygol o dorri cyswllt â'r genedl-wladwriaeth ganolog, drwy rannu grwpiau'n dri chategori – grwpiau ymreolaethol, grwpiau nad ydynt erioed wedi bod yn ymreolaethol, a grwpiau a oedd yn meddu ar sefydliadau ymreolaethol ond wedi colli rhywfaint ohonynt wrth i'r genedl-wladwriaeth ganolog gyfnerthu grym. Maent yn dod i'r casgliad bod grwpiau nad ydynt erioed wedi meddu ar unrhyw ymreolaeth yn annhebygol iawn o dorri cysylltiad â'r genedl-wladwriaeth ganolog. Yn y cyfamser, grwpiau a oedd yn meddu ar ymreolaeth o'r blaen, ond wedi colli'r ymreolaeth honno, yw'r mwyaf tebygol o dorri cysylltiad. Mae'r tebygolrwydd y bydd grwpiau sydd yn

---

<sup>142</sup> Mae erthygl gan Caroline Hartzell a Matthew Hoddie, a gyhoeddwyd cyn ymchwil Roeder, yn awgrymu y gall creu sefydliadau segmentedig fod yn fodd o leihau gwrthdaro oherwydd ei fod yn gwarchod grwpiau ymylol rhag ecsbloetiaeth ganolog. Serch hynny ymdrin yn bennaf â lleihau gwrthdaro arfog y maent yn hytrach na thrafod hyfywedd y genedl-wladwriaeth ganolog yn yr hirdymor (Hartzell & Hoddie, 2003, p. 330).

meddu ar ymreolaeth yn torri cysylltiad yn dibynnu ar hygrededd y genedl-wladwriaeth ganolog wrth warantu eu statws (Siroky & Cuffe, 2015, p. 25). Rhaid nodi mai gwledydd rhwng 1960 a 2000 a ystyriwyd ganddynt. Serch hynny, mae eu casgliadau yn ddi-ddorol wrth gymharu Cymru â gwledydd Ewropeaidd eraill yn y 19eg ganrif. Gwyddom fod nifer o wledydd canol Ewrop, ac eraill megis y Ffindir, wedi meddu ar eu sefydliadau eu hunain a bod canoli grym yn y genedl-wladwriaeth fodern yn cynrychioli colli rhywfaint o'r ymreolaeth a oedd ganddynt. Meddai Cymru ar lawer llai o'i sefydliadau ei hun oddi ar y Ddeddf Uno, ac felly mae'n syrthio i grŵp cyntaf Siroky a Cuffe: "very unlikely to pursue secession, because on average they lack both the leadership and grievances required for collective action" (Siroky & Cuffe, 2015, p. 7). Mae Bethany Lacina yn ystyried yr un pwnc o safbwynt yr hyn sydd gan y genedl segmentedig i'w ennill o barhau yn rhan o'r genedl-wladwriaeth ganolog, gan awgrymu bod y grwpiau sydd â mantais wleidyddol yn y brifddinas yn llai tebygol o annog gwrthdaro â'r genedl-wladwriaeth ganolog: "An ethnic group that has more power in the capital than its neighbors is unlikely to have grievances regarding central policies in the periphery" (Lacina, 2015, pp. 692, 704). Mae ymchwil atodol Siroky & Cuffe a Lacina yn cefnogi pwyslais Roeder ar gymhelliad yr elít sy'n meddu ar sefydliadau o fewn y genedl neu'r ddarpar genedl segmentedig wrth benderfynu a fyddant yn hybu cenedlaetholdeb.<sup>143</sup>

### *Sefydliadau Cymru*

Pwysleisiwyd eisoes fod Cymry yn affwysol o brin o sefydliadau cenedlaethol yn ystod y cyfnod dan sylw. Dywed Ieuan Gwynedd Jones bod, yn y 19eg ganrif, "serious doubts about

---

<sup>143</sup> Mae Liam Anderson yn feiriadol o awgrym Roeder na ddylid caniatáu datblygiad cenedloedd segmentedig ar sail ethnigrwydd gan eu bod yn aml yn arwain at chwalu'r genedl-wladwriaeth ganolog, gan ddadlau eu bod yn cael eu creu ac yn aml yn chwalu oherwydd bod y cenedl-wladwriaethau ganolog *eisoes* yn fregus. Er enghraifft, meddai, petai'r Alban yn gadael y Deyrnas Unedig, fe fyddai yn esiampl o "ethnofederations that had also previously failed as unitary systems" (Anderson, 2014, pp. 165-204). Serch hynny, nid yw'r ddadl hon yn effeithiol wrth wrthddweud damcaniaeth ganolog Roeder, sydd eisoes yn pwysleisio bod camweinyddiaeth y genedl-wladwriaeth ganolog yn hollbwysig wrth hybu mudiadau cenedlaethol yn y cenedloedd segmentedig.

their nationhood. They possessed none of the institutions of statehood and it did not appear, except briefly at the end of the century, that they aspired to possess them” (Jones, 1992, p. 55).

Yn y cyfamser, roedd y sefydliadau a ystyrir yn rhai Prydeinig yn niferus, a Saesneg oedd eu priod iaith. Ys dywed un cyfrannwr at y *Cronicl* yn 1870:

Y Saesonaeg yw iaith parlyrau, masnachdai, swyddfaau, a llysoedd. Yn ei llaw hi y mae cyfoeth ac anrhydedd, ac ychydig o'r rhai mwyaf eu twrw [o blaid y Gymraeg] sydd heb fod yn awyddus am gael y pethau hyn iddynt eu hunain ac i'w plant, nag yn gadw yn fyw yr hen iaith Gymraeg. (Roberts, 1870, p. 220)

Nid oedd unrhyw gymhelliad ar y Cymry, felly, i ddiogelu'r Gymraeg fel modd o ymuno â'r elít a gâi fynediad at y sefydliadau hynny. Nid oedd, yng ngeiriau Ieuan Gwynedd Jones unwaith eto, unrhyw “socially acceptable prestige-value” yn perthyn i'r iaith a fyddai wedi deillio o'i defnyddio mewn sefydliadau neu ymysg y gwŷr mawr (Jones, 1992). Greddf ryddfrydol yw cenedlaetholdeb yn y bôn, am ei fod yn deillio o'r gred bod nodweddion cenedlaethol yr unigolyn yn uwchraddol ac y dylent gael eu rhannu gan eraill. Gall y gred hon ddatblygu o ganlyniad i werth economaidd, e.e. bod y Saesneg yn 'iaith cynnydd', neu'r Gymraeg felly yng nghyd-destun chwareli'r gogledd-orllewin, ond mae'n amlwg bod gan iaith sefydliadau nerthol hefyd ran i'w chwarae, nid yn unig wrth atgynhyrchu disgwrs cenedlaetholdeb, ond wrth awgrymu bod un iaith yn cynnig gwell cyfleoedd na'r llall. Er enghraifft, ni ellir honni yn *wrthrychol* bod y Gymraeg yn rhagori ar y Saesneg fel iaith crefydd. Serch hynny, gwelir eisoes fel yr oedd cyd-gysylltiad hirfaith yr iaith â sefydliadau crefyddol yng Nghymru oddi ar gyfieithu'r Beibl wedi rhoi'r argraff honno i drigolion y wlad. Cyn gallu dadlau bod gan nodweddion ethnig unigryw'r Cymry werth, roedd angen sefydliadau a

fyddai'n barod i'w harddel a dadlau eu bod yn uwchraddol, gan addo golud a grym (h.y. swyddi ymysg y dosbarth canol sefydliadol) i'r rheini a fyddai yn eu harddel.

Nid oedd diffyg statws y Gymraeg o fewn sefydliadau cenedlaethol y Deyrnas Unedig yn beth newydd; gellir ei olrhain yn ôl i'r Ddeddf Uno, a'r canoli sefydliadau a welwyd yn ystod y cyfnod hwnnw.<sup>144</sup> Awgryma Sugget et al. mai datblygiad diweddar ymysg haneswyr yw ystyried y Ddeddf Uno yn drobwynt arwyddocaol yn hanes yr iaith: "Yr adeg honno nid achosodd, hyd y gwyddom, ofid ingol nac euogrwydd llethol" (Suggett, et al., 1997, pp. 63, 69). Deilliai hyn o'r ffaith bod y ddeddf yn cynnig cyfleoedd i'r Cymry hefyd, gan ganiatáu iddynt ymgeisio am swyddi gweinyddol, a chynrychioli Cymru yn Senedd Teyrnas Lloegr<sup>145</sup> (Williams, 1998, p. 44). Ochr arall y geiniog oedd y byddai'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn iaith israddol fyddai'n atal person rhag cyrraedd yr uchelfannau, a'r Saesneg yn iaith oedd yn cynnig cyfleoedd amlycach ym myd gwaith.<sup>146</sup> Dywed Durkacz: "... it was not the Act itself

---

<sup>144</sup> Fel y nodwyd eisoes, credid oddi ar cyfnod y Diwygiad ei bod yn hanfodol bod rhanbarthau 'Celtaidd' Prydain yn cael eu cymathu yn ddiwyllianol ac yn ieithyddol rhag i elynion cyfandirol y Goron gymryd mantais ohonynt, a'r cam mwyaf arwyddocaol yn y broses o wneud hynny oedd Deddf Uno 1536 (Durkacz, 1983, p. 3). Trawsblannwyd system gyfreithiol, llysoedd, gweinyddiaeth, a strwythur llywodraeth leol Lloegr i Gymru, a phennwyd mai Saesneg oedd iaith cyfraith a llywodraeth (Williams, 1998, p. 44). O ganlyniad, Saesneg a welwyd mewn ysgrifau gan amlaf, a "dim ond dyrnaid o lawysgrifau wedi eu geirio yn Gymraeg sydd wedi goroesi..." (Suggett, et al., 1997, p. 73). Drwy sicrhau na fyddai unrhyw Gymry uniaith yn gallu llenwi swydd gyhoeddus sicrhawyd y byddai ysgolion yn canolbwyntio ar y Saesneg, a dyna'r unig iaith a ddysgwyd yn yr ysgolion gramadeg Tuduraidd newydd. Disgrifia Durkacz y ddeddf fel "a deliberate attempt to suppress the language and break the spirit of the Welsh people..." (Durkacz, 1983, p. 3). Serch hynny, mae peryg gorliwio effeithiau'r ddeddf. Roedd i raddau yn fater o wneud yn swyddogol yr hyn a oedd eisoes wedi ei gyflawni dan y Normaniaid (J.G. Jones, 1998, p. 83). Yn ymarferol, ni fyddai wedi bod yn bosib cynnal system gyfreithiol Saesneg ei hiaith yng Nghymru, am na fyddai'r rhan fwyaf wedi gallu deall beth oedd yn mynd rhagddo. Yn ogystal, oherwydd bod Cymru wedi ymostwng mor barod i ewyllys coron Lloegr, nid aethpwyd ati i geisio dinistrio'r iaith frodorol â'r un eiddgarwech ag a welwyd yn yr Iwerddon a'r Alban: "In some ways the settlement of 1536 saved Wales from the fate of Ireland and Scotland – that of taking the losing side in England's quarrel with the Pope and his Catholic allies" (Durkacz, 1983, pp. 3-4).

<sup>145</sup> Yn wahânol i'r Alban ac Iwerddon, nid oedd angen disodli llywodraeth na system gyfreithiol frodorol, ac ar wahân i'r ysgolion barddol nid oedd gan Gymru sefydliadau oedd yn sicrhau parhad ei hiaith a'i diwylliant (Durkacz, 1983, pp. 3-4). O ganlyniad "ystyried Cymru fwyfwy yn dalaith deyrngar, ac ymostyngar hyd yn oed, o fewn y genedl-wladwriaeth" (Suggett, et al., 1997, p. 62).

<sup>146</sup> Awgryma Peter Roberts fod yr iaith wedi bod yn ganolog i hunaniaeth y Cymry oherwydd nad oedd ffiniau tiriogaethol clir i'r genedl cyn y Deddfau Uno a'i bod yn cynnwys nifer o drefi lle nad oedd croeso iddynt. Unwaith y daeth Cymru yn un diriogaeth unedig daeth iaith yn rhan llai pwysig o'u hunaniaeth: "The union released the Welsh from the sense of occupying only sections of their own country... and they could now be said to inhabit a land united for the first time in history" (Roberts, 1998, pp. 11, 13).

as much as the attitudes it inculcated which produced the linguistic cleavage...<sup>147</sup> (Durkacz, 1983, p. 3). Gwelir hyn yn amlwg yn newid agwedd uchelwyr Cymru at ddiwylliant Cymraeg yn y cyfnod modern cynnar. Gwelent y Ddeddf Uno fel cyfle i roi'r iaith a'r diwylliant brodorol o'r neilltu<sup>148</sup> er mwyn cynyddu eu dylanwad, sicrhau swyddi o bwys (Durkacz, 1983, p. 3), a ffynnu'n ariannol (R.B. Jones, 1994, p. 2). Mae Kenneth O. Morgan yn cyferbynnu agwedd uchelwyr Cymru, a ddaeth yn "increasingly isolated" o'r werin yn sgil cymhathu Cymru i system gyfreithiol Lloegr, â'r Alban, lle'r oedd gan yr elît eu sefydliadau eu hunain ac yn awyddus i'w cadw: "The Scottish aristocracy were themselves the most articulate exponents of Scottish nationality..." (Morgan, 1971, p. 155). Dylanwadodd eu penderfyniad ar un o'r ychydig sefydliadau a barhâi i hybu disgwrs cenedlaetholdeb yng Nghymru, sef yr ysgolion barddol.<sup>149</sup> Y beirdd a gynhaliai'r traddodiad barddol a ddyddiai o oes Taliesin yn y 6ed ganrif, ac yn absenoldeb unrhyw sefydliadau eraill, hwy oedd "the ideologists of medieval Wales, preserving intact a sense of Welsh nationality" (Durkacz, 1983, pp. 1-2, 3). Ond yn absenoldeb unrhyw sefydliadau eraill o bwys,<sup>150</sup> y bonedd oedd unig ffynhonell nawdd awduron Cymraeg

---

<sup>147</sup> Roedd darlunio'r iaith Gymraeg fel un israddol hefyd yn fêl ar fysedd Saeson oedd am fychanu'r Cymry Cymraeg, gan greu stereoteip o bobl ddieithr a thlawd: "Darlunnid y Cymry yn y cyfnod modern cynnar fel pobl wladgarol, fyrbwyll, hygoelus a chelwyddog yn gwisgo brethyn cartref garw, yn sglaffio cennin, caws pob a llymru, yn lloccio meddyglyn, yn plycio telynau, ac yn cadw defaid a geifr chweinllyd" (Suggett, et al., 1997, p. 64). Dywed Durkacz fod yr agwedd hon at yr ieithoedd Celtaidd wedi parhau tan ail hanner yr 20fed ganrif (Durkacz, 1983, pp. 1, 3).

<sup>148</sup> Dywed Suggett et al: "Yn eu golwg nhw daethai'r Saesneg i fod yn iaith dyrchafiad a chyfoeth. Yr oedd bellach bob math o gyfleoedd i'r sawl a geisiai glod a golud, ac yr oedd atyniadau bywyd y tu hwnt i Glawdd Offa ac yn enwedig yn Llundain, yn anogaeth i lawer i gael gwared â'u hiaith a'u diwylliant brodorol." Yn eu tyb nhw, nid oedd y Gymraeg "yn gyfrwng addas" i drafod materion mawr y dydd, gan gynnwys "gwleidyddiaeth, gweinyddiaeth, diwylliant aruchel neu fywyd cymdeithasol y boneddigion" (Suggett, et al., 1997, pp. 78-80).

<sup>149</sup> Fel y nodir yn y bennod gyntaf, dywed Lynch fod y canu proffwydol Cymraeg yn arwydd o ymwybod cenedlaethol yn yr oesoedd canol diweddar a'r cyfnod modern cynnar (Lynch, 2007, p. 41). Roedd athrawon yr ysgolion barddol hefyd yn addysgu clerigwyr a meibion uchelwyr (Williams, 1998, p. 45).

<sup>150</sup> Un o'r ychydig eithriadau i'r rheol a fodolai yn y 19eg ganrif oedd Llys y Sesiwn Fawr, a sefydlwyd ym 1543 ac a ddiwydwyd yn 1830 (Jenkins 31). Gellir dadlau nad oedd yn sefydliad cenedlaethol yng ngwir ystyr y gair. Roedd yn gwasanaethu Caer yn ogystal â Chymru, ac nid oedd yn gwasanaethu Sir Fynwy. Yn ogystal, 30 yn unig o'r 217 o farnwyr a wasanaethai'r Sesiwn Fawr oedd yn Gymry. Ond er nad oedd mwyafrif y barnwyr yn siarad Cymraeg, roedd nifer o'r swyddogion yn gwneud hynny, ac o ganlyniad dyma un o'r ychydig sefydliadau a roddai statws i'r Gymraeg drwy ei defnyddio wrth weinyddu'r gyfraith. Diddymwyd y Sesiwn Fawr er mwyn cymhathu Cymru i Loegr yn enw 'cynydd' (M. E. Jones, 554-5). Gellid dadlau bod y modd yr oedd pobl gyffredin yn ogystal â bonedd Cymru yn rhan o'r ymgyrch i atal diddymu'r Sesiwn Fawr, y cyfarfodydd Cymraeg eu hiaith a drefnwyd yn rhan o'r ymgyrch, yn ogystal â'r adroddiadau a gafwyd ar yr ymgyrch mewn cylchgronau megis *Seren Gomer* (I.G. Jones 475), yn arwydd pellach o rym sefydliadau arwahanol wrth hybu ymdeimlad o gymuned ddychmygedig. Cafwyd yn ogystal Gyngor Cymru a'r Gororau, corff gweinyddol ar gyfer Cymru a



(Suggett, et al., 1997, p. 9), a dirywio yn araf bach oedd hanes y traddodiad barddol dros y canrifoedd dilynol<sup>151</sup> (Durkacz, 1983, p. 3).

Er mwyn esbonio gwir arwyddocâd edwino sefydliadau cenedlaethol Cymru, a chynnig drws agored i'r Cymry i sefydliadau cenedlaethol a Lloegr, oddi ar y Ddeddf Uno, rhaid troi yn gyntaf yn ôl at Benedict Anderson, ac elfen lai amlwg o'i ddamcaniaeth am dwf y 'gymuned ddychmygedig'. Er nad yw Benedict Anderson yn ymdrin yn benodol â chenedlaetholdeb yng Nghymru, mae'n trafod cenedlaetholdeb yn yr Alban ac Iwerddon. Un o'r rhesymau a gynigia dros ddatblygiad mudiad cenedlaethol yn y naill ond ddim y llall oedd bod gan Sgotiaid fynediad parod at Senedd a marchnadoedd Lloegr, tra bo mynediad trigolion Iwerddon yn gyfyngedig. Yn yr un modd, yn y rhannau hynny o'r Ymerodraeth lle'r oedd polisi o Seisnigeiddio'r boblogaeth, ond lle nad oedd gan y trigolion fynediad parod at y 'Fam Senedd', gan gynnwys taleithiau America, India, Awstralia, Seland Newydd a De Affrica, fe ddatblygodd mudiadau cenedlaethol: "... no matter how Anglicized a Pal became, he was always barred from the uppermost peaks of the Raj" (Anderson, 1991, pp. 90-3). Yn yr un

---

Swydd Amwythig, Swydd Henffordd, Swydd Gaerwrangon a Swydd Gaerloyw. Lleolwyd ef yng Nghastell Llwydlo. Sefydlwyd ef yn 1471 a cafodd ei ddiddymu yn 1689. Dyma un o'r esiamplau cynharaf o lywodraeth leol, wrth i'r Tuduriaid adeiladu cenedl-wladwriaeth fodern. Y prif nod oedd cynnal cyfraith a threfn. Daethpwyd ag ef i ben adeg dechrau'r Rhyfel Cartref, cyn ei adfer adeg yr Adferiad ac yna ei ddiddymu yn barhaol ar ddechrau teyrnasiad Wiliam III (Skeel; Davies, Baines a Jenkins 219).

<sup>151</sup> Erbyn dechrau'r Rhyfel Cartref yn 1642, roedd "safon cerddi'r beirdd wedi dirywio'n enbyd, y cwrs clera wedi ei gyfyngu'n arw, a'r boneddigion Seisnigedig wedi troi cefn ar y syniad o fod yn geidwaid breintiedig y diwylliant Cymraeg" (Suggett, et al., 1997, p. 79). Erbyn oes yr Adferiad roedd y beirdd a'r llenorion o'r farn "fod yr hen ffordd o fyw wedi darford amdani yn sgil colli hen noddwyr hael" (Jenkins, 1990, p. xii). Roedd rhai o'r isfyddigions yn fwy hael eu nawdd, ond o ganlyniad i drafferthion economaidd a'r Rhyfel Cartref lleihau wnaeth eu dylanwad dros amser. Yn ystod yr 17eg ganrif lledaenodd y bwlch rhwng yr ysweiniaeth Seisnigaidd a'r boneddigion llai cyfoethog (J.G. Jones, 1998, pp. 83-4, 88), ac erbyn canol y 18fed ganrif roedd y grym economaidd bron yn gyfan gwbl yn nwylo'r "Lefiathod Mawr" (Suggett, et al., 1997, p. 80). Disodlwyd yr hen fonedd Cymreig gan y "new parasites": "The direct beneficiaries of the decline of the Welsh squirearchy were generally absentee landlords, bearing un-Welsh names... whose socio-cultural interests differed sharply from those whom they had replaced." Erbyn diwedd y 18fed ganrif llond dwrn o sgweieriaid yng nogledd-orllewin a gorllewin Cymru yn unig oedd yn parhau i gefnogi y beirdd a'r iaith frodorol. Roedd rhywfaint o dechnegau'r traddodiad barddol eisoes wedi mynd dros gof: "... it could hardly be claimed that many of them were well versed in the subtle intricacies of cynganedd" (Jenkins, 1998a, p. 110). Yn y cyfamser roedd "Lefiathaniaid sir Forgannwg" yn darllen cylchgronau gwisg Llundain ac yn edrych "mewn dirmyg ac atgasedd ar iaith 'y Cymry mynyddig' a'r 'caridymys Cymreig'" (Jenkins, 1990, p. xii).

modd, nid oedd cael eu Halmaeneiddio yn addo unrhyw rym i drigolion parthau allanol yr Ymerodraeth Hapsbwrgaidd. Wrth ganoli grym, nid oedd ganddynt unrhyw fwriad o'i rannu:

Slovaks were to be Magyarized, Indians Anglicized, and Koreans Japanified, but they would not be permitted... to administer Magyars, Englishmen, or Japanese.... The reason for all this was not simply racism; it was also the fact that at the core of the empires nations too were emerging – Hungarian, English, and Japanese. And these nations were also instinctively resistant to 'foreign' rule. (Anderson, 1991, p. 110)

Yr hyn a wnâi'r Cymry'n wahanol i drigolion y cenedloedd eraill hyn a ddatblygodd fudiadau cenedlaethol, felly, oedd bod gan y Cymry fynediad *di-rwystr*, oddi ar y Deddfau Uno, at *galon* y wladwriaeth. Yn ôl damcaniaeth Anderson, felly, roedd y Ddeddf Uno, a'r ymdrechion i Brotestaneiddio Cymru, yn allweddol wrth atal datblygiad mudiad cenedlaethol yng Nghymru. Tra oedd gan uchelwyr ac yn ddiweddarach bourgeoisie'r Cymry fynediad parod at Lundain, nid oedd rheswm ymarferol iddynt geisio datganoli grym. I'r Cymry, yr unig rwystr gwirioneddol i'w llwyddiant oedd eu hiaith. Ond nid oedd hon yn nodwedd anhepgor. Fel y dywed y cyhoeddwr Thomas Gee: "Y mae meistrolï y Saesneg... yn arweiniad i mewn i lwybrau uchelaf cyfoeth, ac i'r cylchoedd anrhydeddusaf yn y byd" (Gee, 1866, p. 2). Awgryma un cyfrannwr yn yr un modd yn y *Geninen*: "... tra byddo Saesneg yn iaith y llys ac yn iaith masnach y deyrnas, y mae yn annichonadwy dringo i fyny heb ei dysgu" (Eben Fardd, 1900, p. 263). Dywed Edward Roberts yn y *Geninen* yn 1888 nad "oes yr un fantais gymdeithasol erioed wedi ei chael o gadw y Gymraeg yn fyw" ac nad oes "unrhyw demtasiynau o'r fath yn cael eu gosod o flaen ein hieuenctyd i ddysgu Cymraeg". Ar yr un pryd "Y Saesneg ydyw iaith y Frenhiniaeth a'r Bendefigaeth; y Senedd a'r Llysoedd Cyfreithiol; y Gyfnewidfa

a'r Farchnadfa"<sup>152</sup> (Roberts, 1888, p. 233). Clwyd y gellid yn hawdd llamu drosti ar ei ffordd i Lundain oedd yr iaith, nid rhwystr *parhaol* fel hwnnw a ataliai'r Indiaid neu'r Slofaciaid rhag meddu ar rym. Nodwyd eisoes fod Breuilly yn arddel safbwynt tebyg i Roeder, sef bod cenedlaetholdeb yn y pen draw yn arf i sefydliadau gynyddu eu grym gwleidyddol. Mae'n arwyddocaol felly fod Breuilly yn nodi mai un o'r rhesymau na ddatblygodd cenedlaetholdeb mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig oedd bod y Tuduriaid eisoes wedi canoli grym yn y Senedd yn Llundain (drwy'r Ddeddf Uno ymysg datblygiadau eraill) cyn dechrau'r broses o symud o'r system frenhinol, ffiwdal i un fodern, ryddfrydol. O ganlyniad, pan ddatblygodd y genedl-wladwriaeth fodern "the centrality of a single institution provided an immediate central focus for subsequent opposition to the crown. National opposition could develop more quickly than in other states where the collaboration system was more complex and disparate" (Breuilly, 1993a, p. 84). Mae Siroky & Cuffe hefyd, wrth adeiladu ar waith Roeder, yn pwysleisio'r angen am "leadership" and "grievances" (Siroky & Cuffe, 2015, p. 7) – nid oedd gan y Cymry sefydliadau cenedlaethol a allai gynnig arweiniad iddynt yn dilyn y Ddeddf Uno, ond nid oedd ganddynt chwaith reswm i achwyn am ddiffyg cyfleoedd dan y drefn newydd.<sup>153</sup> Yn ôl y damcaniaethau hyn sy'n rhoi'r pwyslais ar fynediad elît grwpiau ethnig at sefydliadau'r genedl-wladwriaeth ganolog, felly, roedd ffawd cenedlaetholdeb yng Nghymru wedi ei selio ganrifoedd cyn y 19eg ganrif.

Derbynnir fod cenedlaetholdeb modern yn ffenomenon a ddaeth i'r amlwg yn sgil diwydiannu. Serch hynny, gellir olrhain diflaniad y sefydliadau a'r newid agweddau a ddylanwadodd ar

---

<sup>152</sup> Dywed ymhellach: "Mae y Cymro unieithog yn cyfarfod â digalondid ar bob llaw wrth ymladd brwydr bywyd, ac wrth wneud pob ymgais at ymddarchafu yn y byd a dringo llwybrau anrhydedd a chyoeddusrwydd. Mae yr holl ddrysau safleoedd cyfreithiol a gwleidyddol wedi eu cau yn ei erbyn. Mae prif swyddau'r Wladwriaeth, meinciau y Llysoedd Cyfreithiol, ac hyd yn nod swyddau is-raddol cysylltiedig â hwy... bob amser wedi eu llanw gan Saeson, neu y rhai hynny sydd ganddynt bob hyddysgrwydd yn yr iaith Saesneg" (Roberts, 1888, p. 233).

<sup>153</sup> Noda Lacina hefyd fod gwrthdaro yn llai tebygol ymysg y rheini oedd â mantais wleidyddol yn y brifddinas (Lacina, 2015, pp. 692, 704) – roedd buddugoliaeth y Tuduriaid, wrth gwrs, yn fodd i Gymry blaenllaw sefydlu eu hunain o fewn y llys.

ffurf y cenedlaetholdeb a ymddangosodd yn ôl drwy'r canrifoedd. Yn hynny o beth, mae'n anodd derbyn haerriad Brooks y gallai cenedlaetholdeb ieithyddol fod wedi ffynnu tra bo Cymru yn parhau yn deyrngar i brif sefydliadau'r Deyrnas Unedig. Mae'r awgrym hwn yn amlwg yn groes i'r pwyslais a osodir gan Roeder, Anderson ac eraill ar bwysigrwydd sefydliadau, yn ogystal â llawer o'r hyn y mae Gellner ac eraill yn awgrymu am natur gymhathol y genedl-wladwriaeth fodern (Gellner, 1983, p. 140). Wrth glodfori'r *Welsh Clergy in the West Riding of Yorkshire* dywed Brooks: "Ceir yma felly fath o Geidwadaeth Gymreig sy'n deyrngar i sefydliadau Prydeinig fel yr Eglwys Wladol, Senedd San Steffan a'r Goron, ond nad yw'n cyfystyru Prydeindod â Seisnigrwydd, ac sy'n barod o'r herwydd i fod yn hynod filain yn ei beirniadaeth o'r Saeson" (Brooks, 2015, p. 53). Noda fod cenedloedd o fewn y Frenhiniaeth Hapsbwrgaidd wedi gallu parhau yn deyrngar i'r gwladwriaethau tra oeddynt ar yr un pryd yn mynnu cadw eu hawliau ieithyddol (Brooks, 2010, p. 39). Ond, unwaith eto, nid wyf yn credu bod y gymhariaeth hon yn dal dŵr. Fel y nodwyd yn y drydedd bennod, nid oedd yr ymerodraeth Hapsbwrgaidd yn genedl-wladwriaeth a oedd wedi canoli ei sefydliadau yn ystod y cyfnod hwn, yn yr un modd â'r Deyrnas Unedig. Yn wir, yn ei lyfr *Imagined Communities*, defnyddir yr Ymerodraeth Hapsbwrgaidd gan Anderson fel esiampl o'r union fath o 'deyrnas linachyddol' a oedd yn *rhagflaenydd* i'r genedl-wladwriaeth fodern. Paradocs teyrnasoedd o'r fath oedd mai union natur annelwig y cysylltiadau rhyngddynt oedd yn eu cadw at ei gilydd gyhyd:

... borders were porous and indistinct, and sovereignties faded imperceptibly into one another. Hence, paradoxically enough, the ease with which pre-modern empires and kingdoms were able to sustain their rule over immensely heterogeneous, and often not even contiguous, populations for long periods of time.

Tra bod'r trefniant hyd braich wedi parhau yn ei le yn yr ymerodraeth Hapsbwrgaidd tan ddechrau 'oes cenedlaetholdeb' yn y 19eg ganrif,<sup>154</sup> yng ngorllewin Ewrop roedd awdurdod y frenhiniaeth eisoes ar drai erbyn yr 17eg ganrif, gan ddechrau gyda dienyddio Siarl I, Brenin Lloegr a'r Alban (Anderson, 1991, pp. 19-21). O ganlyniad, gellid dadlau bod y Cymry eisoes wedi eu cymhathu i raddau helaeth o fewn cenedl-wladwriaeth fodern erbyn y 19eg ganrif. Roeddynt eisoes wedi eu hargyhoeddi mai o'u gwirfodd, ac yn wir drwy ewylllys Duw, yr oeddynt yn rhan o deyrnas Lloegr, ac roedd ffrwyth bendithiol yr undeb hwnnw i'w weld o'u cwmipas ymhobman yn y 19eg ganrif, wrth i safonau byw wella'n gyflym. Roedd yr hunaniaeth 'boeth' wrthwynebol a gâi ei harddel gan y beirdd yn y 15fed ganrif wedi troi'n genedlaetholdeb 'banal' grefyddol oedd yn ymfodloni ar ei safle dan adain warchodol yr Ymerodraeth Brydeinig. Yn nhyb Paul O' Leary:

Yr oedd ymdeimlad o Brydeindod yn rhan annatod o wladgarwch Cymreig, nid yn ychwanegiad ato, ac adlewyrchid hyn yn y parodrwydd i fynegi cwynion cenedlaethol ar ôl 1868 drwy'r Blaid Ryddfrydol yn hytrach na thrwy sefydlu plaid wleidyddol annibynnol ar ffurf yr Ymreolwyr Gwyddelig (O'Leary, 1999, pp. 513-514).

---

<sup>154</sup> O gymhwyso damcaniaeth Wallerstein (1997, pp. 4-7) ynglŷn â datblygiad cenedloedd, ac Anderson uchod at faes y traethawd hwn, gallwn ddod i'r casgliad fod cenedlaethol ethnig o fewn teyrnasoedd llinachyddol, megis y Deyrnas Hapsbwrgaidd, yn deillio yn bennaf o ymdrech gan gyfalafwyr i amddiffyn eu grym a'u heiddo rhag grymoedd ffiwdal y gwledydd hynny. Ni ddylid felly bortreadu datblygiad mudiadau cenedlaethol yno fel ymdrech arwrol grwpiau ethnig lleiafrifol i ymryddhau rhag gorthrwm, a dianc rhag cymhathiad ieithyddol a diwylliannol, ond yn hytrach fel ymdrech gan yr elít i ddiogelu eu grym eu hunain. Er enghraifft, yn achos y tiroedd Tsiec dywed Anderson fod y dosbarth canol a'r uchelwyr eisoes yn siarad Almaeneg. Ond er dibenion eu mudiad cenedlaethol portreadwyd y broses o ailgofleidio eu hiaith fel cenedl fel 'deffro' o drwmgwsg (Anderson, 1991, p. 73). Cam hanfodol oedd pwysleisio arwahanrwydd eu cenedl eu hunain, er mwyn cyfiawnhau eithrio eu hunain o broses o ganoli gweinyddol a fyddai wedi gweld eu grym a'u heiddo yn mynd i ddwylo *elit arall*. Golygai eu hamharodrwydd i ganiatáu canoli grym fod, fel y dywed Okey, "mwy o gyfleoedd i leiafrifoedd dwyrain Ewrop esgyn yn gymdeithasol drwy gyfrwng eu mamieithoedd wrth i ystod y rheini ehangu" (Okey, 2000, p. 611).

Roedd yna wahaniaeth sylfaenol felly rhwng teyrngarwch i frenhiniaeth ffiwdal teyrnas linachyddol gyn-fodern, a theyrngarwch i sefydliadau cenedl-wladwriaeth a oedd eisoes wedi cymryd camau breision tuag at foderneiddio. Canoli a chymhathu oedd bwriad yr ail tra gallai'r cyntaf oddef perthynas hyd braich â'i amryfal arglwyddiaethau. Y cyfan a newidiodd mewn gwirionedd rhwng teyrngarwch 'sefydliadol' yr Anglicaniaid a chenedlaetholwyr rhamantus ceidwadol i'r wladwriaeth yn hanner cyntaf y ganrif, a theyrngarwch 'sifig' yr Anghydffurfwyr rhyddfrydol iddi yn yr ail hanner, oedd bod cyfarpar y wladwriaeth erbyn diwedd y ganrif bellach yn *caniatáu* cymhathu'r Cymry yn ieithyddol. Roedd diwydiannu yn gofyn ac yn caniatáu i'r wladwriaeth Brydeinig ymyrryd â bywydau'r bobl ar raddfa lawer mwy er mwyn ymateb i her logistaidd nad oedd yn bodoli mewn gwlad o amaethwyr unigol hunan-gynhaliol.<sup>155</sup> O ganlyniad, nid oedd sail hirdymor i arbed y Gymraeg ymysg ceidwadwyr

---

<sup>155</sup> Un o'r arfau pwysicaf wrth eu cymhathu oedd, wrth gwrs, y system addysg. Nodir gan Weber na fu ymdrechion y wladwriaeth Ffrengig i gymhathu trigolion y wlad yn arbennig o lwyddiannus nes bod yr adnoddau addysgiadol i wneud hynny wrth law: "But it was hard hard work to persuade even children., for all their malleability, without the panoply of material that became available only in the 1870s" (Weber, 1977, p. 334). Mae'n arwyddocaol yn fy marn i fod y Ffrangeg, er gwaetha'r pwyslais ideolegol ar gymhathu ieithyddol, yn parhau yn iaith estron i hanner poblogaeth Ffrainc ar ddiwedd y 19eg ganrif (Weber, 1977, p. 73), tra oedd canran y Cymry uniaith eisoes wedi gostwng i 30.4%. Y gwahaniaeth sylfaenol rhyngddynt oedd bod un yn newid cyflym, a'r llall yn broses hirdymor dros gyfnod o ganrifoedd. Dywed Glyn Williams fod tryblith y Chwyldro Ffrengig wedi esgor ar dybiaeth newydd bod angen creu cymdeithasau unffurf er mwyn osgoi gwrthdaro (Williams, 1992, pp. 8-9). Yn Ffrainc amlygodd hyn ei hun fel toriad llwyr gyda'r gorffennol: "Government must now be based not on the accidents on history and privilege, on institutions that had grown up in the past, but on rational principles, worked out in programmes and blueprints" (Seton-Watson, 1977, p. 6). Hyd ddiwedd y 19eg ganrif roedd Ffrainc yn dal i fod yn "very incompletely integrated nation" (Weber, 1977, p. 99). Roedd ymdrech Lloegr i gymhathu ei gymdogion, o'i gymharu, yn un raddol yn hytrach nag yn doriad disymwth, ac ar waith yn Ynysoedd Prydain ers ychydig ganrifoedd. Mae Richard Wyn Jones o'r farn na welwyd toriad gyda'r gorffennol yn yr un modd yn Ynysoedd Prydain ag mewn gwledydd eraill. Roedd y datblygiad yn un fwy esblygol, ac o ganlyniad cadwodd y deyrnas nifer o'i nodweddion cyn-fodernaidd: "Cyfyd y nodweddion hyn yn anad dim o flaenoriaeth Lloegr; o'r ffaith mai Lloegr, yn nhermau moderniaeth, oedd y cyntaf-anedig" (Jones, 2007, pp. 47, 50). Dichon fod hyn yn esbonio pam nad oedd ymgais frwdfrydigarall ar ddiwedd y 18fed ganrif ac yn y 19eg ganrif gan y wladwriaeth Brydeinig i hybu tranc yr iaith, fel y gwelwyd yn Ffrainc. Ond sut mae esbonio dirywiad cyflymach y Gymraeg, felly, o ystyried bod ideoleg gymhathol tebyg ar waith yn Ffrainc? Yr ateb yn fy nhyb i yw mai parodrwydd y Cymry i 'hunan gymhathu' o'r 16eg ganrif ymlaen oedd yn gyfrifol i raddau am y driniaeth lesiannol a dderbyniodd y Gymraeg o du'r wladwriaeth, o'i chymharu ag Iwerddon neu'r Alban. Er nad oedd *modd* i'r Cymry ddysgu Saesneg mewn niferoedd mawr (fel y dengys methiant yr Ymddiredolaeth Gymreig), roedd y *meddylfryd* ymysg y Cymry a fyddai wedi caniatáu hynny eisoes *in situ*, ac felly nid oedd angen i'r wladwriaeth weithredu yn arbennig o ddygn i'r perwyl hwnnw. Nodai awduron y Llyfrau Gleision yn 1847: "Probably you could not find in the most purely Welsh parts a single parent, in whatever class, who would not have his child taught English at school..." (Lingen, 1846, p. 10). Roedd y farn bod y Gymraeg ar drai yn amlwg ymysg hyd yn oed caredigion yr iaith ar ddechrau'r 19eg ganrif. Dywed un llythyrwr i'r *Cambrian News* yn 1806: "That it is not upon a decline, as a living language, no observant person, acquainted with Wales, can with any good grounds maintain" ('D. ab D. ab J.R.', 1806, p. 4). Nid oedd y Cymry felly yn dechrau'r 19eg ganrif yn werin a feddai ar hunaniaeth 'niwtral' y gellid bod wedi ei ddatblygu i'r naill gyfeiriad a'r llall. Er bod yr iaith wedi ei chynnal yn sgil cyfieithu'r Beibl, roeddynt eisoes yn ymwybodol o statws ddarostyngedig yr iaith mewn meysydd eraill, ac os oedd math o

dechrau'r ganrif, tra eu bod yn cynnal eu teyrngarwch hanesyddol tuag at sefydliadau'r wladwriaeth ganolog.<sup>156</sup>

Mae'r ffaith bod y Deyrnas Unedig eisoes yn genedl-wladwriaeth fodern erbyn dechrau'r 19eg ganrif yn golygu y gall chwilio am weithgarwch 'cam A' Hroch fel man cychwyn i'r mudiad fod yn gamarweiniol, oblegid gallai'r gweithgarwch hwnnw fod yn fodd i fwydo hunaniaeth genedlaethol Brydeinig a oedd eisoes yn bodoli yn ogystal ag un Gymreig. Mae Ned Thomas yn ei gyfrol *The National Question Again: Welsh Political Identity in the 1980s* yn awgrymu bodolaeth yr hyn y mae'n ei alw yn "contributionism" ("cyfranogaeth" yn y Gymraeg),<sup>157</sup> sef y tueddiad i ymfalchïo yn hunaniaeth Cymru er mwyn pwysleisio yr hyn sydd ganddi i'w gynnig i Brydain. Dywed mai gwedd ar gyfranogaeth oedd gweithgarwch rhamantwyr mewn perthynas â Chymru: "...despite its apparent flattery of the Welshman (he has 'something to offer') [it] is fundamentally contemptuous of him *in himself*"<sup>158</sup> (Thomas, 1985, pp. 309-10,

---

genedlaetholdeb yn cyniwair yn eu mysg, un Prydeinig oedd hwnnw. Yr hyn a ddarparodd diwydiannu oedd y *gallu*, drwy'r ysgolion a hollbresenoldeb Saesneg o boptu iddynt, i'r werin ddysgu'r Saesneg – roedd yr *awydd* i wneud hynny eisoes yn bodoli ac wedi ei hybu gan wladwriaeth Lloegr oddi ar y Ddeddf Uno.

<sup>156</sup> Fel y dywed Dafydd Glyn Jones, ni ddechreuwyd cwestiynu safle Cymru oddi fewn i'r ymerodraeth o ddifrif, a dadlau dros annibyniaeth, tan gyflafan y Rhyfel Byd Cyntaf (Jones, 2001, p. 48).

<sup>157</sup> Defnyddir cyfranogaeth fel cyfieithiad o contributionism gan Emyr Davies (1990, p. 182).

<sup>158</sup> Roedd dylanwad Lloegr fel grym gwladychol ar waith y rhamantwyr yn amlwg: "Redefining negative traits in romantic terms is common in asymmetric group relations, because it takes the hard edge off inequality by offering subordinates the sop of quasi-admiration" (Pitchford, 2001, p. 59). Dywed Sarah Prescott fod y 18fed ganrif yn gyfnod paradocsaid, lle'r oedd, ar y naill law, fwy o gysylltiad a rhannu syniadau nag erioed rhwng llenorion o Gymru a Lloegr, ond ar y llaw arall yn gyfnod o adfywiad cenedlaethol lle'r oedd y llenorion Cymru yn awyddus i gyfleu eu treftadaeth farddol unigryw ei hunain. Sbardunwyd yr ymgais i ail-ddarganfod hanes Cymru yn rhannol fel ymateb i'w profiad trefedigaethol, h.y. er mwyn dangos i'r Saeson eu bod nhw'n genedl a haeddai barch (Prescott, 2006, p. 73). Dywed Adam Coward fod y Cymry wedi penderfynu eu hail-frandio eu hunain yn y 18fed ganrif, yn bennaf wrth ymateb i hen ystrydebau Seisnig a'u portreadai fel hurtynnod barbaraid a hudol. Trodd Iolo Morganwg a Morysiaid Môn y darluniau negyddol hyn yn rhinweddau cadarnhaol drwy ddyfeisio gwreiddiau Cristnogol ar gyfer paganiaeth y derwyddon, a phwysleisio gwreiddiau hynafol yr iaith Gymraeg, gan gynnwys y cysylltiad â Gomer. Gochelwyd rhag trafod materion goruwchnaturiol (y tu hwnt i feio Pabyddiaeth am eu bodolaeth) yn y sffêr cyhoedduscyhoeddus, er bod ysgrifau Morysiaid Môn yn awgrymu diddordeb mawr yn y pwnc (Coward, 2009, pp. 57-69). Ceir esiampl o ddylanwad y Saeson ar y gwaith o ail-ddarganfod ac ail-werthfawrogi'r traddodiad Cymraeg yng ngwaith Ieuan Fardd (Evan Evans). Mae geiriau Ieuan Fardd wrth iddo ail-gyflwyno gwaith y beirdd Cymraeg yn Saesneg yn esiampl o ymdrech i hawlio gwreiddiau diwylliannol hynafol i'r iaith: "I had long been convinced, that no nation possesses greater remains of antient and genuine pieces of this kind than the Welsh..." Yn ei gyflwyniad Cymraeg i'r un llyfr, mae'n pwyntio bys at y Saeson am honni nad oes gan y Cymry farddoniaeth werth sôn amdani, gan ddatgan mai'r nod yw gwrthddweud hynny (Evans, 1764, pp. i-ii, 9). Mae rhywfaint o wahaniaeth barn ynglŷn â bwriad Ieuan Fardd yn hyn o beth; a oedd yn egin mudiad cenedlaethol Gymreig, yntau yn ymdrech i atgyfnerthu cenedlaetholdeb Prydeinig? Dywed M. Wynn Thomas fod ei waith yn ofalus anwleidyddol ac yn canolbwyntio o leiaf yn rhannol ar yr hyn y gallai Cymru

313). Er enghraifft, roedd Morysiaid Môn a fu wrthi mor ddyfal yn cyhoeddi hen lenyddiaeth Gymraeg yn mynnu eu bod yn casau'r Saeson, tra oeddynt ar yr un pryd yn gwbl ffyddlon eu teyrngarwch i'r frenhiniaeth ac yn gryf o blaid yr undeb rhwng Cymru a Lloegr.<sup>159</sup> Mynna Gerald Morgan eu bod, hyd yn oed yn y 18fed ganrif, yn *genedlaetholwyr Prydeinig* (Morgan, 2000, p. 70). Yn wir, roedd y Cymry yn parhau i ystyried mai hwynt-hwy oedd y 'Prydeinwyr' gwreiddiol (Morgan, 1973, p. 16), ac felly mae'n bosib bod yr hunaniaeth hon wedi dod yn lled-naturiol iddynt. Mabwysiadwyd y term 'contributionism' gan M. Wynn Thomas yn ogystal i ddisgrifio gweithiau Ieuan Fardd (Thomas, 1999, p. 118), a oedd yn gysylltiedig â chylch y Morysiaid.<sup>160</sup>

Awgryma cyfraniadau yn y *Geninen* a chylchgronau eraill yn negawdau olaf y 19eg ganrif fod ymdeimlad o genedlaetholdeb ar gynnydd ymysg y Cymry.<sup>161</sup> Ond ni ddeilliai'r balchder hwn o egin genedlaetholdeb ieithyddol, neu o awydd i ymwahanu oddi wrth weddill y deyrnas – ond, yn hytrach, am eu bod nhw'n teimlo bod eu cyfranogaeth bellach yn dwyn ffrwyth a'u

---

ei gynnig i weddill Prydain (Thomas, 1999, p. 118). Mae Sarah Prescott, ar y llaw arall, yn dweud bod dewis Ieuan Fardd o farddoniaeth yn ymwneud â chyflafan y beirdd dan orchymyn Edward I, a'i gyflwyniad, a'i anodiadau yn dangos dealltwriaeth amlwg o'r berthynas drefedigaethol rhwng Cymru a Lloegr (Prescott, 2006, p. 81). Roedd ymdrechion yr awduron yn rhan o duedd ehangach ar draws y gwledydd Celtaidd, ac yn Lloegr, drwy gydol y 18fed ac i mewn i'r 20fed ganrif, i ramanteiddio gorffennol y Celtiaid a gwneud rhinwedd o'u hangerdd a'u natur gyfrwys – mae'n nodedig, meddai Justin Stover, mai fel y 'Welsh Wizard' yr adnabyddir Lloyd George (Stover, 2012, pp. 286-9). Noda Sarah Pitchford fod yr ymdrechion hyn i ramanteiddio Cymru, sydd yn parhau hyd heddiw, yn gleddyfau deufiniog; drwy geisio gwneud rhinwedd o natur henffasiwn y wlad, dilysir ddadl y gorthrymwyd eu bod nhw'n fodern, rhesymegol a deallusol o'u cymharu â diwylliant henffasiwn y Cymry (Pitchford, 2001, pp. 51, 59).

<sup>159</sup> Nododd William Morris mai'r hyn sydd ei angen er mwyn gallu astudio llenyddiaeth Geltaidd yw cyfoeth, dysg, ac amser i astudio – tair rhinwedd nad oeddent ar gael i fwyafrif poblogaeth Cymru yn ystod y cyfnod dan sylw. Roedd Morysiaid Môn yn ddibynol ar eu cysylltiadau o fewn y sefydliad, a swydd Richard fel gwas sifil, er mwyn gallu gyrru nifer o'u llythyrau at ei gilydd yn ddi-dal (Morgan, 2000, pp. 65, 73).

<sup>160</sup> Defnyddir y term hefyd gan Sarah Prescott wrth amddiffyn Ieuan Fardd yn erbyn y cyhuddiad hwnnw (Prescott, 2006, p. 78).

<sup>161</sup> Yn ôl D. Gwenallt Jones, yr awgrym a geir wrth ddarllen y cyfraniadau hyn oedd bod "yr ysbryd cenedlaethol yn cerdded trwy Gymru, fel coelcerth" (Jones, 1956, p. 25). Dywed Richard Roberts yn y *Geninen* bod y Cymry yn ystod yr ychydig flynyddoedd blaenorol "yn ymddeffro yn hytrach yn ddisymwth i'r ffaith fod iddynt dynged genedlaethol i'w chyflawni..." (Roberts, 1890, p. 292) Dywed Henry Jones mai cwestiwn mawr y cyfnod hwnnw oedd "A ydym yn genedl [...] ? [...] [Mae] ein parhad fel pobl yn dibynnu ar yr ateb a roddwn iddo... Rhaid i ni un ai glynnu ynghyd er mwyn ennill ein hamcanion cenedlaethol, neu ynte fod yn rhanbarth ddiennw o Loegr" (Jones, 1890, p. 11). Wrth ateb yr un cwestiwn, dywed cyfrannydd arall fod y cwestiwn o genedlaetholdeb wedi dod i amlygrwydd mawr yn eu mysg yn ddiweddar (*Y Geninen*, 1888, p. 13).



bod nhw wedi cyrraedd ryw fath o *gydraddoldeb* â'r Saeson. Y nod pennaf oedd ennyn parch aelodau eraill yr Ymerodraeth Brydeinig, a chwarae rhan allweddol yn ei llwyddiant<sup>162</sup> (Smith, 2000, pp. 267-8). Dywed 'Geraint' fod cysylltiad agosach â'r Saeson wedi deffro'r Cymry drachefn i'w nodweddion cenedlaethol unigryw, ond mae ei gyfraniad yn diferu o'r math o ramantiaeth lipa a drafodir gan Ned Thomas: "Da mai un o effeithiau amlycaf cyffyrddiad nes a grymusach dylanwadau allanol arnom fel cenedl ydyw ail-ennyn tân ein gwladgarwch, megis yr ailenynir serch bachgen at hen fwthyn bach tô gwellt ei fam ar ôl iddo weled gronyn ar y byd..." (Geraint, 1888, p. 290). Gallent felly gyfeirio at dystiolaeth y gorffennol eu bod yn genedl gydradd ag unrhyw un arall – eu diwylliant, eu hiaith, eu hanes – tra oeddynt ar yr un pryd yn cofleidio yr hyn a welir fel cynhwysion angenrheidiol cenedl yn yr oes fodern – addysg, masnach, a'r Saesneg yn allwedd i'r pethau hyn. Broliai Thomas Rees yn 1867 fod Cymru, yn fasnachol, gwleidyddol, a chrefyddol, yn dod yn fwyfwy pwysig flwyddyn ar ôl blwyddyn, wedi iddi fod ychydig ddegawdau ynghynt yn "insignificant and comparatively unknown corner of Great Britain". Fel yr awgrymwyd eisoes, roedd bod yn hunan-gynhyrchiol yn bwysig i'r meddwl cenedlaetholgar rhyddfrydol. Yn hynny o beth roedd masnach wedi tyfu i bum gwaith ei maint blaenorol, meddai: "as its exhaustless resources are as yet only beginning to be developed, no one need be endowed with the gift of prophecy to see a future of unparalleled greatness is in reserve for it" (Rees, 1867, p. v). Yn ogystal â'r cyfraniad masnachol, roedd eu cyfraniad moesol. Dibynnai budd y Cymry deallusol ar eu derbyniad ymysg cymdeithas wâr y

---

<sup>162</sup> Yn hynny o beth, bai'r Cymry eu hunain oedd hi eu bod nhw wedi eu hesgeuluso gan Loegr, fel y dywed y *Traethodydd* yn 1854: "Pe buasem, fel cenedl, yn meddio ein parchu ein hunain, ni buasai neb synhwyrol yn meiddio ein dirmygu... pwy a gwyna i ni os na bydd y llywodraeth yn ein cydnabod yn ddynion?" (1854, p. 291). Priodolir diffyg diddordeb y teulu Brenhinol yng Nghymru i fethiant y Cymry eu hunain i ddenu eu sylw (O'Leary, 1999, p. 513). Dywed un gohebydd mai "cwyn gyffredinol" oedd na fu i'r tywysog "erioed osod gwadn ei droed ar ei dywysogaeth... Fe allai fod y bai i fesur helaeth yn gorwedd arnom ni... [am] na ddangoswyd fawr o ymlyniad wrtho..." (*Baner ac Amserau Cymru*, 1863, p. 212) Noda Geraint H. Jenkins fod "naifrwydd rhyfedd" yn nodweddu agwedd Ieuan Gwynedd (1820-52), un o newyddiadurwyr mwyaf dylanwadol ei gyfnod i'r Teulu Brenhinol – roedd yn argyhoeddiedig y byddai'r Tywysog Albert yn mynd ati i ddysgu 'Iaith Gomer' am ei fod yn hannu o dras Llywelyn Fawr (Jenkins, 1991, p. 106). Ond nid oedd arweinwyr y Cymry am eu gweld yn colli allan ar eu haeddiant yn ystod oes aur yr Ymerodraeth Brydeinig (G.E. Jones, 1999, p. 402). Roedd gweld Saeson yn ymgyfoethogi ar draul y Cymry yn peri dicter i Ieuan Gwynedd, ond ei ateb i hynny oedd i'r Cymry wella eu hunain yn addysgol er mwyn cymryd eu priod le yn eu mysg (Jenkins, 1991, pp. 107-8).

Saeson, ac yn sgil ymgais y Llyfrau Gleision i'w portreadu fel cenedl anwaraidd “Welsh nationalism and Welsh nonconformity were now united in a crusade for national self-respect” (Morgan, 1971, p. 157). Un ffordd o brofi eu bod yn deilwng o sefyll ysgwydd yn ysgwydd â'r Sais oedd eu pwyslais ar grefyddoldeb. Dywed y *Faner* yn 1861 ei bod yn “amllwg, dybygem, nad oes un genedl ar y ddaear mor uchel â'r Cymry, wrth gymmeryd pob peth gyda'i gilydd.” Honnwyd bod barnwyr ei Mawrhydi yn cael llai o waith, a'r dadleuwyr yn dychwelyd o'u cylchdeithiau gyda llogellau gweigion<sup>163</sup> (*Baner ac Amserau Cymru*, 1861, p. 1). Deilliai balchder cenedlaethol y Cymry o'u cred y gallent fod yn *well Prydeinwyr na'r Saeson eu hunain*. Eironi ymdrechion y dyneiddwyr i integreiddio Cymru i'r wladwriaeth oedd y buont yn rhy lwyddiannus wrth argyhoeddi'r Cymry o'u Protestaniaeth aruchel, ac o ganlyniad tybiai'r Cymry mai eu nodwedd arwahanol oedd eu bod yn *fwy teyrngar* ac yn *fwy moesol* na gweddill y deyrnas.<sup>164</sup> Bron y gallai William Salesbury yn yr 16eg ganrif fod wedi ysgrifennu erthyglau golygyddol papurau newydd Cymraeg ail hanner y 19eg ganrif. Mynnai Thomas Gee yn y *Faner* yn 1857 mai Cymru oedd y genedl “dawelaf a'r ffyddlonaf i'r goron ohonynt oll...” (Gee, 1857, p. 1). Dywed y *Genedl Gymreig* yn ei rifyn cyntaf yn 1877, wrth osod gerbron y darlennydd ei agenda golygyddol, mai ei ystyriaeth bennaf oedd “Uchafiaeth y Frenhines mewn materion gwladol ac eglwysig (mor bell ag y dichon pethau eglwysig ddyfod i gyffyrddiad â'r wladwriaeth) o fewn y deyrnas hon”, cyn ystyried “hawl dilyffethair y werin i ddarllen Gair Duw” a'r “gwasanaeth crefyddol yn iaith y bobl” (*Y Genedl Gymreig*, 1877, p. 4). Roedd seiliau

---

<sup>163</sup> Deilliai'r honiad mai Cymru oedd 'gwlad y menig gwynion' o'r arfer o gyflwyno menig gwyn i'r Barnwyr pan nad oedd achos i'w glywed ym Mrawdlysoedd Cymru. Ond dywed Russell Davies, wrth astudio tystiolaeth llysoedd Sir Gaerfyrddin, nad oedd gwirionedd i'r honiad hwn, ac roedd yr un ffaeiddau troseddol i'w gweld ag yn unrhyw ran arall o Brydain. Roedd haen o barchuswydd Fictoraidd arwynebol yn cuddio'r ffaith bod puteiniaid yn cronni ynghanol y trefi, a chamdrin plant a churo gwragedd yn gyffredin iawn. Roedd meddwod hefyd yn rhemp. Dywed Davies i un cyfrannwr yn 1896 achwyn “na allai ddeall sut y bu i Darwin fethu â darganfod y 'missing link' gan mai'r unig beth yr oedd angen iddo ei wneud oedd ymweld â strydoedd Pencader ar nos Sul i weld digon o dystiolaeth fod dyn yn hanu o'r mwnci” (Davies, 1991, pp. 137-8, 143-8).

<sup>164</sup> Wele ddadansoddiad Jane Aaron o stori gyfres Mary Oliver Jones, 'Pur fel y dur', am esiampl o'r meddylfryd hwn ar waith yn llenyddiaeth y cyfnod. “Fel arwres o Gymraes, swyddogaeth Helen yw dangos bod y Cymry Ymneilltuol cystal os nad gwell na'r Saeson dosbarth canol, ac yn gallu llwyddo ar eu telerau hwy” (Aaron, 1998, p. 205).

cenedlaetholdeb ‘cyfranogol’ y Cymry wedi eu gosod yn yr 16eg ganrif, ond roedd y bydolwg hwnnw’n parhau yn amlwg yn agweddau Cymry Cymraeg y 19eg ganrif.

Ymddangosai’r agweddau hyn yn llwfrdra i rai haneswyr cenedlaetholgar yn yr 20fed ganrif, ond yng nghyd-destun damcaniaethau Anderson a Roeder maent yn ymddangos yn gwbl resymol. Cenedlaetholdeb Cymreig er mwyn cael mynediad at rym a chyfoeth materol cylchoedd uchaf y genedl-wladwriaeth ganolog oedd hon, yn hytrach na chenedlaetholdeb er mwyn dianc ohoni. Yn hyn o beth roedd llwyddiant Lloyd George yn gwireddu holl ddymuniadau’r Cymry, am mai ei lwyddiant ef, yn ôl R Tudur Jones, oedd “y prawf digamsyniol y gallai gwerinwr ddiddysg o Ymneilltuwr dreiddio i gylch mewnol llywodraeth a chymdeithas Llundain” (Jones, 1966, p. 286). Golygai’r pwyslais hwn ar dderbyniad o fewn yr Ymerodraeth y gallai’r galw am ddysgu’r Saesneg hefyd gael ei fynegi ar brydiau mewn iaith genedlaetholgar. Awgryma ‘Herber’ yn y *Geninen* bod y Gymraeg wedi dal y Cymry yn ôl yn rhy hir, ac y dylid dysgu’r Saesneg er mwyn “sefyll yn gyfochrog â meibion eraill y Deyrnas mewn dysg, cynydd, a llwyddiant, fel yr ydym, yn awr, mewn gallu naturiol, mewn moes, ac mewn crefydd” (Herber, 1883, p. 179). Roedd hi’n ddyletswydd ar y Cymry gwladgarol i gofleidio iaith a llenyddiaeth y Saeson er mwyn llwyddo yn y byd modern: “Yn baradocsaidd, yn ôl y dyb hon, gellid cyhuddo Ymneilltuwyr amlwg megis Henry Richard o ddiffyg gwladgarwch” (O’Leary, 1999, p. 516). Cwynai golygydd y *South Wales Evening Post*, David Davies, fod ymysg y Cymry “a slavish constancy to the idea that a distinctive language is essential to nationalism – which it is not...” Roedd y syniad hwnnw wedi dwyn oddi ar y Cymry “our legitimate place amongst the nations”<sup>165</sup> (Davies, 1897, pp. 185, 187-8). Nid yw’n amlwg bob tro ai balchder yng Nghymru fel endid ar wahân i’r Deyrnas Unedig neu falchder

---

<sup>165</sup> Yn yr un modd, awgrymai fod pwyslais yr Ymneilltuwyr ar y wasg Gymraeg wedi atal datblygiad gwasg Saesneg a allai hyrwyddo cymeriad a budd y Cymry, a sicrhau swyddi i’r Cymry eu hunain. “Is the mistake to be perpetuated which leaves the more vigorous, influential and fruitful branch at the mercy of the stranger?” (Davies, 1897, pp. 185, 187-8)

yn yr hyn y gall Cymru ei gynnig i'r genedl-wladwriaeth ehangach sydd wrth wraidd eu cenedlaetholdeb. Cymerwch er enghraifft y cyfraniad hwn at *Seren Cymru*:

Y dymuniad nesaf at fy nghalon i yw, i'r Cymry fyned yn drech nâ'r Saeson mewn masnach a gwybodaeth, ond ni ânt byth heb iddynt yn gyntaf fod yn hyddysg yn iaith y Saeson... I'r d---l â phob iaith, meddaf, ag sydd yn rhwystro unrhyw genedl i gadw ei sefyllfa briodol yn mysg cenedloedd y ddaear. (*Seren Cymru*, 1863, p. 316)

Yma, mae parodrwydd yr awdur i gefnu ar nodweddion ethnig unigryw y Cymry yn deillio o genedlaetholdeb Cymreig cyfranogol sydd yn dadlau mai cynhyrchedd a chyfoeth yw llinyn mesur gwerth cenedl.

Penllanw hyn oll oedd dathliadau arwisgiad y Tywysog Edward yn 1911. O ran ei symboliaeth arwynebol ymddangosai'r arwisgiad hwn fel arddangosiad amlwg o genedlaetholdeb Cymreig. Safai'r castell ei hun fel symbol o fethiant Lloegr i drechu'r Cymry, wedi ei addurno gan ddreigiau, cennin a chennin Pedr, ac roedd y canu yn Gymraeg. Ond nod y llywodraeth ryddfrydol (Lloyd George fu'n trefnu) wrth ddyfeisio'r traddodiad hwn, meddai John S. Ellis, oedd trawsffurfio'r naratif Ceidwadwol o Ymerodraeth Brydeinig yr oedd y Saeson yn tra-arglwyddiaethu arni, i un lle'r oedd Cymru, yr Alban, Iwerddon a Lloegr yn cael eu cydnabod fel *partneriaid cydradd*. Ail-ysgrifennwyd hanes, gan bortreadu Cymru, nid fel y diriogaeth gyntaf o nifer a orchfygwyd gan Loegr, ond fel tarddiad yr Ymerodraeth drwy ymdrechion Harri VII: "Through the investiture, the state recognized Wales as a full member of the British

imperial enterprise”<sup>166</sup> (Ellis, 1998, pp. 396-7, 398-414). I’r wasg Gymraeg, roedd hyn yn cynrychioli buddugoliaeth. Honnodd y *Tyst* fod Cymru “wedi ennill y dydd ar y Saeson a’u gorchfygu yn hollol yn eu hymgais greulawn a’u polisi draddodiadol i lesteirio a dileu cenedlaetholdeb y Cymry... Yr ydym o’r diwedd wedi cipio’r cledd o law y gelyn a’i gladdu yn ei galon ef ei hun” (*Y Tyst*, 1911). Dyma felly ben draw uchelgais arweinwyr Ymneilltuol-Ryddfrydol Cymru.<sup>167</sup> Noda Kenneth O. Morgan: “the supreme objective of these Welsh national leaders was essentially equality within the United Kingdom and an expanding empire, not severance from it.” Yn hynny o beth, meddai, roedd cenedlaetholdeb Cymreig a Gwyddelig yn sylfaenol wahanol:

The entire Welsh national movement had been a campaign for national equality. It sought the recognition by the English government and by English opinion of the needs and national status of ‘neglected Wales’. Why, then, should Welshmen wish to return to the impotence of isolation? (Morgan, 1995, pp. 207-8)

Nid oedd ymreolaeth i Gymru ymysg amcanion yr ‘aelod dros Gymru’, Henry Richards (Davies, 2007a, p. 414) – nid oedd angen iddo fod oherwydd nid oedd unrhyw beth yn ei atal rhag cymryd ei le yn Senedd Lloegr. Yn wir, mae’n nodi yn y cyflwyniad i’w *Letters and Essays on Wales* mai ei nod drwy’r cyfan (ac fel dyn oedd wedi byw yn Llundain ers 55 mlynedd) oedd hybu dealltwriaeth rhwng y ddwy wlad, a dod â nhw i gyfamod agosach, drwy sicrhau nad oedd y Saeson yn camwahaniaethu yn erbyn y Cymry ar sail eu Hymneilltuaeth a’r

---

<sup>166</sup> Dadleua John S. Ellis mai taro’r post i’r pared glywed oedd hyn i raddau – roedd y llywodraeth ryddfrydol yn awyddus i yrru neges i’r cenedloedd anffodlon eraill o fewn yr ymerodraeth, megis De Affrica ac India, y byddai eu hamrywiaeth diwyllianol ac ethnig yn cael eu cydnabod. Yn hynny o beth gwnâi Cymru’r tro fel esiampl o wlad oedd wedi ei gorchfygu, ac yna wedi cymodi â’r gelyn a chael ei derbyn yn bartner llawn yn y fenter (Ellis, 1998, pp. 396-7, 398-414).

<sup>167</sup> Gwelid elfennau tebyg o genedlaetholdeb Cymreig a Phrydeinig wrth agor yr Amgueddfa Genedlaethol yn 1927. Siaradodd y Brenin ac fe adroddodd yr Archdderwydd weddi’r Arglwydd. Roedd cerflun draig ar un ochr i’r porth a llew ar y llall yn arwydd o gydraddoldeb Cymru a Lloegr (Mason, 2007, p. 130).

rhagfarnau a ddeilliai o'r Llyfrau Gleision. Wrth amddiffyn yr Eisteddfod yn erbyn ymosodiadau papurau newydd Lloegr, dywed: "I venture to assert that there is not in the whole extent of the British dominions, from the Hebrides to the Punjab, a community more loyal to the throne of Queen Victoria than the inhabitants of Wales" (Richard, 1884, pp. v-vi, 47). Yn ôl awgrym Anderson, petai Henry Richards wedi ei atal rhag cymryd ei le yn y 'Fam Senedd' yn yr un modd ag un o drigolion Punjab, yna dichon y byddai naws ei rethreg genedlaetholgar wedi bod yn wahanol.

Ond pam felly mae angen hybu Cymreictod o gwbl, gyda seremonïau megis urddo Tywysog Cymru, Pasiant Cymru yn 1909, a sefydliadau megis yr Amgueddfa Genedlaethol? Oni fyddai diosg eu Cymreictod yn llwyr a mabwysiadu hunaniaeth genedlaethol y Saeson wedi bod yn ffordd well o fynd o'i chwmpas hi? Nid oedd amddiffyn yr iaith yn gymhelliad digonol ohono ei hun; nid oedd yn agor drysau, ac roedd anwybodaeth o'r Saesneg yn eu cau. Gellid dadlau bod yr ateb i'r cwestiwn hwnnw yn rhannol ynghlwm â rhyddfrydiaeth yr oes, a'i phwyslais ar ethnigrwydd. Er gwaethaf y galwadau arnynt i ddysgu Saesneg a mabwysiadu diwylliant y Saeson, nid ystyrid y Cymry yn *gydradd* â'r Saeson rhesymol, chraff, a Thiwtonig. Roeddynt yn fyr ac yn dywyll, fel y Gwyddelod, yn hytrach nag yn dal ac yn olau fel y Saeson (Stepan, 1982, pp. 101-9). Fe'u portreadwyd, hyd yn oed gan y rheini a oedd fwyaf cydymdeimladol tuag atynt, megis Matthew Arnold, fel pobl hudol, angerddol, a rhamantus, "drenched and intoxicated in that fairy-dew of that natural magic..." (Arnold, 1910, p. 168). Roedd y pwyslais hwn ar ethnigrwydd yn atal y Cymry rhag ymgymhwysu yn Saeson ar sail newid diwylliant yn unig, ac felly rhag esgyn i'w lle ar frig y craidd metropolitaidd; rhaid felly iddynt brofi eu hunain yn gydradd ar sail eu Cymreictod, yn hytrach na'i ddiosg.<sup>168</sup> Yn y cyd-destun hwnnw y

---

<sup>168</sup> Datrysiaid arall oedd ymgais y *Western Mail* i hyrwyddo'r ddamcaniaeth bod y Saeson a'r Cymry wedi ymgymysgu i'r fath raddau fel bod y Cymry bellach yn Diwtonaidd a'r Saeson yn Geltiaid. "The process of kneading up the various peoples of this island into one homogeneous mass, with common aims and common interests, has been ongoing for centuries." Defnyddir y dadansoddiad hwn er mwyn dadlau yn erbyn ystyried y

gwelir hyd yn oed y Cymry a oedd yn fwyaf awyddus i gymryd eu lle o fewn yr Ymerodraeth Brydeinig yn hyrwyddo digwyddiadau megis urddo Tywysog Cymru, a Phasiant Cymru. Y nod oedd dangos i'r Saeson nad oedd yr hen ystrydebau am y Cymry bellach yn dal dŵr, a chofleidio cenedlaetholdeb newydd a roddai'r pwyslais ar eu natur ryfelgar a'u cadernid yn wyneb gwrthwynebiad. Yn bennaf ymysg y Cymry a hyrwyddai'r ail-ddadansoddiad hwn o Gymreictod, fel y noda Hywel Teifi Edwards, oedd yr hanesydd Owen Rhoscomyl, a sgrïptiodd seremoni urddo Tywysog Cymru a Phasiant Cymru: "It was his belief that Wales had never been recognized, let alone rewarded, for its fighting contribution to the creation of the incomparable British Empire...." Dengys nofelau'r milwr, a deithiodd y byd fel rhan o sawl ymgyrch filwrol, agwedd Imperialaidd a Darwiniaidd at bobloedd brodorol gogledd a de America, ond roedd yn benderfynol o hyrwyddo dadansoddiad o hanes Cymru a oedd yn herio'r farn gyffredinol ar y pryd fod y Cymry yn "lower-caste Celtic nation" nad oeddent yn meddu ar hanes a oedd yn deilwng o'r enw. Yn hynny o beth roedd yn casau'r Celt tylwyth-teg merchetaidd a bortreadir gan Matthew Arnold (Edwards, 2009, pp. 2, 11-12, 37-8, 44, 55, 77). Esgorodd yr angen hwn i ddatblygu cenedlaetholdeb cyhyrog newydd er mwyn profi eu bod yn gydradd â'r Saeson yn yr Ymerodraeth at ymdrechion i hybu balchder newydd yn eu Gymreictod, gyda sefydliadau megis y Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol a dderbyniodd eu siarteri yn 1907, a Neuadd Dinas Caerdydd gyda'i cherfluniau marmor o arwyr Cymru, yn ganolbwynt i'r cyfan (Davies, 2007b, p. 63). Gwelir yma felly sut y hybir dadansoddiad penodol o genedlaetholdeb Cymreig a oedd o fudd yn bennaf i'r dosbarth hwnnw o fewn cymdeithas Cymru nad oeddent am gael eu cau allan o sefydliadau y genedl-wladwriaeth ganolog a oedd yn cynnig ffon fara iddynt. O'u rhan hwythau, sicrhaodd y sefydliadau fod y drysau yn llydan agored i'r rheini oedd yn barod i ymaddasu ar eu cyfer. Nid

---

Cymry yn grŵp ar wahân i Loegr, ac felly na ddylid rhoi iddynt eu llywodraeth eu hunain (*Western Mail*, 1889, p. 2).

oedd modd ymaddasu i'r dadansoddiad rhyddfrydol-Ddarwinaidd o ethnigrwydd a dybiai bod y Cymry yn israddol i'r Saeson, felly fe gyfrannodd hynny yn ei dro at ail-ddyfeisio yr hyn a olygai i fod yn Gymry, ac at greu sefydliadau arwahanol i'r Cymry.

### *Cenedlaetholdeb yr Ymneilltuwyr*

Ond nid dyna'r unig symbyliad a arweiniodd at feithrin cenedlaetholdeb ymysg y Cymry, na'r mwyaf grymus. Er mwyn dod o hyd i symbyliad cryfach, rhaid chwilio am y rheini nad oeddent yn elwa ar y drefn fel ag yr oedd. O le daeth y galwadau am fwy o ymreolaeth i Gymru? Yng ngeiriau Siroky & Cuffe (2015, p. 7), o le y daeth yr achwyniad a lle'r oedd yr arweiniad a alwodd am newid? Yn fy marn innau, mae'r ateb ynghlwm wrth yr elfen honno o ideoleg ryddfrydol yr Ymneilltuwyr sydd wedi ei dirmygu gan genedlaetholwyr, sef eu cred *laissez-faire* yn rhyddid crefyddol yr unigolyn. Fel y nodwyd yn y drydedd bennod, yn ôl Wallerstein, nid cri'r cyfalafwr a oedd yn elwa ar y drefn fel ag yr ydoedd oedd *laissez-faire* (Wallerstein, 1997, pp. 4-5). Yn hytrach, roedd yn ideoleg er mwyn cyfiawnhau dymchwel un drefn a sefydlu un newydd a oedd yn fwy ffafriol i'r unigolyn, ac roedd cymhelliad amlwg i'r Ymneilltuwyr ddadlau felly eu bod dan anfantais o'i gymharu â'r Eglwys Wladol. Sail fy nadl bod yr Ymneilltuwyr yn allwedd, yn hytrach nag yn rhwystr, i genedlaetholdeb modern Cymreig oedd mai hwy yn unig a feddai ar *gymhelliad gwirioneddol* i newid y drefn, er bod y newid hwnnw yn gymharol fychan mewn gwirionedd. Deilliai eu hathrawiaeth *laissez-faire* o'r gred eu bod nhw wedi eu cau allan o fonopoli grym, a hynny ar sail yr anghyfiawnder a'r israddoldeb a deimlasent dan gyfundrefn yr Eglwys Wladol (I.G. Jones, 1992, p. 164). Datgela erthygl olygyddol yn y *Faner* yr hyn a oedd wrth wraidd twf cenedlaetholdeb yng Nghymru mewn gwirionedd.



Bu amser ac heb fod yn mhell iawn yn ôl – pan yr oedd offeiriaid yr Eglwys Wladol yn ymddangos, yng ngolwg y werin yng Nghymru, fel yn ddosbarth pell iawn uwch law gweinidogion ymneillduol mewn urddasolrwydd a pharchedigaeth. Ond y mae llinell y gwahaniaeth hwn eisoes yn cyflym gyflym leihau... ac fe ddaw gweinidogion ymneillduol... yn *level* i'r offeiriaid mewn parchedigaeth a dylanwad, yn mhlith ac yng ngolwg pob dosbarth o'r bobl. (Gee, 1857, p. 7)

Ceir hefyd erthygl olygyddol ddiddorol yn rhifyn cyntaf y *Faner*, sy'n nodi parodrwydd Ymneilltuwyr i ddefnyddio dadleuon crefyddol er mwyn hybu eu budd eu hunain. Er enghraifft, roeddent yn gwrthwynebu'r degwm a dylanwad y llywodraeth dros grefydd ac addysg ar sail crefyddol gan ddweud ei bod yn eu llygru, tra ar yr un gwynt yn hapus i dderbyn y *Regium Donum* oddi wrth y wladwriaeth pan oedd hynny o fudd iddynt hwy: “[Mae] gwrthwynebiad rhai fel hyn yn cyfodi, nid oddi ar gydwybodolrwydd i egwyddorion y Testament Newydd, ond oddi ar ryw gymhellion mwy personol, neu oddi ar nwyd genfigenus at y rhai sydd yn derbyn mwy o frasder gwaddolion na hwy eu hunain” (*Baner ac Amserau Cymru*, 1857a, p. 6). Roedd gan yr Ymneilltuwyr yng Nghymru yr un amcanion gwleidyddol â'u brodyr anghydfurfiol yn Lloegr, sef dadsefydlogi'r Eglwys. Beth a wnâi Cymru yn unigryw oedd bod amcanion gwleidyddol yr Ymneilltuwyr yng Nghymru yn digwydd cyddaro ag ymraniadau diwylliannol rhwng y werin a'r Tirfeddianwyr. Dyma hollt y gallai'r Ymneilltuwyr ei amlygu er eu diben eu hunain. Yn yr ardaloedd gwledig, ac i Gymry yn yr ardaloedd diwydiannol a oedd heb anghofio eu gwreiddiau gwledig, gellid portreadu yr annhegwch hwn yng nghyd-destun ymraniad diwylliannol llafur Hechter – yr uchelwyr segur ond grymus Anglicanaidd ac Eglwysig yn gorthrymu'r werin gynhyrchiol ond tlawd, Cymreig ac Ymneilltuol. O ganlyniad, roedd modd iddynt fabwysiadu diwyg mudiad cenedlaethol ethnogrefyddol (ac ieithyddol ar brydiau) er mwyn cael y maen i'r wal. Unwaith eto, arf oedd

cenedlaetholdeb ethnig er mwyn sicrhau cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer crwsâd grŵp penodol o fewn cymdeithas a deimlai eu bod nhw wedi eu heithrio o rym.<sup>169</sup>

Llwyddodd yr Ymneilltuwyr yn ail hanner y 19eg ganrif i greu cenedlaetholdeb Cymreig ar eu delwedd ethnogrefyddol eu hunain, ac fe ysgogwyd hynny gan y sylweddoliad y gallent sicrhau cefnogaeth dorfol er mwyn torri monopoli rheolaeth Anglicanaidd ar y wladwriaeth. I'r perwyl hwnnw y taranai'r *Traethodydd* yn 1862 fod "uchelwyr Cymru o ran teimlad, bron heb eithriad, yn estroniaid i anian y genedl, yn ddeithriaid i'w hiaith, ac yn rhagfarnllyd yn erbyn ei hegwyddorion, yn grefyddol, yn wladol, ac yn llênnyddol" (*Y Traethodydd*, 1862, p. 332). Yn yr un modd, pwysleisir dro ar ôl tro mai prif nodwedd Cymru "yw ei Hymneillduaeth. Pâr hyn iddi fod yn wrthddrych eiddigedd, ac yn ddolur llygaid tost, i esgobion, ucheleglwyswyr, bonedd, a chrachfonedd, y wlad" (*Baner Cymru*, 1857c, p. 6). Awgryma Moore-Colyer mai cymharol unochrog oedd y casineb hwn. Er y byddai syniadau rhyddfrydol yr Ymneilltuwyr yn anathema i fyd-olwg lled-ffiwdal y bendefigaeth, nid oedd yr olaf yn meddu ar safbwynt diwinyddol cryf fel rheol ac roeddynt yn ddigon parod i ddarparu tir i'r Anghydfurfwyr godi eu capeli. Gwyddent y gallai rhydd-ddeiliaid bleidleisio ac felly mewn ardaloedd lle'r oedd Ymneilltuaeth yn gryf, doedd dim rheswm i'w digio heb fod angen (Moore-Colyer, 1999, pp. 105, 119). Ond fe bwysleisiodd yr Ymneilltuwyr y rhaniadau diwylliannol rhyngddynt a'r tîrfeddianwyr er mwyn clymu budd y werin a'r dosbarth canol at ei gilydd yn eu herbyn. Dywed Gwyn Williams:

---

<sup>169</sup> Crybwyllwyd yn y bennod gyntaf y rhai a elwir gan McCormick yn genedlaetholwyr 'iwtalitariaidd' – h.y. y rheini sy'n hyrwyddo cenedlaetholdeb er mwyn cyraedd nod cwbl ymarferol (MacCormick, 1970, p. 54). Dichon fod y deallusion sy'n ymwneud â cam B Hroch i gyd yn genedlaetholwyr 'iwtalitariaidd' yn y bôn – gan mai newid sefydliadol yw'r nod - ond bod y cenedlaetholdeb ethnig a ddaw o hynny, boed y broses o'i greu yn un ymwybodol ai peidio, yn anhepgor er mwyn ennill cefnogaeth y werin.

A whole people did indeed form across this line; like the Czechs, they came to think of themselves as classless, a gwerin, to use the popular term. Everything outside them came to seem only half-Welsh, they were the real Welsh. As they became more radical in their politics, they came to feel that they, as Nonconformist people, were the Welsh nation. (Williams, 1985, p. 206)

Gan mai'r dosbarth canol Ymneilltuol, pobl fel y dyn busnes Thomas Gee, a arweiniai'r frwydr hon, roedd wrth gwrs yn fanteisiol i'r Rhyddfrydwyr Ymneilltuol i bortreadu'r frwydr yn nhermau diwylliant yn hytrach na dosbarth. Llyncwyd y dosbarth gweithiol ganddynt o fewn y 'werin' hon, wrth iddynt bwysleisio bod yr hyn a oedd orau i'r meistr hefyd o fudd i'r gweithiwr cyffredin (Morgan & Thomas, 1984, p. 144). Golygai hynny na ellid gwneud dim i ddadlau achos y gweithwyr ym Merthyr Tydfil na Thredegar yn erbyn y meistri diwydiannol yno (I.G. Jones, 1992, p. 52). Ac er bod Thomas Gee yn taranu yn erbyn y Degwm, gan ddadlau achos y ffermwyr, ni châi eu gweithwyr yn y dosbarth gweithiol yr un ystyriaeth. Ni ddigwyddodd hyn tan 1898 pan ysgrifennodd John Owen Jones, 'Ap Ffarmwr', o'u plaid yn *Y Werin* gan geisio eu hannog i sefydlu undeb llafur. Ni fagodd ei alwad wreiddiau yn Ninbych, a oedd yn drwm dan ddylanwad papur Gee, *Baner ac Amserau Cymru*. Dywed David Pretty fod 'Ap Ffarmwr' wedi "herio[ ] hunanoldeb rhagrithiol a ffugbarchus y sefydliad Rhyddfrydol-Ymneulltuol trwy gyflwyno sialens dosbarth yn enw'r werin-bobl" (Pretty, 1992, pp. 139-44). Drwy bwysleisio'r cwlwm diwylliannol a oedd yn eu dal ynghyd, felly, llwyddodd yr Ymneilltuwyr i fygu unrhyw ddyhead ar sail dosbarth, tra ar yr un pryd yn cynnull grym y dorf yn erbyn y rheini a oedd yn atal cyfalafwyr megis Thomas Gee rhag cydio yn awenau grym.

Er bod yr ymraniadau hyn rhwng y dosbarth canol a'r tîrfeiddianwyr yn ffrwtian ers peth amser, pwnc amwys serch hynny yw i ba raddau yr ystyrid crefydd y Cymry yn wedd ar genedlaetholdeb gan yr Ymneilltuwyr eu hunain yn hanner cyntaf y ganrif. Er enghraifft, awgryma Ieuan Gwynedd (y gwreiddiol) fod gwrthdaro rhwng crefydd ar y naill law a chenedlaetholdeb ar y llall:

Though Welsh in language, habits and feeling, I cannot merge the Dissenter in the patriot ... Though for the 'harp of my country', the songs of Zion give me greater delight. (Gwynedd, 1847a)

Awgryma Ieuan Wyn Jones mai Thomas Gee oedd un o'r cyntaf i ddadlau o blaid datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru yn unig, tra oedd nifer, gan gynnwys y Gymdeithas Ryddhad a Henry Richards, yn parhau i'w gweld fel brwydr ar draws y Deyrnas Unedig hyd y 1880au (Jones, 1998, p. 153). Ond roedd rywfaint o gefnu ar dawelyddiaeth stoig y gorffennol a phwysleisio'r rhaniadau hyn i'w weld mor gynnar â diwedd y 1840au. Dywed y *Traethodydd* yn 1848 fod Cymru:

... yn ddyledus i'w chrefydd am bob gwelliant yn gyfangwbl. Ni wnaeth ei llywiawdwyr ond ei gorthrymu a'i gadael – ni wnaeth ei haelodau seneddol ond gadael i'w gelynyon wadu ei hiawnderau – ac ni wnaeth ei chyfoethogion o oes i oes ond hela ar ei mynyddoedd, a llygru ei dyffrynoedd, a chludo ei brasder i'w fwyta mewn gwledydd estronol... I'w gweinidogion, ei phregethwyr, a'i chrefyddwyr y mae yn ddyledus am y cwbl. (*Y Traethodydd*, 1848, p. 70)

Gellid awgrymu serch hynny mai'r trobwynt oedd cyhoeddi cyfrifiad crefyddol yn 1851, a'r sylweddoliad bod yr Ymneilltuwyr yn fwy niferus na'r Eglwyswyr yng Nghymru. Effaith hynny, yn ôl Morgan, oedd bod yr Ymneilltuwyr wedi mynd i feddwl "mai hwy yn unig oedd yn Gymry diledryw" (Morgan, 1991, p. 19). Mae R. Tudur Jones yntau yn gweld arwyddocâd sylweddol yn y cyfrifiad hwnnw, gan nodi mai dyna pryd y sylweddolodd yr enwadau Ymneilltuol "y gallent gipio awenau dylanwad cymdeithasol a gwleidyddol o ddwylo'r Eglwys"<sup>170</sup> (Jones, 1981, p. 70). Nid oedd pledio teyrngarwch er mwyn osgoi erledigaeth yn gwneud y tro bellach; sylweddolodd yr Ymneilltuwyr eu bod mewn brwydr y gallent ei hennill. Mae'n arwyddocaol felly mai ar ddechrau cyfnod democratiaeth yng Nghymru y ceir y mynegiant cyflawn cyntaf o genedlaetholdeb Cymreig. Etholwyd Henry Richards yn AS Merthyr yn 1868, yr Anghydfurfiwr radicalaidd cyntaf i'w ethol yn AS gan bleidleiswyr dosbarth gweithiol ac ar sail pynciau dosbarth gweithiol (Williams, 1980, p. 16). Gelwir Henry Richard gan O'Leary yn "bropagandydd dylanwadol dros hawliau Ymneilltuwyr" (O'Leary, 1999, p. 515) a gwyddai sut i ddefnyddio cenedlaetholdeb er mwyn troi'r dŵr gwleidyddol i'w felin ei hun. Wrth gyfarch pobl Merthyr cyn yr etholiad, dywed:

The people who speak this language, who read this literature, who own this history, who inherit these traditions, who venerate these names, who created and sustain these marvellous religious organizations, the people forming three fourths of the people of Wales, have they not the right to say to this small propertied class... We are the Welsh people and not you. This country is ours and not yours and therefore we claim to have our principles and sentiments and feelings represented in the Commons' House of Parliament. (Aberdare Times, 1868)

---

<sup>170</sup> Mae'n arwyddocaol nad oedd cwestiwn ieithyddol yn rhan o'r cyfrifiad hwn, ac na fyddai tan 1891 (Pryce, 1999, p. 35). Awgryma Davies fod cyfrifiad 1911, a ddatgelodd mai lleiafrif yn eu gwlad eu hunain oedd y Cymry Cymraeg, wedi arwain at drawsnewid tebyg yn yr ymdeimlad o'r hyn yr oedd yn ei olygu i fod yn Gymro (Davies, 2007a, p. 456).

Fel y trafodwyd eisoes, dywed Özkirimli mai'r hyn sydd yn gyffredin rhwng pob math o genedlaetholdeb yw'r disgwrs; mae'n rhoi'r pwyslais ar y 'ni' a 'nhw' ac yn ei gyfiawnhau ei hun ar sail budd y genedl (2000, p. 221), a dyna'n union a welir yma. Roedd y frwydr genedlaetholgar y galwodd Richards ar ei gyd-Gymry i ymuno â hi yn esiampl eglur o bwysleisio rhaniadau diwylliannol llafur Hechter. Rhannwyd Cymry ganddo yn foneddigion Seisnig a'r rheini a weithiai i'w cefnogi, a'r werin Ymneilltuol-Ryddfrydol Cymraeg eu hiaith a oedd yn dioddef dan eu gorthrwm (O'Leary, 1999, p. 515). Noda Ieuan Gwynedd Jones fel yr aeth Henry Richard ati'n gelfydd i feithrin ei ddelwedd fel Cymro gwladgarol er mwyn cwrdd â'i ddibenion gwleidyddol. Sylweddolodd o'r dechrau arwyddocâd y Llyfrau Gleision, a'r modd y gellid manteisio ar dwf aruthrol y capeli ar hyd a lled Cymru. Rhoddodd i'r Cymry iaith wleidyddol newydd, "on the basis of a coherent view of history and a comprehensive analysis of their present social situation, with a political programme which everyone could understand and in the fulfilment of which all could share" (Jones, 1992, pp. 163-4). Hynny yw, creodd 'gymuned ddychmygedig' newydd o'i wneuthuriad ei hun, a hynny ar ddelw'r union werthoedd hynny yr oedd yr Ymneilltuwyr yn eu proffesu, ac a fyddai yn sicrhau iddynt rym drwy ddymchwel rheolaeth yr Eglwys Sefydledig a'r Tirfeddianwyr. Dywed Ieuan Gwynedd Jones mai'r araith hon ym Merthyr Tudful, cyn yr etholiad, oedd y tro cyntaf i grefydd, democratiaeth a chenedlaetholdeb gael eu cyd-gysylltu ar goedd yn y fath fodd (Jones, 1988, p. 131). Roedd yr hanes a gyflwynir gan Richards yn ymestyn yn ôl i ddechrau'r Diwygiad Protestannaidd, a methiant yr Eglwys Sefydledig oddi ar hynny i gwrdd ag amcanion ysbrydol y Cymry (O'Leary, 1999, p. 515). Dyma genedlaetholdeb ethnogrefyddol y Dyneiddwyr wedi cyrraedd Cam C Hroch o'r diwedd, gan droi'n ffenomenon torfol. Cenedlaetholdeb radicalaidd Anghydfurfiol ydoedd, gydag iaith a hanes diwylliannol y Cymry y tu hwnt i'r parth crefyddol wedi eu gwthio i'r ymylon (Morgan, 1991, p. 227). Galwai ar y Cymry i ymfalchïo yn eu hanes

a’u hetifeddiaeth – ond hanes ac etifeddiaeth grefyddol oedd y rheini. Nid oedd gorthrwm Prydeinig na chwlmw ieithyddol yn rhan ohono: “... yr oedd yr ymdeimlad o sarhad ac annhegwch erbyn hyn wedi ei sianelu i gyfeiriadau newydd...” (I.G. Jones, 1988, pp. 133-7). Dywed Siroky & Cuffe (2015, p. 7) fod angen achwyniad ac arweiniad ar gyfer pob cenedlaetholdeb – fe’u darparwyd gan y deallusion Ymneilltuol.

Yn ogystal ag adeiladu ar hunaniaeth ethnogrefyddol y gorffennol, ychwanegwyd haen newydd ati, sef brwydr yr Ymneilltuwyr yn wyneb gormes yr Eglwys Sefydledig.<sup>171</sup> Ychwanegodd dadfeddiant y tenantiaid yn sgil etholiadau 1852 ac 1868 ragor o ferthyron (J.G. Jones, 1992, p. 347). Yn 1868 defnyddiodd Thomas Gee hanes y rhai a drowyd allan o’u cartrefi gan Syr Watkin-Wynn yn dilyn etholiad 1859, oedd yn cynnwys mam Michael D. Jones, Mary Jones, ar lwyfan etholiad er mwyn cynhyrfu’r dorf (G.T. Jones, 1913, p. 230). Nodwyd yn yr ail bennod bwysigrwydd methiant a dioddef i naratif unrhyw fudiad cenedlaethol, gan ei fod yn symbyliad cryf ar i bobl weithredu o’r newydd (Renan, 1882). Dengys hunangofiant E. Pan Jones i Michael D. Jones pa mor gyflym y gallai mytholeg genedlaethol ddatblygu - honnwyd bod angel wedi ymddangos iddo ar ôl iddo ymgartrefu yn y Bala a phroffwydo y byddai yn rhyddhau Meirionydd o afael y Toriaid (Jones, 1903, p. 215)! Dywed William George fod Etholiad 1868 wedi suddo “yn ddwfn i enaid i genedl, ac aeth safiad gwroniaid 1868 yn rhan o’i hetifeddiaeth ysbrydol, ac yn symbyliad a nerth iddi mewn brwydrau celyd ar ôl hynny” (George, 1945, p. 12). Nid oedd gwirionedd y fytholeg hon nac yma nac acw, wrth gwrs. Fel y noda Ieuan Gwynedd Jones, “Nid yw mor bwysig â hynny... faint o’r stori hon o’r gorffennol oedd yn gywir ai peidio. Gwir werth yr hanes yw bod capelwyr y cyfnod yn dal i’w chredu”

---

<sup>171</sup> Yr oedd gan bob un o’r enwadau Ymneilltuol eu hanes a’u harwyr, a’u chwedloniaeth eu hunain (I.G. Jones, 1988, p. 144). Defnyddir barddoniaeth hefyd er mwyn ychwanegu at y fytholeg hon. Roedd yr arwyr a fawrygid, y beirdd, a’r beirniaid, yn perthyn i’r un traddodiad crefyddol (Edwards, 1991, p. 200). Dengys Evans & Sullivan fod y syniad o frwydro’n arwrol yn erbyn gormes yn rhan annatod o lèn gwerin y Rhyddfrydwyr Ymneilltuol. Yn hynny o beth, cymharai’r Cymry eu hunain nid yn unig â’r Iddewon, ond â chaethweision duon yr Unol Daleithiau hefyd (Evans & Sullivan, 1999, pp. 541-2).

(Jones, 1988, p. 144). Y bwriad oedd awgrymu y byddai'r werin, wrth gefnu ar amcanion yr Ymneilltuwyr, yn bradychu ymdrechion eu cyndadau.<sup>172</sup> Mynegir hyn yn glir gan Ieuan Gwynedd, wrth ddadlau yn erbyn addysg Eglwysig, mor gynnar â'r 1840au.

“Wyr, frodyr a thadau—mae yr adeg yn dyfod, ac yr awr hon yw, pan yn rhaid i ni ymfyddino gyda'n gilydd i ddiogelu addysg ein gwlad... Hwn yw y gofyniad mawr, a yw Cymru i bara yn wlad foesol a chrefyddol fel ei gwnaed gan Ymneilltuaeth Gymreig, ynte a ydyw yr egwyddorion, dros y rhai y gwaedodd ein tadau, i gael eu gwadu?” (Gwynedd, 1847b)

Roedd John Owen, Deon Llanelwy, yn effro i'r modd yr oedd Thomas Gee yn defnyddio cenedlaetholdeb er mwyn hybu amcanion gwleidyddol yr Ymneilltuwyr. Mewn ffrae ar dudalennau'r *Faner*, cyhudda Thomas Gee o “[wisgo] cynnhwrf y Degwm â ffug-gochl o wladgarwch... Gogoneddir y sawl a wrthodant dalu Degwm fel merthyron achos da. Mae y math hwn o ferthyrdod, nid yn unig yn rhad, ond yn enillfawr i'r sawl a elwir yn ferthyron.” Awgryma fod cefnogaeth yr Ymneilltuwyr i derfysg Rhyfel y Degwm yn brawf mai ystryw oedd y cenedlaetholdeb ethnogrefyddol a feithrinwyd ganddynt: “Onid yw y fath ymddygiad anwaraidd, ac anghrefyddol, yn nghanol Cymru dawel a chrefyddol, yn destyn syndod a galar?” (Owen, 1891, p. 5). Cyhuddir ef gan Gee yn ei dro o ragrith, am iddo ddefnyddio'r un ieithwedd genedlaetholgar i dadlau yn erbyn gostwng y Degwm a hybu ei fudd ariannol ef a'i gyd-offeiriad: “Y mae ef wedi ei themlo yn ddyletswydd, gan faint ei ofal am ‘foesoldeb’ yr Hen Wlad – nid am y Degwm o gwbl, dealler! – i gymmeryd flangell yn ei law y tro hwn, a'i

---

<sup>172</sup> Daeth hyd yn oed ymdrechion golygwyr a chyfranwyr y papurau newydd Cymraeg yn rhan o'r fytholeg, a gwnaethpwyd gwladgarwyr ohonynt trwy awgrymu eu bod wedi aberthu llawer er mwyn cynnal eu cyhoeddiadau crefyddol yn wyneb amryfal anawsterau: “... cofier fod y newyddiadurwr Cymreig yn wladgarwr, gan ei fod yn ymfoddloni i weithio am gydnabyddiaeth druenus, ac yn aml heb gydnabyddiaeth o gwbl” (*Baner ac Amserau Cymru*, 1910, p. 9).



chymmhwyso â ‘holl nerth braich ac ysgwydd’ at gefnau nifer fawr o’i gydwladwyr” (Gee, 1891, p. 11). Awgryma Gwynn Matthews mewn darlith yn Ninbych i nodi deucanmlwyddiant geni Thomas Gee ei fod wedi gwneud cymwynas mawr â’r Eglwys Anglicanaidd yn ei ymosodiadau arni. Cafodd yr eglwys ei dwysbigo gan y label ‘estrones’ a roddodd Thomas Gee iddi, a chafodd ei deffro i’w hetifeddiaeth Gymreig (Matthews, 2015). Serch hynny, gellid awgrymu mai’r gwirionedd yn hytrach oedd eu bod hwythau, fel yr Ymneilltuwyr, wedi eu deffro i fanteision defnyddio disgwrs cenedlaetholdeb er mwyn hyrwyddo achosion a fyddai o fudd iddynt.

Lle dethol oedd i’r iaith Gymraeg o fewn y naratif cenedlaethol hwn. Talai i’r Ymneilltuwyr brocio’r tân hwn o dro i dro yn ôl er mwyn amlygu ymhellach y gwahaniaethau rhwng y werin a’r tiffeddianwyr. Ond nid oedd diben iddynt ganiatáu iddo losgi’n wenfflam, gan bwysleisio’r rhwygiadau diwylliannol rhyngddynt ac Ymneilltuwyr di-Gymraeg neu’r dosbarth canol Seisnig. Dywed Smith eu bod wedi pwysleisio’r Gymraeg pan oedd o fudd iddynt; wrth drafod natur estron yr Eglwys Anglicanaidd a’r tiffeddianwyr Seisnig. Ond fe âi’r iaith yn angof pan nad oedd yn gwasanaethu eu dibenion nhw (Smith, 1999, p. 459). Defnyddiodd Henry Richards y Gymraeg yn ofalus iawn, gan ei phwysleisio mewn ardaloedd gwledig lle byddai o fudd iddo wneud hynny, ac osgoi’r pwnc mewn ardaloedd diwydiannol lle’r oedd y demograffeg yn fwy cymysg (I.G. Jones, 1999, p. 495). Awgryma Neil Evans a Kate Sullivan fod defnydd arweinwyr yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol o Saesneg yn eu gohebiaeth yn arwyddocaol, ac yn dangos eu bod nhw’n ymwybodol mai ystryw gwleidyddol oedd eu defnydd o’r Gymraeg (Evans & Sullivan, 1999, p. 551). Awgryma Geraint Jenkins fod cynnal yr honiad bod Cymru yn wlad ar wahân i Loegr, ac felly yn haeddu triniaeth wleidyddol wahanol, yn un rheswm pam roedd yr Ymneilltuwyr yn awyddus i gynnal yr iaith. Yn sgil y penderfyniad i holi cwestiwn ynglŷn ag iaith yng nghyfrifiad 1891, roedd pryder ynglŷn â’r modd y gallai effeithio ar

ymwybyddiaeth genedlaethol y Cymry: “yr oedd pwnc yr iaith, o leiaf yn anuniongyrchol, yn annatod glwm wrth dair o ddadleuon gwleidyddol pwysicaf yr oes, sef datgysylltu, addysg, a phwnc y tir” (Jenkins, 1999, p. 2). Awgrymodd golygydd yr *Herald Cymraeg* ar drothwy’r cyfrifiad y byddai nodi gallu yn yr iaith Gymraeg yn fodd “i helpu yn mlaen ein cerbyd cenedlaethol ar y ffyrdd geirwon sydd ganddo i’w theithio” (*Yr Herald Cymraeg*, 1891). Mae ymdriniaeth *Baner ac Amserau Cymru* â’r pwnc yn dangos i ba raddau yr ystyrid pwnc yr iaith yn ymestyniad o’r un frwydr rhwng Ymneilltuwyr a’r Eglwys Wladol. Nodir mai “ein gelynon” yn Nhŷ’r Arglwyddi fu’n gyfrifol am atal Cymry o’r tu hwnt i Glawdd Offa rhag nodi eu hiaith. Serch hynny, mae’n amhosib mesur i ba raddau y mae’r erthygl yn cynrychioli mynegiant o gynhesrwydd diffuant tuag at yr iaith ar ran Thomas Gee, ac i ba raddau yr oedd yn pryderu y byddai cwmp sylweddol yn nifer y siaradwyr yn ergyd i’r ddadl bod y Cymry yn genedl ar wahân i Loegr. Meddai:

Ni raid iddynt gywilyddio arddel na’u cenedl, na’u hiaith. Testyn ymffrost ydyw hyn yn hytrach: ac y mae y ffaith fod llaweroedd yn gallu siarad dwy iaith yn eu dyrchafu lawer uwch law y rhai nas gallant ond siarad un – a hono ‘yr iaith fain’.

(*Baner ac Amserau Cymru*, 1891, p. 4)

Dro arall, yr oedd yn rhyfeddol o ddidwyll wrth gyfaddef mai budd yr Ymneilltuwyr a gâi’r blaen ar yr hyn a oedd orau i Gymru a’r Gymraeg. Dywed yn y *Faner* ar 12 Mai 1858 nad oedd yr Ymneilltuwyr yn trafferthu ymgyrchu ar y cyd â rhai cenedlaetholwyr yn yr Eglwys Wladol i sicrhau esgobion Cymreig i Gymru, oherwydd “nad oes dim â wnelo â ni mewn modd enwadol; nid ydym yn colli un ffrainc na mantais enwadol drwy y peth, ac ni ennillem un chwaith pe newidid y drefn heddyw... y mae ein cred a’n teimlad fel Ymneilltuwyr yn gryfach na’n teimlad cenedlaethol yn y mater. Chwenychem fel Cymry gynorthwyo ein cyfeillion

Eglwysig yn eu hamcan i ddilëu y sarhâd a deflir arnom fel cenedl; ond y mae ein hegwyddorion Ymneilltuol yn sefyll ar ein ffordd...” (*Baner Cymru*, 1858, p. 1). Dyma gyfaddefiad felly eu bod am wrthod cydweithio ar fater y mae Gee yn ei gyfaddef a fyddai o fudd i’r genedl (a’i hiaith), a hynny er mwyn osgoi’r rhoi’r argraff nad oedd hollt diwylliannol rhyngddynt a’r eglwys sefydledig. Gor-symleiddio yn ddiâu fyddai awgrymu bod yr Ymneilltuwyr wedi mabwysiadu cenedlaetholdeb mewn modd cwbl sinigaidd a thwyllodrus er mwyn hybu eu dibenion eu hunain; does dim amheuaeth nad oeddent yn credu eu neges eu hunain.<sup>173</sup> Ar y naill law gall y tueddiad hwn i addurno ac ailwampio’r naratif cenedlaetholgar awgrymu sail i honiad Hobsbawm mai rhywbeth a grëwyd o’r newydd yw’r fytholeg sy’n amgylchynu cenedlaetholdeb er mwyn ei gyfiawnhau (Hobsbawm, 1968, pp. 294-300). Serch hynny, nid dyfeisio yn gyfan gwbl a geir yma, oherwydd roedd cwynion yr Ymneilltuwyr yn seiliedig ar orthrwm gwirioneddol a oedd yn parhau yn fyw i rai o’r gweinidogion hÿn (I.W. Jones, 1998). Yr hyn a wnaeth yr Ymneilltuwyr yn bur effeithiol oedd cymryd awenau segur cenedlaetholdeb Cymreig er mwyn troi eu cwynion hwy yn rhai cenedlaethol, gan dorfoli hunaniaeth ethnogrefyddol a oedd yn ymestyn yn ôl ganrifoedd lawer er eu dibenion yn y presennol. Awgryma hyn sail i honiad Smith bod cenedlaetholdeb modern i raddau yn ymestyniad o gynhwysion yr ‘ethne’ a fodolai eisoes (Smith, 2003, p. 129), sydd yn cael ei siapio o’r newydd gan bob cenedlaeth fel pelen o glai. Ond rhaid bod rhyw gymhelliad – ryw achwyniad – yn gymhelliad dros wneud defnydd o’r ‘ethne’ hwnnw. Nid yw ynddo’i hunain yn rheswm dros sefydlu mudiad cenedlaethol.

Crëwyd yn ail hanner y 19eg ganrif felly genedlaetholdeb modern Cymreig, a hynny yn bennaf er mwyn hybu amcanion crefyddol yr Ymneilltuwyr. At T Gwynn Jones y trown am grynhoad

---

<sup>173</sup> Roedd Ieuan Gwynedd ei hun yn enghraifft dda o hynny – ni allai deall pam nad oedd ei gylchgrawn dosbarth canol parchus *Y Gymraes* yn apelio at ferched Merthyr Tudful. Awgryma Jenkins ei fod wedi llwyddo i droi glust byddar i’r torcyfraith o’i amgylch ac fe dreuliodd ei oes fer yn hybu’r myth mai yng Nghymru lân a llonydd yr oedd yn byw (Jenkins, 1991, pp. 106, 120).

o'r hyn a oedd yn gwahaniaethu rhai Ymneilltuwyr, megis Thomas Gee, oddi wrth rhai Ymneilltuwyr eraill ystod y 19eg ganrif. Mae'n nodi bod dwy garfan i'w cael yn eu mysg:

... y naill yn barod i ddisgwyl wrth y Saeson, dan arweiniad y Nonconformist, a'r llall, dan arweiniad Thomas Gee, yn barod i ymladd fel Cymry, ar dir eu hawl genedlaethol i ryddid crefyddol; y naill yn derbyn 'South Britain' fel disgrifiad o Loegr a Chymru, ac yn ddistaw tan yr awgrymiad nad oedd wahaniaeth rhwng Cymru a'r 'Duchy of Cornwall,' a'r llall yn hawlio mai barn Cymru a ddylasai benderfynu'r mater yno. (G.T. Jones, 1913, p. 284)

Er bod tueddiad mewn cofiannau i or-ganmol, mae'n arwyddocaol mai geiriau dyn a oedd yn adnabod Thomas Gee yw'r rhain, a hynny cyn dadrithiad y rhyfeloedd byd ac amlygiad cenedlaetholdeb ieithyddol. Cenedlaetholdeb crefyddol a ddisgrifir yma yn sicr, ond cenedlaetholdeb serch hynny – ac mae'r cymhelliad hefyd wedi ei amlygu yn glir yma, sef rhyddid crefyddol yr Ymneilltuwyr i elwa ar yr un manteision â'r Eglwyswyr.

Er mai lleiafrif ymysg poblogaeth Cymru oeddynt mewn gwirionedd (Morgan & Thomas, 1984, p. 160), gellid dadlau bod yr Ymneilltuwyr mewn safle manteisiol dros ben wrth feithrin cenedlaetholdeb Cymreig. Yn ogystal â'u monopoli dros y wasg Gymraeg (a drafodir yn fanylach yn y bennod nesaf) golygai natur deithiol eu gwaith y gallent hybu ymdeimlad o 'gymuned ddychmygedig' ymysg y Cymry Cymraeg. Y nhw oedd rhai o ddefnyddwyr mwyaf brwdfrydig y rhwydwaith o reilffyrdd a ymddangosai ledled y wlad. Dywed R. Tudur Jones bod y pregethwyr yn deall daearyddiaeth Cymru i'r dim: "Nid oedd angen iddo astudio map na thaflen amser i ddweud sut orau i fynd o Fodorgan i Fedwas, neu o Gynwyl Elfed i Goed-llai." Byddent yn bresenoldeb amlwg yn y gorsafoedd ar fore Sadwrn, ac roedd "gorsaf Caer neu

Pontypool Road ar fore Sadwrn fel maes cymanfa” (Jones, 1981, p. 156). Eu presenoldeb nhw oedd yr un peth oedd yn gyffredin rhwng parthau mawr o Gymru.<sup>174</sup> Os oedd gweld cyd-wladwyr yn darllen papurau newydd yn hybu teimlad o genedlaetholdeb, fel y dywed Anderson, byddai’r teimlad bod cyfran helaeth o’r wlad yn rhan o’r un ddefod grefyddol ar fore Sul, ac yn clywed yr un neges Ymneilltuol, yn yr un iaith, o’r pulpud, yn debygol o hybu ymdeimlad tebyg. Gellid dychmygu y byddai ymweliad gan bregethwyr o bob rhan o Gymru, a’r arfer o’u hadnabod yn ôl eu pentref neu dref, e.e. Samuel Roberts, *Llanbrynmair*, neu Evan Jones, *Caernarfon*, yn fodd o hybu ymdeimlad o genedligrwydd ar y cyd. Dywed Ieuan Gwynedd Jones fod y pregethwyr a oedd yn tramwyo o un pen i’r wlad i’r llall wedi cyd-gysylltu’r “complex nexus of chapels into a self-conscious whole...” Yn yr un modd gellid awgrymu y byddai’r capeli eu hunain a godwyd yn eu cannoedd ledled Cymru yn y 19eg ganrif hefyd yn fath o’r ‘cenedlaetholdeb banal’ symbolaidd a drafodir gan Billig. Awgryma Jones fod y symbyliad i adeiladu capeli yn deillio o angen yr enwadau i roi “visible and concrete expression to their existence as real, identifiable communities”<sup>175</sup> (Jones, 1998, p. 164). Er eu bod yn symbol o nerth enwadol, o ganlyniad i natur cymharol unffurf pensaerniaeth Gymreig, gellid awgrymu bod amlygrwydd yr adeiladau hyn wedi hybu ymdeimlad o genedlaetholdeb ethnogrefyddol unedig yng Nghymru’r cyfnod.<sup>176</sup>

---

<sup>174</sup> Gellid dadlau y byddai’r rhwydwaith dibynadwy o gysylltiadau cenedlaethol a feithrinwyd rhwng y pregethwyr hyn hefyd wedi hwyluso cyhoeddi yn Gymraeg. Oherwydd bod angen iddynt deithio’n gyson, roedd modd creu cysylltiadau a allai fod yn ddefnyddiol iddynt wrth chwilio am awduron i gyfrannu, neu gyhoeddwyd i ymdrin â’r gwaith gorffenedig. Noda Philip Henry Jones fod clymau cyfeillgarwch yn dal y awduron a’r cyhoeddwyd ymneilltuol hyn ynghyd (Jones, 1998, p. 178). O ystyried yr heriau daearyddol a thrafnidiaethol a nodwyd eisoes, mae’n bosib dadlau bod y ffyddlondeb cilyddol hwn – a’r ymdeimlad o gymuned a grewyd ganddo, ac a atgyfnerthwyd gan y wasg – wedi gwneud y diwydiant cyhoeddi Cymraeg yn un mwy effeithiol nag y buasai fel arall.

<sup>175</sup> Mae E.P. Thompson ychydig yn llai caredig wrth ddisgrifio eu heffaith grymus ar seicoleg y bobl: “The box-like, blackening chapels stood in the industrial cities like great traps for the human psyche” (Thompson, 1991, p. 404).

<sup>176</sup> Dywed R. Tudur Jones fod pensaerniaeth y capeli hyn yn gosod lle symbolaidd pwysig i’r Beibl ar astell y pulpud (Jones, 1981, p. 154). Y Beibl Cymraeg hwn odid dim arall oedd symbol cenedlaethol y Cymry a luniwyd gan yr Ymneilltuwyr, a’i hollbresenoldeb (yn y capel a’r cartref) yn golygu ei fod yn symbol yr un mor rymus o hunaniaeth ddisywlw â’r faner genedlaethol yn cyhwan ar adeilad cyhoeddus neu mewn gardd fel y nodwyd gan Billig (1995, p. 8).

Yr academydd sy'n gosod gerbron y ddamcaniaeth debycaf i'r hyn a drafodir uchod yw Adamson yn ei gyfrol *Class, Ideology & the Nation*. Mae'n cytuno mai cymhelliad yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol a oedd yn bennaf gyfrifol am wthio cwch cenedlaetholdeb i'r dŵr yng Nghymru. Ond fel y nodwyd yn yr ail bennod, nid wyf yn cytuno â'i ddadansoddiad mai prif darddiad cenedlaetholdeb Cymreig oedd bourgeoisie Cymraeg eu hiaith yr ardaloedd diwydiannol yn y de-ddwyrain, oblegid nid oedd cymhelliad amlwg i rai a oedd yn ddibynnol i'r fath raddau ar y clymau economaidd â Lloegr i hybu cenedlaetholdeb Cymreig, ac nid oedd rhwyg diwylliannol ar sail llafur rhyngddynt a'r meistri diwydiannol eraill. Serch hynny mae ei ddadansoddiad o'r hyn a oedd ar waith yng nghefn gwlad yn cyd-fynd â'm un innau, sef bod y cymhelliad i hybu cenedlaetholdeb yn deillio o'r ffaith bod yr hollt economaidd a diwylliannol rhwng y Cymry gwerinol a'r tîrfeddianwyr Seisnig yn digwydd cyd-daro mewn ffordd nad oedd yn digwydd yn y Gymru ddiwydiannol na chwaith yn y Lloegr wledig. Dadleua Adamson am Ymneilltuaeth: "the growth of the faith was a direct result of its ability to offer resistance to landlord hegemony" (Adamson, 1991, pp. 75, 105). Yn hynny o beth, dechreuad cenedlaetholdeb Cymreig modern oedd y broses o weddnewid y gymdeithas o un ffiwdal dan reolaeth tîrfeddianwyr ceidwadol i un gyfalafol ddiwydiannol dan reolaeth bourgeoisie rhyddfrydol. Roedd rhyddfrydiaeth yn atgyfnerthu cenedlaetholdeb yr Ymneilltuwyr oherwydd bod eu brwydr yn erbyn yr Eglwys Wladol yn seiliedig ar ddwy egwyddor ryddfrydol sylfaenol, sef a) y dylai'r wladwriaeth adlewyrchu dymuniad y bobl, ac felly na allai'r Eglwys ac ASau Ceidwadol honni cynrychioli cenedl o Ymneilltuwyr Rhyddfrydol, ac b) y dylid gwobrwyo'r unigolyn am ei lafur ei hun, ac felly bod ymdrechion y Tîrfeddianwyr a'r Eglwys i hawlio rhent a degwm yn gyfystyr â lladrad.

Am mai hybu amcanion crefyddol yr Ymneilltuwyr oedd y prif nod, nid yw efallai'n syndod felly fod academyddion o genedlaetholwyr a Marcswyr fel ei gilydd wedi drwgdybio

ymdrechion yr Ymneilltuwyr i sefydlu mudiad cenedlaethol. Tybir mai cenedlaetholdeb anghynhwysol ydoedd, a oedd er eu budd eu hunain yn hytrach na'r genedl. Yn wir, awgryma R. Merfyn Jones na ddylid ei ystyried yn fudiad cenedlaethol o gwbl ar y sail honno:

... the overwhelming political strength of the Liberal party within Wales until 1918 disguised its failure to construct a program and identity that could include all of the people of Wales; to the contrary, this effort had all the characteristics of a sectarian mobilization. (Jones, 1992, p. 335)

Ceir awgrym tebyg gan John Davies yn *Hanes Cymru*. Dywed mai'r hyn a gafwyd oedd "buddugoliaeth honedig genedlaethol trwy feithrin chwerwedd enwadol, a hynny ar draul ymgyrchoedd a allai fod wedi canolbwyntio ar gydymwybyddiaeth o dreftadaeth genedlaethol". Dywed Davies fod y penderfyniad i ymgyrchu o blaid datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru o ganlyniad i'w sylweddoliad na fyddai'n wleidyddol bosib datgysylltu Eglwys Lloegr. Er mwyn ennill y ddadl honno, yr unig ddewis oedd dadlau bod Cymru yn genedl ar wahân a oedd yn haeddu triniaeth arbennig (Davies, 2007a, p. 397). Awgryma Siôn Jobbins yn ogystal fod yr Ymneilltuwyr wedi cyfyngu'n ormodol ar yr hyn a olygir drwy fod yn Gymro (Jobbins, 2011, p. 37). Nid wyf yn cyd-weld â'r dadansoddiadau hyn. Fel y nodwyd eisoes, yr hyn a wna cenedlaetholdeb yw argyhoeddi'r unigolyn bod 'cymuned ddychmygedig' o bobl o'i amgylch yn rhannu nodweddion yn gyffredin ag ef, ac sy'n eu gwneud yn bur wahanol i eraill y tu hwnt i diriogaeth y genedl honno. O ganlyniad, mae peryg i haneswyr o anian genedlaetholgar syrthio i'r un twll, a chredu bod gofyn i'r elît ddenu'r boblogaeth *gyfan*, neu gyfran sylweddol ohoni, o'u plaid cyn y gall mudiad cenedlaethol haeddu'r enw.<sup>177</sup> Ond fel y

---

<sup>177</sup> Efallai fod tuedd eironig ymysg academwyr o anian Faresaidd i gredu'r myth hefyd pan fydd hynny o ddefnydd iddynt wrth ddadlau yn erbyn hyfywedd mudiad o'r fath yng Nghymru.

dengys Roeder, nid oes sail hanesyddol i'r gred bod angen i'r genedl fod o'r un anian cyn y gall mudiad cenedlaethol lwyddo. Yn wir, yr hyn sy'n nodweddiadol o fudiadau cenedlaethol Ewrop o'r 19eg ganrif hyd ddiwedd yr 20fed yw'r *diffyg* undod cenedlaethol o'u plaid. Hyd yn oed yn y gwledydd hynny a 'enillodd' eu hannibyniaeth, roedd mwyafrif y poblogaethau yn parhau i wrthwynebu annibyniaeth (Roeder, 2007, pp. 24-5). Yn nhyb Roeder felly, os daw hunaniaeth gwbl unedig o gwbl, rywbeth *post hoc* ydyw, yn sgil annibyniaeth, h.y. llwyddir i gynhyrchu'r ymdeimlad o 'gymuned ddychmygedig' unwaith y mae holl gyfarpar y genedl-wladwriaeth eisoes yn ei le.<sup>178</sup> Y cyfan sydd ei angen ar yr elít er mwyn ennill annibyniaeth yw sicrhau bod y grym sefydliadol yn eu dwylo nhw er mwyn cael y maen i'r wal, a gall hynny, mewn gwledydd democrataidd, olygu ennill cefnogaeth canran o'r cyhoedd. Gall y broses hon arwain at annibyniaeth yn y pen draw, os oes gwrthdaro sylweddol rhwng eu hamcanion hwy a'r genedl-wladwriaeth ganolog. Er gwaethaf eu natur 'sectarian', sicrhaodd Ymneilltuwyr Rhyddfrydol ddigon o gefnogaeth dorfol i gipio awenau grym, dadsefydlogi'r Eglwys Wladol, a chreu sefydliadau cenedlaethol a fyddai dan eu rheolaeth hwy. Yn ôl Kenneth O. Morgan roedd gan Ryddfrydiaeth gymaint o afael dros Gymru rhwng 1880 ac 1914 ag a oedd gan y Blaid Lafur o'r 1920au ymlaen: "Liberalism permeated Welsh life at every point during this period. Every major transformation in Welsh life owed something to it" (Morgan, 1982, p. 52). Yn hynny o beth, gellid ei ystyried yn fudiad cenedlaethol tra 'llwyddiannus', o safbwynt y rheini a'i hyrwyddodd. Yn ogystal â Roeder, dengys gwaith Anderson, Hroch ac Wallerstein mai budd carfan fechan o'r gymdeithas sy'n aml yn gyrru mudiad cenedlaethol. Anodd yw gwadu mai cenedlaetholdeb ethnogrefyddol a hyrwyddwyd gan yr Ymneilltuwyr, ar y sail mai dim ond hanner y Cymry a gynrychiolwyd ganddynt – ar y sail honno, a ellir galw cenedlaetholdeb ieithyddol Cymreig yn genedlaetholdeb, o gofio bod llai na 20% bellach yn

---

<sup>178</sup> Mae'n nodedig yn hyn o beth mai ychydig o gefnogaeth a gafwyd i ddatganoli grym i Gymru yn 1997, ac mai amodol yw'r gefnogaeth hyd heddiw, er i'r grym y mae'r sefydliad hwnnw yn meddu arno gynyddu yn sylweddol (Scully & Jones, 2015). Serch hynny, mae'n annhebygol y byddai unrhyw genedlaetholwr Cymreig yn disgrifio mudiad cenedlaethol ieithyddol Cymru yn yr un modd dilornus ag y disgrifir ymdrechion yr Ymneilltuwyr.



siarad yr iaith? Nid wyf yn honni bod y wedd hon ar genedlaetholdeb yn *gywir* nac yn *foesol*, nac yn gymeradwy mewn unrhyw fodd, ond ni ellir gwadu yn fy marn i ei fod yn genedlaetholdeb ac yn haeddu'r enw. Efallai bod yr Ymneilltuwyr yn gyfrwng *amherffaith* ar gyfer mudiad cenedlaethol, ond fel y nodwyd eisoes, nid oedd unrhyw grŵp arall a fyddai wedi arwain mudiad cenedlaethol yn eu habsenoldeb.

Beirniadaeth arall o'r Ymneilltuwyr yw eu bod wedi gwastraffu amser ac adnoddau ar bynciau ysbrydol megis deddfau claddu, y dreth eglwys, a datgysylltiad. Awgryma Ieuan Wyn Jones y dylent yn hytrach fod wedi canolbwyntio ar sicrhau ymreolaeth (Jones, 1998, p. 161). Ond o ddadansoddi eu gofynion yng ngoleuni sylwadau Anderson a Roeder, gellid awgrymu yn hytrach fod y consesiynau digon di-nod yr oeddynt yn galw amdanynt yn adlewyrchiad o'r ffaith mai digon bychain oedd y rhwystrau a'u hataliai rhag meddu ar rym a dylanwad. Nid oeddynt, fel trigolion Slofacia, y Tiroedd Tsiec, India neu'r Unol Daleithiau, yn wynebu dewis rhwng annibyniaeth neu gaethiwed dan reolaeth cenedl-wladwriaeth estron. Ni allent, fel eu cefndryd Ymneilltuol yn yr Unol Daleithiau ddegawdau ynghynt, achwyn "No taxation without representation", oblegid yr oedd ganddynt gynrychiolaeth yn y Senedd (Miller, 1959, p. 31). Gallai George Osborne Morgan ddadlau yn y *Geninen* erbyn 1888 fod "aelodau Seneddol yn y dyddiau hyn yn llaw eu hetholwyr yn hollol, ac os ydym yn ddiffygiol yng nghyflawniad ein dyletswydd, y mae y bai i fesur wrth eich drysau chwi, a chenych chwi y mae y feddyginiaeth" (Morgan, 1888, p. 18). Mae'n arwyddocaol mai sail dadl Michael D. Jones, wrth fynnu ymreolaeth, oedd bod nifer aelodau seneddol Lloegr o'i gymharu â'i wlad ef yn golygu na chât Cymru sylw teilwng (Jones, 1885a, p. 7). Cymru ffederal oedd yr ateb i hynny, tybiai, yn hytrach nag annibyniaeth. Dylid pwysleisio hefyd nad i'r byd nesaf yn unig y perthynai'r pynciau a âi â bryd yr Ymneilltuwyr. Roedd gan Eglwys Lloegr rym go iawn ym mywydau pob dydd y bobl. Fel y dywed Gilbert: "The Church of England had immense social and

political authority. It was literally part of the state.” O ganlyniad, roedd gwrthwynebu'r Eglwys Sefydledig yn weithred o “social as well as religious deviance” (Gilbert, 1993, pp. 82, 85). Roedd arlliw moesol a chrefyddol i nifer o'r dadleuon rhyddfrydol o blaid hawliau'r unigolyn yn y 19eg ganrif, oherwydd bod crefydd yn rhan o wead y wladwriaeth - ymgyrch i ddatgysylltu rhan o'r wladwriaeth oedd y frwydr dros ddadsefydlogi'r Eglwys yn y bôn. Nid rhywbeth unigryw i Ymneilltuwyr Cymru oedd y cyd-gysylltiad hwn rhwng crefydd a gwleidyddiaeth (Hempton, 1987, p. 109). Ymddangosodd y dyfyniad enwog ‘No taxation without representation’ a ragflaenodd Rhyfel Annibyniaeth yr Unol Daleithiau am y tro cyntaf mewn pamffled gan weinidog Annibynnol rhyddfrydol a oedd, meddai, wedi ei gythruddo gan ddylanwad cynyddol Anglicaniaid ceidwadol yn nhalaith New England a oedd yn galw am ymostyngiad i reolaeth Lloegr (Beneke, 2008, p. 46). Dywed Ieuan Wyn Jones mai'r teimpladau cryfion o blaid datgysylltu yn anad dim arall a esgorodd ar y syniad o blaid seneddol Gymreig ymysg y Rhyddfrydwyr yng Nghymru. Yn fwy arwyddocaol efallai oedd mai *diffyg ymateb* y llywodraeth i'w gofynion oedd wedi eu gyrru i'r cyfeiriad hwnnw (Jones, 1998, p. 153). Mae'r cyfan fel pe bai'n cefnogi damcaniaeth Roeder mai ffrwyth gwrthdaro â'r genedl-wladwriaeth ganolog yw mudiadau cenedlaethol – a bod ‘llwyddiant’ y mudiad yn dibynnu i raddau helaeth ar ddilysrwydd yr achwyniad yn ogystal â pharodrwydd y genedl-wladwriaeth ganolog i gyfaddawdu (Roeder, 2007, p. 5).

Un ddadl yn erbyn y damcaniaeth hon oedd nad oedd Cymru, erbyn y 19eg ganrif, eto'n genedl-wladwriaeth segmentedig, yn ôl diffiniad Roeder. Ond gellid awgrymu mai'r eglwysi Ymneilltuol oedd yr unig sefydliadau o bwys gwirioneddol a fodolai yng Nghymru y tu hwnt i fân Eisteddfodau, ac felly nad yw'n syndod mai o'r rheini y blagurodd yr unig wedd at genedlaetholdeb a geir yn ystod y cyfnod hwn. Dywed R. Tudur Jones mai'r capeli Ymneilltuol oedd y “sefydliadau nerthol, y sefydliadau Cymraeg mwyaf a feddai'r genedl” (Jones, 1981, p.

247). Dywed Robert Owen Jones yn yr un modd, “ar ddechrau'r ganrif enwad y Methodistiaid Calfaidd oedd yr unig sefydliad gwir genedlaethol yn y wlad” (Jones, 1997, p. 287). Ac yn absenoldeb sefydliadau eraill a feddai ar yr un dylanwad, daeth y capeli hyn i lenwi'r bwlch, “a kind of surrogate for those legal, political, and other social institutions around which patriotism and nationalism cohere.” Yn ôl Ieuan Gwynedd Jones, ni allai'r iaith Gymraeg ynddi ei hun fod wedi cyflawni swyddogaeth o'r fath. Yn absenoldeb sefydliadau a allai rhoi ystyr ehangach i'r iaith, nid oedd yn ddim yng ngolwg y Cymry ond modd o gyfathrebu (Jones, 1998, p. 163). Tyfodd yr eglwysi Ymneilltuol yn sefydliadau o bwys yng Nghymru yn absenoldeb arweiniad gan y Tirfeddianwyr, yr Eglwys Wladol, neu'r meistri haearn, glo, a llechi. Cyfaddefai hyd yn oed un o awduron y Llyfrau Gleision mai'r hyn a oedd yn rhoi'r gwynt yn hwyliau'r Ymneilltuwyr oedd diffyg arweiniad neu gefnogaeth ariannol i'r werin gan gyfoethogion y wlad. Rhoddai bobl Cymru eu ffydd yn ymdrechion gwirfoddol yr Ymneilltuwyr i addysgu eu plant oherwydd safon isel addysg yn yr ysgolion Eglwysig. Sgilfeffaith y cylch dieflig hwn, meddai, oedd “the unhealthy division of society, which prevents the rich and poor from cooperating”<sup>179</sup> (Johnson, 1846, p. 511). Hynny yw, roedd rhaniad diwylliannol ar sail llafur Hechter yn prysur ymffurfio. Bodolai pob enwad Ymneilltuol fel rhyw fath o sefydliad llywodraethol annibynnol, gan gynnig holl nodweddion y genedl-wladwriaeth fodern ac eithrio tiriogaeth; addysg, cyfiawnder, a hyd yn oed gwasg. Dywed E.P. Thompson fod hyn yn arbennig o bwysig yn yr ardaloedd diwydiannol: “[They offered] the uprooted and abandoned people of the Industrial Revolution some kind of community to replace the older community-patterns which had been displaced...” Golygai pechu yn erbyn y drefn “expulsion from the only community-group which they knew in the industrial

---

<sup>179</sup> Dywed Gareth E Jones na theimlai'r rheini a oedd mewn sefyllfa o awdurdod yn y gymdeithas unrhyw diddordeb yn y gwaith o addysgu eu tenantiaid a'u gweithwyr (Jones, 1999, p. 404). Awgryma Moore-Coyle yntau mai'r hyn a lesteiriai buddsoddiad gan y Tirfeddianwyr a'r Anglicaniaid yn y werin yng Nghymru mewn gwirionedd oedd nid gwahaniaeth ieithyddol neu grefyddol, ond yr ymddieithrio a oedd yn rhan annatod o gyfundrefn dosbarth haearnidd y Gymru wledig (Moore-Colyer, 1999, p. 99).

wilderness...” (Thompson, 1991, pp. 400, 417). Mae Hempton yn nodi mai dyna’r union fath o amgylchiadau oedd wedi hybu ffyniant Methodistiaeth. Roedd y grefydd, meddai, yn cynnig “an attractive combination of individual assurance and corporate responsibility for those experiencing the fearful exhilaration of rapid social change...” Aiff yn ei flaen i nodi bod modd cymharu llwyddiant Methodistiaeth yn yr Unol Daleithiau â Chymru, “where evangelical Nonconformity flourished in the expanding crevices of an industrial frontier society...” (Hempton, 1996, p. 16). Yn yr holltau hynny lle’r oedd pobl wedi syrthio y tu hwnt i afael y weinyddiaeth ganolog y gwreiddiodd egin-sefydliadau a fyddai yn y pen draw yn blodeuo yn ysgolion, yn brifysgolion, ac yn llyfrgell genedlaethol.

O gadw damcaniaeth Roeder mewn cof, credaf fod dadansoddiad rhai haneswyr o ymdrechion yr Ymneilltuwyr yn anghywir. Er enghraifft, dywed Tecwyn Lloyd:

... er y gellir dal fod llawer o ddilynwyr Rhyddfrydol Cymru Fydd eisiau bod yn Gymry, nid oedd eu dewis o faterion a ystyrient hwy yn rhai nodweddiadol o genedl yn ddewis cywir ... ystyriaethau materol a oedd yn brigo i’r golwg ... ennill gwell safle a mantais yn y byd oedd yn cyfiawnhau ymgyrchu drostynt. Nid un o nodweddion sylfaenol cenedl yw sefydlu ysgolion a cholegau; nid mater cenedlaethol, *per se* yw datgysylltu eglwys oddi wrth y wladwriaeth... (Lloyd, 1989, pp. 132-133)

Ond gwelwn fod Cymru erbyn dechrau’r Rhyfel Byd Cyntaf, o feddu ar sefydliadau o’r fath, mewn safle llawer mwy ffafriol i ennill rhagor o ymreolaeth nag yr oeddynt ar ddechrau’r 19eg ganrif. Oblegid fe esgorodd y mân sefydliadau hyn ar sefydliadau eraill. Deilliai hyn yn rhannol o’r modd yr oedd yr Ymneilltuwyr yn hybu hunan-hyder y Gymry. Dangoswyd iddynt fod

modd iddynt herio awdurdod a bod yn hunan-gynhaliol. Er mai cymhelliad crefyddol yn unig oedd y tu cefn iddynt ar y dechrau, daethant mewn amser i ganolbwyntio ar faterion gwleidyddol oherwydd teimlent y gallent gynnal eu sefydliadau llwyddiannus eu hunain heb gymorth y llywodraeth wladol:

There was thus a widespread belief that the people had achieved great things where it most mattered, without government direction or assistance, indeed often, as in the quite recent past, in the teeth of government and ruling-class opposition. This in turn helped to raise their self-confidence while at the same time alerting them to the other cultural possibilities of their achievement. (I.G. Jones, 1992, p. 131)

Ychwanega Ieuan Gwynedd Jones mai sgil-effaith arall y sefydliadau hynny oedd esgor ar yr ‘elît’ Ymneilltuol-Ryddfrydol a chwaraeai ran gynyddol bwysig yng ngweinyddiaeth y wlad wrth i’r ganrif fynd rhagddi: “It developed because they were already running their own establishments, which were independent of any establishments run by the upper class. The chapels were huge establishments...” (Jones & Roberts, n.d., p. 2). Dywed R. Tudur Jones mai un o nodweddion Oes Fictoria oedd “trymhau’r iau biwrocraidd a chanolog” a “lluosogi sefydliadau o bob math... Ac adlewyrchai’r eglwysi ffasiwn yr oes” (Jones, 1981, p. 53). Ond o dderbyn damcaniaeth Roeder, gwelir hefyd fod y cyd-dyrru hwn yn rhan annatod o’r broses o greu cenedl-wladwriaeth Gymreig. Yr hyn sydd gan ddadansoddiad Chatterjee ac Roeder yn gyffredin yw eu bod yn gweld cenedlaetholdeb fel rhywbeth sy’n deillio o sefydliadau sy’n ceisio ymestyn eu grym drwy ddulliau gwleidyddol, yn hytrach na bod cenedlaetholdeb yn rhywbeth sy’n dechrau fel prosiect gwleidyddol sydd yn ddiweddarach yn esgor ar sefydliadau. Dywed Chatterjee: “I think that, as history, nationalism’s autobiography is fundamentally flawed. By my reading, anti-colonial nationalism creates its own domain of sovereignty within

colonial society well before it begins its political battle...” (Chatterjee, 1996, p. 217) Yn absenoldeb sefydliadau o’r fath, nid oedd cyfrwng i’r dosbarth deallusol ymysg y Cymry feithrin cenedlaetholdeb er mwyn tyfu eu grym a’u dylanwad eu hunain.

Nid oes modd gwadu mai cyfrwng amherffaith oedd y sefydliadau hyn ar gyfer trafodaeth genedlaethol o’r fath. Er bod ganddynt nod yn gyffredin, roedd yr eglwysi yn sefydliadau bychan a niferus, ac roedd prif ganolfanau daearyddol yr enwadau wedi eu gwasgaru yma ac acw ar hyd y wlad. O ganlyniad, meddai John Davies, “roedd yn anodd i unrhyw enwad Anghydfurfiol feddwl yn nhermau buddiannau’r genedl yn eu crynswth” (Davies, 2007a, p. 390). Roeddynt hefyd yn eithriadol o niferus - erbyn 1905 roedd 30 o enwadau gwahanol yn bodoli yng Nghymru (R.T. Jones, 1981, p. 31), a chymaint o gapeli wedi eu codi ganddynt fel yr awgrymodd Gwyn A Williams y gellid bod wedi cynnwys poblogaeth gyfan Cymru ar eu heisteddleoedd (Williams, 1985, p. 207). Nid ar chwarae bach y condemniodd Saunders Lewis Cymry’r 19eg ganrif fel “sect-ridden race” (Lewis, 1926, p. 3). Gallai’r gystadleuaeth rhyngddynt hefyd ymylu ar ymffrostio a chasineb.<sup>180</sup> Nid yw’n syndod felly fod y cenedlaetholdeb newydd a ddaeth i’r amlwg tua diwedd y ganrif yn tueddu i fod yn wrthwynebus i gecru enwadol. E.e. cofnodir y sgwrs hon yn y *Goleuad* yn 1889:

Dywedodd cyfaill o Gymro twymgalon wrthym yn ddiweddar, mewn ymddiddan am enwadaeth Cymru: ‘Melldith fwyaf ein gwlad ar hyn o bryd yw ei sel enwadol; ac nid oes ar brogram dyfodol Cymru *item* bwysicach i’w chario allan na chwbl

---

<sup>180</sup> Broliodd cylchgrawn y Bedyddwyr, y *Greal*, am ddinas Caerdydd: “Nid oes un enwad yn y dref yn agos i ni mewn grym a dylanwad” meddai, cyn pwysleisio eu cryfder yn Llanelli, Abertawe, Casnewydd, a Chaerfyrddin yn ogystal (1903, p. 168). Ceir adroddiad yn y *Dydd* yn 1884 fod mam a oedd yn Annibynwraig wedi gwahodd gweinidog o’i henwad ei hun i weinidogaethu yn angladd ei bachgen. Cynhaliwyd yr angladd yn un o gapeli’r Bedyddwyr, lle’r oedd y tad yn aelod. Pan sylweddolodd un o weinidogion y Bedyddwyr fod y gweinidog yn perthyn i enwad arall, caeodd ddrysau’r capel i’r angladd a bu’n rhaid cynnal y gwasanaeth yn y tŷ, heb fynd i’r capel o gwbl (1884, p. 2).

ddi-ddymiad y sel dallbleidiol honno.’ ... Ni raid dweyd wrth neb ddarlenna y frawddeg uchod fod ein cyfaill... yn perthyn i *inner circle* Cymdeithas Cymru Fydd. (*Y Goleuad*, 1889, p. 8)

Dadleuai Thomas Gee fod angen undeb ymysg yr Ymneilltuwyr os oeddynt am sicrhau eu bod yn gweithio er budd Cymru yn ei gyfanrwydd. Dyfynnir ef yng nghofiant T. Gwynn Jones yn galw am gefnu ar y rhwygiadau enwadol rhyngddynt: “Er mwyn popeth, gadawer i ni eu claddu oll, ac am byth; oblegid os na fedrwn, ni chodwn byth i'r tir uchel y dylai cenedl o Ymneilltuwyr fel y Cymry ei feddu. . . . y mae'n rhaid i ni gladdu ein teimladau cenfigenllyd; ac y mae'n rhaid i bob enwad fel ei gilydd gytuno i'w claddu, a hynny gyda'r brys mwyaf”<sup>181</sup> (Jones, 1913, p. 326). Awgrymai D. Ambrose Jones fod gwrthwynebiad i'r Eglwys Sefydledig wedi tynnu'r Ymneilltuwyr at ei gilydd, ond unwaith yr enillid y frwydr honno y byddent yn mynd ar chwâl unwaith eto:

Cyduna y gwahanol enwadau, am foment, ar y llwyfan gyhoeddus, i waeddi am ddadymchweiliad yr Eglwys, ond syrthiant allan yn union drachefn wrth feddwl am y modd y dylid rhanu'r ysbail. Mor fuan ag y daw datgysylltiad yr Eglwys Frythonaidd oddiamgylch, ac y dechreuir ail-ddodrefnu y ty, bydd y Methodistiaid a'r Anibynwyr ar unwaith ar yddfau eu gilydd mewn gornest ofnadwy ar enill y flaenoriaeth...

Roedd eu hawydd i reoli i'w weld ym mhob cwr o fywyd cyhoeddus Cymru, meddai, o fyrddau ysgol i gynghorau sir (Jones, 1893, p. 188). Cwynai un gohebydd ar ddiwedd y ganrif fod

---

<sup>181</sup> Gresynai Llawdden (David Howell) yn y *Geninen* yn 1893 at yr anoddefgarwch a'r ensyniadau a welwyd yn y cyfnodolion enwadol, gan ddweud eu bod yn ddigon i wneud iddo grynu wrth feddwl am ddyfodol y wlad. “Drachefn a thrachefn cyfyd yr ymofyniad yn fy meddwl – Oni chaiff cenedl y Cymry byth dir cyffredin o gydymdeimlad ac o barch i'w gilydd i sefyll arno?” (Llawdden, 1893, p. 78)

“seddau ein cyngorau yn cael eu rhifo yn ôl yr enwad...” Canlyniad hynny, meddai, oedd y “malais a’r cenfigenu tragwyddol sy’n anurddo’r cymeriad cenedlaethol”<sup>182</sup> (‘Y Gwir yn Erbyn y Byd’, 1898, pp. 227-8, 231). Os oedd yr ymgystadlu am ddylanwad rhwng yr Ymneilltuwyr ac Eglwyswyr yn fodd o hybu cenedlaetholdeb, gellid dadlau bod y cecru enwadol hwn wedi ei lesteirio.

### *Sefydliadau cenedlaethol yr Ymneilltuwyr*

Er gwaethaf y gwendidau hyn, sgil-effaith ymdrechion yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol i gryfhau eu grym eu hunain tra’n gwanhau gafael yr Eglwys Wladol oedd i Gymru gychwyn ei thaith ar y llwybr i fod yn genedl segmentedig yn ôl diffiniad Roeder, a drwy hynny ddatblygiad cenedlaetholdeb ieithyddol. Cydnabuwyd bod Cymru yn genedl ar wahân am y tro cyntaf gyda’r *Ddeddf Cau ar y Sul (Cymru)* yn 1881 (Thomas, 1999, p. 92), ac fe welodd y *Ddeddf Llywodraeth Leol* ddisodli’r meistri tir ceidwadol oedd wedi rheoli cefn gwlad Cymru gyhyd, a gosod cyngorau sir wedi eu rheoli gan Ymneilltuwyr etholedig yn eu lle. Ond awgryma Kenneth O. Morgan mai creu Prifysgol Cymru yn 1893 oedd penllanw ymdrechion cenedlaetholgar Ymneilltuwyr Rhyddfrydol y cyfnod: “... the supreme achievement of nineteenth-century national consciousness, one in which the whole population shared” (Morgan, 1995, pp. 203-4). Symbylwyd y frwydr hon gan ymdrech i wrthwynebu dylanwad yr Eglwys Wladol, a oedd eisoes wedi sefydlu Coleg Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan yn yr 1820au (Williams, 1985, p. 203). Brwydrodd Thomas Gee yn frwd o blaid sefydlu prifysgol yn Aberystwyth, a sicrhau parhad nawdd y llywodraeth iddi, ond gwrthwynebai leoliad Prifysgol

---

<sup>182</sup> Defnyddiwyd dadleuon cenedlaetholgar a gyfeiriai’n ôl at fethiannau tybiedig y gorffennol er mwyn cefnogi’r ddadl dros gladdu’r ymdeimlad enwadol yn y presennol. Dadleuai Tafolog mai’r tueddiad hwn i wahanu oedd yn gyfrifol am iddynt gael eu darostwng gan y Saeson a’u hymnid o “wastadeddau breision Lloegr” yn y lle cyntaf: “Darllener ein hanes, a cheir mai dyma sydd wedi bod yn fagl ac yn rhwystr i ni o’r dechreuad”. O’i herwydd “siawns wan sydd i unrhyw fudiad cenedlaethol gyda ni” am nad oeddynt “wedi dysgu doethineb drwy brofiad canrifoedd”. Petaent yn fwy unol, ni fyddent yn genedl fechan ar gornel anghysbell o Ynys Prydain ond yn hytrach yn “gydradd â chenedloedd blaenaf cyfandir Ewrop” (Tafolog, 1883, p.104). Cytunodd hyd yn oed J.R. Kilsby Jones fod “ein hymraniadau diachos, disynwyr, a diddiwedd, wedi bron llwyr fwyta yr ychydig nerth a feddasem pe yn unedig a gwir wladgarawl” (Jones, 1883, p.21).



Bangor oherwydd ei bryder bod y dylanwad Eglwysig yn gryf yn y dref. O dderbyn bod lleoliad y brifysgol honno'n anochel, brwydrodd yr un mor galed er mwyn sicrhau mai Ymneilltuwyr fyddai yn y mwyafrif ar y corff llywodraethol<sup>183</sup> (I.W. Jones, 1998, pp. 105-9).

Mae Brooks, fel D. Tecwyn Lloyd, yn llym ei dafod wrth feirniadu'r "cenedlaetholdeb sifig, ffyniannus, di-iaith, hynod Brydeinig" hwn, gan ddadlau nad y bwriad oedd hybu cenedlaetholdeb ieithyddol, ond yn hytrach gymhathu'r Cymry o fewn cenedlaetholdeb Prydeinig (Brooks, 2015, p. 84). Credaf mai un o'r prif wahaniaethau rhwng fy nadansoddiad innau a Brooks o ddatblygiad cenedlaetholdeb, yw nad yw ef yn cydnabod sefydliadau fel modd o hybu cenedlaetholdeb ethnig. E.e. awgryma, wrth drafod gwleidyddiaeth gyfoes, fod cenedlaetholdeb sifig Cymreig a chenedlaetholdeb ethnig benben â'i gilydd; "as the old Welsh civic state withers away... Welsh ethnic identity returns in its place" (Brooks, 2016). Yn ôl fy nadansoddiad innau, sefydliadau sifig sydd yn atgyfnerthu cenedlaetholdeb ethnig – ond y wedd ar genedlaetholdeb ethnig sydd o fudd iddynt hwy. Does dim modd gwadu nad cenedlaetholdeb 'cyfranogol' a oedd wrth wraidd sefydlu'r prifysgolion – y nod oedd y byddai graddau o brifysgolion Cymru yn gymorth i fyfyrwyr gael mynediad i hen brifysgolion Lloegr, megis Rhydychen a Chaergrawnt (Williams, 1993, p. 192). Hwyluso mynediad Ymneilltuwyr Cymreig at y 'craidd metropolitaidd' oedd y nod cychwynnol, ac roedd y Cymry yn awyddus i dawelu ofnau'r Saeson y byddai'r prifysgolion yn hybu unrhyw fath o genedlaetholdeb ethnig Cymreig. Mynegai'r Aelod Seneddol Osborne Morgan ei anhapusrwydd ag awgrym i'r gwrthwyneb mewn erthygl olygyddol yn y *Times*: "That College [Aberystwyth] is not the

---

<sup>183</sup> Dengys yr achosion hyn unwaith eto pa mor hydwyth oedd rhyddfrydiaeth yr Ymneilltuwyr mewn gwirionedd. Defnyddiwyd dadleuon *laissez-faire* er mwyn gwarchod eu rheolaeth eu hunain dros addysg plant Cymru, ond roeddynt yn barod i dderbyn help llaw gan y wladwriaeth pan oedd o fudd i ymestyn eu dylanwad eu hunain. Fel yr awgryma Wallerstein, disodlir rhyddfrydiaeth gan geidwadaeth wrth i'r grŵp ffurfio eu monopoli eu hunain. Ond er gwaethaf eu hamcanion, yr hyn sydd o bwys wrth ddilyn hynt datblygiad cenedlaetholdeb yng Nghymru yw sgil-ffaith eu gweithredoedd; sef creu sefydliadau cenedlaethol a fyddai'n hollbwysig wrth atgynhyrchu cenedlaetholdeb Cymreig yn yr 20fed ganrif.

growth of any ‘antiquarian revival,’ nor is it designed to perpetuate, or even encourage, the Welsh language, but solely to afford the Welsh youth who, for any reason, is unable to obtain higher education at a distance... the educational advantages now enjoyed by most Englishmen...” (Morgan, 1871b, p. 10). Ond rhaid edrych y tu hwnt i’r hyn a fwriedid a thuag at y canlyniadau gwirioneddol. Bu’r sefydliadau hyn yn hollbwysig wrth hybu cenedlaetholdeb Cymreig, er gwaethaf protestiadau Morgan, a hynny am dri rheswm:

- 1.) Roedd union natur ‘cenedlaethol’ y sefydliadau yn ddigon o gymhelliad ynddo ei hun iddynt atgynhyrchu cenedlaetholdeb a bwysleisiai arwahanrwydd Cymru oddi wrth Loegr. Oblegid os nad oedd Cymru yn genedl ar wahân i Loegr, beth oedd y cyfiawnhad dros fodolaeth sefydliadau o’r fath, megis Prifysgol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, o gwbl?
- 2.) Byddai’r sefydliadau hyn hefyd yn dyrchafu to newydd o Gymru dosbarth canol a oedd â phob cymhelliad dros hawlio bod eu hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol arwahanol yn cyfiawnhau bodolaeth y sefydliadau hyn, ac - o ganlyniad - eu swyddi eu hunain.
- 3.) Yn ogystal, bu’r sefydliadau hynny eu hunain yn gyfrwng nid yn unig i ymchwilio a diogelu gwaddol hanesyddol y genedl, ond hefyd i’w hatgynhyrchu ar ffurf a oedd yn ffafriol i atgynhyrchu cenedlaetholdeb a drwy wneud hynny ddiogelu bodolaeth y sefydliadau eu hunain.<sup>184</sup> Nid yw’n syndod felly y gwelwyd tro ar fyd yn sgil creu Prifysgol Cymru, gyda chynnydd trawiadol mewn ymchwil i’r iaith Gymraeg a’i diwylliant. Dywed Gwynn J. Williams: “the University of Wales... at once included Welsh among subjects to be examined for its degrees. The number of students of Welsh

---

<sup>184</sup> Mae’n bur bosib y byddai hanes cenedlaetholdeb yng Nghymru wedi bod yn bur wahanol pe bai Owain Glyndŵr wedi llwyddo i sefydlu dwy Brifysgol, y naill yn y gogledd a’r llall yn y de, fel y bwriadodd yn 1406 (Williams, 1993, pp. 1-2).

increased dramatically in the three colleges and Welsh studies prospered...” (Williams, 1993, p. 197) O godi’r to hwn o academyddion yr oedd eu swyddi yn ddibynnol ar y cysyniad o Gymreictod, daeth cymhelliad i’w amddiffyn.

Dangoswyd eisoes nad oedd yr Ymneilltuwyr yn pryderu ryw lawer am yr iaith Gymraeg y tu hwnt i’w pherthynas ag Anghydfurfiaeth. Serch hynny, yn sgil edwino dylanwad crefydd yn negawdau olaf y 19eg ganrif a degawdau cyntaf yr 20fed daeth y sefydliadau hyn yn fagwrfa i genedlaetholdeb ieithyddol. Yn flaenorol, roedd sefydliadau o’r fath a reolid gan Ymneilltuwyr Rhyddfrydol wedi cynnig “status and a network of advancement for members of the minority ethnic group” yng Nghymru (Jobbins, 2011, p. 37). Ond yn dilyn cyfnod o seciwlareiddio, dadsefydlogi’r Eglwys Wladol a threchu’r tîrfeddianwyr, nid oedd yr hen hunaniaeth ethnogrefyddol bellach yn cyfiawnhau rheolaeth o’r fath. Dywed Gareth Miles fod carfan o’r dosbarth canol yng Nghymru wedi dod i sylwi y byddai cenedlaetholdeb ieithyddol yn fodd o ddadlau o blaid cynnal eu rheolaeth ar y sefydliadau hyn. Daethant i sylweddoli fod yr *“iaith yn ffon fara iddynt â’u defnyddioldeb a’u statws cymdeithasol yn llwyr ddibynnol ar ei pharhad...* Yr hyn a geisient oedd sefydliadau addysgol a diwylliannol Cymraeg y gallent hwy eu rheoli” (Miles, 1998, p. 69). Golygai bodolaeth y sefydliadau hyn fod modd i’r Cymro neu’r Gymraes, am y tro cyntaf ers canrifoedd, esgyn i swydd ymysg yr ‘elît’ a hynny heb fod angen diosg ei iaith a’i ddiwylliant ei hun. Yn wir, gellid troi’r iaith yn fantais iddynt. Awgryma Dan Isaac Davies yn 1886 fod y rhod wedi troi o blaid y Gymraeg yn sgil penodi darlithydd yn y Gymraeg i’r Brifysgol yng Nghaerdydd. Am y tro cyntaf, sylweddolwyd y gallai’r iaith fod o gymorth ariannol i’r Cymry gael swyddi o fewn y sefydliadau hyn: “Gwelsant gyda mwynhâd fod yn bosib i fachgen o Gymro, neu ferch o Gymraes, i gael marciau am y Gymraeg yn arholiadau’r Coleg; ac yn y modd hyn, gael help i ennill arian am hyn a hyn o flynyddau, i’w

cynnorthwyo i dalu eu treuliau tra yn y Coleg”<sup>185</sup> (Davies, 1886, p. 7). Noda Prys Morgan fel y saerniwyd rhesymeg fewnol y cenedlaetholdeb ieithyddol a ddaeth yn fwyfwy amlwg wrth i’r 20fed ganrif fynd rhagddi gan ymdrechion i ddiogelu Prifysgol Cymru rhag mewnlifiad staff a myfyrwyr o’r tu allan i Gymru: “the rapid Anglicization of the colleges in this period prompted a frantic manning of the defences of Welshness, which in turn can be seen as one of the preparatory stages for the rise of Welshness in the Labour movement and for the rise of nationalism... which had its major breakthrough in 1966” (Morgan, 1997, pp. 86-7). Mae hyn yn awgrymu bod gwirionedd i honiad Roeder mai man cychwyn cenedlaetholdeb yw cydsafiad o fewn sefydliadau sydd am amddiffyn budd eu haelodau eu hunain (Roeder, 2007, p. 27).

Mae sawl academydd eisoes wedi pwysleisio pwysigrwydd prifysgolion, yn benodol, wrth hybu twf cenedlaetholdeb. Fel y nodwyd eisoes, yn absenoldeb crefftwyr neu fasnachwyr, dywed Hroch mai tyndra rhwng graddedigion prifysgolion y grŵp ethnig lleiafrifol ac elît caeedig y grŵp ethnig mwyafrifol oedd yn fwyaf tebygol o esgor ar ddatblygiad mudiad cenedlaethol (Hroch, 1993, pp. 11-2). Mae Eric Hobsbawm hefyd yn nodi bod prifysgolion yn greiddiol i ddatblygiad cenedlaetholdeb yn Ewrop yn y 19eg ganrif. Dim ond 48,000 o fyfyrwyr oedd ym Mhrifysgolion Ewrop yn 1884 ond roeddynt wedi chwarae rhan ganolog yn chwyldroadau’r flwyddyn honno (Hobsbawm, 1964, p. 166). Dadleua Anderson hefyd fod gan brifysgolion swyddogaeth hollbwysig wrth gynhyrchu’r math o destun argraffedig sy’n rhoi bri ar ieithoedd lleiafrifol. Roedd y geiriaduron dwyieithog a grëwydluniwyd yn y prifysgolion yn enwedig wedi hybu’r ymdeimlad bod ieithoedd printiedig yn gyfartal: “whatever the political realities outside, within the covers of the CzechGerman/German-Czech dictionary the paired languages had a common status” (Anderson, 1991, p. 71). Nid yw’n syndod efallai fod

---

<sup>185</sup> Gwelai’r angen am sefydliadau cryfach yng Nghaerdydd hefyd, er mwyn tynnu’r Cymry yno ynghyd. Yn eu habsenoldeb, “Rhaff o dywod, mewn rhai ystyriaethau, ydyw Cymry Caerdydd. Y maent yn lliosog o ran nifer, ac yn ddylanwadol yn fynych fel personau unigol; ond nid ydynt, fel corph o bobl, yn meddu dylanwad cyfatebol i’w rhif a’u pwys personol” (Davies, 1886, p. 7).

Brooks yn nodi yn ei daith yntau drwy gamau Hechter fod cam A yn dechrau'n syth ar ôl sefydlu'r prifysgolion yng Nghymru, ac mai John Morris-Jones a Saunders Lewis, dau ddarlithydd prifysgol, a symbylodd y gweithgarwch cychwynnol (Brooks, 2010, p. 24). Noda Roeder y swyddogaeth bwysig sydd gan sefydliadau megis llyfrgelloedd cenedlaethol a phrifysgolion mewn ail-ddadansoddi cenedlaetholdebau mewn modd sydd o fudd i'r genedl-wladwriaeth neu'r genedl segmentedig y maent yn rhan ohoni. Dywed fod sefydliadau cenedl-wladwriaethau yn tueddu i gadw a dyrchafu dogfennau sy'n cynnwys naratif sy'n awgrymu bod creu'r wladwriaeth honno yn anochel, tra maent yn anwybyddu tystiolaeth allai awgrymu'r gwrthwyneb (Roeder, 2007, p. 30).

Pwysleisid pwysigrwydd y sefydliadau hyn gan fethiant y Cymry i atgynhyrchu naratif cenedlaethol y tu hwnt i un ethnogrefyddol y dyneiddwyr. Cyn sefydlu prifysgolion, amgueddfeydd a sefydliadau cenedlaetholdeb tebyg ni lwyddwyd i gadw gafael ar y gwaddol diwylliannol a fyddai yn sail i 'ethne' a allai fod yn ddeunydd crai i genedlaetholdeb seciwlar. Roedd diffyg balchder y Cymry yn iaith a diwylliant seciwlar eu cenedl, meddai O.M. Edwards, yn "codi o'r ffaith nad oedd yr un blaid yn deall hanes Cymru Fu." Dywed Saunders Lewis yn yr un modd bod "cenedlaetholdeb politicaidd yn rhagdybio cenedl sy'n cofio, sy'n ei chofio ei hunan yn genedl, a'i chof hi'n rym cymdeithasol a pholiticalidd. Yn ail ran y bedwaredd ganrif ar bymtheg nid oedd gan Gymru gof o'r math hwnnw. A siarad yn fras, a chan eithrio ysgolheigion Rhydychen ac ychydig o rai eraill, nid oedd rhyddfrydwyr Cymru Fydd nac yn gwybod nac yn deall hanes Cymru Fu."<sup>186</sup> Nid mater o gefnu ar ryddfrydiaeth a chofleidio ceidwadaeth oedd hyn – roedd O.M. Edwards (a'i athro Michael D. Jones) yn

---

<sup>186</sup> Mae'r dyfyniadau yma oll i'w cael yn erthygl Alun Davies yn *Efrydiau Athronyddol* 1964 (Davies, 1964, pp. 19-20). Dywed O.M. Edwards yn *Hanes Cymru* am ei gyfnod yn ddisgybl i Michael D. Jones: "Cefais yn ei gwmmi beth na chefais yn yr un ysgol nac yn yr un Coleg y bûm ynddynt erioed – serch goleuedig at hanes ac iaith Cymru, a chred ddiysgog yn y gallu grymus sydd wedi cael yr enw 'cenedlaethol' wedi hynny... Bu am flynyddoedd yn ceisio fy nysgu i ysgrifenu hanes Cymru o safbwynt Cymro."

rhyddfrydwyr – ond sicrhau bod gwybodaeth a fu'n guddiedig gyhyd bellach yn hygyrch iddynt. Trafodwyd yn y bennod gyntaf ddamcaniaeth J.R. Jones am genedlaetholdeb, a'r pwys a roddai ef ar sefydliadau wrth atgoffa'r Cymry o'u safle ar y "Trac oesol mewn amser": "nid oes gennym sefydliadau gwladol gwahaniaethol i gyfryngu ein hanes yn symbolaidd i ni" (Jones, 1961, pp. 11, 15). Cyfaddefa nad yw ef ei hun erioed wedi dysgu hanes y genedl, gan awgrymu bod sefydliadau a fyddai wedi bod yn gyfryngau'r hanes hwnnw yn parhau yn brin.

Mae cip ar y modd y collwyd llawer o dreftadaeth y genedl o ganlyniad i ddiffyg sefydliadau a fyddai wedi ei diogelu, yn cadarnhau tybiaeth J.R. Jones, Saunders Lewis, O., M Edwards ac eraill ynglyn â natur annelwig 'Cymru Fu' – yn benodol felly yn yr oesoedd canol.<sup>187</sup> Ystyrid bellach bod Cymru yn yr oesoedd canol yn ganolfan weddol gynhyrchiol o ran llawysgrifau, a hynny oherwydd y rhwydwaith o fynachlogydd a geid yno. Ond ychydig iawn o'r hyn a fodolai cyn ail hanner yr 13eg ganrif sydd, hyd heddiw, wedi dod i glawr<sup>188</sup> - dim ond tua 160 o lyfrau

---

<sup>187</sup> Yn ôl yr academydd M.T. Clanchy, mae'r cyfnod "ffurfiannol" hwn wedi derbyn llai o sylw gan haneswyr sydd wedi astudio'r newid o gymdeithas anlythrennog i'r oes fodern lle y mae'r mwyafrif yn gallu ysgrifennu a darllen, er ei fod yr un mor bwysig (Clanchy, 1979, p. 1). Mae cyfnod goruchafiaeth y llawysgrif ddwywaith hyd cyfnod yr argraffwasg (Huws, 1997, p. 30).

<sup>188</sup> Mae'n debygol bod y llyfrau cyntaf wedi cyrraedd Prydain yn ystod teyrnasiad yr Ymerodraeth Rufeinig. Yng nghanrifoedd agoriadol y mileniwm cyntaf OC cafodd y rhodyn papur - ffefryn yr Ymerodraeth Rufeinig - ei ddisodli'n araf bach gan y llyfr, neu 'godecs', a oedd wedi ei wneud o femrwn o groen anifail yn hytrach na phapyrws brau fel nad oedd yn mynd ar chwâl wrth droi'r tudalennau (de Hamel, 1994, p. 9). Y Cristnogion oedd y cyntaf i fabwysiadu'r Codecs (Huws, 1997, p. 3). Roedd y Beibl wedi ei ysgrifennu ar ffurf llyfr ers dyddiau cynnar y grefydd Gristnogol, yn ôl pob tebyg yn fwriadol er mwyn gwahaniaethu rhwng eu hefengyl sanctaidd nhw a rhai'r Iddewon a'r paganiaid oedd yn ffafrio rhoiau (Clanchy, 1979, p. 109). "Etifeddodd" y Cymry'r ddawn ysgrifenedig gan y Rhufeiniaid (Pryce, 1998, p. 2), a geisiodd orchfygu'r wlad rhwng y ganrif 1af a'r 5ed (Davies, 2007a, pp. 24-40). Ar ddechrau'r goresgyniad, papyrws oedd y cyfrwng ysgrifenedig, ac wrth gwrs Lladin oedd yr unig iaith ysgrifenedig (Huws, 1997, p. 3). Roedd y llyfr yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun eglwysig yn bennaf yn y dyddiau cynnar ond dros amser datblygodd yn gyfrwng i gofnodi ystod ehangach o destunau gwahanol, gan gynnwys rhai llenyddol a gweinyddol, mewn ieithoedd brodorol yn ogystal â Lladin. Nid yw'n amlwg faint o ysgrifennu mewn llyfrau oedd yn digwydd yng Nghymru yn y cyfnod cynnar ar ôl ymadawiad y Rhufeiniaid. Serch hynny mae "natur hynafol" rhai cofnodion sydd wedi goroesi mewn llawysgrifau o'r 9fed a'r 10fed ganrif yn awgrymu'n gryf eu bod nhw wedi eu copïo o lyfrau cynharach o'r 5ed a'r 6ed ganrif. Yr awgrym yw bod ysgrifennu wedi parhau yn y cyfnod hwnnw, mewn cyd-destun eglwysig, ond bod y ffynonellau gwreiddiol wedi eu colli (Pryce, 1998, pp. 1, 4). Mae'r Gymraeg ysgrifenedig gynharaf, cyn 1250, i'w gweld yn bennaf yn nodiadau mynachod ar ymylon tudalennau tuag un ar bymtheg o lyfrau Lladin, sef prif iaith y mynachlogydd yn y cyfnod hwnnw. Mae cynnwys y nodiadau yn amrywio; rhai yn esbonio geiriau Lladin anodd yn y testun, neu yn manteisio ar y gofod i draethu ar bynciau sydd heb unrhyw gysylltiad â phwnc y llyfr. Mae'r cynharaf o'r nodiadau hyn yn disgyn i'r ail gategori. Mae i'w weld ar un o dudalennau codecs sy'n dwyn amryw o enwau, Llyfr Sant Chad, Efengylau Caerlwythgoed neu Lyfr Teilo. Fel y mae'r enw olaf yn awgrymu roedd y llyfr, sy'n dyddio o hanner cyntaf yr 8fed ganrif, yn cael ei gadw am gyfnod yn Eglwys Llandeilo. Cafodd y nodyn Cymraeg cyntaf, sy'n cael ei adnabod yn ôl y gair Lladin dechreuol 'Surexit', ei ychwanegu yn y gofod ar ymyl

sydd wedi goroesi o'r oesoedd canol, "cyfran fechan, yn sicr, o'r nifer a fodolai ar un adeg..."<sup>189</sup> meddai Daniel Huws, sy'n beio diflaniad llyfrau yng Nghymru ar y "difrod a wnaed i dai crefydd trwy ryfel a gwrthryfel" a diddymu'r clasau Celtaidd dan ddylanwad y Normaniaid (Huws, 1997, pp. 5-6, 7-9). Cefnogir y ddamcaniaeth hon gan y ffaith fod nifer o'r llyfrau o Gymru sydd yn bodoli hyd heddiw wedi goroesi mewn llyfrgelloedd yn Lloegr yn hytrach nag yn eu tarddle yng Nghymru.<sup>190</sup> Er nad oedd Cymru byth yn brin o fynachlogydd,

---

un o'r tudalennau tua'r flwyddyn 800 (Huws, 1997, pp. 5-6). Mae'r cofnod ei hun yn adrodd am anghydfod dros ddarn o dir rhwng y tîrfeiddianwyr Tudfwlch ap Llywyd ac Elgu ap Gelli<sup>188</sup> (Beverley Smith, 1997, p. 15). Dyma hefyd yr unig lyfr cynnar sy'n cynnwys rhannau o'r efengylau i oroesi o Gymru<sup>188</sup> (Sims-Williams, 1998, p. 25). Mae'r enghraifft gynharaf o'r Gymraeg ar ôl Llyfr Sant Chad hefyd wedi ei hysgrifennu ar ymyl tudalen mewn llyfr Lladin. Deuddeg o englynion yn llawysgrif Juvencus o Gaergrawnt yw'r rhain, a'r gred yw eu bod wedi eu cofnodi yn ystod hanner cyntaf y 10fed ganrif (Pryce, 1998, p. 6). Dyma'r dystiolaeth gynharaf sy'n bodoli o farddoniaeth Gymraeg grefyddol a seciwlar (Sims-Williams, 1998, p. 31). Un o'r llyfrau pwysicaf wrth ddilyn hynt y Gymraeg ysgrifenedig yn y canrifoedd ar ôl Llyfr Sant Chad, yw Llyfr Llandaf sy'n dyddio o tua chanol y 12fed ganrif. Mae sawl darn Cymraeg ynddo ac mae un ddogfen, Braint Teilo, yn Gymraeg drwyddi draw (Huws, 1997, pp. 4-5). Mae'r darn hwn yn ymwneud â breintiau hynafol yr Esgobaeth, a'r gred yw ei fod wedi ei ysgrifennu rhwng tua 950 a 1090 (Davies, 2003). Fel arall, ychydig iawn o gofnodion ysgrifenedig sydd wedi goroesi rhwng diwedd y cyfnod Rhufeinig a'r llyfrau cyntaf i ymddangos yng Nghymru, sy'n dyddio o'r 9fed a'r 10fed ganrif. Gellid dyfalu bod ymylon llyfrau wedi bod yn gyfrwng i gofnodi nodiadau yn yr iaith nad oedd yn ddigon pwysig i gael ei chynnwys yn y prif destun Lladin, a bod hynny wedi rhoi cyfle i'r iaith ddatblygu ar ffurf ysgrifenedig. Roedd hwylustod llyfrau, o'i gymharu â sgröliau, hefyd wrth gwrs yn hwb i dwf llythrennedd a'r arfer o ysgrifennu yn ystod y cyfnod hwn. Byddai dysgu mynachod oedd yn siarad Cymraeg i ysgrifennu a darllen Lladin yn ei dro wedi hybu'r arfer o ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Serch hynny rhaid disgwyl can mlynedd arall cyn i'r llyfrau cwbl Gymraeg cyntaf gael eu cyhoeddi (Huws, 1997, p. 5).

<sup>189</sup> Mae Huw Pryce hefyd o'r farn mai dim ond lleiafrif bychan o'r llyfrau cafodd eu hysgrifennu yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol sydd wedi goroesi (Pryce, 1998, p. 2). Mae yna sawl damcaniaeth sy'n awgrymu mai canran fechan o'r llyfrau sy'n cynnwys y Gymraeg sydd wedi goroesi o'r cyfnod hwn. Y gyntaf, a'r fwyaf amlwg, yw'r ffaith mai ychydig iawn o lyfrau o'r Oesoedd Canol sydd wedi goroesi hyd heddiw yn gyffredinol. Ar y cyfan mae llyfrau yn wrthrychau hynod wydn, ac mae mwy wedi goroesi o'r Oesoedd Canol nag unrhyw greiriau eraill – er i'r mynachlogydd oedd yn gartref iddyn nhw droi'n adfeilion (de Hamel, 1994, p. 10). Ond gall llyfrau gael eu colli, eu difa mewn tân neu ddŵr, eu bwyta gan lygod (Clanchy, 1979, p. 114), ac maen nhw'n aml iawn yn disgyn yn ddarnau oherwydd diffyg gofal, neu yn cael eu hailddefnyddio.<sup>189</sup> Yng Nghymru cofnododd Syr Thomas Wiliems hanes llyfr Sant Beuno, a elwir 'Tiboeth', am ei fod wedi goroesi tri thán mewn eglwys, sy'n rhoi ryw awgrym i ni o'r heriau a wynebai llyfrau'r cyfnod. Er gwaethaf hynny does dim sôn am lyfr Sant Beuno heddiw (Sims-Williams, 1998, p. 22). Ffactor arall sy'n esbonio diflaniad llyfrau Cymraeg yr Oesoedd Canol yw'r newid o'r sgrïpt ynysol a oedd yn cael ei defnyddio yn y gwledydd Celtaidd, a Lloegr i ryw raddau, i'r sgrïpt Garolaidd. Digwyddodd y newid yn y 12fed ganrif o dan ddylanwad y Normaniaid (Huws, 1997, p. 17). Roedd llyfrau addurnedig oedd yn cynnwys yr efengylau yn fwy tebygol o gael eu cadw beth bynnag eu sgrïpt, ond roedd llyfrau iwtilitaraidd yn y sgrïpt ynysol yn yn debygol o fod wedi eu diystyru<sup>189</sup> (Sims-Williams, 1998, p. 22). Awgryma Patrick Sims-Williams fod y ddatblygiad ynglŷn â faint o lyfrau Cymraeg a oroesodd y cyfnod hwn wedi ei hystumio i raddau gan genedlaetholdeb; roedd tueddiad i bwysleisio maint neu fychander yr hyn a gollwyd yn seiliedig ar falchder cenedlaethol, a gallai rhamantwyr awgrymu mai llafar yn bennaf oedd treftadaeth y Cymry. Dywed Patrick Sims-Williams fod yn rhaid i unrhyw academydd ddarganfod man canol rhwng y "patriotic exaggerators and foreign belittlers" sydd dan ddylanwad "national or institutional rivalries" (Sims-Williams, 1998, pp. 15-6).

<sup>190</sup> Mae dau o'r esiamplau cynnar a grybwyllwyd yn y troednodiau uchod, Llyfr Sant Chad a llawysgrif Juvencus, wedi goroesi yng Nghaerlwythgoed a Chaergrawnt. Yn anffodus byddai llyfrau wedi cael eu trosglwyddo ar draws y ffin oherwydd y byddai gan fynachod Lloegr ddi-ddordeb yn eu cynnwys - ac felly byddai llyfrau Lladin yn llawer mwy tebygol o ddod o hyd i gartref dros Glawdd Offa na llyfrau Cymraeg. Mae'n werth cofio nad llyfrau Cymraeg yn unig a gollwyd yn dilyn y goresgyniad Normanaidd. Mae academyddion yn tybio bod nifer o ddogfennau yn yr Hen Saesneg hefyd wedi diflannu. Roedd yn well gan y Normaniaid lyfrau Lladin na llyfrau

roedd yn wlad gymharol dlawd ac yn brin o drefi a dinasoedd lle byddai marchnadoedd llyfrau ac ysgrifenyddwyr i'w cael (Huws, 1997, pp. 20-1). O ganlyniad gwelwyd cwmp cyffredinol yn safon llawysgrifau Cymraeg ar ôl 1350,<sup>191</sup> wrth i'r gwaith o ysgrifennu a chadw llyfrau a dogfennau symud o sgriptoriwm y mynachlogydd i weithleoedd ysgrifenyddwyr seciwlar (Smith, 1998, p. 212). Am mai'n araf yr ymsefydlodd yr argraffwasg yng Nghymru, ni throsglwyddwyd y deunydd hwn i brint. Roedd llawer o hanes Cymru wedi ei ysgrifennu ar femrwn<sup>192</sup> neu bapur tan ddiwedd y 18fed ganrif (Huws, 1997, p. 30). Roedd yr holl

---

yn yr ieithoedd brodorol (Clanchy, 1979, p. 15). Roedd pob un o'r llyfrau Lladin o Gymru sydd wedi goroesi o'r cyfnod hwnnw wedi gadael am Loegr rhwng y 10fed a'r 17eg ganrif, "and no doubt it was interest in their Latin, rather than their Welsh, contents which accounts for their survival" (Pryce, 1998, p. 6). Gwelir rhagor o dystiolaeth o fodolaeth llyfrau Cymraeg cyn 1250 drwy astudio'r iaith ei hun. Mae "gwallau a llygriadau" a welir mewn rhai llyfrau sydd wedi goroesi o'r 13eg a'r 14eg ganrif, yn awgrymu eu bod nhw wedi eu copio o lyfrau Cymraeg cynharach oedd yn defnyddio'r sgript Ynysol.<sup>190</sup> Erbyn i'r llyfrau Cymraeg cyflawn cyntaf ymddangos ynghanol y 13eg ganrif, roedd y Gymraeg ysgrifenedig eisoes yn gyfrwng llenyddol datblygedig, "almost free of the colouring of local dialect" (Huws, 1997, p. 29). Mae datblygiad y Saesneg yn dilyn goresgyniad y Normaniaid o gymorth wrth ddadlau o blaid y ddamcaniaeth hon. Am nad oedd yn cael ei harddel yn iaith ysgrifenedig i'r un graddau dechreuodd y safon ddirywio ac adlewyrchu Saesneg llafar y cyfnod (Clanchy, 1979, p. 167). Mae'r ffaith nad oedd Cymraeg ysgrifenedig yn adlewyrchu amrywiaeth tafodieithol y wlad yn awgrymu i'r gwrthwyneb, sef ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml ar ei ffurf ysgrifenedig. Yn ôl Llinos Beverley Smith mae'r cyferbyniad rhwng datblygiad yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn ystod yr oesoedd canol yn awgrymu hynny'n gryf. Yr argraff a geir yw o iaith sydd wedi bod yn gyfrwng ysgrifenedig ers amser hir, nid un sy'n cael ei throsi o'r iaith llafar mewn modd arbrol:<sup>190</sup> "... yn sicr ddigon o'i chymharu â datblygiad yr iaith Saesneg yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg, nid amrywiadau tafodieithol yr iaith ysgrifenedig sy'n galw am bwyslais ond yn hytrach y ffaith fod y Gymraeg wedi ei safoni i'r fath raddau..." (Beverley Smith, 1997, p. 11). Yn ogystal â thystiolaeth ieithyddol mae gennym ni hefyd dystiolaeth llygaid-dystion sy'n awgrymu bodolaeth llyfrau Cymraeg yn ystod y cyfnod. Mae Gerallt Gymro yn y 12fed ganrif yn crybwyll yr 'hen' lyfrau achau Cymraeg oedd cael eu cadw gan y beirdd, yn ogystal â llyfr yn cynnwys proffwydoliaethau Myrddin (Huws, 1997, pp. 6, 29). Mae'r llyfr hwnnw, a welodd Gerallt Gymro yn Nefyn, hefyd wedi diflannu (Sims-Williams, 1998, p. 17). Mae'r Historia Brittonum o'r 9fed ganrif hefyd yn cyfeirio at feirdd Cymraeg wrth eu henwau, sy'n "haws ei ddeall os derbyniwn fod testunau ysgrifenedig o'u gwaith ar glawr yr adeg honno", gan fod y traddodiad llafar yn un dienw ar y cyfan (Huws, 1997, p. 6).

<sup>191</sup> Doedd safon llawysgrifau Cymraeg erioed mor uchel â hynny, yn enwedig wrth ei chymharu â safon llawysgrifau o Ffrainc yn ystod yr un cyfnod<sup>191</sup> (Morgan, 1998, p. 162). Ond mae safon y sgript a'r addurn yn gweld dirywiad pellach o Lyfr Coch Hergest ymlaen, ac yn sicr yn is na nifer o'r llyfrau Cymraeg a ysgrifennwyd rhwng 1250 a 1350: "The contrast in quality between vernacular books in Welsh and English, not remarkable before 1400, becomes an arresting one as the commercial production of vernacular books made rapid advances in England while Wales entered a lengthy depression after the devastating rising of Owain Glyndŵr. Book production in Wales between 1400 and 1550 appears to have become largely a do-it-yourself activity"<sup>191</sup> (Huws, 1998, pp. 31-2).

<sup>192</sup> Roedd y llawysgrif ei hun yn olynnydd i sawl dull arall o ysgrifennu sy'n dyddio o ddechrau cofnodion, gan gynnwys ysgrifennu mewn clai, ar garreg, neu ar gŵyr (de Hamel, 1994, p. 9). Yn wir, nid mewn llyfrau y ceir y cofnodion ysgrifenedig cyntaf yng Nghymru sy'n dyddio o'r cyfnod ôl-Rufeinig, ond ar gerrig - mae tua chant pedwar deg o gerrig yng Nghymru ag ysgrifennu arnynt yn dyddio o'r cyfnod rhwng y 5ed a chanol y 7fed ganrif. Mae'r rhan fwyaf mewn Lladin ond ar 35 ohonynt nhw, yn ne-orllewin Cymru yn bennaf, ceir ysgrifennu yng ngwyddor Ogam yr Hen Wyddeleg (Pryce, 1998, p. 3). Ychydig iawn o drafod sydd wedi bod ar y cerrig hyn mewn cyd-destun Celtaidd, yn ôl Patrick Sims-Williams, "apparently because of an unspoken assumption that they belong to a sub-Roman tradition as opposed to a native 'Celtic' and (almost by definition) oral culture". Ond fel y mae'n dweud mae'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r cerrig y tu allan i iseldiroedd y de-ddwyrain lle'r oedd gwareiddiad y Rhufeiniaid ar ei gryfaf yn awgrymu mai'r Celtaid oedd yn gyfrifol amdanynt (Sims-Williams,



lawysgrifau wedi eu cau mewn llyfrgelloedd preifat heb fod gan eu perchnogion Seisnig y gallu i'w darllen, ac roedd hanes y wlad wedi mynd yn angof yn sgil dirywiad y traddodiad barddol. Sgил-effaith colli llawysgrifau'r gorffennol, oedd llesteirio gwaith y Cymry hynny a oedd yn y 18fed ganrif, fel sawl cenedl Ewropeaidd arall, wrthi'n ymchwilio er mwyn darganfod sail hanesyddol i'w cenedl.<sup>193</sup>

Ond os oedd pen rhyddid i genedlaetholwyr ailddehongli ethne'r genedl fel y mynnent, fel yr awgryma rhai damcaniaethau modernaidd am genedlaetholdeb, pam roedd diffyg sefydliadau a fyddai wedi cynnal a chadw gwaddol diwylliannol y Cymry yn broblem o gwbl? Oni ellid creu gwaddol diwylliannol cenedlaetholdeb yn seiliedig ar yr ychydig a wyddent a ffugio'r gweddill? Dywed Prys Morgan mai dyna ddigwyddodd, ond bod y 'ffug fytholeg' a grëwyd gan Iolo Morganwg ac eraill wedi troi'n bastwn arall i fwrw'r Cymry ag ef, a bod hynny'n rhannol gyfrifol am benderfyniad yr Ymneilltuwyr i gefnu ar 'Gymru Fu' a ffurfio cenedlaetholdeb yn seiliedig ar eu dadansoddiad ethnogrefyddol o hanes.<sup>194</sup> Dywed Morgan: "Welshness was rejected by a large number because it was associated with quaintness and a rather discredited mythology" (Morgan, 1983, p. 99). Dywed Matthew Arnold fod parodrwydd ymysg haneswyr ei gyfnod i wfftio'r cwbl o hynafiaeth y Celtiaid ar sail amheuaeth ynghylch dilysrwydd rhannau ohoni (Arnold, 1910, pp. 43-44). Mae'r amharodrwydd hwn i dderbyn

---

1998, p. 18). Un gred yw bod ysgrifennu ar gerrig yn ymgais gan y Celtiaid i ddynewared, a gwisgo mantell awdurdodol, y Rhufeiniaid ar ôl iddynt adael (Pryce, 1998, p. 4).

<sup>193</sup> Roedd diffyg hygyrchedd hanes Cymru yn bryder amlwg iddynt. Yn ei lyfr *Some Specimens of the Poetry of the Antient Welsh Bards* mae Ieuan Fardd (Evan Evans) yn cyfleu ei benderfyniad i achub gwaith y beirdd "out of that state of obscurity, in which they have hitherto been buried, and in which they run great risque of mouldering away." Mae'n cyfeirio at ddarn o hanes dyfeisiedig, sef penderfyniad Edward I i lofruddio'r beirdd a dinistrio eu gwaith, wrth esbonio pam nad oeddynt wedi goroesi (Evans, 1764, pp. iii-iv). Dywed Edward Said yn ei lyfr *Culture and Imperialism* fod dyfeisio traddodiadau rhamantus, ffantastig a ffuglennol yn dueddiad sydd i'w weld ymysg cenhedloedd sy'n brwydro am annibyniaeth ledled y byd, o'r Celtiaid, i India, i'r Dwyrain Canol: "[It] gives the nationalist struggle something to revive and admire" (Said, 1994, p. 16).

<sup>194</sup> Noda D. Tecwyn Lloyd yntau sut yr oedd y Cymry wedi "[ ]dod yn bur agos at golli golwg yn llwyr ar eu priod genedligrwydd eu hunain a mabwysiadu un Israelaidd a oedd wedi darhod i bob pwrpas ymhell cyn cwmpw Rhufain. Mae'n ffenomen ddiwylliannol od." Nid oeddynt yn gwybod enwau Llywelyn, Glyndŵr a Hywel Dda, ond roedd Solomon, Dafydd a Saul yn "arwyr dirprwyol eu cenedl" (Lloyd, 1980, p. 15).

hanes Cymru i'w weld yn ysgrifau'r cyfnod, e.e: "Yr oedd braidd yn amhosib, hyd yn ddiweddar, i ddyn cyffredin gyrhaedd gwybodaeth gywir o'n hanes, gan nifer y chwedlau anhygoel a adroddir gan ein haneswyr" (Dewi Mon, 1883, p. 84). Mae sefydliadau yn chwarae rôl deublyg wrth hybu cenedlaetholdeb, felly – yn ogystal â'i gynhyrchu a'i atgynhyrchu, mae eu hygredd wrth ddehongli'r gorffennol yn dibynnu i raddau helaeth ar hygredd y dystiolaeth.<sup>195</sup> Dim ond ar ddiwedd y 19eg ganrif y llwyddodd y Cymry i gymryd camau tuag at warchod eu treftadaeth eu hunain, gyda sefydlu'r Llyfrgell Genedlaethol a'r prifysgolion.<sup>196</sup> Mae geiriau John Rhys a David Brynmor-Jones, wrth olrhain y dadleuon o blaid Llyfrgell Genedlaethol yn yr 20fed ganrif, yn dangos eu bod nhw'n deall i'r dim swyddogaeth y sefydliadau hyn wrth hybu cenedlaetholdeb:

Their experience led the Commission to the conclusion that such an institution is not only desirable, but most essential for the preservation of the scattered productions of the unorganised publishing trade of Wales. For the historian no tract or broadsheet, ballad or penny almanac, is without its value. They all contribute to make up the record of a nation's life, they are all expressions of local thought, and without them the mosaic of a country's past cannot be pieced together. (Rhys & Brynmor-Jones, 1906, p. 535)

---

<sup>195</sup> Mae'n arwyddocaol yn hynny o beth na lwyddwyd i ddatrys yn union pa gerddi gan Iolo Morganwg oedd yn rhai ffug nes sefydlu Prifysgol Cymru ganrif yn ddiweddarach (Jenkins, 2012, p. 64).

<sup>196</sup> Wrth alw am sefydlu llyfrgell genedlaethol er mwyn diogelu llawysgrifau Cymraeg, dywed Thomas Rees eu bod nhw wedi eu gwasgaru "here and there throughout the country, and inaccessible to those who would wish to consult them for literary purposes. Hundreds of MSS. And old printed books, will in a short time be irrecoverably lost... How long will our nation, contenting itself with mere empty adulations of its great men in grandiloquent orations at the Eisteddfodau, leave the precious productions of their powerful and active minds, to rot in damp rooms or thrown into the fire as waste papers? Cartloads of valuable manuscripts and old books have thus been destroyed in Wales within the last fifty years." Galwodd ar i Gymry dylanwadol fynd i'r afael â'r dasg ar fyrder (Rees, 1867, pp. 49-50).

Ond yn ogystal â chynnig modd iddynt ailddarganfod eu gwaddol diwylliannol eu hunain, roedd prifysgolion yn cynnig modd iddynt fenthyg ysbrydoliaeth gan genhedloedd eraill. Fel y noda Okey, un o'r prif wahaniaethau rhwng y Cymry a chenhedloedd diwladwriaeth dwyrain Ewrop oedd bod gan yr olaf rwydwaith cyfathrebu rhwng sefydliadau addysgol a oedd yn ymestyn yn ôl i gyfnod yr Ymoleuo, ac o ganlyniad roeddynt yn meddu ar fyd-olwg llawer mwy rhyngwladol, a pharodrwydd i dderbyn dylanwadau ei gilydd. Cyn datblygu rhwydwaith o'r fath, nid oedd gan y Cymry yr arfau deallusol i ddadlau o blaid cadw'r Gymraeg yn fyw, yn hytrach na gwarchod yr etifeddiaeth lenyddol a chrefyddol oedd ynghlwm â'r iaith yn unig. Dim ond ar ôl sefydlu'r prifysgolion ar ddiwedd y 19eg ganrif y dechreuodd rhai awduron, megis O.M Edwards, synio am weledigaeth oedd yn "cwmpasu rhamantiaeth gyfandirol a naws ddemocrateiddiol yr oes" – ond yn rhy hwyr, yn nhyb Okey, i ddylanwadu ar hynt y mudiad cenedlaethol (Okey, 2000, pp. 613-4). O'u cymharu, dall ar y cyfan oedd y Cymry i frwydrau cenedloedd eraill ar y cyfandir, yn enwedig ynghylch y lle priodol i'w roi i'r famiaith lleiafrifol o fewn cyfundrefn addysg y wladwriaeth: "Edrychai Cymry'r cyfnod ar Ewrop drwy lygaid eu cymdogion Seisnig, sy'n esbonio eu difaterwch tuag at y cenedloedd niferus hynny ar y cyfandir a oedd yn debycach iddynt hwy o ran maint a phrofiad." Pan oeddynt yn sylwi ar ymgodymu ieithyddol y cyfandir o gwbl, tueddai awduron Cymraeg i bwysleisio'r mesurau o blaid yr ieithoedd mwyafrifol, heb sylweddoli bod y rheini yn ymateb gan y wladwriaeth i dwf a breintiau cynyddol ieithoedd lleiafrifol (Okey, 1991, p. 201). Noda John Davies fod yr Ymneilltuwyr wedi eu cau allan o'r prifysgolion, prif feithrinfa cenedlaetholdeb yn ystod y cyfnod, tan 1871, ac o ganlyniad nad oeddynt yn meddu ar y cyneddfau meddyliol i lunio eu hideoleg genedlaetholgar eu hunain. O ganlyniad, roedd eu harweinwyr deallusol wedi benthyg "eu gwerthoedd deallusol gan Anghydfurfwyr dosbarth-canol trefi mawrion Lloegr..." (Davies, 2007a, pp. 380-3). Diddorol yw nodi bod Brooks, er ei fod yn collfarnu ymdrechion yr Ymneilltuwyr i ganolbwyntio ar greu eu sefydliadau sifig eu hunain, yn cydnabod mai

drwy'r union fath hwnnw o sefydliadau (ac yn iaith y rheini a oedd yn ceisio eu cymhathu) y datblygwyd syniadau cenedlaetholgar yng nghanolbarth a dwyrain Ewrop. Dywed Brooks: "O'r Baltig i'r Adriatig, lledaenid syniadau'r *Aufklärung* yn eang, yn aml gan y prifysgolion Almaeneg a leolid yno. Bu Prifysgolion Fienna, a sefydliadau dysg eraill ym mhrifddinas Ymerodraeth Awstria, yn ffordd o'u cyflwyno i ddeallusion o blith lleiafrifoedd cenedlaethol a oedd wedi ymgartrefu yn y ddinas" (Brooks, 2015, p. 29). Er gwaethaf natur Seisnig prifysgolion Cymru yn eu dyddiau cynnar, roeddynt yn yr un modd yn gyfrwng i ehangu'r dylanwadau ar y Cymry y tu hwnt i destunau crefyddol eu brodyr Ymneilltuol y tu hwnt i'r ffin. Yn achos Cymru, o fewn y system addysg, gallai'r Cymry Cymraeg hyrwyddo dadansoddiad o hanes a rhoi'r pwyslais ar bwysigrwydd y Gymraeg fel nodwedd arwahanol.<sup>197</sup>

Tystiolaeth bellach o'r modd y mae sefydliadau cenedlaethol yn amlhau yw'r defnydd gan Ryddfrydwyr o fodolaeth system addysg a phrifysgol genedlaethol newydd er mwyn dadlau yn y Senedd y dylai Cymru feddu ar Amgueddfa Genedlaethol hefyd. Roedd sail ryddfrydol i'r ddadl hon (y byddai amgueddfa o'r fath yn fodd o wella addysg y bobl), ond dadleuwyd hefyd fod creiriau hanesyddol Cymru yn cael eu colli, ac nad oedd amgueddfeydd Prydeinig wedi gwneud digon i'w diogelu (Mason, 2007, pp. 117-8). Mae sawl academydd wedi nodi

---

<sup>197</sup> Ni ellir manylu yma ar bwysigrwydd sefydliadau addysgol eraill, megis ysgolion, wrth hybu cenedlaetholdeb ieithyddol. Dywed Bud B. Khleif fod ysgolion yng Nghymru yn chwarae rôl ganolog wrth sicrhau amcanion y tair agwedd sy'n eiddo i fudiadau cenedlaethol a esbonir gan Fishman. Yn ôl Fishman mae symudiadau cenedlaetholgar tuag at annibyniaeth fel arfer yn cynnwys tair agwedd: ymdrech i uno segmentau gwahanol o'r boblogaeth; dilysrwydd drwy roi'r pwyslais ar natur unigryw diwylliant neu ethnigrwydd y bobl; yn ogystal â safon byw uwch, drwy foderneiddio. Fel arfer, meddai, mae'r ymdrech i ddilysu a dod ag undod i'r genedl yn canolbwyntio ar adfer iaith sydd wedi bod dan y lach, ac hefyd ail-ysgrifennu a gwerthuso eu hanes fel bod y gorffennol yn cyd-fynd ag anghenion y presennol (Fishman, 1971, pp. 3-4). Dywed Khleif fod gan ysgolion Cymru rôl i'w chwarae, nid yn unig wrth hybu ieithoedd ond hefyd wrth ail-ysgrifennu a gwerthuso hanes y genedl. Dywed fod yr ysgol yn arf grymus yn nwylo yr elít, ond hefyd y gwrth-elít. Gall yr elít ei ddefnyddio er mwyn amddiffyn traddodiadau, atal newid, a chreu unffurfiaeth wleidyddol a diwylliannol ymysg pobl ifanc er mwyn sicrhau parhad y status quo. Yn nwylo'r gwrth-elít, ar y llaw arall, "the school becomes a vehicle for initiating change, for reviving a suppressed language, for amending history through newer interpretations of the national record, for creating new traditions." Wrth i'r gwrth-elít gymryd awenau'r sefydliad daw'r ysgolion unwaith eto yn fodd o sicrhau parhad y drefn bresennol (Khleif, 1976, p. 178). Roedd O.M. Edwards yn ogystal yn cydnabod maint ei ddyled i'r Ysgolion Sul wrth ffurfio ei fyd-olwg genedlaetholgar (R.O. Jones, 1997, p. 287). Dylai'r gyfundrefn addysg yn ei chyfanrwydd fod yn "gyfrwng i ddyrchafu statws y genedl Gymreig" gan amlygu doniau'r Cymry ar lwyfan y byd (Smith, 1999, p. 451).

pwysigrwydd yr amgueddfa wrth hybu ymdeimlad o ‘gymuned ddychmygedig’. Yn ôl Boswell ac Evans, daeth amgueddfeydd cenedlaethol i fodolaeth yn y 19eg ganrif er mwyn pwysleisio i’r cyhoedd natur unedig y diwylliant cenedlaethol (Boswell & Evans, 1999, p. 6). Dywed Bennett fod y modd y mae disgwyl i’r unigolion deithio o un cyfnod yn hanes y genedl i’r llall yn yr amgueddfa yn ddrych i’r syniad o genedl unedig yn teithio ymlaen drwy amser a awgrymir gan Anderson (Bennett, 1995, p. 77). Mae Rhiannon Mason hithau yn mabwysiadu safbwynt ‘adeileddol’ wrth ddadansoddi cyfraniad Amgueddfa Genedlaethol Cymru at atgynhyrchu cenedlaetholdeb. Dywed mai prif bwrpas yr amgueddfa genedlaethol yw darparu ar gyfer y genedlwladwriaeth fodern hanes sy’n esbonio ei tharddiad: “the idea that nations are called into being by nationalism rather than the other way around, resonates most closely with the way that national museums can be seen to operate.” Drwy bwysleisio rhinweddau unigryw’r genedl maent hefyd yn gwahaniaethu rhyngddi a’r ‘arall’ (Mason, 2007, p. 74). Mae adroddiad Rhiannon Mason ar sut y daeth Amgueddfa Cymru i fod, yn cyd-weddu â dwy elfen o ddamcaniaeth Roeder ynglŷn â thwf cenedl-wladwriaethau segmentedig. Yn gyntaf, eu bod yn datblygu’n aml oherwydd camsyniad y cenedl-wladwriaeth ganolog y bydd creu sefydliadau o’r fath yn ffrwyno cenedlaetholdeb. Ac yn ail, eu bod yn ymateb i ymdrechion grwpiau grymus i geisio sicrhau rhagor o rym iddynt eu hunain. Dywed Mason mai nod y wladwriaeth wrth sefydlu’r amgueddfa oedd cynnig cyfaddawd er mwyn ffrwyno cenedlaetholdeb Cymreig, ond fe arweiniodd creu’r sefydliad at amlhau amgueddfeydd a roddai’r pwyslais ar hanes cenedlaethol y Cymry, yn ogystal â hybu ymdeimlad o arwahanrwydd cenedlaethol ac awdurdod cyhoeddus:

Looking at the range of nation-building efforts taking place in concert with the museum’s creation, one has the sense that even if the earlier concessions by the British governments to Welsh autonomy were granted more in the spirit of

containment rather than independence, they set in place a process which had a momentum all of its own<sup>198</sup> (Mason, 2007, pp. 108-9, 136).

Ceir yn yr Eisteddfod Genedlaethol hefyd sefydliad arall a ddatblygodd o fod yn sefydliad Seisnig a rhyddfrydol i un a hybai genedlaetholdeb (Jenkins, 1999, p. 21). Roedd cenedlaetholdeb cyfranogol y cyfnod yn nodweddiadol ohoni.<sup>199</sup> Dywed y *Traethodydd* eu bod yn “dwyn ymlaen eu gorchwylion braidd oll yn Seisnig... a gwneud hyn i gyd, a mil mwy, yn enw llenoriaeth Gymreig, gan lefain ‘Oes y byd i’r Iaith Gymraeg!’” (*Y Traethodydd*, 1850b, p. 308) Roedd athroniaeth *laissez-faire* yn ganolog i’r sefydliad; tybid bod yr ymryson rhwng y beirdd, y corau, a’r cystadleuwyr eraill, yn fynegiant o werth cystadlu. Yn y modd hwn yr oedd “iaith a diwylliant hefyd yn bethau y gellid eu cynnwys ymhlith nwyddau’r ffair” (R.T. Jones, 1966, p. 269). Serch hynny, drwy ei bodolaeth fel sefydliad Cymreig, bu’r Eisteddfod yn ganolbwynt i ymdeimlad o genedlaetholdeb. Roedd Watcyn Wyn yn effro i arwyddocâd y

---

<sup>198</sup> Pwysleisia hefyd y modd y caiff amgueddfeydd cenedlaethol eu creu o ganlyniad i “power struggles between different groups and vested interests within societies” a hynny’n aml oherwydd bod elît deallusol newydd o fewn grŵp ethnig lleiafrifol eisiau “wrest a degree of sovereignty or recognition from a governing state.” Er nad yw’n rhoi bys ar yr union gymhelliad dros sefydlu’r amgueddfa, awgryma mai twf yn hunaniaeth Gymreig y dosbarth canol rhyddfrydol o fewn Cymru a oedd yn gyfrifol. Cynigiwyd yn ogystal fod dosbarth canol Caerdydd yn benderfynol o leoli amgueddfa genedlaethol yno er mwyn sicrhau goruchafiaeth Caerdydd yn brif ddinas, os nad yn brifddinas, yn wyneb cystadleuaeth gan Abertawe, Aberystwyth a Chaernarfon (Mason, 2007, pp. 73-4, 95, 108-9, 127, 136-8). Mae hyn yn dangos unwaith eto mai cam-syniad ydyw ystyried bod cenedlaetholdeb yn deillio o undod cenedlaethol – yr eironi yw y gall ddeillio o gystadleuaeth o fewn cenedl yn ogystal, boed honno’n gystadleuaeth grefyddol, neu (fel y gwelir yma), daearyddol. O geisio creu eu delwedd eu hunain o Gymru ar sail rhwyg diwylliannol ar sail llafur yn yr ardaloedd gwledig, sbardunodd yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol geisiadau gan eraill i hawlio Cymreictod iddynt eu hunain. Pwysleisia Mason fod hyd yn oed y tiffeddianwyr yn cymryd rhan yn y broses o greu hunaniaeth genedlaethol erbyn diwedd degawd cyntaf yr 20fed ganrif (e.e. gan honni eu bod yn perthyn i rai o arwyr cenedlaethol yr oes ffiwdal a fu), a hynny er mwyn cyfiawnhau eu statws breintiedig eu hunain o fewn y genedl (Mason, 2007, pp. 139-40), Roedd cymhelliad hefyd i’r diwydiannwyr a’r bonedd i ennill lle a dylanwad o fewn y sefydliadau newydd a grewyd. Gwnaethpwyd hynny drwy gyflwyno naratif genedlaethol amgen a oedd o fudd wrth gyfiawnhau eu hawl hwythau i reoli.

<sup>199</sup> Dywed y *Traethodydd* fod yr arian a ddeuai o ddenu’r Saeson hyn yn “dra chymeradwy”. Byddai hefyd yn ffordd o ddangos i’r Saeson fod y Cymry yn meddu ar ddiwylliant aruchel, tra yn cynnig cyfle i’r Cymry ddysgu’r Saesneg (1862, p. 336). Cwynai ‘Gwyndodig’ erbyn 1887 fod yr Eisteddfod Genedlaethol “wedi ymddiryo cymaint nes y mae wedi dyfod yn fwy o ‘Music Festival’ Seisnig nag o Eisteddfod mewn gwirionedd” (Gwyndodig, 1887, p. 264). Awgryma ‘Glanffrwd’ yn yr un flwyddyn mai’r Eisteddfod, ac nid y rheilffordd, a fyddai’n sicrhau tranc yr iaith (Glanffrwd, 1887, p. 25). Cynigiwyd gwobr am ysgrif ar werth yr Eisteddfod fel modd o ledaenu’r Saesneg (Williams, 1985, p. 202).

sefydliad hwn, a'i allu i greu ymdeimlad o undod ar wahân i weddill yr Ymerodraeth, a hefyd roi llwyfan i ddiwylliant y Cymry:

Sefydliad cenedlaethol yw yr Eisteddfod... Sefydliad i noddi prif athrylith y genedl; sefydliad i dynu allan dalent gynhenid; sefydliad i gefnogi nodweddion cenedlaethol; sefydliad i gadw'n fyw rywbeth y mae cenedl gyfan yn falch o hono, ac yn ymddifyru ynddo, yw yr hen sefydliad sydd wedi tynu y genedl mor llwyr o'i gylch. (Wyn, 1892, p. 186)

Fel y dywed y *Traethodydd* yn 1862: “Y mae yn apelio at eu serchiadau dwysaf, yn cyffroi eu gwladgarwch i'r dwfn, ac yn portreïadu o flaen eu meddwl arbenigion neillduol gwlad eu genedigaeth... mae yr Eisteddfod, fel y gynhanedd gaeth a'r delynt drithant, yn etifeddiaeth ac yn briodoledd i Gymru yn unig.” Dichon fod ymdeimlad o ‘gymuned ddychmygedig’ ynghlwm wrth yr Eisteddfod Genedlaethol, am ei bod yn atgoffa'r Cymry o'u hundod diwylliannol ac ieithyddol, ac anghofio am gecru enwadol. Roedd yn “dir cyffredin... lle y gall gwahanol bleidiau gwladol a chrefyddol anghofio am ennyd am eu neillduolion...”<sup>200</sup> (*Y Traethodydd*, 1862, p. 331). Ond daw'n amlwg nad oedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn sefydliad digonol ar ei ben ei hun er mwyn meithrin ymdeimlad o ‘gymuned ddychmygedig’, yn ôl dealltwriaeth Anderson. Nid cymuned a atgynhyrchwyd yn ddyddiol oedd honno a grëwyd ganddi. Rhaid oedd disgwyl blwyddyn gron cyn y curiad calon hwnnw a yrrai waed diwylliannol y genedl

---

<sup>200</sup> Eglurir y ddadl hon orau gan Dewi Mon yn y *Geninen* yn 1889: “Y mae yr Eisteddfod yn foddion grymus i feithrin undeb cenedlaethol. Ac y mae y cyfryw undeb yn hanfodol i lwyddiant uchaf y genedl. Diffyg undeb a fu yn brif ffynhonnell ein gwendid o'r dechreuad... mewn trefn i sicrhau undeb, rhaid i ni wrth rywbeth o gylch yr hyn y gall yr holl genedl grynhoi, rhyw feddiant cyffredin i fach a mawr, rhyw sefydliad digon eang i gynnwys pawb ynddo ei hunan...” Ar lwyfan yr Eisteddfod, meddai, ceir yr Eglwyswr a'r Ymneilltuwr, y Rhyddfrydwr a'r Ceidwadwr, “ac un ffaith yn gyru pob ffaith arall i'r cysgod, sef y ffaith eu bod oll yn Gymru” (Dewi Mon, 1889, p.8).

drwy ei gwythiennau drachefn.<sup>201</sup> Serch hynny, awgryma O’Leary gysylltiad agos rhwng twf y sefydliadau hyn a’r cynnydd mewn cenedlaetholdeb a welwyd yng Nghymru tua diwedd y ganrif: “Yn ystod y degawdau olaf dechreuodd y draffodaeth ar wladgarwch grynhoi o gwmpas sefydliadau penodol...” Esiampl o hynny, meddai, oedd y modd yr arweiniodd canu ‘Hen Wlad fy Nhadau’ yn Eisteddfod Genedlaethol at ei gorseddu yn anthem genedlaethol Cymru (O’Leary, 1999, p. 502). Noda Ieuan Gwynedd Jones fod yr Eisteddfod wedi darparu gwasanaeth tebyg i’r Prifysgolion, h.y. roedd yn sefydliad oedd yn gwobrwyo diddordeb yn hanes a llenyddiaeth y genedl, ac yna yn cyhoeddi’r canlyniadau ar ffurf barhaol mewn papurau newydd, cylchgronau a llyfrau fel eu bod yn hygyrch i eraill a oedd am gynnal eu hymchwiliadau eu hunain. Felly, er bod y broses yn cael ei hariannu gan rai nad oeddent efallai yn gweld budd mewn hybu cenedlaetholdeb Cymreig, darperid y cynnyrch gan ddsbarth llythrennog a hyddysg (Jones, 1992, pp. 18, 58). Gwelir felly, yn achos prifysgolion a’r Eisteddfodau, fel y gall sefydliadau chwarae rhan amlwg wrth hybu’r math o ‘ddiwylliant print’ a draffodir gan Eisenstein, wrth safoni a sefydlogi nid yn unig ieithoedd ond hanes a diwylliant cenedl (Eisenstein, 1983, p. 43). Yn wir, gellid dadlau fod yr Eisteddfod yn gynrychioliadol o’r broses annatod ryddfrydol, offerynyddol a oedd wrth wraidd twf cenedlaetholdeb modern. Yr oedd yr union broses o lunio hanes a diwylliant cenedl yn ddarlun unffurf yn gystadleuaeth, gyda’r cryfaf yn goroesi. Cystadleuaeth ydoedd wedi ei chyfyngu i’r dosbarth llythrennog oedd â’r amser a’r addysg i gyfrannu ati. Ond roedd gan gynnyrch y cystadlaethau, a oedd yn cael eu hargraffu a’u dosbarthu, ddylanwad ar gynulleidfa dorfol.

---

<sup>201</sup> Nid oedd yr Eisteddfodau lleol chwaith, o ganlyniad i ddiffyg cefnogaeth y dosbarth canol, ac oherwydd eu natur wasgaredig, yn ddigonol i hybu ymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol ymysg y Cymry, a’u hysgogi i ymfurfio’n fudiad cenedlaethol torfol.



Ar yr olwg gyntaf nid oedd yn fawr o gamp i Gymru hawlio iddi ei hunan lond dwrn o brifysgolion, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd cenedlaethol erbyn diwedd y 19eg ganrif, ond dylid cofio ei fod yn mynd yn erbyn tueddiad tuag at ragor o ganoli grym a welwyd o'r 16eg ganrif hyd ail hanner y 19eg. Ys dywed Morgan, mae'n anodd credu y byddai Cymru wedi gweld galwadau taer am Ysgrifennydd Cymru, cangen o'r BBC, neu Senedd i Gymru yn yr 20fed ganrif oni bai ei bod eisoes wedi ei chydabod yn genedl ar wahân drwy ymdrechion yr Ymneilltuwyr yn y 19eg ganrif. Yn sgil creu'r sefydliadau hynny, meddai, "the Welsh have thought of themselves much more as Welshmen, and less as members of such and such a church, or such and such a valley or neighbourhood" (Morgan, 1973, pp. 27-8). Dyna wrth gwrs hanfod y 'gymuned ddychmygedig'. Gwelir rywfaint o dystiolaeth fod y Cymry eu hunain yn ymwybodol o bwysigrwydd sefydliadau wrth adeiladu Cymru o'r newydd. Wrth holi "Beth sydd yn cyfansoddi cenedl?" yn y *Geninen*, daw'r awdur i'r casgliad mai un o'r elfennau angenrheidiol oedd sefydliadau cenedlaethol (*Y Geninen*, 1888, pp. 13-14).

### *Cymru Fydd*

Mae damcaniaeth Roeder yn cynnig ffordd amgen i ni ystyried penllanw ymdrechion yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol i sefydlu Cymru yn wladwriaeth segmentedig, sef mudiad Cymry Fydd. Sefydlwyd y mudiad yn 1886, dan arweinyddiaeth Tom Ellis a oedd wedi datgan ei gefnogaeth i hunanreolaeth i Gymru yn ystod ei ymgyrch lwyddiannus ym Meirionydd yn yr etholiad yr un flwyddyn. Roedd cefnogaeth fawr i'r mudiad ymysg rhai o ryddfrydwyr mwyaf dylanwadol yr oes – roedd Thomas Gee, Lloyd George, a John Morris Jones yn bresennol mewn cynhadledd i sefydlu'r mudiad yn swyddogol yng Nghaer yn 1894. Yn ogystal â datganoli grym o Lundain i Gymru, roeddynt am sefydlu cangen ymhob rhan o'r wlad er mwyn rhoi pwysau ar ymgeiswyr seneddol i gefnogi eu hamcanion. Fel y nodwyd eisoes, erbyn degawdau olaf y ganrif cododd to newydd o Ryddfrydwyr Cymreig a oedd yn rhoi llawer mwy

o bwyslais ar faterion economaidd.<sup>202</sup> Yn ôl Dewi Rowland Hughes roedd dylanwad Rhyddfrydiaeth Newydd, a oedd yn gwrthod pwyslais yr Hen Ryddfrydiaeth ar yr unigolyn ac yn ystyried yn hytrach ei le o fewn y gymdeithas ehangach, yn drwm ar Gymru Fydd, wrth i gylchgrawn y mudiad (o'r un enw) addo gwladoli'r rheilffyrdd, tir, tai'r glofeydd a'r peiriannau gwaith. Dywed mai nod Cymru Fydd oedd harneisio grym y bobl i ymgyrchu dros welliannau i Gymru: "... strategaeth Cymru Fydd ydoedd ffurfio'r genedl ei hun i mewn i un grŵp pwysu mawr – grŵp pwysu cenedlaethol" (Hughes, 1995, pp. 60-66). Serch hynny, roedd cyfalafwyr cosmopolitan pyllau glo de-ddwyrain Cymru yn amheus o'r mudiad newydd ac fe aeth Pwyllgor Gwaith Ffederasiwn Rhyddfrydol y De ati i geisio atal ymdrechion Thomas Gee a Lloyd George i'w huno â Chynghrair Cymru Fydd. Trefnwyd cyfarfod i benderfynu'r mater ym mis Ionawr 1896 yng Nghasnewydd, tref nad oedd yn nodweddiadol am ei Chymreictod. Dywed Dewi Rowland Hughes mai dyma "un o'r dyddiau pwysicaf yn hanes modern Cymru. Dyma foment hanesyddol pan roedd siawns o greu, drwy Gynghrair unedig, fudiad cenedlaethol ymwithiol, grymus a bloc effeithiol rhwng y dosbarth canol blaengar a'r gweithwyr undebol." Methodd y bleidlais drwy gynllwyn annemocrataidd gan swyddogion y pwyllgor (Hughes, 1995, pp. 66-71). Dywed Gwyn A Williams fod y cyfarfod wedi ei lenwi â gwrthwynebwyr er mwyn sgiwio'r bleidlais ond ei fod serch hynny yn adlewyrchu barn cymdeithas oedd yn gynyddol amlgenhedlig - "a genuine and widespread feeling in the south which had become permanent. If Wales as a political entity was to be created, it would have to be a different Wales from that envisaged by Cymru Fydd" (Williams, 1985, p. 231). Ni allai'r Rhyddfrydwyr Cymreig weithio fel uned genedlaethol – roedd y gogleddwyr yn drwgdybio'r deheuwr ac i'r gwrthwyneb, ac fe lesteiriodd hynny unrhyw ymgais i'w huno. Drwy wrthod

---

<sup>202</sup> Awgrymodd Lloyd George mewn araith yn 1890 fod angen i ryddfrydiaeth symud i'r chwith a dechrau ymgodymu â'r cwestiynau llai ysbrydol a mwy materol yr oedd sosiaeth yn mynd i'r afael â hwy: "You have pledged yourself to a great programme – Disestablishment, Land Reform ... and other great reforms. But however drastic and broad they may be, they after all simply touch the fringes of that vast Social Question which must be dealt with in the near future" (*South Wales Daily News*, 1890).

y wedd newydd hon ar ryddfrydiaeth, meddai Hughes, roeddynt wedi selio ffawd y blaid yng Nghymru a chaniatáu twf y Blaid Lafur yn y ganrif a ddilynodd: “Datgelwyd i’r gweithwyr nad trwy’r Blaid Ryddfrydol y gellid sicrhau eu rhyddhau” (Hughes, 1995, p. 73).

Mae un esboniad o fethiant y mudiad hwn yn awgrymu bod sail i dybiaeth Nairn mai rhesymau economaidd oedd dros fethiant cenedlaetholdeb yng Nghymru. Wrth gyfeirio at yr Iwerddon, dywed Nairn mai sail y rhwyg yno oedd amharodrwydd trigolion y gogledd datblygedig i gael eu cymhathu gan y de annatblygedig (Nairn, 2003, pp. 191-3). Yng Nghymru, roedd dosbarth canol masnachol Seisnig y de ddwyrain yn amharod i dderbyn cael eu cymhathu gan ddosbarth canol ‘diwylliannol’ gwledig y gogledd-orllewin. Gellid cynnig dadansoddiad o safbwynt Hroch hefyd. Erbyn yr 1880au byddai rhaniadau yn ardaloedd diwydiannol Cymru eisoes wedi datblygu ar sail dosbarth, ac o ganlyniad roedd neges rhyddfrydwyr y gogledd yn amherthnasol i’r bobl. Dywed Hobsbawm yn ei ddadansoddiad ef o’r hanes fod y dosbarth gweithiol a’r bourgeoisie yn y de wedi cyfuno er mwyn gwrthwynebu “the attempts by the young Lloyd George’s nationalist North Wales Liberalism, to identify Welshness with linguistic Welshness and the Liberal party – the national party in the Principality – with its defence” (Hobsawm, 1990, p. 117). Dywed Gwyn A Williams fod methiant Cymru Fydd yn adlewyrchu’r ffaith bod y dosbarth gweithiol eu hunain erbyn hynny wedi dechrau troi cefn ar yr arweinwyr Ymneilltuol-Ryddfrydol Cymreig: “This reflected not only the major divergence in hegemonic society but a growing radicalization of working people which was increasingly finding the politics of what was presented as Welshness irrelevant” (Williams, 1985, pp. 230-1). Yn ôl dadansoddiad Hroch, gellid awgrymu mai dyma’r pwynt pan fethwyd â sicrhau symud o Gam B, sef breuddwyd y dosbarth canol deallusol, i Gam C, sef cefnogaeth y dosbarth gweithiol. Ni lwyddwyd i “ieuo’r prosiect cenedlaethol at ryw fath o drawsffurfiad economaidd-

gymdeithasol,” chwedl Richard Wyn Jones, ac fe gipiodd y Blaid Lafur honedig ‘wrth-genedlaetholgar’ y fantell.

Serch hynny, dywed Kenneth Morgan fod diffyg undod o fewn Cymru yn esboniad rhy syml am fethiant Cymru Fydd. Dywed mai sail cwmp y mudiad oedd mai ymgais gan Lloyd George i gipio rhagor o rym yng Nghymru iddo ei hun yn sgil methiant y llywodraeth Ryddfrydol yn San Steffan oedd y fenter yn y bôn, a bod rhai o ryddfrydwyr Cymreig eraill blaenllaw y cyfnod, megis Tom Ellis, wedi gweld drwy’r ystryw. Dywed Kenneth Morgan nad oedd gan Tom Ellis na Lloyd George ddiddordeb arbennig mewn cenedlaetholdeb diwylliannol yng Nghymru, a bod y ddau yn ddigon hapus i ganolbwyntio ar eu gyrfaedd yn San Steffan yn dilyn methiant Cymru Fydd. Roedd hwn yn ‘Home Rule’ o fath gwahanol i hwnnw y bu Michael D. Jones yn dadlau drosto – datganoli er budd gwleidyddol yn hytrach na diwylliannol – a dyna oedd wrth wraidd Cymru Fydd (Morgan, 1995, pp. 207-8). Dywed Michael D. Jones yn yr un modd am y Rhyddfrydwyr Cymreig yn Senedd Lloegr: “... rhyw ôl-aelod, neu gynffon yw Rhyddfrydwyr Cymreig yn bresenol i’r blaid Ryddfrydol Seisnig, yr hon nad yw’r amser a fu, wedi gofalu ond ychydig am fuddiannau Cymru fel y cyfryw, ond fel y byddent yn taro ei chyfleusdera ei hunain” (Jones, 1888a, p. 25). Serch hynny, yng ngoleuni damcaniaeth Roeder, gwelwn fod y ffaith nad oedd cymhelliad y mudiad ymreolaethol hwn yn ddiwylliannol yn ei hanfod yn golygu na fyddai yn y pen draw wedi creu ymwybyddiaeth ehangach o gymeriad diwylliannol Cymru pe bai wedi bod yn llwyddiannus. Yn wir, roedd y modd y cuddiwyd uchelgais gwleidyddol y tu ôl i wedd ddiwylliannol yn nodweddiadol o ddatblygiad cenedlaetholdeb. Mae Roeder yn cynnig modd gwahanol i ni synio am fethiant Cymru Fydd, sef fel brwydr rhwng sefydliadau a chanddynt weledigaeth wahanol o’r rhwymau a oedd yn eu dal at ei gilydd. Nid oedd cenedlaetholdeb Cymreig o unrhyw fudd i fasnachwyr Seisnig – nid oedd ganddynt unrhyw gymhelliad i’w gofleidio, tra oedd gan Brydeindod fanteision amlwg

i'r rheini oedd am barhau i fasnachu mewn gwlad a oedd yn bygwth datblygu hunaniaeth genedlaethol arwahanol. Awgryma Dewi Rowland Hughes fod mudiad Cymry Fydd wedi ei wanychu gan allu'r sefydliad Seisnig i hudo ambell un o'r cenedlaetholwyr ifanc rhyddfrydol mwyaf blaenllaw, megis Tom Ellis (a Lloyd George yn ddiweddarach). Dywed Hughes: "Mae ymerodraethau yn goroesi nid yn unig trwy rym oruchafiaeth filwrol ond hefyd trwy hegemoni, drwy fewndynnu gwrthryfelwyr o'r tiriogaethau" (Hughes, 1995, p. 73). O urddo Ymneilltuwyr blaenllaw yn aelodau grymus o'r sefydliad Prydeinig, cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyfyngiadau bellach ar eu hesgyniad tuag y brig. Collwyd y cymhelliad a oedd wedi symbylu twf cenedlaetholdeb Cymreig hyd hynny. Yn sgil methiant Cymru Fydd, bu farw unrhyw obaith sicr o ymreolaeth i Gymru tan 70au'r ganrif ddilynol, ac fe ganolbwyntiodd y Rhyddfrydwyr Cymreig ar yr unig rwystr (cynyddol symbolaidd) a'u hwynebai, sef datgysylltiad yr eglwys (Williams, 1985, pp. 230-1).

#### *Twf cenedlaetholdeb ieithyddol*

Mae un gwendid amlwg yn y ddadl uchod mai sefydliadau cenedlaethol a grëwyd gan yr Ymneilltuwyr a esgorodd ar dwf mudiad cenedlaethol ieithyddol yng Nghymru yn yr 20fed ganrif, sef bod cenedlaetholwyr ieithyddol eisoes yn bodoli oddi ar ail hanner y 19eg ganrif. Os creadigaeth cenedl-wladwriaethau segmentedig yw cenedlaetholdeb, mae angen esbonio agweddau cenedlaetholwyr blaenllaw megis Michael D. Jones ac Emrys ap Iwan. Bu'r ddau yma yn dadlau'n frwd dros barhad y Gymraeg mewn cylchgronau megis y *Celt* a'r *Geninen*, ac yng nghanol y frwydr yn erbyn cynlluniau'r enwadau Cymraeg i godi capeli i'r di-Gymraeg (R.T. Jones, 1981, p. 57). Onid ydynt yn gwrthbrofi damcaniaeth Roeder mai sefydliadau sydd â'r grym i ddyfeisio ac ailddehongli natur cenedlaetholdebau? Ond o ran datblygiad eu syniadaeth, yr hyn sy'n eu nodweddu ill dau oedd eu bod wedi dod dan ddylanwad naratifau cenedlaethol amgen. Treuliodd Emrys ap Iwan gryn amser ar gyfandir Ewrop ac roedd yn

darllen yn helaeth mewn ieithoedd eraill – disgrifir ef gan Saunders Lewis fel “the first Welsh European since the 16th century” (Lewis, 1926, p. 3). Fel y nodwyd eisoes, treuliodd Michael D. Jones ddwy flynedd yn byw yn yr Unol Daleithiau. Ymwelodd hefyd â’r Wladfa ym Mhatagonia y bu’n rhan mor allweddol o’i sefydlu, ac roedd y ddwy daith yn allweddol wrth lunio ei syniadaeth genedlaetholgar<sup>203</sup> (Walters, 2002, pp. 114, 131). Felly nid oedd arnynt angen cysylltiadau rhyngwladol a fyddai wedi eu meithrin gan Brifysgol Cymru a’r Llyfrgell Genedlaethol. Fe fyddai Emrys ap Iwan wedi dod yn gyfarwydd â mudiadau cenedlaethol seiliedig ar iaith, cyn dychwelyd i draethu’r un dadleuon yng Nghymru: “Y Gymraeg sy wedi’n cadw ni yn genedl hyd yn hyn; a’r Gymraeg yn unig a’n ceidw yn genedl rhag llaw” (ap Iwan, 1903, p. 217). Cymharai Cymru â’r Tiroedd Tsiec, gan ofyn pam roedd y Cymry yn dysgu’r Gymraeg o’u gwirfodd yn yr ysgolion Sul, tra bo’r Bohemiaid yn gwneud hynny ar draul y llywodraeth yn yr ysgolion dyddiol (Emrys ap Iwan: 1940, 85). O ganlyniad i’r dylanwadau ehangach oedd arnynt, roeddynt mewn safle breintiedig i nodi’r anghysonder rhwng naratif cenedlaethol imperialaidd yr Ymerodraeth Brydeinig a’r naratifau a hybwyd gan genedlwladwriaethau a gwladwriaethau segmentedig a oedd yn meddu ar fwy o ymreolaeth mewn gwledydd eraill. Serch hynny, heb gymhelliad amlwg i fabwysiadu cenedlaetholdeb ieithyddol, nid oes sail eglur i’r dybiaeth y dylai’r athrawiaeth Herderaidd a oedd mewn bri yng nghanolbarth Ewrop fod wedi cael dylanwad ar amcanion y sefydliad Ymneilltuol yng Nghymru.

Yn hynny o beth, deallai Emrys ap Iwan a Michael D. Jones mai’r ffordd o sicrhau bod y Gymraeg yn werth ei harddel oedd creu sefydliadau tebyg a fyddai yn rhoi bri ar yr iaith yng Nghymru. Er nad oedd Emrys ap Iwan o blaid annibyniaeth (ap Iwan, 1886, p. 160), ef a

---

<sup>203</sup> Ni chafodd teithio dramor yr un effaith ar bawb. Gadawodd Thomas Edward Ellis, un o gyn-ddisgyblion Michael D. Jones am Dde Affrica yn genedlaetholwr a dychwelyd yn unoliaethwr rhonc. (Ellis, 1944, pp.119-34)

fathodd y gair ‘ymreolaeth’ (I.W. Jones, 1998, p. 165) a dadlau o’i phlaidd ar y sail y byddai’n sicrhau cymhelliad i siaradwyr y Gymraeg barhau i arddel eu hiaith a’u diwylliant.<sup>204</sup> Dywed: “Yn ol y drefn bresenol, nid yw gwybodaeth o’r Gymraeg yn rhoddi nemmor o fantais i’r Cymro, nac anwybodaeth ohoni yn gosod y Sais o dan nemmor o anfantais, hyd yn noed yng Nghymru: ond pe mynai y Cymry lywodraethu eu hunain, byddai yn rhaid i bob un a ddymunai swydd o dan y Llywodraeth fedru Cymraeg” (ap Iwan, 1886, p. 156). Yn hynny o beth yr oedd Emrys ap Iwan wedi rhoi ei fys ar yr hyn a oedd wir yn gwahanu Cymru oddi wrth y gwledydd hynny ar y cyfandir a fu’n fwy llwyddiannus na hi wrth warchod eu hieithoedd a’u diwylliannau eu hunain, sef sefydliadau a oedd yn arddel ieithoedd cenedlaethol.

Roedd Michael D. Jones yn enwog erbyn diwedd yn ei oes am fod o flaen y gad wrth ddadlau o blaid ymreolaeth i Gymru. Dywed y *South Wales Daily News* amdano yn 1895: “... his name naturally recurs during the discussion of Welsh Home Rule as the first living apostle of that gospel” (*South Wales Daily News*, 1895, p. 7). Awgryma Brooks fod y brwdfrydedd hwn yn deillio o’i ddaliadau ceidwadol, gan nodi iddo ddadlau mai bai pennaf y Toriaid oedd nid eu bod yn Geidwadwyr, ond eu bod yn Saeson (Brooks, 2015, p. 100). Nid oes dim o’i le ar y gosodiad hwnnw, ond onid yw’n awgrymu mai bai pennaf y Rhyddfrydwyr oedd nid eu bod yn rhyddfrydwyr, ond eu bod hwythau hefyd yn blaid a oedd wedi ei dominyddu gan Saeson? Fel y dywed Dafydd Tudur: “Jones argued that the English nation’s domination of parliament was a stronger influence on government policy than the ideology of any political party” (Tudur, 2006, p. 383). Yr hyn a oedd wrth wraidd anfodlonrwydd Michael D. Jones mewn gwirionedd oedd na chredai fod mynediad at y ‘craidd metropolitaidd’ yn ddigonol oherwydd mai ychydig o rym a feddai’r Cymry arno yno o’i gymharu â’r Saeson. Fel yr awgryma Anderson, un gwahaniaeth sylfaenol rhwng darpar-genhedloedd a sicrhaodd annibyniaeth, a’r rheini a

---

<sup>204</sup> Ni welai unrhyw reswm dros ymreolaeth os byddai’r Gymraeg yn marw (ap Iwan, 1886, p. 158).

fethodd, oedd eu mynediad at ganolbwynt grym (Anderson, 1991, pp. 90-3). Y prif wahaniaeth rhwng dadansoddiad Michael D. Jones a dadansoddiad ei gyd-Ymneilltuwyr oedd ei ganfyddiad bod y Cymry wedi eu cloi allan o rym *o hyd*, ac mai rhith oedd honni fel arall. Nodai nad oedd gan drigolion trefedigaethau eraill yr Ymerodraeth Brydeinig unrhyw fynediad at y Senedd: “Yr unig fodd i’r Seison gadarnhau yr ymerodraeth yw rhoddi mwy o ryddid i’w phobol... Paham raid i genedloedd India gael eu trin fel pobl oresgynedig, a’u trethu, heb ganiatáu iddynt gynrychiolaeth ac ymreolaeth?” (Jones, 1885b, p. 1) Ond yn ei dyb ef, nid oedd safle’r Cymry fawr gwell tra eu bod yn lleiafrif o fewn Senedd lle’r oedd gan y Saeson fantais sylweddol.: “Yn bresenol y mae senedd Prydain yn gwneud deddfau a fyddont yn angenrheidiol i Saeson, a rhaid i Gymru foddloni ar y cyfreithiau a fyddont yn eu taro hwy, ac anaml y rhoddir un Byl o flaen y senedd ar gyfer angen Cymru” (Jones, 1885a, p. 7). Nid greddf geidwadol oedd hon felly (roedd wedi treulio ei oes yn brwydro i ddisodli’r hen drefn ffiwdal) ond un ryddfrydol – sef y gred na ddylai un genedl gael llywodraethu ar un arall, nac elwa ar ei llafur. Dylai Cymru gael y rhyddid i reoli ei ffawd ei hun, gyda Senedd i Gymru<sup>205</sup> (Jones, 1876, p. 66).

Yr eironi wrth gwrs yw, er eu bod o blaid creu sefydliadau a fyddai’n rhoi blaenoriaeth i’r iaith, fod diffyg sefydliadau o’r fath yn golygu mai safbwyntiau ymylol yr oeddynt yn eu harddel. Dywed Dafydd Tudur mai ar ymylon gwleidyddiaeth Gymreig y trigai Michael D. Jones drwy gydol ei oes. Ffraeodd gydag Annibynnwr eraill, yn ogystal â Thomas Gee, un o hoelion wyth y sefydliad Ymneilltuol (Tudur, 2006, p. 417). Ystyriwyd ef yn “benboethyn ac yn granc” gan ei gyfoedion (Walters, 2002, p. 134), a chafodd y llysenw ‘Gwgan Farfdrwch’ gan un o gyfranwyr y *Geninen* (R.T. Jones, 1981, p. 65). O ganlyniad i’w ymddieithriad oddi wrth y

---

<sup>205</sup> Nid annibyniaeth lawn y galwai Michael D. Jones amdani, serch hynny, ond senedd ffederal fel y ceid yn yr Unol Daleithiau: “rhoddi awdurdod i’n cenedl i ddeddfu ar pob pwnc Cymreig, gan adael pynciau Ymerodol i’r Senedd Gyffredinol...” Gwelodd fanteision aros yn rhan o Ymerodraeth, gan gynnwys diogelwch gan oresgynwyr, a galwodd am ‘dderbyn’ rhagor o genhedloedd yn rhan ohono (Jones, 1887, pp. 1-2).



sefydliad Ymneilltuol, nid oedd ganddo'r adnoddau i ddilyn ei ddiddordebau gwleidyddol, a'i unig gyfrwng er mwyn dylanwadu ar y werin oedd drwy ei fyfyrwyr a'i erthyglau yn y *Celt* (Tudur, 2006, p. 417). Er bod "egin syniadau o genedlaetholdeb modern" yn ei waith, awgryma Rhys Llwyd fod amlygrwydd presennol Michael D. Jones yn deillio'n rhannol o awydd arweinwyr y mudiad cenedlaetholgar ieithyddol yn yr 20fed ganrif, gan gynnwys ffigyrau blaenllaw megis R. Tudur Jones, Gwynfor Evans, a Saunders Lewis, i'w ddyrchafu yn eicon cenedlaetholgar, a'u bod nhw i raddau wedi dewis dehongli ei safbwyntiau amrywiol yn unol â'u gweledigaeth eu hunain: "Roedd natur gwaith Michael D. Jones, oherwydd ei amwysedd a'i ddiffyg cyfundrefniaeth, yn golygu fod modd i Tudur Jones fowldio fframwaith i'w syniadaeth nad oedd yn bodoli mewn gwirionedd" (Llwyd, 2011, pp. 50-1, 61-2). Llechu ar ymylon y drafodaeth yr oedd Emrys ap Iwan yn ogystal. Dywed E. Morgan Humphreys nad oedd neb arall yn ystod yr un cyfnod yn meddwl ar yr un llinellau ag ef ynglŷn â chenedlaetholdeb ieithyddol (Humphreys, 1945, p. 30). Nid hyd nes cyhoeddi cofiant iddo gan T. Gwynn Jones yn 1922, a detholiad o'i ysgrifau rhwng 1937-41 y tyfodd yn ffigur adnabyddus ymysg to newydd o genedlaetholwyr, gan gynnwys Saunders Lewis (Lloyd, 1989, pp. 144-145). Tybiai Dafydd Glyn Jones na ddaeth yn ffigur dylanwadol tan ar ôl y rhyfel byd cyntaf, a hynny ymysg pobl oedd wedi eu dadrithio gan ddinistr cenedlaetholdeb Prydeinig y cyfnod: "... 'roeddynt yn barod i dderbyn arweiniad ac ysbrydiaeth oddi wrth genedlaetholwr mwy radical, mwy miniog ei feirniadaeth, mwy digymrodedd.'" Awgryma hefyd mai ei allu i gyfathrebu ei syniadau mewn modd deniadol a difyr oedd yn golygu bod ei ddylanwad wedi parhau (Jones, 2001, pp. 47-48, 53). Dywed Edwards yn yr un modd mai ei "ddawn i lefaru'r gair" oedd ei gyfraniad pennaf, a bod y cywair cyhuddgar a osododd wedi dylanwadu ar genedlaetholdeb ieithyddol yr 20fed ganrif<sup>206</sup> (Edwards, 1989, p. 167). Ond er ei fod yn

---

<sup>206</sup> Ai atsain o'r un cywair cyhuddgar a rethreg Feiblaidd a welir yn y pryd o dafod a geir gan Brooks i'r Cymry ar ddiwedd ei gyfrol ef? (Brooks, 2015, pp. 138-9)

ffieiddio at 'sais-addoliaeth' ei gydwladwyr (ap Iwan, 1880, p. 13), roedd dadleuon Emrys ap Iwan yn annhebyg i'r cenedlaetholwyr ieithyddol a'i dilynodd, megis Saunders Lewis ac Ambrose Bebb. Roedd yn frwd o blaid dwyieithrwydd, ac nid oedd yn credu bod yr iaith Gymraeg mewn perygl arbennig o enbyd, a chredai y byddai'r Cymry, fel yr Iddewon, yn llithro o afael y Saeson ond iddynt fod yn amyneddgar: "Fe fuasai mor annoeth i Jeremiah gynghori'r Iddewon i wrthryfela yn erbyn Babilon y pryd hwnnw ag a fuasai i minnau gynghori'r Cymry i wrthryfel yn erbyn Lloegr y pryd hwn" (ap Iwan, 1909, p. 53). Galw yr oedd yn hytrach ar i'r Cymry dalu mwy o barch i'w hiaith yn hytrach na mawrygu'r Saesneg. Tueddai i gredu, fel nifer o'i gydwladwyr hyddysg, y dylai'r Cymry fod yn fwy agored i ddylanwadau o dramor. Digon cyfyng yn ogystal oedd ei weledigaeth wleidyddol ac economaidd ynglŷn â sut y gallai Cymry oroesi: "Beirniad ydoedd, yn adweithio i rai o dueddiadau ei oes... Nid oedd ganddo na breuddwyd am y gorffennol na rhaglen fanwl at y dyfodol" (D.G. Jones, 2001, pp. 48-54, 64). Awgryma D. Gwenallt Jones nad oedd cymaint â hynny o syniadau newydd yn ysgrifau Emrys ap Iwan mewn gwirionedd, ac mai wedi caboli rhai o awgrymiadau Michael D. Jones ydoedd (Jones, 1950, p. 114). Paratoi seiliau diwylliannol, athronyddol a moesol cenedlaetholdeb Cymreig a wnaeth, ond Michael D. Jones a'i gosododd ar seiliau gwleidyddol ac economaidd (D.G. Jones, 1956, p. 26). Yn y bôn, methwyd â chynnig cymhelliad digonol i'r dosbarth canol Cymreig gefnu ar genedlaetholdeb crefyddol a chofleidio cenedlaetholdeb ieithyddol. Yn hynny o beth, arwyddion o'r newid hwnnw yr oeddynt yn hytrach na symbylwyr iddo.

Tybiaf yn hytrach mai Thomas Gee oedd fwyaf cynrychioliadol o'r cyfeiriad y byddai cenedlaetholdeb Cymreig yn symud iddo yn yr 20fed ganrif. Ar yr olwg gyntaf, mae hwn yn ymddangos yn osodiad rhyfedd – roedd yn driw i'r un agweddau a nifer o'i gyd-Ymneilltuwyr, ac eilbeth oedd iaith i'w enwad ei hun. Ond roedd nodwedd arall a osodai Gee ar wahân i nifer

o'i gyd-Gymry. Roedd yn un o hoelion wyth y sefydliad Ymneilltuol, ond roedd hefyd yn ddyn busnes a wnâi elw ar gorn y Gymraeg. Ceir sylw craff iawn i'r perwyl hwn gan John E. Southall yn ei gyfrol *Wales and Her Language* yn 1892. Roedd agwedd y cyhoeddwr tuag at y Gymraeg yn peri dryswch iddo ef, am mai dyma'r garfan fyddai fwyaf ar eu hennill drwy hyrwyddo addysg yn yr iaith honno:

... the adoption of such a course would almost infallibly strengthen their trade and improve both the quantity and quality of the vernacular literature, [but] they stand to one side... as though it was a matter not worth their while to spend a penny on an effort to provide for the literary future of the nation, in which either they or their successors will be so much interested pecuniarily. If English becomes the prevailing language, they will cease to be publishers to any considerable extent...

(Southall, 1892, p. 308)

Yr unig eithriad, meddai Southall, oedd Thomas Gee. Dadleuodd o blaid defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgolion elfennol, y prifysgolion a'r Eisteddfod (G.T. Jones, 1913, p. 626). Fel y dengys yn y bennod nesaf, roedd diffyg diddordeb cyhoeddwr eraill yn ddealladwy i raddau, oherwydd mai crefyddol neu wleidyddol oedd diben llawer o'r cyhoeddi Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn, yn hytrach na gwneud elw drwy gyhoeddi. Nid felly Thomas Gee, a oedd yn ddyn busnes hyd fêr ei esgryn,<sup>207</sup> ac mae'n anodd credu felly nad oedd hefyd yn gwerthfawrogi bod hyfywedd ei fusnes argraffu yn dibynnu i raddau ar archwaeth y Cymry am ddeunydd darllen Cymraeg. Dangosodd ei barodrwydd i gyhoeddi'r *Traethodydd* a'r *Gwyddoniadur* ei fod yn barod i droi ei fedr ym myd busnes i sicrhau bod deunydd addysgiadol, yn ogystal â chrefyddol,

---

<sup>207</sup> Yn ogystal â bod yn argraffwr, roedd yn weinidog, yn ffermwr, yn berchennog chwarel llechi, mwynta hematit, a melin ddŵr, ac yn sylfaenydd a chyfarwyddwr amryw o gymdeithasau, busnesau a sefydliadau eraill. Yr oedd yr amryfal ddiddordebau eraill hyn yn bwydo'n ôl i'w waith argraffu (P.H. Jones, 1998, pp. 174-5).

ar gael i'r Cymry (I.W. Jones, 1998, p. 82). Mae Prys Morgan yn cyfeirio at Thomas Gee fel un o'r arweinwyr barn yng Nghymru a oedd "in many ways 'nationalistic' in their enthusiasm" (Morgan, 1973, p. 25). Hefyd meddai Thomas Gee ar agwedd lawer iachach at y Gymraeg na sawl gweinidog arall o'i genhedlaeth, ac mae'n nodedig mai'r hyn a oedd ganddo yn gyffredin â sawl un arall o'r rhai a ddadleuai dros le amlycach i'r iaith mewn addysg erbyn diwedd y ganrif, megis y Prifathro Thomas Charles Edwards (Smith, 1999, p. 460), Beriah Gwynfe Evans, O.M. Edwards, etc. oedd nad sefydliad y capeli oedd eu prif gynhafiaeth. Roedd eu budd materol a'u dylanwad eu hunain ynghlwm wrth sicrhau lle amlycach i'r Gymraeg, am mai hwy oedd yn meddu ar y sgiliau i gwrdd â'r galw a ddeuai yn sgil hynny ac i ymelwa arno. Mae'n arwyddocaol, yn fy nhyb i, mai Thomas Gee a gyflogodd Emrys ap Iwan fel gohebydd ar ôl iddo fethu â chael ei dderbyn i'r weinidogaeth (I.W. Jones, 1998, p. 59). Mae ei gynnwys, ar hyd braich, o fewn sffêr gyhoeddus y sefydliad Cymreig yn arwydd o symud platiau tectonig tuag at safbwynt a welai fudd ym mharhad yr iaith. Dywed Emrys ap Iwan ei fod, erbyn 1903, yn synhwyro newid agwedd at y Gymraeg ymysg "ddyscedigion a boneddigion Cymru," a oedd ugain mlynedd ynghynt yn galw ar y werin i gefnu ar yr iaith: "Erbyn hyn, y mae pethau wedi newid: y Cymry uchel-radd yn ymdroi at fwydydd cartref a hên iaith y wlad, a'r Cymry isel-radd yn ymloddesta ar fwydydd siop a iaith siop" (ap Iwan, 1903, p. 217). Byddai'n llawer rhy sinigaidd awgrymu nad oedd y dynion hyn yn meddu ar genedlaetholdeb ieithyddol; ond naif efallai fyddai dadlau nad man cychwyn cymhelliad cenedlaethol yw cymhelliad personol, hyd yn oed os yw hynny'n ddiarwybod i'r unigolyn. Yn hynny o beth Emrys ap Iwan a Michael D. Jones oedd yr eithriadau, oblegid nid oedd cymhelliad amlwg iddynt ddadlau o blaid yr iaith mewn modd a oedd, yn y cyfnod hwnnw, fel y dywed Hywel Teifi Edwards am Emrys ap Iwan, yn "gofyn ysbryd herfeiddiol go anghyffredin"<sup>208</sup> (Edwards, 1989, p. 141).

---

<sup>208</sup> Neu, fel y dywed Walters am Michael D. Jones, yn dangos nad oedd yn malio botwm corn am neb na dim (Walters, 2002, p. 118).

### *Casgliad*

Bwriad y bennod hon oedd dangos bod y dybiaeth y bu'r Ymneilltuwyr Rhyddfrydol yn rhwystr i ddatblygiad mudiad cenedlaethol yn annheg. Mae hanes Cymru yn y 19eg ganrif yn awgrymu bod tystiolaeth i gefnogi honiad Roeder mai rhywbeth sydd yn cael ei feithrin gan sefydliadau er eu budd eu hunain ydyw cenedlaetholdeb. Yng ngoleuni damcaniaethau Anderson, Hroch, ac Wallerstein, teg yw nodi mai'r capeli Ymneilltuwyr oedd yr unig rai a oedd yn meddu ar y cymhelliad i ledaenu cenedlaetholdeb ymysg y werin yng Nghymru yn y 19eg ganrif, a bod eu gofynion gwleidyddol yn ymateb priodol i'r annhegwch a wynebant. Gwir mai cyfyngedig oedd eu cefnogaeth ymysg poblogaeth Cymru, ond awgryma Roeder nad oedd y fath gefnogaeth dorfol yn nodwedd o genhedloedd cyn annibyniaeth, y tu hwnt i'r hyn a oedd ei angen er mwyn iro olwynion newid. Er nad oedd cenedlaetholdeb ieithyddol yn flaenoriaeth gan arweinwyr yr Ymneilltuwyr, heb eu hymdrechion hwy ni fyddai sefydliadau megis prifysgolion a llyfrgelloedd a fyddai yn sail i genedlaetholdeb ieithyddol yr 20fed ganrif wedi eu sefydlu. Er gwaethaf y dymuniad i wneud 'arwyr' neu 'ddihirodd' ohonynt o fewn naratif rhamantus cenedlaetholgar, y gwir yw nad yng nghyd-destun 'llwyddiant' neu 'fethiant' y dylid trafod eu hymdrechion. Plentyn siawns ydoedd cenedlaetholdeb ieithyddol yr 20fed ganrif, ac nid oedd gwerthoedd na disgwyliadau'r plentyn hwnnw yn fwy hysbys i'r rheini a esgorodd arno nag unrhyw ddyfodol posib arall.

## Pennod 6

### Cymru'r Gymuned Ddychmygedig

Dadleuwyd eisoes na fyddai'n deg dweud bod hynt cenedlaetholdeb yng Nghymru yn ganlyniad i un ffactor yn unig. Roedd nifer o ffactorau pwysig: diffyg economi fewnol ffyniannus, diffyg sefydliadau, a diffyg dosbarth canol a fyddai, yn sgil bodolaeth y ddau beth hynny, wedi meddu ar gymhelliad i feithrin cenedlaetholdeb er mwyn sicrhau eu gafael eu hunain ar rym. Ac roedd pob un o'r ffactorau hyn, wrth gwrs, yn bwydo ei gilydd. Bydd y ddwy bennod nesaf yn trafod agwedd gysylltiedig hollbwysig arall ar ddatblygiad cenedlaetholdeb yng Nghymru yn ystod y 19eg ganrif, sef hynt y wasg argraffu. Nodwyd yn y bennod gyntaf fod dau o'r damcaniaethwyr mwyaf blaenllaw sy'n trafod cenedlaetholdeb, Anderson (Anderson, 1991) a Billig (Billig, 1995), yn rhoi pwyslais arbennig ar ddatblygiad y papur newydd wrth esbonio pam y daeth cenedlaetholdeb i'r amlwg yn sgil diwydiannu. Mae Hastings (Hastings, 1997, p. 12) a Hroch (Hroch, 2000, p. 184) hefyd yn pwysleisio'r ffaith bod gwasg ffyniannus yn un ffactor yn nhwf mudiad cenedlaethol. Bydd fy astudiaeth innau yn canolbwyntio'n bennaf ar y cyfnod rhwng 1850 a diwedd y ganrif yng Nghymru, gan mai dyma'r cyfnod a ystyrir fel y mwyaf llewyrchus yn hanes y wasg Gymraeg. Mae'r cyfnod hwn yn baradocs, am mai dyma ar y naill law 'oes aur' y wasg Gymraeg, pan oedd mwy o ddarllen ar yr iaith nag ar unrhyw adeg arall yn ei hanes, ond ar y llaw arall, er gwaetha'r twf yn nifer siaradwyr Cymraeg a ddeilliodd o gynnydd sylweddol ym mhoblogaeth y wlad, gwelwyd gostyngiad yng nghanran y Cymry a siaradai'r iaith, o 54.5% yn 1891 (Jenkins, 1999, p. 10), i 43.5% yn 1911 ("Cyfrifiad 2011: canlyniadau a newidiadau er 2001"). O ystyried y bwrlwm a welwyd ym myd cyhoeddi yn Gymraeg, mae'r anallu i hybu mudiad cenedlaethol, ac yn enwedig felly mudiad cenedlaethol ieithyddol, wedi peri cryn benbleth i academyddion

(Davies, 2007a, p. 380; Okey, 2000, pp. 608-15). Ar yr olwg gyntaf, felly, mae'r toeth o gyhoeddiadau a gafwyd yn ystod y cyfnod hwn fel pe bai'n gwrth-ddweud y pwyslais a roddir gan ddamcaniaethau am genedlaetholdeb ar rym y wasg wrth hybu mudiad cenedlaethol.

Byddaf yn dadlau i'r gwrthwyneb, sef nad yw amgylchiadau'r wasg Gymraeg yn ail hanner y 19eg ganrif yn gwrthbrofi'r damcaniaethau hynny, ac yn wir bod y cyferbyniad rhyngddi a'r wasg Saesneg yn awgrymu bod damcaniaethau Anderson a Billig yn ddilys. I ddechrau, awgrymir gan y traethawd hwn nad oedd y cyfnod hwn yn 'oes aur' i'r wasg Gymraeg i'r graddau a dybir gan nifer o sylwebwyr. Mae lle i amau a oedd gwerthiant y cyfnodolion mor uchel ag y tybir, ac fe gyrhaeddodd y cyfnod hwn ei anterth yn rhy hwyr yn y ganrif i fod wedi cael fawr o ddylanwad ar drigolion y rhan fwyaf o Gymru. Yn ogystal, awgrymaf bwysigrwydd cyfosod y wasg Gymraeg a'r wasg Saesneg a'r modd yr oedd yr olaf hefyd yn tyfu mewn grym a dylanwad yn ystod y cyfnod dan sylw. Gwelodd y cyfnod hwn bedwar datblygiad a gyfrannodd at dwf y wasg Gymraeg, sef llacio'r trethi ar wybodaeth, datblygiadau i dechnoleg argraffu, datblygiad y rhwydwaith rheilffyrdd, a thwf Ymneilltuaeth yng Nghymru. Serch hynny, roedd y tri cyntaf yn ddatblygiadau a oedd hefyd yn hwb i allu'r wasg Saesneg i gymhathu'r Cymry o fewn y genedl-wladwriaeth Brydeinig; ac roedd tra-arglwyddiaeth yr Ymneilltuwyr yn arwydd o wendid masnachol y wasg Gymraeg yn hytrach na'i chryfder. Dadleuaf felly nad oedd y wasg Gymraeg yn ddigon cryf i gwrdd â meini prawf damcaniaeth Anderson; nid oedd yn wasg ddyddiol, nid oedd yn wasg weladwy, ac nid oedd yn genedlaethol ei chyrhaeddiad. Serch hynny, byddaf hefyd yn nodi bod y grymoedd masnachol a oedd yn pwysu ar y wasg Gymraeg wedi ei gorfodi i chwilio am gynulleidfa ar draws ardal ddaearyddol ehangach na'r wasg Saesneg drefol, a bod defnyddio disgwrs cenedlaetholdeb Cymreig yn fodd o bwysleisio i'r gynulleidfa wasgaredig honno y dylai newyddion cenedlaethol fod o

ddiddordeb iddynt. Bydd y bennod hon yn ymdrin yn bennaf â grym *gweledol* a *symbolaidd* y wasg Gymraeg, bydd y nesaf yn mynd i'r afael â'r *disgwrs* a ddefnyddir.

### *Yr Oes Aur*

Roedd sylwebwyr ail hanner y 19eg ganrif, yn ogystal ag ysgolheigion cyfoes, yn gytûn bod hwn yn gyfnod a gynrychiolai benllanw yn hynt cyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywed 'Tafolog' yng nghylchgrawn Y *Geninen* yn 1883: "... er dechreuad y byd, ni fu cymaint o siarad a *darllen* Cymraeg drwy y byd ag sydd y dydd hwn."<sup>209</sup> (Tafolog, 1883, p. 103) Traethwyd yr un farn yng ngholofnau'r *Times* yn 1887 wrth i J.E. Vincent nodi'r canlynol am dwf newyddiaduraeth Cymraeg:

The growth of journalism, and of vernacular journalism in particular, in the Principality has of late years been little short of phenomenal. My impression, indeed, is that Wales supports more journals in proportion to its population than any other part of the civilized world. The fact is that vernacular journalism and the Bible form, roughly speaking, the entire literary *pabulum* of the people. (Vincent, 1887, p. 8)

Mae Aled Gruffydd Jones (1988, p. 96), Philip Henry Jones (1998, p. 174), Geraint H. Jenkins (1999, p. 19), D. Tecwyn Lloyd (1980, p. 19), a Robert Smith (2000, p. 269) yn nodi bod y wasg Gymraeg yn ei hanterth yn ystod y cyfnod hwn, er bod rhywfaint o ansicrwydd yn eu mysgr pryd yn union y dechreuodd ac y gorffennodd yr oes euraid; mae'n amrywio rhwng canol yr 1850au ac 1875, a'i diwedd rhwng 1890 ac 1914. Er bod Huw Walters yn dweud ei fod

---

<sup>209</sup> Pwysleisiodd Beriah Gwynfe Evans yr un peth, wrth roi tystiolaeth o flaen Y Comisiwn Brenhinol ar Addysg yn 1886-87: "... In Welsh homes, however humble or however rich, there is scarcely a shelf without its Bible, and its magazine, and in the native language" (Evans, 1888, p. 5).



bellach yn “ystrydeb” cyfeirio at y 19eg ganrif fel ‘oes aur’,<sup>210</sup> dywed hefyd “eto i gyd, hon yw’r ‘ganrif fawr’ o safbwynt maint y cynnyrch, beth bynnag a ddywedir am ei ansawdd...” (Walters, 1999, p. 348)

Ar yr olwg gyntaf, mae ffigyrau cyhoeddi’r cyfnod yn cadarnhau y bu hwn yn gyfnod arbennig o fyrlymus ym myd cyhoeddi cylchgronau, llyfrau, a papurau newydd Cymraeg. Ond darlun cyfyngedig a geir, a rhaid pwysu’n aml iawn ar ffigyrau annibynadwy’r cyhoeddwy eu hunain. Anfynych y trafodwyd cylchrediad, gan y gallai cyhoeddwy eraill fanteisio ar unrhyw fylchau yn y farchnad er mwyn cyhoeddi eu papurau eu hunain, ac ychydig iawn o’r llyfrau cownt sydd wedi goroesi. O ganlyniad rhaid dibynnu ar froliant a ddeilliai o ymgecru enwadol y cyhoeddwy eu hunain (P.H. Jones, 1986, p. 10), ac o ganlyniad mae nifer o’r cyfeiriadau yn adlewyrchu gobeithion yn hytrach na realiti. Broliai papurau gylchrediadau mawrion heb unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny. E.e. mae’r geiriau “Cylchrediad aruthrol” yn ymddangos yn fynych yn *Llais y Wlad* rhwng 25 Rhagfyr 1874 (p. 4) a 30 Tachwedd 1877 (p. 4), a hynny mewn llythrennau breision, ond nid oes unrhyw awgrym o union nifer y copïau a werthwyd. Mynnai’r *Chwarelwr*, gan grybwyll cynlluniau i newid gwedd y papur er mwyn sicrhau bod y cylchrediad “yn gannoedd yn fwy”, fod y cylchrediad “eisoes yn rhifo ei filoedd, ond gall yn hawdd ddyblu gydag ychydig o ymdrech”. Ni lwyddwyd yn hynny o beth, oherwydd caeodd y papur gwta deufis yn ddiweddarach (*Y Chwarelwr*, 1877, p. 4). Nodir yn yr un modd ym mhapur newydd y *Dywysogaeth*, wrth ei lansio yn 1870, eu bod nhw’n bwriadu gwerthu 5,000 o gopïau i gychwyn. Dylid nodi hefyd fod hwn yn bapur newydd Eglwysig, ac felly, yn eu geiriau nhw eu hunain, yn “rhwyfo yn erbyn y llif” (*Y Dywysogaeth*, 1870, p. 1). Gallai rhai

---

<sup>210</sup> Gellir olrhain yr honiad mai dyma ‘oes aur’ y wasg Gymraeg, meddai Philip Henry Jones, i ymchwil G.J. Williams yn y 1950au, gan ychwanegu ei fod wedi dylanwadu’n drwm ar ei olynwyr yn y maes (Jones, 1999, p. 297). Dywed G.J. Williams yn 1970 nad oes ond angen ymweld ag unrhyw lyfrgell er mwyn gweld bod “maint yn cynnyrch” yn ystod y cyfnod hwnnw “yn gwbl syfrdanol”. Mae’n nodi fod ganddo, fel un a fu’n byw ar ddechrau’r ganrif, brofiad personol o’r bwrlwm diwylliannol a oedd y tu cefn i’r papurau newydd a’r cylchgronau Cymraeg bryd hynny (Williams, 1970, p. 4).

cyfnodolion Ymneilltuol a Rhyddfrydol eu gogwydd honni cylchrediad llawer mwy. Er enghraifft, roedd S.R yn amcangyfrif i'w *Gronicl* werth dros filiwn o gopïau o fewn deng mlynedd i'w gyhoeddi gyntaf yn 1843 (Williams, 1950, p. 36). Ysgrifennodd Thomas Levi, golygydd *Trysorfa y Plant*, at y *Goleuad* yn 1870 ac eto yn 1872 er mwyn cywiro eu hystadegau am werthiant ei gylchgrawn, gan nodi iddo godi o 29,288 yn 1869 i 30,400 yn 1870 (Levi, 1870, p. 4), ac eto i 30,610 yn 1871. Roedd “eleni yn llawer uwch eto”<sup>211</sup> (Levi, 1872, p. 13). Yn ogystal â denu hysbysebwy, crybwyllir cylchrediad er mwyn rhoi pwysau ar ddarllenwyr neu aelodau enwad i wneud mwy o ymdrech i gefnogi. Ar drothwy'r oes aur, nodir yn un o bapurau newydd mwyaf poblogaidd de Cymru, *Seren Cymru*, fod eu cylchrediad yn cymharu'n anffafriol â *Herald Gymreig* y gogledd, oedd yn gwerthu deuddeg i bymtheg mil. Anogir y darlennydd i ymdrechu i godi cylchrediad *Seren Cymru* i bum neu chwech mil er mwyn adfer eu balchder deheuol<sup>212</sup> (1857, p. 7).

Ceir yr argraff felly mai prif fwriad datgan cylchrediadau'r cyfnod oedd er mwyn denu darllenwyr a hysbysebwy, neu er mwyn symbylu gwerthiant. Nid yw'r ffigyrau unigol hyn, hyd yn oed pe baent yn wir, o gymorth mawr i weld y darlun cyfan. Serch hynny, mae amcangyfrifon sy'n ystyried y wasg Gymraeg yn ei chyflawnder hefyd ar gael. Erbyn 1860, dywed y *Traethodydd* eu bod nhw'n barnu “fod y wasg Gymraeg, rhwng pob peth, yn anfon allan dros 100,000 o gopïau yn gyson bob mis” (Anhysbys, 1860, p. 210). Roedd hynny wedi cynyddu eto erbyn 1867, wrth i Thomas Rees ddatgan am y wasg Gymraeg: “.. the aggregate circulation of the magazines and papers amount to 120,000” (Rees, 1867, p. 48). Dywed

---

<sup>211</sup> Mae Thomas Stephens o Ferthyr yn nodi ffigurau gwerthu rhai cylchgronau tua 1851. Dywed fod y *Geiniogwerth* yn gwerthu 12,900, y *Cronicl* 7,320, a'r *Traethodydd* 1,600 (Lloyd, 1980, p. 10).

<sup>212</sup> Cwynai *Seren Cymru* eto yn 1881 y gallai ei gylchrediad yn hawdd ddyblu ond bod “llawer o Fedyddwyr i'w cael na roddant ond y gefnogaeth wanaf i'r Seren, tra y cefnogant newyddiaduron eraill â'u holl egni” (1881, p. 4). Ceir dadansoddiad manwl o werthiant y *Drysorfa* ym mhob sir yng Nghymru, yn ogystal â Lerpwl, Manceinion a Birmingham, yn y *Goleuad* yn 1874. Cwynwyd bod “y De yn druenus o eiddil yn ei chymorth i brif gyhoeddiad y corff”. Awgrymid yn ogystal fod mwy o gopïau wedi eu dosbarthu mewn rhai siroedd nad oedd yno o aelodau o'r enwad, ac nad oedd aelodau mewn rhannau eraill o'r wlad yn tynnu eu pwysau (1874, p. 4).

adroddiad ar addysg ganolradd ac uwch yng Nghymru yn 1881 fod deuddeg papur newydd, 18 o gylchgronau, a dau gyhoeddiad chwarterol, a bod ganddynt gylchrediad o 74,500, 90,300 a 3,000. Yn ogystal, nodir gan un tyst bod £100,000 wedi ei wario ar lenyddiaeth Gymraeg o bob math yn 1875 (*Report Into Higher Education in Wales*, 1881, p. xlvii). Honnai Henry Richards yn 1866 y cyhoeddiad 38 o gylchgronau Cymraeg yn y flwyddyn honno, gyda chylchrediad o tua 120,000. Serch hynny cyfaddefa nad yw'r rhestr yn ei feddiant yn gyflawn, a does dim awgrym o'i ffynhonnell. Awgryma hefyd mai amddiffyn Cymru yn erbyn camsyniadau'r Saeson y mae yma: "I know of no better test of this in reference to any people than the quantity of literature they consume... very few Englishmen seem to know that the Welsh have a large living literature, and that at no time has the Welsh press been so active as it is at this moment" (Richard, 1866, p. 36). Mae'n annhebyg felly y gellid dibynnu yn llwyr ar y ffigyrau.

Un o bapurau newydd amlycaf y cyfnod oedd y *Genedl Gymreig*, a honnodd wrth lansio y byddai ei rifyn cyntaf yn cyrraedd deng mil o dderbynwyr (Anhysbys, 1877, p. 4). O fis Awst 1889 ymlaen gosodwyd tystysgrif gan W.J. Williams, archwilydd Stryd y Farchnad, Caernarfon, ar frig tudalen flaen y papur yn nodi ei fod wedi edrych ar lyfrau'r cwmni ar gyfer 1889 a dod i'r casgliad bod gan y *Genedl* a'i chwaer papur y *Werin* gylchrediad cyfartalog o 20,508 (*Y Genedl Gymreig*, 1889, p. 1), ac roedd yr hysbysiad yno (gan gyfeirio at 1889 o hyd) tan 14 Rhagfyr 1892<sup>213</sup> (p. 1). Mae papur newydd y *Werin* ar 3 Medi 1892 yn dyfynnu cyfarchiad gan Beriah Gwynfe Evans i gyfarfod blynyddol cyntaf cyfranddalwyr Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, lle mae'n honni bod cylchrediad y papur newydd hwnnw a'r *Genedl Gymreig* bellach wedi cyrraedd 22,078 (Anhysbys, 1892, p. 4). Daw'r ffigyrau mwyaf trawiadol ynglŷn â gwerthiant papurau Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig o dystiolaeth

---

<sup>213</sup> Yn yr un modd â'r *Genedl*, argraffwyd testun tystysgrif swyddogol er mwyn brolio bod cylchrediad yr *Herald Cymraeg* yn 1899 wedi cynyddu 235,984 rhifyn dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw, serch hynny, yn nodi'r union gylchrediad (1899, p. 3).

Beriah Evans o flaen Y Comisiwn Brenhinol ar Addysg yn 1886-87. Yno mae'n nodi bod 17 papur newydd Cymraeg yn cael eu cyhoeddi, a bod cyfanswm eu cylchrediad yn 120,000. Mae'r cylchrediad isaf yn 1,500, tra bod y *Genedl Gymreig* yn hawlio'r cylchrediad uchaf o hyd, sef 23,000. Roedd cylchgronau Cymraeg yn gwerthu cyfanswm o 150,000 o gopïau, a'r mwyaf ohonynt â cylchrediad o 37,000. Mae'n amcangyfrif bod gwerth y diwydiant, "estimated by one of the leading Welsh firms", yn uwch nag £200,000 (Evans, 1888, pp. 4-5). Ar yr olwg gyntaf mae'r rhain yn ffigyrau trawiadol iawn. Ond rhaid cadw mewn cof wrth gwrs mai dadlau o *blaid* addysg Gymraeg yr oedd Beriah Gwynfe Evans, yn rhinwedd ei swydd fel Ysgrifennydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, ac felly y byddai wedi bod o fudd iddo roi'r sglein orau posib ar dystiolaeth o'r fath. Wrth reswm, hefyd, buasai'n ddibynnol ar y gweisg eu hunain am amcangyfrif o'u cylchrediad. Ar sail yr ychydig ffigyrau cylchrediad sydd wedi goroesi, mae yna le i gredu bod Evans, a ddaeth yn ddiweddarach yn brif olygydd y *Genedl Gymreig*, wedi camarwain y comisiwn ynglŷn â chylchrediad y papur hwnnw, drwy gyfuno cylchrediau *Y Genedl*, *Y Werin* a hefyd y *North Wales Observer*. 11,600 oedd gwerthiant uchaf *Y Genedl*, a hynny yn ystod mis Mawrth 1888. Cyrhaeddodd y *Werin* ei gylchrediad uchaf, sef 11,000, ym mis Chwefror 1889 (Thomas, 1986, p. 20). Mae'r twyll ynglŷn â gwerthiant y *Genedl* yn awgrymu bod lle i amau gweddill ei ffigyrau yn ogystal. Yr awgrym a geir felly yw bod gwerthiant hyd yn oed y papurau newydd Cymraeg mwyaf blaenllaw yn ystod y cyfnod hwn yn is nag yr honnir.

Mae ansicrwydd yn ogystal ynglŷn â gwerthiant papur newydd Cymraeg mwyaf blaenllaw yr oes aur, *Baner ac Amserau Cymru*. Honnid tan yn lled-ddiweddar fod cylchrediad *Baner ac Amserau Cymru* wedi cyrraedd 50,000 ar ei uchaf yn ystod y cyfnod hwn (Williams, 1985, p. 213). Roedd hyn yn "anghredadwy" yn ôl Ieuan Wyn Jones – yn ôl perchnogion Gwasg Gee yn yr 90au, ni allai'r wasg fod wedi cynhyrchu mwy na tua 10,000 o'r un rhifyn (Jones, 1998,

p. 14). Awgryma Philip Henry Jones mai camddealltwriaeth oedd y ffigwr “amhosib o uchel” a ddeilliodd o ymddangosiad Howel Gee o flaen ymchwiliad y llywodraeth i Ryfel y Degwm yn 1887. Awgryma ei fod wedi honni mai ‘fifteen thousand’ oedd y gwerthiant, a hynny rhwng y papur dydd Mercher a’r un penwythnosol, ond bod ei dystiolaeth wedi ei chamgofnodi. Nid oes cofnodion pendant o gylchrediad y papur wedi goroesi, ond ar sail nifer y papurau a wlychwyd cyn argraffu, mae Jones yn amcangyfrif mai tua 14,500 oedd cyfanswm gwerthiant y *Faner* bob wythnos a hynny ar ei uchaf<sup>214</sup> (Jones, 1986, pp. 10-1).

Am ddarlun o gyflwr y wasg Gymraeg tua diwedd cyfnod yr ‘oes aur’, gellir troi at femorandwm ar gyfnodolion Cymreig a baratowyd gan D. Lleufer Thomas ar gyfer y Comisiwn Brenhinol ar Dir Cymru a Sir Fynwy, a gyhoeddwyd yn 1896. Er ei fod yn canolbwyntio’n bennaf ar yr hyn oedd gan gylchgronau Cymraeg i’w ddweud am yr ymrafael rhwng y gweithwyr a’r meistri tir, mae hefyd yn manylu ar nifer y papurau newydd a chylchgronau Cymraeg oedd mewn bodolaeth yng Nghymru, sef 32 cylchgrawn a 25 papur newydd. Noda yn ogystal gylchrediad y *Drysorfa*, a *Thrysorfa y Plant*, sef 5,001 a 40,799<sup>215</sup> (Thomas, 1896, p. 107). Awgryma Aled Gruffydd Jones fod y ffigyrau cylchrediad a gynigir gan y cyhoeddwr eu hunain yn rhy uchel, am mai’r nod yn y bôn oedd gwneud argraff ffafriol ar hysbysebwr<sup>216</sup> (Jones, 1993, pp. 95-6). Mae cryn ansicrwydd felly ynglŷn ag union

---

<sup>214</sup> Roedd Gwasg Gee wedi cynhyrchu 1,500 copi o rifyn cyntaf y *Faner* ym mis Mawrth 1857, cyn codi i ddwy fil ym mis Ebrill a syrthio i 1,350 ym mis Rhagfyr. Erbyn Tachwedd 1860, ac yn sgil yr uno gyda’r *Amserau*, roedd y papur yn gwerthu 3,260 o gopïau. Erbyn 1869 roedd y gwerthiant wedi cynyddu yn sylweddol a cyhoeddwyd 6,000 o gopïau o’r *Faner* ar ddydd Mercher a 5,000 copi ar y penwythnos. Yn 1877 cyhoeddwyd 5,500 copi yn ystod yr wythnos, a 9,000 ar y penwythnos. Rhwng 1879 ac 1889 cyhoeddwyd 13,000 o gopïau’r wythnos rhyngddynt. Nid oes dystiolaeth bendant oddi ar hynny, ond awgrymir gan ffynonellau eilaidd na syrthiodd y cylchrediad yn ddifrifol tan y Rhyfel Byd Cyntaf (P.H. Jones, 1986, pp. 10-1).

<sup>215</sup> O ran cyhoeddi llyfrau yng Nghymru, gellid cyfeirio ar dabl gan Charles Ashton, fersiwn diwygiedig o un a ymddangosodd yn adroddiad Comisiwn y Tir, a gyhoeddwyd yn *The Welsh People* (Rhys & Brynmor-Jones, 1906, p. 535), sy’n nodi bod 8,325 o lyfrau wedi eu cyhoeddi yng Nghymru rhwng 1801 ac 1895, a 3,188 yn Saesneg. Ond mae’r awduron yn nodi bod rhywfaint o amwyster ynglŷn â’r ffigyrau hyn, yn benodol felly oherwydd bod Comisiwn y Tir wedi profi “very great difficulty in obtaining definite information with reference to Welsh publications generally” (Rhys & Brynmor-Jones, 1906, p. 535).

<sup>216</sup> Serch hynny, mae hefyd yn nodi y byddai pob papur newydd yn cael ei ddarllen gan saith neu wyth o bobl yn ystod y cyfnod dan sylw, mewn tafarndai a llyfrgelloedd, ac fe fyddai nifer yn gwrandao ar eraill yn darllen y papur

werthiant cyfnodolion Cymraeg. Er bod y cyfnod hwn yn amlwg yn rhagori ar unrhyw un arall o ran faint o ddarllen yn Gymraeg a fu ymysg poblogaeth y wlad, nid oedd cymaint o sglein ar yr oes aur ag yr oedd rhai o ffigyrau'r cyhoeddwyr eu hunain yn ei awgrymu.

Serch hynny, mewn trafodaeth ar genedlaetholdeb mae angen edrych y tu hwnt i ystyriaethau meintiol. O'i ystyried yng nghyd-destun damcaniaethau Anderson, Billig, ac Eisenstein, un o'r ffactorau mwyaf amlwg i'w ystyried yw'r cyfosodiad rhwng gallu'r wasg Gymraeg i atgynhyrchu cenedlaetholdeb Cymreig a gallu'r wasg Saesneg i hybu cenedlaetholdeb Prydeinig. Yn ogystal, rhaid ystyried i ba raddau yr oedd yn cwrdd â meini prawf damcaniaeth Anderson; a oedd yn wasg genedlaethol i Gymru (ynneu yn lleol, enwadol neu Brydeinig), a oedd yn wasg dyddiol, ac a oedd yn wasg weladwy? Wedi ystyried yr elfennau hyn, credaf nad oedd yn sylfaen hirdymor ar gyfer twf cenedlaetholdeb yn ystod y cyfnod dan sylw. Tŷ wedi ei adeiladu ar y tywod oedd 'oes aur' y wasg Gymraeg i raddau helaeth. Y pedwar prif ffactor a'i hybodd yn y tymor byr oedd llacio'r trethi ar wybodaeth, datblygiadau i dechnoleg argraffu, dyfodiad y rheilffordd, ac Ymneilltuaeth. Ond roedd y grymoedd masnachol, llywodraethol a chrefyddol hyn yn ddinistriol iddi yn y pen draw am eu bod hefyd o fantais wrth hybu gwasg Saesneg, Lundeinig a rhad a greai ymdeimlad o berthyn i gymuned ddychmygedig Brydeinig ehangach ar draul un Gymreig a Chymraeg ei hiaith.

### *Llacio'r Trethi ar Wybodaeth*

Deilliodd y rhyddid masnachol a esgorodd ar dwf ffrwydrol y wasg Saesneg a Chymraeg fel ei gilydd o'r syniadau Rhyddfrydol a oedd yn greiddiol i'r broses o foderneiddio ac a esgorodd ar y cenhedloedd modern cyntaf. O gyfnod y Tuduriaid, bu'r argraffwasg yn arf yn nwylo'r

---

ar eu rhan (A.G. Jones, 1988, p. 98). Dywed Robert Owen Jones ei fod yn tybio bod pob copi yn hanner cyntaf y ganrif yn cyrraedd clustiau tua ugain o bobl, oherwydd yr arfer o'u darllen yn gyhoeddus (Jones, 1997, p. 258).

rheini oedd yn dadlau yn erbyn grym yr eglwys a'r wladwriaeth. Tyfodd pwysigrwydd y llyfr printiedig, ac, o'r 18fed ganrif ymlaen, y papur newydd, yn gyfochrog â thwf y dosbarth canol, na allai fuddsoddi arian a gwneud elw heb y math o rannu gwybodaeth ar raddfa dorfol a gynigiwyd gan y wasg (Williams, 1998, p. 28). Roedd gan syniadau rhyddfrydol ynglŷn â'r wasg hefyd safle canolog wrth sicrhau bod llywodraethau'n ufuddhau i farn y cyhoedd. Yn nhyb Jurgen Habermas, roedd bodolaeth y 'sffêr gyhoeddus' a ganiataodd dwf y genedl-wladwriaeth fodern yn ganlyniad uniongyrchol i dwf cyfalafiaeth, seneddau, trefi, a'r dosbarth canol (isadeiledd y genedl wladwriaeth fodern),<sup>217</sup> ond hefyd y cyfryngau torfol, oherwydd yr angen i gyfathrebu gwybodaeth a'i throsglwyddo i bawb, mewn modd a oedd yn rhydd rhag ymyrraeth y llywodraeth: "When the public is large, this kind of communication requires certain means of dissemination and influence; today, newspapers and periodicals, radio and television are the media of the public sphere"<sup>218</sup> (Habermas, 1995, pp. 235, 238-39; Habermas,

---

<sup>217</sup> Ni allai 'sffêr cyhoeddus' a gynrychiolai farn y cyhoedd fodoli dan oruchwyliaeth yr hen drefn ffiwdal, oherwydd roedd unrhyw fath o drafodaeth rydd ynglŷn â grym yn cael ei ystyried yn fygythiad iddynt hwy ac yn cael ei ffrwyno. Daeth y ddamcaniaeth yma i'r amlwg yn yr Almaen yn 1962 mewn llyfr o'r enw *Strukturwandel der Öffentlichkeit*, a gyfieithwyd i'r Saesneg yn 1989 (Habermas, 1989 [1962]). Dadl Habermas yn y llyfr hwn oedd bod y sffêr cyhoeddus yn barth o fywyd cyhoeddus lle mae modd cyfnewid gwybodaeth, codi cwestiynau o bwys cyffredinol, a ffurfio barn gyhoeddus - "a realm of our social life in which something approaching public opinion can be formed" (Habermas, 1964, p. 49). Mae'r sffêr cyhoeddus yn bodoli lle bynnag y mae rhydd hant i ddinasyddion ddod at ei gilydd a thrafod materion sydd o bwys i'r cyhoedd, (a hynny wyneb yn wyneb - heb unrhyw gyfyngiadau arnynt (Habermas, 1996, p. 92).

<sup>218</sup> Mae damcaniaeth Habermas wedi ei beirniadu'n hallt oherwydd ei fod yn ystyried cyfnod pan nad oedd menywod, yr anllythrennog, y tlawd na'r gwledig yn rhan o'r 'sffêr cyhoeddus' fel un delfrydol. Gan edrych ar Brydain, yr Almaen a Ffrainc, mae Habermas yn dweud bod y sffêr cyhoeddus wedi dod i'r amlwg yn yr 17eg ganrif, wedi cyrraedd ei uchafbwynt yn y 18fed ganrif, ac wedi dirywio yn y 19eg a'r 20fed ganrif. Mae'r feirniadaeth o ddamcaniaeth Habermas wedi canolbwyntio yn bennaf ar gyfyngiadau'r 'sffêr cyhoeddus bourgeois' y mae'n ei ddisgrifio. Dim ond dosbarth canol gwrywaidd, gweddol gefnog, llythrennog sydd yn cael mynediad: "... this historical public sphere was an essentially bourgeois space, which largely excluded the working class, women and ethnic minorities" (Golding & Murdock, 2000, p. 77). Dywed rhaid academyddion ei bod braidd yn eironig bod damcaniaeth sy'n pwysleisio delfryd trafodaeth agored yn cael ei chyfyngu i garfan weddol gul o gymdeithas (Fraser, 1992, p. 115). Yn gysylltiedig â hynny, mae nifer o academyddion hefyd wedi beirniadu delfryd Habermas o un 'cyhoedd' yn cyrraedd consensws drwy ddadlau rhesymol. Maent yn dadlau nad yw cael un "farn gyhoeddus" o reidrwydd yn beth iach - ac y dylai'r cyfryngau gyfrannu at a rhoi llais i barth cyhoeddus sydd yn fwy amrywiol o ran ei ddiddordebau a'i safbwyntiau cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol: "... the problem is not only that Habermas idealizes the liberal public sphere but also that he fails to examine other, nonliberal, nonbourgeois, competing public spheres" (Fraser, 1992, p. 115). Mae Curran yn dadlau na ddylai fod angen i'r cyhoedd fel un endid cyffredin orfod "cydsynio" i weithredoedd y grwpiau hyn. Dylai'r cyfryngau fod yn llwyfan i nifer o wahanol garfanau mewn cymdeithas yn hytrach na'r dosbarth canol yn unig. "If the role of the media is to be conceived in terms of representing adequately different social interests, its entertainment needs to give adequate expression to the full range of cultural-political values in society" (Curran, 1991, p. 34). Mae damcaniaeth Habermas fel ag y mae yn gofyn i ni ystyried un garfan o fewn cymdeithas yn benodol gan anwybyddu'r gweddill. Yn ôl Fraser ni ddylid canolbwyntio ar un dosbarth o fewn cymdeithas wrth

1964; Habermas, 1996, p. 92). Yn hynny o beth mae damcaniaeth Habermas yn dilyn yn ôl traed rhai o athronwyr mwyaf dylanwadol ideoleg rhyddfrydiaeth yr oedd eu syniadau yn greiddiol i greadigaeth cenedloedd modern, e.e. John Locke, a ddadleuodd yn ei waith *Two Treaties* y dylai llywodraethau gael eu hawdurdod i reoli gan y bobl yn hytrach na chan awdurdod dwyfol (Locke, 1689). Yn ôl y dybiaeth hon, roedd y farchnad rydd yn sicrhau bod rhwydd hynnt i bob unigolyn gael dweud ei ddweud yn ogystal: “If a viewpoint is missing in the press, this is only because it lacks a sufficient following to sustain it in the marketplace” (Curran, 2009, p. 326). Cyn 1840 roedd gan y wasg enw drwg; roedd naill ai yn cael ei chyhuddo o fod ym mhocedi gwleidyddion, neu o geisio cynhyrfu chwyldro ymysg y bobl. Serch hynny, erbyn canol y 19eg ganrif, ac o dan ddylanwad ideoleg ryddfrydol newydd athronwyr radicalaidd megis Jeremy Bentham a John Stuart Mill, ystyriwyd y wasg yn rym cymdeithasol a gwleidyddol nerthol mewn cymdeithas, â’r un faint o awdurdod a’r Arglwyddi Lleyg ac Eglwysig a Thŷ’r Cyffredin – y ‘bedwaredd ystad’, fel y’i galwyd.<sup>219</sup> Rhan o genhadaeth y meddylfryd Rhyddfrydol newydd hwn oedd llacio rheolaeth y llywodraeth ar y wasg. Yn y 1830au bu Bentham a Mill yn ymgyrchu’n ddiwyd o blaid gwasg rydd ac o blaid dod â threth y llywodraeth ar bapurau newydd i ben ac, o ganlyniad, gostyngwyd y dreth ar bapurau newydd i geiniog yn ystod y degawd hwnnw (Boyce, 1978, pp. 19-20, 22-3).

---

geisio gwireddu delfryd y sffêr cyhoeddus, ond yn hytrach geisio cynnwys pob carfan: “... an adequate conception of the public sphere requires not merely the bracketing, but rather the elimination, of social inequality... a multiplicity of publics is preferable to a single public sphere both in stratified societies and egalitarian societies” (Fraser, 1992, p. 137). Serch hynny, mae Golding a Murdock yn dadlau ei fod yn fodel sy’n cynnig egwyddor bwysig. Mae’n ‘ffon fesur’ - “highly influential” a “worth retaining” - er mwyn mesur cyfraniad y cyfryngau torfol mewn gwledydd democrataidd (Golding & Murdock, 2000, p. 77). Dywed Stevenson ei fod yn parhau yn berthnasol wrth ystyried y cyfryngau electronig hyd heddiw: “Habermas’s study of the emergence of the bourgeois public sphere remains germane” (Stevenson, 2002, pp. 47-48).

<sup>219</sup> Honnai’r *Times*, y mwyaf blaenllaw ymysg y papurau newydd hynny a gynrychiolai fudd y dosbarth canol rhyddfrydol newydd, ei fod yn rhydd rhag dylanwad y llywodraeth, a’i fod yn geisio darparu ar gyfer y ‘cyhoedd’ (sffêr cyhoeddus a oedd yn parhau yn gyfyng iawn) y wybodaeth a oedd ei hangen arnynt er mwyn dod i farn cytbwys ar faterion gwleidyddol (Boyce, 1978, pp. 19-20, 22-3).



Erbyn degawdau olaf yr 20fed ganrif daeth academyddion blaenllaw yn fwy amheus o'r dadansoddiad Rhyddfrydol hwn o hanes (gan sylweddoli bod llai a llai o gwmnïau mawrion wedi monopoleiddio y wasg).<sup>220</sup> Nodwyd eisoes mai nod ideoleg rhyddfrydiaeth oedd cyfiawnhau trosglwyddiad grym o ddwylo'r grymoedd ffiwdal i ddwylo'r bourgeoisie, gan honni mai'r bwriad oedd sicrhau grym democrataidd i'r mwyafrif (Wallerstein, 1997, pp. 4-7). Ceir tystiolaeth bellach o hynny wrth ystyried yr hyn a oedd y tu cefn i'r ddadl dros lacio'r trethi ar wybodaeth. Dywed James Curran fod cofnodion Tŷ'r Cyffredin yn datgelu mai cyfiawnhad yn y bôn oedd delfrydau Rhyddfrydol y cyfnod dros ddiddymu trethi a fethodd â ffrwyno'r wasg anghyfreithlon, radicalaidd, dosbarth gweithiol, a oedd yn lledaenu syniadau chwyldroadol ar ddechrau'r ganrif ar draul rhai a fyddai o fudd i'r dosbarth canol (Curran, 2009, pp. 4-5). Erbyn 1836 roedd gan y papurau newydd radical mwyaf poblogaidd gylchrediad o ddau gan mil o gopiâu – llawer yn uwch na saith mil y *Times*. Doedd y dreth ddim wedi llwyddo i gyflawni'r hyn a fwriedid ganddi (A.G. Jones, 1987, p. 4) Y ffordd orau o wrthdroi hynny, sylweddolwyd, oedd gostwng y trethi ar y papurau newydd cyfreithiol, dosbarth canol, Rhyddfrydol, a Llundeinig, a drwy wneud hynny ganiatáu iddynt gystadlu am yr un darllenwyr llai cefnog ac a oedd yn prynu papurau'r wasg radicalaidd. Yn unol â bwriad y llywodraeth, fe esgorodd diddymu'r trethi ar wybodaeth ar gyfnod o fasnacheiddio'r wasg. Canlyniad hyn oedd na allai'r wasg radicalaidd, a oedd yn cael ei hargraffu ar beiriannau elfennol a rhad, gystadlu â thwf y wasg brif ffrwd, a oedd yn rhatach i'w masgynhyrchu oherwydd bod modd buddsoddi mewn technoleg gostus. Roedd hynny'n gwneud y broses argraffu yn rhatach, yn caniatáu i'r papurau gyrraedd cynulleidfa fwy, ac yn denu hysbysebwyrr a oedd am gyrraedd y gynulleidfa gefnog, dosbarth canol yr oedd y papurau hyn yn ei thargedu (Curran, 1978, pp. 54-55, 57, 61, 67). Drwy sicrhau mai papurau prif ffrwd a gynrychiolai

---

<sup>220</sup> Serch hynny, roedd ambell i academydd, megis Stephen Koss, yn parhau i ddadlau'n frwd o blaid y safbwynt hwn tan yn lled-ddiweddar, gan gredu bod llacio'r trethi ar wybodaeth wedi rhyddhau'r wasg o afael cymorthdaliadau gwleidyddol (Koss, 1981).

safbwynt cymedrol y dosbarth canol a fyddai'n cael eu darllen gan y dosbarth gweithiol, gobeithiai'r llywodraeth feithrin teimlad o undod cenedlaethol ar draul ymraniadau dosbarth, a dinistrio'r rhwydwaith o bapurau radicalaidd oedd wedi hybu twf undebau llafur a gweithredu diwydiannol yn negawdau cyntaf y ganrif. Yn y bôn, meddai Curran, "both the proponents and opponents of state control of the press were concerned to ensure that the press provided institutional support for the social order." Roedd hyn yn arbennig o lwyddiannus. Yn dilyn gostwng y trethi, lledaenodd ideoleg ryddfrydol, genedlaetholgar oedd yn wfftio cydsafiad yn ôl dosbarth – yr union ideoleg honno a oedd o fudd i'r dosbarth canol:

The internationalist perspective of the early radical press, reflected in reports of working class struggles abroad, dissolved into an increasingly nationalistic and imperialistic coverage of foreign affairs that replaced the symbols of class conflict with the new affectual symbols of membership of a superior race and world power.<sup>221</sup> (Curran, 1978, p. 72)

Drwy ryddhau'r wasg o'r trethi ar wybodaeth, dechreuwyd ar oes o gyfathrebu torfol a fyddai yn hwb pellach i genedlaetholdeb Prydeinig.

Ni fydd y traethawd hwn yn trafod effaith y trethi ar wybodaeth ar y wasg Gymraeg yn fanwl, gan eu bod wedi eu trafod gan eraill eisoes. Ond mae rhywfaint o gefndir yn bwysig er mwyn gallu trafod y wasg Gymraeg yng nghyd-destun damcaniaethau blaenllaw am genedlaetholdeb

---

<sup>221</sup> Roedd yr Ymneiltuwy'r Rhyddfrydol yn ymwybodol o'r twf hwn yn y wasg fasnachol, ac yn ei gefnogi. Roedd hyd yn oed maint y papurau hyn yn arwydd o'u grym gwleidyddol a'u poblogrwydd newydd, fel y dangosai'r *Traethodydd* yn 1860: "Galwodd yr enwog Burke y wasg newyddiadurol yn 'Bedwaredd Ystâd' yn y deyrnas – hyny yw, mewn ychwanegiad at y Goron, yr Arglwyddi, a'r Cyffredin, ac os dywedai felly am baprau bychain ei ddyddiau ef, beth a ddywedasai yn bresennol am y lleni llydan llawnion a gyhoeddir wrth y degau o filoedd bob dydd, ac yn y rhai nid oes un dosbarth o'r gymdeithas wladol, nac un cylch o weithrediad personol, yn dianc heb gael sylwi arnynt a'u beirniadu?" (1860, p. 207).

yn ddiweddarach. Yn ôl T. Gwynn Jones, awdur cofiant Thomas Gee, y trethi ar wybodaeth oedd y prif reswm dros aflwyddiant cymaint o bapurau newydd Cymraeg yn hanner cyntaf y 19eg ganrif<sup>222</sup> (Jones, 1913, p. 160). Roedd effaith y trethi yn arbennig o lym yng Nghymru, yn rhannol am ei bod yn aml iawn yn anodd cael gafael ar ddigon o bapurau wedi eu stampio er mwyn gallu argraffu. Ac oherwydd cylchrediad isel cyhoeddiadau Cymraeg, a'r diffyg hysbysebion, roedd y trethi yn fwrn arbennig arnynt<sup>223</sup> (A.G. Jones, 1993, p. 62). Fel yn Lloegr, cafodd y dreth stamp yng Nghymru effaith groes i'r hyn yr oedd y llywodraeth yn ei ddeisyfu, gan hybu gwasg radicalaidd anghyfreithlon ar draul papurau masnachol a Rhyddfrydol. Roedd yr ychydig bapurau radicalaidd hyn yn y Gymraeg, gan mai dyna oedd iaith y gweithwyr (I.G. Jones, 1999, p. 483), ond roeddynt dan warchae parhaol.<sup>224</sup> Yn y cyfamser, roedd yr Ymneilltuwyr a gynrychiolai ysgogiad grymusaf y wasg Gymraeg yn ail hanner y 19eg ganrif, yn amharod i wrthwynebu'r trethi'n agored. Er bod elfennau mwy radicalaidd ynghlwm wrth

<sup>222</sup> Roedd treth o geiniog a dimai o 1753 ymlaen, a godwyd i ddwy geiniog yn 1790, ac i dair a hanner yn 1797, cyn codi i bedair ceiniog rhwng 1815 a 1836, a diddymu'r doll yn 1855. Roedd toll ar bapur hefyd, ac roedd bob taflen yn costio bron i geiniog. Yn 1789 cododd y dreth ar hysbysebion i dair swllt am bob hysbyseb, ac i dair swllt chwech ceiniog yn 1815. Parhaodd y doll ar hysbysebion tan 1861 (Rees, 1962, pp. 305-4).

<sup>223</sup> Cyfyng iawn oedd gwerthiant papurau Saesneg wedi eu stampio yn hanner cyntaf y ganrif, heb son am rai Cymraeg. Gellid olrhain eu gwerthiant yn ôl faint o bapur stamp a werthwyd iddynt gan y Swyddfa Stamp hyd nes diddymu'r dreth yn 1854. Er enghraifft, dyma'r ffigyrau ar gyfer papurau rhanbarthol Cymru o'i gymharu â chenhedloedd eraill Prydain, pan oedd y trethi yn eu hanterth yn 1841:

Nifer	Llundain	Gweddill Lloegr	Yr Alban	Iwerddon	Cymru
Y Papurau	134	232	71	92	12
Gwerthiant (miloedd)	31,075	17,346	5,042	5,995	478
Fesul papur	232	75	71	65	40

Noda R.D. Rees bod yr holl bapurau newydd Cymraeg gyda'i gilydd yn talu llai o doll ar hysbysebion na rhai papurau unigol yn Lloegr. E.e. yn 1838 talodd saith o bapurau Cymry gyfanswm o £954 o dreth ar hysbysebion, tra bod y Manchester Guardian ar ei ben ei hun wedi talu £1,829 (Rees, 1962, pp. 319-20).

<sup>224</sup> Bu'n rhaid symud man argraffu y *Cylch-grawn Cymraeg* ddwywaith, o Drefeca i Fachynlleth, ac yna i Gaerfyrddin, oherwydd bod yr argraffwyr yn ofni cael eu herlyn. Daeth y cylchgrawn i ben ar ôl blwyddyn, gyda chyhoeddi rhifyn Ionawr-Chwefror 1794, oherwydd ei gynnwys radical, yn ogystal â phroblemau wrth ddosbarthu'r cylchgrawn ar draws Cymru a chasglu tâl gan y rheini oedd yn ymgymryd â'r gwaith. Cafodd Thomas Evans, golygydd papur radical arall, y *Drysorfa Gymmysgedig*, ei garcharu am ddwy flynedd ar droed y ganrif am annog gwrthryfel – fe'i cafwyd yn euog o ganu cân yn clodfori'r Ffrancwyr gwrthryfelgar. Honnwyd hefyd yn 1798 bod David Davies o Dreffynnon wedi ei orfodi i ddod â'i gylchgrawn Y *Geirgrawn* i ben wedi pwysau gan yr awdurdodau, ar ôl adolygu gwaith Tom Paine a chyhoeddi cyfieithiad Cymraeg o'r 'Marseillaise' (Walters, 1998, pp. 197-8). Cyhoeddwyd papur di-stamp dwyieithog, y *Gweithiwr/The Workman* ym Merthyr Tydful yn 1834 (A.G. Jones, 1993, p. 163), a phapur di-stamp Cymraeg yn unig, *Udgorn Cymru*, yn Hydref 1842, gan David John o Ferthyr Tudful, a gynrychiolodd Cymru yng nghynhadledd Cymdeithas Genedlaethol y Siarter yn haf 1840 (I.G. Jones, 1999, p. 480).

yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr, a adlewyrchid yng nghynnwys cyfnodolion megis *Seren Gomer* a'r *Diwygiwr*, tawelyddiaeth wleidyddol geidwadol a nodwedddai agwedd y mwyafrif o Ymneilltuwyr y cyfnod. Roeddynt yn wffio anhrefn y carfanau milwriaethus o fewn cymdeithas, ac yn parhau'n deyrngar i'r llywodraeth (Williams, 1980, p. 31). O ganlyniad, ysbeidiol oedd eu hymdrechion i gyhoeddi yn hanner cyntaf y ganrif. Ymysg y cynharaf yr oedd y *Trysorfa Ysprydol* (1799-1827), a gyhoeddwyd ar drothwy'r 19eg ganrif gan Thomas Charles o'r Bala, ynghyd â Thomas Gee yr hynaf, ac a osododd y patrwm ar gyfer yr holl gylchgronau crefyddol ac enwadol a nodwedddai gynnyrch y wasg Gymraeg yn ystod y ganrif honno<sup>225</sup> (Walters, 1999, p. 329). Buan iawn y gwelodd yr enwadau eraill werth cael eu cyhoeddiadau eu hunain.<sup>226</sup>

Yn dilyn gostyngiad yn y dreth stamp yn 1836 gwelwyd twf sylweddol yn nifer ac amrywiaeth y cyhoeddiadau Cymraeg.<sup>227</sup> Roedd y dreth is yn dal yn fwrn, serch hynny,<sup>228</sup> ac fe aeth perchnogion rhai papurau i eithafion er mwyn ei osgoi.<sup>229</sup> Arweiniodd diddymu'r dreth ar

---

<sup>225</sup> Cyhoeddwyd chwe rhifyn rhwng 1799 a 1801, cyn iddo gael ei atgyfodi o farw'n fyw dan y teitl *Trysorfa* rhwng 1809 a 1827. Er nad oedd yn arbennig o lwyddiannus, ac y bu'n rhai i Thomas Jones dalu am golledion y rhifyn cyntaf, dywed Huw Walters y bu'n ddylanwad ar yr afrif gyfnodolion enwadol a ddaeth ar ei ôl yn ystod y 19eg ganrif: "... it set a standard which many subsequent denominational periodicals aspired to attain but all too often failed to achieve" (Walters, 1998, pp. 198-9).

<sup>226</sup> Cyhoeddwyd yr *Eurgrawn Wesleyaidd* yn 1809, *Dysgiedydd* yr Annibynwyr yn 1821 (R.O. Jones, 1997, p. 258), a *Prophwyd y Jubili* ac *Udgorn Seion* y Mormoniaid yn 1846 ac 1849. Daeth *Seren Gomer*, y papur newydd Cymraeg cyntaf, a olygwyd gan Joseph Harris o Abertawe, i ben gwa flwyddyn ar ôl ei lansio yn 1814, cyn atgyfodi ar ffurf cylchgrawn yn 1818. Yn wahanol i nifer o gyhoeddwyd eraill y cyfnod, meddai'r golygydd, Joseph Harris, ar ben busnes a llwyddodd i osgoi nifer o'r problemau gyda thanysgrifwyr a dosbarthwyr a oedd wedi baglu ei ragflaenwyr, a nifer o'i olynwyr. O fewn blwyddyn i lansio'r cylchgrawn roedd yn cyhoeddi rhwng 1,500 a 2,000 o gopiau o bob rhifyn (Walters, 1998, pp. 199-200).

<sup>227</sup> Cyhoeddwyd *Yr Haul*, cylchrawn Eglwysig, *Y Newyddiadur Hanesyddol*, y *Wenynen*, yn ogystal â'r *Seren Ogleddol*, *Y Diwygiwr*, a *Chronicl yr Oes*, ac yr *Amserau* yn ddiweddarach yn 1843 (A.G. Jones, 1988, p. 96).

<sup>228</sup> Roedd Ymneilltuwyr Rhyddfrydol Cymru yn frwd o blaid diddymu'r trethi ar wybodaeth. Cwynai Samuel Roberts, Llanbrynmair, golygydd y *Cronicl*, ym Mai 1950 bod y Llywodraeth wedi bod yn rhy araf i dynnu y geiniog olaf oddi ar y doll: "Gwrthodwyd y cynnigiad pwysig a buddiol a wnaed yn ddiweddar yn y Senedd i ddiddymu y dreth ar bapyr, a stampiau y newyddiaduron. Y mae y llywodraeth yn dangos awydd mawr i ledaenu addysg a gwybodaeth, ac etto, yn trethu yn lled drwm gyfryngau addysg a gwybodaeth!" (Roberts, 1856, p. 659) Awgrymodd yr *Amserau* yn 1852 y byddai'r llywodraeth yn ennill diolchgarwch y wlad gyfan pe baent yn diddymu'r dreth yn llwyr (*Yr Amserau*, 1852, p. 2).

<sup>229</sup> Cyhoeddwyd papur wythnosol *Cronicl Cymru* ar ynys Jersey yn 1847. Symudwyd *Yr Amserau*, papur newydd hirhoedlog cyntaf yr iaith Gymraeg, o Lerpwl i Ynys Manaw yn Gorffennaf 1848 er mwyn gallu fforddio ei gyhoeddi'n wythnosol, cyn i ddeddf newydd ei orfodi i ddychwelyd i'r tir mawr (P.H. Jones, 1988, p. 17; 1989, p. 13).

hysbysebion ym 1853 a'r dreth stamp ar newyddiaduron yn 1855 at ymchwydd mawr arall yn nifer y cyhoeddiadau Cymraeg, gyda *Seren Cymru*, *Y Tyst Cymreig*, y *Goleuad*, y *Gwyllydydd*, a'r *Dywysogaeth* yn dod i'r byd (Walters, 1987, p. 22). Yn 1857 cyhoeddodd Thomas Gee *Baner Cymru*, un o bapurau newydd mwyaf dylanwadol ei oes, ac erbyn 1859 roedd wedi uno gyda'r *Amserau* i greu *Baner ac Amserau Cymru*, papur a fyddai'n parhau tan ail hanner yr 20fed ganrif<sup>230</sup> (R.O. Jones, 1997, p. 259). Arweiniodd hefyd at ddatblygiadau cyflym yn nhechnoleg argraffu wrth i gyhoeddwy'r ddarparu ar gyfer y gynulleidfa dorfol yr oedd modd ei chyrraedd drwy fasnacheiddio (Curran, 1978, p. 63). Erbyn ail hanner y 19eg ganrif, golygai'r datblygiadau hyn fod modd i gyhoeddwy'r Cymraeg ddarparu ar gyfer cynulleidfa genedlaethol am y tro cyntaf, a bod costau cynhyrchu llyfrau hefyd yn ddigon isel i olygu bod modd gwneud elw o argraffu llyfrau Cymraeg<sup>231</sup> (P.H. Jones, 1998, p. 175). Y pennaf ymysg y datblygiadau technolegol manteisiol eraill oedd stereoteipio,<sup>232</sup> "y datblygiad technolegol a

---

<sup>230</sup> Fel y nodai T. Gwynn Jones, er diddymu'r rhan fwyaf o gost y dreth stamp, roedd yna elfen fawr o ansicrwydd wrth gyhoeddi papur newydd Cymraeg, hyd yn oed i argraffwr mor brofiadol â Gee. "Prin y gellir dywedyd fod yn nhynged y rhan fwyaf o'r cyhoeddiadau poblogaidd hyd hynny ryw lawer i galonogi argraffydd ieuanc" (Jones, 1913, p. 160). Ond fel y nodai D. Tecwyn Lloyd, sgil-effaith diddymu'r stamp oedd bod modd, am y tro cyntaf, grafu bywiolaeth o newyddiadura yn Gymraeg (Lloyd, 1980, p. 13).

<sup>231</sup> Er gwaethaf y datblygiadau a welwyd yn y 18fed ganrif, marwaidd oedd y diwydiant argraffu yng Nghymru o hyd o'i gymharu â'r sefyllfa dros Glawdd Offa. Nid oedd yr un wasg yn ddigon mawr i fas-gynhyrchu deunydd darllen, ac o'r herwydd roedd prisiau llyfrau yn parhau y tu hwnt i'r mwyafrif (I.G. Jones, 1998, p. 158). Argraffwyd y papurau newydd cyntaf yng Nghymru ar drothwy'r ganrif newydd, dros ganrif ar ôl iddynt ennill eu plwyf yn Lloegr (A. Jones, 1999, p. 354). Wrth i Gymru foderneiddio yn sgil datblygiadau diwydiannol, tyfodd y gweisg yn araf, gan barhau i ddibynnu ar waith argraffu ar gomisiwn, a gwasanaethu cynulleidfa leol (P.H. Jones, 1998, p. 174). Gyrrwyd newid gan ddyfodiad argraffwyr o Loegr a ddaeth dros y ffin i chwilio am waith. Er gwaethaf natur elfennol y dechnoleg a oedd ar gael iddynt, golygai ei hygyrchedd a'i symlrwydd bod y gallu i gyhoeddi bellach o fewn cyrraedd y dyn cyffredin (A.G. Jones, 1993, p. 18). Mae'r gymhariaeth gyda'r oes bresennol, lle y gallai unrhyw un sydd â mynediad at y rhyngwydd gyhoeddi ei farn ar-lein, hyd yn oed os nad oes sicrwydd y cyrraedd cynulleidfa eang, yn un ddilys. Dywed Dyan Iorwerth fod "tebygrwydd rhwng y llu gohebwy'r amatur a sgrifennai eu llythoedd i'r *Faner* a chyfranwyr safle megis maes-e.com ein dyddiau ni" (Iorwerth, 2007). Yn yr un modd â'r rhyngwydd (ap Dyfrig, 2014, p. 98), aethpwyd i'r afael â'r gwaith o greu cynnwys gan y rheini a oedd yn deall sut oedd gweithio'r dechnoleg (A.G. Jones, 1993, pp. 14, 114). Yn fwyaf amlwg yn eu mysg oedd Thomas Gee, a ddechreuodd yn brentis yng nghwmni argraffu ei dad, cyn ymgymryd â swyddogaeth golygydd a chyfarwyddwr busnes yn ogystal (I.W. Jones, 1998, p. 33).

<sup>232</sup> Mabwysiadwyd y dull hwn gan Gee yn y 1850au cynnar. Roedd stereoteipio yn caniatáu creu copiâu metal o dudalennau oedd eisoes wedi eu cysodi, a'u defnyddio yn ôl y galw i ail-argraffu llyfrau poblogaidd. Golygai hyn y gallai cyhoeddwy'r llyfrau Cymraeg ymateb yn well i'r galw gan ddarllenwyr, ac nad oedd gofyn iddynt gyhoeddi gormodedd o lyfrau ar y tro rhag ofn na fyddent yn gwerthu'n dda (Jones, 1999, p.313). Roedd y stereoteip yn ddatblygiad pwysig i argraffwasg Gee gan ei fod yn caniatáu gwario llai o arian ar brynu teip. Am eu bod yn dibynnu ar yr un ffontiau â'r iaith Saesneg, wynebhai gweisg Cymraeg drafferthion wrth geisio cael digon o lythrennau 'd', 'l', ac 'w' (P.H. Jones, 1999, p.310). Roedd teip yn gallu bod yn brin, a methwyd â chyhoeddi y *Traethodydd* am gyfnod yn y 40au hwyr oherwydd prinder ohono. Ond golygai'r stereoteip y gellid argraffu llyfrau llwyddiannus dro ar ôl tro heb orfod ail-osod y teip neu orfod cadw y teip yn ei le am gyfnodau

oedd yn bennaf cyfrifol am wneud yr ‘oes aur’ yn hanes cyhoeddi yn y Gymraeg yn bosibl” (P.H. Jones, 1999, p. 313). Roedd y gostyngiad ym mhpris papur rhad, drwy ei greu o ffibr coed, hefyd yn hollbwysig i dwf y diwydiant papurau newydd (Lloyd, 1980, p. 4). O ganlyniad i’r holl ddatblygiadau technolegol hyn, mae Philip Henry Jones yn amcangyfrif bod y wasg yng Nghymru wedi gallu cwrdd â’r galw am lyfrau Cymraeg erbyn yr 1860au (Jones, 1999, p. 318). Does dim amheuaeth mai’r teimlad cyffredinol ar y pryd oedd bod y wasg newydd rad, wedi ei rhyddhau o afael y trethi ar wybodaeth, yn hwb i’r iaith Gymraeg. Dywed un sylwebydd yn y *Geninen* yn 1883: “Gwyddom fod ieithoedd ardderchog wedi trengi pan nad oedd llenyddiaeth ond moethau prin y dysgedig a’r goludog; ond byddai i’r Gymraeg drengi yn fuan, tra mae gwasg rydd a gwasg rad yn tywallt goleuni Cymreig yn wythnosol braidd i bob aelwyd, yn newydd-beth yn hanes tyngchedau ieithoedd”<sup>233</sup> (Tafolog, 1883, p. 103). Dywed Geraint H. Jenkins hefyd mai camgymeriad fyddai tybio i’r newidiadau technolegol fod yn gwbl niweidiol i’r Gymraeg. Yn ei dyb ef, bu’r diwydiannu, twf trafndiaeth, a thwf y wasg yn fodd o greu hunaniaeth ddiwylliannol a gwleidyddol unigryw yng Nghymru (Jenkins, 1999, p. xiii). O ganlyniad, bu nifer o’r datblygiadau fu, yn y pen draw, yn niweidiol i’r wasg Gymraeg, hefyd, am ychydig o ddegawdau o leiaf, yn hwb iddi, wrth gynyddu nifer a gostwng pris llyfrau a chyfnodolion Cymraeg.

---

hir. Cymerodd Gee fantais lawn o’r datblygiad technolegol hwn ac ail-argraffu rhai o’i hen lyfrau mwyaf poblogaidd ar gyfer marchnad newydd yn y 70au (P.H. Jones, 1998, p. 179). Wrth i’r blynyddoedd fynd heibio, dechreuwyd ddefnyddio metel yn lle coed, ac ager yn hytrach na nerth bôn braich (Jones, 1999, p.309). Prynwyd peiriant ager o’r fath gan Gee yn 1869 (A.G. Jones, 1993, p. 73), a pheiriant Linotype ynghanol y 1880au (P.H. Jones, 1998, p. 178). Roedd y datblygiadau hwn ac eraill mor hynod i bobl yr oes â champau technolegol ein hoes ni. Dywed Picton Davies am ei brofiad o weld peiriant Leinoteip am y tro cyntaf: “... braidd na chredwn fod ganddo ymennydd gan mor sgilgar y casglai’r gwahanol ddarnau pres at ei gilydd i wneud geiriau, a’r geiriau’n llinellau, a’r llinellau’n golofnau” (Davies, 1962, p. 130).

<sup>233</sup> Dywed Thomas Morris Jones nad oedd modd priso mantais yr argraffwasg i Gymru: “Mae y cyfrwng hwn yn dyfod â’r lenyddiaeth uchaf i gyrhaedd pobl gyffredin, a hyny ar delerau y buasai yn syndod meddwl, yn yr hen amseroedd, eu bod yn bosib. Dywedir fod pris dim ond un Beibl, yn amser Wycliffe, yn cyrhaedd £30, ond erbyn hyn ceir yr Ysgrythau Sanctaidd, mewn rhwymiad da, cryf a glanwaith, am ychydig geiniogau!” (Jones, 1892, pp. 119-20) Ysgrifennodd ‘Glaslyn’ (Richard Jones Owen) yng nghylchgrawn Cymru yn 1907: “Mae popeth braidd erbyn hyn wedi dyfod i gydweithio o blaid y gangen hon o lenyddiaeth – y Stamp Act wedi ei diddymu, y dreth ar hysbysiadau a’r doll ar bapyr wedi eu dileu. Mae y gwelliantau sydd wedi eu dwyn i mewn i’r gelfyddyd o argraffu, ynghyd a’r rheilffyrdd, y llythyrdy, y telegraff, a gellir ychwanegu haul-luniaeth, oll wedi dyfod i wasanaethu llenyddiaeth... Mae y cylchgronau, y papyrau, a’r llyfrau sydd yn cael eu tywallt o’r wasg Gymreig, yn dylanwadu ar fywyd pobl Cymru i raddau anisgrifiadwy” (Glaslyn, 1907, p. 62).

### *Diddymu'r Trethi a Newidiadau Technolegol*

Serch hynny, nod cychwynnol y datblygiadau hyn oedd dinistrio unrhyw wasg nad oedd yn gallu cystadlu'n fasnachol â'r gwasg Lundeinig, a dyna a gyflawnwyd. Golygai nifer cymharol isel y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru na allent fanteisio yn yr un ffordd â'r wasg genedlaethol Saesneg ar yr arbedion maint a ddeilliai o'r gallu i fas-gynhyrchu papurau newydd (P.H. Jones, 1999, p. 318). Deallai J.R. Kilsby Jones hyn i'r dim, ac roedd hyn wrth wraidd ei gred bod goruchafiaeth y Saesneg yn anochel:

Cwynir fod llyfrau Cymraeg yn ddrudach na rhai Seasoneg... ond y mae rheswm digonol dros y gwahaniaeth... Gŵyr pawb cyfarwydd ag argraphwasg taw wrth gysodi llyfr mae'r draul yn myned... ac mai po fwyaf lliosog fyddo nifer y copiau a argrephir, taw mwyaf i gyd fydd yr enill i'r cyhoeddwr, a rhataf i gyd fydd y gwaith i'r prynwr. Cyfyng, ar y goreu, rhaid fod cylchrediad unrhyw lyfryn neu bapur mewn iaith nad oes dim dros filiwn i gyd, os oes cynifer, heb wybod rhyw iaith heblaw y Gymraeg. (Jones, 1897, p. 213)

Nid sylweddoliad a ddaeth ar ddiwedd y ganrif oedd hwn. Mynegwyd yr un pryderon yng nghylchgrawn y *Gwladgarwr* mor gynnar â 1840, wrth nodi bod argraffu 500 o lyfrau Cymraeg yn costio £50, a 10,000 o lyfrau Saesneg yn costio £200: "pa un o'r ddau gyhoeddwr a gaiff fwyaf o elw? Onid hawdd fydd i'r Sais roi mwy am arian?" (1840, p. clawr) Rhybuddiodd Noah Stephens yntau yn y *Diwygiwr* yn 1849 fod yr iaith Gymraeg dan anfantais hirdymor oherwydd bod cylchrediad uchel cyhoeddiadau Saesneg yn eu galluogi i ostwng prisiau'n is na'r hyn y gallai'r llyfrwerthwyr Cymraeg eu cynnig. Yr hyn a oedd ei angen er mwyn sicrhau parhad yr iaith, meddai, oedd naill ai llwyddiant masnachol neu gefnogaeth gan sefydliadau

gwladol neu eglwysig, ond nid oedd y naill na'r llall ar gael iddi: "Y mae swyddwyr gwladol, offeiriaid ac esgobion cyfoethog, ynghyd â masnachwyr mwyaf Cymru, naill ai'n estroniaid hollol, neu yn Gymry Seisnig" (Stephens, 1849, p. 165). Nid oedd y gallu i stereoteipio chwaith o gymaint o fantais i'r wasg Gymraeg ag ydoedd i'r wasg Saesneg. Gallai'r papurau Saesneg ddefnyddio'r dechnoleg er mwyn sicrhau bod straeon, hysbysebion a lluniau a oedd wedi eu gosod eisoes gan asiantaethau newyddion yn barod i gael eu gwasgu ar y dudalen (A.G. Jones, 1998, p. 213). I'r papurau Cymraeg roedd yn rhaid cyfieithu'r cwbl. Roedd anallu'r wasg Gymraeg i gopïo'n uniongyrchol fel hyn yn faich ariannol arnynt. Dywed gohebydd yn y *Faner* yn 1861 wrth ymateb i gwynion am bris uchel papurau Cymraeg o'u cymharu â rhai Saesneg mai'r hyn a oedd yn rhannol gyfrifol am gost oedd yr angen i ysgrifennu popeth o'r newydd:

Edrycher ar bapurau Seisnig y dref hon er enghraifft, ac fe welir colofnau ar golofnau o fater wedi ei gymmeryd yn ei grynsyth o bapurau y brif ddinas. Mae y golygydd yn cymeryd ei siswrn ac yn tori y darnau allan ac yn eu rhoddi yn uniongyrchol yn llaw y cyssodydd. Ond mewn papur Cymraeg, y mae rhaid ysgrifennu y cyfan o newydd mewn iaith arall; ac nid oes neb a wna hynny am ddim y mae yn debyg.<sup>234</sup> (*Baner ac Amserau Cymru*, 1861, p. 484)

Gwelwn felly fod hyd yn oed cyhoeddwr fel Gwasg Gee a gyrhaeddai bron pob cwr o'r genedl o dan anfantais o'i gymharu â'r wasg Lundeinig. Hefyd, oherwydd natur amaturaidd nifer o bapurau Cymraeg, methwyd hyd yn oed â gwneud y cam tuag at fasgynhyrchu a gymerwyd gan weisg proffesiynol. Dywed David Davies, golygydd y *South Wales Daily Post*, ar ddiwedd y ganrif nad oedd nifer o'r gweisg a gyhoeddai lyfrau

---

<sup>234</sup> Awgryma E. Morgan Humphreys yn ogystal mai'r angen i gyfieithu a olygai na fyddai papur dyddiol Cymraeg yn ddichonadwy. Byddai'n rhaid cyflogi llawer mwy o newyddiadurwyr na phapurau Saesneg gyda'r un cylchrediad "canys buasai'n rhaid cyfieithu pob teligram a dderbynnid a phob darn newydd a godid o bapurau eraill" (Humphreys, 1945, p. 43).



Cymraeg wedi manteisio ar y dechnoleg diweddaraf: “For them the revolution in the mechanical means of production has meant little, and the telegraph and the telephone are to them as if they were not” (Davies, 1897, p. 185).

Noda J.R. Kilsby Jones mai mantais arall oedd gan bapurau newydd Saesneg dros y Gymraeg yn dilyn diddymu'r trethi ar wybodaeth, oedd bod modd iddynt ddenu llawer yn fwy o hysbysebion (Jones, 1883, p. 21). Roedd hysbysebwr yn llai parod i arddangos eu nwyddau mewn papurau Cymraeg oherwydd y gwyddent na fyddai gan eu darllenwyr yr arian i'w prynu (A.G. Jones, 1993, pp. 66, 69, 92). Golygai'r elw a ddeuai o hysbysebion fod modd i bapurau megis y *Times* ostwng pris y clawr yn is na'r hyn a gostiai i gynhyrchu'r papur. Nid oedd gan y wasg Gymraeg yr un fantais - dywed E. Morgan Humphreys ei bod yn dasg anodd iawn argyhoeddi cwmnïau y tu hwnt i fasnachwyr lleol fod gan y papurau Cymraeg unrhyw beth i'w gynnig: “Gallai bod papur Saesneg yn yr un swyddfa, gyda hanner, neu hyd yn oed chwarter cylchrediad papur Cymraeg, ond i hwnnw y rhoddid yr hysbysebiadau...” (Humphreys, 1945, p. 53) Golygai hyn fod cylchgronau Cymraeg yn fodlon mynd i'r eithaf er mwyn cynnwys deunydd hysbysebu. Dywed Russell Davies fod parodrwydd cylchgronau Ymneilltuol megis y *Tyst*, *Seren Cymru*, a'r *Goleuad*, i gyhoeddi hysbysebion am ddeunyddiau megis cyffuriau er mwyn erthylu babanod yn brawf o hynny.<sup>235</sup> (Davies, 1991, p. 155)

### *Y Rheilffordd a'r Wasg Gymraeg*

Fel y datblygiadau masnachol yn y wasg, roedd effaith y rheilffordd hefyd yn baradocsaidd – ehangodd gorwelion y wasg Gymraeg, gan ei gwneud yn hyfyw fel menter fasnachol am y tro

---

<sup>235</sup> Golygai fod yn rhaid cynnwys hysbysebion Saesneg yn ogystal, ac roedd cynnwys golygyddol y *Faner* wedi ei amgylchynu gan bedair tudalen o hysbysebion o'r fath. Mae'n anodd credu na fyddai'r hysbysebion Saesneg hyn mewn cyhoeddiadau Cymraeg wedi dylanwadu ar ganfyddiad y darllenwyr o statws y Saesneg fel 'iaith masnach'. Roedd gan hysbysebion ddylanwad ar gynnwys papurau newydd yn ogystal, gan lastwreiddio radicaliaeth a sicrhau eu bod yn gefnogol i ideoleg ryddfrydol, gyfalafol, a sefydliadau gweinyddol yr oes (Curran, 1978, p. 64; Anhysbys, 1877, pp. 32, 46).

cyntaf, tra ar yr un pryd caniatái gyflwyno toreth o bapurau o Loegr i gartrefi Cymru.<sup>236</sup> O ganlyniad i natur wasgaredig eu cynulleidfa, roedd y rheilffordd o fantais i'r wasg Gymraeg wrth gystadlu â phapurau Seisnig trefol. Hwylusodd y gwaith o gasglu tanysgrifiadau, arian, papur, a newyddion, yn ogystal â dosbarthu papurau yn gyflym i ddarllenwyr y tu hwnt i ffiniau'r dref lle caent eu hargraffu. Yn oes y ceffyl a'r drol, byddai papur ddwywaith yr wythnos, megis *Baner ac Amserau Cymru*, ar raddfa led-genedlaethol, wedi bod yn amhosib.<sup>237</sup> Mae Gwynne T. Jones yn pwysleisio natur chwyldroadol y rheilffordd<sup>238</sup> ar fywydau bob dydd trigolion Cymru, gan ddweud mai “anfynych yr ai neb ymhell” cyn hynny, ac mai “meirch a cherbydau oedd unig foddion mynd a dyfod”<sup>239</sup> (Jones, 1913, pp. 24, 136). Roedd y rheilffordd hefyd yn hollbwysig wrth ganiatáu i ohebwy'r gasglu newyddion ar raddfa genedlaethol. Noda Dylan Iorwerth yn ei bortread o'r 'Gohebydd', John Griffiths y buasai'n amhosib iddo gyfleu darlun cyflawn i ddarllenwyr y *Faner* o ddigwyddiadau ledled Cymru yn ymgyrch etholiadol 1868 heb allu neidio ar drên (Iorwerth, 2007, p. 47). Roedd penderfyniad tyddynwyr yn yr etholiad hwnnw i ddatblygu hunaniaeth genedlaethol ar sail diwylliant, a gwrthod gormes y 'sgrîw' a phleidleisio o blaid yr ymgeisydd Rhyddfrydol, yn ganlyniad i gyd-ymdrech a ddeilliodd o allu'r *Faner* i adrodd o bob cwr o Gymru. Cyn dyfodiad y rheilffordd, nid oedd ffurfio ymdeimlad o 'gymuned ddychmygedig' o'r math hwn yn bosib am na wyddai trigolion

---

<sup>236</sup> Ar yr olwg gyntaf, nid ystyrir y rheilffordd yn dechnoleg gyfathrebu, yn yr un modd â'r argraffwasg. Serch hynny, roedd yn gwbl allweddol i ddsbarthu cynnyrch y wasg yn y 19eg ganrif, ac yn gymaint o gyfrwng gwybodaeth ag ydyw gwifrau band eang y rhyngwyd yn yr oes bresennol.

<sup>237</sup> Roedd y rheilffordd hefyd yn fodd o ddsbarthu'r offer a oedd yn angenrheidiol i gynnal gwasg. Defnyddiodd sefydlydd Gwasg Gomer, J.D. Lewis, y trên i Landysul er mwyn cludo ei beiriant argraffu cyntaf yno o Aberhonddu (Pierce, 2005, p. 53).

<sup>238</sup> Dywed D. Tecwyn Lloyd yntau, mai dyfodiad y trên stêm oedd y newid mwyaf yn hanes trafniadaeth ers oes y Rhufeiniaid. Roedd y byd wedi crebachu o fewn ychydig ddegawdau, wrth i bobl allu gwibio yma a thraw ar 30-60 milltir yr awr, yn llawer cyflymach na'r hen goets pedwar ceffyl a symudai ar gyfartaledd o naw milltir yr awr (Lloyd, 1970, p. 106). Dywed John Davies ei fod yn “anodd darganfod unrhyw agwedd ar fywyd Cymru na thrawsffurfiwyd mohoni gan y locomotif” (Davies, 2007a, p. 373).

<sup>239</sup> Soniai mai un o ddigwyddiadau mwyaf cofiadwy bywyd y cyhoeddwr Thomas Gee yn ei ieuentid oedd teithio y 50 milltir o fro ei febyd i Gaernarfon, a'r modd y bu'n rhaid croesi afon Conwy mewn cwch: “Gwelodd y bachgen a yrrodd o Ddinbych i Gaernarfon mewn cerbyd yr holl bethau hyn fel yr oeddynt gynt, ac nid rhyfedd iddo gofio i'r daith honno tra bu. Dyna'r tro cyntaf iddo dreiddio i'r anhysbys.” Nid oedd yn rhaid i fasnachwyr deithio i Lerpwl a Manceinion i ymfyn nwyddau, ac nid oedd yn rhaid dod â bwyd a thanwydd ar wagen (T.G. Jones, 1913, pp. 24, 136).

gwahanol rannau o Gymru fod ganddynt amgylchiadau a hunaniaeth yn gyffredin.<sup>240</sup> Fel y nodwyd eisoes, y rheilffordd oedd prif gyfrwng y pregethwyr Ymneilltuol wrth deithio'r wlad i bregethu neu ddsbarthu cyfrolau, a hebddynt mae'n anodd credu y buasai'r math o genedlaetholdeb ethnogrefyddol a drafodwyd yn y bennod ddiwethaf yn bosib.<sup>241</sup> Yn ogystal â chyfarfodydd pregethu roedd y rheilffyrdd hefyd o gymorth i'r Eisteddfodau, wrth ganiatáu am y tro cyntaf i gynulleidfaoedd mawr deithio o amgylch y wlad (Rhys, 2005, pp. 124-5). Dywed John Davies i'r rheilffordd fod yn elfen hollbwysig yn natblygiad diwylliant Cymraeg y 19eg ganrif, wrth iddi "danseilio arwahanrwydd oesol cymunedau Cymru" (Davies, 2007a, p. 375). Dywedodd Thomas Gee, wrth ddadlau'r achos dros adeiladu rheilffordd i Ddinbych, mai anghytgord ac anwybodaeth y gwahanol rannau o Gymru oedd wedi llesteirio ymdrechion i wella cyflwr y wlad yn y gorffennol, ond y byddai'r rheilffordd yn gyfrwng i uno'r cwbl gyda'i gilydd: "... indeed, the whole of Wales... will all be once more drawn together by that iron band –which was devised and is forged by the science, intelligence, and industry of the 19th century, and which diffuses unity and prosperity wherever it extends."<sup>242</sup> Bu'r 'band haearn' a ddeisyfai Thomas Gee yn hollbwysig wrth hybu cenedlaetholdeb yng Nghymru. Ond roedd hefyd yn clymu Cymru yn agosach byth wrth genedl-wladwriaeth Prydain.

Oherwydd mai sail y twf yn economi Cymru oedd buddsoddiad cyfalaf o'r tu allan, roedd yr union isadeiledd diwydiannol a oedd yn caniatáu datblygiad gwasg Gymraeg ffyniannus yn ffafrio lledaenu'r wasg dros y ffin o Loegr i Gymru hefyd. Safai'r trefi lle sefydlwyd y gweisg

---

<sup>240</sup> Er enghraifft, wrth siarad yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Mawrth 1846, dywedodd Aelod Seneddol Sir Drefaldwyn, Charles William Wyn, na wyddai ddim byd am safon addysg yng ngogledd Cymru am nad oedd y cysylltiadau trafniadaeth yn caniatáu cyfathrebu rhwng dwy ran y wlad (I.G. Jones, 1991, p. 66). Os oedd Aelod Seneddol mor anwybodus, mae'n hawdd dychmygu y byddai dealltwriaeth y Cymro gwerinol o barthau eraill y wlad yn llai byth.

<sup>241</sup> Dywed Ieuan Gwynedd Jones: "... there is no denying the impact of the railways and the means these placed at the disposal of the main cultural organizations for the rapid dissemination of ideas and thus for the growth of a sense of cultural unity.... even the powers of religious enterprise depended in large measure upon the effectiveness of the business entrepreneur and the engineer" (Jones, 1992, pp. 58-9).

<sup>242</sup> Dyfynnwyd ei eiriau yn ei gofiant gan T. Gwynn Jones (Jones, 1913, pp. 138-9).

Cymraeg ar gyron economaidd cenedl-wladwriaeth y Deyrnas Unedig, a golygai'r diffyg cysylltiadau rhyngddynt eu bod yn gyfrwng i ledu ymdeimlad o berthyn i'r craidd yn fwy nag ymdeimlad o genedlaetholdeb Cymreig.<sup>243</sup> Mae'r modd y datblygodd y rheilffyrdd yn cefnogi tybiaeth Richard Wyn Jones mai cael ei diwydiannu a'i moderneiddio o'r tu allan, gan Loegr, oedd hanes Cymru (Jones, 2007, p. 49). Mae Hywel Gethin Rhys, wrth drafod effaith adeiladu'r rheilffordd ar Gymru, yn pwysleisio mai grymoedd o'r tu hwnt i Gymru oedd ar waith.<sup>244</sup> Hyd yn oed pan oedd y cwmnïau eu hunain yng Nghymru, daeth y rhan fwyaf o'r cyfalaf ar gyfer creu rheilffyrdd Cymru o ffynonellau preifat yn Lloegr. Pan sefydlwyd Rheilffordd Aberystwyth ac Arfordir Cymru yn 1861, daeth holl gyfalaf y cwmni o Lundain a Manceinion. Er y fantais i fasnachwyr o Gymru o allu defnyddio'r rheilffyrdd hyn heb orfod gwario ceiniog, roedd hefyd yn sicrhau bod unrhyw elw yn gadael yr ardal yn ogystal. Ac wrth i'r ganrif fynd rhagddi, llyncwyd nifer o'r cwmnïau bychain gan gwmnïau mawrion dros y ffin, er enghraifft Rheilffordd De Cymru gan y Great Western Railway yn 1863 (Rhys, 2005, pp. 105, 117-9, 121). Llyncwyd rheilffordd Bangor a Caernarfon yn yr un modd gan reilffordd Caergybi i Gaer ym 1854, ac fe feddiannwyd honno yn yr un modd gan y London and North Western Railway Company yn 1867 (D. Jones, 1999, pp. 138, 148). Ac am mai datblygu cyfalaf oedd y nod pennaf, roedd prif wythiennau'r rhwydwaith rheilffyrdd yn pontio'r ffin â Lloegr.<sup>245</sup> Mae W.

---

<sup>243</sup> Tueddai'r gweisg Cymraeg i ymsefydlu yn y trefi hynny a fyddai'n caniatáu iddynt gyfathrebu'n hwylus drwy gyfrwng y rheilffordd. Mae Aled Gruffydd Jones yn nodi bod y mwyafrif o bapurau newydd y gogledd wedi ymsefydlu o fewn cyrraedd i'r rheilffordd o Gaer i Gaergybi (Jones, 1999, pp.355-356). Roedd yn llawer cyflymach dosbarthu cynnyrch y wasg i bob cwr o Gymru o'r trefi hyn, nag ydoedd o ardaloedd gwledig (A.G. Jones, 1993, p. 99).

<sup>244</sup> Roedd yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol a ysgrifennai i'r wasg Gymraeg yn ymwybodol iawn o rym yr agerfarch fel modd o ddiwydiannu'r wlad, er bod ambell un yn croesawu hynny'n fwy na'i gilydd. Dywed Kilsby Jones, ychydig dros ddegawd ar ôl croesawu'r rheilffordd, y byddai hefyd yn rym a ganiatâi i'r Sais ymelwa ar draul y Cymro. Byddai'r rheilffyrdd yn sicrhau y byddai Cymru "mor hygyrch i'r Saeson ag un rhan arall o'r ynys, a chan wired â bod blas halen ar ddwfr y môr, a thrysorau fydd yn ben fynydd-gistiau Cymru, daw y Saeson yn heidiau i'n gwlad... yspeilia ni o frasder a hufen pobpeth..." (Jones, 1897, p. 214)

<sup>245</sup> Sonir yn un o ysgrifau George Monbiot ym mhapur newydd y *Guardian* am y modd yr oedd rhwydwaith reilffyrdd Fictoriaidd Cymru yn ffafrio cysylltiadau â Lloegr: "The railway map of Wales is a classic indicator of an extractive economy. The lines extend either towards London or towards the ports... If the main roads and railways form a network, linking the regions and the settlements within the regions, they are likely to have been developed to enhance internal commerce and mobility. If they resemble a series of drainage basins, flowing towards the ports and borders, they are likely to have been built to empty the nation of its wealth for the benefit

Ambrose Bebb yn cyfeirio hefyd at y modd yr oedd yr holl ffyrdd haearn yn cyfeirio “ar y cŷd tua Llundain..,” ac fel yr oedd y cysylltiad gyda gweddill y Deyrnas Unedig bellach yn golygu fod “Bangor Fawr yn Arfon” bellach yn “Fangor Fach yn y Byd Mawr” (Bebb, 1954, p. 53). Roedd y trenau a redai ar draws y ffin yn llawer cyflymach na’r rhai a deithiai’n hamddenol o’r gogledd i’r de. Effaith hynny oedd pwysleisio’r wahanfa ddaearyddol rhwng gogledd a de Cymru yn hytrach na’i phontio, a defnyddiwyd hygyrchedd dinasoedd Lloegr er mwyn dadlau nad oedd Cymru’n genedl unedig. Mewn cyferbyniad, dywed J. Gwyn Williams gyda’i ffraethineb nodweddiadol, “some who journeyed on the Cambrian railway became convinced that eternity was a reality.” (Williams, 1993, pp. 168-9).

Dyma’r union wythiennau a’i gwnâi hi’n llawer haws i gwmnïau o Loegr werthu eu papurau newydd Saesneg yng Nghymru (P.H. Jones, 1999, p. 310). Roedd y rheilffyrdd eu hunain yn rhannol gyfrifol am y twf anferth yn y galw am ddeunydd darllen. Mae’r academydd Wolfgang Schivelbusch, yn ei lyfr *The Railway Journey*, yn damcaniaethu bod hyn yn sgil-effaith cynllun cerbydau’r trê. Yn y cerbyd a oedd yn cael ei dynnu gan geffylau, fe fyddai’r teithwyr yn wynebu ei gilydd ar sedd siâp ‘u’, ac roedd hynny yn hwyluso sgwrs rhyngddynt. Ond ar y cerbyd trê hir a chyfyng, gallai rhywun weld nifer o bobl eraill, ond heb allu sgwrsio â nhw. Fe fyddai hynny’n achosi chwithdod, ac o ganlyniad fe fyddai’n well gan bobl ostwng eu llygaid i edrych ar lyfr neu gyfnodolyn (Schivelbusch, 1986, p. 75). Roedd perchnogion y rheilffyrdd, y mwyafrif yn gwmnïau o’r tu hwnt i Glawdd Offa, mewn sefyllfa well na neb i ddiwallu’r angen hwnnw am ddeunydd darllen, a hynny drwy gynnal eu siopau llyfrau eu hunain yn y gorsafoedd (A.G. Jones, 1988, p. 100).

---

of another. Like Latin America, Wales is poor because it was so rich. Its abundant natural resources gave rise to an extractive system, designed to leave as little wealth behind as possible” (Monbiot, 2008).

Roedd y Cymry a'r Saeson<sup>246</sup> fel ei gilydd yn ymwybodol o ddylanwad y rheilffordd wrth Seisnigeiddio. Erbyn y 60au roedd y *Faner* yn cymharu hyder y Saeson y byddai'r rheilffordd yn arwain at dranc y Gymraeg ag ymgyrchoedd milwrol Edward I yn yr Oesoedd Canol.<sup>247</sup> Roedd J.R. Kilsby Jones, hefyd, yn ymwybodol o'r effaith yr oedd y rheilffordd yn ei chael ar feddylfryd ei gyd-Gymry. Roedd y Saesneg yn hanfodol er mwyn gweithio, a hyd yn oed brynu tocyn, ar y rheilffordd, meddai: "Ni fedr yr agerbeiriant fwy o Gymraeg na thywysog cyntaf Cymru, a aned yng Nghastell Caernarfon" (Jones, 1883, pp. 19-20). Mae ysgrif David Rees yn y *Diwygiwr* yn 1852 yn adlewyrchu'r teimlad o ansicrwydd ymysg y Cymry ynglŷn â dyfodiad y rheilffyrdd. Dywed eu bod yn gwyllo dyfodiad Rheilffordd Deheubarth Cymru gyda "theimladau cymysgld o ofnau a gobeithion, o lawenydd a thristwch, ac o ddysgwyliaidau ac amheuron". Byddai'r rheilffordd yn adfywio cymoedd Sir Gâr, meddai, ond yn dod â pheryglon moesol yn ei sgil. "Ymarllwysa" pobloedd trefi mawr Lloegr i Gymru yn ystod y gwyliau, ac fe fydd "pob man cyfleus i ymdrochi... yn cael eu tryfritho gan foneddigion a boneddigesau Lloegr, ac yn cael eu bendithio â'u harian, ond eu llygru a'u melldithio gan arferiadau llawer o'r bobl ryddion, didduw, a orlifant i'r traethoedd". Yr unig sicrwydd, meddai, oedd y byddai'r rheilffyrdd yn Seisnigo'r Cymry, ac yn andwyol i'r iaith Gymraeg: "... y mae y ffyrdd haearn ar ddyfod i'n plith, effeithiau pa rai fydd yn myned yn mhell i leihau pob gwahaniaeth sydd rhwng trigolion y ddau du i'r Hafren, ac i ychwanegu gofal ein cyfeillion a addawant 'Oes y

---

<sup>246</sup> Wrth ysgrifennu ei adroddiad ar addysg yn 1846, dywed Lingen ei fod yn obeithiol y byddai'r rheilffordd yn fodd o brysur dyfodiad y Saesneg i Gymru: "Along the chief lines of road, from the border counties, from the influx of English or English-speaking labourers into the iron and coal fields in short, from every point of contact with modern activity the English tongue keeps spreading, in some places rapidly, but sensibly in all. Railroads, and the fuller development of the great mineral beds, are on the eve of multiplying these points of contact" (Lingen, 1846, pp. 11-2). Roedd y *Morning Chronicle* yn dathlu agor Rheilffordd De Cymru yn yr un modd: "Independently of these commercial advantages, there are many ways in which the welfare and improvement of the Principality are likely to be promoted by bringing it virtually into closer proximity to the centre of the kingdom..." Dywed bod ei hanallu i gyfathrebu â gweddill aelodau'r Deyrnas "[is] but one of the consequences of that physical separation and that want of intercourse which have been the essential hindrances to the social as well as to the commercial development of Wales" (*The Welshman*, 1850, p. 2).

<sup>247</sup> Dywed y *Faner*: "Nodir ymgyrch Iorwerth y Cyntaf yn myned heibio i fynyddoedd Eryri i Gaernarfon, a gwaith peiriannwyr Seisnig yn cynllunio llinell o ffordd haiarn yn yr un cyfeiriad, fel yr argoeli mai dyna fydd y llinell â pha un y crogir yr iaith Omeraeg" (Gee, 1863, p. 1).

Byd i'r Iaith Gymraeg'.<sup>248</sup> (Rees, 1852, pp. 318-9) Gwireddwyd ei bryderon (a'i obeithion) i raddau helaeth, oherwydd fe welodd dyfodiad y rheilffyrdd ddwy don o Seisnigrwydd. Yn gyntaf daeth y peirianwyr, yr arolygyddion a'r 'nafis' crwydrol a ddaeth i adeiladu a rhedeg y rheilffyrdd (D. Jones, 1999, pp. 135-6). Yn ail daeth y twristiaid. Er bod tirwedd fynyddig Cymru wedi cynnig lloches i'r Gymraeg ers canrifoedd, roedd bellach yn atyniad deniadol i deithwyr dosbarth canol o weddill y Deyrnas Unedig. Trodd y diwydiant twristiaeth nifer o ardaloedd uniaith Gymraeg yn rhai dwyieithog, ac yna yn Saesneg yn bennaf<sup>249</sup> (Morgan & Thomas, 1984, p. 55). Dywed W.T.R. Pryce bod y trefi glan môr wedi troi'n ddwyieithog ac yna wedi lledaenu'r Saesneg ymhellach drwy'r ardaloedd gwledig uniaith Gymraeg o'u cwmpas (Pryce, 1999, p. 65). Ceir y teimlad wrth ddarllen ysgrifau'r cyfnod bod y Cymry, gan fwyaf, yn croesawu'r datblygiadau hyn.<sup>250</sup> Yn wir, teimlad cyffredinol yr oes oedd bod dyfodiad y 'relwe' yn fodd o Seisnigo, ac felly o wella, Cymru, oblegid fe gyrhaeddodd y Seisnigrwydd hwnnw a'r datblygiad economaidd a ddaeth yn sgil gwell cysylltiadau trafndiaeth law yn llaw â'i gilydd: "Nid oedd modd eu hatal, a gallai'r Cymry naill ai gydweithio â Lloegr neu genfigennu wrthi." Drwy eu croesawu "deuai Cymru yn wlad rydd, yn rhydd oddi wrth ragfarnau, tloidi a thorcyfraith" (Rhys, 2005, p. 128).

---

<sup>248</sup> Rhybuddia ymhellach yn 1961 y bydd Cymru yn cael ei "haredig gan reilffyrdd fyddant yn gyfleus i drosglwyddo Seison anffyddol a llyfrau bryntion o bob math i bob cwr o'r wlad, y rhai, heb ofal anghyffredin i gadw llenyddiaeth Gristnogol yn mlaen, a annuweiddiant ein hysgolion Sabothol, ac a anifeileiddiant ieuencyd y wlad..." (Rees, 1861, pp. 360-1)

<sup>249</sup> Yn sgil agor y rheilffordd i Gaerdybi yn 1848, rheilffordd de Cymru yn 1856, a rheilffordd y Cambrian yn 1864 denwyd twristiaid i drefi arfordirol megis y Rhyl, Porth-cawl, ac Aberystwyth. Yn sgil hynny daethant hefyd yn llefydd poblogaidd i Saeson dosbarth canol ymddeol. Cafod y newydd-ddyfodiaid hyn yn eu tro effaith ar feddylfryd y siaradwyr Cymraeg, a'u canfyddiad o'r Saeson. Gan mai'r dosbarth canol cefnog Seisnig a allai fforddio teithio, ac ymddeol i drefni glan môr Cymru, pwysleiswyd unwaith eto y cysylltiad rhwng cyfoeth a'r iaith Saesneg: "I raddau, yr oedd y parodrwydd hwn i bleidio manteision yr iaith Saesneg i'w briodoli i'r ffaith fod trigolion y fro yn cymharu ffyniant trefi gwyliau Seisnig megis y Rhyl a Bae Colwyn a thlodi'r ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith." Yn ogystal, treiddiai agwedd y dosbarth canol Seisnig at y ddwy iaith i'r gymuned lleol, yr oedd nifer ohonynt yn darparu gwasanaethau ar gyfer y twristiaid (Jones & Smith, 1999, pp. 151-2, 161-2, 174). Denwyd nifer o'r trigolion lleol i weithio yn y diwydiant twristiaeth, ac i weini ar y newydd-ddyfodiaid, gan olygu bod yn rhaid iddynt ddysgu'r Saesneg (Jenkins, 1999, p. 5).

<sup>250</sup> Mae D. Tecwyn Lloyd, wrth astudio barddoniaeth y cyfnod, yn nodi'r eiddgarwch dros y rheilffordd, ac i ba raddau yr oedd beirdd y cyfnod yn derbyn y byddai'n arwain yn anochel at dranc yr iaith, ac yn croesawu hynny (Lloyd, 1970, pp. 113-20). Roedd un ysgrifennwr di-enw yn y *Geninen* yn 1883 yn diolch i'r agerbeiriant "am beidio dysgu Cymraeg," am ei fod wedi gorfodi'r Cymry i ddysgu Saesneg, "a thrwy hyn yn ein dwyn i gyffyrddiad iachusol â miliynau y byd gwareiddiedig" (1883, p. 83).

Yn ogystal â dod a dewis mawr o bapurau o Loegr i Gymru, un o sgil-ffeithiau'r rheilffyrdd oedd penodi nifer o Saeson i swyddi arnynt, a hynny'n troi cymunedau uniaith Gymraeg yn rhai dwyieithog. Doedd dim gobaith gan siaradwyr Cymraeg uniaith i gael swyddi yn gwerthu te yn un o'r gorsaf-oedd, hyd yn oed. Dywed Dot Jones fod swydd y gorsaf-feistr yn un uchel ei pharch allai ddylanwadu ar drigolion eraill y fro (Jones, 1999, pp. 146-7). Noda amryw o sylwebwyr fel yr oedd y prif swyddi ar y rheilffyrdd yn cael eu llenwi gan weithwyr estron, a chanfyddiad y Cymry o'r herwydd nad oedd eu hiaith yn meddu ar yr un statws â'r Saesneg.<sup>251</sup> Dywed D. Tecwyn Lloyd fod rhyw fath o "seremonïaeth" yn perthyn i'r swyddogion hyn (Lloyd, 1970, p. 106). Fel y noda Tafolog yn y *Geninen*, roedd Saeson yn bresenoldeb amlwg yng nghefn gwlad Cymru cyn dyfodiad y rheilffyrdd, ond oherwydd nad oeddynt fawr uwch eu statws cymdeithasol na'r trigolion eraill, nid oedd gan eu presenoldeb yr un ergyd seicolegol.<sup>252</sup> Wrth lyncu cwmnïau rheilffordd Cymreig llai, fe roddai cwmnïau o Loegr bwysau ar swyddogion gogledd Cymru i benodi staff Saesneg eu hiaith. Yn ôl cyfrifiad 1891, dim ond un gorsaf-feistr ar reilffordd arfordir gogledd Cymru oedd yn Gymro uniaith. Roedd Seisnigrwydd y rheilffyrdd yn ffordd hefyd o gadarnhau tybiaeth y Saeson nad oedd llawer o

---

<sup>251</sup> Meddai'r *Traethodydd* mor gynnar â 1849: "Bydd y ffyrdd haiarn hyd Gymru yn agor llwybr i lawer gael lleoedd da; ond nid gwiw i un Cymro, os heb wybod Seisoneg, i gynyng am danynt" (1849, p. 123). Cwynai Michael D. Jones yntau fod y rheilffordd yn creu nifer o swyddi, ond mai'r di-Gymraeg a gâi'r mwyafrif ohonynt. Roedd eu statws fel rheolwyr y rheilffordd, arwydd o nerth yr Ymerodraeth Brydeinig, yn rhoi awdurdod iddynt yn y gymuned a oedd yn fodd o danseilio'r iaith: "Beth am y clerwyn o Sais main, di-wrid, a balch, y cyfarfyrrdir ag ef mor fynych yn swyddfeydd ein rheilffyrdd? Edrycha efe mor fawreddog a phe buasai wedi ei warantu i gludo holl bwysigrwydd y cread gydag ef i'r mân a myno" ('Ysbryd Llywelyn', 1895, p. 275). Awgryma Emrys ap Iwan yn ogystal fod rhywbeth rhwysgafawr yn natur y rheolwyr hyn a ddeilliai o'u cred eu bod ar flaen gad cynnydd yr oes, a achosai iddynt ddirmygu'r ardaloedd gwledig cyntefig yr oeddynt yn teyrnasu arnynt: "Un o'r pethau cyntaf a welais yng Nghymru wrth ddyfod unwaith o'r gwledydd a enwyd, oedd hen wreigan o Gymraes yn gofyn rhywbeth yn y modd gostyngeddiddaf ynghylch y tren i swyddog o Sais hollalluog yr olwg... Yntau yn agoryd ei lygaid, ynghyd â'r twll bwyd oedd ganddo yng nghanol dreiniach cochion o dan ei drwyn; ac yna yn crychu y dywededig dwll yn y modd mwyaf diystyrllyd, a chan droi ar ei sawdl, yn myned ymaith oddi wrth yr hen wraig tân fwngial rhywbeth am 'Welsh jargon.' Mi a welais lawer o rai tebyg iddo cyn ac wedi hyny; ond yr wyf yn cyfaddef tan wrido na roddais yswadan i gymaint ag un ohonynt" (ap Iwan, 1886, p. 156).

<sup>252</sup> Dywed mai'r "unig Saesneg a ddygwyddem glywed oedd cwynion y cyfryw, a hawdd y gellir barnu nad oedd eu drych na'u neges ddim yn creu anesmwythder mawr ynom am fedru eu hiaith, ac mai'r goleuni mwyaf a gaem oddi wrth yr athrawon trauin hyny fyddai gweled bodiau eu traed yn edrych drwy flaenau eu hesgidiau am y ffordd i fyned ymaith, gan ein gadael i synu gymaint yn well oeddym ni na dynion ereill" (Tafolog, 1883, p. 103).



Gymry yn siarad Cymraeg mewn gwirionedd: “Yn wahanol i’r Cymry, gallent hwy deithio ar y trêen heb unrhyw drafferthion ieithyddol” (D. Jones, 1999, pp. 138, 148). Canlyniad arall oedd llacio’r glud cymunedol fu’n dal cymdeithas Cymru ynghyd - “ymddatod cylymau lleol, teuluol yn rhwyddach nag erioed o’r blaen” (Lloyd, 1970, pp. 113-20). Golygai’r rheilffyrdd ei bod yn haws fyth fudo o gefn gwlad Cymru i’r cymoedd diwydiannol, neu hyd yn oed i Lloegr neu i’r porthladdoedd er mwyn teithio dramor (R.T. Jones, 1981, p. 22). Golygai fod gan unigolion mewn ardaloedd Cymraeg yn aml deulu a oedd yn byw mewn ardaloedd dwyieithog neu uniaith Saesneg, ac o ganlyniad bod pobl a barhâi i fyw yn yr ardaloedd Cymreiciaf yn dod i gysylltiad â’r Saesneg (Morgan & Thomas, 1984, p. 55).

Er y pwysleisiwyd natur chwyldroadol y diwydiannu a ddaeth i Gymru, gellid dadlau mai’r hyn a’i gwnaeth mor effeithiol wrth Seisnigo Cymru oedd natur raddol ac anwastad y newid. Nid dwy genedl-wladwriaeth fodern yn dod i gyffyrddiad a welwyd, ond cymunedau gwledig, diarffordd a oedd yn parhau yn ‘is-genedlaethol’ yn nhermau cenedlaetholdeb modern yn cael eu llyncu bob yn dipyn. Mae Aled Gruffydd Jones yn tynnu sylw ar yr union anwastadrwydd hwn, gan nodi bod rhai rhannau o’r wlad wedi eu diwydiannu yn helaeth tra oedd eraill bron heb eu cyffwrdd (Jones, 1993, p. 10). Mae’n arwyddocaol yn hynny o beth mai rheilffyrdd arfordirol y gorllewin-dwyrain oedd y cyntaf i’w cwblhau – ni allai trigolion y de na’r gogledd fod o gymorth i’w gilydd wrth wrthsefyll llechfeddiant y diwylliant estron a ddaeth yn eu sgil. Cenedl fodern a ddatblygodd o amgylch rheilffyrdd a oedd ar eu ffordd i rywle arall oedd Cymru.<sup>253</sup> Nodwyd yn y bennod gyntaf fod Ernst Gellner yn dadlau bod y modd yr oedd

---

<sup>253</sup> Fel ag yr oedd hi, roedd trigolion y cyfnod yn ymwybodol nad eu gwasanaethu nhw oedd prif ddiben y rheilffyrdd hyn, ond yn hytrach ddod o hyd i’r llwybrau cyflymaf rhwng Lloegr ac Iwerddon, a’r pyllau glo (Rhys, 2005, p. 110). Dim ond hap a damwain, medden nhw, oedd bod nifer o’r rheilffyrdd yma o ddefnydd i drigolion lleol (Morgan & Thomas, 1984, pp. 123-4). Roedd eu hadeiladu yn broses ar hap oedd bron â bod yn gwbl ddibynnol ar fypwy’r farchnad rydd yn hytrach na lles cymunedau. Er bod angen caniatâd y llywodraeth, ffrwyth gwariant degau o filiynau gan gwmnïau preifat oedd y gwaith. Yr unig ystyriaeth oedd elw, a does dim tystiolaeth bod arwahanrwydd ieithyddol a diwylliannol Cymru wedi croesi meddyliau’r cwmnïau oedd yn bwrw ymlaen â’r gwaith: “Gan na feddyliodd neb am greu cyfundrefn a roddai undod i Gymru, cysylltu gwahanol ranbarthau’r wlad ag ardaloedd poblog yn Lloegr a wnaeth y rheilffyrdd Cymreig.” (Davies, 2007a, p. 373)

diwydiannu wedi datblygu ar gyflymder gwahanol mewn gwahanol lefydd wedi arwain at ddarnio'r cymunedau uwch-genedlaethola oedd yn bodoli ynghynt, a'u hollti yn wladwriaethau llai. Gellid holi ar sail hyn beth sy'n digwydd pan gaiff cenedl ei diwydiannu bob un dipyn gan genedl arall. Mae profiad Cymru yn awgrymu mai'r canlyniad oedd hollti'r wlad yn lliaws o gymunedau llai, ar wahân i'w gilydd, ond yn ymglymedig â Lloegr. Pe bai'r broses o ddiwydiannu Cymru wedi bod yn un fewnol, gan gysylltu rhannau o Gymru â'i gilydd, gallai gwladwriaeth fod wedi datblygu ar y sail honno. Ond oherwydd mai cael ei chynnwys bob yn dipyn o fewn economi Lloegr oedd hanes Cymru, roedd y canlyniad yn wahanol. Dywed Morgan & Thomas nad oedd gan system reilffyrdd Cymru unrhyw "focus within the country." Os oedd gan Gymru brifddinas o gwbl, gwesty'r Great Western yn Paddington yn Llundain oedd honno, gan mai yno yr oedd penderfyniadau mawr am ddyfodol y wlad yn cael eu gwneud (Morgan & Thomas, 1984, pp. 123-4). Nid oedd cyfle i'r Cymry 'is-genedlaethol' gwledig addasu i'r newidiadau hyn, wrth i'r ffyrdd haearn dorri trwy fynyddoedd a gweundiroedd a oedd cyn hynny yn anhramwyadwy. Rhaid oedd mabwysiadu ideoleg ac iaith estron yn gyfan gwbl er mwyn gallu gwneud synnwyr o'u byd newydd.

Roedd y rheilffyrdd hefyd yn symbol grymus o ryddfrydiaeth yr oes, y chwyldro diwydiannol, a'u cysylltiad annatod – yn meddwl y Cymry – â Seisnigrwydd. Gellid dadlau eu bod wedi cyflawni llawn cymaint â'r argraffwasg wrth hybu ymdeimlad o 'gymuned ddychmygedig' unedig ar draws y Deyrnas Unedig. Dywed Wolfgang Schivelbusch eu bod yn cynrychioli democratiaeth, heddwch a chynnydd. Nid yn unig yr oeddent yn gorchfygu rhwystrau daearyddol rhwng pobl, ond roedd yr un grym yn gyrru'r peiriant a gludai bob teithiwr, p'un a oeddynt yn gyfoethog neu'n dlawd. Roedd hefyd yn hybu ymdeimlad ymysg y werin, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig nad oeddent wedi eu cyffwrdd i'r un graddau gan ddiwydiannu, eu bod yn rhan weithredol o'r chwyldro diwydiannol (Schivelbusch, 1986, pp.

70-1). Yn y modd hwn ysbrydolodd deimlad o gydraddoldeb rhwng y werin a'r dosbarth canol a oedd wrth wraidd nifer o newidiadau'r ganrif yng Nghymru, o ddadwladoli'r eglwys i'r degwm: "Brwydro dros fasnach rydd oedd y ffordd o ddifa monopoli, ac yr oedd lledaenu'r rheilffyrdd i bob cwr o'r wlad yn allweddol er mwyn sicrhau tegwch masnachol" (Rhys, 2005, p. 112). Gellid dadlau yn wir fod grym gweledol yn rhan o nerth ideolegol yr agerbeiriant. Nid yn unig yn sŵn a mwg y trêni ei hun, ond hefyd yn yr adeiladau a godwyd i'w fawrygu. Mae D. Tecwyn Lloyd yn cyfeirio atynt fel "rhyw demlau newydd i dduwiau technoleg, eraill ar lun cestyll" (Lloyd, 1970, p. 106). Aed â hyn i eithafion mewn rhai achosion, fel y mae'r llewod calchfaen 25 troedfedd o hyd sy'n dal i warchod Pont Britannia dros y Fenai yn awgrymu: "Oni bai fod y cwmni wedi profi anawsterau ariannol buasai cerflun anferth o Britannia ar y twr ar ganol y bont yn ogystal" (D Jones, 1999, pp. 133-134). Anodd credu nad oedd y symbolau hyn yn cynrychioli rhyw fath o 'banal nationalism', chwedl Billig, ac mai'r nod oedd symbylu teimladau o ymlyniad at yr Ymerodraeth Brydeinig ymysg y rheini a fyddai'n cael eu cludo yma a thraw ar rwydwaith y rheilffyrdd.<sup>254</sup> Dywed D. Tecwyn Lloyd fod hyd yn oed gwisgoedd y dynion busnes a fyddai'n teithio arnynt yn symbolau o'r oes newydd, yr hetiau uchel ar "ffurf simnai ddu y ffatri" yn "goron parchusrwydd a sylwedd yr oes" (Lloyd, 1970, p. 104). Mae'n ddiddorol felly fod R. Tudur Jones yn disgrifio'r pregethwyr Ymneilltuol Cymraeg yn yr un modd, "yn torri cyt yn eu hetiau silc a'u cotiau cynffon, a phob un â'i Gladstone bag yn ei law a'i ymbarèl o dan ei gesail" (Jones, 1981, p. 156). Yr oeddynt hwythau o dan ddylanwad, ac yn atgyfnerthu, symbolau gweledol ideoleg yr oes newydd – y Drindod newydd, medd W

---

<sup>254</sup> Yn ei gyfrol *The Unveiling of the National Icons: a plea for patriotic iconoclasm in a nationalist era* mae Albert Boime yn dadlau bod cofadeiladau a cherfluniau o'r fath yn cynrychioli ymdrech gan eu crewyr i reoli'r cof cenedlaethol mewn modd a fydd yn fanteisiol iddynt hwy. Maent yn "regulators of the social memory and hence of social conscience" (Boime, 1998, p. 2). Awgryma Teresa Bergman y bydd y cofadeiladau hyn, oherwydd eu bod oherwydd eu natur yn denu twristiaid, yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn dadansoddi'r gorffennol wrth i'r unigolion a'r digwyddiadau y maent yn eu coffau fynd dros gof. Gall llywodraethau neu sefydliadau newid y deunydd dehongli sy'n cael ei gyflwyno mewn cofadeiladau o'r fath, gan lywio dealltwriaeth y cyhoedd mewn cyfeiriadau newydd wrth i'r hyn a olygir wrth genedlaetholdeb a dinasyddiaeth ddatblygu dros amser (Bergman, 2013, pp. 183-4). Bron nad oes angen nodi, wrth gwrs, bod y cyfalaf sydd ei angen er mwyn codi cofadeilad yn gofyn am adnoddau preifat neu gyhoeddus sylweddol, ac felly bod y gallu i ddylanwad ar gof cenedl yn y fath ffordd y tu hwnt i bawb ond sefydliadau neu unigolion preifat cefnog.

Ambrose Bebb, sef “Oes y Cynnydd, Oes y Peiriant, Oes y Chwyldro Diwydiannol” (Bebb, 1954, p. 53). Yn wir, mae R. Kilsby Jones yn nodi bod gwisgoed, yn ogystal â bwydydd, y Cymry wedi newid o ganlyniad i’r “gwahanol ffyrdd haiarn sydd wedi cael eu gwneyd gan, yn benaf, y Saeson, a’r cysylltiadau lluosocach, agosach, mewn amrywiol foddau, y maent wedi bod yn offerynol i’w ffurfio” (Jones, 1883, p. 19). Fel baner Billig yn cyhwfan yn y gwynt, roedd y symbolau hyn yn atseinio’n ehangach, a daethant mewn amser yn hwb i “ddull o feddwl, o gynllunio, o greu delfrydau, o lunio dewis mewn bywyd cymdeithasol a rhestru ei phrifyddion...” (Lloyd, 1970, p. 119).

Newid arall a ddaeth yn sgil dyfodiad y rheilffyrdd a hybodd ymdeimlad y Cymry o berthyn i genedl ehangach oedd sefydlogi amser. Cyn dyfodiad y rheilffyrdd, ac am gyfnod yn ddiweddarach, roedd gwahanol barthau o’r Deyrnas Unedig yn cadw at eu hamseroedd eu hunain, e.e. roedd amser gogledd Cymru 16 munud a hanner ar ôl amser Llundain, a hynny’n seiliedig ar ganrifoedd o arsylwi seryddol. Ond er hwylustod y rheilffyrdd, erbyn diwedd y 1840au gosodwyd y ‘Railway Time’ yn Llundain. Y canlyniad oedd pwysleisio pwysigrwydd llif amser, a hybu’r ymdeimlad o berthyn i genedl ar y cyd (Bradley, 2015, pp. 18-21). Er nad yw Anderson yn cyfeirio’n benodol ar y newid hwn yn ei waith yntau, mae’n pwysleisio bod y papur newydd wedi chwyldroi’r modd y meddyliai pobl am amser, gan wneud iddynt sylweddoli eu bod yn “solid community moving steadily up (or down) history” drwy “homogenous, empty time” (Anderson, 1991, p. 26). Mae’n anodd credu na fyddai’r newid i un amser cenedlaethol a ysgogwyd gan y rheilffordd wedi cael effaith debyg; yn enwedig o gofio mai amser y brifddinas oedd y safon. Am y tro cyntaf roedd trigolion y genedl-wladwriaeth gyfan yn cydsymud trwy’r amser fel olwynion trênn stêm. Pwysleisid hyn drwy osod clociau mawrion ar flaen gorsafoedd rheilffordd:

To show the time in this way implied a claim to the kind of authority that had traditionally resided in municipal and communal buildings, guildhall and town hall and church steeple; it was a significant embodiment of the power of capital, and a reminder of the extent to which conditions and standards were to be imposed forthwith from outside the community. (Bradley, 2015, pp. 18-21)

Gellid dadlau mai un o effeithiau eraill y rheilffordd oedd hybu'r Saesneg ar ffurf weledol. Byddai gorsafoddedd y rheilffyrdd wrth galon cymunedau, a'r arwyddion uniaith Saesneg – heb sôn, wrth gwrs, am y papurau newydd Llundainig – yn fodd o bwysleisio eto mai'r Saesneg oedd iaith cynnydd. Dywed Isaac D. Davies yn 1885 fod lledaeniad y papurau Saesneg yn rhoi'r argraff bod y wlad yn llawer mwy Seisnig nag yr oedd mewn gwirionedd: “Darllenir llyfrau a newyddiaduron Seisnig gan filoedd lawer sydd yn hoffi'r Gymraeg ar yr un pryd... Y mae lledaeniad arwynebol y Saesneg yn rhoddi agwedd Seisnigaidd i'r wlad, yng ngolwg y Saeson, a'r teithwyr eraill sydd yn ymdeithio'n gyflym drwyddi. Ond Cymreig ydyw canol a chalon y wlad” (Davies, 1885, p. 209). Sylwodd Michael D. Jones ar dueddiad Cymry uniaith Gymraeg, a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig diarffordd, i godi arwyddion Saesneg ar eu tai a'u busnesau, hyd yn oed pan nad oedd unrhyw ddiben ymarferol dros wneud hynny, ac yn wir, gallai achosi dryswch ymysg y di-Gymraeg: “Mae John Jones, y crydd, mewn hirgwm cul na roddodd yr un Sais erioed ei droed o'i fewn, wedi gosod uwchben ei ddrws ‘John Jones, Boot and Shoemaker’. Mae Sian yr olchreg... yn tynu ei holl fyliau yn Seisonaeg, ac yn gwneud aml i gamgymeriad... pob un yn dilyn ffyrdd ynfyd crach-fonedd Dic Sion Dafyddol” (Jones, 1891a, p. 246). Y diben, bid siŵr, oedd – fel hetiau silc y pregethwyr – dangos eu bod hwythau yn perthyn i'r oes newydd. Roedd math o genedlaetholdeb ymerodrol, Seisnig, wedi cydio ynddynt, a danseiliai'r Gymraeg. A'r rheilffordd oedd y dechnoleg gyfathrebu a esgorodd ar y newid hwnnw. Effaith y cyfan oedd argyhoeddi'r Cymry mai Saesneg oedd iaith y dyfodol,

iaith rhyddid, ac iaith cynnydd: “Fel y dymchwelai’r rheilffyrdd yr amddiffynfeydd a ynysai gefn gwlad, gwreiddiodd y syniad mai Saesneg oedd iaith llewyrch masnachol ac iaith y dyfodol. Yr oedd chwyldro’r rheilffyrdd yn fater a oedd yn ymwneud â diwylliant a chymdeithas yn gymaint ag economeg; y mae’n un o brif achosion newid iaith yng Nghymru’r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ochr yn ochr â mudo ac addysg” (D. Jones, 1999, p. 149). Mae’r rheilffordd yn esiampl bwerus, felly, o’r modd yr oedd grym economaidd yr Ymerodraeth Brydeinig yn gyrru newid iaith yng Nghymru, ac, yn fwy na hynny, yn gallu hybu ymdeimlad o berthyn i gymuned ddychmygedig ehangach.

### *Sgil-ffaith holl fanteision y wasg Saesneg*

Gwelir felly fod yr holl ffactorau hynny a fu’n hwb i’r wasg Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn, ac a esgorodd ar yr ‘oes aur’ –llacio’r trethi ar wybodaeth, datblygiadau i dechnoleg argraffu, a datblygiad y rheilffyrdd - oll hefyd yn fwy manteisiol i’r wasg Saesneg. Rhaid pwysleisio felly nad gwendid y wasg Gymraeg oedd y brif atalfa i ddatblygu cenedlaetholdeb yn ystod y cyfnod hwn, ond yn hytrach gryfder masnachol mwy y wasg Saesneg. Dyma her fasnachol nad oedd cenedloedd eraill anhanesïol Ewrop yn ei hwynebu. Mae gan bwysigrwydd y wasg le amlwg yn namcaniaeth Hroch yn ogystal, ac unwaith eto mae’n nodi bod gwahaniaethau sylweddol rhwng Cymru a gwledydd canol Ewrop. Noda fod mudiad cenedlaethol Fflandrys wedi methu â denu cefnogaeth er gwaetha’r ffaith ei fod yn meddu ar wasg ffyniannus (Hroch, 2000, pp. 114-5). Yr esboniad, meddai Hroch, yw bod gwledydd a chanddynt ddisgwrs gwleidyddol datblygedig yn llai tebygol o sicrhau annibyniaeth na gwledydd a chanddynt ddisgwrs gwleidyddol llai datblygedig. Hynny yw, mewn gwledydd megis Bohemia ac Estonia nid oedd disgwrs gwleidyddol wedi datblygu i’r fath raddau fel y gallai rhwygiadau ymddangos oddi mewn iddo. Yn y gwledydd gorllewinol, gan gynnwys Cymru, bu’n rhaid i fudiadau cenedlaetholgar frwydro am deyrngarwch gwleidyddol y bobl yn erbyn pleidiau gwleidyddol

eraill, rhyddfrydol, ceidwadol a sosialaidd (Hroch, 1993, p. 12). Er bod y Cymry yn meddu ar rwydwaith gyhoeddi ddatblygedig o'i gymharu â gwledydd canol Ewrop erbyn y 19eg ganrif, roedd cenedlaetholwyr yn wynebu llawer mwy o gystadleuaeth gan gyhoeddwr gwleidyddol eraill, yn benodol felly genedlaetholwyr Prydeinig. Mewn cyferbyniad, awgryma O'Reilly fod methiant yr Ymerodraeth Hapsburgaidd wrth ganoli grym yn deillio'n rhannol o wendid y rhwydwaith gyfathrebu o fewn y deyrnas: "Bad communication and the lack of an information network seemed to be the greatest obstacles to a greater success in the imperial colonisation of Austrian territories" (O'Reilly, 2015, p. 119). Mae'r pwyslais hwn ar allu'r wladwriaeth ganolog i gyfathrebu â'r darpar genhedloedd segmentedig yn awgrymu nad yw cymariaethau meintiol megis nifer siaradwyr a chyhoeddiadau rhwng y naill wlad a'r llall yn arbennig o ddefnyddiol mewn gwirionedd.

Roedd dylanwad gwasg Lloegr ar y Cymry yn amlwg hyd yn oed cyn y 19eg ganrif,<sup>255</sup> ac erbyn 1947 roedd 100,000 o bapurau newydd o Loegr eisoes yn cael eu hanfon i Gaerdydd i'w dosbarthu drwy weddill de Cymru (A.G. Jones, 1998, pp. 166, 217). Ond fe gyflymodd y broses ymhellach yn sgil gostwng y trethi ar wybodaeth, ac mae Aled Gruffydd Jones yn tybio bod gwasg 'dwy haen' wedi datblygu yng Nghymru oddi ar 1855 – y wasg Gymraeg oedd â marchnad gyfyng a heb y cyfalaf i'w chyrraedd, a gwasg Saesneg a oedd mewn safle gwell i fanteisio ar gyfleoedd economaidd y cyfnod (Jones, 1993, pp. 5, 212). Awgryma Williams a Curran (Williams, 1998, p. 47; Curran, 1978, p. 67) fod masnacheiddio'r wasg yn dilyn llacio'r

---

<sup>255</sup> Cyn y 19eg ganrif roedd y mwyafrif o gylchgronau Saesneg oedd ar werth yng Nghymru yn dod o Lundain (Walters, 1987, p. 12). Dengys Marion Löffler fod gohebiaeth Morysïaid Môn yn frith o gyfeiriadau at gyfnodolion o Loegr, a (Löffler, 2012, p. 3) dyfynnir ganddi gerdd gan gapten llong o Bentraeth ar Ynys Môn, yn 1738, yn nodi'r plaser y câi sawl Cymro wrth ddarllen newyddion Caer a Llundain (Prichard, 1759, p. 425). Roedd papurau newydd Saesneg o Loegr ar gael ym Merthyr ers y 18fed ganrif, a chynyddodd eu nifer yn ddirfawr o'r 1830au ymlaen (Williams, 1985, p. 187). Awgryma 'Mentor' yn y Diwygiwr mor gynnar â 1846 bod yn rhaid i'r Cymry droi at y papurau Saesneg os oeddnt am wybod beth oedd yn digwydd yn y byd: "a thuag at ddiwallu'r archwaeth hon, y mae miloedd o Newyddiaduron yn dyfod i'n mysg bob dydd o'r wythnos, ond nid oes yr un o honynt yn ein iaith ein hunain" (Mentor, 1846, p. 114). Parhad yn hytrach na newid a welir wrth i'r 19eg ganrif fynd rhagddi, ond daeth y cyfodiad rhwng hygyrchedd a safon y cyfnodolion yn y naill iaith a'r llall yn fwy amlwg wrth i'r ganrif dynnu at ei therfyn.

trethi ar wybodaeth wedi arwain at gyfnod o gyd-dyrru (conglomeration) ymysg papurau newydd, gydag un ‘haen’, fel yr awgrymir gan Aled Gruffydd Jones, yn ysglyfaeth i’r llall.<sup>256</sup> Ond nid oedd hyd yn oed y papurau dyddiol Saesneg rhanbarthol yn ddiogel yn hyn o beth.<sup>257</sup> Un llygad-dyst i’r broses hon ar waith yng Nghymru oedd y newyddiadurwr a’r golygydd Picton Davies, sy’n nodi yn ei hunangofiant mai canlyniad anochel masnacheiddio a phroffesiynoli’r diwydiant papurau newydd oedd bod cwmnïau mawr, proffesiynol, yn prynu papurau newydd llai, mwy amaturaidd, a’u cau, er mwyn dileu’r gystadleuaeth a sicrhau monopoli yn yr ardal: “Trist meddwl bod cymaint o bapurau Cymru wedi darfod o’r tir er dechrau’r ganrif... Credaf fod cyfanswm y colledigion dros ddeugain.”<sup>258</sup> (Davies, 1962, p. 133) Nid arbedwyd papurau Cymraeg yn y broses hon. Ar droad y ganrif roedd mwyafrif argraffwyr gogledd Cymru wedi cyd-dyrru yng Nghaernarfon a Dinbych (I.G. Jones, 1998, p. 161), ac erbyn 1918 roedd gan y cyfalafwr D. A. Thomas, is-iarll y Rhondda, ddylanwad ariannol dros naw o bapurau newydd, gan gynnwys *Y Faner*, y *Tyst* a’r *Darian* (A.G. Jones, 1998, p. 215). Dywed Aled Gruffydd Jones mai canlyniad y tueddiad at gyd-dyrru rhwng yr 1890au a’r Rhyfel Byd Cyntaf oedd nad oedd bellach yn wasg Gymreig ond yn hytrach yn “an extension of English and international media empires.” Syrthiodd canran y papurau newydd Cymraeg ymysg cyfanswm y papurau newydd yng Nghymru o 17% yn 1914 i 8% erbyn 1960 (A.G. Jones, 1993, p. 202; 1998, p. 216). Arweiniodd hynny at newid yng ngogwydd golygyddol y papurau, wrth iddynt ddod i adlewyrchu barn eu meistri newydd (Smith, 2000,

---

<sup>256</sup> Dichon fod yr effeithiau yn parhau hyd heddiw yn y Deyrnas Unedig (Curran, 2009, p. 76) a’r Unol Daleithiau (McQuail, 1994, p. 166).

<sup>257</sup> Roedd Picton Davies yn gresynu at y lleihad mewn amrywiaeth barn yn y papurau newydd a ddaeth o ganlyniad i’r cyd-dyrru hwn, gan gyfeirio at lwyddiant y *Western Mail* Ceidwadol i brynu’r *South Wales News* Ryddfrydol. Dywed fod hyn yn gam amhoblogaidd ymysg trigolion de Cymru a oedd “yn hoffi cael mwy nag un farn ar bynciau gwleidyddol a chymdeithasol. O hyn allan rhaid fu iddynt fodloni ar un farn yn unig” (Davies, 1962, pp. 173-4).

<sup>258</sup> Canlyniad y newidiadau hyn, medd Robert Smith, oedd dod â chyfnod y golygydd-argraffwr a oedd yn nodweddiadol o ail hanner y 19eg ganrif i ben (Smith, 2000, pp. 269-70). Gwnaethpwyd newyddiaduraeth yn swydd broffesiynol, yn hytrach na dibynnu ar gyfraniadau amaturiaid. Dibynnwyd fwyfwy ar gyflogi asiantaethau newyddion i gasglu newyddion cenedlaethol, yn hytrach na ffynonellau lleol. Yn ogystal, fe gyflogwyd rheolwyr i edrych ar ôl yr ochr fusnes, gan sicrhau bod cynnyrch y wasg yn talu ei ffordd (A.G. Jones, 1993, pp. 25, 48, 56, 65).



pp. 269-70). Canlyniad arall oedd twf papurau newydd dyddiol a oedd yn pontio Cymru a Lloegr, ac awgryma E. Morgan Humphreys mai'r rheini a oedd yn bennaf gyfrifol am dranc y cylchgronau a'r papurau newydd Cymraeg. Yn yr 1860au "bodlonai'r rhan fwyaf o bobl ar y papur lleol ac ar y papur Cymraeg," a dim ond aelodau o'r dosbarth canol megis personau, gweinidogion a meddygon fyddai'n cael papur dyddiol. Ond o'r 1880au ymlaen, daeth yn arfer i'r werin eu prynu yn ogystal<sup>259</sup> (Humphreys, 1945, p. 42). Gwelir yr un broses ar waith ym myd cyhoeddi llyfrau.<sup>260</sup>

Nodwyd eisoes fod yr Ymneilltuwyr wedi gweld y newidiadau hyn yn dod o bell, ac efallai nad yw eu pesimistiaeth ynglŷn â'r iaith Gymraeg yn syndod o ystyried eu bod yn ymwneud mor agos â'r wasg argraffu. Gwnaeth E. Morgan Humphreys yn glir mai problem fasnachol, yn ogystal ag ideolegol, oedd effaith y wasg Saesneg ar Gymru:

Eithr nid yr effaith ar feddwl y bobl sydd gennyf dan sylw ar y foment ond yr effaith ar broblem y papur Cymraeg. Y mae'n rhaid i gyhoeddwyr papurau Cymraeg heddiw wynebu cystadleuaeth y wasg Saesneg, gyda'i hadnoddau mawr mewn dawn a chyfalaf, a'r cwestiwn cyntaf y mae'n rhaid ei ofyn ydyw a oes obaith i'r wasg Gymraeg ddal ei thir mewn cystadleuaeth o'r fath? (Humphreys, 1945, pp. 42-3)

---

<sup>259</sup> Erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf roedd y wasg Saesneg wedi gwthio'r wasg Gymraeg o'r neilltu, hyd yn oed yng nghefn gwlad a chadarnleoedd y Gymraeg. "Mewn pentref bychan iawn ym Môn ychydig cyn y rhyfel sylwais ar siop lle gwerthid tipyn o bob peth, yn ôl pob golwg, gan gynnwys papurau newydd. Yr oedd nifer o bosteri papurau newydd y tu allan, a phob un ohonynt, yn yr ardal gwbl Gymreig honno, yn bapur Saesneg. Nid eithriad oedd y pentref hwnnw; y mae'r peth i'w weled pa le bynnag yr eloch, ac nid yw'n rhaid bod yn graff iawn i ganfod beth fydd y canlyniadau anorfod" (Humphreys, 1945, p. 42). Awgryma Gwyn A. Williams mai dyfodiad y papurau Sul a fraenarodd y tir ar gyfer y newid o ddarllen papurau Cymraeg i rai Saesneg. Y rheini oedd y papurau cyntaf i gael eu mas-gynhyrchu ar lefel wir genedlaethol, a troesant trigolion Prydain "into the most newspaper-addicted people in the world" (Williams, 1985, p. 202).

<sup>260</sup> Erbyn 1892 gallai John E. Southall nodi mai anaml iawn y gwelid unrhyw gyhoeddiad ar werth yng Nghymru heb enw gwasg o Lundain arno. W. Spurrell and Son oedd yr unig wasg o bwys yn ne Cymru erbyn hynny, ac roedd llai o brynu ar weithiau Hughes a'i Fab o Wrecsam. Rhybuddiai fod tranc cyhoeddi yng Nghymru yn anorfod os na weithredid ar frys (Southall, 1892, pp. 303-7).

Hyd yn oed pe baent wedi dadlau'n groch yn erbyn goruchafiaeth y Saesneg, byddai llais cyfranwyr y wasg Gymraeg wedi ei fodd. Dywed y *Faner* yn 1908 fod y papurau dyddiol Saesneg “yn gorlifo ein gwlad.” Roeddynt “yn cofnodi digwyddiadau Cymru o ddydd i ddydd. Ac fel canlyniad, y maent yn rhagflaenu ein newyddiaduron wythnosol ni ein hunain; ac, i raddau, yn eu gwneud yn ddianghenraid” (p. 10). Dyma gyhoeddiad oedd â phob cymhellant dros ddadlau dros barhad cyhoeddi yn y Gymraeg; serch hynny, roedd yr ysgrifen ar y mur.

Golygai mantais fasnachol y wasg Saesneg Lundeinig ei bod mewn safle ardderchog i gyfathrebu propaganda a allai argyhoeddi'r Cymry i dderbyn cael eu cymhathu yn rhan o'r Ymerodraeth. Wrth ystyried twf propaganda yn y 19eg ganrif,<sup>261</sup> dywed Phil M. Taylor fod cyflymu proses cynhyrchu papurau newydd, twf y rheilffordd, a ffotograffiaeth yn golygu ei fod yn gyfnod o ddefnydd cynyddol o bropaganda er mwyn rheoli'r farn gyhoeddus: “... as a result of technological innovations, the century saw a steady rise in the role of public opinion and in the use of propaganda by governing élites to influence it.”<sup>262</sup> (Taylor, 1995, p. 166) Gwnâi Emrys ap Iwan yn amlwg yn y *Faner* ei fod yn credu y byddai'r wasg Lundeinig yn dweud celwyddau am anturiaethau tramor yr Ymerodraeth er mwyn hybu gwladgarwch. Cafodd y ffeithiau eu “[gwyrdroi] mor gywilyddus gan y wasg Seisnig, er mwyn goreuro

---

<sup>261</sup> Nid oedd defnyddio'r wasg fel cyfrwng i ddylanwadu ar y cyhoedd yn beth newydd, ac mae Olivier Thomson yn dangos bod gan olygyddion papurau newydd Lloegr ddealltwriaeth ddwfn o anghenion propaganda erbyn dechrau'r 18fed ganrif. Dywed Viscount Bolingbroke, golygydd *The Craftsman* o 1722 ymlaen: “This monstrous beast [the public] has passions to be moved, but not reason to be appealed to... the plain truth will influence half a score of men at most in a nation, while mysteries will lead millions by the nose” (Thomas, 1999, p. 204).

<sup>262</sup> Un o nodweddion y wasg Brydeinig yn ystod y 19eg ganrif oedd ei thueddiad i bwysleisio nodweddion uwchraddol y Saeson drwy orliwio barbareiddiwech trigolion, diwyllianau ac ieithoedd eraill. Cred Oliver Thompson mai ymateb i ymestyn y bleidlais yn y Deyrnas Unedig oedd hon. O ganiatáu mynediad i ddosbarthiadau is y Deyrnas Unedig i'r Senedd, roedd yn rhaid esbonio pam na chaniatawyd mynediad i drigolion rhannau eraill o'r Ymerodraeth. Roedd papurau newydd y cyfnod yn “hysterically nationalistic”, tueddiad a gyraeddodd ei benllanw yn ystod Rhyfel y Boer (Thomas, 1999, p. 244). Yng nghyd-destun damcaniaeth Roeder, gwelwn dystiolaeth bod yr Ymerodraeth Brydeinig eisoes yn ansefydlog. Roedd y syniad o ‘faich y dyn gwyn’ yn golygu bod cyfrifoldeb moesol ar Brydeinwyr i wladychu'r byd. Dywed Phillip M. Taylor fod unrhyw fethiant ar ran milwyr i orchfygu'r gelyn israddol yn cael ei bortreadu fel methiant yn wyneb ffyrnigrwydd barbaraid a niferoedd di-rif yr anwariaid (Taylor, 1995, p. 166).

gorchfygiad, a phorthi balchder milwrol y genedl Seisnig”<sup>263</sup> (ap Iwan, 1879, p. 18). Er bod y llywodraeth hefyd yn gwneud defnydd o bropaganda,<sup>264</sup> awgryma Taylor mai budd masnachol perchnogion y papurau a fyddai’n ymelwa ar ehangiad yr Ymerodraeth oedd yn bennaf y tu cefn i’r imperialaeth hon: “... British propaganda occurred perhaps more by accident and private enterprise than by government design...” Golygai cenedlaetholdeb modern, rhyddfrydol roi rhagor o rym yn nwylo’r werin, a sgil-effaith hynny oedd yr angen i reoli barn y bobl drwy’r wasg<sup>265</sup> (Taylor, 1995, p. 170). Nid yw’n syndod felly fod y Cymry, fel pob grŵp arall o fewn yr Ymerodraeth, wedi dod dan bwysau cymhathol o du’r wasg Lundeinig. Y mwyaf dylanwadol yn eu mysg oedd y *Times* – “pen tywysog newyddiaduron yr holl Ddaiar,” meddai y *Faner* â’i dafod yn ei foch, ac mai “ei ymffrost gwastadol ydoedd gosod ei droed ar wddf cenedlaetholdeb pob gwlad, a chymmeryd mantais o bob achlysur i ddyrchafu’r hyn sydd Seisonig goruwch yr hyn sydd ddynol” (Gee, 1863, p. 1). Roedd y *Times* fel petai’n ystyried yr Eisteddfod yn sarhad arbennig ar ei werthoedd craidd. Mae’r papur yn mynd i’r afael â’r ŵyl am y tro cyntaf ar Hydref 23, 1858, ac yn cwyno’n groch am y ffaith nad oes dim dylanwad Seisnig i’w gweld ynddi,<sup>266</sup> ond fe osodwyd yr achos yn erbyn y Gymraeg yn fwy llym o lawer ar 8 Medi 1866. Mae’r “unintelligible songs and addresses” ac “unpronounceable names” yn ddigon diniwed, meddai, ond y gwir ddrwg yw bod yr Eisteddfod yn mynd ati i annog y Cymry “to cherish their native tongue.” Dyma drosedd anfaddeuol, ac mae’r Eisteddfod ymysg “the

<sup>263</sup> Ceir ymosodiad pellach ar anwireddau’r wasg Seisnig wrth adrodd ar faterion tramor mewn erthyglau dair blynedd yn ddiweddarach (ap Iwan, 1882, p. 13).

<sup>264</sup> Roedd yr Ymerodraeth Brydeinig ar flaen y gad yn hyn o beth, a hynny oherwydd yr angen i reoli poblogaethau amrywiol ym mhob cornel o’r byd: “Her far-flung empire, from Scotland to Singapore, was maintained as much by effective communication as by the efficiency of the British Army and the Royal Navy... If British power was to be sustained it was vital for the Empire to ‘think’ British.” Dywed fod y wasg sefydliadol – y Bedwaredd Ystad - wedi tyfu yn ganolwr rhwng y bobl a’u meistri gwleidyddol, a bod Prif Weinidogion megis Gladstone a Disraeli wedi perffeithio celfyddyd propaganda gwleidyddol (Taylor, 1995, pp. 6, 158, 160-1).

<sup>265</sup> Dyma awgrym pellach i gefnogi dadl Wallerstein mai sgil-effaith ymdrech y dosbarth canol i reoli dosbarth gweithiol afreolus, a hybu eu marchnadoedd eu hunain, yw cenedlaetholdeb yn y bôn (Wallerstein, 1997, pp. 1-5).

<sup>266</sup> Dywed yr erthygl: “For four days all that has taken place in the world since the age of Owain Glyndwr is forgotten... We believe, in point of facts, that the mass of the Welsh people care nothing at all about the Eisteddfod... it is maintained by the activities of a small circle of Welsh scholars and the sympathies of a few thriving tradesmen who, after having made decent fortunes in this country [Lloegr]... return to Wales to claim communion with the ‘Llewelyns and Gwynedds’” (*The Times*, 1858, p.8).

most mischievous and selfish pieces of sentimentalism which could possibly be perpetrated. The Welsh language is the curse of Wales. Its prevalence, and the ignorance of English have excluded, and even now exclude, the Welsh people from the civilisation, the improvement, and the material prosperity of their English neighbours...” Mae’r *Times* yn wfftio unrhyw awgrym y gallai’r werin ymdopi â siarad dwy iaith, ac yn mynnu bod yn rhaid i’r Saesneg drechu’r Gymraeg yn llwyr: “One language is quite sufficient for the mass, and the common people of Wales will either speak Welsh or English... All that is valuable in the language belongs in the past... For all practical purposes, Welsh is a dead language.”<sup>267</sup> (1866a, p. 8). Ceir ymateb<sup>268</sup> digon llipa gan John Jones, Talhaiarn, a grybwyllwyd gan y *Times* yn yr erthygl wreiddiol, i’r ymosodiadau hyn, gan wadu unrhyw ymdrech i atal lledaeniad y Saesneg,<sup>269</sup> ac fe aiff y *Times*

---

<sup>267</sup> Cefndir yr ymosodiad hwn oedd bod y *Times* wedi ei gythruddo gan lythyr y dydd Iau canlynol gan yr addysgwr a’r beirniad llenyddol Matthew Arnold at Hugh Owen yn mynegi ei edmygedd o’r Eisteddfod, tra ar yr un pryd yn rhybuddio na ddylai gael ei defnyddio er mwyn atal lledaeniad yr iaith Saesneg yng Nghymru. Serch hynny roedd Matthew Arnold yntau, wrth ysgrifennu ei lyfr *On the Study of Celtic Literature* yn 1891 (ac o bosib wedi ei frifo gan feirniadaeth y *Times*) yn awyddus i ddangos nad oedd am weld parhad unrhyw beth yng Nghymru a fyddai’n eu cadw yn genedl ar wahân i’r Saeson. “The fusion of all the inhabitants of these islands into one homogenous, English-speaking whole, the breaking down of barriers between us, the swallowing up of separate provincial nationalities, is a consummation to which the natural course of things irresistably trends; it is a necessity of what is called modern civilisation, and modern civilisation is a real, legitimate force; the change must come, and its accomplishment is a mere affair of time. The sooner the Welsh language disappears as an instrument of the practical, political, social life of Wales, the better; the better for England, the better for Wales itself. Trades and tourists do an excellent service by pushing the English wedge further and further into the heart of the principality; Ministers of Education, by hammering it harder and harder into the elementary schools” (Arnold, 1910, pp. 4, 20-1). Mae hwn yn ddyfyniad diddorol iawn gan ei fod yn awgrymu bod ysgrifenyddyr yr oes yn llwyr ddeall beth a fyddai sgil-effaith y tueddiad modern tuag at uno cenedloedd yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol ar yr ieithoedd lleiafrifol oddi fewn i’r cenedloedd hynny. Roedd Matthew Arnold hefyd yn deall i’r dim fod masnach rydd, ac addysg, yn fodd o erydu cadarnleoedd yr iaith nes ei bod yn diflannu yn llwyr.

<sup>268</sup> Ceir hefyd lythyrau gan ambell un arall sy’n cadarnhau ofnau gwaethaf y papur am effaith yr iaith Gymraeg ar y Cymry – gan gynnwys yr offeiriaid Anglicanaidd yn eu mysg, hyd yn oed. “The Welsh parson, by the way, is usually sprung from a humble family, and after studying for a short time in some of the local schools, or in some cases Jesus College, Oxford, for a term or two, obtains ordination... he then sinks back into the slough from which he temporarily emerged. In a few years you will meet him in his village, slovenly in his dress, and expressing himself in English with an effort which evidently shows long disuse” (*The Times*, 1866c, p.5). Awgryma’r cysylltiad a wnaed fan hyn rhwng amhuredd moesol a chorfforol yr offeiriad a’r iaith Gymraeg, fod nifer o honiadau’r Llyfrau Gleision yn parhau yn rymus ymysg y di-Gymraeg yng Nghymru a Lloegr erbyn diwedd y 60au.

<sup>269</sup> Ynddo mae’n dadlau, fel Matthew Arnold, nad oes ganddynt unrhyw fwriad i atal lledaeniad yr iaith Saesneg yng Nghymru: “We should be positive fools if we were to attempt it... The council of the Eisteddfod and the wise and learned in Wales have no sympathy with such wrong-headedness.” Serch hynny, gan nad yw mwyafrif trigolion Cymry yn gallu siarad Saesneg, mae’n rhaid parhau ei chynnal yn Gymraeg am y tro, meddai: “Many languages become extinct; and when it pleases the Almighty the Welsh language will cease to exist... But while the Welsh language is the only language of an immense number of my countrymen it is our duty to use it to educate, to improve, and to refine them” (*The Times*, 1866b, p. 9). Serch hynny, nid yw ei ymateb yn bodloni’r *Times*, sy’n datgan yr un diwrnod: “He unconsciously confessed to the exact truth of the accusation we made, and he only expressed the folly in more emphatic terms than we ventured to use” (*The Times*, 1866b, p. 6).

yn ei flaen i fynnu mai rhagoriaeth fasnachol Lloegr dros Gymru yw'r prawf pennaf o ddiffyg gwerth y Gymraeg: "It is true [that Wales] possesses valuable minerals, but these have been chiefly developed by English energy and for the supply of English wants. A rare existence on the most primitive food of a mountainous race is all that the Welsh could enjoy if left to themselves... All the progress and civilization of Wales has come from England, and a sensible Welshman would direct all his endeavours towards inducing his countrymen to appreciate their neighbours instead of themselves" (1866b, p. 6). Rhoddir llawer o bwyslais gan haneswyr ar effaith ffrwydrol y Llyfrau Gleision ar seice'r Cymry. Yn nhyb Gwyneth Roberts: "[it] blasted them into submission by telling them with all the power of its authority that the distinctive features which gave themselves, their community and their country a separate identity – most notably their language – were irredeemably inferior, backward, and barbaric..." (Roberts, 1998, p. 238). Ond os oedd y Llyfrau Gleision fel bom, yna roedd cynnyrch y wasg Lundeinig yn *blitz* dyddiol, ac mae'n rhaid bod ei effaith ar y modd yr oedd y Cymry yn synio amdanynt eu hunain yn bellgyrhaeddol.

Gellid dadlau mai dim ond carfan fechan o'r gymdeithas a ddarllenai'r wasg Saesneg, ond hyd yn oed wedyn gallai ei dylanwad dreiddio i lawr at y werin Gymraeg eu hiaith. Yn y 1950au fe ddatblygodd y cymdeithasegwyr Paul F. Lazarsfel ac Elihu Katz ddamcaniaeth newydd ynglŷn â'r modd yr oedd y cyfryngau yn effeithio ar bobl, a elwir yn llif cyfathrebu dau-gam (two-step flow of communication). Ymgais oedd yr ymchwil hon i esbonio pam yr oedd astudiaethau blaenorol yn awgrymu fod gan y cyfryngau effaith gymharol fychan ar farn unigolion, a'u bod nhw'n tueddu'n hytrach i wrando ar farn cyfeillion. Roedd yr ymchwil yn awgrymu nad oedd llif uniongyrchol o wybodaeth rhwng y cyfryngau a'r cyhoedd, ond yn hytrach fod pob cymuned yn cynnwys llond dwrn o arweinwyr barn a oedd yn cymryd diddordeb mawr yng nghynnwys y cyfryngau, ac yn trosglwyddo'r wybodaeth honno i eraill

o’u cwmpas. Roedd statws yr arweinwyr barn hyn yn cael ei benderfynu gan eu hoed, eu statws economaidd-gymdeithasol, a’u rhwydwaith cysylltiadau yn y gymuned (Katz & Lazarsfeld, 1955). Yn achos Cymry, gallai dylanwad y wasg Lundeinig dreiddio i’r gymdeithas drwy’r dosbarth canol Saesneg eu hiaith. Dywed Ieuan Gwynedd Jones fod awdurdod yn y 19eg ganrif yn llifo i lawr o frig y gymdeithas: “In such socially diverse and deferential societies, moral, educational, cultural, and literary standards were determined by a small elite in town and country” (Jones, 1998, p. 162). Cythruddid Michael D. Jones gan y ‘Dic Siônesau’ a ddychwelai at eu teuluoedd ar ôl gweini mewn teuluoedd Saesneg eu hiaith ac a oedd bellach yn argyhoeddedig bod popeth Saesneg yn well na’r Gymraeg (Walters, 2002, p. 127).<sup>270</sup> Ond byddai’r pregethwyr Ymneilltuol a’u gafael haearnaidd ar y wasg Gymraeg hefyd yn fodd o drosglwyddo propaganda’r wasg Saesneg ymysg y gymuned – roeddynt yn tueddu i fod yn hŷn, yn uchel eu statws yn gymdeithasol, ac roedd ganddynt rwydweithiau helaeth o gysylltiadau ledled y wlad. Fel y gwelir yn y bennod nesaf, roedd y wasg Gymraeg yn frith o gyfeiriadau at y wasg Saesneg. Ystyriai’r Faner erthygl y *Times* yn ymosod ar yr Eisteddfod yn 1863 yn ddigon pwysig i haeddu ymateb ar y dudalen flaen. Dywed eu bod “yn ôl ein harfer, ac i ddilyn y ffasiwn... yn darllen erthyglau arweiniol y prif newyddiadur yn fynych... y gwirionedd ydyw, y mae [*Y Times*] yn allu...” Ymatebodd yn yr un erthygl i ymosodiadau ar y Gymraeg yn y *Spectator* a’r *Daily Telegraph* yr wythnos flaenorol: “Galwant ein hiaith yn farbaraidd, a’n beirdd yn anwariaid dwl ac anwybodus” (Gee, 1863, p. 1). Treiddiai’r un ddelwedd o’r Cymry i’w disgwrs eu hunain, hyd yn oed. Dywed R.J. Derfel nad geiriau’r dosbarth canol a’r uwch-ddosbarth Saesneg oedd yn peri’r loes fwyaf iddo, ond y Cymry a

---

<sup>270</sup> Wrth ysgrifennu dan yr enw ‘Llewelyn’ yn y *Geninen* yn 1895, mae’n mynegi ei gasineb at y merched sy’n “seryd Saesneg gyda’i chyfeillesau, a Saesneg yn ei lletty. Ni waeth pa mor dew a chlogyrnaidd a fydd yr iaith hono ganddi, ystyria fod ei siarad rywsut yn ei gwneud yn fwy urddasol, ac yn arbenig tybia y bydd yn fwy marchnadwy gyda’r bechgyn llyfnged sydd yn destyn ei hedmygedd yn y dydd a’i breuddwydion yn y nos” (‘Ysbryd Llywelyn’, 1895, p. 277). Mae Ambrose Bebb yn llunio darlun tebygol o ferched ifanc y cyfnod yn clebran mewn bratiaith hanner-Saesneg ym Mangor ar droad y ganrif (Bebb, 1954, pp. 274-5). Nodir yn y *Monmouthshire Merlin* ei bod yn well gan ddynion briodi merched a fu’n gweini. Roedd eu meistri Seisnig hefyd yn ddylanwad mawr ar iaith ac arferion dynion y tref diwydiannol. “You hear him repeat with manifest pleasure and pride the sayings and doings of his masters” (*Monmouthshire Merlin*, 1850d, p. 4).

ymunai â hwy: “During my first years of travelling in Wales, the commercial rooms were hotbeds of abuse and ridicule of everything Welsh... But what annoyed me more than anything else was the presence of Welsh traitors, joining with strangers, to vilify their country and countrymen: and the brainless weaklings who were too cowardly to say a word in defence of their country”<sup>271</sup> (Derfel, 1905). Gwelir neges y wasg Lundeinig wedi ei hadlewyrchu yn glir yn llwfrdra y cyfnodolion Cymraeg eu hunain, gan gynnwys rhai amlwg eu cenedlaetholdeb megis y *Geninen*.<sup>272</sup> Flwyddyn cyn i’r *Times* ddatgan tranc y Gymraeg yn 1866, roedd y *Cronicl* wedi achub y blaen arni:

Marw y mae y Gymraeg. Y mae wedi marw yn llys barn. Y mae wedi marw yn marchnad yr arian, a bron yn marchnad pob peth arall. Y mae wedi marw yn safleoedd y rheilffordd, a swyddfâu pob elw... Nid dweud ein dymuniad yr ydym... ond dweud ffeithiau, a cheisio cynhyrfu ein cenedl i ddarparu at fyw ar ei hôl. (1865, p. 306)

Nid oedd Cymru yn unigryw yn hyn o beth. Dywed Malcolm Chapman fod meddylfryd tebyg wedi treiddio i’r Alban yn ogystal, gan gysylltu’r iaith Aeleg â’r gorffennol a dirywiad: “It is remarkable how often the Celt is located in some kind of opposition to the modern world of rationality, economics, bureaucracy and, as an image to stand for all of these, machinery, which instantly conjures up an opposition of untroubled nature, free from artifice” (Chapman, 1978, p. 105).

---

<sup>271</sup> Dywed Michael D. Jones yntau nad ewyllysiai cynrychiolwyr Cymru yn y Senedd roi blaenoriaeth i’w gwlad eu hunain. “Y pla sydd yn blino yr Aelodau Cymreig yw eu gofal mawr rhag colli parch yng ngolwg y Saeson” (Jones, 1884).

<sup>272</sup> Cynigiai Tafolog yn 1886, ynghanol llith genedlaetholgar, fod y Cymry “fel y mwyafrif o’r hiliogaeth Geltaidd... yn ddifffygol mewn sefydlogrwydd a dyfalbarhad; mae yn hawdd ein cynhyrfu i weithredu, ac mor hawdd a hyny ein llwfrhau...” (Tafolog, 1886, p.83) Nodai Southall na welir, yn yr ardaloedd hynny lle’r oedd y Gymraeg eisoes wedi colli tir, “the improvement in the intellectual condition of the people which some people have superficially thought would almost necessarily follow” (Southall, 1888, p. V).

Gellid awgrymu felly nad ideoleg ryddfrydol y Cymry oedd y drwg, ond yn hytrach fod eu hanfantais economaidd wedi eu gwneud yn ysglyfaeth i bropaganda gwasg a hyrwyddwyd gan ddsbarth canol a welai fudd yn eu cymhathu; pe bai'r esgid wedi bod ar y droed arall, yr un fuasai'r canlyniad. Awgryma Neldge, Strubell a Williams fod y disgwrs modernaidd a ddaeth i'r amlwg yn sgil diwydiannu wedi gadael ôl seicolegol ar siaradwyr y diwylliant lleiafrifol a israddolwyd ganddynt (Nelde, et al., 1996, p. 2). Yn ôl Henri Tajfel, mae'r ystrydebau a grëir dan y fath amgylchiadau yn dilyn patrwm eglur; esbonnir y ffaith bod un grŵp yn israddol drwy ddweud eu bod nhw'n ddiog neu yn dwp, a bod y grŵp arall yn ddominyddol oherwydd eu bod yn meddu ar rinweddau aruchel. Mae'r grŵp dominyddol yn creu system o werthoedd, er mwyn gallu honni bod y grŵp israddol wedi troseddu yn erbyn y gwerthoedd hynny. Mewn gwirionedd mae'r gwerthoedd hyn, a'r ffiniau rhwng y 'ni' a 'nhw' yn cael eu hail-drefnu yn gyson gan y grŵp dominyddol er mwyn cynnal y cyfiawnhad dros anghydraddoldeb (Tajfel, 1981, p. 161). Yn ôl Susan Pitchford, mae hyn yn gosod y grŵp sydd dan warchae dan anfantais barhaol, am mai gwerthoedd y gelyn yw'r ffon fesur a ddefnyddir gan y ddwy ochr: "The critical point is that much of the challenger's vocabulary is borrowed from the opponent's own lexicon..."<sup>273</sup> (Pitchford, 2001, pp. 46-48, 60) Dengys pwyslais y Cymry ar eu crefyddolder wrth ymateb i honiadau'r Llyfrau Gleision ynghylch eu moesau sut yr oedd eu hunaniaeth wedi

---

<sup>273</sup>Awgryma Susan R. Pitchford bod y grŵp sydd dan warchae yn ymateb i'r feirniadaeth arnynt drwy bwysleisio pedwar ffactor wrth herio'r 'gelyn' ac adfer eu hunan-barch, sef honni bod eu gwahaniaethau yn rhai deniadol ac y dylid eu parchu, bod eu sefyllfa israddol yn deillio o anghyfiawnder, a'u bod nhw wedi cymryd camau dewr yn y gorffennol er mwyn gwrthwynebu yr anghyfiawnder sydd arnynt. Yn bedwerydd, mae'r grŵp israddol yn ceisio herio'r grŵp sy'n eu hisraddoli drwy ddadlau bod eu sefyllfa israddol yn deillio o'r ffaith bod eu 'gelynyon' wedi troseddu yn erbyn eu gwerthoedd allweddol eu hunain, tra maent hwy eu eu hunain wedi cynnal y gwerthoedd hynny. Wrth fynegi'r dadleuon hyn maent yn cyfeirio yn ôl at esiamplau yn eu hanes a'u diwylliant eu hunain. O ganlyniad i'r ffaith mai ceisio profi dadl y maent, mae'r ddwy ochr wrthwynebol yn dewis a dethol y ffeithiau hynny y maent yn teimlo a fydd yn cryfhau eu dadl. Rhyw fath o ddelwedd ddychmygol a greir, o ornest tynnu rhaff rhwng y ddwy ochr: "Welshness-as-wished-for," ys dywed Pitchford (2001, pp. 46-48, 60). Yn y 1990au, pan gynhaliodd Pitchford ei harchwiliad, gwnaethpwyd hyn drwy honni bod Cymru wedi dioddef yn economaidd o ganlyniad i drefedigaethu gan Loegr, bod yr iaith Gymraeg yn fyw a chanddi statws uchel, bod Cymru wedi brwydro'n ôl drwy Owain Glyndŵr, Plaid Cymru, a Chymdeithas yr Iaith, a'u bod nhw'n gwerthfawrogi clymau cymunedol yn fwy na'r Saeson (Pitchford, 2001, pp. 52-9).



ei llywio i raddau gan feirniadaeth eu gorthrymwyr. Er enghraifft, wrth drafod achos o lwgrwobrwyo etholiadol yn Lloegr, gwêl y *Faner* ei gyfle i gyhuddo'r Wasg Lundeinig o ragrith ac o fethu â chwrdd â'u safonau moesol uchel eu hunain: "Beth pe ddygwyddasai hyn yng Nghymru? [...] Buasai bysedd y *Times*, ac eraill o'i frawdoliaeth newyddiadurol, yn pwyntio atom i'n nodi allan fel y bobl fwyaf dirmygedig dan haul" (1859, p. 1). Serch hynny, nodâ Tajfel et al. fod pobl yn gyflym iawn yn mewnoli teimladau o israddoldeb ar ôl dod i gysylltiad â diwylliant sy'n mynegi'r farn honno amdanynt (Tajfel, et al., 1972, pp. 235-43). Dywed Susan R. Pitchford y gall hyn greu "feedback loop in which negative images and a low socioeconomic position are mutually reinforcing" (Pitchford, 2001, p. 46). Mae astudiaethau cyfoes o gymunedau sydd mewn amgylchiadau tebyg, dan anfantais economaidd a chymdeithasol, yn awgrymu bodolaeth ffenomenon seicolegol a elwir yn 'gyfiawnhau'r system'. Bathwyd y term "system justification" gan John T. Jost a Mahzarin R. Banaji yn 1994. Sail eu dadl yw bod grwpiau sydd dan anfantais gymdeithasol ac economaidd yn aml, yn hytrach na gwrthwynebu'r ddelwedd ohonynt sy'n cael ei hybu ymysg y grŵp mwyafrifol, yn tueddu i gyfiawnhau'r system annheg y maent yn rhan ohoni, gan atgynhyrchu stereoteipiau negyddol amdanynt hwy eu hunain. Dywed Jost a Banaji: "System-justification is the psychological process by which existing social arrangements are legitimized, even at the expense of personal and group interest." Tuedda grwpiau sydd dan anfantais gymdeithasol neu economaidd, ar waelod y domen o ran hierarchaeth grym, yn dioddef o ganlyniad i ddsbarthiad annheg adnoddau, neu sydd wedi ei gwahanu o ran swyddogaethau cymdeithasol oddi wrth y grŵp sy'n meddu ar y grym, i'w cysuro eu hunain eu bod yn haeddu dioddef yn y fath fodd, a'i fod yn anochel (Jost & Banaji, 1994, pp. 1-3). Mae ymchwil yn yr Unol Daleithiau wedi awgrymu mai'r rheini sydd fwyaf bodlon ar eu cyflwr economaidd anfanteisiol, ac yn fwyaf teyrngar i'r llywodraeth, oedd y rheini a oedd yn credu gryfaf eu bod yn haeddu bod yn dlawd, a bod eu cymdeithas yn gweithredu yn ôl rheolau meritocraziaeth (Jost, et al., 2003, p.

13). Nodir ymhellach y diffyg cysylltiad amlwg rhwng amgylchiadau grwpiau o'r fath a'u hideoleg wleidyddol – yn wir, roedd y grŵp oedd dan orthwm nid yn unig un tueddu i rannu'r un ideoleg a'u gorthrymwyr, ond yn fwy chwym o'i phlaid: “system justification tendencies include right-wing authoritarianism, belief in a just world, Protestant work ethic, power distance, and social dominance orientation...” (Jost, et al., 2004, p. 912). Gellid dadlau bod pob un o'r nodweddion hyn yn perthyn i feddylfryd Ymneilltuwr Rhyddfrydol yn y cyfnod dan sylw. Roeddynt yn llafurio dan system a oedd yn eu trin yn annheg, ond ar yr un pryd yn benderfynol o'i chyfiawnhau trwy atgynhyrchu stereoteipiau negyddol y wasg Saesneg amdanynt eu hunain, a phwysleisio athrawiaeth stoig Rhagluniaeth. Yn wir, ar sail y ddamcaniaeth hon, gellid dadlau bod twf poblogrwydd yr ideoleg Ymneilltuol-Rhyddfrydol yn ymateb seicolegol i ddarostyngiad y Cymry yn ystod y cyfnod dan sylw. Nid poblogaeth wedi eu harwain ar gyfeiliorn gan grŵp bychan o Ymneilltuwyr uwch eu statws oedd y Cymry, ond yn hytrach dosbarth gweithiol a gyfranogai'n weithredol yn eu darostyngiad eu hunain. Gellid dadlau, felly, bod angen edrych y tu hwnt i ideolegau gwleidyddol, ac i fyd seicoleg, i ddatgelu pam yn union y gweithredoedd y Cymry fel y gwnaethant yn y cyfnod dan sylw. Yn wir, awgryma un sylwebydd o'r Almaen yn y 19eg ganrif bod diraddio cyson y Cymry dan reolaeth y Saeson wedi creu gwendid seicolegol ynddynt<sup>274</sup> (Rohlf, 1868, p. 121).

### *Cymhelliad y wasg Gymraeg*

O'i gymharu â holl fanteision y wasg Saesneg, bodolai'r wasg Gymraeg, hyd yn oed yn yr 'oes aur' a ymddangosai mor ddilyffethair, dan gyfyngiadau economaidd llym. Mae lle i amau dilysrwydd datganiad Griffith John Williams yn yr 1970au bod digon o lewyrch yn y wasg Gymraeg i olygu nad “llafur cariad” oedd y gwaith o ysgrifennu a golygu llyfrau (p. 14). Mae cyfnodolion y cyfnod yn griddfan dan bwysau cwynion cyhoeddwr, golygyddion ac awduron

---

<sup>274</sup> Ceir y dyfyniad llawn yn y Gymraeg a'r Almaeneg gwreiddiol yn (Brooks, 2015, pp. 33, 150).

mai bywyd digon llwm oedd ganddynt, ac mai gwirfoddol oedd eu hymdrechion ar y cyfan.<sup>275</sup> Bodlonai rhai gweinidogion ar dderbyn copïau o'u llyfrau yn dâl am werthu'r hawlfraint i'r argraffydd, fel bod modd iddynt werthu'r copïau i gynulleidfaoedd wrth deithio'r wlad<sup>276</sup> (P.H. Jones, 1998, p. 178). Dywed y *Faner* nad oedd modd i unrhyw un a oedd yn ymwneud â'r wasg Gymraeg "gael ei dalu mewn aur ac arian, canys y mae adnoddau ein newyddiaduron yn rhy gyfyngedig i gyfoethogi perchnogion na gohebwyd," (1908, p. 10) ac fe gyfyngai'r diffyg gwobrau ariannol ar rychwant y llyfrau a gyhoeddwyd.<sup>277</sup> Amaturaidd oedd gweinyddiaeth hyd yn oed rhai o'r papurau cenedlaethol. Yn 1898 cyfaddefodd golygydd newydd y *Celt*, D. Silyn

---

<sup>275</sup> Dywed 'Annerchiad' y *Dywysogaeth* yn 1870: "Faint bynnag fo'n llwyddiant, bychan fydd ein brasder. Nid rhyw lawer o lygaid sydd ar bottes y dyn fo'n cyhoeddi papyr ceiniog Cymraeg am ei dammad bara..." (Anhysbys, 1870, p. 1) Awgryma perchennog yr *Amserau*, William Rees (Gwilym Hiraethog), ar ddiwrnod cyntaf y cyfuniad i greu *Baner ac Amserau Cymru*, fod ei "holl lafur ef a'r golygydd yn myned yn aberth gwirfoddol, heb na thâl na diolch gan neb, na disgwyliad am hynny chwaith" (Rees, 1859, p. 1). Wrth edrych yn ôl ar ddiwedd y cyfnod euraidd, dywed T. Gwynn Jones fod cyhoeddwyd Cymru yn "ddynion yn gweithio dan anfanteision dirfawr ac am y nesaf peth i ddim—yn wir, ar eu colled o arian yn fynych... Y mae bellach yn amhosibl cyfrif gwerth y llafur a aeth yn ofer a'r arian a gollwyd yn yr ymdrechion parhaus hyn i sefydlu cylchgronau a phapurau i'r lliaws" (Jones, 1913, pp. 155, 159). Dywed golygydd y *Dywysogaeth* na lwyddodd i ateb y llythyrau a anfonwyd at y papur ers ei gyhoeddi gyntaf oherwydd mai "Tri mis o lafur a lludded fu y tri mis diwethaf i ni, a buasai ateb yr holl lythyrau a dderbyniasom, yn llawr gormod o orchest i un sydd a llond ei frechiau yn barod" (Anhysbys, 1870, p. 1).

<sup>276</sup> Daeth Thomas Gee a William Rees (Gwilym Hiraethog) i gytundeb fel hyn yn 1864. Ond nid oedd yr arferion hyn wrth fodd pawb, hyd yn oed yn ystod y cyfnod dan sylw. Ystyrir gwerthu llyfrau ar y Sul yn arfer dadleuol. Awgryma Noahn Stephens fod yr arfer o werthu llyfrau ar y Sul yn destun trafod brwd yn 1849 (Stephens, 1849, p. 167). Dechreuwyd y ddadl boeth gan ymosodiad Brutus ar yr arferiad yn yr *Haul*, ac fe'i defnyddiodd i gyhuddo'r Ymneilltuwyr o ddylanwadu ar eu cynulleidfaoedd er eu budd ariannol eu hunain ('Brutus', 1847, pp. viii-iv). Mae'n bosib mai hyn a ysgogodd y drafodaeth rhwng John Thomas, Bwlchnewydd a Robert Jones, Trewen, yn nhudalennau'r *Diwygiwr* o fis Mawrth i Ragfyr 1848. Mae'r cur pen a achosai ystyriaethau masnachol fel gwerthu llyfrau ar y Sul i'r Ymneilltuwyr i'w weld yn amlwg yn yr ohebiaeth hon, gyda hollti blew ynglŷn ag a yw talu am lyfr yn esiampl o haelioni crefyddol neu o gyfrannu at elw personol (R. Jones, 1848, p. 115). Nid oedd y cwestiwn eto wedi marw erbyn 60au'r ganrif honno, wrth i David Rees nodi yn yr un cylchgrawn fod y "ceintach am werthu llyfrau yn yr addoldai, a glywyd yma a thraw er y tro, wedi cynyddu i ryw ddwndwr mwy clywadwy eleni" (Rees, 1861, p. 360). Roedd yn parhau felly yn 1883 wrth i 'Lladmerydd' gyfaddef ym mhapur newydd y *Dydd* bod "llawer o eglwysi yn cael eu blino a'u beichio gan y rhai a ddeuant heibio i gynyg eu cynrychion, ac y mae pob peth yn eu dull yn tueddu i greu rhagfarn yn eu herbyn." Serch hynny dywed mai dyna'r unig modd effeithiol o gyrraedd y rheini a fyddai'n debygol o brynu llyfrau. "Mae miloedd a brynai llyfr ond cael cynyg arno yn eu tai neu yn y capel, na feddyliant anfon i'r swyddfa amdano." Nes bod ffordd well o werthu llyfrau Cymraeg yn cael ei awgrymu, byddai'n rhaid cadw ati, meddai (Lladmerydd, 1883, p. 6). Nodai'r *Negesydd* ar droad y ganrif bod "yr hen Ymneilltuwyr wedi rhoi i lawr yr arferiad gwrthun o werthu llyfrau ar y Sabbath; ond mae'r pechod wedi adgyfodi, a'r gwahanol enwadau yn masnachu eu cyhoeddiadau a'u hemyn llyfrau mor ddiwywilydd a phe buasai'n rhan o'u crefydd" ('Cyfarwydd', 1897, p. 1). Cytunai'r *Drych* ei fod yn "arferiad gwrthun," ond serch hynny "mynd ymlaen y mae'r farchnad yn y modd mwyaf haerllug" (Eglwysbach, 1896, p. 3). Awgryma Philip Henry Jones fod y feirniadaeth yn golygu bod yr arfer o werthu llyfrau drwy'r capeli wedi peidio, o bosib cyn bod system ddosbarthu effeithiol amgen wedi ei darganfod (Jones, 1999, p.320). Serch hynny, mae'r trafodaeth yn ei gylch hyd ddiwedd y ganrif yn awgrymu ei fod wedi parhau i ryw raddau, a hynny o reidrwydd.

<sup>277</sup> Nid oedd unrhyw anogaeth, meddai'r *Traethodydd* yn 1846, i awdur dreulio blynyddoedd yn ysgrifennu er mwyn cael ei "gosbi yn lle ei wobrwyo – ei golledu yn lle ei lesâu?" (1846, p. 197) Ategu hynny a wnai 'Glanystwyth' ar ddiwedd y ganrif gan ddweud bod y diffyg telerau ffafriol "yn ddigon i ddirlethu yr athrylith gryfaf a'r awen fwyaf nwydus" (Glanystwyth, 1889, p. 159).

Evans ar dudalen flaen y papur nad oedd ganddo syniad pwy oedd cyfarwyddwr y cwmni, cyn holi'n agored a oedd yn werth parhau â'r papur o gwbl<sup>278</sup> (1898, p. 1). O ystyried yr amgylchiadau masnachol anffafriol hyn, mae'n syndod y cafwyd 'oes aur' o gwbl. Yr hyn sy'n esbonio ei ffyniant oedd nad cymhellion ariannol a yrrai'r mwyafrif o olygyddion, ond yn hytrach achub eneidiau – a tra parhâi'r Cymraeg yn iaith y bobl, dyna'r iaith y cyhoeddent ynddi.<sup>279</sup> Nodwyd gan Thomas Rees yn 1867 pa mor llethol oedd gafael deunydd crefyddol ar y wasg Gymraeg: “Books on every conceivable point of doctrinal, practical, devotional, and controversial theology are accessible to monoglott Welsh readers” (Rees, 1867, p. 46). Roedd y *Times* o'r un farn gan nodi yn 1887: “... the vernacular Press of Wales is, practically speaking, in the hands of the Nonconformist ministers... The minister, to speak figuratively, walks straight from the chapel to the editorial room...”<sup>280</sup> (1887, p. 8) Gellid awgrymu bod ideoleg ryddfrydol yr Ymneilltuwyr yn rhan ganolog o'r gweithgarwch hwn a hybai'r Gymraeg – roedd cynnyrch y wasg yn dyst i'w phwyslais ar ochel segurdod ac ymroi i waith caled. Gwelwyd yr ymroddiad hwn ar waith yn achos Ieuan Gwynedd, a oedd yn casáu segurdod ac a ysgrifennodd yn ddi-baid, er gwaethaf ei iechyd bregus, tan ei farwolaeth yn 31 oed yn 1852. Nodai Geraint

---

<sup>278</sup> Unig fantais yr amgylchedd amaturaid hwn oedd y gallai fod o ddefnydd i'r ychydig gyhoeddwyr proffesiynol yn y maes, megis Gee a'i Fab o Dinbych a Hughes a'i Fab o Wrecsam. Byddai'r gweisg hyn yn aml yn prynu'r hawliau i gyhoeddi llyfrau na lwyddasant i fynd drwy'r wasg am bris isel (P. H. Jones, 1999, p.302). Roedd cyhoeddi'r *Traethodydd* yn 1845 yn destun ffrae rhwng Thomas Gee, a sylfaenwyr y cylchgrawn Roger Edwards a Lewis Edwards, am nad oedd y telerau busnes a gynigiodd iddynt am argraffu'r cylchgrawn yn ddigon ffafriol. Er mai hwy oedd yn talu am y gwaith, ychydig iawn o'r elw a wnaethpwyd a aeth i'w pocedi hwy. Daw Ieuan Wyn Jones, yn ei gofiant i Thomas Gee, i'r casgliad fod y cyhoeddwr wedi gweithredu fel y dylai dyn busnes, ac mai ef a achubodd y cylchgrawn rhag mynd i'r wal. “Hyd yn hyn, dynion yn chwarae efo busnes a welsai'r wasg yng Nghymru gan amlaf, a dyna paham y bu i gymaint o bapurau a chylchgronau fynd i'r wal. Thomas Gee oedd un o'r ychydig unigolion a wnaeth i wasg dalu ei ffordd hyd yn oed yng nghyfnod oes aur cyhoeddi yng Nghymru” (Jones, 1998, p. 64) Roedd Gee yn ffafrio prynu hawlfraint llyfrau yn gyfan gwbl, ac ni fyddai'r awdur yn cael unrhyw freindaliadau yn ychwanegol ar ben hynny pe bai'r llyfr yn gwneud elw. Mae Philip Henry Jones yn awgrymu ei fod yn un rheswm pam yr oedd cymaint o awduron Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ffafrio cyhoeddi eu gweithiau eu hunain yn hytrach na'u hanfon at gyhoeddwr mawr (Jones, 1998, p. 177). Perygl hynny oedd y byddai awduron a fyddai wedi cynhyrchu gwaith yn Gymraeg yn dewis gwneud hynny yn Saesneg, gan wybod bod y gynulleidfa a'r gwobrwyon yn fwy (P. H. Jones, 1999, p.308). Ys dywed J.R. Kilsby Jones am y Saesneg: “Dyma faes a marchnad i werthu llyfr, gydwladwyr anwyl!” (Jones, 1883, p.21).

<sup>279</sup> Noda Aled Gruffydd Jones fod sefydliadau crefyddol wedi cynnal y wasg “often in the teeth of fiercely hostile market pressures” (Jones, 1993, p. 239), a hynny am eu bod yn teimlo ei fod yn “fath o ddyletswydd” i ysgrifennu a chyhoeddi yn Gymraeg (Jones, 1988, pp. 101-2).

<sup>280</sup> Efallai ei fod werth nodi bod swyddfa Gwasg Gee yn Nimbych dafliaid carreg o'r Capel Mawr lle bu yn pregethu.

H. Jenkins ei fod wedi “[llosgi] y gannwyll yn ei deupen er mwyn bod o fudd i’w gydwladwyr...” (Jenkins, 1991, p. 107). Roedd rhai gweinidogion yn golygu sawl cylchgrawn – yn achos William Williams (Caledfryn), un ar ddeg ohonynt – ac roedd nifer yn cyhoeddi eu gwaith eu hunain ac eraill yn ogystal (Walters, 1999, p. 331). Serch hynny, ni ddisgwyliai mwyafrif cyfranwyr y wasg Ymneilltuol unrhyw wobwr faterol am eu hymdrechion.<sup>281</sup> Amddiffynnid yr arfer o werthu llyfrau yn y capeli yn y 1840au ar y sail nad oedd yr un cyhoeddwr nac awdur wedi llwyddo i wneud elw ohonynt, a’u bod yn aml ar eu colled, ac felly ni ellid ei ystyried yn *fasnach* o gwbl (Thomas, 1848, p. 179). Noda Glaslyn yn yr un modd wrth ysgrifennu i’r *Cymro* yn 1907 mai “aberth[ ] crefyddol” oedd ysgrifennu yn Gymraeg<sup>282</sup> (Glaslyn, 1907, p. 65). Gellid awgrymu felly fod llwyddiant yr Ymneilltuwyr wrth hybu’r Gymraeg ym maes crefydd yn ganlyniad i’r ffaith nad oedd arian i’w wneud yn y maes. Awgryma’r *Traethodydd* yn 1848 mai’r esboniad am Gymreigrwydd y capeli Ymneilltuol o’u cymharu â’r Eglwys Wladol oedd bod arian mawr i’w wneud yn yr olaf ond nid yn y cyntaf: “Nid oes ond un man y mae y Cymro yn ei gael iddo ei hun ymhlith ei genedl – y pulpud; ac nid rhaid iddo ddiolch am hynny – collai hwnw, fel pob peth arall, pe b’ai cyflog da i’w gael am fyned iddo” (1848, p. 68). Er y beirniadu ar natur cyfraniad yr Ymneilltuwyr, felly, nid yw’n amlwg o le arall y buasai ‘oes aur’ y wasg Gymraeg wedi dod heb eu hymdrechion gwirfoddol; y nhw oedd prif gynheiliaid yr iaith a’r diwylliant a’r wasg (Rhiannon, 1988, p. 19). Roedd meddu ar ddigon o addysg i ddefnyddio’r Gymraeg mewn modd deallusol yn rhan annatod o’u galwedigaeth, ac yn absenoldeb cymhelliad masnachol hwynt-hwy yn unig a feddai ar yr amser i ymroi i’r gwaith (Williams, 1984, p. 265).

---

<sup>281</sup> Nid elw oedd cymhelliad cyhoeddi’r *Amserau* ond yn hytrach datgysylltu’r eglwys, a hybwyd yr ymdrechion i’w droi yn bapur wythnosol gan yr ymateb i ymosodiad y Llyfrau Gleision ar foesau a chrefydd Cymry yn hytrach na chymhelliad masnachol (P.H. Jones, 1988, p. 17).

<sup>282</sup> Serch hynny, gellid awgrymu bod cyhoeddi yn y Gymraeg hefyd yn ymwneud â statws, hyd yn oed os nad oedd gwobr faterol ynghlwm ag ef. Byddai’n fodd i weinidogion ddod i amlygrwydd o fewn eu henwadau eu hunain. Gwelir un awdur yn y *Geninen* yn cynghori pregethwyr ifanc i beidio â bod yn rhy siomedig os nad yw eu henwau yn ymddangos yn newyddiadur yr enwad (Tremwyllt, 1894, p. 123).

Cyfrannai'r enwadau hefyd at leddfu rhywfaint ar y risg ariannol oedd ynghlwm wrth gyhoeddi yn Gymraeg. Dywed John E. Southall yn yr 1880au fod argraffwyr yn fodlon ymgymryd â'r dasg o argraffu llyfrau Cymraeg gan wybod y byddai'r enwad yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb ariannol pe na bai'r gyfrol yn gwerthu<sup>283</sup> (Southall, 1892, p. 303). Wrth drafod cyfnodolion Cymraeg y 19eg ganrif, mae E. Morgan Humphreys yn nodi mai "byr a helbulus" oedd oes rhai ohonynt, tra oedd rhai o'r rheini oedd ag enwad yn gefn iddynt eisoes wedi goroesi am ganrif neu fwy (Humphreys, 1945, p. 11). Yn hynny o beth roeddynt yn ymdebygu i dŷ cyhoeddi cyfoes wrth gymryd llawer o'r baich oddi ar yr awdur unigol.<sup>284</sup> Ond roedd y ffaith bod yr enwadau yn gymaint o gefn ariannol i'r wasg yn llesteirio datblygiad hunaniaeth genedlaethol yn ogystal. Dywed cyfrannwr at y *Geninen* y cesglid symiau bychan yn unig at unrhyw achos cenedlaethol, ond symiau mawr at achosion enwadol: "Ac yn ddilys diammheu dyma'r rheswm hefyd o gryfder a bywyd cylchgronau enwadol mewn cyferbyniad i nychdod a thrancedigaeth cylchgronau cenedlaethol" (1883, p. 82). Sgil-effaith hynny oedd atal ymdeimlad o gymuned ddychmygedig unedig ymysg siaradwyr Cymraeg. Nod y papurau enwadol oedd "meithrin yr ymdeimlad o berthyn," medd Brynley F. Roberts (2011) – ond ymdeimlad o berthyn i'r enwad, nid i genedl, oedd hwnnw. Dywed 'Siluriad' yn y *Geninen* yn 1887 mai prif nodwedd "[ein] cyfryngau llenyddol, a gamenwir yn *genedlaethol*" oedd na allai'r un ohonynt lwyddo heb "ymostwng i oglais y teimlad enwadol". Roedd yr angen i gadw pob enwad yn hapus yn ystumio cynnwys y papurau cenedlaethol yn ogystal: "Nid gwiw iddo hysbysu y byd Cymreig fod mwy o Fedyddwyr wedi eu geni iddo na Sentars, onide fe aiff

---

<sup>283</sup> Nodwyd gan adroddiad comisynwyr y Llywodraeth i gyflwr addysg yng Nghymru yn 1847 nad oedd hyd yn oed y llyfrau Cymraeg rhataf yn debygol o oroesi heb help llaw y gweinidogion wrth eu gwerthu, oherwydd eu gallu i'w hysbysebu o'r pulpud a mynd â hwy o amgych Cymru i'w gwerthu wrth bregethu (Johnson, 1846, p. 522).

<sup>284</sup> Yn ogystal â chronni adnoddau ariannol, roedd gan yr enwadau rwydweithiau dosbarthu gwirfoddol, ffynonellau parod o newyddion, hysbysebwr, a phrynwyr a fyddai'n hwb amlwg i unrhyw un a oedd am gyhoeddi ei waith (A. G. Jones, 1883, p. 358; J. R. K. Jones, 1988, p. 106).

pethau yn hollol o chwith...” (Siluriad, 1887, p. 40) Mae cyfnodolion y cyfnod yn frith o’r cwynion hyn.<sup>285</sup> Un o’r ychydig gyfnodolion i dorri ar y patrwm enwadol hwn oedd y *Traethodydd*.<sup>286</sup> Nodwyd gan T. Gwynn Jones mai rhan o’r rheswm am lwyddiant y cyfnodolyn, a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 1845, oedd ei fod yn llai cyfyng ei orwelion na’r cylchgronau eraill, gan hepgor “dadleuon personol ac enwadol...” (Jones, 1913, p. 101). Ond nid oedd hyd yn oed y *Traethodydd* yn gwbl rydd rhag ragfarn enwadol. Dywed am y Bedyddiwr Joseph Harris: “O ardderchocaf Gomer! Gwae ni erioed i’r dwfr gorwyllt llifeiriog bwysu ar dy ymennydd disglair; yma, ac yma yn unig, y difwynwyd dy wisgoedd ac y syrthiodd dy goron” (1845, p. 244). Awgryma Ieuan Gwynedd Jones fod y golygyddion, Dr Lewis Edwards a Dr Roger Edwards, wedi dod i’r casgliad na ellid cynnal y cylchgrawn heb rywfaifaint o ffraeo diwinyddol er mwyn denu darllenwyr<sup>287</sup> (Jones, 1992, p. 133). Er gwaethaf ei

---

<sup>285</sup> Dywed ‘Juno’ na fyddai neb yn ystyried prynu newyddiadur ar sail ei deilyngod llenyddol, ond am mai ei enwad ei hun a oedd yn ei gyhoeddi. Nid oedd yr un enwad yn ystyried darllen llyfrau’r llall, nac ystyried hanes y llall. O ganlyniad “ni allwyd cadw cyhoeddiad cenedlaethol erioed yn fyw yn Nghymru am gyhyd o amser ag y bu Nebuchodonosor yn pori glaswellt” (Juno, 1892, pp. 224-5). Awgryma D. Ambrose Jones fod y wasg enwadol yn hybu teimlad o arwahanrwydd ymysg trigolion y wlad. O ganlyniad, roedd pobl ieuanc yn anwybodus o lenyddiaeth Gymraeg y tu hwnt i gynnyrch eu henwad: “... fe ddichon mai prif fagwrfa culni enwadol ydyw y wasg enwadol” (Jones, 1893, p. 188). Mewn erthygl olygyddol yn eu rhifyn cyntaf ym mis Awst 1851, mae *Seren Cymru* yn ymosod ar yr Anibynwyr a’r Bedyddwyr, ymysg eraill, am wrthwynebu eu hymdrechion i sefydlu newyddiadur nad oedd yn perthyn i enwad (1851, p. 1). Ceir llythyr at bapur yr Annibynwyr, y *Tyst*, yn 1905 yn galw arnynt i beidio a rhoi sylw i newyddion am enwadau eraill, am na fyddai eu papurau hwythau yn ad-dalu’r ffafr (1889, p. 11). Ysigodd enwadaeth ymdrechion i sefydlu gwasg genedlaethol o ddechrau’r ganrif. Daeth y Methodist Calfinaidd John Parry dan bwysau mawr i roi’r gorau i gyhoeddi ei gylchgrawn *Goleuad Cymru*, a lansiodd yn 1818, a hynny oherwydd bod y Methodistiaid yn anhapus ei fod yn cyhoeddi gwaith aelodau o enwadau eraill (Walters, 1998, p. 199).

<sup>286</sup> Y golygydd Lewis Edwards oedd prifathro Coleg Diwinyddol Methodistiaeth Galfinaidd y Bala, ac roedd y *Traethodydd* wedi ei seilio ar gyfnodolion dysgedig o Loegr o’r Alban. Dywed Huw Walters mai lansio’r *Traethodydd* oedd penllaw ymdrechion y hanner canrif blaenorol: “The Welsh periodical press came of age...” Er gwaethaf ei swydd, rhoddodd Lewis Edwards y pwyslais ar y tir canol rhwng yr enwadau gwahanol, a gofalai gyhoeddi deunydd o safon uchel yn unig. Fel *Seren Gomer* o’i flaen roedd yn hynod o lwyddiannus, gan werthu tua 1,450 o gopiau o bob rhifyn erbyn canol yr 1850au (Walters, 1998, pp. 203-4).

<sup>287</sup> Rhaid cofio wrth gwrs, fod y dadleuon hyn rhwng enwadau a oedd yn cynnal bron y cyfan o’u gweithredoedd drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â thrafodaeth ar lenyddiaeth Gymraeg, ymysg yr unig bynciau oedd yn gyfyngedig i’r iaith Gymraeg. Dywed ‘Glanystwyth’ wrth ysgrifennu yn y *Geninen* yn 1889 mai dyma’r pynciau oedd wir yn dal diddordeb y cyhoedd, a’u bod yn gyfrifol i raddau helaeth am boblogrwydd deunydd darllen Cymraeg yn ystod y cyfnod: “... ni ryfeddwn nad yw dwy ran o dair o swm Llenyddieath Gymreig wedi ei hachlysu, yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, gan gystadleuaeth Eisteddfodol, a chan y dadleuon diwinyddol. Mae y cynhwrf a’r dyddordeb a gynyrchir gan y rhai hyn wedi bod yn symbylydd cryf yn y myned i ysgrifennu a darllen llyfrau” (Glanystwyth, 1889, p. 160). Wrth ysgrifennu i’r un cylchgrawn, nodai Tafolog mai ar y gynulleidfa y mae’r bai am gynnwys cecrus y cyhoeddiadau enwadol – rhoi iddynt yr hyn y maent yn ei ddeisyfu y mae’r golygyddion: “Pe gallai estron ddeall ein hiaith, a darllen rhai o’n newyddiaduron, diau y tarewid ef â syndod at surni, rhyfelgarwch, ac anfoneddigeiddrwydd rhai o’n hysgrifenyddwyr.... Nid gwyddom pwy a ddylid feio fwyaf, ai yr ysgrifenyddwyr ai y darllenwyr; diochon mai’r olaf; oblegid pe na byddai marchnad i’r fath ysbwrial, peidid yn fuan iawn a’i gynnyrchu” (Tafolog, 1993, p.83). Noda William Rees, wrth roi tystiolaeth i Gomisiwn

ymdrechion at wrthrychedd enwadol, ystyridd bod y *Traethodydd* yn eiddo i'r Methodistiaid Calфинаidd, ac aeth yr enwadau eraill ati i gyhoeddi eu chwarterolion llenyddol eu hunain, gan gynnwys yr *Adolygydd* a'r *Beirniad*, ill dau gan yr Annibynwyr, yn 1850 a 1859 (Walters, 1998, p. 204), a pharhâi'r cylchgronau enwadol i ymosod yn chwynr ar ei gilydd drwy gydol y ganrif<sup>288</sup> (R.T. Jones, 1981, p. 67). Sgil-effaith y cwbl oedd tra oedd y wasg Saesneg yn cyddyrru ac yn cryfhau ei rym masnachol, parhaodd cyhoeddiadau Cymraeg i “wahanu fel amoebae” ar sail enwadol<sup>289</sup> (Jones, 1993, p. 188). Cwynai Thomas Morris Jones yn 1892 fod “rhif y newyddiaduron Cymreig yn llawer rhy luosog”, ac mai “eiddigedd os nad cenfigen, y naill at lwyddiant y llall” oedd yn gyfrifol am hynny: “Mae yn rhaid fod amledd y rhai hyn yn peri eu bod yn gwanychu eu gilydd, ac felly yn y pen draw yn troi yn golled i'r Cymry...”<sup>290</sup> (Jones, 1892, p. 127).

O ganlyniad, cleddyf daufiniog fu tra-awdurdod yr Ymneilltuwyr ar y wasg Gymraeg. Cyfrwng oedd y Gymraeg er mwyn achub eneidiau, a golygai hynny amharodrwydd i borthi

---

Addysg 1847, bod ei Gylchgrawn, ffrwyth y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Fuddiol, wedi methu oherwydd nad oedd wedi cyffroi ei ddarllenwyr. Mae'n nodi yn ogystal bod cylchgrawn arall, y *Gwladgarwr*, oedd yn cynnwys newyddion lleol, hefyd wedi methu. Wrth fanylu ar gynnwys cylchgronau Cymraeg poblogaidd, dywed: “Religious information predominates, and there is much polemical discussion in them. They circulate extensively among the labouring men, mechanics, and small farmers. They are mostly sectarian, and not very temperately written” (Lingen, 1846, p. 11). Dywed R Tudur Jones fod llwyddiant y *Geninen* ei hun o ganlyniad i'r ffaith bod ganddo olygydd “pur athrylithgar”, Eifionydd, oedd wedi sylweddoli mai cynnwys dadleuon crefyddol oedd y ffordd i werthu copiau (Jones, 1981, p. 161). Gellid dadlau yn bur argyhoeddiadol, felly, nad rhywbeth a orfodwyd arnynt gan weinidogion golygyddol ydoedd y deunydd diwinyddol a roddwyd gerbron darllenwyr Cymraeg, ond i raddau helaeth yn ymateb i chwaeth y gynulleidfa.

<sup>288</sup> Ymosodai llythyr yn y *Goleuad* ar gulni enwadol y Bedyddwyr fel a ganlyn. “[Mae] rhai o honom yn brofiadol o weled culni cyffelyb lawer tro yn ymddygiad ein ‘brodyr’ y Bedyddwyr gyda gwahanol gymdeithasau yn ein broydd” (1901, p. 5). Mae yna rywffaint o eironi hefyd yn meirniadaeth y *Drysorfa* ar yr *Eurgrawn Wesleyaidd*: “Ar y cyfan y mae yr Eurgrawn yn gyhoeddiad efengylaidd a pharchus; ond prin y gwêl unrhyw dda y tu allan i'w Gyfundeb ei hun” (1900, p. 88).

<sup>289</sup> Sbardunodd y gystadleuaeth rhwng enwadau dwf cylchgronau, er mwyn iddynt allu dangos eu bod wedi cyrraedd aeddfedrwydd deallusol (Walters, 1998, p. 204). Noda y *Gwyllydd* mai un o'r prif resymau dros sefydlu'r papur oedd oherwydd bod gweinidogion eraill yn ymosod ar y Wesleyaid dan ffugenwau, ac yn gwenwyno meddyliau'r ifanc yn erbyn yr enwad (1890, p. 4).

<sup>290</sup> Mae'n amlwg nad Thomas Morris Jones yn unig a deimlai bod gormod o bapurau newydd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn ystod y cyfnod dan sylw. Roedd o leiaf un o'r cystadleuwyr eraill yn cwyno am “rifedi gormodol y cyfnodolion, ac anghymwysderau rhai golygyddion...” (Owen, et al., 1892, p. 115)



chwaeth boblogaidd er mwyn denu darllenwyr.<sup>291</sup> Ni fyddai'n ormod dweud y byddai'n well gan rai Ymneilltuwyr beidio â gweld llenyddiaeth Gymraeg o gwbl na gweld cyhoeddi deunydd nad oedd yn ysbrydol yn yr iaith. Ceir o leiaf un pregethwr yn ymfalchïo yn y ffaith bod y Cymry wedi colli gafael ar eu llenyddiaeth flaenorol, a hynny oherwydd y gallai fod wedi atal datblygiad Ymneilltuaeth yng Nghymru: "... hwyrach, pan ystyriom eu nodwedd coel-grefyddol ac ynfyd, hwyrach na bu eu dinystr yn un rhwystr i efengyl lwyddo yn ein gwlad" (Stephens, 1849, p. 164). Sgil-effaith anochel agweddau o'r fath oedd cyfyngu ar hyfywedd y wasg Gymraeg mewn parthau y tu hwnt i'r crefyddol. Nodai 'Glanystwyth' yn 1889 fod y prinder ffuglen a oedd ar gael yn y Gymraeg "i'w briodoli, nid i ddiffyg dychymyg, ond yn hytrach i'r ffaith fod y teimlad crefyddol yn eu herbyn" (Glanystwyth, 1889, p. 158). Hyd yn oed erbyn 1913, roedd T. Gwynn Jones yn canu clodydd Thomas Gee yr hynaf am wrthod cyhoeddi llyfr Cymraeg gan gyfaill Catholig a oedd wedi cynnig pris da iddo am ei argraffu, a hynny oherwydd ei fod yn groes i'w egwyddorion crefyddol. Canmolwyd ei benderfyniad i roi rhagfarn grefyddol o flaen elw a lles yr iaith.<sup>292</sup> Nid yn unig yr oedd awduron a chyhoeddwyr

---

<sup>291</sup> Yn wir, daw'n amlwg wrth bori'r cyfnodolion hyn mae eu prif bryder oedd nad oedd y deunydd yr oeddynt yn ei ddarparu yn *ddigon* moesol a buddiol. Dadleuai cyfrannwr at y *Traethodydd* fod angen i olygyddion sicrhau nad oeddynt yn cyhoeddi deunydd na fyddai'n dyrchafu chwaeth y genedl: "... y mae yn rhaid i olygyddion yr holl gyhoeddiadau cyfnodol ymosod o ddifrif i godi archwaeth y wlad..."<sup>291</sup> (1852, p. 94) Nodai Thomas Morris Jones, wrth drafod cyhoeddwyr Cymru, ei fod yn credu "y buasai yn well gan lawer ohonynt fod yn eu colled ariannol na chyhoeddi llyfrau o natur anfoesol." Serch hynny, wrth gynghori sut y dylai'r cyhoeddwyr newyddiaduron ehangu apêl eu cyhoeddiadau, nid oedd o'r farn bod angen iddynt geisio llacio eu cod moesol llym. "Yn gyffelyb y gellir dweyd am y wasg newyddiadurool Gymreig; er nas gellir dyfod â chyhuddiadau penodol yn ei herbyn yn yr ystyr hon, eto teimlwn y gallasai ac y dylasai ei dylanwad moesol ar y wlad fod yn llawer dyfnach a chryfach" (Jones, 1892, pp. 131, 142). Dywed Thomas Rees yn yr 1860au fod y wasg Gymraeg yn "remarkable for its religious character and high moral tone... We have no infidel or irreligious books within the whole compass of our literature..." (Rees, 1867, p. 49) Wrth ystyried cyflwr y wasg y pen arall i Glawdd Offa, llenwir un o awduron y *Traethodydd* â "chywilydd dros Loegr, ac â diogelwch wrth feddwl am ein hanwyl wlad ein hunain" yr oedd ei gwasg yn hollol gysegredig i wybodaeth fuddiol (1860, p. 212). Tybid y byddai cyhoeddi deunydd buddiol o'r fath yn wrthwennu i broblemau moesol a chymdeithasol y wlad. "Ni chaem fawr o drafferth i gadw dynion ieuainc o'r tafarndai, a chyfeillachau llygredig, pe gallem orlenwi eu dwylaw â llyfrau da, a gorlenwi eu meddyliau â gwybodaeth fuddiol" (*Y Traethodydd*, 1851, p. 342). Ysgrifennodd un cyfrannwr at y *Dysgedydd* yn 1825 y byddai'r wasg Gymraeg yn siwr o "[d]ynu dig Duw ar ein gwlad a'n hiaith" am eu bod yn rhoi gormod o sylw i bethau gwamal megis eisteddfodau a chymdeithasau (Philus, 1825, p. 53). Ymosodai awdur arall yn y *Traethodydd* ar olygyddion y papurau newydd Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd am "borthi chwaeth afiachus, yn hytrach na chyflwyno ymborth pur a sylweddol" (Roberts, 1894, p. 124).

<sup>292</sup> Dywed: "Yr oedd ei gyfeillgarwch a'r gwr bonheddig, y fantais a fuasai cael argraffu llyfr o'r maint hwnnw iddo, a'r ystyriaeth na fynasai friwio teimlad ei noddwr, i gyd yn galw arno gytuno, ond yr oedd yn Brotestant eiddgar, a gwrthod a wnaeth" (T.G.Jones, 1913, pp. 90-1). Gellid dadlau yn wir fod cofiant T. Gwynn Jones ei

yn ei chael yn anodd gwneud elw o gyhoeddi yn y Gymraeg, roeddynt yn ystyried natur wirfoddol y gwaith yn un o'i brif rinweddau, oherwydd y byddai unrhyw gymhelliad ariannol yn sicr o arwain at gyhoeddi deunydd poblogaidd ac anfoesol.<sup>293</sup> Dywed Glaslyn, "gan mai anturiaeth fasnachol ydyw cyhoeddi papyrâu a chylchgronau, ei bod yn agored i gael ei llygru..." Ond tawelai ofnau y darllenydd drwy eu cysuro mai "nid gyda golwg ar unrhyw dâl ariannol, ond yn unig lleshad eu cydwladwyr" yr oedd nifer yn ysgrifennu (Glaslyn, 1907, p. 64). Ffieiddia David Rees, wrth ysgrifennu yn y *Diwygiwr*, at y syniad o wneud elw o lyfrau o gwbl: "Nid oes fawr cydymdeimlad rhyngom ni â'r bobl a siaradant am 'fasnachu mewn llyfrau,' fel pe na fyddai un cymhelliad i wneud llyfr ond awydd am arian." Dywed fod y pleser ysbrydol o greu llyfr fil gwaith mwy na'r elw a ddaw ohono<sup>294</sup> (Rees, 1861, p. 361). Roedd unrhyw awgrym o lwyddiant masnachol yn rhywbeth i ymddiheuro drosto. Pwysleisiai golygydd y *Celt*, wrth alw am ragor o ddarllenwyr, nad y nod oedd cynyddu'r cylchrediad er ei fwyn ei hun ond yn hytrach lledaenu'r wybodaeth fuddiol a geir yn y papur. Fe fyddai "yn anhawdd, os nad yn amhosib" cynyddu'r gwerthiant, ond roeddynt am sicrhau o leiaf na

---

hun yn dangos bod y 'sensoriaeth' Ymneilltuol yn parhau ar waith ar drothwy'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae Ieuan Wyn Jones yn nodi "fod y llyfr yn fwy o folawd nag o Gofiant gwrthrychol" (Jones, 1998, p. 12).

<sup>293</sup> Gellid dadlau na ddiflannodd yr agwedd hon yn gyfan gwbl nes yn bur ddiweddar, os o gwbl. Roedd awduron megis Islwyn Ffowc Elis yn parhau i gael eu beirniadu am ddarparu ymborth 'poblogaidd' ar gyfer eu darllenwyr yn y 1970au. Ond hyd yn oed wrth feirniadu y dybiaeth honno, dywed John Rowlands bod "boddio'r chwaeth isaf a mwyaf cyffredinol i bwrpas elw masnachol yn gwbl ddirmygus, ac yn creu cymdeithas robotaid, fas ei hymateb, yn pendwmpian yn gyffuriol" (Rowlands, 1992, p.187). Dywed D. Tecwyn Lloyd od cynnwys "hyd yn oed y papur lleol Cymraeg yn ymddangos mor safonol ag arddull y Times" o'i osod ochr yn ochr â'r papurau Saesneg "gwamal a di-ddim" a'u disodlodd. Awgryma Lloyd fod cyfnewidiad wedi bod, o "wareiddiad uwch y werin Gymraeg" i "chwaeth isel y werin Saesneg" (Lloyd, 1980, p. 27). Esboniad tecach efallai yw bod y wasg Saesneg wedi darparu ar gyfer y werin Gymreig yr hyn yr oeddynt ei eisiau yn hytrach na'r hyn y credai golygyddion y wasg Gymraeg y dylent ei gael. Awgryma Gwyn A. Williams mai trychineb y wasg Gymraeg oedd na ddarparwyd llenyddiaeth boblogaidd ar gyfer y bobl drwy gyfrwng eu hiaith eu hunain (Williams, 1985, p. 211).

<sup>294</sup> Cwynai Thomas Morris Jones mai un o ddifffygion y wasg Gymraeg oedd "dymuniad cryf am gylchrediad eang, a hyny ar draul esgeuluso, i raddau helaeth, yr hyn sydd rinweddol, pur, a sylweddol." Roedd y gofod a roddwyd i hysbysebion yn golygu bod "dynion ambell waith i ofni mai'r elfen fasnachol sydd wrth wraidd y cwbl yn hytrach na dim arall.. nid hyny sydd i fod yn brif beth yn ynglyn â symudiad a hönir fel yn cychwyn er lles a mantais i'r cyhoedd" (Jones, 1892, p. 131). Hyd yn oed yn 1907, cwynai 'Glaslyn' fod safon cylchgronau a phapurau newydd Cymraeg wedi dirywio ers hanner cyntaf y 19eg ganrif "er mwyn ennill derbynwyr, gan fod ceiniog yr hurtyn pengoll o'r un gwerth yn y farchnad a cheiniog y doethwr..." (Glaslyn, 1907, p. 63)

fyddai'r papur yn marw, meddai<sup>295</sup> (*Y Celt*, 1895, pp. 6-7). O ystyried ei bod, fel y nodwyd eisoes, yn bur anodd i bapurau Cymraeg ddenu hysbysebwr, gellid dadlau na fyddai agwedd o'r fath tuag at yr ychydig elw a wnaethpwyd ohonynt, fel pe bai'n rhywbeth aflednais, yn arbennig o iach i ffyniant y diwylliant cyhoeddi Cymraeg. Penderfynodd hyd yn oed Thomas Gee esgymuno unrhyw hysbysebion o flaen a chefn ei bapur newydd (*Young Wales*, 1892), a chyhuddwyd papurau newydd eraill o gario hysbysebion aflednais.<sup>296</sup> Roedd rhai sylwebwr, megis David Davies, o'r farn bod agwedd di-hid cyhoeddwr at lwyddiant masnachol wedi bod yn fwrn ar lwyddiant y wasg Gymraeg. Dywed am y wasg Gymraeg eu bod wedi dioddef o ganlyniad i'r "non-cultivation of the commercial side of the newspaper", yn benodol felly wrth fethu â denu hysbysebion ac wrth hysbysebu newyddau eraill y cyhoeddwr yn eu llyfrau a'u cyfnodolion: "The chief sources from which the English press draws its breath of life in the form of revenue has been consistently neglected..." (Davies, 1897, pp. 184, 185-6). Ond ceir awgrym yn ogystal eu bod yn credu o ddifrif fod llwyddiant masnachol a safon foesol eu cyhoeddiadau yn gyd-gysylltiedig, ac o'r herwydd methwyd â gwerthfawrogi'r hyn a oedd wraidd llwyddiant y papurau Saesneg. Honnai'r *Geninen* mai llygredd moesol yn y wasg Gymraeg oedd y rheswm dros ei gwendid, a'r wasg Saesneg yn ffynnu: "Mae safon lenyddol a moesol gwasg newyddiadurol Cymru yn ffaidd o isel, yn anheilwng o gefnogaeth; ac nid syndod fod aml i Gymro o ran chwaeth yn ei hanwybyddu ac yn prynu'r papyrau Seisnig..." (*Y Gwir yn Erbyn y Byd*, 1898, p. 230). Gellid awgrymu bod elfen o naifrwydd yn perthyn

<sup>295</sup> Yn yr un modd, wrth gwyno am ddiffyg gwerthiant *Y Gwyllydydd* yn 1890, dywed y golygydd nad y nod wrth ei sefydlu oedd ei droi yn llwyddiant ariannol ond yn hytrach "bod yn hunan-gynhaliol wedi cael cychwyn teg." Dywed nad yw yn barod eto i farw, "er nad yn gallu gwneud dim yn rhagor na byw" (1890, p. 4).

<sup>296</sup> Gallai'r diffyg cyswllt hwn rhwng tir moesol uchel y cyhoeddiad, a'r angen iddo gynnal ei hun â hysbysebion, achosi problemau. Ceir ffræ am foesoldeb hysbysebion yn nhudalennau'r *Chwarelwr* yn 1877. Cyhuddir papur newydd sydd heb ei enwi, "ag sydd yn honni bod yn 'newyddiadur cenedlaethol' ond mewn gwirionedd yn prysur gollu ffafir y 'genedl'" o ymosod ar bapur arall oherwydd iddynt gyhoeddi hysbyseb anfoesol. Nodwyd bod y papur newydd hwn ei hun yn cario'r un math o hysbyseb ac y cyhuddir y papur arall o'i gynnwys. Cyhuddir y golygydd o "goginio moesoldeb eto byth a hefyd i'r dosbarthiadau gweithiol" mewn modd "bur ffug-sancteiddiol," ac wrth gloi, mae'r llythyrwr yn lambastio'r "ffyliaid talentog... yn eistedd i lawr wrth eu byrddau golygyddol i ysgrifio ysgrifau meithion ar feddwod ac anfoesoldeb yr oes, a hwythau eu hunain gan ddyfned yn y camwedd ac odid neb!.. O! Gymru uchel freintiedig, a'i dyma dy addysgwyr? Ymaith a hwynt!" (1877, p. 3)

i'r golygyddion Ymneilltuol, a oedd – er eu bod yn perthyn i'r un dosbarth, ac yn byw yn eu mysig – yn byw bywydau gwahanol iawn i'w darllenwyr. Noda Geraint H. Jenkins fod Ieuan Gwynedd yn synnu mai cwta gant o gopiâu a brynwyd o un o'i gylchgronau dosbarth canol a pharchus yn nhref Merthyr Tudful (Jenkins, 1991, p. 106). Mae'n bosib, serch hynny, mai safonau dwbl Fictoraidd a oedd ar waith yma. Wedi condemnio cynnyrch y wasg Saesneg – “sothach llygredig... megys gweithiau Zola, Ouida, a rhai o lyfrau Hardy “- noda un awdur yn y *Drysorfa* eu bod yn dra poblogaidd ymysg y pregethwyr eu hunain: “Darllenir mwy o honynt, ar gyfartaledd, na dim byd arall, a chan neb yn fwy na chan bregethwyr, ac yn neillduol y dosbarth ieuengaf o honynt” (Evans, 1897, p. 261).

Canlyniad hyn oll oedd amharodrwydd i drafod cynnwys deunydd ysgafn yn y papurau newydd Cymraeg. Hyd yn oed yn 1906 gallai John Rhys a David Brynmor-Jones ddatgan bod y papurau newydd Cymraeg, “on the whole Puritan in their tone”. Roeddynt yn gochel rhag “horse-racing” a “games of any kind”. Ychydig o le oedd ynddynt i “divorce cases and indecent assaults,” er eu bod nhw ychydig yn fwy ffafriol i “murder and tales of horror”. Nodir serch hynny eu bod nhw'n fwy barddonol na'r papurau Saesneg<sup>297</sup> (Rhys & Brynmor-Jones, 1906, p. 608). Soniwyd eisoes am amharodrwydd y wasg Gymraeg i drafod chwaraeon. Awgryma Lloyd mai dyma un o'r prif resymau pam y cefnwyd ar bapurau Cymraeg; y campau oedd prif ffon fara cylchrediad y cyfnodolion Saesneg (Lloyd, 1980, pp. 23-4). Mae'n arwyddocaol, meddai Aled Gruffydd Jones, fod colofn pêl-droed wedi ymddangos yn y *Caernarfon and Denbigh Herald* yn 1912, ond nid yn yr *Herald Cymraeg* (Jones, 1993, p. 52). Perygl hyn, fel y nodai Huw Walters, oedd ei fod yn creu'r argraff yn meddwl y darlennydd mai yn Saesneg

---

<sup>297</sup>Awgryma Brutus mor gynnar â 1824 mai ychydig o archwaeth a geid mewn gwirionedd ymysg darllenwyr am y deunydd barddonol a gynigid iddynt gan y cyfnodolion Cymraeg. “Y mae i'w sylwi ym mhob teulu lle y derbynir *Seren Gomer*, gan nad faint huddygl a llwch fyddo yn diwyno ei dalenau, wrth ei ddarllen mewn conglaau hir nos gauaf, y mae y dalenau barddonawl yn eithaf glân, arwydd sicr mai ychydig o ddarlleniad sydd arnynt” (Brutus, 1824, p. 82).

yn unig y bodolai deunydd darllen ysgafn, ac y byddai felly'n osgoi deunydd darllen Cymraeg (Walters, 1999, p. 347). O ganlyniad i'r cysylltiad rhwng Ymneilltuaeth a'r wasg Gymraeg, tuedd i ystyried y Saesneg yn iaith lawer mwy cyffrous a diddorol. Mae David Llewelyn Jones a Robert Smith yn nodi bod y canfyddiad hwn yn arbennig o amlwg mewn trefi twristiaid glan-môr megis Aberystwyth, lle'r oedd cyferbyniad amlwg rhwng ysgafnder yr adloniant a ddarperid ar gyfer yr ymwelwyr, a sobreiddiwch y Cymry Cymraeg: "Saesneg oedd iaith adloniant yn Aberystwyth a chysylltid y Gymraeg ag Ymneilltuaeth aflawen" (Jones & Smith, 1999, p. 171). Ymddangys mai anfodlonrwydd yn hytrach nag anwybodaeth oedd yn gyfrifol am anallu golygyddion y cyfnodolion Cymraeg i gwrdd â chwaeth y bobl. Awgrymwyd gan sawl awdur mai mantais y wasg Saesneg oedd ei bod yn cyflwyno gwybodaeth mewn modd mwy pytiog a darllenadwy.<sup>298</sup> A phan gynhwyswyd deunydd ysgafnach o fewn y cyfnodolion Cymraeg, roedd yn effeithiol wrth ddenu cynulleidfau. Achubwyd yr *Amserau* drwy gyhoeddi cyfres o erthyglau dan enw'r 'Hen Ffarmwr' o fis Rhagfyr 1846 ymlaen, a hynny yn nhafodiaith Llansannan (I.W. Jones, 1998, p. 58). Defnyddiwyd tafodiaith er mwyn gwerthu hysbysebion hefyd (A.G. Jones, 1999, p. 369), gan awgrymu bod golygyddion yn ymwybodol o'i hapêl i'r darllenydd.

Mae'n bosib bod drwgdybiaeth yr Ymneilltuwyr o ffuglen hefyd wedi chwarae rhan mewn atal datblygiad cenedlaetholdeb yng Nghymru. Dywed Anderson bod y nofel wedi caniatáu i'r darllenydd ddychmygu cymunedau o bobl nad oeddent o reidrwydd yn ymwybodol o

---

<sup>298</sup> Dywed y *Traethodydd* yn 1854 fod darllenydd bellach yn disgwyl ymborth mwy pytiog a diddorol, wrth i gyflymder bywyd newid yn sgil y chwyldro diwydiannol: "... y mae dyn yn ceisio gwneuthur pob peth gyda chyflymder yr ager, neu y fellten... Y mae pawb fel wedi cytuno i geisio gwneuthur pob peth yn boblogaidd; hynny yw, yn hawdd ei ddirmad: o herwydd os na wnânt hynny, buan y cânt ddeall nad oes gan y bobl ddim amser cyfaddas i roddi sylw iddynt" (1854, p. 287). Nodai Watcyn Wyn ddeugain mlynedd yn ddiweddarach mai'r cyfan a chwenychai darllenydd yr oes oedd "Tit Bits Seisneg, a Thitiau Bitiau bach Cymraeg, lawer o honynt, hefyd. Rhaid i ni ddweyd mai'r wasg Seisneg sydd yn gyfrifol am hyn: y mae y pethau hyn yn gorlifo'n gwlad, ac yn tynnu llanw Cymru ar eu hol hefyd." Roedd peryg y byddai hyd yn oed yn rhaid cynnwys adroddiadau pêl-droed yn y wasg Gymraeg, cyn hir, meddai. "Y perygl yw fod ein llenyddiaeth yn myned yn fwy masnachol o lawer nag y bu: a beth yw gwir werth llenyddiaeth fasnachol, y masnachwr, ac nid y llenor, wŷr" (Wyn, 1893, p. 186).

weithredoedd ei gilydd ond a oedd mewn rhyw ffordd yn rhan o naratif ehangach a oedd yn eu cyd-gysylltu. Gofynna i'r darllenydd ddychmygu nofel sy'n cynnwys pedwar cymeriad, sef dyn, ei wraig, ei feistres, a'i chariad hithau. Er na fydd y dyn a'r cariad byth yn cwrdd yn y nofel, mae gofyn i'r darllenydd ddychmygu y gallai eu hanesion gyd-redeg a dylanwadu ar ei gilydd. Dywed Anderson: "that all these acts are performed at the same clocked, calendrical time, but by actors who may be largely unaware of one another, shows the novelty of this imagined world conjured up by the author in his reader's mind" (Anderson, 1991, pp. 25-6). Tybia mai'r un cyneddfau meddyliol a ddefnyddir wrth synio am 'gymuned ddychmygedig' y genedl. Gofynnir i'r unigolyn ddychmygu cymuned o bobl sydd yn rhan o'r un naratif, sydd efallai byth yn cwrdd â'i gilydd ond y mae eu gweithredoedd oll wedi eu cyd-gysylltu.<sup>299</sup> Er bod digon o ddeunydd crefyddol ar gael yn y Gymraeg yn y 19eg ganrif, roedd y nofel yn arafach o lawer yn denu dilynwyr<sup>300</sup> (Morgan & Thomas, 1984, p. 188). Er y cynhwysid ffuglen ar dudalennau cylchgronau a phapurau newydd Ymneilltuol, roedd amheuaeth o hyd ynglŷn â moesoldeb y cyfrwng newydd hyd ddegawdau olaf y ganrif<sup>301</sup> (P.H. Jones, 1999, p. 304). Awgryma Gerwyn Wiliams na ddaeth *genre* y nofel Gymraeg i'w anterth nes cyhoeddi *Rhys Lewis* yn 1885 (Wiliams, 1999, p. 3). Serch hynny, roedd y ffaith y bu'n rhaid i Daniel Owen gyflwyno'r nofel ar ffurf hunangofiant pregethwr go iawn er mwyn sicrhau derbyniad yn golygu nad oedd gorfodaeth ar y darllenydd i ystyried byd dychmygol lle'r oedd sawl naratif

---

<sup>299</sup> Disodlodd hyn y dybiaeth grefyddol fod y dyfodol a'r gorffennol eisoes wedi eu llunio gan gynllun Duwiol. O ganlyniad, ni allai digwyddiadau penodol megis aberth Iesu ar y Groes fodoli yn ei bresennol yn unig, am ei fod hefyd yn rhywbeth a oedd eisoes 'yn digwydd' yn ei orffennol a'i ddyfodol. Golygai'r nofel (a'r papur newydd, fel y trafodwyd eisoes) fod modd dychmygu cymuned yn symud ymlaen drwy amser gyda'i gilydd, gyda'u gweithredoedd hwy yn dylanwadu ar ei dyfodol (Anderson, 1991, p. 24).

<sup>300</sup> Mae Dafydd Jenkins yn nodi mai *Uncle Tom's Cabin* gan Harriet Beecher Stowe, a addaswyd ar ffurf *Aelwyd f' Ewythr Robert* gan Gwilym Hiraethog, oedd wedi agor llygaid piwritaniaid yr Unol Daleithiau a Chymru fel ei gilydd i werth y 'ffug-chwedl' fel arf daioni. Yn Eisteddfod Cymrodorion Dirwestol Merthyr Tudful Nadolig 1854, cynigiwyd wobwr am nofel ar destun 'y meddwyn diwygiedig yn arwr', ac o hynny ymlaen dechreuwyd argraffu nofelau Cymraeg bob blwyddyn (Jenkins, 1999, pp. 1-2).

<sup>301</sup> Ofnai un cyfrannwr at yr *Eurgrawn* yn yr 1860au fod y Cymry "wedi myned yn wyllt ar ôl novels" yn sgil cyhoeddi *Uncle Tom's Cabin*. Er mwyn diogelu chwaeth grefyddol y bobl, roedd y rheini a oedd yn "gwylio tros lenyddiaeth grefyddol y wlad" wedi penderfynu mai'r "moddion gorau yn wyneb yr amgylchiad" oedd dechrau cyfansoddi ffug-hanesyddion crefyddol a moesol, a hynny er mwyn "diogelu chwaeth grefyddol" y Cymry. Er ei fod "wedi ateb yr amcan yn y *crisis* ofnadwy y taflwyd ysbryd darllengar yr oes iddo" credai fod parodrwydd y Cymry crefyddol i arddel y nofel wedi "gwneyd niwaid i lawer" (Evans, 1865, p. 17).

yn cyd-blethu â'i gilydd o'r math yr awgrymir gan Anderson. Dim ond megis dechrau ar ei thaith yr oedd y nofel Gymraeg wrth i'r ganrif dynnu at ei therfyn. Awgryma hunangofiant Picton Davies pa mor estron oedd deunydd darllen y tu hwnt i'r crefyddol yng nghefn gwlad, hyd yn oed yn 80au a 90au'r ganrif: "Ychydig o lyfrau a ddarllenid yn y fro pan oeddwn i'n fachgen... Ni chlywais fod neb yn darllen barddoniaeth, neu hanes, neu nofel. Ni chlywais mo enw Rhys Lewis (na'i awdur) nes fy mod yn ddeunaw oed... Ond fe wyddai'r ardal ei Beibl yn weddol a dweud y lleiaf" (Davies, 1962, pp. 55, 80).

Gellid dadlau, serch hynny, mai methiant mwyaf y wasg Gymraeg oedd peidio â darparu ar gyfer cynulleidfa o ddarllenwyr ifanc. Noda E. Morgan Humphreys yn 1945 fod cylchgronau plant "yn chwarae rhan bur bwysig yn natblygiad meddwl y genedl" (Humphreys, 1945, p. 18). Amlygid eu pwysigrwydd yn ystod y cyfnod hwn gan y ffaith bod poblogaeth Cymru yn un hynod o ifanc ar y pryd. Yn 1851 roedd bron i hanner y boblogaeth dan 19 oed, ac erbyn 1881 roedd un ym mhob pedwar dan naw oed. Tueddai'r ifanc i fyw yn yr ardaloedd diwydiannol, lle'r oedd y newid ieithyddol yn fwyaf amlwg ar droad y ganrif (I.G. Jones, 1992, p. 107). Yn ei erthygl yn rhifyn cyntaf y *Faner* mae Thomas Gee yn portreadu Cymru fel cenedl ieuanc sydd angen arweiniad (Gee, 1857, p. 1). Gellid awgrymu mai diffyg deunydd darllen addas ar gyfer plant oedd un o fethiannau mawr y wasg Gymraeg yn ystod y cyfnod dan sylw. Noda Gwilym Arthur Jones fod y genedl yn meddu ar genedlaethau o blant "heb feddu'r syniad lleiaf am na chlasuron yr iaith na hanes eu gwlad eu hunain" (Jones, 1983, p. 67). Rhan o'r rheswm am hyn yn ddiau oedd bod y cylchgronau a ddarparwyd ar eu cyfer mor annigonol. Roeddynt wedi eu hysgrifennu gan weinidogion na wyddent sut i apelio at blant, a'r nod oedd codi ofn arnynt fel nad oeddynt yn crwydro oddi ar y llwybr moesol (Walters, 1999, p. 330). Mewn erthygl ar lenyddiaeth Gymraeg i blant mae Norah Isaac yn nodi natur amhriodol a dychrynlyd y deunydd darllen a gafwyd, a oedd yn llawn rhybuddion i blant am farwolaeth a'r angen iddynt warchod eu heneidiau. Dywedwyd am yr *Addysgydd* (1818) mai dyna'r "gwerth ceiniog gorau

o fraw ac arswyd y gellid ei brynu,” ac am y *Trysor i blentyn a chydymaith yr Ysgol Sul* (1825) ei fod yn “[d]rysor go drymaidd... a chydymaith a fyddai’n siwr o roi’r felan i unrhyw blentyn”. Nododd fod pethau wedi gwella rhywfaint gyda dyfodiad *Trysorfa y Plant* yn 1862, er mai “enwadol yw’r gogwydd a nawddogol yw’r safbwynt” (Isaac, 1983, pp. 8-9, 12). Serch hynny, roedd gan ei olygydd, Thomas Levi, well reddf ynglŷn â’r math o straeon a darluniau a fyddai’n apelio at blant (Roberts, 2011, p. 198). Nodai Southall yn 1892 mai’r cylchgrawn Cymraeg a chanddo’r cylchrediad mwyaf oedd *Trysorfa y Plant*, a oedd yn gwerthu 37,000 o gopïau.<sup>302</sup> Serch hynny, gwelai fod lle i ehangu ymhellach er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu ymysg yr ifanc: “In fact there is still room for an enterprising publishing firm to help fill up this gap to really assist in educating the taste of the nation, and familiarize the young people with the language they already know in part” (Southall, 1892, pp. 298, 308). Mae Tecwyn D. Lloyd hefyd yn nodi “diffyg unrhyw ddarpariaeth ar gyfer plant” ymysg un o wendidau’r wasg Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn (Lloyd, 1980, p. 23). Daeth tro ar fyd yn 1891 gyda chyhoeddi *Cymru’r Plant* dan olygyddiaeth Owen M Edwards, a aeth ati ag arddeliad i drwytho’r plant yn hanes a llenyddiaeth Cymru (G.A. Jones, 1983, p. 88). Ond hyd yn oed wedyn nid oedd unrhyw lenyddiaeth i bontio rhwng chwaeth plentyn ac oedolyn. Noda Southall yr angen am ragor o ddeunydd darllen ysgafn yn y Gymraeg fel bod darllenwyr ifanc yn gallu datblygu eu medrau darllen er mwyn mynd i’r afael â’r cyfrolau trymion oedd yn gyffredin yn yr iaith:

There is at present little published in Wales as a stepping stone between the ability which is possessed by thousands of young people in South Wales to read a little Welsh, and the ability to read with sustained interest any standard book... This

---

<sup>302</sup> Bu mor llwyddiannus yn wir (gan werthu 45,000 o gopïau erbyn 1881) nes ei fod wedi talu am gostau cynhyrchu’r *Drysorfa* a’r *Traethodydd*, er mai’r diben yn wreiddiol oedd mai y *Drysorfa* fyddai yn digolledu *Trysorfa y Plant* (White, 2011, p. 253).



stepping stone is practically taken in English, so far as many in England and Wales are concerned, by means of unmitigated rubbish, London comic papers, cheap novelettes, and the like, sold at railway book-stalls and elsewhere. (Southall, 1892, p. 307)

Gellid dadlau nad drwy'r system addysg y collwyd serch y genhedlaeth hon at eu mamiaith, ond yn hytrach drwy greu'r argraff yn eu meddyliau bod y cwbl a oedd yn ddiddorol yn Saesneg, ac nad oedd dim o ddiddordeb neilltuol i'w gael yn y Gymraeg. Rhybuddia'r *Faner* yn benodol am y perygl hwnnw yn 1860: "Y mae lluwys o rieni duwiol a pharchus, yn eu gorofal dros foesoldeb eu plant, yn gwahardd oddi wrthynt bob cyfarfod a phob llyfryn a fyddo o duedd ddifyrus. Dysgant i'w plant fod pob peth difyr yn bechadurus. Tynhant y llinyn hyd yr eithaf. Y mae y plant hyny o dipyn i beth yn myned allan o ddyllanwad eu rhieni – yna y mae y llinyn yn torri" (1860, p. 5). Eironi pethau oedd mai eu cenedlaetholdeb ethnogrefyddol a oedd yn gyfrifol am yr ymrwymiad hwn i ddeunydd o safon moesol uchel – duwioldeb Cymru oedd y llinyn mesur a ddefnyddid i fesur ei gwerth ochor yn ochor â chenhedloedd eraill y byd.

Cyfeiria Okey at bwysigrwydd y wasg wrth esbonio sut y llwyddwyd i gwblhau Cam C yn y broses o drosglwyddo'r efengyl genedlaetholgar o'r deallusion i'r dosbarth gweithiol ymysg cenhedloedd diwladwriaeth dwyrain Ewrop. Un o'r prif resymau, yn ddiamau, meddai, oedd "gwasg a adlewyrchai fuddiannau'r gweithwyr" (Okey, 1991, p. 610). Nid oes awgrym bod y fath ddarpariaeth yn bodoli drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llythyr gan ohebydd y *Morning Chronicle* ar ymweliad â Merthyr Tydfil, crud y chwyldro diwydiannol yng Nghymru, yn yr 1850au, yn cynnig darlun diddorol o arferion darllen y trigolion. Aeth i gwrdd â llyfrwerthwr yn yr ardal i weld pa gyfnodolion oedd ar gael, a pha rai oedd yn gwerthu orau. Roedd 31 o lyfrau a chylchgronau Saesneg amrywiol ar werth, ac roeddynt wedi gwerthu dros 350 o gopiau rhyngddynt. Roedd y cyfnodolion Saesneg a oedd ar gael, gan gynnwys y *Mechanics'*

*Magazine* a'r *Practical Mechanics Journal*, yn adlewyrchu gwaith y trigolion: “[They] curiously show the interest taken in the physical science affecting the operations of trade in this neighbourhood.” Roedd amryw o cylchgronau poblogaidd ar werth yn ogystal, gan gynnwys cylchgrawn i blant. Dim ond un cylchgrawn Cymraeg oedd ar werth, sef yr *Eglwysydd*, ac roedd hwnnw'n gwerthu 150 o gopïau. Aeth y gohebydd hefyd i weld llyfrwerthwr yn Nowlais, a oedd yn gwerthu 189 copi o'r *News of the World* a 360 copi o'r *London Journal*, yn ogystal â 12 papur wythnosol arall bob wythnos, ond dim un yn Gymraeg. Dywed ef: “if the cheap publications were in Welsh, the sale would be enormous” (*Monmouthshire Merlin*, 1850c, p. 4).

Roedd yr Ymneilltuwyr yn gwbl ymwybodol o allu'r argraffwasg i hybu budd materol y bobl,<sup>303</sup> ac mae amryw o awduron y cyfnod yn mynegi pryder ynglŷn â'r gormodedd o lyfrau crefyddol yn y Gymraeg,<sup>304</sup> a'r diffyg llyfrau o natur wyddonol a oedd ar gael,<sup>305</sup> e.e. ym maes

---

<sup>303</sup> Dywed y *Traethodydd* yn yr 1860au bod “gwasanaeth y wasg i fasnach ein gwlad yn annhraethadwy...” Cyfeiria yn benodol at y modd yr oedd cynnyrch y wasg o fudd wrth wella ansawdd amaethyddiaeth, mwynyddiaeth, a galwedigaethau eraill. O'r holl ddyfeisiadau newydd, gan gynnwys ager-beiriannau a chludyddion gwefrol, meddai, y wasg a wnaeth y gymwynas mwyaf i “ddwyn masnach allan o lyffetheiriaid caethiwus y deddfau a lunsid dan yr enw o'i hamddiffyn...” (1860, p. 208)

<sup>304</sup> Nid oedd awduron Cymraeg yn gwbl ddall i'r angen i ehangu gorwelion yr iaith, a'u darllenwyr. Mor gynnar â 1818, roedd *Seren Gomer* yn annog eu darllenwyr i ddarllen y tu hwnt i'r Beibl, gan ddadlau na “fwriadwyd mo hōno erioed i rwystro cynydd gwybodaeth mewn pethau naturiol... Y sawl a wrthwynebant helaethu gwybodaeth o bethau buddiol yn gyffredinol sydd yn prysuro tuag at eglwys goelgrefyddol Rhufain, ac nid syndod mawr fyddai, pe dywedai cyn hir, ‘Mamaeth duwioldeb yw anwybodaeth’” (1818, p. 4). Cwynai ‘Herber’ yn y *Geninen* yn 1883 fod gormodedd o lyfrau yn y Gymraeg i ddysgu pobl “pa fodd i wneud yn sicr o'r byd nesaf” ond “mai ychydig iawn o lyfrau a geir, yn ein hiaith, yn tueddu i greu uchelgais yn y Cymro ieuanc i wneuthur y goreu o'r bywyd hwn” (Herber, 1883, p. 176). Nodai ‘Glanystwyth’ yn yr un modd fod tua thri chwarter o'r llyfrau a gyhoeddwyd yn y Gymraeg, yn ôl ei gyfrif ef, yn rhai diwinyddol neu farddonol: “Mae yn dra diffygiol mewn llyfrau ar y gwyddorau poblogaidd; ac nid yw yr hyn a fedd fawr amgen na chyfieithiadau o'r Saesneg. Ni chyffyrdda ond yn gynil iawn â meysydd toreithiog athroniaeth feddyliol a moesol” (Glanystwyth, 1889, p. 157). Awgryma Thomas Morris Jones yn 1892 fod datblygiadau addysgol yn golygu bod angen i'r wasg Gymraeg bellach ehangu ei gorwelion i gwmpasu nifer o ganghennau gwahanol o wybodaeth, oherwydd “yn niffyg hyny, ofnwn y bydd rhan fawr o'r darllenwyr ieuanc Cymreig yn gorfod troi at lenyddiaeth ieithoedd eraill.” Serch hynny, greddf Ymneilltuol i'w hatal rhag llygredigaeth foisol oedd ar waith yma eto, wrth i'r awdur ofni y gallai gorfod troi at lenyddiaeth Saesneg olygu y “gallent gyfarfod rhai pethau all eu niweidio” (Jones, 1892, p. 145). Anodd yw dadlau felly nad oedd Cymry Cymraeg yr oes yn ymwybodol o'r angen am lyfrau Cymraeg mewn meysydd ehangach na diwinyddiaeth, a gellid dyfalu y byddai'r galw hyd yn oed yn fwy y tu hwnt i dudalennau'r cylchgronau hyn a dylanwad eu golygyddion a chyfranwyr Ymneilltuol. Dywed E.G. Millward fod anghytwysedd y wasg Gymraeg yn “[d]iffyg... a fuasai'n poeni amryw o sylwebyddion ers cenedlaethau lawer,” yn Gymry Cymraeg ac yn Saeson (Millward, 1991, p. 147).

<sup>305</sup> Awgrymai Mentor yn y 1840au nad oedd y fath lyfrau ar gael yn y Gymraeg o gwbl. “Os tueddir i ni olrhain gwahanol bynciau Athronyddiaeth, ac os chwiliwn y llyfrgelloedd am ysgrifeniadau ar natur a phriodoliaethau

amaethyddiaeth.<sup>306</sup> Roedd cyhoeddi'r *Gwyddoniadur* rhwng 1854 ac 1879 yn esiampl o barodrwydd cyhoeddwr Cymraeg i fentro ym maes gwybodaeth fuddiol, hyd yn oed pan nad oedd y fenter yn sicr o lwyddo.<sup>307</sup> Ond hyd yn oed pan ystyrir materion addysgol y tu hwnt i ddiwinyddiaeth a barddoniaeth, e.e. daearyddiaeth a hanesyddiaeth, pwysleisid mai yng nghydestun daearyddol a hanesyddol y Beibl y dylid gwneud hynny<sup>308</sup> (*Y Traethodydd*, 1851, pp.

---

awyr, grym ac effaith yr elfenau, maintioli a symudiad y planedau, neu gyfansoddiad y byd llysiuog ac anifeilaidd – ni ddaeth etto trwy yr argraffwasg Gymreig!” (Mentor, 1846, p. 114) Nid oedd y canfyddiad wedi newid ryw lawer erbyn ail hanner y ganrif. Nodai Thomas Rees yn blaen: “We have no standard scientific works in the Welsh language...” (Rees, 1867, p. 45) Y rheswm hynny, myn Tafolog, oedd bod y wlad “wedi cael cam truenus gyda golwg ar fanteision addysg uwchraddol” ac felly nad oedd modd ysgrifennu llyfrau “ar faterion a dysgeidiaith uchel, - yn neillduol ar destunau gwyddonol” (Tafolog, 1883, p.104).

<sup>306</sup> Cafodd y pwyslais hwn sgil effeithiau difrifol o ran atal y Cymry Cymraeg uniaith rhag meddu ar wybodaeth a allai fod o fantais wrth wella eu hamodau byw yn ogystal, e.e. ym maes amaethyddiaeth. Nodai Moore-Colyer fod diffyg arweiniad yn Gymraeg ynglŷn â dulliau newydd o ffermio yn golygu bod ffermwyr Cymru o dan anfantais o’u cymharu â ffermwyr Lloegr oedd â llenyddiaeth gyfoethog ar y pwnc i’w gwasanaethu (Moore-Colyer, 1999, p. 111). Nodir mewn erthygl yn y wasg Lundeinig a ymddangosodd wedyn yn y *North Wales Chronicle* argraffiadau ymwelydd â Chymru, a nodai fod anwybodaeth ffermwyr Sir Benfro a Cheredigion yn golygu eu bod chwarter canrif ar ei hôl hi o ran eu technegau ffermio: “... a glance will show how little the agriculture of that country has profited by the stimulus which the mechanical and scientific discoveries of the nineteenth centuries have imparted to the most useful of the arts of life” (*North Wales Chronicle*, 1850, p. 6). Yn ôl Lleufer D Thomas, awdur adroddiad ar lenyddiaeth amaethyddol yn Gymraeg, roedd cyflwr truenus y ffermwyr yn bwnc trafod brwd ymysg Ymneilltuwyr a oedd am eu defnyddio fel arf i ymosod ar Eglwys Lloegr a’r tîrfeddianwyr. Serch hynny, nid aethpwyd ati i ddarparu llenyddiaeth bwrpasol at eu dibenion. Dywed fod hyd yn oed cylchgrawn yr *Amaethydd* wedi ei olygu, “not by anyone possessing either practical or scientific knowledge of farming, but by the distinguished bard and Nonconformist minister, the Rev. William Williams (*Caledfryn*)” (Thomas, 1896, p. 105).

<sup>307</sup> Ymysg gweithiau mwyaf swmpus a beiddgar y ganrif oedd *Y Gwyddoniadur Cymreig* deg cyfrol, a gymerodd bron chwarter canrif i’w gwblhau (Jenkins, 1999, p. 19). Wrth ei gyhoeddi roedd y *Traethodydd* yn llawenhau yn yr amrywiaeth o destunau a drafodwyd ynddo; prawf, meddai, “fod genym yn ein mysg, pa bynag beth a feddylir am danom gan genedloedd eraill, rai gŵyr o ddysgeidiaeth ac athrylith... Y mae y gwaith yn gyfryw nad oedd genym o’r blaen, yn ein hiaith, ddim cyffelyb iddo...” (*Y Traethodydd*, 1855, p. 117) Roedd y *Traethodydd* ei hun, wrth gwrs, yn chwa o awyr iach pan ddaeth, ac o fewn degawdau roedd awduron yn nodi iddo agor “[c]yfnod newydd yn hanes Cymru mewn llenyddiaeth gylchgronol...” (T.M. Jones, 1892, p. 137) Dywed T. Gwynn Jones bod y *Traethodydd* wedi dangos i’r Cymry “mai nid at wneud ambell englyn a baled yn unig yr oedd y Gymraeg yn gyfaddas”. Serch hynny, unwaith eto, awgrymir mai ymdrin â phynciau y tu hwnt i ddiwinyddiaeth fel rhyw fath o wrthglawdd yn erbyn dylanwadau maleisus allanol oedd y nod. Dywed fod y *Gwyddoniadur* wedi dod â gwybodaeth i afael y Cymry “y gallent ei deall heb aberthu eu hunan-barch” (Jones, 1913, p. 624). Heb gyhoeddiadau o’r fath gan Thomas Gee, meddai, “mae lle i ofni mai golwg go dila a fuasai ar ein dysg Gymraeg erbyn heddyw, a phob rhyw ddysg arall yn ein plith hefyd o ran hynny” (Jones, 1913, p. 152). Mae Robert Owen Jones yn clodfori menter Thomas Gee, gan ddadlau ei fod drwy gyhoeddi'r *Gwyddoniadur* “wedi llwyddo i ymestyn gorwelion a pherthnasedd yr iaith Gymraeg. Cafodd ysgrifenydd i gyfrannu ar bob math o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.” Roedd cyhoeddi'r gwaith yn fodd o ymestyn geirfa'r iaith, a'i gwneud yn gyfrwng addas er mwyn trafod materion cyfoes (Jones, 1997, p. 260). Yn hynny o beth, gellid dadlau bod gwasg Gymraeg y cyfnod wedi bod yn gyfrwng i addasu a safoni'r iaith ar gyfer dibenion oes newydd. Serch hynny, mae Robin Okey yn dadlau mai dirywio wnaeth safon y ‘wybodaeth fuddiol’ a geir yn y wasg Gymraeg wrth i’r ganrif fynd rhagddi ac wrth i lythrennedd yn y Saesneg dyfu. Dywed ef bod “cynnwys Beiblaidd ei natur *Y Gwyddoniadur* yn gam yn ôl mewn termau cymharol, o’i gymharu â’r cyfieithiad, Addysg Chambers i’r Bobl” (Okey, 2000, p. 614).

<sup>308</sup> Canlyniad ychydig yn chwerthinllyd y gwersi hyn fyddai peri i awduron y Llyfrau Gleision “syrrthio ar eu hwynebau, [ac] hwy a fyddent yn rhwym o ddywedyd fod cenedl y Cymry yn deilwng o’i hefelychu yn ei hymchwil am wybodaeth gan genhedloedd y byd” (*Y Traethodydd*, 1851, pp. 338-9).

338-9). Awgryma ymchwil Elwyn Hughes ar y pwnc serch hynny fod rhai gweithiau gwyddonol yn y Gymraeg wedi eu cyhoeddi, ond nad oedd y cyhoeddwr yn gallu eu dosbarthu yn ddigon eang fel eu bod yn cyrraedd y mwyafrif.<sup>309</sup> Ond er bod daeareg a seryddiaeth wedi ennill ffafr y gymuned grefyddol, roedd “natur feiblgreiddiol” y gymdeithas Gymraeg yn sicr yn milwrio yn erbyn y gwyddorau yn Gymraeg, meddai: “Ni fu’r tyndra rhwng llythrenoldeb y Beibl a darganfyddiadau newydd y gwyddorau yn amlycach yn unman nag yng Nghymru yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.” Doedd dim “croeso o fath yn y byd i’r gweddau hynny ar wyddoniaeth a daflai gysgod ar uniongredded crefyddol y cyfnod” (Hughes, 1999, p. 391). Bodlonai’r *Traethodydd*, wrth wfftio Darwiniaeth o’r diwedd yn 1872, ar ddatgan bod mater tarddiad creaduriaid byw “eisoës wedi ei benderfynu... Duw a’u creodd” (1872, p. 217). O ganlyniad edwino wnaeth nifer y cyhoeddiadau gwyddonol yn Gymraeg wrth i’r ganrif fynd rhagddi, ac ni fu atgyfodiad tan ail hanner yr 20fed ganrif. Erbyn diwedd y 19eg ganrif yr oedd nifer y cyhoeddiadau gwyddonol Cymraeg – yn llyfrau yn ogystal ag erthyglau cylchgronol-wedi haneru. Serch hynny, dywed Elwyn Hughes nad diffyg ymdrech oedd yn gyfrifol am hynny: “... [yr] hyn sy’n syndod yw gwydnwch yr ymdrech yn hytrach na’r hyn a gyflawnwyd” (Hughes, 1999, p. 398). Awgryma’r *Traethodydd* mai’r hyn a oedd yn gyfrifol am y diffyg oedd na wyddai’r Cymry sut i ymdrin â phynciau y tu hwnt i’r diwinyddol: “Dim ond ar ryw

---

<sup>309</sup> Yn nhyb Elwyn Hughes, ehangwyd terminoleg yr iaith Gymraeg i gynnwys nifer o eiriau gwyddonol newydd yn y 19eg ganrif, er bod hynny’n golygu bathu saith ffordd wahanol o ddweud ‘ocsigen’ a gor-bwyslais ar elfennau Cymraeg hynafol ar draul addasiadau o eiriau Lladin a Groeg. Er mai byrhoedlog oedd oes cylchgronau oedd wedi eu neilltuo yn gyfan gwbl i bynciau gwyddonol, megis *Y Greal* (1805), *Y Meddyg Teuluaid* (1827), a’r *Amaethydd* (1845-6), roedd y cyfnodolion yn cynnwys nifer o erthyglau ar bynciau o ddiddordeb gwyddonol, megis ffrenoleg, a rhifydddeg, daeareg a seryddiaeth. Y ddau olaf oedd fwyaf poblogaidd gan eu bod “yn gydnaws â daliadau crefyddol y cyfnod...,” ac fe gadwyd draw o Ddarwiniaeth (Hughes, 1999, pp. 378-9, 383-5, 397). Diau fod y sylw arbennig i ddaeareg hefyd yn deillio o’r ffaith bod cynifer o Gymry yn gweithio mewn chwareli a phyllau glo. Nodir ym mhapur newydd y *Charelwr* yn 1876 y bydd erthygl ynddi am ddaeareg o ddiddordeb arbennig i’w darllenwyr hwy – “yn drysorfa llawn o wybodaeth, yn enwedig ar gyfer y chwarelwyr” (1876, p. 2). Cyhoeddwyd llyfrau am filfeddygaeth a choginio yn ogystal, ond roedd y Gymraeg yn ddiffygiol iawn mewn llyfrau hyfforddi yn ymwneud â chrefftau neu bysgota. Gyda’i gilydd, mae Hughes yn dadlau bod dros gant o lyfrau Cymraeg technegol wedi ymddangos erbyn 1850, ond bod awduron Cymraeg fel petaent yn anwybodus ohonynt ar y cyfa. “Nid ymddengys fod yr ymdrechion hyn i ddiwyllio’r Cymro Cymraeg yn wyddonol wedi gadael unrhyw argraff barhaol ar y rhan fwyaf o ddarllenwyr... Bron na ellid awgrymu bod gan y meddwl Cymraeg y pryd hwnnw ryw ddallbwynt i wybodaeth wyddonol yn gyffredinol” (Hughes, 1999, pp. 380, 382-3, 386-7).

ychydig destunau mae y Cymry, fel cenedl, wedi arfer ysgrifenu...” O ganlyniad, meddai, ni ddylid ystyried mai llenyddiaeth grefyddol oedd hyd eithaf eu gallu fel cenedl. Yr hyn a welodd oedd “[c]ynnyrchion pobl nas cawsant ond y nesaf at ddim o gyfleusderau a manteision i wrteithio eu galluoedd” (1849, p. 119). Mae’n amlwg felly fod cybolfa o wahanol elfennau ynghlwm â’r methiant i ddarparu deunydd a fyddai wrth fodd y darlennydd cyffredin, o geidwadaeth yr Ymneilltuwyr o fewn y parth crefyddol, i wendid masnachol y wasg Gymraeg, i’r diffyg cyfleoedd addysgol a fyddai wedi caniatáu ysgrifennu am bynciau amgen; a bod pob un o’r ffactorau hyn yn atgyfnerthu ei gilydd.

Gwelodd degawdau olaf y 19eg ganrif rywfaint o ddadmer ar gymeriad Piwritanaidd y wasg Gymraeg. Awgryma Huw Walters y gwneid ymdrech i apelio at chwaeth cynulleidfaoedd na fu darpariaeth ar eu cyfer cyn hynny. Yn ogystal â *Cymru* a *Cymru’r Plant* cafwyd y *Punch Cymraeg*, y *Darlunydd*, *Golud yr Oes*, y *Brython*, *Cymru*, y *Geninen*, ac y *Gymraes*. Dywed Walters fod ymddangosiad y cyhoeddiadau hyn yn brawf bod y golygyddion yn ymwybodol iawn o’r peryglon oedd yn wynebu’r iaith o du’r Saesneg (Walters, 1987, p. 14; Walters, 1999, pp. 346-7, 351; Walters, 1998, pp. 204-5). Dadleuai D. Tecwyn Lloyd fod parodrwydd cynyddol y papurau cenedlaethol i gyhoeddi nofelau a ffugchwedlau mewn cyfresi yn ystod chwarter olaf y 19eg ganrif hefyd yn brawf bod tro ar fyd (Lloyd, 1980, p. 20). Gellid dadlau mai tystiolaeth oedd hyn o dwf cenedlaetholdeb diwylliannol, wrth i afael crefydd ar y Cymry edwino, a hynny am resymau a esboniwyd yn y bumed bennod. Gwelodd ambell olygydd megis John Thomas ('Eifionydd') ac O. M. Edwards yr angen am ddeunydd a fyddai’n ail-gysylltu’r Cymry â’u gorffennol, a golygai sefydliadau megis Prifysgol Cymru a’r Llyfrgell Genedlaethol fod ganddynt fynediad cynyddol at ddeunydd a oedd yn caniatáu iddynt gyflawni hynny. Yn ogystal, golygai bodolaeth swyddi y tu hwnt i’r sffêr crefyddol a wobrwyai meistrolaeth o’r Gymraeg fod ganddynt gymhelliad i gynnal yr iaith rhag y dirywiad a oedd

erbyn hynny yn amlwg. Nid yw'n syndod efallai bod cyhoeddi'r cyfrifiad iaith cyntaf, yn 1891, a ddangosai fod y Gymraeg ar drai, yn cyd-daro â blwyddyn cyhoeddi'r rhifyn cyntaf o *Cymru*. Dywed E. Morgan Humphreys mai O.M. Edwards oedd y newyddiadurwr mwyaf dylanwadol ar ôl Thomas Gee, a hynny am ei fod wedi newid syniadau a bywyd Cymru: “dysgodd i’w ddarlennwyr beth oedd hunan-barch cenedlaethol ac asgwrn cefn” (Humphreys, 1945, p. 41). Ei nod, medd Walters, oedd ennill yn ôl y werin a oedd yn troi cefn ar y Gymraeg drwy ddangos y gall llenyddiaeth yr iaith fod yn ddifyr yn ogystal ag yn fuddiol (Walters, 1999, p. 348).

Awgryma Ieuan Gwynedd Jones fod dylanwad gweinidogion Ymneilltuol dros y wasg Gymraeg yn gweithredu fel math o sensoriaeth ar yr hyn gellid ei drafod (Jones, 1992, p. 73). Mynegodd David Rees hyn yn ddiflewyn ar dafod mewn erthygl yn y *Diwygiwr* ar ddechrau'r 1860au. Roedd y wasg wedi ei “chydio i’r pulpudd” a hynny “dan olygyddiaeth y gweinidogion a’r eglwysi”: “Hyd yma nid oes llyfr annuwiaidd, amheuaethol, ffugebol, aflwys, na brwnt, wedi cael cenad i ymwisgo yn ein hoff iaith ni; ac y mae y werin Gymreig wedi ei chadw gan ei hiaith i raddau mawr, a chan y llenyddiaeth bur yr ymarferent â hi i raddau mwy, rhag ysbwrial meddwl ffugebiaeth, annuwiaeth, a bryntni y wasg Seisnig” (Rees, 1861, p. 360). Er bod yr Ymneilltuwyr yn llawenhau bod ganddynt y fath reolaeth dros y wasg, golygai'r “deep-seated, conservative attitude” hwn na allai diwylliant seciwlar, poblogaidd ffynnu yn y wasg Gymraeg, ac fe fu modd i’r mudiad Llafur achub y blaen arnynt drwy gynnig diwylliant amgen, Saesneg a apeliai at y gweithiwr cyffredin<sup>310</sup> (I.G. Jones, 1998, pp. 168, 178). Wrth i’r ganrif fynd rhagddi a chynnwys y wasg Saesneg yn dod yn fwy hygyrch, fe gollodd yr Ymneilltuwyr

---

<sup>310</sup> Dywed John Davies yn yr un modd na chyhoeddwyd rhyw lawer yn ail hanner yn ganrif “nad oedd yn dderbyniol i’r enwadau” ac y golygai hyn bod rhwydd hynt i’r Saesneg lenwi’r bwlch mewn meysydd eraill (Davies, 2007a, pp. 384-5). Cytunai Robert Owen Jones fod “y fath briodas â chrefydd wedi caethiwo a llesteirio'r Gymraeg i rai meysydd” gan sicrhau mai'r Saesneg a orfu y tu hwnt i’r parth crefyddol (Jones, 1997, p. 260).

y ‘gynulleidfa gaeth’ a oedd ganddynt wrth i’w chwaeth newid.<sup>311</sup> Ond er bod elfen o wirionedd ym marn Ieuan Gwynedd Jones a David Rees, rwy’n credu eu bod yn gor-bwysleisio hegemoni’r Ymneilltuwyr yn ystod y cyfnod dan sylw, a oedd yn symptom o ddiffyg cystadleurwydd masnachol y wasg Gymraeg yn hytrach na’u grym hwy eu hunain. O ganlyniad i’r diffyg cymhelliad masnachol i gyhoeddi yn Gymraeg, nid oedd unrhyw ymdrech i ddarparu ar gyfer chwaeth y mwyafrif, y tu hwnt i ambell gonsesiwn, megis argraffu ffuglen, er mwyn osgoi eu colli’n llwyr i’r Saesneg. Credaf unwaith eto felly mai annheg yw beirniadu ymdrechion yr Ymneilltuwyr yn y cyd-destun hwn. Drwy eu hymdrechion gwirfoddol gwnaethant eu hunain yn darged beirniadaeth. Dengys parodrwydd y Cymry i gefnu ar gynnyrch y wasg Gymraeg a chofleidio danteithion melysach y wasg Saesneg nad oedd dylanwad ceidwadol yr Ymneilltuwyr yn ymestyn llawer ymhellach na’u gweithgarwch eu hunain – h.y. petai unrhyw un am gyhoeddi deunydd seciwlar yn y Gymraeg, ni fyddai rhwystr iddynt wneud hynny. Nid oedd ymdrechion yr Ymneilltuwyr yn atal unrhyw garfan arall rhag cymryd yr awenau a chyhoeddi eu deunydd seciwlar, poblogaidd eu hunain. Cyhoeddodd yr Eglwyswyr ambell i gyfnodolyn yn y Gymraeg, gan gynnwys yr *Haul*, y *Llan* a *Llais Gwlad*, ond nid oedd eu hymdrechion hwy yn cymharu â rhai’r Ymneilltuwyr. Mae llythyr a gyhoeddwyd yn y *Llan* yn 1884 yn cyfodod yn bur feirniadol y gefnogaeth a roddid i bapurau newydd Ymneilltuol â diffyg cefnogaeth Eglwyswyr i’w cyfnodolion Cymraeg hwythau a oedd yn “syrthio yn ôl i drwmgwsg diogaidd”. Gofynna: “Ai gallu llenyddol neu drysorfa gefnogol sydd yn peri fod y fath eiddilod newyddiadurol a’r *Faner* fach, *Seren*, *Y Celt*, a’r *Tyst*, yn cael digon o gylchrediad i fyw uwch law y dwfr ? Nid yn y golygu, y gohebu, na’r argraffu, mae y

---

<sup>311</sup> Ym marn Philip Henry Jones, roedd un methiant costus gan Gwasg Gee, yr *Allor Deuluaid*, a gyhoeddwyd yn 1892, yn esiampl o hynny (Jones, 1999, p.323). Mae R. Tudur Jones yn gweld yng nghyhoeddi’r *Allor Deuluaid* arwydd bod gweinidogion Ymneilltuol yn ofni bod y bywyd ysbrydol yn cael ei ddifa gan ddiddordeb mewn chwaraeon ac materion ysgafn eraill. Roedd y llyfr yn ymdrech i wrthod y tueddiad i seciwlaiddio’r cartref a chyfyngu addoli i’r capel yn unig (Jones, 1981, pp. 103-4). Dywed Philip Henry Jones mai methiant cyhoeddwyd Cymru oedd symud gyda’r oes a chynhyrchu deunydd a oedd yn ymateb i chwaeth y genhedlaeth newydd, “i gymryd lle’r farchnad uniaith Gymraeg a oedd yn anorfod yn crebachu” (Jones, 1999, p.325).

dirgelwch.” Awgrymid mai’r ateb oedd ymroddiad yr Ymneilltuwyr wrth gyhoeddi a phrynu cynnyrch y wasg ('Nainorea', 1884, p. 8). Nid oedd Southall chwaith yn gweld o le y codai gwasg Gymraeg ffyniannus, os nad drwy ymdrechion yr Ymneilltuwyr: “If it had not been for this religious movement... the literature of Wales in the Nineteenth century would be within much more contracted limits than it actually is, and we should not be able to record the phenomenon of (roundly) 1,000 poetical publications being issued during that period” (Southall, 1892, p. 311). Mae R. Tudur Jones yn dadlau bod yna dueddiad i feirniadu’n rhy llym beth a oedd mewn gwirionedd yn un o gyfnodau mwyaf byrlymus a chreadigol yn hanes Cymru, ac mai Ymneilltuaeth oedd ffynhonnell yr ynni a’r brwdfrydedd hwnnw dros newid y genedl: “Trwy eu gwaith yn efengylu, yn pregethu, yn cynnal ysgolion Sul ac yn cyhoeddi swm enfawr o lenyddiaeth, magodd yr eglwysi Ymneilltuol yn ystod y ganrif ddegau o filoedd o ddarlennwyr Cymraeg ac o bobl a oedd yn gyfarwydd a mynegi eu meddyliau yn effeithiol trwy gyfrwng yr iaith” (Jones, 1966, p. 276; Jones, 1999, p. 249). Os ydym am dderbyn bod yr Ymneilltuwyr wedi ‘herwgipio’ Cymreictod, a’u rhyddfrydiaeth wedi atal datblygiad mudiad cenedlaethol ffyniannus, rhaid esbonio pwy a fyddai wedi camu i’r adwy yn eu habsenoldeb a darparu’r math o wasg Gymraeg lewyrchus a fyddai wedi hybu datblygiad cenedlaetholdeb o’r fath. Os na allwn ganfod ymgeisydd teilwng, y cwestiwn elfennol efallai, yw a fyddai dim gwasg Gymraeg o gwbl yn well na’r wasg a gafwyd? Ni ellir ar y naill law gyhuddo’r Ymneilltuwyr o fod yn lleiafrif anghynrychioliadol o’r Cymry, ac ar y llaw arall honni bod eu dylanwad dros y bobl yn ddi-ben-draw. Ni ellir chwaith eu cyhuddo o bleidio achos *laissez-faire* yn ormodol, ond yna o fod yn rhy geidwadol a chyfyngu ar rychwant y cyhoeddiadau Cymraeg a oedd ar gael. Symbylydd y wasg Gymraeg oedd achub eneidiau. Yn absenoldeb cymhelliad masnachol neu sefydliadau a fyddai wedi blaenoriaethu’r defnydd o’r iaith mae’n annhebygol y byddai’r iaith wedi goroesi, heb sôn am weld ‘oes aur’ yn y byd cyhoeddi, heb y gweithgarwch crefyddol hwn.



*Y wasg Gymraeg a chenedlaetholdeb dychmygedig*

Amlinellwyd yn fras hyd yma y rhesymau pam y daeth yr ‘oes aur’ a welwyd yng Nghymru yn y 19eg ganrif i ben. Ond nid yw’r esboniad yma yn esbonio pam na ddatblygodd ymdeimlad cryfach o genedlaetholdeb Cymreig pan oedd yr oes honno *yn ei hanterth*. Fel y nodwyd yn y bennod ddiwethaf, daethai’r Cymry i’w hystyried eu hunain yn genedl ar wahân i’r Saeson, ond roedd hyd yn oed y mwyaf gwladgarol yn eu mysg (ac eithrio ambell un) yn parhau i ystyried eu cenedl yn gyd-gyfranwyr cwbl deyrngar oddi fewn i Ymerodraeth Brydeinig ehangach. Roedd y ‘gymuned dychmygedig’ yr oeddynt yn rhan ohoni, felly, yn un amlhaenog a oedd, ar y naill law, yn cwmpasu eu cyd-Gymry, ac ar y llall arglwyddiaethau amrywiol y Frenhines Fictoria. Ar sail damcaniaeth Anderson ynghylch grym y wasg wrth hybu ymdeimlad o gymuned dychmygedig, teg fyddai holi pam na chryfhawyd hunaniaeth Gymreig, a hynny ar draul hunaniaeth Brydeinig, gan yr ymchwydd sylweddol mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn ail hanner y 19eg ganrif. Mae Brooks yn galw’r degawdau rhwng yr 1850au a diwedd y 70au yn “ddegawdau coll,” (Brooks, 2015, p. 24) a diau fod hynny’n wir yn achos y wasg hefyd. Fel y nodwyd eisoes, mae’r cwestiwn hwn eisoes wedi peri cryn benbleth i Hroch (2000, p. 184), ac mae John Davies yntau’n nodi mai prin iawn oedd y gweithgarwch llenyddol a lwyddodd i danio mudiad cenedlaethol Slofenia a Croatia o’i gymharu â’r bwrlwm a welwyd yng Nghymru (Davies, 2007a, p. 380). Un casgliad posib yw na ddylid rhoi gormod o bwyslais ar ddamcaniaeth Anderson, Eisenstein ac eraill ynglŷn â dylanwad ffurfiannol y wasg ar hynt cenedlaetholdeb. Serch hynny, credaf fod olrhain hynt cenedlaetholdeb yng Nghymru a’i gysylltiad â’r wasg yn cefnogi tybiaeth Anderson, oherwydd nad oedd y wasg Gymraeg, serch ei ffyniant a’r cylchrediad a oedd yn hanesyddol yn hynod o uchel, yn cwrdd â’r meini prawf a osodwyd gan Anderson yn ei lyfr *Imagined Communities*. Gwelwn, yn nhyb Anderson, fod gan bapurau newydd dair rhinwedd sy’n hybu’r ymdeimlad

o ‘gymuned ddychmygedig’; maent yn *ddyddiol*, maent yn *weladwy*, ac maent yn genedlaethol eu *cyrhaeddiad*. Gellid dadlau nad oedd cynnyrch y wasg Gymraeg yn cwrdd â’r un o’r gofynion hynny.

Mae pwysigrwydd atgynhyrchu cenedlaetholdeb yn ddyddiol yn cael ei bwysleisio gan nifer o academyddion. Dywed Umut Özkirimli mai dyma un o’r ychydig nodweddion creiddiol sydd gan bob ffurf ar genedlaetholdeb yn gyffredin (2000, pp. 230-1). Yn ôl Anderson, mae defnyddioldeb y papur newydd wedi darfod drannoeth ei argraffu, ac felly mae’r holl ddarllenwyr yn cymryd rhan mewn seremoni gyd-amserol sydd yn rhoi iddynt ymdeimlad o berthyn i gymuned ddychmygedig. Pwysleisia : “... this ceremony is incessantly repeated at daily or half-daily intervals throughout the calendar.” Gellid dadlau felly fod unrhyw gyfnodolyn nad yw’n ddyddiol – boed yn wythnosol, yn fisol, neu’n ymddangos bob tymor – yn gwanhau rhywfaint ar yr ymdeimlad dychmygedig hwnnw o undod. O ganlyniad ni cheir y seremoni gyd-amserol honno o ddarllen ar y cyd, ac ni fydd y dyddiad ar frig y dudalen flaen – yr elfen bwysicaf, yn ôl Anderson – fel pe bai’n curo’n unol â rhythm calon y genedl. Os ydym yn derbyn damcaniaeth Anderson bod datblygiad y papur newydd yn hollbwysig i ffurfio ymdeimlad o genedlaetholdeb modern, felly, teg yw dweud na fydd papurau nad ydynt yn ddyddiol yn hybu’r ymdeimlad hwnnw mor effeithiol (Anderson, 1991, pp. 33-35). *Y Faner*, a gyhoeddid ddwywaith yr wythnos,<sup>312</sup> oedd yr agosaf a gafwyd at bapur dyddiol yn y Gymraeg.<sup>313</sup> Wythnosol yn unig ydoedd y papurau eraill hirhoedlog y gellid honni iddynt gyrraedd cynulleidfa genedlaethol, megis *Y Celt*, y *Cymro*, *Y Dydd*, *Y Genedl Gymreig*, *Y*

---

<sup>312</sup> Cyhoeddwyd mewn erthygl yn y *Faner* yn 1865 y byddai’r papur newydd ar gael ddwywaith yr wythnos o hynny ymlaen, ac hynny yn lle’r papur *Udgorn y Bobl* a ymddangosai am chwe mlynedd cyn hynny ar y dydd Sadwrn. Dywed fod llawer o gynnwys yr *Udgorn* yn cael ei lunio o newyddion a oedd eisoes wedi ymddangos yn y *Faner*, ond o hynny ymlaen byddai holl gynnwys y naill a’r llall yn newydd. Awgrymid y dylai darllenwyr danystrifio i’r naill a’r llall oherwydd “wrth gwrs, ni bydd newyddion yr wythnos yn gyflawn ynddynt heb y ddwy” (*Baner ac Amserau Cymru*, 1865).

<sup>313</sup> Cyhoeddwyd fersiwn dyddiol o’r *Dinesydd* yn Eisteddfod Caerdydd 1978 (Lloyd, 1980, pp. 5-6), ac fe gyhoeddwyd arlwy gwefan *Golwg360* ar ffurf brintiedig yn ddyddiol ar faes Eisteddfod yr Urdd Aberaeron yn 2010.

*Goleuad*, *Gwalia*, *Y Gwyliedydd* (a'r *Gwyliedydd Newydd*), *Papur Pawb*, a'r *Tyst*. Wythnosol yn ogystal oedd y papurau Cymraeg a chanddynt ddylanwad mawr yn eu hardaloedd eu hunain, megis *Seren Cymru* (cylch Caerfyrddin), *Yr Herald Cymraeg* (Môn ac Arfon), a'r *Gwladgarwr* (Cymoedd y De). Roedd *Seren Cymru* yn bapur pythefnosol i ddechrau, cyn mynd yn wythnosol yn 1863.<sup>314</sup> Chwarterol oedd cyfnodolion megis y *Traethodydd* a'r *Geninen*. Er na cheir papur dyddiol, felly, gellid honni bod nifer y cyhoeddiadau yn golygu bod modd prynu papur Cymraeg yn boeth o'r wasg ar bron pob diwrnod o'r wythnos. Roedd hynny'n sicr yn wir yn y gogledd-orllewin erbyn dechrau'r 20fed ganrif, os oedd gan yr unigolyn fynediad parod at bob un o bapurau rhanbarthol a chenedlaethol ei ardal, ac yn fodlon cofleidio papurau o bob enwad a thuedd wleidyddol. Er enghraifft, yn 1906 gallai cwsmer damcaniaethol mewn siop a ddarparai bob un o bapurau newydd yr ardal fod wedi prynu papur Cymraeg ar bum diwrnod o'r wythnos. Ar ddydd Mawrth, gallai ddewis rhwng dau bapur lleol, *Yr Adsain*, papur ardal Corwen, neu'r *Herald Cymraeg*, papur ardal Môn ac Arfon. Ddydd Mercher roedd dau bapur cenedlaethol ar gael iddo, *Baner ac Amserau Cymru*, *Y Genedl Gymreig*, un papur enwadol, *Y Tyst* o du'r Annibynwyr, neu bapur lleol ardal y Bala, *Yr Wythnos a'r Eryr*. Ddydd Iau gallai brynu un papur cenedlaethol, y *Cymro*; papur y Wesleaid, y *Gwyliedydd*; papur ceidwadol ac undebol, *Y Cloranydd*, a werthid yn Sir Fôn; y *Werin*, a werthid yn Sir Fôn, Sir Gaernarfon a Sir Feirionydd; neu bapur lleol ardal Corris, y *Negesydd*. Ar ddydd Gwener gallai ddewis rhwng papur newydd cenedlaethol y *Celt*; papur y Methodistiaid Calfinaidd, *Y Goleuad*; a phapur yr Annibynwyr, *Y Dydd*. Ar y dydd Sadwrn, roedd ganddo ddewis rhwng dau bapur a werthid yn genedlaethol; *Baner ac Amserau Cymru* drachefn, neu *Bapur Pawb*; a hefyd papur lleol i Flaenau Ffestiniog a'r ardal o'i hamgylch, *Y Rhedegydd*. Ond hyd yn oed

---

<sup>314</sup> Dywed y *Seren* mai sail y penderfyniad oedd bod "rhaid gwrthod llawer o ysgrifau da a anfonir i ni gan ein dynion goreu" er bod y golygyddion mewn cyfyng-gyngor a ddylid yn hytrach helaethu'r papur (*Seren Cymru*, 1862, p. 11). Ymddengys ar sail yr erthyglau esboniadol yn y *Faner*, uchod, a *Seren Cymru* mai pryderon ymarferol yn ymwneud ag straeon yn mynd yn rhy hen i'w defnyddio, a faint o gynnwys a dderbynnir gan gyfranwyr a oedd y tu cefn i'r penderfyniad i newid amllder y cyhoeddi.

pe bai'r fath unigolyn yn bodoli a fodlonai ar amrywiaeth enwadol a rhanbarthol y cynnyrch hwn, o grwydro ychydig yn ddaearyddol neu'n amserol fe fyddai'r deunydd ar gael iddo yn llawer mwy cyfyngedig. Ynghanol y 1860au y *Faner* a'r *Herald Gymraeg* oedd yr unig bapurau Cymraeg o bwys cenedlaethol a oedd ar gael, er y cododd papurau enwadol y *Dydd*, y *Tyst Cymreig* a'r *Goleuad* erbyn diwedd y ganrif. Erbyn canol y 70au roedd y *Tyst* wedi uno gyda'r *Dydd*, a phapur Ceidwadol ac Eglwysig *Llais y Wlad* wedi codi yn ei le. Yn 1877 cyhoeddwyd y *Genedl* ar ddydd Iau, a'r flwyddyn ganlynol fe gyhoeddwyd y *Celt* ar ddydd Gwener, gan sicrhau bod papur cenedlaethol ei orwelion ar gael ar fwyafrif dyddiau'r wythnos. Yn y de roedd gwahanol bapurau Cymraeg yn gwasanaethu gwahanol ardaloedd; *Seren Cymru* (1851-1852, 1856-) yn ardal Caerfyrddin, a'r *Gwladgarwr* (1858-1884) a *Tarian y Gweithiwr* (1875-1914) yng nghymoedd diwydiannol y de ddwyrain. Newidiodd patrymau cyhoeddi'r papurau hyn rhwng dydd Iau, Sadwrn a Gwener yn ystod eu hoes. O ganlyniad, er y gellid dadlau bod y papurau wythnosol hyn gyda'i gilydd yn cynrychioli sylwebaeth gyson ar newyddion y dydd, y tu hwnt i ambell ardal yn y gogledd-orllewin rhwng dechrau'r 1880au a blynyddoedd cynnar yr 20fed ganrif, mae'n anodd honni bod gwasg ddyddiol Gymraeg yn bodoli yng Nghymru. Yn wir, os ydym yn eithrio ambell bapur lled-enwadol a lleol, yn y tri degawd hynny o ddechrau'r 50au hyd ddiwedd y 70au a nodwyd gan Brooks fel y rhai a ddylai fod wedi chwarae rhan ffurfiannol yn hanes mudiad cenedlaethol Cymreig, *Y Faner* a gynrychiolai wasg cenedlaethol Cymru. Ni ddaeth 'oes aur' y wasg Gymraeg mewn gwirionedd nes bod y cyfle euraidd i sefydlu mudiad cenedlaethol llwyddiannus eisoes wedi mynd heibio.

Anhawster arall wrth geisio cwrdd â meini prawf damcaniaeth Anderson, oedd mai ychydig iawn o'r papurau hyn oedd yn genedlaethol eu rhychwant yng ngwir ystyr y gair. Awgryma Huw Walters fod nifer o bapurau lleol ac enwadol y cyfnod yn genedlaethol o ran eu cynnwys (Walters, 1987, p. 22), ond mae lle i amau i ba raddau yr oeddynt yn genedlaethol o ran eu

cyrhaeddiad. Unwaith eto, mae'n amlwg mai'r *Faner* yw'r prif ymgeisydd ar gyfer teitl papur cenedlaethol Cymru yn ystod y cyfnod dan sylw. Dywed y *Times* yn 1877 mai "in Denbighshire the feeling of Welshmen upon the great questions of the day is made and created; that in the town on Denbigh lives a man who wields more influence over his countrymen than any other" (1887, p. 13). Gyrrai Thomas Gee fapiau at hysbysebwyer er mwyn profi bod gan y *Faner* ddosbarthwyr ym mron bob rhan o'r wlad (P.H. Jones, 1986, p. 10). Serch hynny, ni allai hyd yn oed y *Faner* honni ei fod ar werth ym mhob rhan o Gymru, am nad oedd ganddo werthwyr ym Maesyfed a Penfro (A.G. Jones, 1993, p. 106). Nodir yn y *Celt* yn 1890 fod gan y *Faner* "gylchrediad gyda'r helaethaf o holl newyddiaduron Cymreig" ond awgrymir mai papur ar gyfer amaethwyr oedd yn bennaf (Evans, 1890). Erbyn 1887 roedd y *Faner* wedi newid ei is-deitl Saesneg o 'The National Newspaper of the Principality' i 'The National Newspaper, and Farmers' Journal' gan awgrymu eu bod bellach wedi derbyn mai ymysg cymunedau gwledig yr oedd poblogrwydd y papur ar ei uchaf (*Baner ac Amserau Cymru*, 1887, p. 1). Roedd papurau rhanbarthol fel y *Gwladgarwr* a *Seren Cymru* yn fwy dylanwadol yng nghymoedd de Cymru (Davies, 2007a, p. 393). Mae yna le i amau felly a oedd y *Faner* yn treiddio i'r fath raddau i'r ardaloedd diwydiannol deheuol lle'r oedd mwyafrif y Cymry bellach yn trigo. Roedd pris uchel y *Faner* sef 3c hefyd yn cyfyngu ar ei hyfywedd fel papur cenedlaethol. Awgryma Philip Henry Jones mai amcan Gee oedd cynhyrchu papur ar gyfer yr 'elît' anghydfurfiol yn hytrach na thrwch y boblogaeth, ac mae ei ohebiaeth yn ystod y cyfnod yn cadarnhau hynny: "Amcanai Gee gynhyrchu papur ar gyfer arweinwyr y genedl..." Nid tan y 1870au, a gostwng ei bris, y llwyddwyd i ehangu'r cylchrediad ymysg y dosbarth gweithiol (P.H. Jones, 1986, p. 10). Mae troednodyn yn y rhifyn cyntaf o'r *Faner* yn addef y bydd y tu hwnt i gyrraedd "[rh]ai gweithwyr ac eraill o amgylchiadau lled isel, y rhai ni fynem ar un cyfrif fod heb eu cyrraedd." Awgrymir serch hynny y gallai "dau neu dri gymeryd papur rhyngddynt, a newid darnau â'u gilydd..." os oeddynt am ei ddarllen (1857a, p. 5). Mae'r ffigyrau a grybwyllwyd eisoes hefyd

yn awgrymu mai oddeutu diwedd y 1860au y dechreuodd y *Faner* werthu dros 10,000 o gopiâu. Dengys cyfrifiad 1871 mai 1.4 miliwn oedd poblogaeth Cymru (Ward, 2004, p. 143). Mae'n annhebygol felly y byddai cylchrediad o 15,000 hyd yn oed wedi dod â'r papur i sylw cyfran helaeth o'r boblogaeth. Mae'n anodd felly honni bod y *Faner* yn bapur newydd â dylanwad cenedlaethol yng ngwir ystyr y gair.

Er y gwerthid y *Celt*, y *Dydd/Tyst*, y *Goleuad*, a'r *Gwylidydd* drwy Gymru benbaladr ni ellir eu disgrifio hwythau chwaith fel papurau cenedlaethol oherwydd bod eu cynulleidfa wedi ei chyfyngu yn bennaf i'w henwadau. Mewn adroddiad am y galw am bapurau newydd Cymraeg mewn llyfrgell ym Merthyr nodwyd bod *Seren Cymru* yn ffefryn gan y Bedyddwyr, y Methodistiaid Calфинаidd yn darllen y *Goleuad*, yr Annibynwyr yn closio at y *Tyst* a'r *Celt*, y Wesleyiaid at y *Gwylidydd*, a'r Eglwyswyr at y *Llan* (*Tarian y Gweithwyr*, 1900). Er gwaethaf ei ddsbarthiad cenedlaethol a chyfraniad Michael D. Jones, cyfyng oedd apêl y *Celt*. Cwynai un o'i ohebwyd fod y tueddiad i'w ystyried yn bapur enwadol yn cyfyngu ar ei gylchrediad er yr awydd iddo fod yn bapur cenedlaethol: "Pe llwyddid i argyhoeddi y werin ei fod o eigion ei galon yn cefnogi Cymro a Chymraeg, ac fod ei dudalennau can lleted a Chymru... rhoddai gyfleusderau teg iddo siarad gair a brodyr lawer – rhai fu yn edrych yn gilwgus arno am ei fod yn perthyn i'n Henwad ni" ('Oliver', 1896). Serch hynny, dro arall roedd y papur yn gwbl agored ei fod yn "berthynol i'r enwad" (*Y Celt*, 1885, p. 26). Nid yw union gylchrediad y *Celt* yn hysbys, ond ceir amryw o awgrymiadau yn ei dudalennau nad oedd yn arbennig o uchel, yn enwedig wedi'r 1890au. Awgryma E. Pan Jones yn 1894 mai rhygnu byw yr oedd, a bod angen cynyddu'r cylchrediad fel bod y *Celt* yn cael byw o leiaf nes y gwelid datrys Pwnc y Tir a diddymu Tŷ'r Arglwyddi (Jones, 1894). Yn 1898, erfyniwyd ar y dosbarthwyr i ddyblu'r cylchrediad ar unwaith, am na allai orosi fel arall (*Y Celt*, 1898). Awgrymwyd eto ddwy flynedd yn ddiweddarach y buasai ychwanegu un derbyniwr newydd i bob dosbarthwr yn

golygu “[y] buasem yn gallu gwynebu y dyfodol yn fwy calonog” (1900, p. 4). Noda un llythyrwr o Gwm Rhondda ei fod wedi holi’r dosbarthwyr faint oedd yn derbyn y *Celt* ac y dylai fod “llawer iawn yn fwy” yn y rhan honno o Gymru (Glan Rhondda, 1884, p. 9). Er nad yw’r union werthiant yn hysbys felly, ceir sawl awgrym ar dudalennau’r papur ei hun mai menter ddigon amaturaidd a bychan ei chyrhaeddiad oedd, er gwaethaf ei dyheadau cenedlaethol a thraws-enwadol.<sup>315</sup> Gwelwn felly nad oedd y wasg Gymraeg, hyd yn oed yn ystod ei hoes aur, yn cwrdd ag un o feini prawf Anderson, sef y creïr ymdeimlad o gymuned ddychmygedig drwy ddarllen yr un papur ym mhob cwr o’r genedl.

Mae lle i amau hefyd i ba raddau yr oedd cyhoeddiadau Cymraeg yn weladwy i drigolion y wlad. Deilliai’r problemau hyn yn bennaf o’r trafferthion a gâi cyhoeddwr wrth ddisbarthu cynnwys y wasg rhwng y de a’r gogledd. Fel y trafodwyd eisoes, er gwaethaf y diwydiannu helaeth a welwyd yng Nghymru drwy gydol y ganrif, roedd teithio rhwng y de a’r gogledd yn parhau yn orchwyl costus ac anodd yn ymarferol. Dywed Gwyn A. Williams fod y chwyldro diwydiannol wedi arwain at gryfhau’r cysylltiadau i’r gorllewin a’r dwyrain rhwng Cymru a Lloegr, gan ddieithrio’r de a’r gogledd: “Industrial capital splintered Wales... North and South were directed towards the east and away from each other” (Williams, 1985, p. 182). O ganlyniad, roedd canolfannau pwysicaf y wasg Gymraeg ar arfordir y gogledd neu gymoedd y

---

<sup>315</sup> Yn ogystal â methu â gwerthu i bob cwr o Gymru, roedd y papurau newydd hefyd yn gwerthu mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith mewn dinasoedd eraill yn Lloegr. Roedd yr *Amserau* yn ddibynnol i raddau helaeth ar werthiant yn Lerpwl (P.H. Jones, 1989, p. 13). Pan unwyd â’r *Faner* yn 1859 ychwanegwyd y gair ‘Liverpool’ mewn llythrennau breision o dan deitl y papur hwnnw (1859, p. 1), ac yn 1861 fe ychwanegwyd ‘London’ o’i flaen yr un mor fawr (1861, p. 1). Nid oedd dibyniaeth ar gwsmeriaid a hysbysebwr dros y ffin yn gyfyngedig i’r wasg Gymraeg. Y *Western Mail* oedd yr unig bapur Saesneg a allai honni bod yn bapur ‘cenedlaethol’ i Gymru. Fe’i sefydlwyd yn 1868, a thyfodd ei gylchrediad nes ei fod yn gwerthu ym mhob cwr o’r wlad. Mae atgofion Picton Davies am olygydd y *Western Mail* o 1901 ymlaen, Syr William Davies, yn ei ddyfynnu fel hyn: “Papur Ceidwadol sydd gennym, ond papur cenedlaethol yr un pryd... os cyfyd unrhyw rhyw fater a fydd yn ymwneud â lles a llwydd Cymru ac â’i hiawnderau, gosodwch y pethau hyn bob amser goruwch manteision plaid” (Davies, 1962, p. 157). Serch hynny, mae Robert Smith yn dweud bod ei ogwydd ceidwadol yn golygu na ellid ei ystyried yn ddrych i farn mwyaf poblogaeth y wlad (Smith, 2000, pp. 268-9). Yn ogystal, dywed cyfarwyddwr y *Western Mail* yn 1920 fod hanner yr elw o hysbysebion, a’r nifer fwyaf o gwsmeriaid, yn Llundain (A.G. Jones, 1993, p. 71). Roedd atyniad masnachol Lloegr a gadwai’r wasg Gymraeg yn hyfyw felly yn fodd o bylu ffiniau’r ‘gymuned ddychmygedig’.

de (Walters, 1987, p. 24). Golygai hyn fod yn rhaid i unrhyw gylchgrawn oedd yn dymuno bod yn genedlaethol groesi canolbarth mynyddig a mawnog y wlad. Cwynai *Y Brython Cymreig*, un o'r ychydig bapurau a sefydlwyd yn y canolbarth, fod y ffyrdd yn y canolbarth hyd yn oed ar droad y ganrif yn "gywilyddus o wael" (*Ye Brython Cymreig*, 1892, p. 1). Nid aeth y wasg Saesneg i'r afael â'r her, chwaith. Ceisiwyd sefydlu papur newydd Saesneg cenedlaethol, *The Chronicle*, yn yr 1830au, ond methwyd oherwydd y cysylltiadau trafniadaeth gwael (A.G. Jones, 1993, p. 69). Yn ei lyfr *Atgofion Dyn Papur Newydd*, mae Picton Davies yn nodi'r trafferthion a wynebai'r *Western Mail* wrth geisio cario lluniau o arwisgo Tywysog Cymru yng Nghastell Caernarfon yn 1911: "... [y] ffordd gyflymaf oedd rhedeg car modur o Gaernarfon i Amwythig, cael y trênn oddi yno i Gaerdydd, a threfnu gyda chwmni'r ffordd haearn fod ystafell dywyll ar y trênn modd y gellid datblygu'r lluniau ar y daith" (Davies, 1962, p. 152). Dywed Philip H. Jones bod yr heriau hyn wrth ddsbarthu cynnyrch ar hyd y wlad yn golygu nad oedd yno mewn gwirionedd farchnad genedlaethol ar gyfer llyfrau Cymraeg. Tueddid i werthu llyfrau ar faterion lleol, ar gyfer darllenwyr yr ardal honno (P.H. Jones, 1999, p. 301). Dywed J.E. Southall mai ychydig iawn o ddiddordeb oedd gan drigolion gogledd a de Cymru yn llyfrau ei gilydd. Awgryma nad o ddewis oedd hyn, ond oherwydd y problemau logistaidd a wynebai cyhoeddwr y cyfnod: "... they would like to get at all Wales, instead of half a county, but how to do it they know not..." (Southall, 1892, p. 308)

Roedd R.J. Derfel yn llym ei feirniadaeth o'r hyn a welai fel diffyg trefn wrth ddsbarthu cynnyrch y wasg Gymraeg. Yn ei dyb ef, nid oedd y gweisg yn ddigon anturus wrth werthu eu cynnyrch, ac ni fyddai'r un gwesty na thafarn yng Nghymru yn gwrthod papur newydd Cymraeg pe bai dosbarthwr yn mynd ag ef atynt: "Wedi cyhoeddi'r papur newydd neu lyfr, eisteddir i lawr i ddisgwyl i'r bobl ddod atynt i'w brynu" (Derfel, 1945, p. 82). Ond golygai natur wledig a gwasgaredig cynulleidfa'r wasg Gymraeg fod yn rhaid dibynnu ar danysgrifwyr,



asiantau a dosbarthwyr, a chyfathrebu'n unigol â channoedd os nad miloedd o unigolion a oedd ar wasgar mewn pentrefi yng nghefn gwlad er mwyn sicrhau bod cynnyrch y wasg yn cael ei ddosbarthu'n eang. Roedd postfeistri hefyd weithiau yn codi pris ychwanegol am ddosbarthu papurau newydd i ardaloedd gwledig, ac fe fyddai papurau newydd hefyd yn cael eu difrodi yn amlach ar y teithiau hyn (A.G. Jones, 1993, p. 99). Dibynnwyd ar onestrwydd llyfrwerthwyr a fyddai'n codi'r cynnyrch oddi ar drenau, ac roedd yn aml yn anodd cael gafael arnynt, yn enwedig pan ddeuai'n adeg talu'r cyhoeddwyr (P.H. Jones, 1998, p. 182). Nodir yn y *Celt* yn 1882 fod dosbarthwyr yn y Rhyl yn cwyno na dderbynnid y papur o Fangor yn ddigon buan i'w anfon allan gyda'r papurau eraill (1882, p. 6). Dichon fod natur amaturaidd y gwaith hefyd yn broblem. Awgrymir yn 1900 fod dosbarthwyr y *Celt* i gyd yn gweithio'n ddi-dal (1900, p. 4). Erbyn 1899 roedd gan Wasg Genedlaethol Cymru 1,600 o asiantau yng Nghymru a threfi mwyaf Lloegr yn gwerthu ei chynnyrch (A.G. Jones, 1993, p. 100). Un syniad a oedd wrth fodd sawl un ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed, gan gynnwys Dan Isaac Davies ac O.M. Edwards, oedd sefydlu rhyw fath o ystorfa ganolog o lyfrau Cymraeg yn Llundain a fyddai wedi caniatáu dosbarthu llyfrau Cymraeg i'r gogledd a'r de ar hyd y rheilffyrdd (Davies, 1886, p. 7; Edwards, 1908, p. 247; Edwards, 1913, p. 141).

Nodwedd arall o'r wasg argraffu Gymraeg a oedd yn gyfrifol am ddiffyg gwelededd y cynnyrch yn y siopau oedd y tueddiad i'w gwerthu drwy gasglu tanysgrifwyr. Roedd hyn yn anorfod oherwydd ansicrwydd ariannol cyhoeddi unrhyw lyfr, ac os nad oedd digon o danysgrifwyr yn cynnig eu henwau penderfynid peidio â chyhoeddi'r llyfr. Daw Anwen Mai Pierce i'r casgliad wrth ddadansoddi llythyrau perchennog Gwasg Gomer nad ymddangosodd rhai llyfrau a oedd eisoes wedi eu hysgrifennu ac yn barod i'w cyhoeddi oherwydd prinder tanysgrifwyr (Pierce, 2005). Roedd pethau'n anoddach byth ar olygyddion papurau newydd a chylchgronau, a fyddai'n aml yn gorfod cyhoeddi yn y gobaith y byddai tanysgrifwyr yn dilyn.

Dywed Joseph Harris wrth ail-lansio *Seren Gomer* ar ffurf cylchgrawn yn 1818 nad oedd eto wedi derbyn digon o danysgrifwyr i dalu am y gwaith, a'i fod yn gobeithio y byddai rhagor yn dod i'r golwg er mwyn cyfiawnhau'r ail rifyn (1818, p. 2).

Un o ganlyniadau'r trafferthion wrth ddsbarthu llyfrau, a'r tueddiad i'w gwerthu drwy danysgrifiad, oedd nad oeddynt yn amlwg yn y siopau, yn enwedig felly yn y de-ddwyrain. Yn y lleiafrif yr oedd siopau fel Gomerian Llandysul, a roddai le amlwg i bapurau newydd a llyfrau Cymraeg. Disgrifiodd un awdur weld *Y Faner, Papur Pawb, Yr Eco Coch, Seren Cymru, y Cymro Coch a Chymru'r Plant* ar werth ar y cownter, a llyfrau Cymraeg wedi eu gosod mewn llefydd amlwg o flaen cwsmeriaid na fyddent fel arall yn debygol o ddod ar eu traws: "Fe lwyddodd y Siop yn ddiamau i wneud ei chyfran tuag at gadw'r Diwylliant Cymraeg yn fyw yn yr ardal" (Davies, 1952, p. 200). Mewn siopau eraill roedd y cyhoeddiadau Cymraeg fel pe baent wedi eu cuddio o'r golwg (P.H. Jones, 1997, p. 134). Dadleuai R.J. Derfel mai un o brif ddiffygion y wasg Gymraeg oedd amharodrwydd i hysbysu pobl am y llyfrau a oedd ar gael, a'u gwneud yn fwy amlwg mewn siopau a marchnadoedd; "Mae'r fasnach yn cael ei chario ymlaen fel pe byddent yn eiddo anghyfreithlon... os bydd yno llyfrau Cymraeg o gwbl, byddant yn rhywle o'r tu cefn, rhag ofn i neb eu gweld" (Derfel, 1945, p. 81). Dywed Dan Isaac Davies yn yr un modd nad oedd llyfrau Cymraeg ar werth "yn amlwg i'r olwg" yn y deheudir, a bod hynny wedi arwain at y syniad nad oedd llyfrau rhad o'r fath i'w cael, tra bod y llyfrau Saesneg yn amlwg "yn siopau y llyfrwerthwyr ac yng ngorsafodd y ffyrdd haiarn..."<sup>316</sup> (Davies, 1886, p. 7). Dywed O.M. Edwards fod pob llyfr Saesneg yn cael ei hysbysebu'n helaeth ym mhob ffenest, rhestr, ac adolygiad: "Ond am lyfr Cymraeg, oddigerth o fewn cylch adnabyddiaeth y cyhoeddwr ac o fewn enwad yr awdur, taw pawb a son am dano" (Edwards, 1908, p. 247). Ni

---

<sup>316</sup> Mae'n debyg bod Dan Isaac Davies wedi ymosod yn fwy hallt ar y cyhoeddwyr hyn yn wreiddiol, ond gwrthododd Thomas Gee gyhoeddi'r llythyr nes iddo ei addasu (Hughes, 1984, p. 56). Mae'r llythyr terfynol yn symud y bai at athrawon yr ysgolion Sabothol.

wyddai am unrhyw dref fawr ond Abertawe a Chaerfyrddin lle gellid gweld llyfr Cymraeg mewn ffenestr siop, a'r canlyniad oedd bod yr ifanc yn prynu llyfrau Saesneg yn eu lle (Edwards, 1913, p. 141). Cwynai 'Glaslyn' (Richard Owen Jones) yntau mai ychydig iawn o lyfrau a chyfnodolion Cymraeg a welai yn "un o ystol-lyfrau Smith". Bychan iawn, yn ôl yr arolygwr yno, oedd eu gwerthiant, ond nid oedd hynny'n syndod, meddai Jones, o ystyried y modd y "Gwlawir y newiddiaduron Seisnig yn gawodydd ar ein gwlad bob dydd" tra mai "prin y caiff llyfrau Cymraeg le o gwbl yn fenestri y llyfrwerthwyr" ('Glaslyn', 1896, p. 57).

Daw'n amlwg felly nad oedd y wasg Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn yn effeithiol wrth hybu'r teimlad hwnnw o berthyn i genedl ehangach. Nid oedd yn cwrdd â meini prawf damcaniaeth Anderson, sef bod y wasg yn *ddyddiol*, ei fod yn *genedlaethol* ei gyrhaeddiad, a hefyd yn *weladwy*. Dywed Anderson mai gweld "exact replicas" o'i bapur ei hun yn cael ei ddarllen gan eraill yn ddyddiol a fyddai'n cysuro meddwl y darlennydd bod y gymuned dychmygedig wedi ei gwreiddio mewn bywyd bob dydd (Anderson, 1991, pp. 33-35). Pe bai'n teithio ychydig y tu hwnt i'w ddalgylch, mae'n annhebygol y câi'r un o drigolion Cymru brofiad o weld unrhyw bapur cenedlaethol Cymraeg yn cael ei ddarllen mewn man cyhoeddus. Golygai'r arfer o danysgrifio y byddai pobl yn darllen yn eu cartrefi eu hunain, nid ar y trê neu mewn man cyhoeddus arall.

### *Cymhelliad masnachol a chenedlaetholdeb*

Hyd yn hyn fe nodwyd bod y wasg Gymraeg dan sawl anfantais fasnachol wrth gystadlu â'r wasg Saesneg. Ond byddaf yn dadlau yn awr mai un o sgil-ffeithiau yr anfantais fasnachol honno, cyn dyfodiad y papurau Saesneg dyddiol yn yr 1880au, oedd hybu cenedlaetholdeb

Cymreig. Fel y nodwyd eisoes, er gwaethaf y twf sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg,<sup>317</sup> golygai tlodi'r gynulleidfa (a diffyg hysbysebion) bod angen i bapurau newydd daflu'r rhwyd yn eang er mwyn cadw dau ben llinyn ynghyd. Yn absenoldeb dosbarth canol ffyniannus a siaradai'r Gymraeg, y dosbarth gweithiol a brynai gynnyrch y wasg, ac roedd prisiau isel y cynnyrch yn adlewyrchu hynny.<sup>318</sup> Roedd amgylchiadau byw y tlodion hyn, yn enwedig yng nghefn gwlad, yn rhwystr iddynt ddarllen. Tai bychan, tywyll a budr oedd ganddynt. Mae Brutus yn son am y "huddygl a llwch" sy'n dwyno'r tudalennau "ym mhob teulu lle y derbynir Seren Gomer" (Brutus, 1824, p. 82). Hybwyd llythrennedd yn ystod y ganrif gan ddyfodiad lampau nwy a ganiatâi ddigon o olau yn y tŷ i ddarllen (A.G. Jones, 1988, p. 99). Ond fel y dywed y *Traethodydd*, roedd disgwyl i'r gweithwyr cyffredin ddarllen llawer yn "beth afresymol".<sup>319</sup> Ceir portread enghreifftiol yn y cylchgrawn o 'John Jones y Saer,' y mae ei ymdrechion i ddarllen yn cael ei lethu gan flinder corfforol ac amodau byw llwm:

---

<sup>317</sup> Nodwyd eisoes y gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y siaradwyr Cymraeg wrth i drigolion y wlad 'goloneiddio eu gwlad eu hunain' drwy symud i'r ardaloedd diwydiannol. Ar y naill law, roedd twf poblogaeth o'r fath yn darparu cynulleidfa fwy ar gyfer y wasg Gymraeg, ac roedd crynhoi poblogaeth fawr mewn ardaloedd llai yn golygu ei bod yn haws casglu a dosbarthu newyddion yn eu mysg nag mewn ardaloedd gwledig, gwasgaredig. Roedd "Cymreictod y cymoedd yn ddwys a dwfn yn hytrach nag wedi ei ledaenu'n denau dros ardal eang" ys dywed Brinley Thomas (1999, p. 82). Nid yw'n syndod o ganlyniad mai canolbwynt y wasg Gymraeg oedd trefi a welodd dwf mawr yn ystod y cyfnod hwn, megis Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Merthyr Tudful, Caerdydd, a Wrecsam (Walters, 1999, p. 349). Nid dyna'r unig ddatblygiad yn sgil y chwyldro diwydiannol a oedd o fantais i'r wasg Gymraeg. Arweiniodd y chwyldro at dwf mewn cyflogau hefyd, yng nghefn gwlad ac mewn ardaloedd diwydiannol, gan olygu bod modd i'r cyhoedd allu prynu llyfrau a chyfnodolion mwy sylweddol. Dywed Prys Morgan a David Thomas mai cyfuniad o dwf poblogaeth, twf llythrennedd, a chynnydd mewn cyfoeth oedd yn gyfrifol am y ffaith mai dyna oedd cyfnod mwyaf cynhyrchiol y wasg yng Nghymru (Morgan & Thomas, 1984, p. 187). Mae Thomas Rees, wrth ysgrifennu yn 1867, yn cefnogi'r dybiaeth honno, gan ddweud bod y cynnydd mewn poblogaeth wedi creu "an unprecedented demand for books..." (Rees, 1867, p. 42).

<sup>318</sup> Dyma themau ganolog sy'n pontio hynt y wasg Gymraeg yn ystod y 19eg ganrif o'i dechrau i'w diwedd. Yn rhifyn cyntaf *Seren Gomer* ar ei newydd wedd, noda Joseph Harris ei bod yn anodd cynnal gwasg Gymraeg oherwydd y tlodi enbyd ymysg eu darpar ddarllenwyr yn y wlad: "Rhaid addef fod yr amserau yn gelyd, y gwaith yn brin, y gyflog yn isel, a'r nwyddau a werthir yn methu, mewn llawer o amgylchiadau, i ddwyn i mewn digon o arian i ateb pob gofynion..." (1818, p. 4) Ceir atsain o hynny yn ysgrif arobryn Thomas Morris Jones ar 'Rhagoriaethau a Diffygion y Wasg Gymreig' yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1880. Noda mai digon tlawd yw poblogaeth y rhan fwyaf o'i gyd-Gymry, a bod hynny yn effeithio ar eu gallu i gael gafael ar gynnyrch y wasg. "Ar gyfrif hyny gellir dweud fod lluwaws mawr nas gallent, er dymuno, gael llyfrau drudfawr; a chredwn fod miloedd o ddarllenwyr Cymreig yn dibynu bron yn gyfangwbl ar eu llenyddiaeth gylchgronol" (Jones, 1892, p. 136).

<sup>319</sup> Nodir yn ogystal yn 1850 fod rhieni plant yn eu hannog i beidio a darllen. 'Clywsom ddywedyd lawer gwaith, fel y gwaetha'r modd, gan benau teuluoedd wrth eu plant, os byddent yn awyddus am wybodaeth, "I ba beth yr ymboeni di, fy machgen, gyda rhyw bethau fel yna? pa lesâd yw i ti ddrysu dy ymenydd gyda llyfrau, a dysgu ieithoedd? Ni byddant o un cymhorth i ti drin tir, nac i fasnachu, a thi elli fyned i'r nefoedd yn burion hebddynt.' Dyma eiriau a glywsom lawer gwaith yng Nghymru" (*Y Traethodydd*, 1850c, p. 170). Awgrymwyd yn 1852 yn

... y mae yn codi bob boreu tua phump o'r gloch... Y mae yn parhâu gyda'i waith trwy y dydd, hyd chwech yn yr hwyr, ac yn fynych yn gweithio'n hŵy na hynny. Wedi iddo ddychwelyd adref, y mae yn llawn ludedd – ei gorff yn flinedig, a'i ysbryd yn llwfr... mae ei lyfrgell yn fechan, a'i gyfleusterau yn ychydig. Nid oes ganddo ond un ystafell ond odid, i'r wraig a'r plant a'r lletywyr ac yntau. Mae yr ymddyddanion, y sŵn, a'r gorychwilion teuluaid, yn aflonyddu ar ei fyfyrddod... buan y daw yr amser i fyned i'r gorweddle i ddadludedu, ac i godi drannoeth i fynd trwy yr un cwrs o orchwylion â'r diwrnod blaenorol. (1859, p. 411)

Nid oedd pethau fawr gwell ar drigolion dosbarth gweithiol y trefi.<sup>320</sup> Dywed gohebydd y *Morning Chronicle* ar ymweliad â Merthyr Tydfil: "... there are no places well-lit, decently furnished, warm and comfortable, to which the workman might resort after his day's labour, to read and converse, and so entertain himself" (*Monmouthshire Merlin*, 1850c, p. 4). Mae Ieuan Gwynedd Jones yn nodi bod pethau pwysicach ar feddwl pobl a oedd yn byw yng nghefn gwlad mewn tai o fwd a gwellt, ac yn y trefi mewn tai bychan heb waith plymio. Roeddynt yn dioddef yn fynych o heintiau megis teiffoid, a'r gwenwyn oedd yn aer y ffatrioedd a'r pyllau glo yr oeddynt yn ei anadlu drwy'r dydd (I.G. Jones, 1992, pp. 42-4). Roedd ffactorau demograffig yn ogystal ag economaidd hefyd yn cyfyngu ar nifer darllenwyr llyfrau Cymraeg. Dadleuai

---

ogystal nad oedd gan drigolion y wlad "fodd i brynu llyfrau lawer; a gwastraff ar amser, heblaw blinder i'r cnawd, yw darllen llawer" (*Y Traethodydd*, 1852, p. 234).

<sup>320</sup> Mewn rhai trefi, yr oedd llyfrgelloedd cyhoeddus yn gyfrwng i annog pobl i ymgymryd â darllen llyfr neu bapur newydd. Dywed J. H. Evans yn yr *Eurgrawn Wesleyaidd* fod angen rhagor ohonynt i gwrdd â'r galw cynyddol: "Yma cânt ddarllen, mewn ystafell iach, oleu, unrhyw lyfr y dymunent gael golwg arno, nad oes ganddynt fodd i'w geisio.... Y mae yn y dref hon lyfrfa o'r fath, yr hon sydd yn gweithio yn rhagorol... Pan fydd y llyfrau yn cael eu rhoddi allan i fenthycwyr, mae y lle mor llawn a *booking office* unrhyw *railway station* bedwar munud cyn i'r *third class train* gychwyn" (Evans, 1865, p. 20). Serch hynny mae J.E. Southall yn awgrymu mai yn anfynych y ceir deunydd darllen Cymraeg yn y llyfrgelloedd hyn: "... none of the officials or public institutions appearing to have even the ghost of a idea of making collections of their own local literature... Does Newport Library possess anything of Islwyn's; Cardiff any of the Rhondda booklets; Swansea any of the Swansea Vale and East Carmarthen poets?" (Southall, 1892, pp. 308-9).

R.J. Derfel fod “digon o Gymry yn siarad Cymraeg i wneud y fasnach ddengwaith yn fwy nag yw hi” (Derfel, 1945, p. 81). Ond oherwydd y twf sylweddol mewn poblogaeth yn ystod y 19eg ganrif, roedd nifer o’r Cymry Cymraeg yn ifanc iawn, ac yn llai tebygol o fod eisiau neu o allu prynu llyfr a’i ddarllen.<sup>321</sup> Yn fwy anffodus byth i’r wasg Gymraeg, gwelwyd newid yng nghymeriad ieithyddol yr ardaloedd gwledig a threfol lle’r oedd hi ar ei chryfaf wrth i’r chwyldro diwydiannol fynd rhagddo, a hynny oherwydd symud poblogaeth. Amcangyfrifir bod 320,000 o bobl wedi ymfudo o ardaloedd gwledig i barthau diwydiannol Cymru rhwng 1911 ac 1850<sup>322</sup> (I.W. Jones, 1998, p. 78). Golygai’r allfudo bod gwagle y gallai’r Saesneg ei lenwi.<sup>323</sup> Erbyn 1911, nid oedd hyd yn oed ardaloedd diwydiannol y gogledd-orllewin, lle’r oedd y wasg Gymraeg er ei chryfaf, yn ddiogel rhag diboblogi. Erbyn diwedd y ganrif roedd y diwydiant llechi yn dirywio a gwelodd trefi megis Bethesda a Blaenau Ffestiniog ostyngiad yn eu poblogaeth (Pryce, 1999, p. 70). Hyd yn oed lle gwelwyd twf mewn poblogaeth, e.e. Caernarfon, ‘tre’r inc’ chwedlonol, roedd yn gymharol fychan (6,000 i 10,000 rhwng 1821 a 1881) o’i gymharu â threfi yn y de ddwyrain (e.e. Caerdydd, a dyfodd o bentref 1,800 yn 1801 i 164,000 yn 1901) (A.G. Jones, 1993, p. 91). Nid yn unig yr oedd y rhain yn gymunedau Cymraeg eu hiaith, ond, fel y nodwyd uchod, roeddynt hefyd yn ganolfannau pwysig i’r wasg Gymraeg.<sup>324</sup> Mae hyn yn awgrymu y byddai’r diboblogi a welwyd yn yr ardaloedd yn y

---

<sup>321</sup> Dywed ‘Glanystwyth’ yn 1889: “Nid yw rhif y Cymru galluog i siarad Cymraeg yn fwy na miliwn. Mae’r rhan fawr o’r miliwn yma yn blant rhy ieuainc i ddarllen o gwbl... Gwna hyn, o anghenrheidrwydd, gylch darllenwyr Cymraeg yn gyfyng iawn” (Glanystwyth, 1889, p. 159).

<sup>322</sup> Dywed Lewis Probert yn y *Geninen* yn 1883: “Mae parthau yng Nghymru... y rhai a ystyryrir yn cael eu hamaethu’n dda, a’u poblogaeth yn llawer teneuach nag y buont. Mae y wlad yn symud i’r dref” (Probert, 1883, p. 253). Awgryma Geraint H. Jenkins fod cyflymder a thrylwyrred y broses yn golygu bod miloedd o bobl wledig wedi eu llyncu gan yr ardaloedd diwydiannol “fel petai gan sugnlanhawr,” gan adael dim ond briwsion ar eu hôl (Jenkins, 1999, p. 16).

<sup>323</sup> Nodai W.T.R.Pryce mai’r ardaloedd gwledig a welodd y gostyngiad mwyaf sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 1911 oedd hefyd y rheini a oedd wedi bod yn gyrru mudwyr i’r ardaloedd diwydiannol ers dwy genhedlaeth (Pryce, 1999, pp. 69-70).

<sup>324</sup> Dywed John E. Southall, wrth ysgrifennu yn 1892, fod y wasg Gymraeg yn llawer mwy ffyniannus yn y gogledd a’r gorllewin nad ydoedd yn y de: “... an immense preponderance of the circulation of periodical and newspaper literature belongs to North Wales and Cardiganshire, comprising half the total Welsh-speaking population who read considerably more than the other half residing in the remainder of South Wales. At any rate, east of Llanelly the South does not seem able to develop such a vigorous literary life as finds its centre in the historic district of Caernarvon” (Southall, 1892, p. 298). Roedd cryfder y wasg Gymraeg yn y gogledd a’r gorllewin yn groes i’r patrwm ar draws gweddill Cymru. O’r 2,053 o weithwyr a gyflogwyd yng Nghymru yn y

gogledd-orllewin, wrth i weithwyr fudo i feysydd glo'r de-ddwyrain, wedi cael effaith andwyol ar y wasg Gymraeg.<sup>325</sup>

Mewn cyferbyniad, roedd y trefi yng Nghymru yn lleoedd hwylus iawn ar gyfer cynnal papurau newydd Saesneg, yn enwedig felly yn y de-ddwyrain, a hynny oherwydd bodolaeth dosbarth canol, yn llythrennog yn y Saesneg (I.G. Jones, 1998, p. 166), nad oedd, fel y nodir eisoes, ag unrhyw gymhelliad amlwg i lynu at y Gymraeg, os oeddynt yn ei siarad o gwbl. Nodir yn y *Cambrian* yn 1805 bod trefi Cymru eisoes wedi eu Seisnigo i raddau helaeth erbyn dechrau'r 19eg ganrif: "... the constant inhabitants of towns, are now by habit or education become so wholly English that no distinction is observable between them and their fellow-subjects eastward of the Severn..." (T. Jones, 1805, p. 4). Tra golygai tloidi a diffyg llythrennedd nad oedd cynnal papur newydd Cymraeg trefol yn ddichonadwy, roedd digon o siaradwyr Saesneg cyfforddus eu byd yn byw yno er mwyn sicrhau y gallai papur Saesneg dalu ei ffordd (Lloyd, 1980, p. 6). Achubodd y *Cambrian*, a lansiwyd yn Abertawe yn 1804, y blaen ar y papur newydd Cymraeg cyntaf, *Seren Gomer*, o ddeng mlynedd.<sup>326</sup> Cyhoeddwyd y *North Wales Gazette* yn 1808, a'r *Carmarthen Journal*, yn 1810, gan brofi rhagoriaeth gallu'r lleiafrif trefol cefnog i gynnal papur newydd na'r mwyafrif tlawd. Er gwaethaf ei fantais o ran nifer siaradwyr yr iaith, fe aeth y papur newydd Cymraeg gyntaf, *Seren Gomer*, i'r wal gwta flwyddyn a hanner ar ôl ei lansio (Walters, 1987, p. 20). Dywed David Davies tra oedd yn olygydd y *South Wales*

---

diwydiant print yn 1891, roedd 1,544 ohonynt yn gweithio yn Morgannwg a Sir Fynwy, o'i gymharu â 222 yn Sir Gaernarfon a 183 yn Sir Ddinbych (I.G. Jones, 1998, p. 163).

<sup>325</sup> Mae dyddiadur J.D. Lewis, un o drigolion Llandysul, ym mis Rhagfyr 1881 (roedd yn ei 20au cynnar) yn mynegi ei ddymuniad i adael am y ddinas fawr: "Were I able to extricate myself from the business connexions which bind me to this place I should very soon leave for some large town there to have an insight into real business life. If at any time (being alive) within the next ten years I can do this I will certainly leave." Penderfynodd aros ac, un ar ddeg mlynedd yn ddiweddarach, sefydlodd Wasg Gomer (Pierce, 2005). Mae ei ddyddiadur yn awgrymu'r atyniad oedd i bobl ifanc adael am ardaloedd trefol, a'r golled i'r wasg Gymraeg, o ran gweithwyr a darllenwyr, a allai ddod yn sgil hynny.

<sup>326</sup> Roedd Abertawe yn fan hwylus iawn i lansio'r papur cyntaf, oherwydd bodolaeth dosbarth canol Seisnig cefnog, ymwelwyr Seisnig a ddeuai yno ar eu gwyliau, a chysylltiadau hwylus ar fôr a thir i gasglu gwybodaeth (Williams, 1984, p. 258).

*Daily Post* mai papurau trefol wythnosol oedd amlygiad cyntaf y diwydiant papur newydd yng Nghymru, a'i fod wedi symud ymlaen “on the same sharply defined lines as the English journalism of the United Kingdom... [they] painfully sought to hit the taste of the ‘aristocracy and gentry’ whose patronage was proudly acknowledged.” Nodir ymhellach fod y wasg hon yn “English in language and to a great extent English in spirit. Its genesis was not Welsh, and events have conspired to limit the native influence in respect of it” (Davies, 1897, pp. 184, 186).

Ar y naill law, gellid dadlau na fyddai'r ardaloedd gwledig a'r trefi bychain y dibynnai'r wasg Gymraeg arnynt yn sail gref ar gyfer meithrin ymdeimlad o 'gymuned ddychmygedig'. Fel y nodwyd eisoes gan Gwyn A. Williams, er gwaethaf y diwydiannu helaeth yng Nghymru, roedd cyferbyniad anferth rhwng Cymru wledig a Chymru fodern, gyda'r gyntaf yn parhau i fyw mewn amgylchiadau tebycach i'r cyfnod modern cynnar (Williams, 1980, p. 22). Oherwydd y diffyg cysylltiadau trafndiaeth rhwng y naill gwm a'r llall, roedd nifer o drigolion Cymru wledig yn parhau i fyw mewn anwybodaeth o fodolaeth ei gilydd.<sup>327</sup> Byddai nifer o drigolion Cymru wledig yn dal gafaél ar eu hunaniaeth “is-genedlaethol” (Kumar, 2003, p. 58), a chylch eu bywydau yn gyfyngedig i'r cymoedd yr oeddynt yn byw ynddynt, heb ryw lawer o amgyffred o fod yn rhan o unrhyw gymuned ehangach na hynny.

Ond gellid troi'r ddadl hon ar ei phen, gan awgrymu bod anfantais economaidd papurau newydd Cymraeg yn *symbyliad* pwysig iddynt fabwysiadu cymeriad cenedlaethol. Dyna a

---

<sup>327</sup> Nodai David Davies nad oedd gan drigolion 1848 fawr o ddiddordeb mewn digwyddiadau 10 milltir i ffwrdd: “It is difficult to conceive of the conditions which made this possible or to appreciate the profound indifference with which the mass of people regarded events of supreme importance when they happened beyond the parish boundaries” (Davies, 1897, p. 186). Roedd hyn yn amlwg yn parhau mewn rhai ardaloedd anghysbell hyd ddiwedd y ganrif. Nodai Picton Davies yn ei lyfr *Atgofion Dyn Papur Newydd* mai ychydig a wyddai am y byd y tu hwnt i'r cwm y magwyd ynddo yn yr 1890au – nid oedd hyd yn oed yn ymwybodol fod ei athro ysgol yn chwaraewr rygbi rhyngwladol (Davies, 1962, pp. 20, 55).



awgrymir gan benderfyniad *Seren Gomer* i gyhoeddi yn genedlaethol yn hytrach nag o fewn Abertawe yn unig. Daeth y penderfyniad hwnnw er gwaetha'r ffaith mai'r hyn a'i symbylodd i gyhoeddi oedd dyfodiad papur newydd Saesneg i'r dref honno. Daw'n amlwg wrth ddarllen yr hysbyseb gyntaf a gyhoeddwyd am ddyfodiad *Seren Gomer*, a atgynhyrchwyd yn y *Geninen* yn 1889 fod dyfodiad papurau newydd Saesneg i'w dref wedi codi braw ar Gomer, a bod cyhoeddi ei bapur ei hun yn fodd o gydbwysu'r glorian: "Nid llai nâ thri o Bapurau Newyddion Saesneg sydd yn cael eu cyhoeddi yn awr o fewn terfynau'r fam-iaith Gymraeg, a phob un o'r rhai hyny yn cael annogaeth ddigon! Ai gormod fyddai i'r Cymry gynnal UN yn eu hiaith eu hunain?" (Myrddin Fardd, 1889, p. 60) Roedd yn rhaid i *Seren Gomer*, ar y llaw arall, daflu ei rwyd yn ehangach na therfynau'r dref, a hynny er mwyn dod o hyd i gynulleidfa ddigonol ar draws Cymru: "Odid nad oes cynifer ddyinion ag sydd o blwyfau yn y Dywysogaeth yn byw uwch ben eu digon, a byddai hyny o rifedi yn ddigon i gynnal ein cyhoeddiad, ac os na ellir cael cynifer a hyny ymysc y chwe' can' mil o drigolion y Dywysogaeth, darfydded sôn fod Cymry yn hoffi iaith eu henafiaid, ac yn ymhyfrydu mewn gwybodaeth..." (1818, p. 4) Dywed Ieuan Gwynedd Jones nad oedd y wasg Gymraeg, yn wahanol i'r wasg Saesneg, yn gallu dibynnu ar haelioni cyfalafwyr a thirfeddianwyr Saesneg: "... the language had to depend upon the individually minute contributions of large numbers of ordinary people" (Jones, 1992, p. 58). Nododd Joseph Harris yn 1814 mai tyddynwyr tlawd oedd mwyafrif ei ddarllenwyr (Lloyd, 1980, p. 9). Roedd yr angen masnachol hwn i apelio at y lliaws ymysg y werin, yn hytrach na'r lleiafrif yn y dosbarth canol a'r uwch-ddosbarth, yn gymhelliad ychwanegol i'r wasg Gymraeg hybu cenedlaetholdeb mewn modd nad oedd ei angen ar y wasg Saesneg drefol yng Nghymru. Defnyddir iaith genedlaetholgar yn fynych yn *Seren Gomer* er mwyn annog y Cymry i'w brynu, ac awgrymwyd bod y rheini na fyddai'n eu cefnogi ar fai fel Cymry: "... rhuthrodd llawer Cymro gwronaidd i'r adwy ag oedd difaterwch ag esgeulusdra wedi wneuthur yn ein iaith; ysgrifenasant mewn modd teilwng o blant Gomer... deffroiasant lawer o'n brodyr

cysglyd...” (1815, p. 3) O gau’r papur “fe fydd y genedl hon dan warth a chywilydd ymhlith eu holl gymmydogion yn dragywydd” (‘Brychan Bach’, 1815, p. 2). Arweinai cymhelliad masnachol yr argraffwyr i bwysleisio’r elfen genedlaetholgar, mewn modd a fyddai’n annog twf cenedlaetholdeb torfol ymysg y darllenwyr, a hynny oherwydd bod ymwybyddiaeth eu cynulleidfa eu bod yn perthyn i ‘genedl ddychmygedig’ o gyd-Gymry yn anhepgor er mwyn cynnal papur newydd hyfyw yn yr iaith. Roedd yna gymhelliad masnachol dros ddefnyddio disgwrs cenedlaetholdeb. Ceir awgrym arall o hynny gan E. Morgan Humphreys, sydd yn cyferbynnu’r agwedd genedlaetholgar o fewn *Y Genedl* â phapurau Saesneg a oedd yn gwasanaethu ardal ddaearyddol gyfyng:

Nid oedd cylchrediad *Y Genedl* yn llawer uwch nag eiddo’r papur Saesneg; cyhoeddiid hwnnw mewn tref â chanddi boblogaeth fawr, ac yr oedd trefi poblog eraill o fewn cyrraedd, fel nad oedd rhaid myned ymhell i chwilio am ddarllenwyr ac nid oedd costau dosbarthu yn uchel. Ond yr oedd y gwahaniaeth rhwng agwedd ac awyrgylch y papur Saesneg a’r eiddo’r *Genedl* yn aruthrol. Lleol, fel y dywedais, oedd y naill, ac ni cheisiai fod yn ddim arall; yr oedd digon – mwy na digon, hwyrach – o newyddion o ddiddordebau lleol yn *Y Genedl* hefyd, ond yr oedd awyrgylch y swyddfa honno yn genedlaethol yng ngwir ystyr y gair. Yr oedd diddordeb y papur yn eang a theimlem ni a oedd ar y staff fod gennym ein lle ym mywyd y genedl, fod gennym neges yr oedd yn werth ei thraethu a gwaith yr oedd yn werth ei wneud o safbwynt cenedlaethol... (Humphreys, 1945)

Mae cysylltiad uniongyrchol yma rhwng dalgylch cylchrediad y ddau bapur a’u hagweddau, y naill yn blwyfol a’r llall yn genedlaetholgar. Dywed D. Tecwyn Lloyd, wrth lambastio papurau Saesneg: “Pe gofynnid am un gair i ddiffinio eu holl agwedd olygyddol a gohebol, ‘plwyfol’

fyddai hwnnw. Nid oes dim un ohonynt ar a welais i wedi etifeddu dim o batrwm traddodiadol y papur lleol Cymraeg a chynnwys pethau sy'n perthyn i'r genedl gyfan ac i'r byd tu hwnt i hyn" (Lloyd, 1980, p. 29). Nid oedd angen i'r papur Saesneg fod yn fwy na phlwyfol - ond roedd angen i'r *Genedl*, oherwydd bod angen awgrymu i'r darllenydd hunaniaeth ar y cyd a fyddai'n cyfiawnhau'r cyrhaeddiad daearyddol ehangach oedd yn angenrheidiol er mwyn cyrraedd yr *un* cylchrediad a'r papurau Saesneg.

Yn ogystal â 'chymuned ddychmygedig', yr hyn a geir wrth lunio cyfnodolyn yw 'cynulleidfa ddychmygedig'. Mae hon yn elfen y mae Aled Gruffydd Jones hefyd yn ei chrybwyll yn ei waith ef: "... editors determined the contents and shaped the formats of a new medium, they tested its early potentialities and its limitations, they imagined a readership and, with varying degrees of success, communicated with it" (Jones, 1993, p. 11). Fel y mae E. Morgan Humphreys yn awgrymu uchod, mae rheidrwydd ar bob tîm golygyddol i benderfynu beth yw rhychwant eu cynulleidfa. Rhaid iddynt 'ddychmygu' pwy yw eu cynulleidfa ac yna ceisio cyfathrebu â hi, yn y gobaith ei bod yn bodoli, neu fod modd ei chreu, i'r graddau a allai wneud gwerthiant y papur neu'r cylchgrawn yn ddichonadwy. Rhan annatod o ddychmygu cynulleidfa yw gosod ffiniau arni, a phwysleisio'r hyn sydd gan aelodau'r gynulleidfa honno yn gyffredin. O fethu â phwysleisio bod gan eu darllenwyr dref neu ranbarth weddol gyfyng yn gyffredin (am na fyddai papur Cymraeg a gyfyngai eu cynulleidfa i'r cylchoedd hynny yn hyfyw yn ariannol), gorfodwyd golygyddion Cymraeg i ddewis diffinio eu cynulleidfa wasgaredig yn ôl eu cenedl. O ganlyniad ceir teitlau megis 'Baner ac Amseroedd Cymru,' a'r 'Genedl Gymreig'. Er bod cylchrediad y papurau hyn wedi ei gyfyngu yn bennaf i'r gogledd, roedd yn gyfiawnhad iddynt grafu am ychydig yn rhagor o ddarllenwyr a thanysgrifwyr yn y canolbarth a'r deheudir.

O gofio mai cymhelliad ysbrydol a oedd yn gyrru mwyafrif papurau newydd Cymraeg y cyfnod, ni fyddai'n deg awgrymu mai cymhelliad masnachol oedd wrth wraidd twf cenedlaetholdeb yn y 19eg ganrif. Ond o'i ystyried yng nghyd-destun damcaniaethau am y modd y mae'r wasg dorfol yn llunio'r gymuned ddychmygedig, gellid awgrymu ei fod wedi cyfrannu ato. Dywed Anderson y gall papurau newydd hybu ymwybyddiaeth ymysg y bobl o berthyn i gymuned ieithyddol: "In the process, they gradually became aware of the hundreds of thousands, even millions, of people in the same particular language-field, and at the same time that only those hundreds of thousands, or millions, so belonged. These fellow-readers, to whom they were connected through print, formed, in their secular, particular, visible invisibility, the embryo of the nationally imagined community" (Anderson, 1991, p. 44). Yn erthygl tudalen flaen rhifyn cyntaf *Seren Cymru*, 'Anerchiad at y Cymry', sy'n siarad yn uniongyrchol â chynulleidfa Cymraeg ei hiaith ac yn galw arnynt i gefnogi'r papur ag amddiffyn eu hiaith, gwelir y gymuned ddychmygedig ieithyddol honno yn dechrau ymffurfio<sup>328</sup> (1814a, p. 1). Awgrymir felly fod amgylchiadau masnachol papurau Cymraeg o'u cymharu â phapurau Saesneg yn cynnig ateb rhannol i'r cwestiwn pam y datblygodd cenedlaetholdeb Cymreig gymeriad ieithyddol wrth i ail hanner y ganrif fynd rhagddo.

Awgrymir bod y wasg yn cynnig esboniad a allai gefnogi damcaniaeth Nairn (2003, pp. 191-3) y gall ardaloedd sydd wedi diwydiannu yn helaeth wrthwynebu cael eu cymhathu o fewn ardaloedd sydd yn llai datblygedig. Oherwydd bod diwydiannu yn ffafrio twf gwasg leol ffyniannus, crëir hunaniaeth 'leol' o fewn y dalgylch hwnnw ar draul hunaniaeth 'genedlaethol'

---

<sup>328</sup> Awgrymai O.M. Edwards mai ystryw oedd tanbeidrwydd gwladgarol rhai cyhoeddwy, a bod eu hamharodrwydd i ganiatáu ail-gyhoeddi gweithiau gan gyhoeddwy eraill yn brawf o hynny: "Gwladgarwch hunan-aberthol wna iddynt gyhoeddi, ebe hwy; ond gwae i wladgarwr arall a drespasa ar eu hawliau." Dywed am yr awdur y "tannir ei ysbryd gan lythyr oddiwrth olygydd, bron a cholli ei wynt dan bwysau llethol ei wladgarwch, yn erfyn arno ysgrifennu erthygl er mwyn yr hen genedl anwyl." Ond o geisio cyhoeddi'r llyfr drachefn daw i sylweddoli "nid hawdd yw boddhau'r rhai wasanaethwyd gan y gŵr gredai ei fod yn gwasanaethu ei wlad" (Edwards, 1899, p. 108). O dderbyn mai o gymhelliad unigol y deillia cenedlaetholdeb, gellid awgrymu nad oedd y duedd hon yn ddatblygiad cwbl negyddol fel yr awgryma O.M. Edwards; awgryma fod yna gymhelliad i hybu cenedlaetholdeb yn bodoli ymysg cyhoeddwy y cyfnod, a hynny'n deillio o amcanion masnachol eu gwaith.

a fyddai'n cwmpasu cymuned ethnig gyfan. Mewn ardaloedd gwledig, ar y llaw arall, rhaid taflu'r rhwyd yn ehangach er mwyn dod o hyd i'r darllenwyr er mwyn cynnal y cyhoeddiad; mae hyn yn ffafrio cymuned 'genedlaethol' sydd hefyd yn ardaro ar diriogaeth yr ardaloedd diwydiannol hynny sydd eisoes yn meddu ar eu hunaniaeth blwyfol eu hunain. Mae'n arwyddocaol yn fy nhyb i fod Aled Gruffydd Jones, wrth grybwyll y syniad o 'gymuned ddychmygedig' yn ei gyfrol *Press, Politics and Society*, yn gwneud hynny yng nghyd-destun gallu'r wasg leol ac enwadol i integreiddio pobl o fewn cymunedau ac enwadau daearyddol ac ysbrydol cyfyng, yn hytrach na'u gallu i greu ymdeimlad o hunaniaeth *genedlaethol* Gymreig (Jones, 1993, p. 199). Dywed Gwyn Williams fod y gwleidydd D. A. Thomas, un o hoelion wyth y mudiad dros ymreolaeth *Cymru Fydd*, yn "south Walian nationalist" a oedd yn cymryd balchder mawr yn y maes glo ond yn gwrthwynebu Lloyd George a dylanwad unrhyw ogleddwyr arall. Ond yn fwy niweidiol byth i genedlaetholdeb Cymreig na'r agwedd 'blwyfol' hon, wrth gwrs, ac yn gynyddol tua diwedd y cyfnod dan sylw, oedd y ffaith y byddai'r Cymro yn gweld mai'r un *News of the World* oedd yn gwerthu yn ei siop leol ac oedd ar werth ym mhob rhan o Brydain Fawr (Williams, 1985, pp. 202, 227). O'i ystyried yng nghyd-destun damcaniaeth Anderson, fe fyddai papurau newydd Saesneg wedi hybu ymdeimlad o berthyn i 'gymuned ddychmygedig' Brydeinig ehangach. Wedi'r cwbl, roedd y wasg Saesneg dorfol hefyd yn meddu ar gymhelliad dros ei chyflwyno ei hun yn wasg genedlaethol ar lefel Brydeinig. Un ideolegol ryddfrydol, a fyddai'n argyhoeddi trigolion y genedl y dylent uno ar sail nodweddion ethnig yn hytrach na dosbarth, a phwysleisio bodolaeth ac awdurdod sefydliadau'r genedl-wladwriaeth (Curran, 1978, p. 74), a hefyd cymhelliad masnachol, sef yr arbedion maint a ddaw yn sgil cyfathrebu â miliynau yn hytrach nag ychydig ddegau o filoedd (Williams, 1998, p. 47; Curran, 1978, p. 67).

*Casgliad*

Dadleuir yn y bennod hon fod amgylchiadau masnachol y cyfnod wedi cael effeithiau pellgyrhaeddol ar hynt y wasg Cymraeg a Saesneg, a ddylanwadodd yn eu tro ar dwf cenedlaetholdeb Cymreig yn y 19eg ganrif. Yr oedd y Cymry eu hunain yn ymwybodol o'r effaith a gâi argaeledd llyfrau Saesneg rhad, ac ar bynciau y tu hwnt i grefydd, ar hunaniaeth eu cyd-Gymry. Hwyrach mai un o'r ysgrifau mwyaf allweddol i'n dealltwriaeth o effaith technolegau cyfathrebu ar genedlaetholdeb Cymreig yn y cyfnod dan sylw yw erthygl gan John Owen Jones, 'Ap Ffarmwr', yn y *Geninen* ym mis Hydref 1891. Mae'r erthygl hon, dan y teitl 'Anhawsderau Gwladgarwch Cymreig', yn cynnig mewnwelediad hynod o graff i rai o'r materion a drafodwyd eisoes. Ynndo mae J.O. Jones yn dweud bod diffyg argaeledd llyfrau Cymraeg da yn niweidiol nid yn unig i'r Gymraeg ond i genedlaetholdeb Cymreig, tra bod argaeledd parod llyfrau Saesneg yn hybu gwladgarwch Seisnig yn eu mysg. Golygai argaeledd llyfrau Saesneg fod y Cymry yn dod yn fwyfwy ymwybodol o hanes a diwylliant y Saeson, tra oeddent yn "ymdrybaeddu yn ddwfn yn llaid anwybodaeth" o hanes eu cenedl eu hunain:

Nid oes ganddo [y Cymro] y syniad lleiaf am hanes llenyddiaeth ei wlad. Nis gŵyr pa fodd na pha le y dechreuodd, na pha fath beth ydoedd yn ei gychwyniad, na beth fu ei ffawd yng nghwrs treigladau'r oesoedd. Nid oes ganddo lyfr i ddweyd yr hanes.

Ar amgylchiadau masnachol y cyfnod yr oedd y bai am hyn, meddai. Tra nad oedd modd cynnal gwasg Gymraeg ffyniannus a gynhyrchai lyfrau rhad a thestlus, ni ellid hybu cenedlaetholdeb ymysg y Cymry:

Pa fodd y mae Cymro ieuanc i gael gafael yng ngweithiau beirdd a llenorion ei wlad? ... y maent yn rhy ddrud iddo i'w prynu. Mewn gair, y maent allan o

gyrhaedd ei bwrs yn gystal a'i ddealltwriaeth. Gwirionedd difrifol am danom fel cenedl yw, nas gall neb fod yn ysgolor Cymraeg heb feddu ystor helaeth o gyfoeth... Fe ga bachgen o Sais holl farddoniaeth Milton am chwe' cheiniog, a'r eiddo Shakespeare am swllt. Gall brynu holl weithiau prif feirdd ei wlad o'r bron am yr arian raid i'r Cymro roi am Ddafydd ap Gwilym.

Canlyniad hynny oedd y “[g]orfodir y Cymro darllengar i basio heibio llenyddiaeth ei wlad ei hun, a myned ymlaen at lenyddiaeth Lloegr. Mae llyfrau Seisnig yn barod at ei law ac yn rhad.” Ochr yn ochr â'r ysgolion dyddiol, a oedd yn “torfynyglu a llesteirio y teimlad o wladgarwch Cymreig,” sgil-effaith y cwbl oedd y dysgid y bachgen ysgol “i edmygu Lloegr, nid Cymru... Teimla'r plant nad yw iaith eu gwlad yn werth ei dysgu nac i ymdrafferthu â hi mewn modd yn y byd.” Tra mai “[r]hywbeth yn y cymylau yw llenyddiaeth Gymreig i'r Cymro” i'r Sais roedd ei lenyddiaeth “yn ffurfio rhan bwysig o'i fywyd beunyddiol, yn gynorthwy iddo feddwl yn fawr o'i wlad” (Jones, 1891, pp. 228-9). Tra oedd llenyddiaeth Saesneg felly yn rhad o wead anweledig y ‘cymuned ddychmygedig’ y sonia Anderson amdani, a oedd yn rhwymo dinasyddion Saesneg, ac yn gynyddol y Cymry, at ei gilydd, nid oedd y wasg Gymraeg yn ddigon hollbresennol i gyflawni swyddogaeth o'r fath. Rhywbeth ar y cyrion yr oedd rhaid ymgeisio amdano oedd llenyddiaeth Gymraeg. Mae'r paragraff hwn yn ddiddorol iawn yng nghyd-destun yr hyn y mae Billig ac Anderson yn ei ddadlau am genedlaetholdeb. Yn eu tyb hwy, mae cenedlaetholdeb yn rhywbeth anymwybodol, yn realiti anweledig o'n cwmpas sy'n seiliedig ar symbolau sy'n ein hatgoffa yn ddyddiol o'n lle yn y ‘gymuned ddychmygedig’. Dywed J.O. Jones yma nad yw'r Cymro yn dod i gyffyrddiad â'r symbolau hyn heb orfod gwneud ymdrech ymwybodol i wneud hynny:

Gallesid tybio fod gwladgarwch mor naturiol i ni ag anadlu. Ond nid felly y mae. Costia i'r rhan fwyaf ohonom dost ymdrech meddwl i fod yn wladgarwyr. Mae amodau ein bodolaeth yn gyfryw fel nas gallwn garu ein gwlad heb ymegnio yn benderfynol; ac y mae llawer o bethau yn ein bywyd ydynt yn milwrio yn uniongyrchol yn erbyn dadblygiad y teimlad gwladgarol. (Jones, 1891, p. 226)

Noda Anderson mai sgil-effaith anochel dyfodiad 'cyfalafiaeth print' (print-capitalism) oedd bod tafodieithoedd yn cael eu cymhathu o fewn ieithoedd print a oedd yn cystadlu gyda'i gilydd am oruchafiaeth. Diflannodd rhai tafodieithoedd yn llwyr, a dim ond rhannol lwyddiannus oedd eraill am eu bod yn wynebu cystadleuaeth gan ddarpar ieithoedd print eraill (Anderson, 1991, p. 45). Mae damcaniaeth Anderson yn awgrymu na ddylid ystyried ieithoedd print yn unigol, felly, ond yng nghyd-destun grymoedd masnachol y cyfnod. Yr hyn y mae'n rhaid ei gofio yw bod yr elfen gyfalafol hon yn nodwedd annatod o dwf cenedlaetholdeb. Dengys hanes y wasg Gymraeg yn y 19eg ganrif nad oedd modd i'r Cymry ymesgusodi o'r broses hon. Wrth drafod hynt y wasg Gymraeg yn y 19eg ganrif, felly, rhaid cydnabod bod goruchafiaeth fasnachol y Saesneg yn gymaint o ddylanwad ag ydoedd ffyniant y wasg Gymraeg. Gall trafod 'oes aur' fod yn gamarweiniol yn hynny o beth am ei fod yn cuddio i ba raddau yr oedd y cyfnod hwn hefyd yn un o ehangiad anferthol i'r wasg Saesneg.

Anghywir serch hynny fyddai awgrymu bod cyhoeddi Cymraeg y cyfnod yn gwbl aneffeithiol wrth hybu ymdeimlad o genedlaetholdeb. Os oedd Cymru, fel yr awgryma John Davies ar froliant enwog tudalen gefn ei lyfr ar hanes y BBC, yn "artifact produced by broadcasting" (Davies, 1994) gellid honni bod y papurau cenedlaethol Cymraeg, er gwaethaf yr heriau masnachol a wynebent, o leiaf wedi deffro rhyw fath o ymwybyddiaeth o ffiniau'r 'gymuned ddychmygedig' honno. Ond ar yr un pryd sicrhaodd y llifeiriant o bapurau Saesneg, dyddiol, a



rhad a ddaeth i Gymru mai ymdeimlad o genedlaetholdeb Prydeinig a *orfu*. Cafodd y Cymry eu cipio gan y llif, fel yr awgrymwyd gan Richard Wyn Jones (2007, p. 49). Os mai'r wasg oedd un o fydwragedd cenedlaetholdeb modern, ni ellir trafod 'methiant' y rhelyw o Gymry i wrthsefyll eu cymhathu o fewn y genedl-wladwriaeth Brydeinig yn fwy nag y gellir trafod 'methiant' baban i aros yn y groth. Os yw J.R. Jones yn gywir mai "math o erthyl cenedligol yw Cymry" (Jones, 1961, p. 15) efallai mai'r paradocs yn natblygiad gwasg Gymraeg yn ail hanner y 19eg ganrif sy'n gyfrifol am hynny. Heb wasg gref Gymraeg a allai gystadlu â'r wasg Saesneg er mwyn cynhyrchu cenedlaetholdeb ieithyddol modern, nid oedd y penderfyniad i gofleidio hunaniaeth genedlaethol Brydeinig yn un o gefnu ar un wedd ar genedlaetholdeb modern a chofleidio un arall, ond o gyfnewid hunaniaeth ffiwdal, 'is-genedlaethol' am yr unig hunaniaeth fodern a gynigiwyd iddynt am bris a oedd o fewn eu cyrraedd.

## Pennod 7

### Y Wasg Gymraeg a Chenedlaetholdeb ‘Banal’

Wrth bwysleisio cyfraniad canolog y wasg at hybu mudiadau cenedlaethol, dywed Hroch fod angen ystyried cynnwys y wasg yn ogystal â'i chyfaint:

The lesson is that it is not enough to consider only the formal level of social communication reached in a given society—one must also look at the complex of contents mediated through it (even if these are in part unconscious). (Hroch, 1993, p. 12)

Fe fydd y bennod hon ystyried yr ail elfen a adnabuwyd gan Hroch, sef *cynnwys* y wasg. Trafodwyd eisoes bwysigrwydd disgwrs cenedlaetholdeb a gynhyrchir drwy'r wasg, o ganfyddiad Özkirimli (2000, p. 221) mai dyma'r cyfan sydd gan bob math o genedlaetholdeb yn gyffredin, i bwyslais Billig ar y 'geiriau bychain' – y “diexis of homeland” - sy'n atgoffa'r darlennydd yn gyson ei fod yn perthyn i 'genedl ddychmygedig' benodol (Billig, 1995, p. 94). Dadl y bennod hon yw nad cenedlaetholdeb Cymreig 'poeth' na 'banal', ond yn hytrach cenedlaetholdeb 'banal' Prydeinig, a gynhyrchid gan y wasg Gymraeg yn ystod yr 'oes aur', a hynny yn rhannol o leiaf oherwydd y diffyg sefydliadau gwleidyddol segmentedig a geid yng Nghymru. Trafodwyd pwysigrwydd y sefydliadau hyn eisoes yng nghyd-destun damcaniaeth Roeder (2007, pp. 9-13), ond nod y bennod fydd ieuo ei ddamcaniaeth ef ag eiddo Billig, y naill yn rhoi'r pwyslais ar swyddogaeth y wasg wrth gynhyrchu cenedlaetholdeb, a'r llall ar sefydliadau gwleidyddol, gan ddangos eu perthnasedd i genedlaetholdeb yng Nghymru yn y 19eg ganrif. Er mwyn cyflawni hynny byddaf yn cynnal dadansoddiad disgwrs ansoddol ar

bapur newydd Cymraeg mwyaf toreithiog a chenedlaethol ei gyrhaeddiad yr ‘oes aur’, sef *Baner Cymru/Baner ac Amserau Cymru* (cyfeirir ato o hyn allan fel ‘y *Faner*’). Ond cyn gwneud hynny byddaf yn trafod rhai o’r cyfyngiadau a oedd ar y wasg Gymraeg wrth gasglu deunydd newyddiadurol, a rhai o’r damcaniaethau all esbonio’r effaith a gafodd hyn ar allu’r cyfnodolion i atgynhyrchu cenedlaetholdeb Cymreig.

### *Model diffiniad cynradd*

Mae sawl astudiaeth gymdeithasegol eisoes wedi nodi i ba raddau y mae’r cyfryngau yn dibynnu ar sefydliadau am eu cynnwys. Mae’r astudiaethau hyn yn ymwneud â mynediad at y newyddion (‘news access’); nid pwy sydd â’r gallu i ddarllen y newyddion, ond yn hytrach pwy sydd â’r gallu i ddylanwadu ar ei gynnwys fel ei fod yn adlewyrchu’n ffafriol arnynt hwy. Ymysg y mwyaf blaenllaw o’r damcaniaethau hyn y mae model diffiniad cynradd (‘primary definition model’) Stuart Hall et al.<sup>329</sup> Yn ôl y ddamcaniaeth hon, fe fydd papurau newydd, oherwydd y cyfyngiadau o ran amser ac arian sydd arnynt, yn sicrhau fod ganddynt y mynediad lleiaf ffwdanus posib at newyddion. Y ffynonellau mwyaf hwylus yn hynny o beth yw sefydliadau, megis San Steffan a’r llysoedd barn. Dyma’r sefydliadau y mae ganddynt yr adnoddau a’r gallu i drefnu nifer defnyddiol o weithgareddau adroddadwy yn rheolaidd ar gyfer y newyddiadurwyr (Hall, et al., 1978 [1980], pp. 55-7). Mantais arall sydd gan sefydliadau mawr o’r fath yw eu gallu i drefnu digwyddiadau o flaen llaw, ‘siwdo-ddigwyddiadau’ megis cynhadleddau i’r wasg neu ddatganiadau, a fydd yn sicrhau bod gan y newyddiadurwr rywbeth i adrodd arno. Un o sgil-ffeithiau amlwg hyn yw “to increase the newsmen’s dependence on news sources willing and able to preschedule their activities” (Murdock, 1974, pp. 208-9). Mae Cottle yn nodi mai sgil-ffaith y ddibyniaeth hon yw bod newyddiadurwyr yn datblygu

---

<sup>329</sup> Unwaith y mae’r diffinwyr cynradd (‘primary definers’) hyn wedi cael penderfynu beth yw hyd a lled y newyddion, rhaid i unrhyw ddiffynwyr eilaidd ymateb o fewn y cylch gorchwyl a osodwyd ganddynt: “Effectively, then, the primary definition *sets the limit* for all subsequent discussion by *framing what the problem is*” (Hall, et al., 1978 [1980], pp. 58-9).

perthynas rhy agos gyda chynrychiolwyr y sefydliadau y maent yn adrodd arnynt, ac yn rhoi'r gorau i'w trin mewn modd beirniadol (Cottle, 2000, p. 427). Eironi'r sefyllfa hon, yn ôl Hallet al., yw bod pwyslais newyddiadurwyr ar bwysigrwydd ffynonellau 'dibynadwy' ac 'awdurdodol' yn arwain at or-ddibyniaeth ar nifer cyfyngedig o lefarwyr ar ran sefydliadau blaenllaw, megis Aelodau Seneddol neu ddarlithwyr prifysgol, sydd â budd amlwg mewn hyrwyddo eu sefydliadau eu hunain (Hall, et al., 1978 [1980], pp. 58-9). Fel y mae'r ddamcaniaeth diffiniad cynradd hwn yn awgrymu, felly, nid oes rhaid i'r cyfryngau gytuno i ledaenu ideoleg y genedl-wladwriaeth mewn modd cynllwyngar er mwyn cyflyru'r boblogaeth. Yn hytrach, mae dibyniaeth y wasg ar y sefydliadau hyn yn codi'n naturiol o'r cyfyngiadau masnachol sydd arnynt – mae arnynt eisiau newyddion yn gyflym ac yn rhad, ac mae gan sefydliadau blaenllaw y modd i'w ddarparu.

### *Cyfyngiadau ar gasglu newyddion*

Nodwyd eisoes yn y bennod ddiwethaf y llu o anfanteision masnachol a olygai na allai'r wasg Gymraeg gystadlu â'r wasg Saesneg o ran pris, safon y papur, a hygyrchedd. Sgil-effaith arall oedd bod cyfyngiadau difrifol ar eu gallu i gasglu newyddion a fyddai o ddiddordeb i'w darllenwyr. Yn fwyaf arwyddocaol o bosib, golygai natur wirfoddol y gwaith mai prin oedd y gohebwyrr proffesiynol a gyflogwyd er mwyn ymchwilio i newyddion gwreiddiol. Hobi ar y gorau oedd cyfrannu i'r wasg Gymraeg i nifer o sylwebwyr y cyfnod.<sup>330</sup> Dywed J.R. Kilsby Jones na wyddai “am gymaint a thri o Gymry a alluogwyd i gynnal eu hunain a'u teuluoedd ar eu hysgrifeniadau yn unig” (Jones, 1897, p. 212). Honnai ymhellach yn 1883 mai dim ond punt yr wythnos a dderbyniai Brutus am olygu'r *Haul*, ac mai dim ond dwy bunt yr wythnos a gâi 'Y Gohebydd', John Griffiths, gan Thomas Gee – “y tâl uchaf a dderbyniodd un ysgrifenydd

---

<sup>330</sup> A nifer, fel yr awgryma R. Tudur Jones, yn gwneud “y pulpyd yn forwyn fach i sicrhau bara a chaws” er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd (Jones, 1981, p. 166).

Cymraeg am bastyno ei ymenydd er budd ei gydwladwyr”.<sup>331</sup> Roedd y cyferbyniad â’r papurau Llundainig yn amlwg, meddai – roedd eu golygyddion hwythau wedi cael addysg prifysgol, ac yn derbyn cyflog o fil i ddwy fil y flwyddyn (Jones, 1883, pp. 21-2). Sgil-effaith y gwahaniaeth mewn cyflog oedd colli newyddiadurwyr gorau Cymru i’r wasg Saesneg a Seisnig. Cwynodd E. Morgan Humphreys: “Denwyd a denir llawer o’n bechgyn gorau i wasanaethau papurau Lloegr, a phwy a wêl fai arnynt pan gofir y gwahaniaeth yn y tâl ac, ar un ystyr, yn y cyfle? Y mae’n rhaid inni sylweddoli na all Cymru obeithio cadw ei phobl orau onid yw’n barod i’w gosod ar yr un tir economaidd â phe buasant yn gweithio yn Lloegr” (Humphreys, 1945, p. 44). Nodai golygydd y *South Wales Daily Post* yntau fod safon isel cynnyrch y wasg Gymraeg yn deillio o’r “increasing difficulty in securing and holding writers of real capacity” am na chynigid cyflog teg iddynt (Davies, 1897, p. 186). Canlyniad natur led-amhroffesiynol y wasg Gymraeg oedd anhawster wrth gasglu newyddion o safon. Cyfaddefodd cylchgrawn chwarterol y *Traethodydd* yn 1864 nad oeddynt wedi clywed am newyddion o werth mewn tri mis. “Nis gwyddom am ddim o ansawdd dyeithr, aruthr, na chyffrous, wedi digwydd mewn cysylltiad â’r Dywysogaeth, er pan fuom yn linellydda... dan y pen hwn o’r blaen”<sup>332</sup> (1864, p. 385). Brithir y papurau newydd gan gynghorion i gyfranwyr ynglŷn â’r math o ddeunydd a chwenychir gan y papurau newydd. Awgrymai erthygl olygyddol yn y *Dydd* fod digon yn ymroi i’r dasg o ysgrifennu ar gyfer y wasg, ond nad oeddynt yn ysgrifennu am faterion a oedd

---

<sup>331</sup> Nodai ‘Glaslyn’ mai cwbl wirfoddol oedd cyfraniad nifer o ysgrifenydd mwyaf toreithiog ‘oes aur’ y wasg Gymraeg: “Golygodd Caledfryn y ‘Sylwedydd,’ y ‘Seren Ogleddol,’ ‘Tywysog Cymru,’ ‘Cylchgrawn Rhyddid,’ oll heb ddim tâl; a golygodd y ‘Gwron’ am bedair blynedd, a bu yn ei golled saith bunt a deugain. Ni chafodd Hiraethog ond tâl truenus am olygu yr ‘Amserau,’ trwy yr hwn y deffrodd efe ei genedl o’i chwsg gwleidyddol; a llafur gwirfoddol oedd llafur Dr. Edwards gyda’r ‘Traethodydd;’ a mae’n amheus a gafodd Gweirydd braidd ddim am olygu’r ‘Byd Cymreig.’ Dywedodd y diweddar Dr. J. Thomas Liverpool, wrth draethu ar hyn mewn cynulliad lluosog, iddo yn ystod ei oes ysgrifennu cymaint i’r gwahanol gyfnodolion Cymreig a fuasai yn ffurfio naw neu ddeg o gyfrolau mor drwchus a’r Beibl oedd o’i flaen, ac ni dderbyniodd geiniog am ei lafur” (Glaslyn, 1907, p. 65). Dywed Thomas Morris Jones mai un o brif wendidau’r wasg Gymraeg oedd yr amharodrwydd neu’r anallu i dalu gohebwyr a golygyddion am eu gwaith: “... pryd, mewn gwirionedd, y buasai yn annhraethol well talu ychydig mwy, os byddai raid, er mwyn cael dynion cymhwys a thalentog” (Jones, 1892, p. 132).

<sup>332</sup> Nid problem a gyfyngid i ardaloedd gwledig Cymru oedd hon. Roedd hyd yn oed gohebydd dinas Lerpwl i’r *Faner* yn ei chael hi’n anodd dod o hyd i unrhyw newyddion o ddiddordeb a oedd wedi digwydd yn y ddinas honno: “Arosych chi, beth sydd wedi digwydd yn y dref hon yr wythnos ddiweddaraf hefyd? Wel, ‘dim neillduol’ am wn i – ‘No news is good news’ ebe’r ddiareb; ond nid felly y mae i’r neb sy’n gorfod llenwi ein cyhoeddiadau cyfnodol” (1861, p. 484).

o bwys: “Peidiwch, da chwi, a manylu gormod ar fân bethau lleol o fychan bwys. Chwiliwch am destunau o ddyddordeb a budd cyffredinol” (1868, p. 1). Awgrymai y *Gwyllyddydd* yn yr un modd nad oedd unrhyw fath o ‘synnwyr newyddion’ yn perthyn i’w ohebwr (1987, p. 18). Awgryma Aled Gruffydd Jones mai ‘gwerthu buwch i ennill tarw’ oedd dibynnu ar dyst- ohebwr o’r fath er mwyn casglu deunydd ar gyfer papur newydd neu gylchgrawn, gan fod eu “incompetence” a’u “wilful fraudulence” yn aml yn creu mwy o waith i’r golygydd (Jones, 1993, p. 20). Sgil-ffaith yr anhawsterau hyn oedd na allai cylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, oedd a’u bryd ar fod yn bapurau cenedlaethol, obeithio rhoi gwybodaeth gywir a chyfredol i’w darllenwyr am ddigwyddiadau yn y wlad drwyddi draw. Fel yr awgryma Neil Evans a Kate Sullivan, ni allent “ddarparu sylwebaeth wleidyddol helaeth” ar gyfer eu darllenwyr (Evans & Sullivan, 1999, p. 535).

### *Cynnwys y Wasg Gymraeg*

Canlyniad eu hanallu i gasglu newyddion ‘materion cyfoes’ Cymreig o safon oedd tueddiad i ganolbwyntio ar bynciau oedd heb ganolbwynt daearyddol – megis diwinyddiaeth a barddoniaeth – ar draul cofnodi’r datblygiadau diweddaraf mewn bywyd o ddydd i ddydd. Dywed Thomas Morris Jones fod tua thri chwarter cynnyrch y wasg Gymraeg yn “rhedeg i’r ddau gyfeiriad hyn – duwinyddiaeth a barddoniaeth” a hynny o bosib o ganlyniad i’r ffaith mai’r “ddwy ganghen hyn sydd mewn cydgordiad oreu a llwyraf â’r anianawd Gymreig” (Jones, 1892, p. 146). Ond yn achos y papurau newydd, fe allai y gorfodwyd y ddibyniaeth hon arnynt gan eu hanallu i gasglu newyddion ‘materion cyfoes’ amserol. O’i ystyried yng nghydestun damcaniaethau am genedlaetholdeb, fe fyddai dibyniaeth ar gynnwys o’r fath yn broblemus. Nid oedd y pynciau hyn yn rhai amserol, ac yn aml nid oedd ganddynt ganolbwynt daearyddol chwaith. Roedd crefydd yn benodol yn fater *atemporal*, yn sefyll y tu allan i lif amser, ac felly nid oedd yn hybu ymdeimlad o gymuned ddaearyddol yn symud drwy amser a

oedd yn ôl Anderson mor hanfodol i'r modd yr oedd papurau newydd yn hybu'r ymdeimlad o genedlaetholdeb (1991, p. 33). Mae materion crefyddol, yn benodol, wrth eu natur yn ystyriaethau bythol, ac nid ydynt wedi eu cyfyngu i diriogaeth benodol. Bodolant ym meddwl y credadun mewn tragwyddoldeb sy'n trosgynnu'r byd materol. Ym marn yr Ymneilltuwyr roedd pob capel yn gymdeithas a oedd wedi ei neilltuo o'r byd (Davies, 2007a, p. 390). Fel yr awgrymwyd gan Anderson, roedd y modd crefyddol o synio am amser yn nhermau tragwyddoldeb yn groes i'r canfyddiad a feithrinwyd gan y wasg, ac a ganiataodd i'r darllenydd ei ystyried ei hun yn rhan o gymdeithas o bobl a oedd yn symud yn gydamserol drwy hanes (Anderson, 1991, p. 28). Cyfosodwyd gofidiau materol y wasg Saesneg gyda gofidiau ysbrydol y wasg Gymraeg gan David Davis, golygydd y *South Wales Daily Post* ar y pryd. Tra bod'r wasg Saesneg yng Nghymru yn adlewyrchu "the strenuous life of the large town" a "throb and fever" materion y dydd, roedd y wasg Gymraeg yn hytrach yn meddu ar "[a] quiet passion for turning over other-worldly problems" (Davies, 1897, pp. 184, 185-6). Ond hyd yn oed wrth ymdrin â newyddion 'materion cyfoes', golygai natur wythnosol y papurau Cymraeg mai tueddu i bwysu a mesur a chynnig barn yr oeddynt yn hytrach na rhestru ffeithiau. Gresynai gohebydd y *Faner* yn Lerpwl fod "lliaws o ddigwyddiadau o bwys a dyddordeb wedi cymmeryd lle... y mae yn resyn na fyddai cofnodiad o honynt wedi ymddangos yng ngholofnau y *Faner*" yno ond "rhaid eu gollwng nhw i golli" oherwydd bod "henaint bellach wedi eu gorddiwes" – h.y. bod y newyddion bellach yn rhy hen i drafferthu ei gynnwys (1870, p. 4). Dywed D. Tecwyn Lloyd nad oedd "rhuthr a brys papurau dyddiol yn mennu arnynt ac ar lawer cyfiri bu'r papurau newydd Cymraeg yn debycach i gylchgronau lle cynigir dadansoddiad a chyfarwyddyd ynglŷn â'r newyddion yn ogystal â detholiad o'r newyddion eu hunain" (Lloyd, 1980, pp. 5-6). Nodai E. Morgan Humphreys mai argyhoeddi yn hytrach nag adrodd ar faterion y dydd oedd prif waith y wasg Gymraeg (Humphreys, 1945, p. 10). Roedd yn gyfrwng perffaith felly ar gyfer y pregethwyr Ymneilltuol Rhyddfrydol a

ddaeth i dra-arglwyddiaethu ar gynnyrch ‘oes aur’ y wasg Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn, ond golygai nad oedd y papurau newydd yn rhoi’r un pwyslais ar y llifeiriant o fân-ddigwyddiadau oedd mor amlwg yn wasg Saesneg. Roedd y digwyddiadau hyn yn creu ymwybyddiaeth o’r genedl ddychmygedig ym meddwl y darlennydd am mai’r genedl ddychmygedig honno oedd yr unig beth a oedd ganddynt yn gyffredin: “Why are these events so juxtaposed? What connects them to each other? ... most of them happen independently, without the actors being aware of each other and what the others are up to. The arbitrariness of their inclusion and juxtaposition [...] shows that the linkage between them is imagined” (Anderson, 1991, p. 33). Dywed Hall et al. mai adrodd ar *ddigwyddiadau ar hap* sy’n gorfodi’r papur newydd i greu ymdeimlad bod ei ddarllenwyr oll yn perthyn i un gymuned sydd â safbwynt unedig ar y modd y mae’r byd yn gweithio. Oherwydd natur dorfol y papurau newydd, mae o fudd amlwg iddynt i sicrhau bod gan eu darllenwyr safbwynt *yn gyffredin* ar faterion y dydd. Mae papurau newydd yn cynnig newyddion sydd y tu hwnt i brofiad dyddiol mwyafrif eu cynulleidfa. Er mwyn i’w cynulleidfa allu gwneud synnwyr o’r digwyddiadau hap a damwain hyn, rhaid i’r papur newydd greu ‘mapiau ystyr’ iddynt – ryw fath o ramadeg newyddion sy’n caniatáu iddynt osod y digwyddiadau yn eu cyd-destun cymdeithasol: “We exist as members of one society because – it is assumed – we share a common stock of cultural knowledge with our fellow men; we have access to the same ‘maps of meanings’.” Mae’r consensws hwn ynglŷn ag ystyr digwyddiadau yn gwahaniaethu rhyngom a grwpiau eraill – e.e. cenedloedd eraill – sydd â syniadau gwahanol ynglŷn â’r modd y mae’r byd yn gweithio (Hall, et al., 1978 [1980], p. 55). Os nad oedd y wasg Gymraeg yn adrodd ar lifeiriant o ddigwyddiadau Cymreig yn yr un modd, roedd yna berygl nid yn unig nad oedd eu darllenwyr yn ymdeimlo â bod yn rhan o gymuned ddychmygedig Gymraeg neu Gymreig, ond bod y ‘map ystyron’ a ddefnyddid ganddynt i wneud synnwyr o’r byd yn un Seisnig.



### *Aildwymo'r wasg Saesneg*

Mewn cyferbyniad â'r anhawster a geid wrth gasglu newyddion o Gymru, roedd newyddion o weddill y Deyrnas Unedig yn doreithiog ac yn hwylus i'w casglu. Golygai hyn mai un o nodweddion canolog y papurau newydd Cymraeg drwy eu hoes oedd dibyniaeth helaeth ar y wasg Seisnig am eu cynnwys. Cynhwysir yn y *Traethodydd* yn 1860 ddisgrifiad byw a gonest o'r broses o roi papur newydd Cymraeg at ei gilydd. Gellir dyfalu mai'r *Faner* sydd dan sylw fan hyn, gan mai Gwasg Gee a gyhoeddai'r ddau gyfnodolyn yn ystod y cyfnod hwn:

Erbyn tua hanner nos, mae y tryblith yn dechreu dyfod i drefn; ond yn fuan wed'yn mae y llythyr-gerbydau diweddar yn cyrhaeddyd, ac yna y mae llafur newydd i fyned drwyddo: - hanner cant o newyddiaduron o'r wlad i edrych drostynt, bwndel o newyddion o'r Alban a'r Iwerddon i'w chwilio a'u dethol, ac nid anfynych restr o baprau o America, India, Brazil, Ffrainc, Germany, a gwledydd eraill, i'w darllen a lloffa o honynt. (*Y Traethodydd*, 1860, pp. 205-206)

Yn wir, ceir awgrym bod papurau newydd yn ystyried mai eu prif apêl oedd darparu newydd o'r tu hwnt i Gymru. Yn erthygl olygyddol gyntaf yr *Herald Cymreig* yn 1855 ceir datganiad mai nod y papur, drwy hud yr 'Electric Telegraff', fydd dwyn gerbron y darllenydd "adroddiadau cywir am weithrediadau seneddwyr y Deyrnas hon ar y Senedd-dymorau" yn ogystal â chynnig "crynodeb cywir o brif symudiadau gwladyddol teyrnasoedd eraill". Y prif reswm a gynigir am brynu'r papur oedd os "na oddef ei amgylchiadau iddo fod yn dderbynydd o'r 'Herald' Seisnig, am fod ei bris yn rhy uchel, neu ei wybodaeth o'r iaith yn rhy amherffaith..." (*Yr Herald Cymreig*, 1855, p. 3). Yn yr un modd, broliai'r *Genedl Gymreig* eu bod yn amcanu "na byddo unrhyw ddigwyddiad o bwys yn cymeryd lle mewn unrhyw barth o'r byd, na chaiff darllenwyr y 'Genedl' gyfle i gael gwybodaeth gyflym a chyflawn amdano."

Unwaith eto roedd hyn diolch i'r dechnoleg ddiweddaraf a gludai'r newyddion "ar adenydd y mellt o'r naill wlad i'r llall" (1877, p. 4). Nid tuedd newydd oedd hon. Hyd yn oed yn absenoldeb papurau newydd Cymraeg yn hanner cyntaf y 19eg ganrif, roedd y cylchgronau enwadol yn frith o newyddion gwleidyddol a throseddol Prydeinig wedi eu cyfieithu o bapurau dyddiol Llundain (A.G. Jones, 1998, p. 211). Y perygl wrth gwrs oedd mai ychydig iawn o ddeunydd y wasg Lundeinig a oedd yn ymdrin â Chymru yn benodol. Dywed y *Faner* yn y 60au ei fod "yr un mor ddieithr i lygaid Cymro weled enw ei wlad yng ngholofnau'r *Times* ag a fyddai iddo weled ffrwythau melynawwl yr India yn tyfu ar gopaoedd moelion yr Wyddfa a Chader Idris" (Gee, 1863, p. 1). Ni allent ddibynnu ar y wasg Saesneg yng Nghymru am newyddion lleol, am nad oeddynt fawr gwell yn eu dibyniaeth ar ddiwyddiadau o'r tu hwnt i Glawdd Offa. Wrth frolio papurau dyddiol Cymreig, dywed David Davies (heb nodyn o eironi) mai eu prif rinwedd oedd eu bod yn adrodd newyddion Llundain: "A London literary man happily voiced a sentiment by no means uncommon in the great metropolis when he declared that he was always glad to see one of the Cardiff papers if only to ascertain what was going on in London..."<sup>333</sup> (Davies, 1897, p. 187). Dewis arall oedd dewis a dethol cynnwys o bapurau Cymraeg eraill, arferiad a feirniadwyd yn y *Faner* yn 1908:

Erbyn heddyw, y mae lle i ofni fod cryn nifer o'n newyddiaduron, fel gwartheg Pharaoh, yn byw ar eu gilydd. Y mae goruchwyliaeth y siswrn a'r past wedi dyfod yn sefydliad pwysig mewn aml i swyddfa. Y rheswm am hyn ydyw prinder copi, ac nas gellir fforddio i dalu am gynnyrchion arbenig. (1908, p. 10)

---

<sup>333</sup> Efallai nad yw eu gogwydd Seisnig yn syndod o ystyried bod y golygyddion yn Saeson. Nodwyd ganddo mai dim ond dau bapur dyddiol, yr *Express* (1887) a'r *South Wales Daily Post* (1893) oedd wedi cael golygyddion o Gymru am unrhyw gyfnod: "As a Welshman I wish I could conscientiously claim the credit for my own race, but I cannot – unhappily. Welshmen may have contributed to it, but the directing hand has not hitherto been Welsh" (Davies, 1897, p. 187). Fel y nodwyd yn y bennod ddiwethaf, gallai'r wasg Saesneg hefyd gymryd mantais ar dechnoleg stereoteipio, ac felly roedd llawer o'r cynnwys yn gopiâu uniongyrchol o gynnwys papurau ac asiantaethau newyddion o'r tu hwnt i'r ffin. Yn y cyfamser, roedd yn rhaid i'r wasg Gymraeg gyfieithu unrhyw gynnyrch yr oeddynt am ei ddefnyddio.

Roedd rhai o sylwebwyr y cyfnod yn effro i beryglon y tueddiad i gyfieithu gweithiau o'r Saesneg ar ddatblygiad hunaniaeth ddiwylliannol y Cymry, er mai at lyfrau yn bennaf yr oeddynt yn cyfeirio.<sup>334</sup> Dadleuai Noah Stephens bod “meddyliau Lloegr” yn dylanwadu “yn ormodol ar awdwyr Cymru... Diau fod y fath gyfartaledd mawr o gyfieithiadau yn tueddu, yn uniongyrchol ac anocheladwy, i lyffetheirio meddyliau, a lladd eu hannibyniaeth” (Stephens, 1849, p. 167). Roedd y wasg Lundeinig o'r un farn. Ymfalchiai'r *Morning Chronicle* yn y ffaith bod *Paradise Lost* wedi ei chyfieithu fel *Coll Gwynfa* i'r Gymraeg. Dywedodd y byddai dod i gysylltiad â'u llenyddiaeth yn siwr o Seisnigeiddio'r Cymry: “It is pleasing to see such efforts made to open the choicest treasures of English literature to those that sit in the darkness of a strange tongue.” Awgrymwyd y gallai'r iaith Aeleg elwa yn yr un modd, ac y dylid gosod y Saesneg ochr yn ochr â'r iaith frodorol er mwyn i'r trigolion ei dysgu yn gyflymach ('Scotsman', 1828, p. 1).

### *Billig, Cormack a Chenedlaetholdeb*

Beth oedd arwyddocâd y trosglwyddiad hwn o ddeunydd y wasg Saesneg yn Lloegr i'r papurau newydd Cymraeg? Yn nhyb Billig, nid yw'r ddefod o ddarllen ar y cyd a ddisgrifir gan Anderson, yn ddigon i greu ymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol – mae angen i gynnwys y papur newydd hefyd atgyfnerthu nodweddion cwmpasog y genedl drwy gyfrwng y disgwrs a ddefnyddir. Dywed Billig mai'r hyn sy'n creu ymwybyddiaeth o gymuned ddychmygedig yw'r “deixis of little words” – hynny yw, geiriau nad ydynt yn cyfeirio at unrhyw beth penodol y tu allan i'w cyd-destun ond sydd, o fewn cyd-destun y genedl lle darllenir hwy, yn cryfhau

---

<sup>334</sup> Tueddid i gyfieithu gweithiau crefyddol, gan mai efengylu yn hytrach nag elw oedd nod yr awduron (P.H. Jones, 1999, p.305). Cynhwysai nifer o gyfnodolion Cymreig gyfieithiadau o ffuglen grefyddol o'r Unol Daleithiau neu Loegr (Walters, 1998, p. 205). Roedd R.J. Derfel yn feirniadol o'r duedd i feddwl bod mwy o werth mewn cyfieithu gweithiau Saesneg na chynhyrchu rhai gwreiddiol Cymraeg: “... yr wyf yn meddwl yn aml fod rhai yn gwastraffu eu hoes i gyfieithu, pan allasant ei defnyddio i ddiben llawer uwch trwy gyfansoddi llyfrau gwreiddiol eu hunain” (Derfel, 1945, p. 83).

ymdeimlad y darllenydd o berthyn i gymuned ddychmygedig benodol. O ganlyniad, mae'r dewis o eiriau yn y wasg yn atgyfnerthu'n gyson y neges bod y darllenydd yn rhan o gymuned ddychmygedig y mae'n ei rhannu gyda thrigolion eraill y genedl (Billig, 1995, pp. 94, 106). Awgrymir bod dibyniaeth y wasg Gymraeg ar ddeunydd o gyfnodolion o'r tu draw i Glawdd Offa wedi creu ymdeimlad o berthyn i gymuned ddychmygedig Brydeinig, yn hytrach nag un Gymreig. Dywed Mike Cormack fod modd cymhwyso damcaniaeth Billig er mwyn dadlau y gallai cyfryngau torfol mewn ieithoedd lleiafrifol lesteirio yn hytrach na hybu mudiadau cenedlaethol. Er mai darlledu mewn ieithoedd lleiafrifol yn yr 20fed ganrif yw prif ganolbwynt ei astudiaeth ef, a'i fod yn ystyried yr Wyddeleg yn fwy penodol, gellid cymhwyso ei ddadl i'r Gymraeg a chyhoeddiadau printiedig yn y 19eg ganrif yn ogystal. Dadl Cormack yw bod "routine banality" darlledu torfol yn golygu y bydd yn colli ei rym i hybu amcanion y mudiad cenedlaethol: "Its very appearance in the media as the language of context, of presentation, and of the framework within which broadcasting takes place, pushes it towards a symbol of integration and the everyday." Wrth ddod yn rhan ddisylw o fywyd bob dydd, yn fath o bapur wal gweledol neu glywedol, mae'r cyfryngau mewn ieithoedd lleiafrifol yn newid o fod yn genedlaetholdeb 'poeth' fel y'i disgrifir gan Billig, ac yn troi yn fath o genedlaetholdeb 'banal'. Collir y grym trawsnewidiol, a phwysleisir y *status quo*. Dadleua Cormack fod darlledwyr mewn ieithoedd lleiafrifol yn driw i sefydliadau'r genedl-wladwriaeth, am eu bod yn tueddu i ochel rhag cenedlaetholdeb er mwyn creu'r gynulleidfa fwyaf eang posib. Gallai cenedlaetholdeb 'poeth' gyfyngu ar faint y gynulleidfa: "The creation of an audience is an essentially integrative process, bringing individual viewers/ listeners into a shared sense of their participation in a collectivity... This suggests that minority language media might not be a help to nationalist movements, but in fact a hindrance precisely because of these integrative aspects." O ganlyniad, gall penderfyniad gwladwriaethau i ganiatáu darlledu mewn ieithoedd lleiafrifol fod yn fodd o atal datblygiad cenedlaetholdeb: "This is not done through overt

political control or through the use of anti-nationalist propaganda, but simply through the conversion of the radical to the banal” (Cormack, 2000a, p. 391).

Sut felly mae cymhwyso dadl Cormack i’r wasg Gymraeg yn y 19eg ganrif? Mae Cormack yn cyfeirio at ddadl Paddy Scannell, sy’n nodi bod darlledu yn gyfrwng pur wahanol i ddeunydd printiedig. Mae Scannell yn nodi bod darlledu wedi rhoi i’r byd “an ordered, orderly, familiar, knowable appearance by virtue of an unobtrusively unfolding temporal sequence of events that gave substance and structure to everyday life” (Scannell, 1996, p. 153). Serch hynny, mae tebygrwydd amlwg rhwng nodweddion darlledu fel y’u disgrifir gan Scannell a nodweddion y papur newydd fel y’u disgrifir gan Anderson. I’r olaf, roedd y papur yn symbol o’r “steady onward clocking of homogenous empty time”, a’r seremoni o’i ddarllen yn creu undod drwy gadw curiad cydamserol bywydau’r darllenwyr (Anderson, 1991, pp. 33-35). Yn wir, mae Cormack yn nodi bod y broses a ddisgrifir gan Scannell yn amlwg wedi dechrau “with the rise of mass-circulation daily newspapers at the end of the nineteenth century”. Y gwahaniaeth yw bod darlledu yn parhau drwy gydol y dydd, yn hytrach na chael ei gyhoeddi unwaith y dydd, a’i fod hefyd yn creu cynulleidfa genedlaethol na allai’r un papur newydd gystadlu â hi (Cormack, 2000a, p. 392). Mae damcaniaeth Cormack yn ddefnyddiol am ei bod yn awgrymu na ddylid cymryd yn ganiataol bod cyfryngau ieithoedd lleiafrifol yn hybu mudiadau cenedlaethol bob tro, ac felly yn gwneud i ni ystyried tybed a allai papurau Cymraeg yr ‘oes aur’ fod wedi pylu dyheadau cenedlaetholgar y bobl yn hytrach na’u tanio.

### *Roeder*

Mae damcaniaeth Cormack hefyd yn cynnig ffordd o ieuo damcaniaethau Billig ac Anderson ynglŷn â dylanwad y wasg ar feithrin ymdeimlad o gymuned ddychmygedig, gyda damcaniaeth Roeder ynglŷn â’r ‘genedl-wladwriaeth segmentedig’. Gellid dadlau mai un o’r heriau

sylyfaenol a wynebai'r wasg Gymraeg wrth greu ymdeimlad o gymuned ddychmygedig. Gymreig oedd nad oedd sefydliadau Cymreig i adrodd arnynt. Felly yn ogystal â bod yn fan ar gyfer datblygiad dosbarth canol Cymreig, ac yn fodd i'r Cymry ail-ddarganfod ac ail-ddyfeisio eu 'ethne' eu hunain, buasai sefydliadau megis prifysgolion a'r llyfrgell genedlaethol yn bwydo gwasg ffyniannus â deunydd newyddion, yn ogystal â darparu gwrthrychau y gellid cyfeirio atynt mewn modd oedd yn awgrymu cwlwm cenedlaethol rhwng y darlennydd a'r gymuned ddychmygedig. Yr hyn y meddai'r Cymry arnynt yn y 19eg ganrif ydoedd sefydliadau'r capel a'r eisteddfodau, ac nid yw'n syndod felly fod yr arlwy a gynhyrchwyd wedi gogwyddo tuag at ddeunydd o naws crefyddol a diwylliannol. Serch hynny, oherwydd eu dibyniaeth ar y wasg Saesneg am lawer o'u newyddion 'caled', y digwyddiadau ar hap hynny a drafodir gan Hallet al., ac ar sefydliadau'r genedl-wladwriaeth ganolog, megis y Senedd yn San Steffan, roedd yn anochel mai ymdeimlad o genedlaetholdeb 'banal' Prydeinig yr atgynhyrchwyd ganddynt. Mae Billig yn cyfeirio at y "deixis of little words" sydd mor ddylanwadol wrth greu ymdeimlad o berthyn i gymuned genedlaethol. Tra gallai gwasg Gymraeg y 19eg ganrif gyfeirio at 'y genedl' ac 'ni', ni allai sôn am 'y Senedd', na'r 'Prif Weinidog' mewn cyd-destun Cymreig fel y gallwn ni ers datganoli yn 1999, na hyd yn oed 'y Llyfrgell Genedlaethol' neu 'yr Amgueddfa Genedlaethol' fel Cymry'r 20fed ganrif. Rhaid oedd trafod 'y Senedd' a'r 'Prif Weinidog' yng nghyd-destun Prydain yn ei chyfanrwydd. Dywed Billig: "the little words can flag a homeland, and, in flagging it, make the homeland homely" (Billig, 1995, p. 106). Fe allai mai un o'r rhesymau y gwelir tueddiad tuag at annibyniaeth ymysg cenhedloedd segmentedig fel y'u diffinir gan Roeder, tra bydd grwpiau ethnig amlwg nad ydynt yn meddu ar eu sefydliadau eu hunain yn aml yn parhau yn rhan o genedl-wladwriaethau canolog, yw bod y berthynas symbiotig rhwng y wasg a sefydliadau yn golygu bod y disgwrs a ddefnyddir yn tueddu i roi pwyslais ar yr hyn sy'n uno'r genedl-wladwriaeth gyfan yn y gymuned ddychmygedig. Fel y dengys Hall et al., mae newyddiadurwyr yn tyrru o amgylch y sefydliadau hyn er eu dibenion

eu hunain, oherwydd y pwysau amserol a masnachol sydd arnynt, hyd yn oed os nad ydynt o reidrwydd yn cytuno â'u safbwyntiau ideolegol. Yn hynny o beth, mae'n arwyddocaol bod prif ohebydd y *Faner* yn ystod y 1860au, John Griffiths, (a ennillai gyflog nid ansylweddol o ddwy bunt, fel y noda Kilsby) hefyd wedi ei leoli yn Llundain ac yn adrodd ar ddigwyddiadau'r Senedd yno. Ei golofn wythnosol ef o Lundain oedd, yn ôl Dylan Iorwerth, "[t]rysor mwyaf" y papur newydd (Iorwerth, 2007, p. 8).

Cyn symud ymlaen at gynnal dadansoddiad disgwrs ansoddol o'r *Faner* yn benodol, hoffwn drafod ychydig ar y darlun ehangach, sef y defnydd o ddisgwrs cenedlaetholdeb Özkirimli (2000, p. 221), a 'geiriau bach' Billig yng nghyd-destun cyfnodolion Cymraeg yr 'oes aur' yn gyffredinol (1995, p. 94). Yr hyn a'm deffrodd i'r posibilrwydd bod papurau newydd Cymraeg y 19eg ganrif yn atgynhyrchu cenedlaetholdeb Prydeinig yn hytrach na Chymreig drwy eu disgwrs oedd y modd di-gyd-destun a mynych y cyfeirir ganddynt at Senedd San Steffan. Dyma oedd, wrth gwrs, un o sefydliadau gwleidyddol grymusaf y byd yn ystod y cyfnod hwn. Ceir awgrym o'r modd yr ystyriai'r *Faner* y Senedd a'r brifddinas mewn erthygl olygyddol ganddi yn 1857: "Llundain yw nid yn unig prifddinas ymherodraeth Prydain, ond hefyd prif ddinas yr oes a'r byd oll, ar lawer o gyfrifon; a phrif ddinas yr oesoedd oll, ar lawer o ystyriaethau... Y hi, fel eisteddle gorseddfainc a llywodraeth Prydain Fawr, ydyw calon y byd, mewn ystyr wladwriaethol" (1857b, p. 1). Nid yw'n syndod, o ystyried damcaniaeth Hallet al., fod y sefydliad hwn yn ffynhonnell cyfran sylweddol o arlwy papurau newydd Cymraeg y cyfnod, ac mai sgil-ffaith yr agosrwydd hwnnw oedd cynefindra a arweiniodd at gyfeirio ati mewn modd di-gyd-destun. Mae'r arfer o restru newyddion gwleidyddol y dydd dan y pennawd 'Y Senedd' yn nodwedd hollbresennol ym mhapurau Cymraeg y cyfnod, gan gynnwys *Y Gwladgarwr*, *Y Dydd*, *Tarian y Gweithiwr*, *Y Celt*, *Y Tyst a'r Dydd*, *Seren Cymru*, y *Faner*, *Y Goleuad*, *Y Genedl Gymreig*, *Y Gwylidydd*, *Y Tyst*, *Yr Herald Cymraeg*, *Y Cymro*, *Y Llan*, *Y*

*Gwladgarwr, Y Werin, Gwalia, Y Brython Cymreig, Y Negesydd, Y Tyst Cymreig, Y Cloranydd, Y Dinesydd Cymreig, Yr Amserau, Y Darian, Y Gwylidydd Newydd, Y Rhedegydd, a Llais y Wlad.*<sup>335</sup> Mae'r 'Senedd' yn rhan hollbresennol o'u harlwy, ac mae cyferbyniad amlwg rhwng y modd y'i trafodir a seneddau tramor, lle nodir i ba wlad y maent yn perthyn. Gwelir hyn o'r cyhoeddiadau cyntaf ymlaen. Er enghraifft, yn un o rifynnau cyntaf *Seren Gomer* yn 1814 mae newyddion gwleidyddol o Lundain yn ymddangos dan bennawd "Y Senedd Ymerodrol", tra bo newyddion gwleidyddol o Ffrainc wedi ei osod yng nghyd-destun y pennawd "Ffurflywodraeth newydd Ffrainc" (1814b, pp. 1-2). Mewn cyferbyniad, anaml iawn y gosodir y Senedd yn ei chyd-destun fel "Senedd Lloegr".<sup>336</sup> Tueddiad arall y gwelir enghraifft ohoni ar y dudalen honno o'r *Faner*, ac yn fynych mewn papurau eraill, gan gynnwys *Seren Cymru* (1867a, p. 1), oedd gwahanu'r newyddion Prydeinig a Rhyngwladol dan y penawdau "Cartrefol" a "Tramor", gan awgrymu mai Prydain yn ei chyfanrwydd yw 'cartref' y darlennydd. Ceir hefyd ambell gyfeiriad at "y Tŷ", heb unrhyw gyd-destun arall, i gyfeirio at Dŷ'r Cyffredin, er enghraifft yn *Seren Cymru* (1867b, p. 7) a'r *Gwladgarwr* (1868, p. 4). Nid yw'n debygol bod y golygyddion na'r darllenwyr yn effro i arwyddocâd y geiriau bychain hyn. Fel y dywed Billig: "this reminding is so familiar, so continual, that it is not consciously registered as reminding" (Billig, 1995, p. 8). Ond fel y noda Hroch, mae angen ystyried

<sup>335</sup> Yr unig eithriad amlwg yw *Papur Pawb*, papur ysgafnach nad oedd yn mynd i'r afael â materion y dydd. Serch hynny cyfeirir at "y Senedd" yn yr un modd mewn straeon unigol, e.e. stori fer sy'n trafod bwgan aristocritaidd sy'n llechu yno (1899, p. 5).

<sup>336</sup> Gwneir hynny yn bennaf mewn erthyglau rhyngwladol lle mae mwy nag un weinyddiaeth yn nhestun y stori, e.e. wrth gymharu ei maint â seneddau gwledydd eraill (*Seren Cymru*, 1885, p. 25), neu wrth drafod cytundebau â gwledydd eraill (*Baner ac Amserau Cymru*, 1878, p. 8). Mae'n bosib bod rhai o'r rhain yn gyfieithiadau o bapurau Saesneg, a'u bod wedi cadw at eu tuedd i gymysgu Prydain a Lloegr e.e. crybwyllir "Senedd Lloegr" yn *Y Gwladgarwr* mewn adroddiad gan "[o]rhebwydd y Daily Telegraph o Ffrainc" (1859, p. 5). Anaml y defnyddir "Senedd Lloegr" er mwyn gwneud pwynt gwleidyddol. Un defnydd bwriadol, bid siwr o "Senedd Lloegr" yw yng ngwaith Michael D. Jones yn *Y Celt* (1891b, p.1). Defnyddir "Senedd Lloegr" hefyd gan yr Hen Amaethwr yn y *Faner* er mwyn dadlau dros ymreolaeth i Gymru (1889, p. 13). Cyfeirir at "Senedd Lloegr" ambell dro wrth drafod dadlau o blaid datgysylltu'r Eglwys yn ogystal (*Y Dydd*, 1869, p. 9). Er enghraifft, wrth ymosod ar y Ceidwadwyr am wrthwynebu datgysylltu, dywed *Y Dydd*: "Y maent wedi colli meinciau awdurdod yn Senedd Lloegr, ac yn mysg mwyafrif mawr o ethol-gylchoedd Cymru" (1870, pp. 8-9). Mae'n debygol bod y defnydd o "Senedd Lloegr" yn y cyd-destunau hyn yn gwbl fwriadol ac yn enghraifft o disgwrs cenedlaetholdeb Özkirimli sydd yn mynd ati'n benodol i greu ymraniad rhwng y 'ni' a 'nhw' (Özkirimli, 2000, p. 221). Efallai fod ei ddefnydd yng nghyd-destun erthyglau am ddatgysylltu yn awgrymu paroddrwydd i bwysleisio Cymru fel gwlad arwahanol er mwyn cyflawni amcanion gwleidyddol yr Ymneilltuwyr.



dylanwad y cynnwys hwn ar genedlaetholdeb “even if these are in part unconscious” (Hroch, 1993, p. 12). Yn absenoldeb unrhyw gyd-destun, roedd y geiriau hyn yn gosod y darllenwyr o fewn cenedl-wladwriaeth, sef y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'u hatgoffa'n ddyddiol bod cenedloedd eraill yn bodoli, gyda'i harweinwyr a'u senedd-dai a'u pobloedd eu hunain, nad oeddynt yn rhan ohonynt.<sup>337</sup> Roedd y modd di-gyd-destun hwn o gyfeirio at y Senedd a sefydliadau Prydeinig eraill<sup>338</sup> i'w weld yn fynych yn y papurau newydd Cymraeg, a'r modd y dibynnwyd arnynt i'r fath raddau am eu harlwy, yn ddigon i ddenu fy sylw at y posibilrwydd bod y papurau hyn yn atgynhyrchu disgwrs cenedlaetholdeb Prydeinig yn hytrach na Chymreig, ac yn gwahodd ymchwil bellach.

#### *Dewis y papur*

Wedi cwblhau'r trosolwg uchod a phenderfynu bod lle i amau bod gwasg Gymraeg yr ‘oes aur’ yn atgynhyrchu cenedlaetholdeb Prydeinig yn hytrach nag un Cymreig, penderfynwyd mai'r ffordd orau o fesur dilysrwydd hynny fyddai cynnal dadansoddiad o gynnwys y *Faner* dros gyfnod hirach. Nod y dadansoddiad hwn oedd ystyried sut y defnyddir disgwrs cenedlaetholdeb, yn ogystal â ‘geiriau bychain’ Billig, er mwyn creu ymdeimlad o genedlaetholdeb banal neu boeth, enwadol, lleol, Gymreig, Brydeinig neu ryngwladol yn nhudalennau'r papur. Penderfynwyd dadansoddi'r *Faner*, ar sail ei ddylanwad, ei gyrhaeddiad, ei gylchrediad, ac amllder ei gyhoeddi. Oherwydd hynny, gellid dadlau nad yw'n enghraifft gynrychiadol o'r wasg Gymraeg yn ystod y cyfnod dan sylw, yn enwedig o ystyried bod ei gylchrediad yn y gogledd yn bennaf. Ond gellid cyfiawnhau'r dewis ar y sail bod y thesis yn

---

<sup>337</sup> Mae rhai o'r geiriau bychan eraill yn awgrymu rywfaint o ddryswech rhwng dwy hunaniaeth wahanol. Er enghraifft, cyfeirir yn aml at ‘y wlad’ i gyfeirio naill ai at Gymru neu at y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd, hyd yn oed o fewn yr un erthygl. Er enghraifft, yng nghyfarchiad y *Gwylidydd* defnyddir “y wlad” yn gyntaf i olygu Cymru, cyn crybwyll “Llywodraeth a Senedd y wlad” i olygu'r Deyrnas Unedig yn ei gyfanrwydd (1877, p. 1).

<sup>338</sup> Yn yr un modd ag ‘y Senedd’, cyfeirir at ‘y Frenhines’ yn ddi-gyd-destun yn fynych ym mhenawdau'r papurau Cymraeg. Er enghraifft, yn y *Faner* ceir y pwt canlynol wrth adrodd ar ymweliad Brenhinol: “Dywedir fod y Frenhines wedi cael ychydig o anwyd, a bod hynny wedi achosi i'r Brenin ohirio ei ymweliad â'r dref hyd ddydd Mercher” (1902, p. 8).

ddibynnol ar arddangos y cyfyngiadau masnachol a wynebai'r wasg Gymraeg. Y *Faner* yw'r papur tebycaf i bapur cenedlaethol Cymraeg ei iaith a gyhoeddid yn gyson yn y cyfnod hwn, ac felly bydd unrhyw gasgliadau ar sail ei gynnwys yn fwy cynrychiadol o gyfyngiadau'r wasg Gymraeg yn ei chyfanrwydd na phetawn yn ystyried papur amaturaidd, rhanbarthol, enwadol neu gymharol fychan ei gylchrediad. Ni ellir profi'r thesis bod effaith grym y farchnad a'r ddibyniaeth ar sefydliadau Prydeinig am eu harlwy yn llesteirio gallu'r wasg Gymraeg i hybu cenedlaetholdeb Cymreig yn ystod y cyfnod hwn, heb ystyried y papur newydd a oedd yn meddu ar y nodweddion sydd wedi eu hadnabod gan y traethawd hwn fel y rhai mwyaf tebygol o gyflawni'r nod hwnnw. Dadl arall o blaid dewis y *Faner*, yn hytrach nag ambell papur arall megis y *Genedl* a oedd yn cyfateb i rai o'r gofynion a nodwyd uchod, oedd ei fod hefyd yn pontio'r cyfnod a gydnabyddir fel 'oes aur' y wasg Gymraeg – o'r 1850au hyd at yr 1900au. Roedd rhaid ystyried hefyd a fyddai modd casglu sampl gynrychiadol o'r gwaith. Yn achos y *Faner*, mae pob rhifyn o'r papur, namyn ambell un, ar gael ar ffurf cyfrolau blynyddol drwy gasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Phrifysgol Bangor, ac mae'r mwyafrif hefyd ar gael ar ffurf ddigidol drwy wefan y Llyfrgell Genedlaethol ("Papurau Newydd Cymru Arlein"). Er yr ystyrid y fethodoleg hon yn un deg er mwyn profi thesis y traethawd hwn, derbynnir nad oes modd cyffredinoli ar gyfer bob cyhoeddiad Cymraeg ar sail y canlyniadau. Byddai cynnal dadansoddiad disgwrs neu gynnwys ar gyfnodolion penodol eraill yn fodd o ymchwilio ymhellach i'r pwnc yn y dyfodol.

#### *Dadansoddiad cynnwys neu ddisgwrs*

Yr her gyntaf oedd dod o hyd i fethodoleg neu fethodolegau priodol er mwyn gallu dadansoddi'r *Faner*. Penderfynwyd y gallai dwy fethodoleg wahanol fod yn addas wrth ddadansoddi'r *Faner*, sef dadansoddiad cynnwys meintiol a dadansoddiad disgwrs ansoddol . Roedd gan y ddwy fethodoleg hyn eu cryfderau a'u gwendidau. Fel y noda eraill, mae'r broses

o ddewis maint sampl, dull, mesuriadau, a dibynadwyedd, yn un hanfodol ond trafferthus ymhob astudiaeth o'r fath (Riffe, et al., 2005). Roedd maint y sampl yn ystyriaeth flaenllaw; oherwydd natur doreithiog y cynnwys – roedd bron i 2,000 o rifynnau wythnosol wedi eu cyhoeddi erbyn diwedd y ganrif – a'r ffaith bod pob rhifyn yn cynnwys miloedd o eiriau, ni fuasai'n ymarferol dadansoddi'r cyfan yn fanwl.

Ni ellir pennu un diffiniad terfynol o ddadansoddiad cynnwys na dadansoddiad disgwrs. Mae yna lawer o amrywiaeth o fewn y ddau ddull o ddadansoddi testunau, rhwfaint o orgyffwrdd rhyngddynt, a gwahaniaethau pwysig hefyd, ac mae'r rhain yn destun trafodaeth frwd ymysg academyddion (Herrera & Braumoeller, 2004). Ceir amrywiadau mawr rhwng, ac o fewn gwaith ysgolheigion. Yn llyfr Schiffrin, *Approaches to Discourse*, er enghraifft, cyflwynir chwe dull gwahanol o ddadansoddi disgwrs. Mae Schiffrin yn dadlau bod natur draws-ddisgyblaethol dadansoddi disgwrs yn golygu ei fod wedi esgor ar sawl dull sydd yn wahanol iawn i'w gilydd. Serch hynny, mae'n nodi bod ambell nodwedd ganddynt yn gyffredin, sef ystyriaeth o'r cysylltiad rhwng strwythur a swyddogaeth, testun a chyd-destun, ac ymadroddion a chyfathrebiadau (Schiffrin, 1994, p. 337). Awgryma James Paul Gee fod dadansoddi disgwrs yn fodd o astudio cystrawen a chywair er mwyn dangos sut mae'r siaradwr yn cyfleu ei hunaniaeth a'r modd y mae'n gweithredu. E.e. gall cystrawen academaidd fod yn fodd o sefydlu hunaniaeth yr ysgrifennwr fel ysgolhaig, a dangos ei fod yn bwriadu gweithredu mewn modd gwrthrychol ac arbenigol wrth ddadansoddi'r gwrthrych dan sylw. I'r gwrthwyneb, gall ysgrifennu mewn iaith lafar fod yn fodd o gyfleu naws gonest ac agos atoch. Awgrymir hefyd y gall iaith lafar fod yn fodd o herio cyweiriau ysgrifennu safonol, a sicrhau nad yw'r 'budd cymdeithasol' sydd ynghlwm â chyweiriau safonol yn cael ei feddiannu gan y rheini sydd â'r gallu neu'r awydd i gyfathrebu yn y fath fodd (Gee, 2011, pp. 8-10; Gee, 2014, pp. 1-8).

Gan symud ymlaen at ddadansoddiad cynnwys, awgryma Stempel ddiffiniad eang iawn, sef system ffurfiol ar gyfer rhywbeth sy'n cael ei wneud yn anffurfiol o hyd, sef dod i gasgliadau ar sail arsylwi ar gynnwys (Stempel, 2003, p. 209). Dywed Riffe et al. mai'r nod yn y bôn yw cywasgu cyfathrebu i ddata sy'n fwy hylaw ac yn haws dod i gasgliadau yn ei gylch. (Riffe, et al., 2005, p. 55) Mae Krippendorff yn rhoi'r pwyslais ar yr hyn y gall cynnal astudiaeth o gynnwys ei ddweud wrthym am y sawl a greodd y neges, y sawl a'i derbyniodd, a'r cyd-destun y trosglwyddwyd y neges ynddo. Hynny yw, yn wahanol i dechnegau ymchwil eraill, mae'r pwyslais ar yr hyn y gall y testun sy'n cael ei astudio ei ddweud wrthym ni am ei gyd-destun: "Formally, content analysis is a research technique for making replicable and valid inferences from data to their context." Yr her sy'n wynebu unrhyw fethodoleg sy'n gwneud defnydd o ddadansoddi cynnwys, meddai, yw cyfiawnhau dod i gasgliadau pendant ar sail y cynnwys hwnnw (Krippendorff, 1989, p. 403). Mae'r dadansoddiad hwn yn un diddorol, gan ei fod yn rhoi'r pwyslais ar gyd-destun y cyfathrebu, sydd yn groes i'r pwyslais a roddir gan eraill, ee, Hardy et al., sy'n dadlau y dylai dadansoddi cynnwys ystyried y testun y tu allan i'w gyd-destun.

Er bod Hardy et al. yn nodi gwahaniaethau amlwg rhwng dadansoddiad cynnwys a disgwrs, dywed eu bod yn "complementary and even mutually supportive in the exploration of social reality" (Hardy, et al., 2004). Gan dderbyn felly nad oes diffiniad penodol ar gyfer dadansoddi disgwrs na chynnwys, dyma ymdrech i'w crynhoi at ddibenion yr astudiaeth hon, gan ddibynnu'n bennaf ar yr esboniad cyffredinol a gynigiwyd gan Hardy et al. ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng y ddau ddull. Yr hyn sydd ganddynt yn gyffredin yw eu bod ill dau yn fodd o ddadansoddi testunau, boed y rheini'n ysgrifenedig neu fel arall, gyda'r nod o ddeall realiti cymdeithasol. Serch hynny maent yn anghytuno ynglŷn â natur realiti, a swyddogaeth iaith

oddi fewn iddo. Mae dadansoddi disgwrs yn ddull ansoddol deongliadol, tra bo dadansoddi cynnwys yn ddull meintiol sy'n rhoi'r pwyslais ar dystiolaeth empirig a dadansoddi ystadegol. Tra bo dadansoddi disgwrs yn caniatáu bod natur ac ystyr iaith yn newid dros amser, ac yn destun anghytundeb a dehongliadau gwahanol, mae dadansoddi cynnwys yn pwysleisio cysondeb ystyr a sefydlogrwydd y testun. Wrth ddadansoddi disgwrs testun rhaid i'r awdur gadw mewn cof ei ragdybiaethau ei hun, a gosod y testun hwnnw yn ei gyd-destun ehangach, tra bo'r pwyslais mewn dadansoddi cynnwys ar ddibynadwyedd a dilysrwydd y fethodoleg a ddefnyddiwyd, ac fe ystyrir y testun y tu allan i'w gyd-destun. Hynny yw, fe astudir y testun ei hun, nid bwriad crëwr y testun, na dadansoddiad tebygol y gynulleidfa ohono. I grynhoi, felly, mae dadansoddi disgwrs yn ystyried sut y cafodd y realiti y mae pobl yn gweithredu ynddo ei greu drwy ddisgwrs, yn hytrach na cheisio pennu beth yw realiti. Derbynnir bod ystyr, a realiti cymdeithas, yn lluniadau meddyliol sy'n cael eu creu drwy ryngweithio rhwng testunau rhyngberthynol. Ar y llaw arall, mae'r dull dadansoddi cynnwys yn cymryd bod ystyr y testun yn gyson, ac y gall sawl ymchwilydd ddod i'r un canlyniad os ydynt yn defnyddio'r dull dadansoddol cywir ac yn gweithredu mewn modd gwrthrychol, systematig a meintiol. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid datblygu categorïau dadansoddol ar gyfer y data sy'n cael ei gasglu. Gellid dadlau, wrth gwrs, nad yw dull dadansoddi cynnwys meintiol yn atal yr angen am ddadansoddiad ansoddol o arwyddocâd y canlyniadau ar ddiwedd y broses! Dywed Hardy et al. fod modd gwneud defnydd o ddadansoddi cynnwys o fewn methodoleg dadansoddi disgwrs, ar yr amod bod yr ymchwilydd yn dangos parodrwydd i ystyried defnydd geiriau o fewn eu cyd-destun: "For content analysis to form part of a discourse analytic methodology, it is necessary to weaken the assumption that meaning is stable enough to be counted in an objective sense." Dywed Hardy et al. fod dadansoddiad disgwrs ansoddol a dadansoddiad cynnwys meintiol yn gallu ategu ei gilydd o fewn un astudiaeth: "the more structured and formal forms of discourse analysis are compatible with the more interpretive forms of content

analysis... content analysis provides an important way to demonstrate these performative links that lie at the heart of discourse analysis” (Hardy, et al., 2004, pp. 19-22).

Nid yw dadansoddi cynnwys meintiol er mwyn astudio sut y cynrychiolir cenedloedd yn y wasg yn syniad newydd. Defnyddiodd Wanta, Golan, and Lee y dull hwn er mwyn astudio faint o sylw a gafodd gwledydd tramor mewn darllediadau newyddion yn yr Unol Daleithiau, ac o ganlyniad faint o bwysigrwydd a roddid iddynt gan y cyfryngau (Wanta, et al., 2004). Mae Finlayson, ar y llaw arall, yn dadlau mai'r ffordd orau o ddadansoddi cenedlaetholdeb yw drwy ddadansoddiad disgwrs ansoddol. Rhybuddir yn erbyn unrhyw ddamcaniaethau eang sy'n cwmpasu cenedlaetholdeb yn ei gyfanrwydd, oherwydd bod pob cenedlaetholdeb yn meddu ar ei nodweddion unigryw ei hun. O ganlyniad, dadansoddiad disgwrs, yn ei dyb ef, yw'r dull mwyaf effeithiol o osod y testunau sy'n creu'r genedl a hunaniaeth genedlaethol o fewn eu cyd-destun gwleidyddol a diwylliannol ehangach (Finlayson, 1998). Gan dderbyn bod gwahanol safbwyntiau ar y mater, mae'n deg dadlau, felly, fod dadansoddiad disgwrs ansoddol a dadansoddiad cynnwys meintiol yn foddion dilys o ddadansoddi'r testun er mwyn cyflawni'r dibenion hyn.

#### *Rhoi tro ar ddadansoddiad cynnwys*

Y nod cychwynnol oedd bwrw iddi gyda methodoleg dadansoddiad cynnwys. O ystyried bod y *Faner* yn rhychwantu'r cyfnod o 1855 hyd 1910, penderfynwyd y byddai un rhifyn bob dwy flynedd yn golygu cydbwysedd teg rhwng maint y sampl a'r gwaith o'i dadansoddi, gan olygu bod angen ystyried cynnwys 28 rhifyn mewn manylder.<sup>339</sup> Mae ymchwil ym maes samplu wedi

---

<sup>339</sup> Ystyriwyd i ddechrau ddewis yr un dyddiad ym mhob blwyddyn, a dewis y rhifyn a gyhoeddwyd agosaf at y dyddiad hwnnw. Penderfynwyd yn erbyn hynny oherwydd gallai digwyddiadau tymhorol effeithio mewn ryw fodd ar natur y cynnwys, e.e. petai'r dyddiad hwnnw ar gyfnod o wyliau i'r Senedd yn Llundain, gallai effeithio ar faint o newyddion gwleidyddol a geir. O ganlyniad, dewiswyd dull hapsamplu haenedig (Cochran, 1977, p. 89), gan ddewis un rhifyn ym mhob yn ail flwyddyn, ond gan wneud hynny ar hap. Er mwyn dewis rhifyn ar hap, defnyddiwyd gwefan Randomizer.com, sydd wedi ei sefydlu er mwyn bod o fudd i academwyr sy'n gwneud

dangos nad oes diben i faint y sampl ymestyn y tu hwnt i ganran benodol, am nad yw hynny o reidrwydd yn arwain at sampl fwy cynrychioliadol (Henry, 1990, p. 45). Nodwyd eisoes fod dadansoddiad cynnwys meintiol yn golygu datblygu categorïau dadansoddol ar gyfer y data. O ganlyniad, y bwriad oedd nodi'r manylion canlynol ar gyfer pob erthygl yn y sampl o bapurau newydd a ddewiswyd: y dyddiad, testun yr erthygl, math o erthygl (golygyddol, newyddion, darn barn, neu lythyr), ffocws cenedlaethol (Cymreig, Prydeinig neu Ryngwladol, neu gyfuniad ohonynt), ffynhonnell debygol y stori, maint y stori, a pha mor flaenllaw ydoedd yn y papur (h.y. y dudalen yr ymddangosodd arni). Y nod oedd gweld a allai asesiad empirig o'r math hwn hwyluso deall i ba raddau y rhoddwyd sylw i faterion Cymreig dros y cyfnod dan sylw. Byddai'r dadansoddiad hwn yn ffordd o roi rhai o'r rhagdybiaethau uchod ar brawf, h.y. bod diffyg newyddion o Gymru ym mhapurau'r cyfnod, bod y newyddion wedi dod drwy ffynonellau Prydeinig neu dramor yn bennaf, ac y rhoddwyd mwy o amlygrwydd i newyddion o ffynonellau Prydeinig na rhai Cymreig. Am nad oedd modd digideiddio'r cynnwys, bu'n rhaid gwneud y gwaith codio â llaw. Serch hynny, daethpwyd i'r casgliad ar ôl astudio tri rhifyn nad oedd dadansoddiad cynnwys meintiol yn fodd dichonadwy o gynnig trosolwg effeithiol o natur cynnwys y *Faner*. Y prif rwystr yn hyn o beth oedd natur yr herthyglau eu hunain. Roedd gwahaniaeth amlwg rhyngddynt ac erthyglau newyddion yn y cyfnod cyfoes, sy'n tueddu i ymdrin â digwyddiadau penodol, a lle mae ffin amlwg rhwng y cynnwys golygyddol a'r cynnwys ffeithiol, a honedig wrthrychol. Tueddai erthyglau'r *Faner* i fod yn hirfaith, ac i gwmpasu sawl pwnc a digwyddiad, ac fe fyddai'r gohebydd yn aml yn torri ar draws rhediad yr hanes gan gynnig ei farn ei hun ynglŷn â'r pwnc dan sylw, neu gan grybwyll materion a ymddengys yn amherthnasol i weddill yr hanes. Golygai hyn nad oedd modd codio erthygl yn

---

defnydd o'r dull hapsamplu haenedig. Gofynwyd iddo ddewis un diwrnod ar hap ym mhob un o'r 17 blwyddyn a nodwyd ar gyfer y dadansoddiad cynnwys meintiol. Roedd rhai blynyddoedd, e.e. y cyntaf, 1860, yn flynyddoedd naid felly gofynwyd iddo ddewis rhif o 1 i 366. Dewiswyd rhif 183, sef Gorffennaf y 1af y flwyddyn honno. Dadansoddwyd y rhifyn diweddaraf a oedd mewn cylchrediad ar y diwrnod a ddewiswyd. Drwy ddefnyddio'r dull hwn cafwyd ystod o ddeg o ddyddiadau drwy gydol y flwyddyn.

ei chyfanrwydd yn effeithiol heb i'r ymchwilydd orfod gwneud penderfyniadau ansoddol cyson ynglŷn â natur a gogwydd cyffredinol y cynnwys. Er mwyn i'r canlyniadau fod o gymorth, roedd yn rhaid i gategoriâu'r codio fod yn eithaf eang. Deuthum i'r casgliad na ellid sicrhau proses godio gwbl oddrychol, ac na fyddai ymchwilydd arall wrth ymgymryd â'r un gwaith o reidrwydd yn dod i'r un casgliadau. Tra byddai yn sicr yn bosib codio erthyglau neu rifynnau unigol mewn cryn fanylder gan ddefnyddio nifer uchel iawn o godau penodol, golygai maint y sampl nad oedd hynny'n ddichonadwy. Byddai nifer anferth y codau y byddai angen eu defnyddio yn annhebygol o esgor ar ddata a fyddai o fudd mawr wrth ateb y cwestiwn ymchwil.

#### *Dadansoddiad disgwrs ansoddol*

Penderfynwyd o ganlyniad mai dadansoddiad disgwrs ansoddol fyddai'r fethodoleg orau er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiwn ymchwil. Gall dadansoddiad cynnwys ganiatáu i ni gyfrif pa mor aml y caiff pynciau, themâu ac unigolion eu crybwyll, a faint o le ac amlygrwydd y maent yn ei gael: "It tells us what is highlighted and what is ignored." Serch hynny, nid yw yn dweud dim wrthym ynghylch sut y mae ystyr yn cael ei gyfleu. Er mwyn gwneud hynny, rhaid troi at ddadansoddiad testunol (Deacon, et al., 2007, p. 16). O ystyried y pwyslais a roddir ar ddisgwrs cenedlaetholdeb gan academyddion yn y maes, a'r trafferthion a gafwyd wrth godio erthyglau, penderfynwyd bod y fethodoleg hon yn fwy addas. Sgil-effaith arall y newid methodoleg oedd na fyddai angen i'r sampl fod mor eang ag mewn dadansoddiad cynnwys meintiol, ond y gellid dadansoddi pob rhifyn yn fanylach. Nod dadansoddiad ansoddol yw darparu mewnwelediadau dwys yn hytrach na'r persbectif cyffredinol a ddarperir gan ddadansoddiad meintiol. Wrth gynnal dadansoddiad ansoddol, nid oes angen mentro'r tu hwnt i'r pwynt dirlawnder (*saturation point*) lle nad yw ystyried rhagor o dystiolaeth yn dylanwadu ar ddadansoddiad yr ymchwilydd (Maykut & Morehouse, 1994, pp. 56, 63). Cyhoeddwyd papurau academaidd sy'n cynnwys dadansoddiadau ansoddol ar sail samplau bychan iawn, e.e.



dau gyfweiliad. Ond bernid bod y samplau hyn yn ddarluniadol o'r prosesau diwylliannol a chymdeithasol a astudiwyd, yn hytrach nag yn gynrychiadol (Deacon, et al., 2007, p. 45). Cyn bwrw ymlaen â'r gwaith, ystyriais ddadansoddiadau disgwrs eraill ar bapur newydd wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â maint priodol y sampl, ac roedd gogwydd tuag at samplau bychain ar y cyfan. Er enghraifft, cyfyngwyd dadansoddiad disgwrs beirniadol o hiliaeth ym mhapurau newydd Awstralia i naw erthygl unigol rhwng Mai a Hydref 1995 (Teo, 2000, p. 10). Serch hynny, roeddwn unwaith eto yn awyddus i sicrhau sampl a oedd yn gynrychiadol o'r 'oes aur' ar ei hyd, o 1857 tan 1900. Oherwydd y byddai'r gwaith yn fwy dwys, a'r canlyniadau yn ddarluniadol yn hytrach na chynrychioladol, penderfynwyd y byddai un rhifyn bob pum mlynedd yn ddigon, gan ddod â'r cyfanswm i 10 rhifyn. Tybiwyd na fyddai diben mynd y tu hwnt i drothwy'r 20fed ganrif, gan fod tranc y wasg Gymraeg eisoes yn anorfod erbyn hynny. Cynhwysir y rhifyn cyntaf o'r *Faner*, ar 4 Mawrth 1857, er mwyn gosod y newidiadau hwyrach yn eu cyd-destun, ond yna defnyddiwyd gwefan Randomizer.com er mwyn dewis y rhifynnau eraill ar hap a hynny ar ddechrau a chanol bob degawd.

Credaf fod yr astudiaeth hon yn glynu wrth baradeim dadansoddol Dadansoddiad Disgwrs Beirniadol fel y'i trafodir gan Fowler et al. (1979), ac a ddatblygwyd ymhellach gan van Dijk a Fairclough (2003; 2013). Mae'r math hwn o ymchwil ansoddol nid yn unig yn ystyried ystyr y testun a'r modd y mae'n adlewyrchu strwythur cymdeithas, ond mae hefyd yn atgynhyrchu ac atgyfnerthu y strwythur hwnnw. Dywed van Dijk fod dadansoddiad disgwrs beirniadol yn wffftio'r awgrym y gallai ymchwil academiaidd fod yn gwbl wrthrychol, ac yn hytrach y dylid derbyn bod academyddion yn aml yn mynd ati'n fwriadol i ddatgelu'r modd y mae strwythurau disgwrs yn cynnal anghydraddoldeb cymdeithasol y grwpiau sydd o dan sylw (van Dijk, 2003, pp. 352-3). Dywed Peter Teo fod ychwanegu'r gair 'beirniadol' at ddadansoddiad disgwrs yn bwysig iawn: "The word signals the need for analysts to unpack the ideological underpinnings

of discourse that have become so naturalized over time that we begin to treat them as common [and] acceptable [...] In other words, ideology has become common belief or ‘common sense’.”

Yn wir, mae'r modd y maent yn atgynhyrchu'r disgwrs hwn yn anweledig hyd yn oed i'r awduron (Teo, 2000, p. 12). Gwelir felly fod hwn yn fframwaith damcaniaethol defnyddiol iawn ar gyfer dadansoddi'r modd y cynhyrchir disgwrs cenedlaetholdeb, oblegid fel y dywed Billig mae'r cenedlaetholdeb hwnnw, ar ei ffurf 'banal', yn aml iawn yn ymddangos fel 'synnwyr cyffredin' ac felly yn anweledig i ddinasyddion y genedl-wladwriaeth honno.

### *Dewis ar hap*

Nodwyd eisoes y byddwn yn dadansoddi disgwrs rhifyn cyntaf y *Faner* ar 4 Mawrth 1857. Drwy ddefnyddio'r wefan Randomizer.com, dewiswyd ar hap y rhifynnau canlynol o'r *Faner* i'w dadansoddi:

- 21 Chwefror 1860
- 16 Mai 1865
- 9 Mehefin 1870
- 18 Gorffennaf 1875
- 17 Tachwedd 1880
- 24 Ionawr 1885
- 21 Hydref 1890
- 5 Mai 1895
- 22 Mawrth 1900

### *Sylwadau cyffredinol*

Yr hyn a'm trawodd yn gyntaf oedd y gwahaniaeth yn y disgwrs a ddefnyddir yn yr erthyglau golygyddol ar flaen y rhifynnau, a'r erthyglau a geir oddi mewn iddynt. Am eu bod yn gynnwys gwreiddiol, mae tueddiad yn yr erthyglau tudalen flaen i ysgrifennu o ben a phrofiad Cymro, tra bo erthyglau o fewn y papur yn tueddu i fod yn addasiad neu'n gyfieithiad o wybodaeth allanol. O ganlyniad, byddaf yn trafod yr erthyglau golygyddol hyn yn unigol i ddechrau cyn symud ymlaen at gynnwys gweddill y papurau. Rhifynnau penwythnos yw 17 Gorffennaf 1875, 24 Ionawr 1885, a 4 Mai 1895 ac felly nid oeddynt yn ôl arfer y papur yn cynnwys erthygl olygyddol ar y dudalen flaen, gan adael saith erthygl olygyddol arall i'w trafod. Er i'r rhifynnau gael eu dewis ar hap, roedd yn syndod i mi cynifer o'r erthyglau hyn oedd yn mynd i'r afael â phwnc cenedlaetholdeb.

### *4 Mawrth 1857*

Dyma 'gyfarchiad' y *Faner*, a defnyddir 'geiriau bychan' Billig yma mewn modd hynod awgrymog. Mae'r awdur yn dechrau drwy ddweud: "Wrth gyfodi Baner i fyny i'w gwlad, gyda y dysgwyliad y bydd i'w cenedl ymrestru o dani..." (Gee, 1857, p. 1) Galwad 'i'r gâd' a geir yma felly – galwad am ddarllenwyr, yn y bôn - tebyg i'r alwad yn rhifyn cyntaf *Seren Gomer*,<sup>340</sup>

---

<sup>340</sup> Mae'n ddiddorol nodi'r cyferbyniad rhwng erthygl olygyddol gyntaf *Seren Gomer*, â cyfarchiad dechreuol *Baner Cymru*. Er enghraifft, nid yw erthygl olygyddol *Seren Gomer* yn cyfeirio at gynulleidfa y tu allan i'w chyddestun. Yn wir, rhaid gosod y cyd-destun yn glir ar y dechrau; at gymuned ieithyddol "y Cymry" y cyfeirir yma (1814a, p. 1). Gellid awgrymu nad oedd ymwybyddiaeth y Cymry o berthyn i gymuned ddychmygedig yn ddigon pendant yn 1814 i allu cyfeirio atynt heb yn gyntaf eu hadnabod; nid fyddai 'chi' neu 'ni' yn gwneud y tro. Yn ogystal, fel cymuned ieithyddol yn hytrach na chenedl y cyfeirir atynt yma, ac mae'r erthygl olygyddol yn drysu hynny ymhellach drwy gyfeirio atynt fel ei "Frutaniaid hoff ac hygloed" gan awgrymu hunaniaeth sy'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymru (1814a, p. 1). Serch hynny, mae Anderson yn awgrymu mai'r ymwybyddiaeth hon o eraill sydd yn yr un parth ieithyddol â hwy yw *man cychwyn* sawl cenedl: "These fellow-readers, to whom they were connected through print, formed, in their secular, particular, visible invisibility, the embryo of the nationally imagined community" (Anderson, 1991, p. 44). Gwelwn yma yn ogystal rywffaint o'r gwahaniaeth rhwng y cenedlaetholdeb 'poeth' a 'banal' y mae Billig yn cyfeirio ato. Rhaid i'r cyntaf wneud yr ymraniad yn eglur; rhaid tynnu sylw at fodolaeth cymuned, boed yn un ieithyddol, crefyddol neu ddiwylliannol. Mae cenedlaetholdeb 'banal' ar y llaw arall yn cymryd bodolaeth y genedl ac ymwybyddiaeth y darllenydd ohoni yn ganiataol. Dyma'r gwahaniaeth rhwng rhywun yn chwifio baner ei wlad mewn protest – cenedlaetholdeb 'poeth' – a'r un faner yn hongian yn ddi-sylw ar ochr adeilad – cenedlaetholdeb 'banal'. Mae dadansoddi'r 'geiriau bychain' yn y ffordd a gynigir gan Billig yn cynnig mewnwelediad diddorol i ni i'r modd yr oedd golygyddion yn llunio cymunedau dychmygedig.

ond mae'n llawer mwy cynnil wrth gyfarch ei gynulleidfa. Rhagdybir y bydd y darllenydd yn gwybod at ba wlad a pha genedl y mae'n cyfeirio. Anogir y darllenydd i ddychmygu'r genedl yn 'ymrestru' o dan y *Faner*, ac, yn fwy na hynny efallai, i eithrio yn ei feddwl y rheini *na* fyddant yn ymrestru o dani. Gellid dadlau wrth gwrs fod enw'r papur, *Baner Cymru*, yn mynd cryn ffordd at osod y cyfarchiad yn ei gyd-destun. Serch hynny, mae'r cyfarchiad agoriadol yn herfeiddiol am ei fod yn *rhagdybio* bodolaeth cenedl, yn hytrach na dadlau o blaid deffroad gwleidyddol cenedl. Serch hynny, gwelir rywfaint o amwyster yma sydd, rwy'n dadlau, yn nodweddiadol o ddisgwrs y *Faner* drwy gydol y cyfnod a ystyrir yma. Cymysgedd o genedlaetholdeb 'poeth' Cymreig a 'banal' Prydeinig a geir yma. Rhoddir digon o bwyslais ar yr elfen Gymreig er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o Gymru fel cenedl ar wahân sy'n haeddu triniaeth arbennig ar rai materion o bwys, e.e. gwrthwynebiad i'r Eglwys Wladol, ond eto pwysleisir ar yr un pryd ei safle dethol ymysg cenedloedd eraill yr Ymerodraeth Brydeinig. Er y cydnebydd fod Cymru yn genedl ar wahân, awgryma'r awdur yma fod yna rym ehangach sy'n clymu trigolion yr Ymerodraeth at ei gilydd: "Y mae teyrngarwch dan y teyrnasiad presennol yn rhwymedigaeth o'r fath gryfaf ar y deiliaid oll... Hir oes i Victoria!"

Pam y gwneir hyn? Credaf fod dau esboniad. Yn gyntaf, fel yr awgryma Cormack, mae cymhelliad yma dros bwysleisio cenedlaetholdeb 'banal' Prydeinig am eu bod yn gobeithio am y gynulleidfa fwyaf bosib. Pwysleisia'r cyfarchiad fod peryg y gallai'r papur fethu heb gefnogaeth: "Fel anturiaeth fasnachol, y mae yn fawr ac yn bwysig i'r cyhoeddwr; ond y mae, er hynny, yn teimlo yn dra hyderus yn llwyddiant yr anturiaeth" (Gee, 1857, pp. 1-2). Ceir awgrym yn ei ohebiaeth ag Edward Morgans cyn cyhoeddi'r rhifyn cyntaf ei fod am droedio'n ofalus er mwyn osgoi gelyniaethu ei ddarllenwyr. Awgryma Ieuan Wyn Jones yn ei gofiant am Thomas Gee: "teimlai bod angen bod yn weddol wrthrychol ei wleidyddiaeth, a pheidio ymddangos yn rhy radical ar y dechrau o leiaf. Efallai y teimlai fod yn rhaid iddo ennill ei blwy

yn y lle cyntaf” (Jones, 1998, p. 88). Drwy gadw’r ddysgl yn wastad yn y meysydd hyn roedd yn haws cael gwrandawriad mewn meysydd gwleidyddol a chrefyddol eraill, gan gynnwys yr hawl i bleidleisio, gorthrwm yr eglwys sefydledig, pabaeth, a chyfraith y tir. Er nad yw’n crybwyll Brad y Llyfrau Gleision, ceir atsain ohono yn nadl y golygydd fod yr esgobion a’r bonedd yn “ceisio gwarthuddo y genedl drwy ei phortreadu fel cenedl sy’n suddo mewn anwybodaeth, barbariaeth, a llygredigaeth,” honiadau sydd wedi eu “gwrthbrofi yn effeithiol” gan dawelwch, diogelwch, a natur grefyddol y wlad. Nodir hefyd y bydd y papur yn “ymhladd â, a dial ar, bob anghyfiawnder a gormes-lywodraeth”. Er gwaetha’r datganiad cychwynnol o deyrngarwch, felly, mae hefyd yn rhestru nifer o gwynion sydd ganddo am y ffordd annheg y maent yn cael eu trin gan y wladwriaeth a’r eglwys sefydledig. Nid cenedl yn brwydro am annibyniaeth sy’n ymrestru dan y faner ond un sydd eisiau cydnabyddiaeth a chydaddoldeb mewn rhai meysydd. O ganlyniad, er bod y *Faner* yn arddel cenedlaetholdeb Cymreig, cenedlaetholdeb llugoer ydyw ar y gorau, sy’n hapus i gynnal ymdeimlad o Gymreigrwydd er mwyn dadlau y dylai’r Cymry gael eu trin yn wahanol ar *rai* pynciau o bwys i’r papur, ond yn bodloni ar safle’r genedl o fewn yr ymerodraeth ehangach. Dywed T. Gwynn Jones yn ei gofiant ef i Thomas Gee fod y *Faner* wedi cadw yn ffyddlon at amcanion yr erthygl olygyddol hon hyd ei ddydd ef<sup>341</sup> (Jones, 1913, p. 168). Ac fel y gwelir, cynhelir y cydbwysedd hwn rhwng cenedlaetholdeb ‘poeth’ ar bynciau Ymneilltuol, a chenedlaetholdeb Prydeinig ‘banal’ fel arall, drwyddi draw.

## 22 *Chwefror 1860*

---

<sup>341</sup> Gellid awgrymu bod y cyfarchiad hwn sy’n awgrymu’n ddigon gofalus nad yw “ein cynnrychiolaeth seneddol yn y cyflwr gorau y gallai fod eto,” yn wahanol iawn i’r Thomas Gee a welir yn taranu’n hyderus yn erbyn Esgob Llanelyw drwy’r *Faner* tua diwedd ei oes (Gee, 1891, p. 11). Ond er bod yr ieithwedd wedi miniogi rywfaint gyda threigl amser, gellid dadlau bod y parodrwydd i ddadlau o fewn disgwrs cenedlaetholdeb ‘poeth’ ar rai pynciau dethol megis y degwm a datgysylltu yn thema gyson o’r dechrau.

Mae disgwrs cenedlaetholdeb hefyd yn amlwg yn yr ail erthygl olygyddol a ystyrir, ‘Y Cymry, a Threfydd Lloegr’, o 1860; yma mae’r awdur yn mynegi ei bryder bod pobl ifanc yn gadael Cymru, ein “cydgenedl”, ac yn symud i Loegr. “Amgylchwn Gymru o ran ein meddwl, a chawn ryw deulu bob dydd yn prysur baratoi un neu chwaneg i adael cartref,” meddai, gan gonsurio’r gymuned ddychmygedig mewn modd cwbl amlwg. Pwysleisir hunaniaeth ethnogrefyddol y Cymry drwy gydol yr erthygl, a hynny drwy wrthygyferbynnu moesoldeb y Cymry Ymneilltuol a’r Saeson, nad ydyw eu “Protestaniaeth Seisonig prin ddim wedi cyffwrdd â’r dosbarth isaf eto.”<sup>342</sup> Mae cyferbyniad hefyd rhwng y Cymry a’u cydwladwyr sydd wedi mynd dros y ffin i Loegr, e.e. rhennir ystadegau “arswydus” o Lerpwl a ddengys bod 50,000 o Gymry yn Lerpwl bellach yn “baganiaid llwyr”. Er mai fel rhybudd y bwriedir hyn, sgil-effaith y cyfosodiad yw pwysleisio, unwaith eto, natur drylwyr grefyddol, ac Ymneilltuol, y Cymry sy’n trigo ar dir Cymru, a’r modd y gall dod i gyffyrddiad â’r Saeson erydu eu moesau. Ymddengys mai rhan o’r pryder yw y bydd y Cymry hyn yn dychwelyd adref yn Eglwyswyr. Y gwrthwenwyn a awgrymir gan y *Faner* yw i’r bobl ifainc hyn gadw eu Cymraeg. Fe’u hanogir i ddysgu’r Saesneg, “ond nid ar draul claddu y Gymraeg, a’u harferion cenedlaethol a chrefyddol, yn fyw chwaith... Peidiwch â bod yn rhy frysiog i wneyd y Cymry yn Seison, rhag i chwi trwy hyny niweidio eu defnyddioldeb dros Dduw a dynion.” Yn fwyaf diddorol o bosib, mae’n llwyddo i bwysleisio’r ddelfryd geidwadol hon mewn ieithwedd ryddfrydol, gan fynnu bod llwyddiant y Cymry hyn yn Lloegr yn brawf “nad ydyw Rhagluniaeth fawr y nef ddim am i ni fel cenedl ladd ein hiaith a’n harferion...”<sup>343</sup> Serch hynny mae’r erthygl yn syrthio i gorlan y gyfranogaeth ramantus a drafodwyd ym mhennod chwech – cyfosodir trefydd mawr byrlymus Lloegr â delwedd ystrydebol o’r “bwthyn y magwyd hwynt ynddo, a’r dolydd a’r llethri y buont yn chwareu fel ŵyn ar hyd-ddynt...” Byrdwn yr erthygl yw rhybuddio’r darllenwyr ifainc hyn i

---

<sup>342</sup> Ergyd arall i’r Eglwys Wladol, gan bwysleisio eu hanallu honedig i wneud y gwaith caib a rhaw wrth achub eneidiau.

<sup>343</sup> Dywed y ceir amryw o Saeson yn talu ardreth i Gymry ar eu tai yn y trefi hyn, gan brofi nad gwybodaeth o’r Saesneg yn unig sy’n sicrhau llwyddiant masnachol, ac nad yw gwybodaeth o’r Gymraeg yn atalfa iddo.

wneud argraff dda ar y Saeson, a drwy hynny sicrhau nad yw llwybr eu cyd-Gymry Ymneilltuol at y ‘craidd metropolitaidd’ ar gau: “Gwyddom am rai palasdai wedi eu cloi rhag holl ferched y genedl, o herwydd camymddygiad un neu ddwy o forynion Cymreig...” Mae disgwrs cenedlaetholdeb yn gwbl amlwg yn yr erthygl felly, gan bwysleisio hunaniaeth ethnogrefyddol y Cymry a’i chyfosod â hunaniaeth y Saeson. Pwysleisir pwysigrwydd y Gymraeg, ond fel gwarchodfur yn erbyn dylanwad pechadurus y Saesneg yn unig. Ond ar yr un pryd mae yna gydnabyddiaeth amlwg o ragoriaeth y Saeson ym maes masnach, ac awydd brwdfrydig i’r Cymry ymuno â nhw yn hynny o beth a phrofi mai mantais, nid anfantais, yw eu Hymneilltuaeth (1860, pp. 3-4).

#### *17 Mai 1865*

Mae’r erthygl nesaf a ddewiswyd ar hap yn enghraifft amlwg o ddefnyddio disgwrs cenedlaetholdeb er mwyn dylanwadu ar ymddygiad y darllenwyr. Mae “Cynrychiolwyr Cymru a’u Pleidleisiau” yn ymdrech i asio cenedlaetholdeb Cymreig ag amcanion yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol. I ddechrau beirniadir “meddalrwydd a llibyndod” yr Ymneilltuwyr sy’n “gwrthod sefyll fel dynion dros eu hiawnderau”. Ond rhwber halen cenedlaetholgar yn y briw drwy eu cymharu â’r Gwyddelod, sy’n “curo y Cymry o ddigon yn y gwroldeb a’r penderfyniad a amlygant ar ddydd etholiad”. Gelwir ar eu darllenwyr i weithredu “yn enw anrhydedd y Genedl, ac yn enw bri Ymneillduol”. Ceir cyfeiriad yn ogystal at eu “hystadegau crefyddol”. Fel y gwna Henry Richard yn ddiweddarach, felly, mae yna ymdrech i bwysleisio bod yr Ymneilltuwyr yn y mwyafrif, ac felly mai hwy yw’r ‘gwir’ Gymry, ac nad yw’r Ceidwadwyr Eglwysig yn gynrychiolad teg o’u hetholwyr. Ond er y defnyddir disgwrs cenedlaetholdeb mewn modd digon amlwg yma, gwasanaethu brwydr ehangach yn y Deyrnas Unedig rhwng Ymneilltuaeth a Rhyddfrydiaeth ar y naill ochr a’r Eglwys Wladol a Cheidwadaeth ar y llall yw’r nod. Gwneud eu rhan yn y frwydr hon y dylai’r Cymry, rhag gadael eu hochr nhw i lawr,

ac ni cheir awgrym y dylai Cymru feddu ar sefydliadau gwleidyddol ar wahân i'r craidd metropolitanaidd. Gwedd ar gyfranogaeth a geir yma eto, felly, wrth i'r awdur gymharu ymdrechion y Cymry yn anffafriol â thrigolion gweddill y deyrnas. Er gwaethaf purdeb eu moesau, dywed fod "parthau eraill y deyrnas, lle mae Ymneillduaeth yn weddol flodeuog, yn gwriddo o'n herwydd..." Roeddent, meddai, yn "colli eu safle ymysg deiliaid eraill y frenhines: ac y mae peryg i'n henw fynd yn felldith a rhêg yngolwg rhyddgarwyr Prydain Fawr." Nid oes gwrthwynebiad yma i sefydliadau'r wladwriaeth, dim ond gresynu bod y Cymry yn colli eu cyfle i ddylanwadu arnynt. Awgrymir mai pechod pennaf y Ceidwadwyr yw peidio â defnyddio'r grym sydd ganddynt yn y senedd i ddylanwadu er lles Cymru, nid bod y sefydliadau hyn yn analluog i wneud hynny. Dywed am un cyn-AS, pe bai "wedi cymmeryd hanner y dyddordeb yn helyntion ei wlad ei hun ag a gymmerodd yng nghyfansoddiad a dygiad ymlaen y senedd, buasai ei wlad yn falch ohono, a buasai ei enw yn anfarwol." Er mai at y Cymry yr apelir yma, felly, nid Saeson yw eu gwrthwynebwyr ond "y Tory uchel-eglwysol a gwrth-ymneillduol a anfonir i Dŷ y Cyffredin i lefaru a phleidleisio yn eu henwau", ac sydd yna yn pleidleisio "yn erbyn agor Rhydychen i'r Ymneilltuwyr!" Y gŵyn yma yw eu bod yn rhwystro rhyddid crefyddol a chyfleoedd addysgiadol yr Ymneilltuwyr. Mae yna apêl at deimlad cenedlaethol, felly, ond gwneir hynny yng nghyd-destun cystadleuaeth rhwng Ymneilltuwyr Rhyddfrydol ac Eglwyswyr Ceidwadol am oruchafiaeth o fewn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol (1865, p. 3).

### *8 Mehefin 1870*

Mae'r erthygl olygyddol nesaf a ddewiswyd ar hap, ar droseddau ac addysg, yn frith o'r math o 'eiriau bychan' a drafodir gan Billig, ond yn yr achos hwn y canlyniad fyddai amlygu ymwybyddiaeth y Cymry o fod yn rhan o gymuned ddychmygedig ehangach y Deyrnas Unedig. Yn y frawddeg gyntaf yn unig ceir tair enghraifft o'r geiriau di-gyd-destun a bwysleisir



gan Billig. Cyfeirir at “Mr. Gladstone” heb hyd yn oed hysbysu’r darllenydd mai ef yw’r Prif Weinidog, a thrafodir y “llywodraeth” a’r “Tŷ” heb gyd-destun chwaith. Cymerir bod y darllenydd yn ymwybodol o’r cyd-destun ehangach, wrth ddechrau: “Yn ystod y ddadl ar yr ail ddarlleniad o’r Mesur Addysg...” Mae hon yn enghraifft amlwg o’r modd y mae papur newydd, yn nhyb Anderson, yn creu ymdeimlad o gymuned ddychmygedig – mae Mr. Gladstone yn un o gymeriadau plot y stori genedlaethol, ac fe gymerir yn ganiataol fod y darllenydd eisoes yn dilyn yr hanes ac yn tybio ei fod yn berthnasol iddo ef a gweddill trigolion y gymuned ddychmygedig y mae’n rhan ohoni. Nid oes dolen amlwg rhwng y digwyddiadau hyn, Mr. Gladstone, ei fesur, perthnasedd y mesur i weddill y genedl, a’r darllenydd, heblaw am y darlun cenedlaethol hwnnw sy’n bodoli yn meddwl yr unigolyn sy’n darllen y geiriau (Anderson, 1991, pp. 35-6). Mae gweddill yr erthygl hefyd yn frith o gyfeiriadau at sefydliadau Prydeinig; “ei Mawrhydi”, “y Swyddfa Addysg” ayyb, yn ogystal ag at “y wlad” wrth gyfeirio at y DU yn ei chyfanrwydd. Nid enwir Cymru nac unrhyw leoliad o’i mewn, ond cyfeirir at wrthwynebiad “Pwyllgor Mesur Addysg Manchester” a “Chynghrair Addysg Birmingham” a hefyd at gyfarfod yn Bradford. Unwaith eto, o fewn y cyd-destun Prydeinig hwn, amlygir yn hytrach yr hollt rhwng yr Ymneilltuwyr a’r Eglwyswyr ynglŷn â’r gwelliannau y dylid eu gwneud i’r Mesur. Cyfeirir yn gyson at “ni” ond gan olygu safbwynt yr Ymneilltuwyr: “Dyma sydd arnom ei eisiau... un gyfundrefn fawr wir genedlaethol o addysg, drwy yr hon y bydd plant pawb yn derbyn yr un manteision a’u gilydd, pa beth bynnag fydd daliadau crefyddol eu rhieni. Ond y rhwystr mawr sydd ar ein ffordd yw’r Eglwys Sefydledig” (1870, p. 3). Mae’r erthygl yn enghraifft cystal â’r un arall o’r modd yr oedd bodolaeth senedd ddeddfwriaethol y tu hwnt i ffiniau Cymru o reidrwydd yn creu ymdeimlad o gymuned ddychmygedig ehangach. O ganlyniad, daw’r gwrthdaro o fewn yr erthygl o sefydliadau traws-ffiniol yn hytrach na rhai a fyddai yn amlygu hollt rhwng Cymru a’r genedl-wladwriaeth ganolog.

Erthygl olygyddol o naws gwleidyddol hynod weniethus a geir yma, yn canu clodydd William Rathbone – dyn sydd yn “dywysog ymysg y tywysogion” – wrth iddo gamu i’r adwy fel ymgeisydd Rhyddfrydol yn Sir Gaernarfon yn sgil ymadawiad Watkin Williams. Yn yr un modd â’r erthygl ddiwethaf, gosodir yr erthygl o fewn ei chyd-destun Prydeinig; “y senedd,” “y Llywodraeth” ayyb. Tra bo’r hollt rhwng y Rhyddfrydwyr Ymneilltuol a’r Ceidwadwyr Eglwysig yn bresennol, yr hyn sydd fwyaf diddorol serch hynny yw’r modd y mae’r erthygl hon yn ceisio *diystyru*’r nodweddion hynny a fyddai fel arall yn destun hollt diwylliannol, h.y. y pwyslais ar y cyferbyniad rhwng Cymru a Lloegr neu rhwng yr enwadau – a hynny oherwydd bod Rathbone yn dyfod o Lerpwl ac yn Undodwr. Yn hytrach na’r disgwrs ‘ni’ a ‘nhw’ heb gyd-destun sy’n nodweddiadol o genedlaetholdeb ethnogrefyddol y cyfnod, cawn yr awdur yn gosod nodweddion yr ymgeisydd yn eu cyd-destun, gan geisio eu cyfiawnhau. Er enghraifft, dywed am ei grefydd: “... nid oes anghenrheidrwydd i ni guddio y ffaith mai Undodwr ydyw efe. Achos rhyngddo ef a’i Greawdwr ydyw hwn, heb fod a fyno o gwbl â chynrychiolaeth Sir Gaernarfon – er ei fod yn dra tebyg y bydd y Toriaid mor an-foneddigaid fel y gwnant ddefnydd o hyn er mwyn ceisio taflu llwch i lygaid y wlad.” Yn yr un modd, mae’r awdur yn teimlo’r angen i bwysleisio’r hyn sydd gan yr ymgeisydd yn gyffredin â’i gyd-Gymry. Cyfiawnheir ei gymhwyster i gynrychioli sedd yng Nghymru ar y sail bod ei sedd flaenorol, Lerpwl, hefyd yn gartref i nifer o Gymry, ac fe bwysleisir ei ddiddordeb mewn addysg a llenyddiaeth Gymraeg, a’i ymroddiad i sicrhau bod y llywodraeth yn ariannu addysg uwch yng Nghymru. Nodir hefyd fod ei ferch wedi marw o ganlyniad i “hen afiechyd twyllodrus sydd yn ddigon adnabyddus i drigolion Cymru – y ddarfodedigaeth”. Digon tila yw’r cysylltiadau hyn ar yr olwg gyntaf, ond mae’r ffaith i’r awdur deimlo’r rheidrwydd i osod y pethau hyn yn eu cyd-destun yn dangos ymwybyddiaeth o’r modd y gallai’r cenedlaetholdeb Cymreig a bwysleisir ganddynt mewn cyd-destunau eraill filwrio yn erbyn ymgeisyddiaeth Rathbone.

Ond wrth drafod y frwydr etholiadol rhwng y Rhyddfrydwyr a'r Ceidwadwyr, dychwelir i ddisgwrs y 'ni' a 'hwy' unwaith eto. Cyfosodir y Rhyddfrydwyr "[g]oleuedig" ac "annibynnol" gyda'r Toriaid "[g]reddfol ac eithafol" ac fe anogir pobl Sir Gaernarfon i daflu "[c]elwyddau y Toriaid yn ôl yn eu gwynebau". Yn wir, fel y gwelir uchod, anogir y darllenydd i beidio â gwahaniaethu yn erbyn yr ymgeisydd oherwydd ei Undodiaeth ar y sail mai dyna'r union math o agwedd y byddent 'hwy', y Toriaid, yn ei chymryd! Nodwedd arall ar yr erthygl hon yw bod y gyfranogaeth unwaith eto'n amlwg, e.e. wrth drafod y rhesymau pam y bu i Watkin Williams gamu o'r neilltu, dywed: "y mae Sir Gaernarfon wedi cael anrhydedd arall, gan fod y Llywodraeth wedi rhoddi prawf o'i chymmeradwyaeth o hono trwy ei bennodi yn un o brif farnwyr y deyrnas... Y mae yn wir fod Sir Gaernarfon drwy hyn wedi colli gwasanaeth Mr. Williams, ond y mae hi wedi ei hanrhydeddu drwy ei ddyrchafiad ef..." Anrhydedd i Gaernarfon yn ogystal, yn nhyb yr awdur, yw bod dyn megis Rathbone wedi dymuno dod yn ymgeisydd i'r sedd. Ef yw'r dyn mwyaf cymwys "o fewn Prydain Fawr y gallasai Caernarfon ei gael i'w chynrychioli." "Pa anrhydedd mwy y mae'n bossibl i Sir Gaernarfon ei meddu na chael Mr. Rathbone i'w chynrychioli?" Nid yn unig y mae dyn a gynrychiolai sedd yng Nghymru wedi ei ddyrchafu i gylchoedd uchaf y craidd metropolitaidd, ond mae un o oreuon y cylch hwnnw wedi dymuno llenwi ei sedd. Yma, gwelir parodrwydd i ddefnyddio ymdeimlad o falchder Prydeinig er mwyn argyhoeddi'r darllenydd i gefnogi safbwynt golygyddol y papur (1880, pp. 3-4).

## *22 Hydref 1890*

Parhad yw'r erthygl olygyddol hon o ymrafael personol Thomas Gee â Deon Llanelwy. Ceir dadl yma o blaid gwrthwynebiad yr Ymneilltuwyr i'r Eglwys Sefydledig, gan gyfiawnhau Rhyfel y Degwm a datgysylltu'r Eglwys. Afraid dweud y trafodir 'y senedd', 'Mr. Gladstone' ayyb unwaith eto yn ddi-gyd-destun. Serch hynny, yr hyn a welir yma yw ymdrech fwriadol i

yrro hollt ethnogrefyddol rhwng y Cymry a'r Saeson ar y pwnc, a hynny drwy bwysleisio natur estron yr Eglwys. Mae'r erthygl yn cynnwys tair prif ddadl, un yn geidwadol a dwy yn rhyddfrydol. Y ddadl geidwadol yw y dylid cynnal gwrthwynebiad honedig hanesyddol y Cymry i Babyddiaeth - honnir bod yr Eglwys Sefydledig wedi eu "[c]yssylltu... wrth olwynion rhydlyd ac afrosgo cerbyd yr ymherodraeth Rufeinig". Dysgir "egwyddorion Pabyddiaeth" yn yr ysgolion cenedlaethol "mor wyneb agored a phe y dysgent athrawiaethau Protestannaidd!" Y ddadl ryddfrydol gyntaf yw bod y clerigwyr sydd wedi eu penodi i blwyfi Cymru yn elwa o'r Degwm er nad ydynt yn meddu ar unrhyw gymwysterau i gyflawni'r gwaith. Yr ail yw'r ddadl genedlaetholgar ddemocrataidd. Hyd yn oed pe bai'r Ymneilltuwyr mewn lleiafrif bychan, fe fyddent yn parhau i gefnogi datgysylltu, meddai, ond "y mae cael nifer cymmhariaethol o Eglwyswyr ac Ymneillduwyr, yn ein sefyllfa bresennol ni, yn angenrheidiol er mwyn argyhoeddi ein gwleidyddwyr, ac etholwyr y rhanau eraill o'r deyrnas, fod gan yr hen genedl 'hawl foesol' i alw arnynt, un ac oll, i'n cynnorthwyo..." Honnir bod "mwyafrif mawr o'r genedl" wedi galw am Ddatgysylltiad, wrth fod Rhyddfrydwyr wedi eu hethol i 28 o'r 34 sedd yng Nghymru a Sir Fynwy, a bod mwy yn perthyn i enwadau Ymneilltuol nag i'r Eglwys. Ar y sail honno, yr hyn a welir yma felly yw bod y disgwrs Ymneilltuwyr yn erbyn Eglwyswyr a disgwrs cenedlaetholdeb wedi eu cyfuno. Cyferbynnir Cymru â Lloegr er mwyn gwrthgyferbynnu llwyddiant yr Ymneilltuwyr yng Nghymru â methiant honedig yr Eglwys yn Lloegr, e.e.: "Y mae'r effeithiau i'w canfod yn eglur yn y ffaith fod gwerin Cymru yn meddu mwy o wybodaeth Ysgrythurol, ac yn deall egwyddorion crefydd yn llawer iawn gwell na gwerin Lloegr." Rhoddir yr 'Eglwys yng Nghymru' mewn dyfynodau sengl, a chyfeirir ati fel "yr Estrones" yn fynych drwy gydol yr erthygl (Gee, 1890, pp. 3-4).

*21 Mawrth 1900*

Adrodd ar ddigwyddiadau Ail Ryfel y Boer yn neheudir Affrica a wna'r erthygl olygyddol hon, ac nid oes angen mynd i chwilio am y 'geiriau bychain' am dystiolaeth o genedlaetholdeb Prydeinig, am ei bod yn gwbl amlwg. Dywed yr erthygl fod "gorfoledd etto yn ymdaenu dros yr holl wlad o herwydd goresgyniad cyfran helaeth o'r Dalaith Rydd. Y mae ei phrifddinas, erbyn hyn, wedi syrthio i ddwyllaw y fyddin Brydeinig, a hynny yn rhwydd a di-drafferth." Dyma ochr arall y geiniog i genedlaetholdeb 'banal' Billig, sef yr amgylchiadau prin hynny lle mae'r cenedlaetholdeb hwnnw sydd wedi ei gynnal gyhyd yn ffrwtian i'r wyneb ar ffurf cenedlaetholdeb 'poeth': "The intermittent crises depend on existing ideological foundations" (Billig, 1995, p. 5). Nid yw'n syndod, felly, o ddadansoddi'r modd y mae disgwrs cenedlaetholdeb Prydeinig yn treiddio drwy'r *Faner*, eu bod yn croesawu'r "fuddugoliaeth fawr hon" ac yn hapus i nodi bod y milwyr wedi cael "y derbyniad mwyaf croesawgar yn bossibl gan ei thrigolion" a oedd yn falch o gael derbyn trefn newydd y Prydeinwyr. Wffir honiad y Bwriaid nad oeddynt "yn coleddu y gronyn lleiaf o fwriad nac awydd am ddinystrio yr uchafiaeth Brydeinig yn Neheubarth Affrica..."<sup>344</sup> (1900, p. 3) Ni cheir dim yma ond disgwrs cenedlaetholdeb Prydeinig diledryw.

### *Cynnwys yr erthyglau*

Wedi dadansoddi'r erthyglau golygyddol yn drylwyr, symudais ymlaen at ddadansoddi gweddill y papurau a ddewiswyd, yn ogystal â'r papurau penwythnosol. Oherwydd maint a helaethder y cynnwys a geir o fewn 10 rhifyn, ni fydd modd trafod y cyfan yn fanwl, dim ond rhoi sylw i ambell erthygl sy'n ddarluniadol o'r cyfan. Ond wrth gynnig trosolwg o'r disgwrs gwelir bod y cyfan yn tueddu i gadarnhau'r un argraffiadau. Yr hyn a oedd yn drawiadol i ddechrau oedd cyn lleied o newyddion 'materion cyfoes' am Gymru a gynhwysir yn y

---

<sup>344</sup> Dyma'r union fath o bropaganda y rhybuddiodd Emrys ap Iwan yn ei gylch (ap Iwan, 1879, p. 18). Gwyddom erbyn hyn fod yr Arglwydd Roberts yn gelfydd iawn ei feistrolaeth dros y wasg Brydeinig (Atwood, 2015, pp. 201-2), ac ni cheir awgrym bod y *Faner* yn amau dim am y wybodaeth hon y byddant yn gyfan gwbl ddibynnol arni.

rhifynnau o gwbl, a bod tueddiad i'w gwthio i ganol neu gefn y papur, gan roi blaenoriaeth i newyddion Prydeinig neu ryngwladol tua'r blaen. Dyma grynhoad bras o faint o newyddion 'materion cyfoes' am Gymru a geir ym mhob papur, h.y. newyddion sy'n ymdrin â Chymru yn benodol ac sy'n ymwneud â phynciau megis gwleidyddiaeth, adroddiadau o lysoedd barn, damweiniau, cyfarfodydd, ayyb, yn hytrach na newyddion a thrafodaethau o natur grefyddol neu gelfyddydol (ystyrid adroddiadau yn ymwneud â gweithgaredd gwleidyddol ar faterion crefyddol, e.e. datgysylltu'r eglwys yn newyddion 'materion cyfoes'). Fel y nodwyd eisoes, oherwydd bod natur grwydrol yr erthyglau yn golygu nad oes modd eu rhannu yn categorïau pendant, barn ansoddol yr awdur yw'r dyfarniad hwn. Hepgorwyd yr erthyglau golygyddol blaen, a'r hysbysebion, o'r amcangyfrif:

<b>Papur Newydd</b>	<b>Colofnau 'Materion Cyfoes' am Gymru</b>	<b>Canran</b>
4 Mawrth 1857	2.1/20.4	10.3%
22 Chwefror 1860	4.95/48	10.3%
17 Mai 1865	4.2/46.75	9%
8 Mehefin 1870	6.45/44.75	14.4%
17 Gorffennaf 1875*	4.75/27.75	17.1%
17 Tachwedd 1880	9.8/42.9	22.8%
24 Ionawr 1885*	10.45/25.1	41.6%
22 Hydref 1890	16.75/51.5	32.5%
4 Mai 1895*	14.25/28.75	49.6%
21 Mawrth 1900	20.55/51.9	39.6%

Gwelir yma fod cynnydd sylweddol mewn newyddion ‘materion cyfoes’ o Gymru yn ystod y bron i hanner canrif o ddechreuad y *Faner* hyd droad y ganrif, o ran nifer y colofnau a hefyd y ganran o holl gynnwys y papur. Awgrymwyd eisoes fod cydberthynas rhwng y gallu i gasglu newyddion o Gymru a safon rhwydwaith trafndiaeth fewnol a nifer sefydliadau’r wlad, ac mae’r ffigyrau hyn fel pe baent yn cefnogi hynny. Dengys y ffigyrau bod y canrannau uchaf o newyddion ‘materion cyfoes’ o Gymru yn y rhifynnau penwythnos (nodwyd gan \*), sydd yn sylweddol fyrrach na’r rhifynnau yn yr wythnos o’r un cyfnod. Serch hynny, roedd newyddion ‘materion cyfoes’ am Gymru yn cynrychioli lleiafrif o gynnwys y papurau hyn ym mhob rhifyn a ystyriwyd, yn sylweddol felly cyn 1885.

Edrychais hefyd ar sut yr oedd y newyddion wedi eu trefnu o fewn y papur. Hyd yn oed yn y rhifynnau hynny lle’r oedd y newyddion o Gymru yn gymharol doreithiog, roedd tueddiad i’w gwthio tuag at ganol a chefn y papur, gan roi blaenoriaeth yn y tudalennau cyntaf i newyddion Prydeinig a Thramor.<sup>345</sup> Mae tri rheswm posib am hyn; yn gyntaf bod y newyddion Cymreig

---

<sup>345</sup> Yn rhifyn 1857, cleddir y ‘materion cyfoes’ o Gymru ar dudalen 7 ac 8; yn rhifyn 1860, ceir golofn o newyddion o’r deheudir ar dudalen 5, ond cynhwysir y gweddill ar dudalennau 9, 10, 12 a 15. Yn rhifyn 1865, ceir pytau am Gymru yma a thraw o dudalennau 4 i 8, ond mae’r swmp ohono wedi ei esgymuno i dudalen 9. Mae’r ymdriniaeth ym mhapur 1870 ychydig yn fwy cytbwys drwy gydol y papur, gyda cholofnau yn trafod materion gwleidyddol perthnasol i Gymru ar y dudalen gyntaf a thudalen 5. Er mai dim ond 8 tudalen o gynnwys sydd yn rhifyn penwythnos 1875, rhoddir y rhan fwyaf o’r pedair tudalen cyntaf, y tu hwnt i ambell i bwt, i newyddion Prydeinig a Thramor, gan gadw’r rhan fwyaf o’r newyddion Cymreig yn y pedair tudalen olaf. Ceir yn rhifyn 1880 am y tro cyntaf golofnau swmpus o newyddion ‘materion cyfoes’ o Gymru, ond unwaith eto maent oll wedi eu gwasgu i ganol a chefn y papur. Mae dau bwt byr ar dudalen 4, ond yna rhaid troi at dudalennau 7, ac yna 9-12, am weddill y cynnwys. Mae rhifyn 1885 yn un penwythnosol arall, wyth tudalen o hyd, ond fel yn y papurau canol wythnos mae’r ymdriniaeth â materion o Gymru fel pe bai’n cynyddu wrth i’r darlennydd dreiddio’n ddyfnach i’r papur. O’r 14 stori ar y dudalen flaen, dim ond un a geir o Gymru, ac mae’r unig stori o Gymru ar y dudalen nesaf yn ailadrodd yr un hanes. Mae swm yr ymdriniaeth â Chymru yn cynyddu o dudalen i dudalen – gan gyrraedd uchafbwynt gyda phum colofn a chwarter ar dudalennau 4 a 5. Cedwir at yr un patrwm o wasgu’r newyddion o Gymru i ganol a chefn y papur yn rhifyn canol wythnos 1890. Ceir straeon ‘materion cyfoes’ ar dudalennau 6, 11 ac 14, ond mae mwyafrif y cynnwys ar dudalennau 9-10 a 12-14. Mae rhifyn 1895 yn rhifyn penwythnos arall, ac er mai dim ond chwe thudalen a geir neilltuir bron y cwbl i newyddion yn ymwneud â Chymru, ac eithrio’r dudalen flaen, lle rhoddir lle blaenaf i newyddion tramor a Phrydeinig (heblaw am ddau bwt byr sy’n berthnasol i Gymru), a’r dudalen olaf ond un, lle ceir bron i dudalen o newyddion o’r Senedd. Gwesgerir y newyddion o Gymru drwy gydol rhifyn 1900 o’r bedwaredd dudalen ymlaen, gyda’r rhan fwyaf o’r cynnwys ar dudalennau 6, 9 a 12. Gelhwyrach yr ystumwyd y canlyniadau ryw fymryn gan y ffaith bod colofn ‘Y Senedd’ ar dudalen 6 yn trafod cau tafarndai yn Sir Fynwy, a thrafodir y pwnc hwn eto’n helaeth ar dudalen 9. Ond y tueddiad a welwn ym mhob un o’r papurau hyn, yw bod newyddion Prydeinig a thramor yn cael blaenoriaeth dros newyddion o Gymru o ran eu trefn o fewn y papur, gan gymryd y byddai’r darlennydd yn fwy tebygol o ddarllen y straeon oedd tua’r blaen.

yn cael eu hystyried yn unigryw i'r papur, ac felly na thymia'r golygydd bod angen iddynt fod mor ddiweddar â newyddion Prydeinig a thramor, lle mae'n cystadlu â phapurau Prydeinig. O ganlyniad, gosodir newyddion o Gymru yng nghanol y papur i ddechrau, cyn rhoi lle yn y tudalennau blaen i'r newyddion diweddaraf o Brydain a thramor wrth iddo gyrraedd y swyddfa, a hynny cyn mynd i'r wasg. Mae'r disgrifiad a geir o lunio papur newydd yn y *Traethodydd* yn awgrymu mai'r cynnwys o bapurau newydd eraill Prydeinig a thramor oedd yr olaf i'w gysodi (*Y Traethodydd*, 1860, pp. 205-206). Yr ail bosibilrwydd yw nad oedd/nad ystyrid bod y newyddion o Gymru o gystal safon â'r newyddion o weddill y Deyrnas Unedig, ac felly cleddid ef yn nyfnach yn y papur. Y trydydd posibilrwydd yw nad ystyrid newyddion o Gymru, yn ôl gwerthoedd newyddion y golygyddion, mor bwysig â newyddion o Brydain. Dichon mai cyfuniad o'r ffactorau hyn a oedd yn gyfrifol am y patrwm cyson a welir yn y *Faner* dros y degawdau.

Trown yn awr at y disgwrs a ddefnyddir yn y papurau, a allai ddylanwadu ar ymwybyddiaeth y darlennydd o'r gymuned ddychmygedig y perthyna iddi. Yn yr un modd ag yn yr erthyglau golygyddol, teg fyddai dweud mai amwyster sy'n nodweddu disgwrs y *Faner* wrth drafod y gymuned ddychmygedig y mae ei darllenwyr yn rhan ohoni. Crëir ymdeimlad o gymuned ddychmygedig Cymreig ar brydiau, ond un sy'n cwmpasu'r Deyrnas Unedig gyfan mewn erthyglau eraill. Dichon fod rhywfaint o'r amwyster hwnnw'n deillio o'r modd hap a damwain y rhoddir y papur at ei gilydd o gyfraniadau'r golygyddion, ysgrifau gohebwyrr eraill a lloffion o bapurau eraill. Er gwaetha'r ymdrechion i gorlannu meysydd dan benawdau penodol, mae diffyg cysondeb amlwg. Ailadroddir straeon yn aml ar dudalennau gwahanol o fewn yr un rhifyn, ac mewn rhai achosion, e.e. yn rhifyn 1885 ceir hanes llong yn suddo oddi ar Gaergybi ar dudalen 1 ac eto ar dudalen 2, mae'r straeon fel pe baent wedi eu hysgrifennu ar adegau



gwahanol, ac yn gwrth-ddweud ei gilydd.<sup>346</sup> Ni cheir yr argraff bod y cyfan yn ffrwyth un weledigaeth olygyddol drwyddo draw, ac o ganlyniad i'r haprwydd hwn, nid oes cysondeb chwaith yn y disgwrs a ddefnyddir wrth drafod cenedlaetholdeb.

### *Teitlau a Chategoriâu*

Ymysg nodweddion amlycaf y papur mae'r tueddiad i osod y straeon dan gategoriâu sy'n nodi eu tarddiad. Er y cynhwysir newyddion 'materion cyfoes' o Gymru yn aml dan y pennawd 'Newyddion Cymreig', ceir hefyd yr arfer, y soniwyd amdano eisoes, o rannu newyddion dan is-benawdau 'Cartrefol' a 'Tramor', gan gynnwys newyddion o'r Deyrnas Unedig a Chymru fel ei gilydd o dan y pennawd 'Cartrefol'. Ceir hefyd golofnau 'Newyddion Cyffredinol' neu 'Newyddion Diweddaraf', lle cymysgir straeon o Gymru, y Deyrnas Unedig a gweddill y byd. Ond tra enwir y wlad wrth gyfeirio at unrhyw wlad tramor yn y colofnau hyn, nid yw'n gwahaniaethu rhwng newyddion o Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Rhestrir rhai erthyglau yn ôl eu tarddiad daearyddol dan benawdau, e.e. 'Bethesda', 'Birkenhead', ond heb ddweud a ydynt yng Nghymru neu Loegr. O ganlyniad, gellid awgrymu y byddai'r arferion hyn yn hybu ymdeimlad cryf yn y darlennydd o berthyn i gymuned ddychmygedig Brydeinig, gan wahaniaethu rhwng yr ardaloedd 'cartrefol' nad oedd angen eu gosod yn eu cyd-destun genedlaethol, a'r 'arall' tramor.

### *'Gogledd/Deheu'*

Yn ogystal â chreu ymdeimlad o berthyn i wlad ehangach na Chymru, diau y byddai'r arfer o rannu newyddion o'r wlad rhwng y 'Gogledd' a'r 'Deheudir' hefyd wedi atal darllenwyr rhag ystyried Cymru yn gymuned ddychmygedig gyflawn ynndi'i hunain. Gosodir gohebiaeth neu

---

<sup>346</sup> Eto, yn rhifyn 1890 ceir hanes achos llys ynghlwm wrth gasglu'r Degwm yn Sir Benfro, ac yn y golofn nesaf ceir yr un hanes eto wedi ei ysgrifennu gan ohebydd gwahanol.

newyddion o dde'r wlad yn fynych mewn colofnau ar wahân i newyddion o'r gogledd.<sup>347</sup> Problemus hefyd yw'r arfer o gynnwys newyddion o fewn 'Gogledd' neu 'Ddeheudir' Cymru sydd mewn gwirionedd yn ymwneud â digwyddiadau dros y ffin yn Lloegr. Er enghraifft, dan is-bennawd 'y Gogledd' yn rhifyn 1885 ceir stori am briodas mab y Prif Weinidog, y Parch. Stephen E. Gladstone, yn Lerpwl, ac fe geir hefyd un hanesyn o Swydd Amwythig (1885, p. 4). Dan golofn 'y Deheudir' yn rhifyn 1900 cynhwysir pwt o bapur newydd y *South Wales Daily News* sydd yn ymwneud â gweithgareddau ASau Rhyddfrydol Lloegr (1890, p. 13). Yn yr un rhifyn, dan y pennawd 'Newyddion o'r Deheu', trafodir ymateb trigolion de Cymru i lwyddiant y fyddin Brydeinig yn ne Affrica (p. 5). Er bod y papur newydd felly yn tynnu ffin bendant rhwng gogledd a de Cymru ym meddyliau'r darllenwyr, mae'r ffin ddwyreiniol sy'n cysylltu'r parthau hyn â gweddill y Deyrnas Unedig yn un fwy annelwig o lawer. Efallai nad yw'n syndod, o ystyried yr hyn a drafodwyd eisoes am rwydwaith trafndiaeth y wlad a'r diffyg sefydliadau i uno'r genedl, bod y cysylltiadau trawsffiniol yn gryfach na'r rheini rhwng dau begwn y wlad. Ceir yr argraff y rhoddir sylw i ddinasoedd Lloegr am eu bod yn fan cyfarfod ac yn berthnasol i'r gogledd a'r de fel ei gilydd.<sup>348</sup>

### 'Y Senedd'

Un o'r amlycaf o'r categorïau newyddion yw 'y Senedd'. Fe'i defnyddiwyd bron â bod ym mhob un o'r papurau sydd dan sylw, yn y misoedd hynny pan oedd y Senedd yn eistedd, ac

---

<sup>347</sup> Ceir yn rhifynnau 1860 a 1865 golofn gan ohebydd yn y deheudir, sy'n awgrymu mai adrodd o dir estron y maent yn yr un modd â'r colofnau o Lerpwl a Llundain. Yn rhifynnau 1875, 1880, 1895 ac 1900, rhennir y golofn 'Newyddion Cymreig' rhwng 'y Deheu' ag 'Y Gogledd'. Yn rhifyn 1890, ceir colofn o newyddion wedi ei rhannu rhwng y de a'r gogledd, colofn arall gan ohebydd dan y pennawd 'Deheudir Cymru' a cholofn 'Rhyfel Degwm yn y Deheudir'.

<sup>348</sup> Er enghraifft, dywed am gyfarfod y Methodistiaid Calfnaid Cymreig yn Lerpwl y bydd yn boblogaidd oherwydd y byddai'n "denu lliaws mawr o bobl o wahanol rannau o Gymru" ac yn gyfle i glywed "prif enwogion y cyfundeb o De a'r Gogledd yn pregethu" (1870, p. 5). Roedd sefydliadau a oedd yn y bôn yn Seisnig (os yn ddiwylliannol Gymraeg) yn ganolbwynt i weithgarwch gwleidyddol, crefyddol a chelfyddydol cenedl a oedd wedi ei gwahanu gan dirwedd a oedd yn anodd ei chroesi.

fe'i gosodir mewn safle blaenllaw yn y papur dros dudalen neu fwy.<sup>349</sup> Fel y sonnir eisoes, mae cyflwyno 'Y Senedd' mewn modd sy'n anwybyddu ei gyd-destun cenedlaethol yn rhwym o gynyddu ymwybyddiaeth o berthyn i gymuned ddychmygedig Brydeinig, ond mae'r disgwrs a ddefnyddir yn pwysleisio hynny ymhellach. Daw'n amlwg mai trawsgrifiadau uniongyrchol o'r hyn a ddywedwyd yn San Steffan yw'r cofnodion hyn, ac felly y maent yn atgynhyrchu'r cenedlaetholdeb 'banal' sydd yn rhan annatod o ddisgwrs y sefydliadau yn ogystal.<sup>350</sup> Ceir enghraifft o hynny wrth ddarlunio gwrthdaro yn rhifyn 1857: "Mae ei Mawrhydi yn gorchymun i ni hysbysu i chwi, fod gweithrediadau gormesol, sarhâd i'r faner Brydeinig, a throsteddiad o delerau cytundeb, a gyflawnwyd gan yr awdurdodau Chineaid lleol, yn Canton, a gwrthodiad cyndyn o iawn, wedi ei gwneyd yn angenrheidiol ar swyddogion ei Mawrhydi yn China i ddefnyddio mesurau o orfodaeth i gael boddhad." Portreadir cenhedloedd eraill sy'n tramgwyddo yn erbyn Prydain yn nhermau troseddwr (neu efallai blant drygionus) sy'n gwrthwynebu, yn ofer, y drefn sy'n cael ei gosod gan ymerawdwr hael ond holl-bwerus. Mae'r "sarhâd i'r faner Brydeinig" yma yn arwyddocaol wrth gwrs ac yn awgrymu y byddai'r darllenydd yn bleidiol i'r symbol 'banal' hwn, ac y byddai creu'r cyfryw ddarlun ohono yn cael ei bardduo, hyd yn oed yn symbolaidd, yn corddi'r cenedlaetholdeb 'banal' hwnnw yn un 'poeth' (1857a, p. 3).

Sgil-effaith arall i'r cyfieithu uniongyrchol o gofnodion y Senedd yw y cyfunir Cymru'n aml â Lloegr. Er enghraifft, yn rhifyn 1865 dywedir bod y Deyrnas Unedig yn cynnwys "Lloegr, Iwerddon, ac Ysgotland" (1865, p. 6). Cyfeirir at y Deyrnas Unedig yn ogystal fel un wlad, e.e. wrth drafod cytundeb â Ffrainc, nodir yn yr un golofn yn 1860 ei bod "yn fanteisiol i'r ddwy

---

<sup>349</sup> Ceir ymdriniaeth o dudalen neu fwy yn y rhifynnau canlynol; tudalen 3 o 12 yn rhifyn 1857, tudalen 3-4 o 16 yn 1860, tudalen 4 o 14 o 1865, tudalen 4 o 14 yn 1870, tudalen 2 o 8 yn 1875, tudalen 5 o 6 yn 1895, a tudalen 4 o 14 yn 1900. Nid oedd newyddion o'r Senedd yn ymddangos yn rhifynnau 1880, 1885 ac 1890 am nad oedd y Senedd yn eistedd o fis Hydref hyd mis Ionawr bryd hynny.

<sup>350</sup> Trafodir 'y Senedd', 'ein Mawrhydi' ac enwau aelodau 'Tŷ'r Cyffredin' a 'Tŷ'r Arglwyddi' heb unrhyw gyd-destun, ac mae cyferbyniad amlwg â'r personau a'r llefydd egsotig a drafodir, lle y rhoddir y cyd-destun yn llawn.

wlad”. Trafodir hefyd y “geiriad Ffrengig a’r Saesonig” (1860, pp. 5, 6). Mae cyferbyniad amlwg yn y modd y cynhwysir Cymru, yr Alban ac i raddau llai yr Iwerddon o fewn ‘y wlad’ yn y cofnodion hyn, a threfedigaethau eraill y Senedd Ymerodraethol. Cyfeirir atynt fel pe baent yn wledydd tramor, gan roi eu henwau yn llawn neu gyfeirio atynt fel “Trefedigaethau Prydeinig” neu “[d]iriogaeth” y Frenhines, yn hytrach na’u bod yn rhan o’r un gymuned ddychmygedig sy’n cynnwys holl wledydd y Deyrnas Unedig (1875, p. 2). Erbyn rhifynnau 1895 ac 1900 ceir awgrym bod digwyddiadau’r Senedd yn cael eu curadu fwyfwy gyda darllenwyr yng Nghymru mewn golwg— canolbwyntir yn y cyntaf ar benderfyniad Cwmni Ffordd Haearn Llundain a Gogledd-Iwerddon i chwynnu siaradwyr Cymraeg uniaith o blith eu gweithwyr (1895, p. 7), ac ar Fesur Cau’r Tafarnau ar y Sabath yn Sir Fynwy yn yr ail<sup>351</sup> (1900, p. 6). Ond er gwaethaf yr ymgais i ganolbwyntio fwyfwy ar faterion a oedd o ddiddordeb i Gymru, parheir i drafod y Senedd, ‘y wlad’, a’r gwleidyddion sy’n rhan ohonynt yn ddi-gydestun, gan bwysleisio mai ein Senedd ‘ni’, ein gwleidyddion ‘ni’, a’n gwlad ‘ni’ sydd dan drafodaeth.

### *Papurau Lloegr*

Nid mewn trawsgrifiadau o’r Senedd yn unig y ceir disgwrs sy’n hybu’r ymdeimlad o berthyn i gymuned ddychmygedig Brydeinig. Fel y dywedwyd y mae y *Faner* hefyd yn cynnwys llawer iawn o ddeunydd am Brydain a thramor sydd wedi ei gyfieithu neu yn seiliedig ar wybodaeth o ffynonellau eraill. Hwylusir y dasg o adnabod y deunydd hwn gan y tueddiad i nodi’r tarddiad. Er enghraifft, yn rhifyn 1865, enwir y *Times* a’r *Observer* fel ffynonellau’r wybodaeth

---

<sup>351</sup> Mae’r olaf o ddiddordeb am fod y ddadl yn ymwneud yn bennaf â safle Sir Fynwy – a oedd yn rhan o Gymru ai peidio. Dywedir ar y naill llaw ei bod “mewn ystyr fanwl, yn sir Seisnig” ond bod yna “ddymuniad cryf i gael ei chysylltu â Chymru”. Ar yr ochr arall, ceir apêl at hanes – nid oedd deddf Harri VIII yn ei hystyried yn sir Seisnig – a hefyd bwysigrwydd barn y bobl ynglŷn â’r gymuned ddychmygedig yr oeddynt yn perthyn iddi. Dywedir bod gwireddu’r gwaharddiad ar agor tafarndai ar y Sul yno, fel yng Nghymru, “mewn cydgordiad â dymuniadau a meddylddrychau y bobol”. Ceir awgrym yma felly yr ystyrid Cymru yn gymuned ddychmygedig ar wahân a bod barn ddemocrataidd y bobl, ar wahân i drigolion gweddill y Deyrnas Unedig, o bwys wrth benderfynu sut i’w llywodraethu (1900, p. 6).

am y problemau y mae'r costau milwrol ychwanegol yn eu hachosi i'r weinyddiaeth Brydeinig, gan roi'r bai ar yr 'Arall' tramor: "Addefir yn gyffredinol mai Ffrainc sydd wedi achosi y chwanegiad dirfawr hwn yn nhreuliadau y deyrnas" (1860, p. 8). Caiff y *Times* sylw unwaith eto, yn ogystal â'r *Daily News*, yr *Examiner*, y *Guardian*, y *Patriot*, y *Spectator*, y *Leader* a'r *Nonconformist*, mewn erthygl am ymateb y wasg Saesneg i'r gyllideb. Cyfeirir at y Deyrnas Unedig a Ffrainc fel "y ddwy wlad" (1860, p. 8). Cyfeirir yn ddiweddarach at y *Morning Advertiser* a'r *Daily News* mewn adroddiad ar gyfarfod o'r Blaid Geidwadol (1860, p. 11). Nid yw'n syndod bod cyfieithu'r erthyglau hyn o bapurau newydd Lloegr hefyd yn golygu bod y *Faner* yma yn ail-greu yr un disgwrs cenedlaethol, a ystyria'r Deyrnas Unedig yn wlad ynddi'i hunan, ac sy'n cynhyrfu teimladau cenedlaetholgar y darllynydd yn erbyn yr 'arall' tramor.

### *Newyddion Tramor*

Gwelir dylanwad y disgwrs benthyg hwn yn newyddion tramor y *Faner* yn ogystal. Yn fwyaf trawiadol o bosib y mae'r cyfeiriadau mynych at 'Loegr', gan olygu'r Deyrnas Unedig gyfan. Er enghraifft, mewn un colofn yn rhifyn 1857 cyfeirir dair gwaith at 'Loegr' yn y modd hwn. Mae'r cyntaf yn gyfieithiad o bapur newydd *Nord* ac yn defnyddio "Lloegr" i olygu llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yna, cyfeirir at "Loegr" fel "ein gwlad" mewn erthygl arall a gopiwyd o'r *Morning Star*. Awgrymir mewn erthygl arall y bydd cynrychiolydd o lywodraeth Canada yn "dyfod i Loegr" i drafod y mater â'r "Llywodraeth" (1857a, pp. 10-11). O gyplysu 'ein, 'Lloegr' a'r 'Llywodraeth' yn y modd hwn gallai'r disgwrs hwn greu ymdeimlad bod Lloegr a'r Deyrnas Unedig yn enwau amgen ar 'y wlad' y perthyna'r darllynydd iddi.<sup>352</sup> Yn yr un modd yn yr ail rifyn, cyfeirir at nifer o gyhoeddiadau gwahanol fel ffynhonnell y newyddion tramor, gan gynnwys y *Daily News*, y *Journal de St. Petersburg*, y *Drusden Journal*, y *Gazette de France*, y *Moniteur*, yr *Herald*, a'r *Times*. Trafodir y "symmudiad cenedlaethol" yn yr Eidal,

---

<sup>352</sup> Fe allai ei fod hefyd yn arwydd o ba mor llythrennol yr oedd y *Faner* yn cyfieithu ei arlwy.

ond cyfeirir unwaith eto at “lywodraeth Lloegr”, “cynnygiad Lloegr”, “gweinidog tramor Lloegr”, a’r “cynghrair rhwng Lloegr a Ffrainc”. Ond mewn adroddiadau arall ceir cyfeiriad at “ei Mawrhydi Brytanaidd” a “Prydain Fawr”<sup>353</sup> (1860, p. 11). Gofynnir mewn erthygl arall “Beth ydych chi yn ei feddwl, Lloegr?” wrth gyfeirio at y darllenwyr. Daw’r adroddiad hwnnw o gyfnodolyn y *Tablet* (1860, p. 12). Cyfeirir at “Lywodraeth Lloegr” ac “y llywodraeth... yr eiddo Lloegr” hefyd mewn erthygl ar ddathliadau canmlwyddiant sefydlu Unol Daleithiau America yn rhifyn 1875 (1875, p. 6). Ceir patrwm yma felly o gynnwys y Deyrnas Unedig gyfan dan enw Lloegr wrth adrodd ar newyddion tramor, a’r argraff a geir yw bod hyn yn sgil-ffaith eu cyfieithu yn uniongyrchol o gyfnodolion eraill.

#### *‘Ein gwlad’*

Ond hyd yn oed yn y cyfraniadau gwreiddiol, mae amwyster mawr ynglŷn â ffurf y gymuned ddychmygedig a grëir gan y ‘geiriau bychan’ a ddefnyddir. Defnyddir ‘y wlad’ wrth drafod Cymru a Phrydain. Er enghraifft, yn rhifyn 1857 ceir y *Faner* yn galw ar “holl Ymneilltuwyr Cymru” i arwyddo deiseb er mwyn cefnogi diddymu’r Dreth Eglwys “sy’n achosi cymmaint o anghariad a therfysg yn ein gwlad”. Serch hynny nid yw casglwr y ddeiseb yn cynrychioli sedd yng Nghymru, ac mae’r ddeiseb a gyhoeddir yn llawn (yn Saesneg) yn cyfeirio at y Deyrnas Gyfunol gyfan (1857a, p. 9). Yn yr un modd, yn yr erthygl nesaf ar y dreth eiddo, cyfeirir at “ddymuniadau y wlad” – gan greu darlun o farn gyhoeddus sy’n gwrthwynebu’r trethi hyn - ond yng nghyd-destun Prydain gyfan yn unig (1857a, p. 9). Defnyddir “ein cydwladwr” gan ohebydd o Lerpwl i gyfeirio â balchder at araith ragorol Aelod Seneddol o Gymru, ond yna gyfundrefn filwrol “ein gwlad” i gyfeirio at y Deyrnas Unedig (1860, pp. 4-5). Mae colofn y gohebydd o’r Deheudir yn rhifyn 1860 yn enghraifft arall o amwyster y gymuned

---

<sup>353</sup> Cynhwysir brawddeg am benderfyniad ymherodol Ffrainc i gau papur newydd Llydewig y *Bretagne*, ond nid oes trafodaeth bellach ar oblygiadau hyn (1860, p. 11).

ddychnmygedig y ceir ymdeimlad o berthyn iddi. Cyfeirir at “y wlad” drwy gydol yr erthygl yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig gyfan. Nodir i ba raddau y mae “cyllideb Mr. Gladstone wedi rhoddi boddlonrwydd cyffredinol braidd i drigolion y Deheudir,” ond wrth drafod effaith cytundeb masnachol rhwng San Steffan a llywodraeth Ffrainc, dywedir mai cytundeb “rhwng Lloegr a Ffrainc” ydyw tra’n canmol ei effaith lesol ar ddeheudir Cymru. Rhoddir yr argraff yma, felly, mai rhanbarth o genedl-wladwriaeth Lloegr yw’r ‘Deheudir’ (1860, p. 5). Mae diffyg gwahaniaethu hwn rhwng Cymru/y Deyrnas Unedig/Lloegr yn thema gyson yn y rhifynnau a ystyrid.

Soniwyd eisoes am yr arfer o gopïo adroddiadau o’r Senedd. Ond mewn erthyglau golygyddol gwreiddiol gan ohebwyrr y *Faner*, sy’n aml yn feirniadol o weithredoedd y wladwriaeth Brydeinig, gwelir bod y disgwrs a ddefnyddir yn atgynhyrchu’r un gymuned ddychnmygedig Brydeinig. Gwelir enghraifft yng nghorff papur 1875 dan y pennawd ‘Sefyllfa Ewrop’, sy’n ymosod ar Babyddiaeth. Beirniadir agwedd “Shon Bwl” at dramorwyr, ond ar yr un pryd mae’n creu ymdeimlad o gymuned ddychnmygedig Prydeinig yn gweithredu mewn cytgorod: “bradychai poblogaeth y wlad hon... yr hen duedd genedlaethol i gymmeryd golwg ranol yn hytrach nag un gynnwysfawr ar y pwnc.” Unwaith eto, defnyddir ‘Lloegr’ a ‘Prydain’ drwy’r trwch wrth ddisgrifio gweithredoedd y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Pwysleisir eto mai at y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, y cyfeirir yma oherwydd sonnir am Brydain fel y “[]wlad Brotestannaidd o fath yr eiddom ni” (1875, p. 2). Ceir enghraifft arall yn rhifyn 1860. Dan y pennawd “Digwyddiadau’r Wythnos” dywed “ein gohebydd yn Llundain” fod “holl sylw y wlad wedi bod yn troi drwy yr wythnos ddiwethaf ar y *budget*.” Gormodiaith yw hyn wrth gwrs, ond mae’n cynnig delwedd o genedl yn cyd-edrych ar yr un pwnc, a hynny o fewn yr un cyfnod amser. Cawn “y senedd”, “y Tŷ”, “y budget”, a chyfeirir at yr holl brif gymeriadau heb unrhyw gyd-destun, “Mr. Gladstone,” “Mr. Spooner,” “Mr. Disraeli,” ayyb. Er bod yr

erthygl yn cyfeirio'n ddigon coeglyd at rwysg "Mr. Bull" a'r *Times*, mae'n atgynhyrchu'r un cenedlaetholdeb banal â'r erthyglau a gopiwyd o bapurau newydd Llundainig<sup>354</sup> (1860, p. 4). Gwelir felly fod tueddiad, hyd yn oed mewn erthyglau a ysgrifenydd yn wreiddiol ar gyfer y *Faner*, ac wrth ymdrin â phynciau sy'n ymwneud yn bennaf â Chymru, i atgynhyrchu disgwrs cenedlaetholdeb sy'n pwysleisio safle'r darllynydd o fewn Prydain yn ei chyfanrwydd.<sup>355</sup>

### *Crefydd a Rhyddfrydiaeth*

Y tu hwnt i'r defnydd o'r Gymraeg, felly, nid oes ryw lawer o wahaniaeth rhwng disgwrs rhannau helaeth o'r *Faner* ac unrhyw bapur newydd Prydeinig arall. O'r herwydd, mae'r ychydig erthyglau hynny lle pwysleisir cenedlaetholdeb Cymreig yn fwy amlwg a gellid eu dadansoddi yn fanylach er mwyn cael ymdeimlad o'r hyn yr oedd yr awdur yn gobeithio ei gyflawni. Yr erthyglau crefyddol-wleidyddol yw'r mwyaf trawiadol yn hyn o beth, o bell ffordd. Yn wir, ychydig iawn o ddisgwrs cenedlaetholdeb 'poeth' a geir yn y rhifynnau hyn mewn erthyglau nad ydynt yn ymwneud â hawliau crefyddol yr Ymneilltuwyr.<sup>356</sup> Yn benodol

---

<sup>354</sup> Hyd yn oed pan fydd y Gohebydd yn adrodd yn benodol ar faterion yn ymwneud â Chymru, fel y gwna yn rhifyn 1870, gwneir hynny o fewn cyd-destun gwleidyddiaeth Brydeinig. Mae'r erthygl hon yn esbonio ei gynllun ar gyfer creu cronfa arian i ddigolledu'r rheini a oedd wedi eu troi allan o'u cartrefi yn dilyn etholiad cyffredinol 1868. Treulir rhan helaeth o'r erthygl yn ymosod ar y *Times*, "organ fawr y landlords ei hun", am ei ymateb annigonol i'r sgrif, ac yn clodfori ymateb y Prif Weinidog Gladstone. Wrth drafod y modd y dylid ymateb i'r broblem yng Nghymru nid oes modd osgoi'r dylanwad sydd gan sefydliadau Prydeinig ar eu gallu i ddod o hyd i ddatrysiad (1870, pp. 3-4). Enghraifft arall o ddiwedd y ganrif yw'r erthygl "Ein Carchardai Methiantus" yn rhifyn 1895, sydd hefyd yn trafod "Ein Byddin Methiantus", a hynny gan gyfeirio at garchardai a byddin Prydain gyfan. Er bod yr erthyglau hyn yn feirniadol o weithredoedd Llywodraeth San Steffan, diwygio yn hytrach na chefnu ar y sefydliadau hyn yw'r nod (1895, p. 4).

<sup>355</sup> Trafodir y tywydd hefyd mewn cyd-destun Prydeinig. Er enghraifft, wrth nodi nad effeithiodd storm fawr ar Gymru, dywed un erthygl: "Ond mewn amryw leoedd ar ein harfordiroedd, yn Ysgotland a Lloegr, y mae'n ymddangos bod lliaws o longau wedi bod mewn cyfyngder..." (1890, p. 8)

<sup>356</sup> Yn rhifyn 1860 ceir dwy erthygl sy'n trafod cenedlaetholdeb, ond mae'r ddwy o fewn y cyd-destun celfyddydol. Yn y gyntaf, 'Eisteddfod Genedlaethol a Cherddoriaeth Cymru', trafodir "ein cerddoriaeth gyssegredig a chenedlaethol," a disgrifir un darn sydd "mor Gymreigaidd ei harddull, ac mor gydnaws â theimlad calon pob Cymro oedd yn ei gwrandaw, fel y gwefreiddiai yr holl gynnulleidfa." Trafodir hefyd y cyngerdd "Ymlynwn wrth ein hiaith a'n gwlad," a oedd yn "ddadl boeth" rhwng y Cymro, y Sais a'r Rhufeiniwr. "Gwaedda Arthur a Gwenhwyfar, 'Byddwn oll yn Gymry'... Cymmerodd y dernyn hwn y gynulleidfa 'by storm,' ys dywed y Saeson" (1865, pp. 3-4). Ceir yn ddiweddarach yn yr un rhifyn erthygl arall ar yr Eisteddfod Genedlaethol, a thestun un o'r cystadlaethau "Dechreuad cenedl y Saeson, yn cynnwys cyfeiriad neillduol at y gofyniad, pa mor bell y maent yn disgyn o'r hen Frythoniaid?" Dywed yr erthygl ei fod yn "ammheus a fuasai modd pennodi testun mwy dyddorol i'r byd llenyddol na'r testun yma" (1865, p. 14). Fe allai mai enghraifft o genedlaetholdeb digon 'banal' yw'r erthygl gyntaf, gollyngfa i nwyd cenedlaethol y Cymry o fewn cyd-destun diogel drama hanesyddol.



felly, defnyddir disgwrs cenedlaetholdeb er mwyn dadlau achos datgysylltu'r Eglwys Wladol, y degwm, ac ysgolion y wladwriaeth. Nid yw'n syndod efallai fod yr Ymneilltuwyr wedi manteisio ar genedlaetholdeb yn y fath fodd, oblegid yr oedd y disgwrs 'ni' a 'nhw' a ddefnyddir er mwyn amlygu'r rhaniadau rhyngddynt a Phabyddiaeth/Yr Eglwys Sefydledig (gan honni bod dylanwad y cyntaf ar yr olaf yn gryf) yn ymdebygu i ddisgwrs cenedlaetholdeb beth bynnag. Gellid gweld esblygiad o ddadleuon rhyddfrydol yn erbyn yr Eglwys Wladol i ddadleuon rhyddfrydol o blaid cenedlaetholdeb Cymreig ar draws y rhifynnau a ystyrir.

Teg dweud bod yr Eglwys Sefydledig a Phabyddiaeth yn gocynnau hitio drwyddi draw yn nhudalennau'r rhifynnau a ystyrir. Cyfeirir at yr Eglwys Sefydledig yn fynych fel "yr Estrones" (e.e. ar dudalen 3, 4, 8, 9 ac 13 rhifyn 1890), ac achubir ar bob cyfle i godi cywilydd ar offeiriaid ac esgobion yn yr Eglwys Wladol, e.e. hanes curad a wrthododd ddarllen i dlodion yn Undeb-dy Wrecsam oherwydd bod Ymneilltuwr wedi bod yno hanner awr o'i flaen (1857a, p. 8), neu ficer a gyrhaeddodd y llys i roi tystiolaeth ond a yrrwyd adref am ei fod wedi meddwi (1875, p. 8). Mae'r frwydr rhwng Ymneilltuwyr a'r Eglwys yn treiddio i bob agwedd o'r papur, ac yn sbienddrych yr edrychir ar bob datblygiad gwleidyddol drwyddo. Er enghraifft, mewn 'nib' yn rhestru canlyniad etholiad bwrdd ysgol yn Aberffraw, ychwanegir wrth gloi: "Y mae yr offeiriad, fel y gwelir, ar ben y rhestr, a hyny mewn plwyf sydd â bron yr holl yn Ymneilltuwyr" ('Sylwedydd', 1890, p. 9). Ceir yn ogystal erthyglau hirach gyda'r nod o borthi teimlad gwrth-Eglwysig ymysg y darllenwyr. Ymysg yr enghreifftiau amlycaf yn y rhifynnau hyn mae'r erthygl 'Perygl Addysg Ein Plant', sy'n defnyddio'r iaith gryfaf posib er mwyn argyhoeddi Ymneilltuwyr na ddylent yrru eu plant i ysgolion anenwadol, "ond y rhai ydynt, mewn gwirionedd, yn rhai Eglwysig, â'u holl ddylanwad yn wrth-Ymneilltuol". Caiff

---

Ymgais yw'r ail i brofi eu bod yn gydradd â'r Saeson er gwaethaf pwyslais Darwiniaidd yr oes ar oruchafiaeth ethnig y Tiwton.

Ymneilltuaeth y blaen dros genedlaetholdeb yma, oblegid y mae ei neges wedi ei hanelu at “[b]ob cyfundeb Ymneilltuol drwy Gymru a Lloegr”. Serch hynny, apelir at y teimlad cenedlaethol yng Nghymru drwy ddweud y dylid “wneyd y rhagfarn a’r cibddellni anfad hyn yn ffeidd-bethau trwy holl ranau y Dywysogaeth”. Mae’r eirfa yma wedi ei dewis yn ofalus er mwyn cywilyddio a chodi braw ar y darllenydd. Dywedir bod “dyletswydd” arnynt, “os yn caru eu rhai bach” i’w cadw draw o’r ysgolion hyn – “rhaid deffro i gyflawni ein dyletswyddau mewn hunan amddiffyniad.” Ail-adroddir y gair “peryl” drwy gydol yr erthygl, wrth rybuddio yn erbyn “athrawiaethau Rhufeinig” yr Eglwys Wladol. Ymosodir ar yr Ymneilltuwyr sydd yn “ddigon gwasaid a ‘di-asgwrn cefn’ i adael y rhai bach” yng ngofal y rheini sydd am “lefeinio eu heneidiau â rhai o egwyddorion gwaethaf y Babaeth” (1890, p. 9). Fel y gwelir, nid oes unrhyw amwystr yn y disgwrs wrth ymdrechu i bortreadu’r Eglwys Wladol fel ‘arall’ perylus. Yn wir, mae’r iaith a ddefnyddir yn ymdebygu i banig moesol mewn papur tabloid cyfoes.

Hyd yn oed cyn cymhwyso’r ddadl genedlaetholgar o blaid rhyddid crefyddol at Gymru’n benodol, gwelir cyfuno disgwrs rhyddfrydol cenedlaetholdeb â disgwrs yr elyniaeth rhwng Ymneilltuaeth a Phabyddiaeth, a hynny o’r rhifyn cyntaf un. Yn yr erthygl ‘Helyntion Crefyddol Gwledydd Tramor’ beirniadir diwinydd o’r Almaen am drafod ei ffydd yng nghydestun cenedlaetholdeb, ac am wrthod dylanwadau ‘tramor’ ar ei greffydd. Pwysleisa’r awdur yn hytrach fod teyrnas Duw yn ymestyn dros bob cenedl. Ond yna awgrymir bod diffyg llwyddiant masnachol gwledydd y cyfandir i’w briodoli i’w Pabyddiaeth. Dadl ryddfrydol o blaid rhyddid cenedloedd a geir yma yn y bôn, gan awgrymu y byddai ymwrthod â rheolaeth Rhufain yn gam a fydd yn caniatáu iddynt ‘gynnydd’ yn yr ystyr fasnachol hefyd. Er na chrybwyllir Cymru na Phrydain yn benodol, yr awgrym yw na fydden nhw chwaith yn gallu datblygu i’w llawn allu nes eu bod hwythau’n ymwrthod â dylanwad Pabyddol o fewn yr

Eglwys Sefydledig. Nid yw'r erthygl felly yn ei gwneud yn glir a yw crefydd yn rhywbeth sydd uwchlaw'r cenedloedd neu a yw'n un cynhwysyn hanfodol i lwyddiant cenedloedd. Y rhesymeg ddeublyg, ymddengys, yw na ddylai'r Almaen ymwrthod â dylanwadau Protestannaidd allanol tra dylai ar yr un pryd ymwrthod ag unrhyw ddylanwad o du Rhufain<sup>357</sup> (1857a, p. 2). Er nad yw eto wedi ieuo Ymneilltuaeth Ryddfrydol at genedlaetholdeb Cymreig, gwelir bod y rhesymwaith rhyddfrydol a fyddai yn tanategu'r ddadl honno eisoes yn bresennol o rifyn cyntaf y papur.

Gwelir yn rhifyn 1860 bwysleisio mynych ar y ddadl ryddfrydol mai mater o ddemocratiaeth oedd datgysylltu'r Eglwys, e.e. wrth bwysleisio bod yr Ymneilltuwyr yn y mwyafrif dros Eglwyswyr (1860, p. 7), ac eto wrth alw am ddeisebu er mwyn dangos i Dŷ'r Cyffredin "fod teimlad y cyhoedd mor gryf ag erioed yn erbyn y dreth" (1860, p. 6). Daw'n amlwg bod ymgyrchoedd i gynnull cefnogaeth Ymneilltuwyr ar draws y Deyrnas Unedig yn rhan bwysig o'u cenhadaeth, e.e. wrth gyfieithu un o straeon y *Nonconformist* sy'n annog y cyhoedd i ddeisebu yn erbyn hawl tai bwyta i weini'r ddiod feddwol (1860, p. 8). Creir yma gymuned ddychmygedig o bobl sydd eisoes yn cytuno bod angen dod â'r dreth i ben, ond un Brydeinig ydyw yn yr achos hwn, gan nad awgrymir yma eto y dylid datgysylltu'r Eglwys Wladol neu gyflwyno mesurau a fydd yn cael eu cymhwyso yng Nghymru yn unig. Serch hynny, consurir y genedl Gymreig Ymneilltuol a gwrth-Babyddol gan y *Faner* yn y rhifyn hwn, gan awgrymu yr "aem yn wrthddrychau drwgdybiaeth a gwg miloedd o'n cydgenedl" pe baent yn clodfori'r Pab (1860, p. 8). Mae sylwebaeth ar ddadleuon yn San Steffan ynghylch y Dreth Eglwys yn nodwedd gyson, gyda'r awdur yn dadlau yn erbyn "rhesymeg ynyfyd" y rheini sydd am i'r cysylltiad rhwng yr Eglwys a'r Llywodraeth barhau (1865, p. 8).

---

<sup>357</sup> Mae'r gobaith bod gwledydd tramor ar fin cefnu ar Babyddiaeth yn thema gyson, e.e. yr erthygl "Teimlad yn erbyn Pabyddiaeth" sy'n adrodd hanes pentrefwyr yn "Haute Marne" sydd yn troi at Brotestaniaeth (1860, p. 4). Awgrymir yn ddiweddarach yn yr un rhifyn bod gafael y Pab ar Rufain yn simsanu (1860, p. 9).

Erbyn rhifyn 1870 ceir enghraifft o'r ddadl genedlaetholgar-ryddfrydol Gymreig-benodol dros ddatgysylltu'r Eglwys Wladol yn yr erthygl "Y Ddadl ar yr Eglwys yng Nghymru". Dywedir na all yr Eglwys Wladol gynrychioli gwlad os nad yw'n cynrychioli credoau ei phoblogaeth: "Yr unig reswm a ellir roddi dros waddoli Eglwys Genedlaethol o'r wlad yw ei bod mewn gwirionedd yn genedlaethol..." Ond os nad yw y werin yn gwrando arni nac yn credu ynddi, "y mae yn y fan yn peidio a bod yn genedlaethol – y mae yn syrthio i fod yn ddim ond adran neu sect..." Darlunnir y gymuned ddychmygedig yma fel un nad yw'r Eglwys Wladol yn ddarluniad teg ohoni, ac o dderbyn y ddadl ryddfrydol y daw grym y wladwriaeth o farn y werin, nid oes cyfiawnhad dros beidio â'i datgysylltu o ystyried bod "tair rhan o bedair o drigolion y Dywysogaeth yn Ymneilltuwyr". Dywed ei bod yn "Eglwys y lleiafrif yn nhywysogaeth Cymru" (1870, p. 4). Siaredir unwaith eto ar ran y "corff mawr o Ymneillduwyr yng Nghymru" wrth ymosod ar gynllunio'r llywodraeth ar gyfer "ysgolion yr eglwys" ychydig dudalennau yn ddiweddarach (1870, p. 9). Ceir felly esblygiad naturiol o ddefnyddio disgwrs rhyddfrydol-genedlaetholgar er mwyn dadlau yn erbyn Pabyddiaeth yn y rhifyn cyntaf, i gymhwyso'r dadleuon hynny er mwyn dadlau dros ddatgysylltu Eglwys Lloegr ar draws y Deyrnas Unedig erbyn y 1860au, ac yna at Gymru'n fwy penodol yn rhifyn 1870. Y cyfan sydd wedi newid yma mewn gwirionedd yw'r pwyslais a geir yn y disgwrs ar Gymreictod y darllenwyr fel dull o gael y maen i'r wal.

Ymysg yr amlycaf o'r erthyglau sy'n gwneud defnydd o ddisgwrs cenedlaetholdeb Cymreig 'poeth' i'r perwyl hwn y mae erthygl T. E. Ellis ar bwnc "Dyletswydd Arfon a Chymru". Pwysleisir yma y gwaith a wnaethpwyd er mwyn "hyrwyddo symmudiadau cenedlaethol Cymru" a sonnir am "ymgyrch cenedl y Cymry am gydraddoldeb crefyddol a'r degwm i'r genedl". Gelwir y Mesur i Ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru drwyddo draw yn "Mesur

Cymru” – a chyfeirir yn ogystal at “[ ]elynyon Mesur Cymru”. Cyfosodir yn yr un modd “Ryddfrydwyr Cymru” a “Rhyddfrydiaeth Cymru” â “[Th]orïaeth”, a thrafodir “dyheuadau gwerin Cymru”. Gorffennir trwy alw ar y darllenwyr i sicrhau bod “llais a llaw Cymru yn gryfach yn y senedd nesaf”. Cawn yma erthygl sydd yn defnyddio disgwrs cenedlaetholdeb yn gwbl amlwg er mwyn hyrwyddo amcanion gwleidyddol yr awdur. Rhoddir yr argraff o Gymry unedig, Ymneilltuol a Rhyddfrydol, a saif mewn gwrthwynebiad i’r Ceidwadwyr estron, “gelynyon Mesur Cymru”. Drwy gyfeirio at y mesur datgysylltiad fel “Mesur Cymru” rhoddir yr argraff bod yr hyn sydd yn y bôn yn ymgyrch wleidyddol sectyddol yn frwydr dros Gymry gyfan. Wrth addo na fydd “na thref, na llan, na chwmwd” heb eu hennill i Ryddfrydiaeth yn fuan, mae’n meithrin dyhead ymysg ei ddarllenwyr, “gwerin Cymru”, am gymhathu’r uned diriogaethol yn uned genedlaethol. Drwy bwysleisio eu bod yn dod at benllanw “blynyddoedd maith o weithio”, ac wrth apelio at “ddyletswydd” ei ddarllenwyr, creir ymdeimlad na ddylid bradychu aberth eu rhagflaenwyr. Arddangosir holl nodweddion disgwrs cenedlaetholdeb o fewn yr erthygl fer hon (Ellis, 1895, p. 4). Dilynir ef gan alwad arall i’r gad gan un o awduron y *Faner*, sydd yn dangos yr un feistrolaeth ar y disgwrs hwn. Sonnir yn yr un modd am “[f]esur mawr Cymru”, a defnyddir disgwrs cenedlaetholdeb i apelio am arian i dalu treuliau’r ymgyrch: “os oes gronyn o genedl a gwladgarwch yn aros yn mynwesau Cymry arianog” tramor, meddai, fe ddylent danysgrifio rhag blaen. Ceir ambell i bwt arall yn y rhifyn hwn sy’n defnyddio disgwrs cenedlaetholdeb yn yr un ffordd er mwyn hyrwyddo achosion a fyddai o fudd i’r achos Ymneilltuol-Ryddfrydol<sup>358</sup> - nid yw hynny efallai’n syndod, gan ei fod wedi ei gyhoeddi yn ystod y cyfnod a fyddai’n uchafbwynt i fudiad *Cymru Fydd*. Ond yr hyn sydd fwyaf trawiadol ynglŷn â’r apeliadau uniongyrchol, digywilydd bron, at genedligrwydd y

---

<sup>358</sup> Defnyddir disgwrs cenedlaetholdeb mewn pwt ar y dudalen flaen wrth ymosod ar Aelod Seneddol Eifionydd: “I’r newyddiaduron dyddiol (Seisnig), ysgrifena Mr. Bryn Roberts lythyr chwerw yn erbyn symmudiad newydd ‘Cymru Fydd’, gan roddi prawf chwanegol o’i anallu i gydymdeimlo yn llawn â dyhëadau dyfnion ei gydgenedl” (1895, p. 3). Ceir hefyd alwad am fwrdd addysg arbenig i Gymru ar dudalen 5, “[m]ater y dylai pob Cymro ymdrechu ei hyrwyddo”, gan nodi bod yr Alban eisoes yn meddu ar fwrdd o’r fath (1895, p. 5).

Cymry yw eu bod yn bodoli bron â bod mewn gwagle. Oherwydd bod erthyglau eraill y papur, gan gynnwys y rheini o boptu i'r erthygl hon, yn hyrwyddo ymdeimlad o gymuned ddychmygedig Prydeinig, mae'r ymdrechion hyn i apelio at eu Cymreictod er hyrwyddo dibenion gwleidyddol yr awduron yn ymddangos yn fwy amlwg ac o ganlyniad yn llai argyhoeddiadol.

Yn rhifyn 1895 ceir enghraifft arall o fframio'r ddadl dros ddatgysylltu'r Eglwys Wladol o fewn disgwrs cenedlaetholdeb. "Amddiffyn yr 'Estrones'" yw pennawd yr erthygl, ac adroddir hanes cyfarfod cyhoeddus offeiriad sy'n cael ei fychanu gan dorf sy'n gofyn cwestiynau na all eu hateb. Mae llef y dorf yn "fyddarol" a'u cwestiynau "mor rymus a chywir at y nôd ag ergydion magnelau". Darlunnir yr offeiriad yn gwingo yn ei sedd, a phwysleisir nad yw'n gallu esbonio pam na ellir datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru pan ellir gwneud hynny yn Iwerddon. Er mwyn pwysleisio mai 'y Cymry' fu'n fuddugol yma yn erbyn cynrychiolwyr yr Eglwys 'estron', ychwanegir yn fuddugoliaethus ar y diwedd: "Wrth derfynu, rhoddwyd banllefau" i'r siaradwyr, gan gynnwys Lloyd George a Thomas Gee, "nes yr oedd y neuadd yn adsain; ac aed allan dan ganu 'Hen Wlad fy Nhadau'" (1895, p. 5). Yn ogystal â disgwrs cenedlaetholdeb, defnyddir ansoddeiriau er mwyn awgrymu bod y safbwynt yn un credadwy y dylid gwrandio arno. Ceir enghraifft o hynny wrth drafod araith gan Iarll Spencer o blaid datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru yn rhifyn 1890. Er ei fod yn perthyn i'r dosbarth hwnnw o uchelwyr y mae'r papur yn lladd arnynt fel arall, rhoddir sêl bendith ar ei farn yma gan ei ddisgrifio fel "pendefig a gwleidydd o safle", "pendefig anrhydeddus", a aeth i'r afael â "cwestiwn pwysig" yn ei araith. Cafwyd areithiau "rhagorol" hefyd gan y "boneddigion" eraill, ac roedd y cyfarfod yn "llwyddiannus y tu hwnt i'r disgwyl". Roedd ei araith yn "rhwym o wneud y Cymry yn ddiolchgar iddo fel cenedl" (1890, p. 6).

Yn ogystal ag erthyglau a ysgrifennwyd neu a gyfieithwyd gan olygyddion a gohebwy'r y papur, edrychais ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan y *Faner*, er mwyn gwirio a oedd disgwrs cenedlaetholdeb yn amlwg yn llythyrau ei ddarllenwyr. Crefydd yw testun y rhan helaethaf o'r ohebiaeth a geir yn y rhifynnau a ystyrid, ac nid oedd yr un llythyr a oedd yn ymwneud yn benodol â phwnc cenedlaetholdeb. Serch hynny, mae'r llythyrau yn awgrymu bod ymdeimlad o gymuned ddychmygedig Cymreig yn bodoli yn eu mysg, a'u bod yn ymwybod â'u cenedligrwydd.<sup>359</sup> Yr hyn sydd gan yr holl lythyrau yma'n gyffredin yw eu bod yn apelio at falchder cenedlaethol y darllenwyr er mwyn eu hannog i weithredu neu ymddwyn mewn ffordd a fydd yn fanteisiol i'r llythyrwr. Ceir awgrym yn ogystal mai'r rheini sydd fwyaf awyddus i fynnu eu Cymreictod yw'r Cymry oddi cartref. Ond er gwaethaf tystiolaeth o ryw faint o ddefnydd o ddisgwrs cenedlaetholdeb yma, nid oes dim i awgrymu y byddai'r pythiau yma a thraw yn ddigon i atgyfnerthu cenedlaetholdeb 'poeth' Cymreig ar draul yr un 'banal' Prydeinig.

### *Casgliad*

---

<sup>359</sup> E.e. yn rhifyn 1860 arwyddir dau lythyr gyda'r enw 'Cymro', ac mae'r ail yn galw ar ddarllenwyr y papur "fel cenedl" ac fel "Cymry" i gyfrannu at achos elusennol (1860, pp. 14-5). Yn rhifyn 1865 yn yr un modd ceir 'Cymro Plaenach', o Lerpwl, yn ymateb i lythyr gan 'Gymro Plaen' mewn rhifyn blaenorol. Ceir hefyd apêl at falchder cenedlaethol mewn erthygl yn galw ar Gymry i ymfudo i'r Unol Daleithiau, gan ddweud bod "bachgen o'r Hen Wlad... yn llawer gwell gweithiwr nag un sydd wedi ei eni a'i fagu yn America." Ceir mewn llythyr arall gyfeiriad at "y Cymry yng Nghymru" a "y Cymry gwladgarol" wrth alw am godi "cofgolofn genedlaethol" i William Williams, Pantycelyn: "gorchwyl galarus ydyw cyfaddef ein bod fel cenedl yn hynod o esgeulus a difater ynghylch coffadwriaeth ein henwogion." Ceir yn ogystal ran cyntaf llythyr yn dadlau bod manteision ariannol i fedru'r Gymraeg (1870, pp. 13-4). Ceir yn rhifyn 1875 lythyr am y Wladfa Gymreig, sydd yn "fri ac yn goron ysblenydd ar ben y Cymro" (1875, p. 7). Wrth annog y Cymry i wella safon eu hysgrifennu, dywed un llythyrwr y "dylid cofio bod y cenedloedd Celtic wedi eu bendithio gan natur â gwell chwaeth na'r rhai Teutonig; ac y dylid, o blegid hynny, farnu Cymro wrth safon uwch na'r un y bernir Sais wrtho." Ceir llythyr arall o Lerpwl sydd, fel yr erthygl olygyddol, yn dadlau o blaid Cymreigrwydd yr ymgeisydd Seneddol yn Arfon. Dywed bod y "Toriaid yn gwawdio oherwydd estroneiddiwch Mr. Rathbone i Gymru" ond ei fod yn "hóni cyfathrach â'r Cymry trwy waedoliaeth" a'i fod wedi llywyddu Eisteddfod, a chefnogi sefydlu Prifysgol Aberystwyth a'r mesur i gau tafarndai ar y Sul (1880, pp. 13-4). Ceir yn rhifyn 1890 lythyr o'r Unol Daleithiau yn annog "y Cymru", ei "[g]ydgenedl", i symud yno (1890, p. 5). Ymysg llythyrau rhifyn 1900 cafwyd un sy'n galw ar "ni, y Cymry" i ddewis rhagor o ymgeiswyr "o'n plith ein hunain" ar gyfer yr etholiad yn hytrach na "[m]yned dros y terfynau i blith teulu nad ydynt yn gyfeillgar â ni". Serch hynny mae hefyd yn galw am "Saeson masnachol i'n gwasanaethu" (1900, p. 7).

I gloi, mae tueddiad clir i'w weld yn y rhifynnau a ystyriwyd o ran y disgwrs a ddefnyddir. Defnyddir disgwrs cenedlaetholdeb yn fynych er mwyn annog y darllenwyr i gefnogi safbwyntiau gwleidyddol, yn benodol felly ddatgysylltu'r Eglwys Wladol a budd y blaid Ryddfrydol yn erbyn y Ceidwadwyr. Tra bo tueddiad yn y rhifynnau cyntaf i gynrychioli Ymneilltuwyr, wrth i'r degawdau fynd yn eu blaen gwelir tueddiad cynyddol i gplysu'r Ymneilltuwyr â Chymru benbaladr. Arf yw disgwrs cenedlaetholdeb yma gan sefydliad (neu gasgliad o sefydliadau tebyg) er mwyn ennill cefnogaeth dorfol i newid sefydliadol. Pwysleisir y bydd unrhyw newid a fyddai o fantais i'r Rhyddfrydwyr a'r Ymneilltuwyr yn gweithio er budd 'Cymru' ac y dylai'r darllenwyr, fel 'Cymry', gefnogi'n angerddol neu gael eu hystyried yn ddi-asgrwm cefn a pheryglu eu balchder cenedlaethol. Cenedlaetholdeb 'poeth' a geir yma – gelwir am weithredu, a newid, a defnyddir gormodiaith yn fwriadol er mwyn corddi'r teimlad cenedlaethol ymysg y darllenwyr. Serch hynny, lleiafrif bychan ymysg swmp yr erthyglau a gynhwysir yn y rhifynnau a ystyriwyd oedd y rheini, a hynny efallai yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd y newidiadau y galwai'r Ymneilltuwyr amdanynt yn ymestyn y tu hwnt i dri neu bedwar o bynciau penodol. Nid oes ymgais i atgynhyrchu'r un iaith genedlaetholgar wrth ymdrin â'r elfennau hynny o weithgareddau'r wladwriaeth lle nad oes budd amlwg i'r Ymneilltuwyr Rhyddfrydol o'u gwrthwynebu, e.e. amryfal anturiaethau tramor yr Ymerodraeth Brydeinig. A rhoi'r pynciau hyn o'r neilltu, ac yn enwedig felly yn y rhifynnau cyntaf a ystyriwyd, gellid dadlau mai papur newydd sy'n ymdrin â newyddion y Deyrnas Unedig yn Gymraeg yw'r *Faner*. O ganlyniad, mae'r rhan helaethaf o'r cynnwys yn hybu yn hytrach genedlaetholdeb 'banal' Prydeinig; am dri rheswm; 1) am nad oedd yr Ymneilltuwyr Rhyddfrydol yn gwrthwynebu rheolaeth sefydliadau Prydeinig *per se*, dim ond yr elfennau hynny ohonynt oedd yn gwanhau eu hawliau democrataidd a chrefyddol hwy ac yn ffafrio uchelwyr a thirfeddianwyr segur. Er gwaetha'r apêl at Gymreigrwydd er mwyn dymchwel rheolaeth yr Eglwys Wladol a'r trefeddianwyr yng Nghymru, mae'r papurau yn gosod y



brwydrau hyn o fewn cyd-destun ymgyrch ryddfrydol ac Ymneilltuol ehangach sy'n pontio Cymru, Lloegr, yr Alban ac Iwerddon; 2) oherwydd bod cymaint ohono yn ymddangos fel pe bai wedi ei addasu o bapurau newydd Llundainig a thramor, ac felly yn atgynhyrchu'r un disgwrs; a 3) oherwydd mai sefydliadau Prydeinig oedd prif ffynonellau'r cynnwys, hyd yn oed pan oedd y copi a gynhyrchwyd yn waith gwreiddiol gohebwy'r y papur. O ystyried dibyniaeth y *Faner* ar y sefydliadau hyn am eu cynnwys, efallai bod y cynefindra di-gyd-destun hwnnw sydd yn hanfodol i atgynhyrchu disgwrs cenedlaetholdeb 'banal' yn anochel. Wedi astudio disgwrs y *Faner*, rwy'n credu bod lle i anghytuno â honiad Alun Gruffudd Jones, "journalism in Wales did not crystallise around the affairs of a sovereign state" (Jones, 1993, pp. 5-7). Er bod gwleidyddiaeth ac enwadau lleol yn hollbwysig wrth gynnal y papurau hyn, bodolant o fewn cyd-destun sffêr cyhoeddus Prydeinig ehangach yn hytrach nag un Cymreig. Nid cenedl segmentedig oedd Cymru yn y cyfnod dan sylw, felly crisialodd newyddiaduraeth Cymru o amgylch gwladwriaeth ganolog y Deyrnas Unedig.

Dadleuaf fod cynnwys y bennod hon a'r ddiwethaf yn dangos bod modd ieuo damcaniaeth 'offerynyddol' Roeder ac eraill, gyda damcaniaethau o eiddo Billig, Anderson ac eraill sy'n rhoi'r pwyslais ar bwysigrwydd y wasg wrth hybu cenedlaetholdeb. Yn gyntaf, mae angen sefydliadau er mwyn cynnal gwasg ffyniannus yn y lle cyntaf. Dywed 'Glaslyn' fod cyhoeddiadau'r cyfnod "yn adlewyrchu ein bywydau cenedlaethol, ond hefyd yn ei greu – mae'n dilyn ac yn arwain bywyd y genedl" (Glaslyn, 1907, p. 63). Ond roedd y cyfnodolion hyn yn gynnwys sefydliadau a'u defnyddiai at eu dibenion gwleidyddol eu hunain. Heb yr eglwysi Ymneilltuol, mae'n anhebygol y digwyddasai 'oes aur' y wasg Gymraeg o gwbl. Yn ail, er ei bod yn anochel i raddau fod y wasg yn meithrin ymdeimlad o berthyn ymysg ei chynulleidfa, a hynny am resymau masnachol, roedd angen sefydliadau a chanddynt amcanion gwleidyddol amlwg er mwyn ategu'r disgwrs cenedlaetholdeb 'poeth' a alwai am newid. Yn

drydydd, heb sefydliadau segmentedig roedd yn anochel y byddai'r wasg yn cael ei thynnu i mewn i sffêr cyhoeddus cenedl-wladwriaeth ehangach. Gwêl D. Tecwyn Lloyd gysylltiad rhwng rhychwant daearyddol y straeon a gynhwysir mewn papur newydd a'i allu i feithrin ymdeimlad o berthyn i genedl. Roedd amharodrwydd y wasg i fynd i'r afael â phynciau cenedlaethol yn golygu mai "busnes braidd yn ansicr ydyw canys faint o Gymry sydd, mewn gwirionedd, yn ymdeimlo â'u cenedligrwydd, yn ymdeimlo eu bod yn ddinasyddion cenedl ac nid rhyw un cwm neu ardal ohoni..." Awgryma serch hynny fod gwasg Gymraeg y 19eg ganrif wedi llwyddo i asio newyddion lleol a chenedlaethol yn bur effeithiol, ac yn enwedig felly yn achos y *Faner*. Yn ôl D. Tecwyn Lloyd yr oedd Thomas Gee "yn gryn feistr ar greu cynnwys a oedd yn gyfaddawd rhwng newyddion lleol a materion cyffredinol a chenedlaethol. Gofalai fod ganddo adroddiadau o ddegau o ardaloedd bob wythnos a hynny o Dde a Gogledd Cymru fel ei gilydd..." (Lloyd, 1980, pp. 33-34) Ond yr hyn sy'n nodedig wrth ddadansoddi'r rhifynnau hyn yw absenoldeb yr hyn a oedd *rhwng* y lleol a'r Prydeinig, h.y. y cenedlaethol Cymreig. Ceir digwyddiadau yng ngogledd Cymru, ceir digwyddiadau yn ne Cymru, ond y tu hwnt i achos datgysylltu'r Eglwys, prin y caiff y rhan fwyaf o'r newyddion ei fframio mewn modd sy'n awgrymu ei fod yn *berthnasol i genedl y Cymry*. Efallai fod union natur amherthnasol y newyddion i fywyd yr unigolyn yn creu ymdeimlad o genedlaetholdeb dychmygedig, fel yr awgrymir gan Anderson a Hall et al. Ond os cyflwynir newyddion o weddill y Deyrnas Unedig yn gymysg â'r newyddion Cymreig, ac yn yr un ffordd amherthnasol, caiff yr effaith honno ei gwanhau. Pe bodolai sefydliadau cenedlaethol Cymreig, y tu hwnt i'r enwadau Ymneilltuol eu hunain, fe fyddai wedi negydu'r angen hwnnw i loffa'r rhan fwyaf o'r newyddion o'r tu hwnt i Glawdd Offa. I grynhoi, nid oedd gwasg ffyniannus ynddi ei hun yn ddigonol er mwyn hybu mudiad cenedlaethol yng Nghymru a fyddai wedi arwain at annibyniaeth – roedd angen sefydliadau segmentedig gwleidyddol nerthol yn ogystal. Fel ag yr oedd, roedd cenedlaetholdeb 'poeth' Cymreig yn bosib, ond o fewn cyd-destun

dyheadau'r Ymneilltuwyr yn unig, gan mai hwy oedd yr unig sefydliad Cymreig digon nerthol i fynnu rhagor o ymreolaeth wleidyddol i Gymru.

Daw Emrys ap Iwan â'r llinynnau hyn ynghyd wrth ysgrifennu yn y *Geninen* yn 1886, gan esbonio mewn ychydig eiriau pa effaith a gâi'r pwysau masnachol ar y wasg Gymraeg ar ddatblygiad cenedlaetholdeb Cymreig. Mae'n werth ei ddyfynnu yn ei gyfanrwydd:

Cyn gofyn i'r Golygydd imi am erthygl ar y pwngc uchod, yr oeddwn wedi cynnig ysgrif lai ar yr un pwngc i olygydd newyddiadur; ond ni fynnai hwnnw ei chyhoeddi, am y gwnaethai hi ddrwg, meddai ef, i'r ymgeiswyr Gladstonaidd, y rhai oedd y pryd hwnnw newydd gyhoeddi eu hannerchiadau ystrydebol i'w hetholwyr. Yr wyf yn dywedyd hyn, er mwyn dangos gymmaint a all golygwyr newyddiaduron Cymreig wneyd tuag at fygu syniadau Cymreig. Y maent oll yn awyddus i'r Gymraeg gael ei haddysgu yn yr ysgolion beunyddiol, am y tueddai hynny i liosogi darllenwyr Cymreig; ond y maent gan fwyaf, ysywaeth, yn erbyn plaid Gymreig a llywod-ddysg Gymreig, am y byddai yn fwy trafferthus a chostus iddynt hwy ddarparu erthyglau gwreiddiol ar byngciau Cymreig na chadw rhywun i ledgyfieithu erthyglau Seisnig; yr hyn beth sydd wedi gwneyd mwy i fagu yspryd a syniadau Seisnig yng Nghymru na dim arall. Gwell i'r darlennydd ddyfalu nag i mi fynegu gymaint mwy manteisiol, yn fasnachol ac yn gymdeithasol, ydyw i gyhoeddwyr newyddiaduron barhau i ymlynu wrth un o'r ddwyblaid fawr Seisnig-Ysgottig nag annog eu cydwladwyr i ofalu am eu matterion eu hunain, ac i estroniaid ofalu am eu matterion hwythau. (ap Iwan, 1886, p. 157)

Yma mae'n dadlau bod amharodrwydd golygyddion papurau newydd Cymreig i ddadlau o blaid sefydliadau gwleidyddion arwahanol i Gymru, yn deillio'n uniongyrchol o'r sylweddoliad y byddai yn fwy costus iddynt orfod darparu arlwy unigryw Gymreig ar y sefydliadau hyn nag y byddai iddynt barhau i adrodd ar sefydliadau gwleidyddol y Deyrnas Unedig. Soniwyd eisoes am ddamcaniaeth Hallet al., sef bod y cyfryngau yn awyddus i sicrhau bod ganddynt y mynediad lleiaf ffwdanus posib at newyddion, a hynny oherwydd y cyfyngiadau ariannol ac amserol sydd arnynt (Hall, et al., 1978 [1980], pp. 55-7). Awgryma ap Iwan mai sgil-effaith hynny yw nid yn unig gorddibyniaeth ar rai ffynonellau, ond hefyd amharodrwydd i weld newid y drefn wleidyddol oherwydd y gallai achosi anghyfleustra i'r broses honno o gasglu newyddion yn rhad o'r ffynonellau hynny. Fel y gwelwyd yn y bennod ddiwethaf, dagrau pethau oedd nad oedd y ddibyniaeth hon ar sefydliadau Prydeinig yn gynaliadwy i'r wasg Gymraeg. Yn sgil dyfodiad papurau dyddiol Saesneg ni allent gystadlu drwy ddarparu cynnwys arbenigol a oedd at ddant cynulleidfa mewn parth daearyddol penodol yn unig. Er mwyn goroesi roedd angen iddynt fod yn fwy na phapurau newydd Prydeinig yn Gymraeg. Nid wyf yn argyhoeddiedig, fel yr oedd Emrys ap Iwan, y gallai'r golygyddion fod wedi newid cyfeiriad o'u gwirfodd. Gwelwyd eisoes fod Thomas Gee yn feistr ar ddefnyddio disgwrs cenedlaetholdeb er mwyn gwireddu ei amcanion gwleidyddol ei hun, ac mae ei sylwadau am bapurau newydd o Loegr y cyfnod yn awgrymu ei fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd y 'geiriau bychain' wrth hybu ymdeimlad o genedlaetholdeb: "Mae i ran fechan o diriogaethau ei Mawrhydi, fel Cymru, ymfalchïo yng nghryfder a gogoniant ei sefydliadau hynafol yn cael edrych arno yn nesaf peth i deyrn-fradwriaeth; o blegid byth wedi cwmp 'Llewelyn ein Llyw Olaf,' rhyfyg o'r mwyaf ydyw sôn am *ein* gwlad, ac *ein* iaith" (Gee, 1863, p. 1). Er ei fod yn ymwybodol o hyn oll, nid oedd Gee, nac unrhyw gyhoeddwr arall, yn alluog i wrthwynebu'r dylanwadau masnachol a sefydliadol a wnâi atgynhyrchu cenedlaetholdeb Prydeinig ymysg y Cymry yn anochel.

Yn y bennod hon rwyf wedi dadlau bod y wasg Gymraeg, yn absenoldeb sefydliadau gwleidyddol amlwg yng Nghymru, yn rhwym o atgynhyrchu cenedlaetholdeb ‘banal’ Prydeinig, yn hytrach na chenedlaetholdeb Cymreig. Golygai’r cyfyngiadau masnachol a oedd ar y papurau hyn eu bod yn ddibynnol ar y sefydliadau yn Lloegr, a ‘phedwaredd ystâd’ papurau newydd Llundain, am eu harlwy. Dim ond lle bodolai sefydliadau Cymreig y gwelir ymgais i hybu defnydd disgwrs cenedlaetholdeb ‘poeth’ er mwyn ennill cefnogaeth dorfol i amcanion gwleidyddol. Dadleuaf felly fod damcaniaethau megis un Hall et al. am ‘fynediad i’r newyddion’ yn fodd o ieuo damcaniaeth Roeder ynglŷn â chenhedloedd segmentedig gyda damcaniaethau o eiddo Billig ac eraill ynglŷn â grym yr argraffwasg wrth atgynhyrchu disgwrs cenedlaetholdeb. Petai Cymru yn ‘genedl segmentedig’, fel nifer o rai eraill ar draws Ewrop yn ystod yr un cyfnod a oedd yn meddu ar eu sefydliadau gwleidyddol amlwg eu hunain, fe allent fod wedi dylanwadu ar y wasg drwy hybu disgwrs cenedlaetholgar er mwyn ennill cefnogaeth dorfol i ehangu eu grym eu hunain. Petai’r sefydliadau hynny mewn perthynas anffafriol â’r genedl-wladwriaeth ganolog, fe fyddai ganddynt gymhelliad amlwg i wneud hynny. Fel ag yr oedd pethau, erbyn bod gan Gymru sefydliadau cenedlaethol o’r fath, y tu hwnt i rai crefyddol neu gelfyddydol, roedd ‘oes aur’ y wasg Gymraeg eisoes yn dyfod i ben.

## Casgliad

Mae'r traethawd hwn wedi cynnig dadansoddiad manwl o ddatblygiad cenedlaetholdeb Cymreig yn ail hanner y 19eg ganrif, gyda sylw arbennig i ddylanwad technolegau cyfathrebu. Bwriad y thesis oedd cynnig her i ddamcaniaethau sy'n awgrymu mai ideoleg ryddfrydol y Cymry sy'n esbonio pam na ddatblygodd mudiad cenedlaethol yma i'r un graddau ag a welwyd yn rhai o wledydd canolbarth Ewrop. Yn hytrach, mabwysiadais ddamcaniaeth 'offerynyddol' Roeder er mwyn dangos mai'r hyn a oedd yn gwahaniaethu rhyngddynt oedd diffyg sefydliadau gwleidyddol yng Nghymru, megis senedd-dai a phrifysgolion, a allai fod wedi atgynhyrchu cenedlaetholdeb Cymreig ar draul un Prydeinig. Yn hytrach, yr unig sefydliadau gwleidyddol o bwys yng Nghymru oedd yr enwadau Ymneilltuol, a hybai genedlaetholdeb Cymreig ethnogrefyddol er mwyn ennill cefnogaeth dorfol i'w hamcanion gwleidyddol cyfyngedig. Awgrymwyd yn ogystal fod diffyg economi integredig yng Nghymru yn golygu nad oedd symbyliad amlwg ymysg y dosbarthiadau hynny a fyddai fel arall yn rhan annatod o unrhyw fudiad cenedlaethol, megis masnachwyr, i gefnogi amcan o'r fath. Gwelir effaith absenoldeb y sefydliadau hyn yng ngwasg y cyfnod. Er mai dyma 'oes aur' y wasg Gymraeg, nid atgynhyrchwyd disgwrs cenedlaetholdeb a greai ymdeimlad o berthyn i 'gymuned ddychmygedig' Gymreig, a hynny yn rhannol oherwydd yr heriau economaidd a wynebai'r wasg, a'r modd yr oedd wedi ei hintegreiddio o fewn economi a ddarparai wasg Saesneg ffyniannus, ond hefyd am nad oedd sefydliadau cenedlaethol Cymreig blaenllaw a allai ddefnyddio'r wasg er mwyn hyrwyddo eu hagenda gwleidyddol eu hunain. Fe fydd y bennod hon yn cynnig trosolwg o'r hyn a drafodwyd hyd yma, cyn cynnig sylwadau terfynol ynglŷn â'i berthnasedd i'r cyfnod presennol, ac awgrymu cyfeiriadau ar gyfer ymchwil pellach.

Yn y bennod gyntaf cafwyd cyfle i fwrw golwg dros y llenyddiaeth yn y maes ac amlinellu rhai o'r damcaniaethau a fyddai'n greiddiol i'r penodau diweddarach. Dadleuwyd yn ogystal mai dadansoddiad 'adeileddol' o genedlaetholdeb sydd fwyaf dilys, gan ei fod yn caniatáu i ni addef nad yw cenedlaetholdeb o reidrwydd yn ffenomenon modern yn unig sydd ynghlwm â dulliau modern o gyfathrebu, megis y wasg argraffu, ond hefyd nad yw'n rhywbeth sefydlog sydd wedi parhau'n ddigyfnewid drwy'r cenhedloedd; yn wir, mae mewn cyflwr o newid parhaus, a gellir olrhain llanw a thrai cenedlaetholdeb yn ôl anghenion gwleidyddol sefydiadau sy'n gweld budd wrth atgynhyrchu disgwrs cenedlaetholdeb er mwyn ennill cefnogaeth dorfol.<sup>360</sup> Serch hynny, roedd y chwyldro diwydiannol wedi arwain at y fath newid yn y modd y llywodraethid gwledydd Ewrop, o system ffiwdal i un lle'r oedd y grym yn nwylo'r dosbarth canol a'r sefydliadau nerthol a oedd yn angenrheidiol mewn gwledydd diwydiannol cymhleth, yn ogystal â darparu'r dechnoleg a ganiataodd atgynhyrchu disgwrs cenedlaethol mewn modd torfol, fel ei fod yn anorfod yn mynd i arwain at wedd newydd, fodern ar genedlaetholdeb a allai esgor ar genedl-wladwriaethau modern ac, wrth wneud hynny, hollti ac ailffurfio'r cymunedau dychmygedig y teimlai y werin eu bod yn rhan ohonynt.

Rhannwyd gweddill y traethawd yn ddwy ran. Yn y rhan gyntaf, ym mhenodau 2, 3 a 4, bwriais olwg ar gryfderau a gwendidau damcaniaethau blaenllaw ynglŷn â'r modd y datblygodd cenedlaetholdeb yng Nghymru yn y 19eg ganrif, sef damcaniaethau sy'n blaenoriaethu esboniadau sosio-economaidd, a rhai sy'n dadlau mai ideoleg ryddfrydol y Cymry fu'n gyfrifol. Yn yr ail hanner, ym mhenodau 5, 6 a 7, cyflwynais fy namcaniaeth fy hun, gan ieuo damcaniaethau 'offerynyddol' Roeder gyda rhai sy'n pwysleisio cyfraniad pwysig y wasg argraffu wrth hybu cenedlaetholdeb.

---

<sup>360</sup> Ys dywed Eugen Weber, "the nation is a complex of collective bodies, all in the process of perpetual change and in a constantly varying relationship with one another" (Weber, 1977, p. 113).

Dadleuais yn yr ail bennod fod gwrthdaro sylfaenol rhwng y modd yr oedd Brooks yn ystyried cenedlaetholdeb, sef ei fod yn deillio o reddf geidwadol i ddiogelu nodweddion ethnig cenedl, a'r modd yr ystyrir ef gan ddamcaniaethwyr megis Hechter, Hroch a Nairn, sef ei fod yn deillio o ymdrechion y dosbarth canol i hybu cefnogaeth dorfol i'w hymdrechion i ddiosg rheolaeth yr uwch-ddosbarth. Er nad oedd y modd y diwydiannwyd Cymru, na chwaith mewnfudo, yn ddigon i esbonio pam na welwyd mudiad cenedlaethol amlwg yng Nghymru fel rhai o wledydd eraill anhanesiol Ewrop, roedd y ffordd y cafodd yr economi ei hintegreiddio o fewn economi'r Deyrnas Unedig yn golygu nad oedd cymhelliad mewn gwirionedd i'r dosbarth canol hybu cenedlaetholdeb Cymreig er mwyn sicrhau ymreolaeth. Lle'r oedd rhaniad diwylliannol amlwg ar sail llafur, e.e. yn achos y chwarelwyr, gwelwyd bod cenedlaetholdeb Cymreig yn cael ei hybu yn y fath fodd. Cyflwynais hefyd y ddadl fod damcaniaeth Alexander Gerchenkron yn awgrymu nad oes modd ysgaru ideoleg ryddfrydol y Cymry oddi wrth eu hamgylchiadau economaidd, oherwydd yr oedd y ddau mewn perthynas symbiotig.

Yn y drydedd bennod euthum i'r afael â'r cyntaf o'r cyhuddiadau yn erbyn rhyddfrydiaeth, sef ei bod yn gyfrifol am atal mudiad cenedlaethol amlwg yng Nghymru. Dadleuais yn hytrach fod ideoleg rhyddfrydiaeth yn rhan annatod o dwf cenedlaetholdeb a'r broses o drosglwyddo grym o ddwylo'r elît ffiwdal i'r dosbarth canol. Er mwyn cyflawni hynny roedd arnynt angen cefnogaeth dorfol y dosbarth gweithiol, ac o dan amgylchiadau lle ceid rhaniad diwylliannol ar sail llafur fe esgorodd hynny ar ymdrechion i hybu disgwrs cenedlaetholdeb. Anghywir felly yn fy marn i oedd yr awgrym y gallai ceidwadaeth yrru cenedlaetholdeb, oherwydd diben ceidwadaeth yn y cyfnod dan sylw oedd cynnal y drefn ffiwdal fel ag yr oedd, a fyddai yn ei dro wedi atal Cymru rhag datblygu'n genedl-wladwriaeth fodern, lle'r oedd y grym yn nwylo'r bobl. Dadleuais yn ogystal nad oedd ideoleg *laissez-faire* yr Ymneilltuwyr yn golygu rhoi



rhwydd hynt i'r farchnad rydd ym mhob agwedd o fywyd mewn gwirionedd – cri'r gorthrymedig ydoedd, ac esgus i sicrhau mantais iddynt eu hunain. Gallai'r Ymneilltwyr bledio *laissez-faire* mewn meysydd oedd o fantais iddynt hwy tra'n amddiffyn i'r carn y parth crefyddol yr oeddynt wedi ei saernïo iddynt eu hunain yng Nghymru. Nid oes dim i awgrymu felly na allent fod wedi dadlau o blaid y Gymraeg ar sail dadleuon rhyddfrydol pe buasai'n fater o bwys iddynt. Awgrymais yn ogystal nad oedd rhyddfrydiaeth yn wahaniaeth sylfaenol rhwng Cymru a cenedloedd anhanesïol eraill Ewrop. Yn hytrach, y gwahaniaeth pennaf rhyngddynt oedd bod Cymru eisoes wedi ei llyncu gan genedl-wladwriaeth fodern, tra bo'r gwledydd hyn yn meddu ar fwy o ymreolaeth..

Yn y bedwaredd bennod fe euthum i'r afael â'r cyhuddiad mai ideoleg rhyddfrydiaeth oedd gwreiddyn agwedd elyniaethus neu ddi-hid y Cymry tuag at y Gymraeg yn y 19eg ganrif. Awgrymais yn hytrach fod yr agwedd hon yn deillio o genedlaetholdeb ethnogrefyddol a ddaeth i amlygrwydd torfol yn ystod y 19eg ganrif ond y mae modd olrhain ei wreiddiau i ddyneiddwyr yr 16eg ganrif. Eilbeth i grefydd – a chyfrwng i achub eneidiau – oedd yr iaith Gymraeg o fewn y cenedlaetholdeb hwn. Serch hynny, sgil-effaith rhyddfrydiaeth oedd proses o seciwlareiddio a arweiniodd erbyn diwedd y ganrif at ailasesu'r berthynas glos hon rhwng yr iaith a chrefydd gan Emrys ap Iwan ac eraill. Dadleuais yng ngoleuni damcaniaeth Chatterjee ynglŷn â'r modd y bydd cenedlaetholdeb gwrth-drefedigaethol yn creu ei barth 'ysbrydol' sofren ei hun fod lle i ddiolch i'r Ymneilltwyr am ddiogelu'r iaith o fewn y parth crefyddol nes i grefydd edwino ac i genedlaetholdeb ieithyddol ymddangos wrth i'r ganrif dynnu at ei therfyn.

Wedi tafoli'r dadleuon sosio-economaidd ac ideolegol ynglŷn â hynt cenedlaetholdeb yng Nghymru yn y 19eg ganrif, euthum ati i gynnig fy nadansoddiad innau o'i ddatblygiad.

Awgrymais fod damcaniaeth ‘cenedloedd segmentedig’ Roeder yn cynnig esboniad i’r perwyl hwnnw. Oherwydd bod Cymru eisoes wedi ei hintegreiddio o fewn cenedl-wladwriaeth ganolog oddi ar y Ddeddf Uno, ac wedi colli unrhyw sefydliadau cenedlaethol o bwys, collwyd yn ogystal unrhyw gymhelliad ar i’r bobl arddel cenedlaetholdeb arwahanol. Serch hynny, bu dau ffactor yn hwb i genedlaetholdeb Cymreig yn ystod y cyfnod hwn; yn gyntaf, y camwahaniaethu ethnig yn erbyn y Cymry yn sgil meddylfryd Darwiniaidd yr oes; ac yn ail, yn bwysicach byth, ymdrechion yr Ymneilltuwyr i sicrhau cydraddoldeb iddynt eu hunain, ac i ddymchwel rheolaeth yr Eglwys Wladol. O’i ystyried yn nghyd-destun damcaniaeth Roeder, nid yw’n syndod bod y symbyliad dros greu sefydliadau cenedlaethol, megis byrddau ysgol, prifysgolion, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd wedi deillio o un o’r ychydig sefydliadau segmentedig gwirioneddol a fodolai yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwnnw, sef y gyfundrefn eglwysi Ymneilltuol. Parhaodd y sefydliadau cenedlaethol a nodwyd i atgynhyrchu cenedlaetholdeb Cymreig er mwyn gwarchod eu dilysrwydd eu hunain fel sefydliadau cenedlaethol ac, yn sgil edwino crefydd ar ddechrau’r 20fed ganrif, hyrwyddwyd cenedlaetholdeb ieithyddol yn hytrach na chenedlaetholdeb ethnogrefyddol ganddynt. Er y beirnedir ymdrechion yr Ymneilltuwyr ar y sail nad oeddynt wedi ennill cefnogaeth yr holl Gymry, awgryma damcaniaeth Roeder nad oedd hynny yma nac acw, gan mai lluniad *post-hoc* yw’r brwdfrydedd poblogaidd o blaid amcanion cenedlaethol sefydliadau cenedloedd segmentedig mewn gwirionedd.

Ym mhennod saith ac wyth, edrychais ar yr hyn y gall gwahanol ddamcaniaethau am genedlaetholdeb ei ddweud wrthym ni ynghylch effaith y wasg Gymraeg ar ddatblygiad cenedlaetholdeb Cymreig yn y 19eg ganrif. Nodais fod y cyfnod hwn, ar yr wyneb, fel pe bai’n cwrdd â’r cwbl o feini prawf damcaniaethwyr gan gynnwys Anderson a Billig ynglŷn â’r amgylchiadau a ddylai fod wedi esgor ar genedlaetholdeb hyfyw yng Nghymru, a bod ei anallu

i wneud hynny wedi achosi penbleth i rai academyddion. Awgrymais yn hytrach nad oedd y wasg Gymraeg yn cwrdd â meini prawf Anderson a Billig ar gyfer gwasg a fyddai wedi atgynhyrchu yn effeithiol ymdeimlad o gymuned ddychmygedig yn ystod y cyfnod hwn.

Ym mhennod saith dadleuais fod angen edrych y tu hwnt i lewyrch ‘oes aur’ y wasg Gymraeg a chanolbwyntio yn ogystal ar ei gallu i hybu ymdeimlad o ‘gymuned ddychmygedig’, yn ogystal â’i chyferbynnu â’r wasg Saesneg. Dadleuais fod y ffactorau hynny fu’n gyfrifol am yr ‘oes aur’ – gostwng ac yna ddiddymu’r trethi ar wybodaeth, datblygiadau i’r grefft o argraffu, a’r rheilffordd – hefyd wedi hybu gwasg fasnachol Saesneg a’i hysgubodd o’r neilltu. Yn ogystal, roedd y wasg Saesneg yn llawer mwy llwyddiannus wrth greu ymwybyddiaeth o ‘gymuned ddychmygedig’ Brydeinig na’r wasg Gymraeg, nad oedd yn wasg ddyddiol, weladwy na gwir genedlaethol ei chyrhaeddiad. O ganlyniad, nid oedd yn atgynhyrchu’r seremoni ddyddiol honno o ddarllen ar y cyd a fyddai yn ôl Anderson wedi creu ymdeimlad o gymuned ddychmygedig. Serch hynny, nodais y byddai’r orfodaeth ar y wasg Gymraeg i daflu ei rhwyd yn ehangach na’r trefi yn gymhelliad i’r golygyddion hybu ymdeimlad o gymuned ddychmygedig er mwyn denu darllenwyr.

Bwriad yr wythfed bennod oedd dangos bod modd ieuo damcaniaeth Roeder ynglŷn â grym sefydliadau cenedloedd segmentedig wrth hybu cenedlaetholdeb a drafodwyd ym mhennod chwech, gyda’r damcaniaethau am bwysigrwydd y wasg argraffu o eiddo Anderson a Billig a drafodwyd yn y bennod flaenorol. Gwnaethpwyd hynny drwy gyfrwng damcaniaeth Hall et al. am ‘news access’ yn ogystal â gwaith Cormack ar dueddiad cyfryngau mewn ieithoedd leiafrifol i atgynhyrchu cenedlaetholdeb ‘banal’ sy’n cefnogi’r *status quo* gwleidyddol. Cynheliwyd dadansoddiad disgwrs ar bapur newydd *Baner ac Amserau Cymru* er mwyn astudio’r math o ddisgwrs cenedlaetholdeb a ddefnyddid, gan ddadlau mai cenedlaetholdeb

Prydeinig yn hytrach na chenedlaetholdeb Cymreig a atgynhyrchwyd gan y wasg Gymraeg yn ystod oes aur y 19eg ganrif, a bod hynny'n deillio o'u dibyniaeth ar sefydliadau Prydeinig am eu newyddion. Pan ddefnyddid cenedlaetholdeb Cymreig 'poeth', gwneid hynny o ganlyniad i ymdrechion sefydliadau i wthio am newid gwleidyddol a fyddai o fudd iddynt hwy.

Wrth grynhoi, felly, ni ellir dadlau mewn difrif fod bai ar y Cymry eu hunain am na ddaeth y wlad yn annibynnol yn yr 20fed ganrif, yn fwy nag y gellir beio ŵy am beidio â chael ei wneud yn omlod. Ffenomenon a ddaw i'r amlwg dan amgylchiadau penodol yw cenedlaetholdeb; roedd yr amgylchiadau hynny yn bodoli yn rhai o wledydd anhanesiol eraill Ewrop, a oedd yn meddu ar eu sefydliadau gwleidyddol eu hunain ar ddechrau'r 19eg ganrif, ac nad oeddent eisoes wedi eu hintegreiddio o fewn cenedl-wladwriaeth ganolog gyda'i sefydliadau gwleidyddol ei hun; lle nad oedd eu heconomiâu wedi eu hintegreiddio i'r fath raddau ag economi'r craidd; a lle nad oedd gwasg ffyniannus a allai atgynhyrchu ymdeimlad o gymuned ddychmygedig a fyddai'n cystadlu yn uniongyrchol â'u hymdrechion hwy i'r perwyl hwnnw. Fel y dengys y traethawd hwn, nid wyf yn credu y gellir edrych ar Gymru ar ddechrau'r 19eg ganrif yng ngoleuni y damcaniaethau ar genedlaetholdeb a ystyrir yma a datgan bod Cymru rydd yn yr 20fed ganrif *i'w disgwyl*. Yr unig fodd o wneud hynny yw troi llygad ddall i'r damcaniaethau hynny a dadlau yn hytrach fod yna ryw hanfod - ryw 'je ne sais quoi' - ynghlwm â trigolion is-genedlaethol y parth daeryddol hwn a fyddai wedi eu symbylu i gydio yn eu cenedligrwydd heb fod unrhyw gymhelliad amlwg arnynt i wneud hynny. Nid wyf wrth gwrs yn dadlau nad oedd yr iaith Gymraeg yn hollbwysig wrth saernïo hunaniaeth ar wahân i'r Cymry, ond nid yw bodolaeth iaith na thafodiaith ynddi'i hunan yn symbyliad i frwydro dros genedl-wladwriaeth, neu fe fyddai dros 6,000 o'r rheini mewn bodolaeth heddiw yn hytrach na llai na 200 (heb sôn am yr holl ieithoedd a aeth i ddifancoll dros y canrifoedd diwethaf). Brwydr dosbarth deallusol cymdeithas am *rym* yn bennaf oll sy'n gyrru mudiadau cenedlaethol, ac

ystryw (diarwybod, o bosib) er mwyn cyflawni hynny yw pwysleisio rhwygiadau ethnig – boed y rheini'n grefyddol neu'n ieithyddol. Penderfynwyd pwysleisio'r elfen ysbrydol ym mudiad cenedlaethol Cymru oherwydd yr ymdeimlad cryfach o hunaniaeth grefyddol a fodolai yng Ngymru'r 19eg ganrif. Buasai sefydlu mudiad cenedlaethol ar sail iaith, oherwydd diffyg unrhyw sefydliadau cenedlaethol a fyddai wedi hyrwyddo gwahaniaethau ieithyddol, yn ogystal â'r anfri a roddwyd ar ffynhonellau ynglŷn â hanes Cymru y tu hwnt i'r naratif crefyddol, yn llawer mwy problemus. Darostyngwyd yr iaith felly yn llawforwyn i grefydd. Dim ond yn sgil creu sefydliadau a allai roi bri ar genedlaetholdeb ieithyddol ar ddiwedd y 19eg ganrif, a dirywio crefydd, y daeth cenedlaetholdeb ieithyddol yn hyfyw.

Yn fy marn i, mae dynodi ceidwadaeth fel grym a ddylai sbarduno cenedlaetholdeb Cymreig nid yn unig yn anghywir, ond yn berygl, gan ei fod yn disgyn i'r union fagl a osodwyd gan wrthwynebwr yr iaith. Yn eu tyb hwy, rhywbeth a berthynai i'r gorffennol oedd y Gymraeg, tra bo'r Saesneg yn cynrychioli 'cynnydd'. Nid yr ateb i hynny yw bod yn fwy ceidwadol er mwyn achub yr iaith, ac nid dim ond wrth wrthod ideoleg flaengar a glynu wrth y gorffennol ffiwdal y mae modd cofleidio Cymreigrwydd. Gwelwyd y cyfnod mwyaf o gynnydd yn nifer siaradwyr y Gymraeg, ac yn y wasg Gymraeg, pan welwyd trawsnewidiad y wlad o un geidwadol a gwledig i un ryddfrydol a diwydiannol. Nid ideoleg y Cymry oedd y broblem ond y ffaith bod yr amgylchiadau economaidd yn golygu bod y wlad yn injan i ddatblygiad cenedlaetholdeb Prydeinig yn hytrach nag un Cymreig. Serch hynny, roedd ideoleg ryddfrydol yr Ymneilltuwyr, a'r pwyslais ar waith caled, yn rhan hollbwysig o drawsnewidiad Cymru o wlad wledig, ffiwdal dan reolaeth uchelwyr ac esgobion Seisnig i wlad ddiwydiannol, fodern a oedd yn dechrau dod i ymgymffred â'i Chymreictod. Dagrau pethau oedd na roddwyd cyfle i'r Cymry ymfalchïo yn eu cyflawniadau eu hunain - pwyswyd arnynt drwy'r wasg Saesneg i briodoli eu holl lwyddiannau i'r Saesneg a'r wladwriaeth ehangach, ac ni fodolai sefydliadau

cenedlaethol a allai fod wedi meithrin gwasg genedlaethol Gymraeg neu Gymreig hyderus a allai ddadlau i'r gwrthwyneb.

Credaf fod canlyniadau'r ymchwil hon yn berthnasol, nid yn unig wrth ymchwilio i'r 19eg ganrif ond hefyd wrth fynd i'r afael â datblygiad cenedlaetholdeb yn y cyfnod presennol. Fe fydd o ddefnydd ymarferol, ar y naill law i'r rheini sydd am weld Cymru yn tyfu o fod yn genedl segmentedig gyda'i sefydliadau gwleidyddol amlwg ei hun yn sgil refferendwm 1999 (Roeder, 2007, p. 357), ac ar y llall i'r rheini sydd am gynnal cyfanrwydd y genedl-wladwriaeth ganolog ar ei ffurf presennol. Awgryma ymchwil Roeder fod nifer o ragdybiaethau'r garfan olaf yn gwbl anghywir e.e. honiad y Barwn Robertson: "Devolution will kill nationalism stone dead." ("How Bulldog Brown could call Braveheart Salmond's bluff", 2007) Yr hyn a awgryma ymchwil Roeder yw bod modd i'r genedl-wladwriaeth ganolog atal cenhedloedd segmentedig rhag symud i gyfeiriad annibyniaeth trwy gyfaddawdu a chynnig iddynt yr hyn y maent yn ei ddeisyfu. Serch hynny, ni ddylent gynnig iddynt eu sefydliadau gwleidyddol segmentedig eu hunain. Y modd mwyaf effeithiol o ladd cenedlaetholdeb 'stone dead' ys dywed Robertson yw agor drysau sefydliadau gwleidyddol y genedl-wladwriaeth ganolog led y pen i aelodau'r genedl segmentedig, a sicrhau nad oes dim yn sefyll yn ffordd eu siwrnai i'r craidd metropolitaidd, ac yn wir eu bod yn cael triniaeth ffafriol yno. Dylid nodi i'r perwyl hwnnw ymchwil Lacina, sy'n awgrymu bod y grwpiau sydd â mantais wleidyddol yn y brifddinas yn llai tebygol o hybu gwrthdaro gyda'r genedl-wladwriaeth ganolog. Mae'r Ddeddf Uno yn esiampl o genedl-wladwriaeth ganolog yn gwneud hynny'n llwyddiannus, tra bo'r Ymerodraeth Hapsburgaidd yn dangos yr hyn sydd yn digwydd pan fydd cenedl ganolog y genedl-wladwriaeth yn cau ei drysau i genhedloedd eraill sydd eisoes â'u sefydliadau segmentedig eu hunain. Dengys awgrym Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, y dylid diddymu Tŷ'r Arglwyddi a'i disodli â sefydliad sy'n rhoi'r un faint o gynrychiolaeth i bob un

o wledydd y Deyrnas Unedig, heb gymryd i ystyriaeth eu poblogaeth, ei fod wedi deall mai dyma'r modd mwyaf effeithiol o atal cenedlaetholdeb ("Carwyn Jones says UK must become 'fit for 21st century'", 2012). O'i osod mor blaen, ymddengys y peth yn syml. Ond mae datblygiadau gwleidyddol diweddar yn y Deyrnas Unedig yn awgrymu nad yw mor hawdd a hynny; wele'r modd y cyhoeddwyd polisi Pleidleisiau Lloegr i Gyfreithiau Lloegr (EVEL) drannoeth Refferendwm yr Alban (Wintour, 2014). Dyma bolisi sydd yn darostwng Aelodau Seneddol o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i statws eiliadd o fewn sefydliad gwleidyddol bwysicaf y craidd metropolitaidd. Ymddengys mai'r broblem oesol wrth gadw cenedl-wladwriaethau ynghyd yw nid ymdrin â gofynion y cenedloedd sydd yn cynrychioli lleiafrif oddi mewn iddynt, ond yn hytrach fodloni'r genedl sydd yn y mwyafrif, h.y. yn achos y Deyrnas Unedig, Lloegr. Yn hynny o beth, mae'n debygol y bydd gallu'r Deyrnas Unedig i ymaddasu er mwyn cwrdd â galwadau sefydliadau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gwamalu wrth i barodrwydd y Saeson i stumogi hynny ddod i ben. Efallai mai un fantais sydd gan genedl-wladwriaethau bellach, fel y dengys profiad yr Alban a Quebec, yw nad rywbeth ad hoc yw cefnogaeth dorfol i genedlaetholdeb erbyn hyn, o leiaf mewn gwledydd gorllewinol; mae myth y genedl-wladwriaeth fodern, a saerniwyd o ganlyniad i ewyllys y bobl, bellach mor gryf fel ei fod yn realiti. Rhaid ennill refferendwm cyn cael datgan annibyniaeth.

Tra bo sefydliadau gwleidyddol Cymru yn llawer cryfach nag yr oeddynt yn y 19eg ganrif, gwelwyd dirywiad sylweddol yn y wasg Gymreig a Chymraeg. Fel y dadleuir isod, heb wasg i gyfryngu neges y sefydliadau hyn mae atgynhyrchu cenedlaetholdeb yn ddyddiol drwy'r disgwrs a ddefnyddir yn dasg anos o lawer. Serch hynny, gellid dadlau bod 'oes aur' y chwyldro print yn y 19eg ganrif yn ddrych i'r chwyldro ddigidol yn yr oes bresennol. Megis yn y cyfnod hwnnw, rhaid i'r iaith Gymraeg ymateb i her technolegau cyfathrebu newydd - y rhyngrwyd, dyfeisiau e-ddarllen, ac apiau ar ddyfeisiau symudol. Nid oes modd gorbwysleisio

pwysigrwydd y cyfnod hwn i'r iaith; ystyrir y gallai 95% o ieithoedd y byd farw o ganlyniad i'w hanallu i ymaddasu i'r oes ddigidol (Kornal, 2013). Serch hynny, ac fel yn y 19eg ganrif, ymddengys bod y Gymraeg, am y tro o leiaf, wedi gwneud defnydd helaeth o'r cyfryngau newydd hyn, a gellid dadlau ein bod unwaith eto yng nghanol math o 'oes aur', gyda 30,000 o ddefnyddwyr unigol yn gwneud defnydd o wasanaeth Cymraeg BBC Cymru Fyw ar gyfartaledd bob wythnos (*IWA Wales Media Audit*, 2015, p. 67). Dengys ystadegau gwefan Golwg 360 eu bod wedi denu 6,280 o ddefnyddwyr unigol bob wythnos ym mis Hydref 2015<sup>361</sup> (Golwg Newydd Cyf., 2015). Ac fel yn ystod 'oes aur' y wasg brintiedig, mae llawer o'r cynnwys Cymraeg a gyhoeddwyd yn waith gwirfoddol ac amatur, drwy flogiau, fforymau neu rwydweithiau cymdeithasol eraill. Er enghraifft, dengys ystadegau Blogmenai.com, sy'n sylwebu ar faterion gwleidyddol o safbwynt Plaid Cymru, bod 83,310 o ddefnyddwyr unigol wedi ymweld â'r safle yn 2015 (Larsen, 2015). Serch hynny, yn union fel y cafodd y diwydiant argraffu ei fasnacheiddio yn y 19eg ganrif (Curran, 1978, pp. 54-5), mae yna bryderon y gallai cwmnïau fel Google fasnacheiddio'r rhyngwrwd (Washbourne, 2010, pp. 125-6), gan arwain at sefyllfa debyg i ddiwedd y 19eg ganrif, lle na allai'r wasg Gymraeg (a Chymreig) gystadlu o ran cynnwys na safon gyda'r wasg Saesneg a Seisnig (A.G. Jones, 1993, p. 97). Noda Ian Johnson fod y Gymraeg yn wynebu her yn wyneb datblygiad y we 2.0 oherwydd adnoddau, nifer y gwefannau, a nifer siaradwyr y Saesneg (Johnson, 2013, p. 117). Yn ogystal â chynnig llwyfan i gynnwys defnyddwyr, mae rhwydweithiau cymdeithasol megis Facebook hefyd yn curadu'r cynnwys y maent yn credu a fydd fwyaf diddorol mewn ffyrdd nad yw eu defnyddwyr yn ymwybodol ohonynt (Leadbeater, 2014, p. 5), ac na fydd o reidrwydd yn ffafrio'r Gymraeg. Mae astudiaethau ar Facebook eisoes wedi nodi tueddiad ymysg siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio Saesneg ar y wefan fel bod pawb yn eu rhwydwaith yn eu deall (Cunliffe, et al., 2013, p. 83). Dengys astudiaeth debyg o wefan Twitter baroddrwydd i newid rhwng y Gymraeg

---

<sup>361</sup> Dyma'r mis diweddaraf o ystadegau cyflawn a oedd ar gael wrth lunio'r bennod hon.



a'r Saesneg er mwyn cyfathrebu â chynulleidfaoedd gwahanol (R. Jones, et al., 2013, p. 17). Nodir bod tueddiad i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â chynulleidfaoedd penodol, ond i drafod yn Saesneg wrth gyfarch cynulleidfa fwy cyffredinol (Johnson, 2013, p. 117). Mae Michele Zappavigna yn awgrymu yn ei llyfr *Discourse of Twitter and Social Media: How we use language to create affiliation on the web* yr hyn a elwir yn 'ambient affiliation', h.y. y gynulleidfa ddychmygol y mae'r defnyddiwr yn credu sy'n darllen ei negeseuon ar wefan rhwydweithio cymdeithasol. Drwy newid iaith neu ddefnyddio hashnod, gellir creu grwpiau neu is-gymunedau *ad hoc* (Zappavigna, 2012, pp. 83-8). Yma gwelwn fod 'cymuned ddychmygedig' Anderson, canfyddiad a greir drwy ddarllen cynnwys y wasg dyddiol, wedi ei gwrth-droi, a'r cynhyrchydd-ddefnyddiwr ar-lein bellach yn gorfod penderfynu ei hun pa gynulleidfa sy'n bodoli i'w neges ac sydd fwyaf perthnasol iddi. Mae angen rhagor o ymchwil cyn penderfynu sut y mae'r 'gymuned ddychmygedig' a'r 'gynulleidfa ddychmygedig' yn gorgyffwrdd, h.y. i ba raddau y mae canfyddiad pobl o'r gynulleidfa y maent ei chyrraedd, ac felly'r iaith y maent yn ei defnyddio, yn dibynnu ar eu canfyddiad o'r parth daearyddol y maent yn uniaethu ag ef? Gall ystyried pam na lwyddodd 'oes aur' y wasg argraffu yn y 19eg ganrif i hybu'r iaith Gymraeg, yn ogystal â pham yr enciliodd, gynnig canllaw i ni wrth fynd i'r afael â heriau cyfoes y chwyldro digidol yn ein cyfnod ni. Nid oedd gofod i wneud hynny o fewn cyfyngiadau'r traethawd hwn, ond mae'n bwnc sy'n hollbwysig y byddaf yn mynd i'r afael ag ef yn y dyfodol, gan wneud defnydd llawn o'r damcaniaethau a astudiwyd yn y traethawd hwn, a chan ddysgu gwersi 'oes aur' y 19eg ganrif.

Nid yw'n syndod efallai fod pwnc mor gymhleth â datblygiad cenedlaetholdeb cenedl yn un sy'n gofyn am ddadansoddiad aml-haenog. Rhyfyg yn fy marn i fyddai pwyntio bys at un elfen a oedd yn gyfrifol am y modd y datblygodd, a'i gorfodi i ysgwyddo'r holl fai neu'r holl glod. Yn fy nhyb i, pe bai Cymru wedi meddu ar economi integredig fe fyddai hynny wedi esgor ar

sefydliadau gwleidyddol nerthol dan reolaeth masnachwyr ac academyddion a fyddai wedi gweld budd o warchod eu marchnadoedd eu hunain. I'd diben hwnw mae'n debygol y byddent wedi defnyddio'r wasg i gynhyrchu disgwrs cenedlaetholdeb er mwyn sicrhau cefnogaeth dorfol i'w hamcanion. Gellid bod wedi pwysleisio'r Gymraeg fel nodwedd ethnig a oedd gan drigolion y genedl honno'n gyffredin, i'r diben hwnnw. Ond nid dyna fel yr oedd pethau, ac ni welaf diben o safbwynt academaidd mewn beirniadu'r gorffennol yn ôl llinyn mesur y presennol, dim ond clodfori'r hyn y llwyddwyd i'w gyflawni o dan yr amgylchiadau. Wedi'r cwbl, os na fu'n 'llwyddiant' o fath ni fyddai cenedl yma i resynu at ei 'fethiant' heddiw. Rhaid i bob cenedlaeth benderfynu yr hyn y mae bod yn Gymry yn ei olygu iddynt hwy. Dysgwn wersi'r gorffennol a'u cymhwyso at y Gymru fodern a'i hamryfal gyfleoedd sy'n brysur ymfurfio yn ein hoes ni, ond gan roi rhwydd hynt i'r genhedlaeth nesaf benderfynu drostynt hwy eu hunain yr hyn y maent am iddi ei gynrychioli.

# Llyfryddiaeth

## Ffynonellau Cynradd

*Aberdare Times*, 1868. 14 Tachwedd.

ap Iwan, E. a., 1880. Chwareu teg i'r Gwyddelod. *Baner ac Amserau Cymru*, 22 Rhagfyr.

ap Iwan, E. a., 1909. *Homiliau*. Dinbych: Gee a'i Fab.

ap Iwan, E., 1879. Pethau a Ddarnguddir. *Baner ac Amserau Cymru*, 30 Ebrill.

ap Iwan, E., 1886. Cymru i'r Cymry. *Y Geninen*, Gorffennaf, IV(3).

ap Iwan, E., 1903. Dyscu Gymraeg yn yr Ysgolion Beunyddiol. *Y Geninen*, Hydref, XXI(4).

*Baner ac Amserau Cymru*, 1859. 5 Hydref.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1859. Gloucester, Wakefield, Sir Feirionydd, a'r Bala. 9 Tachwedd.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1860. 22 Chwefror.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1860. 22 Mawrth.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1861. 31 Gorffennaf.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1861. 8 Mai.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1863. Oddi Wrth ein Gohebydd o Fanchester. 8 Ebrill.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1865. 17 Mai.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1865. 17 Mai.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1865. At ein derbynwyr. 5 Gorffennaf.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1870, 8 Mehefin.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1870. 8 Mehefin.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1870. Llythyr y Gohebydd. 8 Mehefin.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1870. Y Mesur ar Addysg, 5 Mehefin.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1875. 17 Gorffennaf.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1878, 9 Hydref.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1878. Y Cyttundeb Rhwng Lloegr a Thwrci. 14 Awst.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1880. 17 Tachwedd.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1885. Newyddion Cymreig. 24 Ionawr.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1887. 5 Hydref.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1889. Yr Amaethwyr, a'u Gorthrymwyr. 11 Rhagfyr.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1890. 21 Mawrth.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1890. 22 Hydref.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1890. Arglwydd Spencer a Dad-sefydliad yr Eglwys yng Nghymru. 22 Hydref.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1891. Yr Iaith Gymraeg a'r Cyfrifiad Dyfodol. 21 Mawrth.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1895. 4 Mai.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1895. Y Senedd. 4 Mai.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1900. Gohebiaethau. 21 Mawrth.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1900. Prydain a'r Transvaal. 21 Mawrth.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1900. Y Senedd. 21 Mawrth.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1902. 29 Ionawr.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1908. 9 Medi.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1910. Dylanwad y Wasg Newyddiadurol ar Fywyd y Genedl. 7 Medi.

*Baner ac Amserau Cymru*, 1895. Aberystwyth. 4 Mai.

*Baner Cymru*, 1857a. 4 Mawrth, I(1).

*Baner Cymru*, 1857b. Llundain a'r Cymdeithasau. 3 Mehefin.

*Baner Cymru*, 1857c. 18 Mawrth, I(3).

*Baner Cymru*, 1858. Barnwyr y Llysoedd Sirol Cymreig. 12 Mai.

Brutus, 1824. Y Gymraeg, &c.. *Seren Gomer*, Mawrth, VII(102).

Brutus, 1847. Rhagymadrodd. *Yr Haul*, Cyfrol XII.

Brychan Bach, 1815. At Argraffiedydd Seren Gomer. *Seren Gomer*, 9 Awst.

*Caernarfon and Denbigh Herald*, 1899. Y Cylchrediad Mwyaf yng Nghymru. 3 Chwefror.

‘Carwyn Jones says UK must become 'fit for 21st century', 2012. [Ar lein]  
Ar gael: <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-16741170>  
[Cyrchwyd 18 Gorffennaf 2016].

Collough, 1839. Welsh Bishops. *The Glamorgan Monmouth and Brecon Gazette and Merthyr Guardian*, 28 Rhagfyr.

*Commission of Enquiry into Industrial Unrest, No. 7 Division. Report of the Commissioners for Wales, including Monmouthshire*, 1917.. Llundain: H.M.S.O.

Cyfarwydd, 1897. Gwerthu Llyfrau ar y Sul. *Y Negesydd*, 17 Medi.

‘Cyfrifiad 2011: canlyniadau a newidiadau er 2001’. [Ar lein]  
Ar gael:  
<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Cymorth/dataacystadegau/Pages/Cyfrifiad2011canlyniadauanewidiadauer2001.aspx>  
[Cyrchwyd 27 Awst 2015].

Churchman, 1836. The Bishop of Llandaff and the Welsh Language. *Monmouthshire Merlin*, 19 Tachwedd.

D. ab D. ab J.R., 1806. *The Cambrian*, 29 Tachwedd.

Davies, B., 1952. J.D. Lewis, 1859-1914. *Y Genhinen*, I(2)

Davies, D. I., 1885. Cymru Ddwyieithog. *Y Geninen*, Gorffennaf, III(3).

Davies, D. I., 1886. 1885-6: neu O Aberdar i Gaernarfon. *Baner ac Amserau Cymru*, 1 Medi.

Davies, D., 1897. The Journalism of Wales During the Victorian Era. *Young Wales*, August.

Derfel, R. J., 1864. *Caneuon Gwladgarol Cymru*. Wrecsam: R Hughes a'i Fab.

Derfel, R. J., 1905. *Llais Llafur*, 21 Hydref.

Derfel, R. J., 1945. Papur Newydd Dyddiol Cymraeg. Yn: *Detholiad o Ryddiaith Gymraeg R.J. Derfel*. Dinbych: Gwasg Gee.

Dewi Mon, 1883. Ein Diffygion Cenedlaethol. *Y Geninen*. Ebrill, I(2).

Dewi Mon, 1885. Yr Ystorom. *Y Geninen*, Ionawr, III(1).

Dewi Mon, 1889. Yr Eisteddfod Genedlaethol. *Y Geninen*, Ionawr, VII(1).

Eben Fardd, 1900. Anerch at Ieuenctid Cymru. *Y Geninen*. Hydref, XVIII(4)

Edwards, O. M. 1899. *Llyfrau*. Caernarfon: Gwasg Genedlaethol Gymreig.

Edwards, O.M., 1908. Diwedd Blwyddyn. *Cymru*, XXXV(209).

Edwards, O.M, 1913. Llyfrau a Llenorion. *Cymru*, XLV(266).

Eglwysbach, 1896. Gwerthu Llyfrau ar y Sul. *Y Drych*, 25 Mehefin.

Ellis, T. E., 1895. Llythyr pwysig oddi wrth Mr. T E Ellis AS. *Baner ac Amserau Cymru*, 4 Mai.

Ellis, T.E. 1944. *Thomas Edward Ellis: Cofiant*. Lerpwl. Cyfrol II.

Evans, B. G., 1888. The Evidence of Beriah G Evans, Secretary of the Society for the Utilization of the Welsh Language. Yn: *Bilingual teaching in Welsh elementary schools*. Casnewydd: John E. Southall.

Evans, B., 1890. Y Faner yng Nghymru a'r Times yn Lloegr. *Y Celt*, 11 Ebrill.

Evans, E., 1764. *Some Specimens of the Poetry of the Antient Welsh Bards*. Llundain.

Evans, J. H., 1865. Llenyddiaeth y Gweithiwr. *Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, Ionawr, Cyfrol LVII.

Evans, J., 1897. Ffugchwedlaeth a'r Pulpud. *Y Drysorfa*, Mehefin, LXVII(800).

'Ewyllysiwr Da', 1830. Sylw ar Ysgrif Arfonydd. *Y Dysgedydd*, Cyfrol IX.

Gee, T., 1863. Y Times a'r Eisteddfod Genedlaethol. *Baner a Amserau Cymru*, 23 Medi.

Gee, T., 1866. Y Gymraeg, a'r Dyfodol. *Baner ac Amserau Cymru*, 1 Awst.

Gee, T., 1890. Moesoldeb Rhyfel y Degwm, Deon Llanelwy, ac Ymneillduwyr ac Amaethwyr Cymru. *Baner ac Amserau Cymru*, 22 Hydref.

- Gee, T., 1891. Llythyr Cyntaf Mr. Gee. Yn: *Moesoldeb Rhyfel y Degwm*. Dinbych: T. Gee a'i Fab.
- Geraint, 1888. Crefydd Cymru Fydd. *Y Geninen*, Hydref, VI(4).
- 'Glan Rhondda', 1884. Nodiadau o'r Rhondda Fychan. *Y Celt*, 26 Rhagfyr.
- Glanffrwd, 1887. *Y Geninen*, Ionawr, V(1).
- Glanystwyth, 1889. *Y Geninen*, Gorffennaf, VII(3).
- Glaslyn, 1896. Agwedd Bresennol Llenyddiaeth Gymreig. *Y Llenor*, Cyfrol V.
- Glaslyn, 1907. Ein Llenyddiaeth Gyfnodol. *Cymru*, Ionawr, XXXII(186).
- Gwyndodig, 1887. Philistiaeth Eisteddfodol. *Y Geninen*, Hydref, V(4).
- Gwynedd, I., 1847a. *Monmouthshire Merlin*, Gorffennaf.
- Gwynedd, I., 1847b. *Y Dysgedydd*, Awst.
- Gwynedd, I., 1848. *The Principality*, 5 Mai.
- Harris, J., 1839. *Gweithiau Awdurdol y Diweddar Barch. Joseph Harris*. Llanelli: D. Rees a J. Thomas.
- Herber, 1883. Y Cymro. *Y Geninen*, Gorffennaf, I(3).
- Hiraethog, G., 1872. *Adroddiad Cyfarfodydd Undeb yr Annibynwyr*. Caerfyrddin.
- Humphreys, E. M., 1938. Yn Swyddfa'r Genedl. *Y Llenor*.
- Johnson, H. V., 1846. Report on North Wales. Yn: *Reports of the Commissioners of Inquiry into the State of Education in Wales*. Llundain: William Clowes & Sons.
- Jones, D. A., 1893. Rhai o Ddiffygion Addysg Grefyddol yng Nghymru. *Y Geninen*, Gorffennaf, XI(3).
- Jones, D. G., 2015. *Brad Bob Lewis?*. [Arlein]  
Ar gael: <https://glynadda.wordpress.com/2015/06/14/brad-bob-lewis/>  
[Cyrchwyd 25 Mehefin 2015].
- Jones, E. P., 1894. Y Dyn a Gneifiodd Gynffon ei Gi. *Y Celt*, 1 Mehefin.
- Jones, H., 1890. Anghenion Cymru. *Y Geninen*, Ionawr, VIII(1).
- Jones, J. F., 1883. Gohebiaethau. *Y Geinen*, Ebrill, I(2).

- Jones, J. K., 1883. Pa un ai mantais neu anfantais i Gymru fyddai tranc yr iaith Gymraeg? *Y Geninen*, Ionawr, I(1).
- Jones, J. M. gol., 1900. Nodiadau Misol. *Y Drysorfa*, Chwefror, LXX(832).
- Jones, J. O., 1891. Anhawsderau Gwladgarwch Cymreig. *Y Geninen*, Hydref, IX(4).
- Jones, K., 1897. Y Fantais a ddeillia i'r Cymro o feddu gwybodaeth ymarferol o'r iaith Saesonaeg. Yn: *Kilsby Jones*. Abertawe: Hughes a'i Fab.
- Jones, M. D., 1849. Gwladychfa Gymreig. *Y Cenhadwr Americanaidd*.
- Jones, M. D., 1876. Llywodraeth. *Y Ddraig Goch*, Mehefin.
- Jones, M. D., 1884. Plaid Genedlaethol Gymreig. *Y Celt*, 19 Rhagfyr.
- Jones, M. D., 1885a. Plaid Gymreig yn y Senedd. *Y Celt*, 3 Ebrill.
- Jones, M. D., 1885b. Rhyfel a Rwsia. *Y Celt*, 1 Mai.
- Jones, M. D., 1887. Cymru Fu, a Chymru Fydd. *Y Celt*, 11 Tachwedd, VIII(387).
- Jones, M. D., 1888a. Plaid Gymreig. *Y Celt*, 21 Medi.
- Jones, M. D., 1888b. Gladstone yn yr Eisteddfod yn Wrexham. *Y Celt*, 14 Medi.
- Jones, M. D., 1890. Cymreigiaeth. *Y Celt*, 17 Hydref.
- Jones, M. D., 1891a. Difodi y Gymraeg yn Barhad o Oresgyniad Cymru. *Y Geninen*, Hydref, IX(4).
- Jones, M. D., 1891b. Byl y Sefydliadau Cenedlaethol. *Y Celt*, 4 Medi.
- Jones, R., 1848. Atebiad i'r Parch. J. Thomas. *Y Diwygiwr*, Ebrill, XIII(153).
- Jones, T. M., 1892. Rhagoriaethau a Diffygion y Wasg Gymreig. Yn: E. V. Evans, gol. *Cofnodion Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1890*. Llundain: I. Foulkes.
- Jones, T., 1805. History of Brecknockshire. *The Cambrian*, 21 Medi.
- Juno, 1892. Rhagfarn Enwadol Cymru. *Y Geninen*, Hydref, X(4).
- Larsen, C., 2015. *Diolch*. [Ar lein]  
 Ar gael: <http://oclmennai.blogspot.co.uk/2015/12/diolch.html>  
 [Cyrchwyd 20 Ionawr 2016].
- Levi, T., 1870. Cylchrediad 'Trysorfa y Plant'. *Y Goleuad*, 30 Gorffennaf.



Levi, T., 1872. *Y Goleuad*, 13 Gorffennaf.

Lingen, R. R. W., 1846. Report on Carmarthen, Glamorgan and Pembroke. Yn: *Reports of the Commissioners of Inquiry into the State of Education in Wales*. Llundain: William Clowes & Sons.

Lladmerydd, 1883. Gwerthu Llyfrau yn y Capeli. *Y Dydd*, 21 Rhagfyr.

*Llais y Wlad*, 1874. Helaethiad Llais y Wlad. 25 Rhagfyr.

*Llais y Wlad*, 1877. Dosbarthwyr yn Eisiau. 30 Tachwedd.

Llawdden, 1893. Gwladgarwch y Cymry. *Y Geninen*, Ebrill, XI(2).

Medi, I., 1884. Ein Hanfanteision Cenedlaethol. *Y Geninen*, Ionawr, II(1).

Mentor, 1846. Sefyllfa Bresennol yr Iaith Gymraeg. *Diwygiwr*, Ebrill, XI(129).

*Monmouthshire Merlin*, 1850a. The Mining and Manufacturing Districts of South Wales, 11 Mai.

*Monmouthshire Merlin*, 1850b. The Mining and Manufacturing Districts of South Wales, 20 Ebrill.

*Monmouthshire Merlin*, 1850c. The Mining and Manufacturing Districts of South Wales, 27 Ebrill.

*Monmouthshire Merlin*, 1850d. The Mining and Manufacturing Districts of South Wales, 30 Mawrth.

*Monmouthshire Merlin*, 1850e. The Mining and Manufacturing Districts of South Wales, 4 Mai.

Morgan, G. O., 1888. A Ydyw y Cymru yn Genedl? *Y Geninen*. Ionawr, VI(1).

Morgan, O., 1871a. Wales for the Welsh. *The Times*, 14 Tachwedd.

Morgan, O., 1871b. Wales for the Welsh. *The Times*, 15 Tachwedd.

Myfenydd, 1874. Cadwraeth yr Iaith Gymreig. *Y Diwygiwr*, Mehefin.

Myrddin Fardd, 1889. Rhaglen Seren Gomer – y newyddiadur cyntaf yn yr iaith Gymraeg. *Y Geninen*, Ionawr, VII(1).

Nainorea, 1884. Gair o Geredigion. *Y Llan*, 28 Mawrth.

- Oliver, 1896. Croesawriad i'r Celt ar ei Wisg Newydd. *Y Celt*, 6 Mawrth.
- Owen, J., 1891. Y Cymmanfaoedd Ymneillduol. Yn: *Moesoldeb Rhyfel y Degwm*. Dinbych: T. Gee a'i Fab.
- Owen, J., Roberts, E. & R, J. W., 1892. Traethawd - Rhagoriaethau a Diffygion y Wasg Gymreig. Yn: E. V. Evans, gol. *Cofnodion Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1890*. I. Foulkes.
- Papur Pawb*, 1899. Bwgan y Senedd. 21 Hydref.
- Papurau Newydd Cymru Arlein* [Ar lein]  
Ar gael: <http://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/browse/3836771>  
[Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2016].
- Parry, R., 1849. Dylanwad Gwelliantau a Dyfeisiadau Celfyddydol ar Foesau y Byd. *Y Diwygiwr*, Chwefror, XIV(163).
- Probert, L., 1883. Y Genedl Gymreig. *Y Geninen*, Hydref, I(4).
- Philus, 1825. Cymdeithasau Gymreig. *Y Dysgedydd*, Chwefror, IV(2).
- Rees, D., 1852. Gwladyddiaeth. *Y Diwygiwr*, Hydref, XVII(207).
- Rees, D., 1861. Anerchiad. *Y Diwygiwr*, Rhagfyr, XXVI(315).
- Rees, W., 1859. Priodas yr "Amserau" a "Baner Cymru". *Baner ac Amserau Cymru*, 5 Hydref, III(136).
- Renan, E., 1882. *Qu'est-ce qu'une nation*. [Ar lein]  
Ar gael: [http://fr.wikisource.org/wiki/Qu%E2%80%99est-ce\\_qu%E2%80%99une\\_nation\\_%3F](http://fr.wikisource.org/wiki/Qu%E2%80%99est-ce_qu%E2%80%99une_nation_%3F)  
[Cyrchwyd 28 Mai 2014].
- Report of the Committee Appointed to Inquire Into the Condition of Intermediate and Higher Education in Wales, with Minutes of Evidence and Appendix*, 1881. Llundain: George Edward Eyre and William Spottiswoode.
- Richard, H., 1866. *Letters on the Social and Political Condition of the Principality of Wales*. Llundain: Jackson, Walford and Hodder.
- Richard, H., 1884. *Letters and Essays on Wales*. Llundain: James Clarke & Co..
- Richards, D., 1886. Cymru i'r Cymry. *Y Geninen*, Hydref, IV(4).

Roberts, E., 1888. Eu Hiaith a Gadwant. *Y Geninen*, Hydref, VI(4).

Roberts, E., 1889. Eu Hiaith a Gadwant. *Y Geninen*, Hydref, VII(4).

Roberts, J., 1866. Gwersi Myfyrwyr y Weinidogaeth. *Y Cronicl*, Gorffennaf, XXIV(279).

Roberts, J., 1877. Y Gymraeg a'r Cronicl. *Y Cronicl*, Mawrth, XXXV(407).

Roberts, J., gol., 1870. Gorfliad y Saesonaeg. *Y Cronicl*, XXVIII.

Roberts, R., 1890. Dyletswydd y Cymru Tuag at y Saeson. *Y Geninen*, Hydref, VIII(4).

Roberts, S., 1856. *Gweithiau Samuel Roberts*. Dolgellau: Evan Jones, Brynteg.

Salesbury, W., 1877. *A dictionary in Englyshe and Welshe*. Llundain: The Cymmrodorion Society.

Salesbury, W., 1951. Oll Synnwyr Pen Kembro ygyd (1547). Yn: G. H. Hughes, gol. *Rhagymadroddion 547-1659*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Scotsman, 1828. Welsh Literature. *Morning Chronicle, The*, 27 Mawrth.

*Seren Cymru*, 1851. Anerchiad at y Cymry yn Gyffredinol. 13 Awst, I(1).

*Seren Cymru*, 1857. 3 Hydref.

*Seren Cymru*, 1862. 'Seren Cymru' am y Dyfodol. 19 Rhagfyr.

*Seren Cymru*, 1867a. Gartref a Thramor. 15 Mawrth.

*Seren Cymru*, 1867b. Y Senedd. 3 Mai.

*Seren Cymru*, 1881. Cylchrediad 'Seren Cymru'. 4 Mawrth.

*Seren Cymru*, 1885. Senedd Prydain Fawr. 25 Rhagfyr.

*Seren Gomer*, 1814a. Anerchiad i'r Cymry, 1 Ionawr.

*Seren Gomer*, 1814b. 14 Ebrill.

*Seren Gomer*, 1815. At Ein Gohebwyd, 12 Gorffennaf.

*Seren Gomer*, 1818, 28 Ionawr.

Siluriad, 1887. Philistiaeth Enwadol Cymru. *Y Geninen*, Ionawr, V(1).

*South Wales Daily News*, 1890. 8 Ionawr.

*South Wales Daily News*, 1895. Principal Michael D. Jones. 28 Tachwedd.

Southall, J. E., 1888. *Bilingual Teaching in Welsh Elementary Schools*. Casnewydd: J.E. Southall.

Southall, J. E., 1892. *Wales and her Language*. Casnewydd: J.E. Southall.

Stephens, N., 1849. Llenyddiaeth Bresenol Cymru. *Y Diwygiwr*, Mehefin, XIV(167).

Sylwedydd, 1890. Caergybi. *Baner ac Amserau Cymru*, 22 Hydref.

Tafolog, 1883. Pa un ai mantais neu anfantais i Gymru fyddai tranc yr iaith Gymraeg? *Y Geninen*, Ebrill, I(2).

*Tarian y Gweithwyr*, 1900. Merthyr. 20 Rhagfyr.

Tremwyllt, 1894. Llythyrau Agored. *Y Geninen*, Ebrill, XII(2).

*The Cambrian*, 1834, 1 Chwefror.

*The North Wales Chronicle*, 1835. The Established Church in Wales, 12 Mai.

*The North Wales Chronicle*, 1850. The Principality of Wales. 6 Gorffennaf. t. 6.

*The Times*, 1858. 23 Hydref.

*The Times*, 1866a. 8 Medi.

*The Times*, 1866b. 14 Medi.

*The Times*, 1866c. 12 Medi.

*The Times*, 1887. Letters From Wales. 26 Rhagfyr.

*The Times*, 1887. Letters From Wales. 6 Hydref.

*The Welshman*, 1850. Opening of the South Wales Railway. 28 Mehefin.

Thomas, J., 1848. At y Parch. R. Jones, Trewen. *Y Diwygiwr*, Cyfrol XIII.

Thomas, L. D., 1896. *A Memorandum on Welsh Agriculture and Land Tenure in Periodical Literature*, Llundain: Eyre and Spottiswood.

Vincent, J. E., 1887. The Welsh Press. *The Times*, 26 Rhagfyr, Issue 32265.

‘Wales’ first minister calls for end to devolution tinkering’, 2013. [Ar lein]  
 Ar gael: <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-24119356>  
 [Cyrchwyd 11 Awst 2015].

Welshman, 1840. Preservation of the Welsh Language. *Monmouthshire Merlin*, 1 Awst.

*Western Mail*, 1889. The Place of the Welsh in the History of Britain. 29 Ebrill.

Wyn, W. 1893. Cymru ar Ddiwedd y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, Gorffennaf, XI(3).

Wyn, W., 1892. Y Genedl a'r Eisteddfod. *Y Geninen*, Hydref, X(4).

*Y Celt*, 1882. At ein dosbarthwyr. 7 Gorffennaf.

*Y Celt*, 1885. Hyn a'r Llall o'r Gogledd. 26 Mehefin.

*Y Celt*, 1895. Cyfarchiad. 4 Ionawr.

*Y Celt*, 1898. At Holl Gyfeillion 'Y Celt'. 25 Tachwedd.

*Y Celt*, 1900. Y Celt am 1901. 28 Rhagfyr.

*Y Cronicl*, 1865. Cyfrol XXIII.

*Y Chwarelwr*, 1876. Y Chwarelwyr a'r Brif-ysgol. 1 Tachwedd.

*Y Chwarelwr*, 1877. 24 Ionawr.

*Y Chwarelwr*, 1877. Hysbysiadau Anfoesol. 7 Chwefror, Issue 13.

*Y Diwygiwr*, 1848. Y Weinidogaeth yng Nghymru. Chwefror, XIII(151).

*Y Diwygiwr*, 1870. Llenyddiaeth Grefyddol yr Annibynwyr yng Nghymru. Rhagfyr, XXXV.

*Y Diwygiwr*, 1880. Y Babaeth a Rhyddid. Rhagfyr, Cyfrol XLV.

*Y Dydd*, 1868. Y Dydd ar ei Gychwyniad. 5 Mehefin.

*Y Dydd*, 1869. Dadl yr Eglwys Wyddelig. 30 Ebrill.

*Y Dydd*, 1870. Y Toriaid. 14 Ionawr.

*Y Dydd*, 1884. Rhagfarn Enwadol. 29 Chwefror.

*Y Dywysogaeth*, 1870. Annerchiad. 5 Chwefror.

*Y Geiniogwerth.*, 1848. Yr Iaith Gymraeg. Medi. II(9)

*Y Genedl Gymreig*, 1877. 8 Chwefror.

*Y Genedl Gymreig*, 1889. Cylchrediad Newyddiaduron Cymru. 14 Awst.

*Y Genedl Gymreig*, 1892. 14 Rhagfyr.

*Y Goleuad*, 1889. Sel Enwadol. 7 Chwefror.

*Y Goleuad*, 1901. Culni Enwadol. 20 Tachwedd.

*Y Goleuad*. Cylchrediad y Drysorfa. 18 Gorffennaf.

*Y Greal*, 1903. Amrywiaethau. Mehefin. LII(617)

*Y Gwir yn Erbyn y Byd*, 1898. *Y Duw Newydd*. *Y Geninen*, Hydref, XVI(4).

*Y Gwladgarwr*, 1840. VIII(89).

*Y Gwladgarwr*, 1859. Ffrainc. 23 Ebrill.

*Y Gwladgarwr*, 1865. 15 Gorffennaf.

*Y Gwladgarwr*, 1868. Y Senedd. 19 Rhagfyr.

*Y Gwyliedydd*, 1877. Ein Rhaglen. 2 Mawrth.

*Y Gwyliedydd*, 1890. Blwyddyn Newydd Dda. 1 Ionawr.

*Y Traethodydd*, 1845. Llenyddiaeth Gymreig y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg - Joseph Harris. Gorffennaf. I(3)

*Y Traethodydd*, 1846. Ebrill, II(2).

*Y Traethodydd*, 1848. Ionawr, IV(1).

*Y Traethodydd*, 1849. Ionawr, V(1).

*Y Traethodydd*, 1850a. Hydref, VI(4).

*Y Traethodydd*, 1850b. Gorffennaf, VI(3).

*Y Traethodydd*, 1850c. Ebrill, VI(2).

*Y Traethodydd*, 1851. Gorffennaf, VII(3).

*Y Traethodydd*, 1852. Ebrill, VIII(2).

*Y Traethodydd*, 1854. Gorffennaf, X(3).

*Y Traethodydd*, 1855. XI(1)

*Y Traethodydd*, 1859. Hydref, XV(4).

*Y Traethodydd*, 1860. Ebrill, XVI(2).

*Y Traethodydd*, 1862. Gorffennaf, XVII(3).

*Y Traethodydd*, 1864. Gorffennaf, XIX(3).

*Y Traethodydd*, 1872. Darwinaeth. Ebrill, XXVI.

*Y Traethodydd*, 1847. Ebrill, III(2).

*Y Traethodydd*. 1852. Dafydd Ionawr. Ionawr, Cyfrol VIII.

*Y Tyst a'r Dydd*, 1889. Culni Enwadol. 5 Gorffennaf.

*Y Tyst*, 1911. Yr Arwisgiad. 9 Gorffennaf.

*Y Werin*, 1892. Cwmni y Wasg Genedlaethol Gymreig. 3 Medi.

*Ye Brython Cymreig*, 1892. Ffyrdd Ceredigion. 4 Mawrth.

*Young Wales*, 1892. The Vernacular Press in Wales. Chwefror.

*Yr Amserau*, 1852. Y Treth ar Wybodaeth, 10 Mawrth.

*Yr Herald Cymraeg*, 1891. 31 Mawrth.

*Yr Herald Cymreig*, 1855. Yr Herald Cymreig. 19 Mai.

Ysbryd Llewelyn, 1895. Gwaseidd-dra y Cymry. *Y Geninen*, Hydref, XIII(4).

## **Ffynonellau Eilradd**

Adamson, D. L., 1991. *Class, Ideology and the Nation*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Alderson, D., 2004. *Terry Eagleton*. Llundain: Palgrave Macmillan.

Anderson, B., 1991. *Imagined Communities*. Llundain: Verso.

Anderson, L., 2014. Ethnofederalism: The Worst Form of Institutional Arrangement...?

*International Security*, 39(1). tt. 165-204

ap Dyfrig, R., 2014. *Cydygyfeiriant cyfryngol a'r economi ddigidol: Asesu dulliau cyfranogol a thorfol o gynhyrchu cyfryngau mewn ieithoedd lleiafrifol*. Aberystwyth: Prifysgol

Aberystwyth.

Armstrong, J., 1982. *Nations before Nationalism*. Chapel Hill: University of North Carolina Press.

Arnold, M., 1910. *On the Study of Celtic Literature and Other Essays*. 2il gol. Llundain: J.M. Dent.

Atwood, R., 2015. *The Life of Field Marshal Lord Roberts*. Llundain: Bloomsbury Academic.

Auer, S., 2004. *Liberal Nationalism in Central Europe*. Llundain: RoutledgeCurzon.

Auer, S., 2013. 1938 and 1968 1939 and 1969 and the Philosophy of Czech History from Karel H Mácha to Jan Patočka. Yn: L. Cashman, gol. *1948 and 1968 – Dramatic Milestones in Czech and Slovak History*. Abingdon: Routledge. tt. 1677-1696

Bageshot, W., 1887. *Physics and Politics*. Llundain.

Balakrishnan, G., 1996. *Mapping the Nation*. Llundain: Verso.

Barker, P., 1997. A Short History of Press and Media in Sorbian. *Mercator Media Forum*, III(1). tt.29-44



- Baycroft, T., 1998. *Nationalism in Europe, 1789-1945*. Rhydychen: Cambridge University Press.
- Bebb, W. A., 1954. *Canrif o Hanes y "Twr Gwyn"*. Caernarfon: Llyfrfa'r M.C..
- Beneke, C., 2008. The Critical Turn: Jonathan Mayhew, the British Empire, and the Idea of Resistance in Mid-Eighteenth-Century Boston. *Massachusetts Historical Review*, Cyfrol 10. tt. 23-56
- Bennett, T., 1995. *The Birth of the Museum: History, Theory, Politics*. Llundain: Routledge.
- Bergman, T., 2013. *Exhibiting Patriotism: Creating and contesting interpretations of American historical sites*. Walnut Creek, CA: Left Coast Press.
- Beverley Smith, L., 1997. Yr Iaith Gymraeg Cyn 1536. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Y Gymraeg yn ei Ddisgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.15-43
- Billig, M., 1995. *Banal Nationalism*. Llundain: Sage Publications.
- Boime, A., 1998. *The Unveiling of the National Icons: A Plea for Patriotic Iconoclasm in a Nationalist Era*. Gwasg Prifysgol Caergrawnt: Caergrawnt.
- Boswell, D. & Evans, J., 1999. *Representing the Nation: a Reader: Histories, Heritage and Museums*. Llundain: Routledge.
- Boyce, G., 1978. The Fourth Estate: The Reappraisal of a Concept. Yn: *Newspaper History: From the 17th Century to the Present Day*. London: Constable and Company Ltd. tt.19-40
- Bradley, S., 2015. *The Railways: Nation, Network and People*. Llundain: Profile Books.
- Brass, P. R., 1979. Elite Groups, Symbol Manipulation and Ethnic Identity among the Muslims of South Asia. Yn: D. Taylor & M. Yapp, gol. *Political Identity in South Asia*. Llundain: Curzon Press. 35-43
- Brass, P. R., 1991. *Ethnicity and Nationalism: Theory and Comparison*. New Delhi: Sage.
- Breuilly, J., 1985. Reflections on Nationalism. *Philosophy of the Social Sciences*, Issue 15.

Breuilly, J., 1993a. *Nationalism and the State*. 2il gol. Manceinion: Gwasg Prifysgool Manceinion.

Breuilly, J., 1993b. *Nationalism and the State*. Yn: R. Michener, gol. *Nationality, Patriotism and Nationalism in Liberal Democratic Societies*. Minnesota: Professors World Peace Academy. tt.19-48

Breuilly, J., 1996. *Approaches to Nationalism*. Yn: G. Balakrishnan, gol. *Mapping the Nation*. Llundain: Verso. tt. 146-174

Brooks, S., 2010. *Pam y bu farw ein hiaith?* [Ar lein] Ar gael:

<https://drive.google.com/file/d/0ByaME0UgmM4MdWJiQ0Utbl9nZ28/view> [cyrchwyd 6 Tachwedd 2017]

Brooks, S., 2015. *Llên, gwleidyddiaeth a hunaniaeth*. [Ar lein]

Ar gael:

[http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/33753527?ns\\_mchannel=social&ns\\_campaign=bbc\\_cymru&ns\\_source=twitter&ns\\_linkname=wales](http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/33753527?ns_mchannel=social&ns_campaign=bbc_cymru&ns_source=twitter&ns_linkname=wales)

[Cyrchwyd 7 Awst 2015].

Brooks, S., 2015. *Pam Na Fu Cymru*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Brooks, S., 2016. *On the 'Nation of the Welsh' rejecting Brexit*. [Ar lein]

Ar gael: <https://nationtimecymrusydd.wordpress.com/2016/06/26/on-the-nation-of-the-welsh-rejecting-brexit/>

[Cyrchwyd 28 Mehefin 2016].

Cambrensis, G., 1978. *The Journey Through Wales / The Description of Wales*. St Ives: Clays.

Cavenagh, F., 1930. *The Life and Work of Griffith Jones Llanddowror*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Clanchy, M. T., 1979. *From Memory to Written Record*. Llundain: Edward Arnold.

- Claydon, T. & McBride, I., 1998. *Protestantism and National Identity*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Cochran, W. G., 1977. *Sampling Techniques*. 3ydd gol. Chichester: John Wiley & Sons.
- Connor, W., 1990. When is a nation?. *Ethnic and Racial Studies*, Issue 13. tt.92-103
- Cormack, M., 2000a. Minority languages, nationalism and broadcasting: the British and Irish examples. *Nations and Nationalism*, 6(3). tt.383-398
- Cormack, M., 2000b. Minority Language in a Global Age. *Mercator Media Forum*, IV(1).
- Cottle, S., 2000. Rethinking News Access. *Journalism Studies*, 11(3). tt.3-15
- Coward, A., 2009. Rejecting Mother's Blessing: the absence of the fairy in the Welsh search for identity. *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, Cyfrol 29. tt.57-69
- Crystal, D., 2000. *Language Death*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Cunliffe, D., Morris, D. & Prys, C., 2013. Investigating the Differential Use of Welsh in Young Speaker's Social Networks: A Comparison of Communication in Face-to-Face Settings, in Electronic Texts and on Social Networking Sites. Yn: E. H. G. Jones & E. Uribe-Jongbloed, gol. *Social Media and Minority Languages: Convergence and the Creative Industries*. Bryste: Multilingual Matters. tt.75-86
- Curran, J., 1978. The Press and an Agency of Social Control: An Historical Perspective. Yn: *Newspaper History: From the 17th Century to the Present Day*. London: Constable and Company. tt. 51-75
- Curran, J., 1991. Rethinking the media as a public sphere. Yn: *Communication and Citizenship: Journalism and the Public Sphere*. London: Routledge. tt.27-57
- Curran, J., 2009. *Power Without Responsibility*. Rhydychen: Routledge.
- Chapman, M., 1978. *The Gaelic Vision in Scottish Culture*. Montreal: Gwasg Prifysgol McGill.
- Chapman, T. R., 1993. *W. J. Gruffydd*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

- Chatterjee, P., 1993. *The Nation and its Fragments*. Princeton, NJ: Princeton University Press.
- Chatterjee, P., 1996. Whose Imagined Community. Yn: G. Balakrishnan, gol. *Mapping the Nation*. Llundain: Verso. tt.214-25
- Dahl, G., 1999. *Radical Conservatism and the Future of Politics*, Llundain: Sage Publications.
- Davies, A., 1964. Cenedlaetholdeb yn Ewrop a Chymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. *Efrydiau Athronyddol*, Issue 27. tt.18-19
- Davies, G., 1984. *Griffith Jones, Llanddowror: Athro Cenedl*. Bryntirion: Gwasg Efengylaidd Cymru.
- Davies, J., 1994. *Broadcasting and the BBC in Wales*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Davies, J., 2007a. *Hanes Cymru*. 2il gol. Llundain: Penguin.
- Davies, J., 2007b. Whose Memory Do We Keep?. Yn: J. Osmond, gol. *Myths, Memories and Futures: The National Library and National Museum in the Story of Wales*. Caerdydd: Institute of Welsh Affairs. tt. 58-67
- Davies, J., Baines, M., Jenkins, N. & Lynch, P., 2008. *Gwyddoniadur Cymru Yr Academi Gymreig*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Davies, P., 1962. *Atgofion Dyn Papur Newydd*. Lerpwl: Hugh Evans a'i Feibion, Cyf..
- Davies, R., 1991. Hen Wlad y Menig Gwynion: Profiad Sir Gaerfyrddin. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Cof Cenedl VI*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.137-158
- Day, G. & Suggett, R., 1985. Conceptions of Wales and Welshness: aspects of nationalism in nineteenth-century Wales. Yn: G. Rees, et al. gol. *Political Action and Social Identity: Class, Locality and Ideology*. Basingstoke: Macmillan. tt. 91-115

- Day, G. & Thompson, A., 1999. Situating Welshness: 'Local' Experience and National Identity. Yn: R. Fevre & A. Thompson, gol. *Nation, Identity and Social Theory: Perspectives from Wales*. Llandybie: Gwasg Prifysgol Cymru. tt. 27-47
- de Hamel, C., 1994. *A History of Illuminated Manuscripts*. Llundain: Phaidon Press.
- Deacon, D., Pickering, M., Golding, P. & Murdock, G., 2007. *Researching Communications: A Practical Guide to Methods in Media and Cultural Analysis*. Llundain: Bloomsbury Academic.
- Durkacz, E. V., 1983. *The Decline of the Celtic Languages*. Caeredin: John Donald.
- Edwards, H. T., 1989. *Codi'r Hen Wlad yn ei Hôl*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Edwards, H. T., 1991. Y Prifeirdd Wedi'r Brad. Yn: *Brad y Llyfrau Gleision*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.166-200
- Edwards, H. T., 2009. *The National Pageant of Wales*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Edwards, H., 1999. Y Gymraeg yn yr Eisteddfod. Yn: G. Jenkins, gol. *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.275-295
- Eisenstein, E. L., 1983. *The Printing Revolution in Early Modern Europe*. Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Ellis, J. S., 1998. Reconciling the Celt: British National Identity, Empire, and the 1911 Investiture of the Prince of Wales. *Journal of British Studies*, 37(4). tt. 391-418
- Evans, N. & Sullivan, K., 1999. 'Yn Llawn o Dan Cymreig': Iaith Gwleidyddiaeth yng Nghymru 1880-1914. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.561-586
- Evans, R. J. W., 1979. *The Making of the Habsburg Monarchy 1550-1700*. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Fairclough, 2013. *Critical Discourse Analysis*. 2nd gol. Rhydychen: Taylor & Francis.

- Finlayson, A., 1998. Ideology, discourse and nationalism. *Journal of Political Ideologies*, 3(1). tt.99-118
- Fishman, J. A., 1971. The Impact of Nationalism on Language Planning: Some Comparisons Between Early 20th Century Europe and More Recent Years in South and South-West Asia. Yn: J. Rubin & B. Jernudd, gol. *Can Language be Planned?: Sociolinguistic Theory and Practice for Developing Nations*. Honolulu, Hawaii: University of Hawaii Press. tt.3-20
- Fishman, J., 2007. *Stabalizing Indigenous Languages*. 2nd gol. Flagstaff: Northern Arizona University.
- Fowler, R., Hodge, B., Kress, G. & Trew, T., 1979. *Language and Control*. Llundain: Routledge.
- Fraser, N., 1992. Rethinking the Public Sphere. Yn: *Habermas and the Public Sphere*. Cambridge, Mass.: MIT Press. tt.109-42
- Gee, J. P., 2011. *An Introduction to Discourse Analysis: Theory and Method*. 3ydd gol. London: Routledge.
- Gee, J. P., 2014. *How to do Discourse Analysis: A Toolkit*. 2il gol. Rhydychen: Routledge.
- Geertz, C., 1973. *The Interpretation of Cultures*. Efrog Newydd: Basic Books.
- Gellner, E., 1965. *Thought and Change*. Chicago: University of Chicago Press.
- Gellner, E., 1983. *Nations and Nationalism*. Rhydychen: Blackwell.
- George, W., 1945. *Cymru Fydd: Hanes y Mudiad Cenedlaethol Cyntaf*. Lerpwl: Gwasg y Brython.
- Gerschenkron, A., 1962. *Economic Backwardness in Historical Perspective*. New York: Frederick A. Praeger.
- Gilbert, A. D., 1993. Religion and political stability in early industrial England. Yn: P. O'Brian & R. Quinault, gol. *The Industrial Revolution and British Society*. Glasgow: Bell and Bain Ltd.. tt.79-99

- Golding, P. & Murdock, G., 2000. *'Culture, Communications and Political Economy' yn Mass Media and Society*. 3rd gol. London: Arnold.
- Golwg Newydd Cyf., 2015. *SmarterStats*. [Ar lein]  
Ar gael: <http://statsgolwg.ordovic.com/default.aspx>  
[Cyrchwyd 20 Ionawr 2016].
- Greenfeld, L., 1992a. *Nationalism: Five roads to modernity*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Greenfeld, L., 1992b. *Five Roads to Modernity*. Cambridge, Mass.: Gwasg Prifysgol Harvard.
- Gruffudd, G. A., 2009. Yr 'Ystori Anfwyn': Llenyddiaeth Streic Fawr y Penrhyn, 1900-03. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Cof Cenedl XXIV*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.125-60
- Gruffydd, R. G., 1998. The first printed books: 1546-1604. Yn: P. H. Jones & E. Rees, gol. A *Nation and its Books*. Aberystwyth: Argraffwyr Cambrian. tt.55-65
- Gruffydd, R.G. 1969. Yny Lhyvyr Hwnn (1546): The earliest Welsh printed book. *The Bulletin of the Board of Celtic Studies*, Mai, XXII(2). Tt.115-16
- Gruffydd, R.G. 1972. *Argraffwyr Cyntaf Cymru: Gwasgau Dirgel y Catholigion Adeg Elisabeth*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Habermas, J., 1964. The Public Sphere: An Encyclopedia Article. Yn: *New German Critique*, 3. tt.49-55
- Habermas, J., 1989 [1962]. *The Structural Transformation of the Public Sphere: An Inquiry into a Category of Bourgeois Society*. Cambridge: Polity.
- Habermas, J., 1995. Institutions of the public sphere. Yn: *Approaches to Media: A Reader*. London: Arnold. tt.235-44
- Habermas, J., 1996. The Public Sphere. Yn: *Media Studies: A Reader*. 2nd gol. Edinburgh: Edinburgh University Press. tt.92-97
- Hall, S. et al., 1978 [1980]. *Policing the Crisis: Mugging, the State, and Law and Order*. Llundain a Basingstoke: Macmillan Press.

- Halliday, F., 1997. *The Formation of Yemeni Nationalism: Initial Reflections*. Yn: J.
- Jankowski & I. Gershoni, gol. *Rethinking Nationalism in the Middle East*. Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Columbia. tt.26-41
- Hardy, C., Harley, B. & Phillips, N., 2004. Discourse Analysis and Content Analysis: Two Solitudes? *Qualitative Methods: Newsletter of the American Political Science Association Organized Section on Qualitative Methods*. II(1) tt.19-22
- Harrison, K. D., 2007. *When Languages Die : The Extinction of the World's Languages and the Erosion of Human Knowledge*. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Hartzell, C. & Hoddie, M., 2003. Institutionalizing Peace: Power Sharing and Post-Civil War Conflict Management. *American Journal of Political Science*, 47(2). tt.318-332
- Hastings, A., 1997. *The Construction of Nationhood: Ethnicity, Religion and Nationalism*. Caergrawnt: Cambridge University Press.
- Hechter, M., 1975. *Internal Colonialism: The Celtic Fringe in British National Development, 1536-1966*. Llundain: Routledge & Kegan Paul.
- Hechter, M., 2000. *Containing Nationalism*. Rhydychen: Gwas Prifysgol Rhydychen.
- Hempton, D., 1987. *Methodism and Politics in British Society 1750-1850*. Saffron Walden: Hutchinson Education.
- Hempton, D., 1996. *The Religion of the People: Methodism and Popular religion c.1750-1900*. Llundain: Routledge.
- Henry, G., 1990. *Practical Sampling*. Efrog Newydd: Sage.
- Herrera, Y. M. & Braumoeller, B. F. 2004. Symposium: Discourse and Content Analysis. *Qualitative Methods: Newsletter of the American Political Science Association Organized Section on Qualitative Methods*. II(1) tt.15-19
- Hobsawm, E. J., 1990. *Nations and Nationalism since 1780: Programme, myth, reality*. Rhydychen: Cambridge University Press.



- Hobsbawm, E. J., 1990. *Nations and Nationalism since 1780: Programme, myth, reality*. Rhydychen: Cambridge University Press.
- Hobsbawm, E. J., 1996. Ethnicity and Nationalism in Europe Today. Yn: G. Balakrishnan, gol. *Mapping the Nation*. Llundain: Verso. tt.255-266
- Hobsbawm, E., 1964. *The Age of Revolution, 1789-1848*, Efrog Newydd: Mentor.
- Hobsbawm, E., 1968. *Industry and Empire*. Llundain: Penguin.
- Hopkin, D., 1991. 'Y Werin a'i Theyrnas': Ymateb Sosialaeth i Genedlaetholdeb, 1880-1920. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Cof Cenedl 6*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.168-177
- Hroch, M., 1993. From National Movement to the Fully-Formed Nation: The Nation Building Process in Europe. *New Left Review*, Issue 198. tt.78-97
- Hroch, M., 1995. National Self-Determination from a Historical Perspective. Yn: S. Periwal, gol. *Notions of Nationalism*. Budapest: Central European University Press. tt.283-299
- Hroch, M., 1996. Nationalism and National Movements: Comparing the Past and the Present of Central and Eastern Europe. *Nations and Nationalism*, 2(1). tt.35-44
- Hroch, M., 2000. *Social Preconditions of National Revival in Europe*. Efrog Newydd: Columbia University Press.
- Hroch, M., 2007. *Comparative Studies in Modern European History: Nation, Nationalism, Social Change*. Aldershot; Burlington: Ashgate Publishing.
- Hughes, D. R., 1995. Y Coch a'r Gwyrdd: Cymru Fydd a'r Mudiad Llafur Cymreig (1886-96). *Llafur*, 6(4). tt.60-79
- Hughes, J. E., 1984. *Arloeswr Dwyieithedd*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Hughes, R., 1999. Yr Iaith Gymraeg ym Myd Technoleg a Gwyddoniaeth. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.405-30
- Humphreys, E. M., 1945. *Y Wasg Gymraeg*. Lerpwl: Hugh Evans a'i Feibion, Cyf..
- Hunter, J., 2000. *Soffestri'r Saeson*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

- Hunter, T., 1998/1999. The Literary Nation: Textual Constructions of Welsh Nationhood c.1282 to 1997. *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*. tt.73-114
- Huws, D., 1997. Llyfrau Cymraeg yr Oesoedd Canol. Yn: *Cof Cenedl XII*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt. 1-32
- Huws, D., 1998. The Medieval Manuscript. Yn: P. H. Jones & R. Eiluned, gol. *A Nation and its Books*. Aberystwyth: Argraffwyr Cambrian. tt.25-39
- Ingrao, C. W., 2000. *The Habsburg Monarchy, 1618-1815*. 2il gol. Caergrawnt: Gwasg Priysgol Caergrawnt.
- Iorwerth, D., 2007. *Gohebydd yng Ngheredigion yn Ystod y Flwyddyn Fawr*. Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion.
- Isaac, N., 1983. Y Cychwyn. Yn: M. Jones & G. Jones, gol. *Dewiniaid Difyr: Llenorion plant Cymry hyd tua 1950*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- IWA Wales Media Audit 2015*, 2015. Caerdydd: The Institute of Welsh Affairs.
- James, E. W., 2001. 'The New Birth of a People': Welsh Language and Identity and the Welsh Methodists, .1740-1820. Yn: *Religion and National Identity: Wales and Scotland c.1700-2000*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.14-42
- James, P., 1996. *Nation Formation: Towards a Theory of Abstract Community*. Llundain: Sage.
- Jászi, O., 1929. *The Dissolution of the Habsburg Monarchy*. Chiacago: University of Chicago Press.
- Jenkins, D., 1999. Y Nofel Gymraeg Gynnar. Yn: *Rhyddid y Nofel*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.29-53
- Jenkins, G. H., 1978. *Literature, Reigion and Society in Wales 1660-1730*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd.

- Jenkins, G. H., 1980. *Thomas Jones yr Almanaciwr: 1648-1713*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jenkins, G. H., 1990. *Cadw Tŷ Mewn Cwmwl Tystion*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jenkins, G. H., 1991. Ieuan Gwynedd: Eilun y Genedl. Yn: *Brad y Llyfrau Gleision*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.101-14
- Jenkins, G. H., 1993. *Theophilus Evans (1693-1767): Y dyn, ei deulu a'i oes*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jenkins, G. H., 1998a. The Eighteenth Century. Yn: P. H. Jones & E. Rees, gol. *A Nation and its Books*. Aberystwyth: Argraffwyr Cambrian. tt.109-122
- Jenkins, G. H., 1998b. *Language and Community in the Nineteenth Century*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd.
- Jenkins, G. H., 1999. "'Na wadwch eich iaith"; Y cefndir Hanesyddol i Gyfrifiad 1891'. Yn: G. Parry & M. A. Williams, gol. *Miliwn o Gymry Cymraeg!*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.1-30
- Jenkins, G. H., 2007. *A Concise History of Wales*. Caergrawnt: Cambridge University Press.
- Jenkins, G. H., 2012. *Bard of Liberty: The Political Radicalism of Iolo Morganwg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jenkins, G.H., 1999. 'Cymru, Cymry a'r Gymraeg: Rhagymadrodd'. Yn: *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt. 1-36
- Jenkins, P., 1995. The Anglican Church and the Welsh experience. Yn: S. G. Ellis & S. Barber, gol. *Conquest & Union: Fashioning a British State 1485-1725*. Llundain: Longman. tt.115-138
- Jobbins, S. T., 2011. *The Phenomenon of Welshness*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch..
- Johnson, I., 2013. Audience Design and Communication Accommodation Theory: Use of Twitter by Welsh-English Biliterates. Yn: E. H. G. Jones & E. Uribe-Jongbloed, gol. *Social*

- Media and Minority Languages: Convergence and the Creative Industries*. Bryste: Multilingual Matters. tt.99-118
- Jones, A. G., 1987. *Cymru a Hanes y Papur Newydd*.. Caernarfon: Gwasg Gwynedd.
- Jones, A. G., 1988. Y Wasg Gymreig yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Cof Cenedl III*. Llandysul.:Gwasg Gomer. tt.91-116
- Jones, A. G., 1993. *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jones, A. G., 1998. The Newspaper Press in Wales 1804-1945. Yn: P. H. Jones & E. Rees, gol. *A Nation and its Books*. Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru. tt.209-220.
- Jones, A. G., 1999. Yr Iaith Gymraeg a Newyddiaduraeth. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jones, A., 1999. Yr Iaith Gymraeg a Newyddiaduraeth. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt. 379-405
- Jones, D. G., 1950. Hanes Mudiadau Cymraeg a Chenedlaethol yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg. Yn: D. M. Lloyd, gol. *Seiliau Hanesyddol Cenedlaetholdeb Cymru*. Caerdydd: Plaid Cymru. tt.98-126
- Jones, D. G., 1956. Michael D. Jones. Yn: G. Pierce, gol. *Triwyr Penllyn*. Caerdydd: Plaid Cymru. tt.2-27
- Jones, D. G., 2001. *Agoriad yr Oes*. Talybont: Y Lolfa.
- Jones, D. L. & Smith, R., 1999. Twristiaeth a'r Gymraeg yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg. Yn: *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.151-76
- Jones, D., 1999. Dyfodiad y Rheilffordd a Newid Iaith yng Ngogledd Cymru 1850-1900. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.131-150
- Jones, E. P., 1903. *Oes a Gwaith y Prif Athraw, y Parch. Michael D. Jones*. Bala.

Jones, G. A., 1983. Owen M. Edwards. Yn: *Dewiniaid Difyr: Llenorion plant Cymru hyt tua 1850*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.87-96

Jones, G. E., 1999. Yr Iaith Gymraeg a Llyfrau Gleision 1847. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.431-58

Jones, G. T., 1913. *Cofiant Thomas Gee*. Dinbych: Gee a'i Fab Cyf.

Jones, G., 1938. *Selections From the Welch Piety*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Jones, I. G. & Roberts, R. G., diddyddiad *A conversation between Emeritus Professor Ieuan Gwynedd Jones and Richard Glyn Roberts*. [Ar lein]

Ar gael: <http://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/caa/Emeritus-Professor-Ieuan-Gwynedd-Jones.pdf>

[Cyrchwyd 7 Medi 2015].

Jones, I. G., 1980. Language and Community in Nineteenth Century Wales. Yn: D. Smith, gol. *A People and a Proletariat: Essays in the History of Wales 1780-1980*. Llundain: Pluto Press. tt.47-71

Jones, I. G., 1987. *Communities: Essays in the Social History of Victorian Wales*. Llandysul: Gwasg Gomer.

Jones, I. G., 1988. Henry Richard ac Iaith y Gwleidydd yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Cof Cenedl III*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.119-48

Jones, I. G., 1991. 1848 ac 1868: Brad y Llyfrau Gleision a Gwleidyddiaeth Cymru. Yn: *Brad y Llyfrau Gleision*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.49-73

Jones, I. G., 1992. *Mid-Victorian Wales: The Observers and the Observed*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Jones, I. G., 1998. The Nineteenth Century. Yn: *A Nation and its Books*. Aberystwyth: Cambrian Printers. tt.157-69

- Jones, I. G., 1999. Yr Iaith Gymraeg a Gwleidyddiaeth 1800-1880. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.505-32
- Jones, I. W., 1998. *Y Llynyn Arian: Agweddau o Fywyd Thomas Gee*. Dinbych: Gwasg Gee.
- Jones, J. G., 1992. Y Blaid Lafur, Datganoli a Chymru, 1900-1979. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Cof Cenedl VII*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.169-84
- Jones, J. G., 1998. Scribes and Patrons in the Seventeenth Century. Yn: P. H. Jones & E. Rees, gol. *A Nation and its Books*. Aberystwyth: Agrafrwyr Cambrian. tt.83-92
- Jones, J. R., 1966 [2013]. *Prydeindod*. Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- Jones, J., 1961. Y Syniad o Genedl. *Efrydiau Athronyddol*, XXIV(3). tt. 3-17
- Jones, M. E., 1999. 'Dryswch Babel'?: Yr Iaith Gymraeg, Llysoedd Barn a Deddfwriaeth yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt. 587-614
- Jones, P. H., 1986. Cychrediad y Faner, ffeithiau a chwedlau. *Y Casglwr*, Mawrth, Issue 28.
- Jones, P. H., 1988. Mynd a'r Inc i'r Eil O Man. *Y Casglwr*, Rhagfyr, Issue 36.
- Jones, P. H., 1989. Pan chwythwyd yr Amserau i'r Eil o Man. *Y Casglwr*, Mawrth, Issue 37.
- Jones, P. H., 1997. A Golden Age Reappraised: Welsh Language Publishing in the Nineteenth Century. Yn: P. Isaac & B. McKay, gol. *Images and Texts: Their Production and Distribution in the 18th and 19th Centuries*. Winchester: St Paul's Bibliographies. tt.121-141
- Jones, P. H., 1998. Two Welsh Publishers of the Golden Age: Gee a'i Fab and Hughes a'i Fab. Yn: P. H. Jones, gol. *A Nation and its Books*. Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru. tt.173-189
- Jones, P. H., 1999. Argraffu a Cyhoeddi yn yr Iaith Gymraeg 1800-1914. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.317-49
- Jones, R. B., 1994. *William Salesbury*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

- Jones, R. J., Cunliffe, D. & Honeycutt, Z. R., 2013. Twitter and the Welsh Language. *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 34(7). tt. 653-71
- Jones, R. M., 1992. Beyond identity? The reconstruction of the Welsh. *Journal of British Studies*, Hydref.31(4). tt. 330-57
- Jones, R. O., 1997. *Hir Oes i'r Iaith: Agweddau ar Hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas*.  
Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jones, R. T., 1966. *Hanes Annibynwyr Cymru*. Abertawe: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.
- Jones, R. T., 1974. *The Desire of Nations*. Llandybie: Christopher Davies.
- Jones, R. T., 1979. Christian Nationalism. Yn: P. H. Ballard & D. H. Jones, gol. *This Land and People*. Caerdydd: University College Cardiff. tt.76-92
- Jones, R. T., 1981. *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Cristnogaeth a diwylliant yng Nghymru 1890-1914*. Abertawe: Ty John Penry.
- Jones, R. T., 1987. *Cwmni'r Celt a Dyfodol Cymru (Darlith Goffa R. Williams Parry)*.  
Dinbych: Gwasg Gee.
- Jones, R. W., 2007. *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru*. Llandybie: Gwasg Dinefwr.
- Jones, R., 1999. Ymneilltuaeth a'r Iaith Gymraeg yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg. Yn: G. Jenkins, gol. *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt. 239-64
- Jones, R., 2008. Relocating Nationalism: On the Geographies of Reproducing Nations. *Transactions of the Institute of British Geographers*, Gorffennaf.33(3). tt. 319-334
- Jones, T. G., 1912. *Emrys ap Iwan: Dysgawdr, Llenor, Cenedlgarwr*. Caernarfon: Cwmni'r Cyhoeddwyr Cymreig.
- Jones, T., 1938. *Gerallt Gymro*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

- Jost, J. T. & Banaji, M. R., 1994. The role of stereotyping in system-justification and the production of false-consciousness. *British Journal of Social Psychology*, Mawrth, 33(1). tt.1-27
- Jost, J. T., Banaji, M. R. & Nosek, B. A., 2004. A Decade of System Justification Theory: Accumulated Evidence of Conscious and Unconscious Bolstering of the Status Quo. *Political Psychology*, 25(6). tt.881-919
- Jost, J. T., Pelham, B. W., Sheldon, O. & Sullivan, B., 2003. Social inequality and the reduction of ideological dissonance on behalf of the system: evidence of enhanced system justification among the disadvantaged. *European Journal of Social Psychology*, Cyfrol 33. tt.13-36
- Katz, E. & Lazarsfeld, P. F., 1955. *Personal Influence: The part played by people in the flow of mass communications*. Efrog Newydd: The Free Press.
- Kedourie, E., 1993. *Nationalism*. 4ydd gol. Llundain: Wiley-Blackwell.
- Khleif, B. B., 1976. Cultural Regeneration and the School: An Anthropological Study of Welsh-medium Schools in Wales. *International Review of Education*, 22(2). tt.177-92
- Kornal, A., 2013. Digital Language Death. *PLoS ONE*, 8(10). tt.1-11
- Koss, S., 1981. *The Rise and Fall of the Political Press in Britain: The Nineteenth Century*. North Carolina: University of North Carolina Press.
- Krippendorff, K., 1989. Content Analysis. Yn: E. Barnouw, et al. gol. *International Encyclopedia of Communication*. Efrog Newydd: Oxford University Press. tt.403-407
- Kumar, K., 2003. *The Making of English National Identity*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Lacina, B., 2015. Periphery versus Periphery: The Stakes of Separatist War. *The Journal of Politics*, 77(3). tt.692-706



- Lavezzo, K., 2004. Introduction. Yn: K. Lavezzo, gol. *Imagining a Medieval English Nation*. Minneapolis: University of Minnesota Press. tt.vii-xxxvi
- Leadbeater, C., 2014. *A Better Web*. Nominet Trust.
- Lenin, V., 2004. *The Right of Nations to Self-determination*. University Press of the Pacific.
- Lewis, S., 1926. *An Introduction to Contemporary Welsh Literature*. Wrecsam: Hughes a'i Fab.
- Locke, J., 1689. *Two Treatises*. London: Awnsham Churchill.
- Löffler, M., 2012. *Welsh Responses to the French Revolution: Press & Public Discourse 1789-1802*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Lovering, J., 1978. The Theory of the 'Internal Colony' and the Political Economy of Wales. *Review of Radical Political Economies*, Hydref.10(3). tt.55-67
- Lynch, P. I., 2007. *Proffwydoliaeth a'r Syniad o Genedl*. Bangor: Argraffdy Menai.
- Lyndon, J. F., 1995. *Nation and Race in Medieval Ireland*. Leeds: Gwasg Prifysgol Leeds.
- Lloyd, D. T., 1970. *Safle'r Gerbydres ac Ysgrifau Eraill*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Lloyd, D. T., 1980. *Gysfenu i'r Wasg Gynt*. Caerdydd: Qualitex Argraffwyr Cyf..
- Lloyd, D. T., 1989. Chwilio am Gymru. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Cof Cenedl IV*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.121-152
- Llwyd, R., 1998. Printing and Publishing in the Seventeenth Century. Yn: P. H. Jones & E. Rees, gol. *A Nation and its Books*. Aberystwyth: Argraffwyr Cambrian. tt.93-108
- Llwyd, S. R., 2011. *Cenedlaetholdeb R. Tudur Jones*. Traethawd Doethuriaeth, Prifysgol Bangor.
- MacCormick, N., 1970. *The Scottish debate: essays on Scottish Nationalism*. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Magnusson, L., 2009. *Nation, State and the Industrial Revolution*. Caergrawnt: Routledge.

- Manning, H. P., 2004. The Streets of Bethesda: The slate quarrier and the Welsh language in the Welsh liberal imagination. *Language in Society*, Medi.33(4). tt. 517-48
- Marfany, J.-L., 2005. Religion and the Survival of 'Minority' Languages: The Catalan Case. *Social History*, Mai.30(2). tt. 154-74
- Martin, T., 2001. *The Affirmative Action Empire: Nations and Nationalism in the Soviet Union, 1923-1939*. Efrog Newydd: Cornell University Press.
- Marx, K. & Engels, F., 2004. *The Communist Manifesto*. Plymouth: Broadview Press.
- Mason, R., 2007. *Museums, Nations, Identities*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Matthews, G., 2015. *Thomas Gee a'r Estrones*. 31 Ionawr. Capel y Fron, Dinbych.
- Matthews, I., 1998. The Welsh Language in the Anthracite Coalfield c.1870-1914. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Language and Community in the Nineteenth Century*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd. tt. 125-46
- Maykut, P. & Morehouse, R., 1994. *Beginning Qualitative Research: A Philosophical and Practical Guide*. Llundain: Falmer Press.
- McClintock, A., 1996. No Longer in a Future Heaven: Nationalism, Gender and Race. Yn: G. Eley & R. G. Suny, gol. *Becoming National: A Reader*. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen. tt. 352-89
- McQuail, D., 1994. *Mass communication theory : an introduction*. 3ydd gol. Llundain: Sage.
- Miles, G., 1998. Pa Beth yw Cenedl?. *Barn*, Gorffennaf/Awst.
- Mill, J. S., 1910. *Utilitarianism, Liberty and Representative Government*. Everyman Edition Llundain: Everyman.
- Mill, J. S., 1965. *Principles of Political Economy*. Toronto: University of Toronto Press.
- Miller, D., 2000. *Citizenship and National Identity*. Caergrawnt: Polity Press.
- Miller, J. C., 1959. *Origins of the American Revolution*. 2il gol. Stanford: Gwasg Prifysgol Stanford.

- Millward, E., 1960. Industrialisation Did Not Save the Welsh Language. *Welsh Nation*, Gorffennaf.
- Millward, E., 1991. Pob Gwybodaeth Fuddiol. Yn: *Brad y Llyfrau Gleision*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt. 146-65
- Minogue, K., 1967. *Nationalism*. Llundain: Batsford.
- Monbiot, G., 2008. *The Open Veins of Wales*. [Ar lein]  
Ar gael: <http://www.monbiot.com/2008/12/30/the-open-veins-of-wales/>  
[Cyrchwyd 4 Medi 2014].
- Moore-Colyer, R. J., 1999. *Tirfeddianwyr, Ffermwyr ac Iaith yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Morgan, C. L., 1998. More written about than writing? Welsh women and the written word. Yn: H. Pryce, gol. *Literacy in Medieval Celtic Societies*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt. tt. 149-65
- Morgan, D. L., 1989. Kilsby. *Y Casglwr*, Mawrth, Issue 37.
- Morgan, G., 2000. The Morris Brothers. Yn: B. Jarvis, gol. *A guide to Welsh literature c.1700-1800*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt. 64-80
- Morgan, K. O., 1971. Welsh Nationalism: The Historical Background. *Journal of Contemporary History*, VI(1). tt.153-172
- Morgan, K. O., 1981. *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Morgan, K. O., 1982. *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980*. Rhydychen: Oxford University Press.
- Morgan, K. O., 1995. *Modern Wales: Politics, Places and Peoples*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Morgan, P. & Thomas, D., 1984. *Wales: The Shaping of a Nation*. London: David & Charles.

- Morgan, P., 1973. Welsh National Consciousness. Yn: W. Morgan, gol. *The Welsh Dilemma: Some Essays on Nationalism in Wales*. Llandybie: Merlin Press. tt.14-34
- Morgan, P., 1983. From a Death to a View: The Hunt for the Welsh Past in the Romantic Period. Yn: E. Hobsawm & T. Ranger, gol. *The Invention of Tradition*. Caergrawnt: Cambridge University Press. tt.43-100
- Morgan, P., 1988. *A Bible for Wales*. Aberystwyth: Cambrian News.
- Morgan, P., 1991. *Brad y Llyfrau Gleision*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Morgan, P., 1997. *The University of Wales 1939-1993*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Morgan, W., 1980. Beibl Cyssegr-Ian (1588) Cyflwyniad i'r Frenhines Elisabeth I. Yn: C. Davies, gol. *Rhagymadroddion a Chyflwyniadau Lladin 1551-1631*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Murdock, G., 1974. Mass Communication and the Construction of Meaning. Yn: N. Armistead, gol. *Rethinking Social Psychology*. Harmondsworth: Penguin. tt.205-20
- Nairn, T., 2003. *The Break-up of Britain*. 3rd gol. Caeredin: Big Thinking.
- Nelde, P., Strubell, M. & Williams, G., 1996. *Euromosaic: The Production and Reproduction of The Minority Language Groups of the European Union*. Brwsel: Comisiwn Ewropeaidd.
- Okey, R., 1989. Plausible perspectives: Robin Okey on the new Welsh historiography. *Planet*, Chwefror/Mawrth, Issue 73.
- Okey, R., 1991. Iaith ac Addysg Cenhedloedd Di-wladwriaeth yn Ewrop, 1800-1918. Yn: P. Morgan, gol. *Brad y Llyfrau Gleision*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.201-22
- Okey, R., 2000. Iethoedd Llai eu Defnydd a Lleiafrifoedd Ieithyddol yn Ewrop oddi ar 1918: Arolwg Cyffredinol. Yn: G. H. Jenkins & M. A. Williams, gol. *'Eu Hiaith a Gadwant?': Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.627-56
- O'Leary, P., 1999. Iethoedd Gwladgarwch yng Nghymru 1840-1880. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.533-60

- O'Reilly, W., 2015. *Emigration From the Habsburg Monarchy and Salzburg to the New New World, 1700–1848*. Llundain: Routledge.
- Orridge, A., 1981. Uneven Development and Nationalism: 2. *Political Studies*, XXIX(2). tt.181-90
- Özirimli, U., 2000. *Theories of Nationalism*. Llundain: Macmillan Press.
- Pierce, A. M., 2005. Gwasg Gomer: Braslun o'i Blynyddoedd Cynnar a Bywyd ei Sylfaenydd, J.D. Lewis. *Y Llyfr yng Nghymru*, 6. tt.49-70
- Pitchford, S. R., 2001. Image-Making Movements: Welsh Nationalism and Stereotype Transformation. *Sociological Perspectives*, 44(1). tt.45-65
- Pogson, G., 1998. *Digital Technology will Save Your Language*. The Hague, Conference des Services de Traduction des Etats Europeens.
- Prescott, S., 2006. "Gray's Pale Spectre:" Evan Evans, Thomas Gray, and the Rise of Welsh Bardic Nationalism. *Modern Philology*, Awst.104(1). tt. 72-95
- Pretty, D. A., 1992. Caethion y Tir: Gwrthryfel y Gweithwyr Fferm yng Nghymru. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Cof Cenedl VII*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.135-46
- Price, A., 2005. *Gwrthddiwygwyr Cymreig yr Eidal*. Caernarfon: Gwasg Pantycelyn.
- Prichard, R., 1759. Rhyfedd-fyrr Olygiad yn Nrych y Drindod. Yn: D. Jones, gol. *Blodeu-gerdd Cymry*. Y Mwythig.
- Pryce, H., 1998. The Origins and the Medieval Period. Yn: P. H. Jones & E. Rees, gol. *A Nation and its Books*. Aberystwyth: Argraffwyr Cambrian. tt.25-30
- Pryce, W., 1998. Language Areas in North-East Wales c.1800-1911. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Language and Community in the 19th Century*. Cardydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd. tt.21-7
- Pryce, W., 1999. 'Parthau Iaith, Newidiadau Demograffig a'r Ardal Ddiwylliant Gymraeg 1800-1911'. Yn: *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.37-80

- Prys, J., 1951. Yn y Llyvyr Hwnn (1547). Yn: G. H. Hughes, gol. *Rhagymadroddion 547-1659*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.3-4
- Ragin, C. C., 1979. Ethnic Political Mobilization: The Welsh Case. *American Sociological Review*, Awst.44(4). tt.619-35
- Rees, E., 1998. The Welsh Book Trade From 1718 to 1820. Yn: P. H. Jones & E. Rees, gol. *A Nation and its Books*. Aberystwyth: Argraffwyr Cambrian. tt.125-34
- Rees, R., 1962. South Wales and Monmouthshire Newspapers Under the Stamp Acts. *Welsh History Review*, I(3). tt.301-24
- Rees, T., 1867. *Miscellaneous Papers on Subjects Relating to Wales*. Llundain: John Snow & Co..
- Reifowitz, I., 2003. *Imagining an Austrian Nation: Joseph Samuel Bloch and the Search for a Supraethnic Austrian Identity, 1846-1918*. Boulder, CO: East European Monographs.
- Riffe, D., Lacy, S. & Fico, F. G., 2005. *Analyzing media messages : using quantitative content analysis in research*. Mahwah, NJ: Lawrence Erlbaum.
- Robert, P., 2011. Methodistiaeth a Chymdeithas. Yn: J. G. Jones & M. Beech-Hughes, gol. *Hanes Methodistiaeth Calфинаidd Cymru - Cyfrol III: Y Twf a'r Cadarnhad*. Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, tt. 351-421.
- Roberts, B. F., 2011. Llenyddiaeth a Chyhoeddi. Yn: J. G. Jones & M. Beech-Hughes, gol. *Hanes Methodistiaeth Galфинаidd Cymru - Cyfrol III: Y Twf a'r Cadarnhau (c. 1814-1914)*. Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, tt. 187-224.
- Roberts, G. T., 1998. *The Language of the Blue Books: Wales and Colonial Prejudice*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Roberts, P., 1998. *Tudor Wales, national identity and the British inheritance*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

- Roeder, P. G., 2007. *Where Nation-States Come From: Institutional Change in the Age of Nationalism*. Princeton, NJ: Gwasg Prifysgol Princeton.
- Rohlf, H., 1868. *Meidicinische Reisebriefe aus England und Holland. 1866 und 1867*. Leipzig: Friedrich Fleischer.
- Rowlands, J. *Ysgrifau ar y Nofel*. Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd.
- Rhiannon, S., 1988. Y Wasg Gymraeg yng Ngwent. *Y Casglwr*, Rhagfyr, Issue 36.
- Rhys, H. G., 2005. ‘Yr Haiarnfarch’: Y Rheilffyrdd a’r Cymry yn Ystod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Cof Cenedl XX*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.103-31
- Rhys, J. & Brynmor-Jones, D., 1906. *The Welsh People*. Llundain: T. Fisher Unwin.
- Said, E., 1994. *Culture and Imperialism*. Efrog Newydd: Vintage Books.
- Scannell, P., 1996. *Radio, Television and Modern Life: A Phenomenological Approach*. Rhydychen: Blackwell.
- Scott, D., 2004. *Conscripts of Modernity: The Tragedy of Colonial Enlightenment*. Llundain: Duke University Press.
- Scully, R. & Jones, R. W., 2015. The Public Legitimacy of the National Assembly for Wales. *The Journal of Legislative Studies*, 3 Gorffennaf. tt.515-33
- Schiffrin, D., 1994. *Approaches to Discourse*. Rhydychen: Blackwell.
- Schivelbusch, W., 1986. *The Railway Journey*. Los Angeles, CA: University of California Press.
- Seton-Watson, H., 1977. *Nations and States: An Enquiry Into the Origins of Nations and the Politics of Nationalism*. Llundain: Methuen.
- Sims-Williams, P., 1998. The Uses of Writing in Early Medieval Wales. Yn: H. Pryce, gol. *Literacy in Medieval Celtic Societies*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt. tt.15-38
- Siroky, D. S. & Cuffe, J., 2015. Lost Autonomy, Nationalism and Separatism. *Comparative Political Studies*, 48(1). tt.3-34

- Smith, A. D., 1991. *National Identity*. St Ives: Clays Ltd.
- Smith, A. D., 1998. *Nationalism and Modernism*. Llundain: Routledge.
- Smith, A. D., 2000. *The Nation in History: Historiographical Debates about Ethnicity and Nationalism*. Rhydychen: Polity Press.
- Smith, A. D., 2003. *Chosen Peoples*. Efrog Newydd: Gwasg Prifysgo Rhydychen.
- Smith, A. D., 2003. *Nationalism*. Rhydychen: Blackwell.
- Smith, D. J., 2006. Liberal Nationalism in Central Europe by Stefan Auer. *The Slavonic and East European Review*, Gorffennaf.84(3). tt. 571-573
- Smith, J. B., 1989. Llywelyn ap Grufudd a Chenedligrwydd Cymru. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Cof Cenedl IV*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.1-28
- Smith, L. B., 1998. Inkhorn and spectacles: The impact of literacy in late medieval Wales. Yn: H. Pryce, gol. *Literacy in Medieval Celtic Societies*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt. tt. 202-222
- Smith, R., 1999. Addysg Elfennol a'r Iaith Gymraeg 1870-1902. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt. 483-504
- Smith, R., 2000. Newyddiaduraeth a'r Gymraeg. Yn: G. H. Jenkins & M. A. Williams, gol. *'Eu Hiaith a Gadwant?': Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt. 267-98
- Stempel, G. H., 2003. Content Analysis. Yn: G. Stempel, D. Weaver & G. C. Wilhoit, gol. *Mass Communication Research and Theory*. Boston: Allyn & Bacon. tt.209-19
- Stepan, N., 1982. *The Idea of Race on Science: Great Britain, 1800-1960*. Hamden, CT: Archon Books.
- Stevenson, N., 2002. *Understanding Media Cultures: Social Theory and Mass Communication*. London: Sage.



- Stover, J. D., 2012. Modern Celtic Nationalism in the Period of the Great War: Establishing Transnational Connections. *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, Cyfrol 32. tt. 286-301
- Suggett, R., White, E. M. & Jenkins, G. H., 1997. Yr Iaith Gymraeg yn y Gymru Fodern Gynnar. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.45-120
- Sylla, R. & Gianni, T., 2003. Introduction. Yn: *Patterns of European Industrialization*. Efrog Newydd: Routledge. tt. 1-28
- Tajfel, H., 1981. Social Stereotypes and Social Groups. Yn: J. Turner & H. Giles, gol. *Intergroup Behaviour*. Rhydychen: Basil Blackwell. tt. 144–167
- Tajfel, H., Jahoda, G., Nemeth, C. R. Y. & Johnson, N., 1972. The Devaluation by Children of Their Own National and Ethnic Group: Two Case Studies. *British Journal of Social and Clinical Psychology*, Medi.11(3). tt. 235-243
- Taylor, P. M., 1995. *Munitions of the Mind: A history of propaganda from the ancient world to the present day*. Manceinion: Manchester University Press.
- Teich, M. & Porter, R., 1996. *The Industrial Revolution in National Context*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Teo, P., 2000. Racism in the news: a Critical Discourse Analysis of news reporting in two Australian newspapers. *Discourse & Society*, Cyfrol 11. tt.7-49
- Tudur, D., 2006. *The Life, Thought and Work of Daniel Michael Jones*. Bangor: Traethawd Doethuriaeth, Prifysgol Bangor.
- Thomas, B., 1959. Wales and the Atlantic Economy. *Scottish Journal of Political Economy*, Issue 6. Tt.169-192
- Thomas, B., 1999. Pair Dadeni: Y Boblogaeth a'r Iaith Gymraeg yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg. Yn: *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.81-100

- Thomas, M. W., 1999. *Corresponding Cultures: The Two Literatures of Wales*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Thomas, M. W., 2016. *The Nations of Wales: 1890-1914*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Thomas, N., 1985. Images of Ourselves. Yn: J. Osmond, gol. *The National Question Again: Welsh Political Identity in the 1980s*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.306-19
- Thomas, R. M., 1986. Dull Beriah o dra-ddyrchafu ei Genedl. *Y Casglwr*, Awst, Issue 29.
- Thompson, E., 1991. *The Making of the English Working Class*. Llundain: Penguin.
- van Dijk, T. A., 2003. Critical Discourse Analysis. Yn: D. Tannen, D. Schiffrin & H. Hamilton, gol. *Handbook of Discourse Analysis*. Rhydychen: Blackwell. tt. 466-485
- Walker, D., 1990. *Medieval Wales*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Walters, H., 1987. *Y Wasg Gyfnodol Gymreig 1735-1900*. Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- Walters, H., 1998. The Periodical Press to 1914. Yn: P. H. Jones, gol. *A Nation and its Books*. Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru. tt.197-207
- Walters, H., 1999. Y Gymraeg a'r Wasg Gylchgronol. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt. 349-78
- Walters, H., 2002. Michael D. Jones a'r Iaith Gymraeg. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Cof Cenedl XVII*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.105-34
- Wallerstein, I., 1995. *After Liberalism*, Efrog Newydd: The New Press.
- Wallerstein, I., 1997. States? Sovereignty? The Dilemmas of Capitalists in an Age of Transition. *State and Sovereignty in the World Economy*, 21-23 Chwefror. University of California.

- Wank, S., 1997. Disintegration of the Habsburg and Ottoman Empires. Yn: K. Dawisha & B. Parrott, gol. *The End of Empire? The Transformation of the USSR in Comparative Perspective*. Efrog Newydd: M. E. Sharpe. tt.94-115
- Wanta, W., Golan, G. & Lee, C., 2004. Agenda setting and international news: Media influence. *Journalism & Mass Communication Quarterly*, 81(2). tt.364-377
- Ward, P., 2004. *Britishness Since 1870*. Llundain: Routledge.
- Washbourne, N., 2010. *Mediating Politics: Newspaper, Radio, Television and the Internet*. Efrog Newydd: McGraw-Hill.
- Ar gael: <http://www.theguardian.com/politics/wintour-and-watt/2011/may/06/snp-alexsalmond>
- [Cyrchwyd 11 Awst 2015].
- Watt, N., 2011. *Tony Blair's Scottish nightmare comes true as Alex Salmond trounces Labour*. [Ar lein]
- Weber, E., 1977. *Peasants into Frenchmen: The Modernization of Rural France 1870-1914*. Llundain: Chatto and Windus.
- Weissman, L., 1991. Herder, Folklore and Modern Humanism. *Folklore Forum*, 24(1). tt.51-64
- White, D. M., 1950. The Gatekeeper: A case study in the selection of news. *Journalism Quarterly*, Issue 27. tt.383-96
- White, E. M., 1997. Yr Eglwys Sefydledig, Anghydfurfiaeth a'r Iaith Gymraeg c.1660-1811. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- White, E. M., 2011. Addysg a'r Iaith Gymraeg. Yn: *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru - Cyfrol III: Y Twf a'r Cadarnhau (c. 1814-1914)*. Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, tt. 225-70.

- Williams, G. A., 1980. Locating a Welsh Working Class: the Frontier Years. Yn: D. Smith, gol. *A People and a Proletariat*. London: Pluto Press. tt.16-46
- Williams, G. A., 1985. *When Was Wales?*. London: Penguin.
- Williams, G. A., 1989. William Salesbury a Blaendorri'r Iâ. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Cof Cenedl VI*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt.31-62
- Williams, G. J., 1970. *Y Wasg Gymraeg Ddoe a Heddiw*. Y Bala: Llyfrau'r Faner.
- Williams, G. J., 1993. *The University Movement in Wales*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Williams, G., 1950. *Samuel Roberts, Llanbrynmair*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Williams, G., 1967. *Welsh Reformation Essays*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Williams, G., 1981. Economic Development, Social Structure, and Contemporary Nationalism in Wales. *Review*, V(2). tt. 275-310
- Williams, G., 1984. *Grym Tafodau Tân*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Williams, G., 1992. *Sociolinguistics: A Sociological Critique*. Llundain: Routledge.
- Williams, G., 1998. The Renaissance and Reformation. Yn: P. H. Jones & E. Rees, gol. *A Nation and its Books*. Aberystwyth: Argraffwyr Cambrian. tt. 41-54
- Williams, G., 1999. *Rhyddid y Nofel*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Williams, J. E. C., 1993. Cenedlaetholdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol. Yn: G. H. Jenkins, gol. *Cof Cenedl VIII*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.1-35
- Williams, K., 1998. *Get Me a Murder a Day!*. London: Arnold.
- Williams, P., 1977. The Internal Colony. *Planet*, Mai, Issue 37/38. tt.89-96
- Williams, R. 2003. *Who Speaks for Wales? Nation, Culture, Identity*. D. Williams, Gol., Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Williams, S. R., 1991. Y Brad yn y Tir Du: Ardal Ddiwydiannol Sir Fynwy a'r Llyfrau Gleision. Yn: *Brad y Llyfrau Gleision*. Llandysul: Gwasg Gomer. tt.125-45

Wintour, P., 2014. *David Cameron raises West Lothian question after Scotland vote: 'English votes for English laws'*. [Ar lein]

Ar gael: <http://www.theguardian.com/politics/2014/sep/19/david-cameron-devolution-revolution-uk-scotland-vote>

[Cyrchwyd 18 Gorffennaf 2016].

Zappavigna, M., 2012. *Discourse of Twitter and Social Media: How we use language to create affiliation on the web*. Llundain: Continuum.

Zumr, J., 1997. Prof. Peka opravduo historickém vývoji nemá potuchy. Yn: E. Broklova, gol. *Sto let Masarykovy české otázky*. Prague: Masarykova společnost. tt.59-65